Asesiad o Anghenion Fferyllol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Medi 2026

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English.

Cynnwys

Crynodeb gweithredol 4
1 Cyflwyniad 10
2 Trosolwg o Ogledd Cymru 29
3 Anghenion iechyd cyffredinol Gogledd Cymru 56
4 Grwpiau cleifion dynodedig – problemau iechyd penodol 74
5 Darparu gwasanaethau fferyllol 110
6 Gwasanaethau eraill y GIG 122
7 Anghenion iechyd y gellir eu diwallu gan wasanaethau fferyllol 130
8 Ardal Ynys Môn 137
9 Ardal Arfon 151
10 Ardal Dwyfor a Gogledd Meirionnydd 165
11 Ardal De Meirionnydd 178
12 Ardal Gorllewin Conwy 192
13 Ardal Dwyrain Conwy 207
14 Ardal Gogledd Sir Ddinbych 220
15 Ardal Canol a De Sir Ddinbych 233
16 Ardal Gogledd Orllewin Sir y Fflint 247
17 Ardal Gogledd-ddwyrain Sir y Fflint 261
18 Ardal De Sir y Fflint 275
19 Ardal Gogledd a Gorllewin Wrecsam 289
20 Ardal Leol Canol Wrecsam 303
21 Ardal De Wrecsam 316
22 Casgliadau at ddiben atodlen 1 o Reoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 331
Atodiad A – cyd-destun polisi a phapurau cefndir 335
Atodiad B – gwasanaethau hanfodol 339
Atodiad C – gwasanaethau cenedlaethol contractwyr fferylliaeth genedlaethol a chyfarpar 342
Atodiad D – gwasanaethau clinigol ychwanegol 347
Atodiad E – telerau gwasanaeth ar gyfer contractwyr dosbarthu cyfarpar 351
Atodiad F – Aelodaeth o grŵp llywio'r asesiad o anghenion fferyllol 354
Atodiad G – holiadur ymgysylltu â chleifion a'r cyhoedd 355

Atodiad H - canlyniadau llawn holiadur cleifion a'r cyhoedd 367
Atodiad I – holiadur ar gyfer contractwyr fferyllfeydd 386
Atodiad J - holiadur ar gyfer practisau sy'n dosbarthu 389
Atodiad K – adroddiad ymgynghori 392
Atodiad L – oriau agor 413

Crynodeb gweithredol

Mae gan y bwrdd iechyd gyfrifoldeb statudol i gyhoeddi a chadw'n gyfredol ddatganiad o'r anghenion am wasanaethau fferyllol ar gyfer y boblogaeth yn ei ardal, a elwir yn 'asesiad o anghenion fferyllol'. Dyma ail asesiad o anghenion fferyllol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ac mae ei ddatblygiad wedi cael ei oruchwylio gan grŵp llywio a oedd yn cynnwys cynrychiolaeth o'r bwrdd iechyd, Fferylliaeth Gymunedol Cymru, Pwyllgor Meddygol Lleol Gogledd Cymru a Llais.

Mae'r asesiad o anghenion fferyllol:

- Yn nodi anghenion iechyd cyfredol y boblogaeth a sut y byddant yn newid dros oes pum mlynedd y ddogfen (1 Hydref 2026 i 30 Medi 2031),
- Yn disgrifio'r gwasanaethau fferyllol presennol a ddarperir gan fferyllfeydd, contractwyr cyfarpar fferyllol a meddygon fferyllol o fewn ardal y bwrdd iechyd a thu hwnt,
- Yn ystyried newidiadau y gwyddys y byddant yn codi yn ystod oes y ddogfen, megis newidiadau demograffig, datblygiadau tai, prosiectau adfywio, a newidiadau i leoliad darparwyr gwasanaethau eraill y GIG, a
- Yn nodi unrhyw fylchau presennol yn y gwasanaeth a ddarperir ac unrhyw fylchau a fydd yn codi yn ystod oes y ddogfen.

O 1 Hydref 2026 ymlaen, bydd yr asesiad o anghenion fferyllol yn cael ei ddefnyddio gan y bwrdd iechyd wrth ystyried a ddylid caniatáu ceisiadau i ymuno â'i restr fferyllol neu ei restr meddygon fferyllol o dan Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020. Gellir apelio yn erbyn penderfyniadau ar geisiadau o'r fath i Weinidogion Cymru, a fydd wedyn hefyd yn cyfeirio at y ddogfen wrth wrando ar unrhyw apêl o'r fath. Bydd hefyd yn cael ei defnyddio i lywio penderfyniadau ar geisiadau i adleoli safleoedd fferyllfeydd a meddygon fferyllol presennol, ceisiadau i newid oriau agor craidd fferyllfeydd, ac mewn perthynas â chomisiynu gwasanaethau newydd gan fferyllfeydd.

Mae ôl troed Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn gydffiniol ag ôl troed yr ardaloedd awdurdod lleol canlynol:

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy,
- Cyngor Sir Ddinbych,
- Cyngor Sir y Fflint,
- Cyngor Gwynedd,
- Cyngor Sir Ynys Môn, a
- Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

Mae ardal y bwrdd iechyd yn ffinio â Môr Iwerddon i'r gogledd a'r gorllewin, Ceredigion a Phowys i'r de, a Lloegr i'r dwyrain. Caiff y rhanbarth ei ddiffinio gan arfordir, ardaloedd gwledig yn enwedig yn y gorllewin, ac ardaloedd mwy trefol yn y dwyrain, yn bennaf yn Wrecsam a Glannau Dyfrdwy a'r cyffiniau. Mae mwyafrif yr aneddiadau ar hyd yr arfordir, gan gynnwys cyrchfannau sy'n boblogaidd ymhlith twristiaid megis y Rhyl, Llandudno, Pwllheli, Prestatyn a Thywyn. Mae'n fynyddig ac

yn cynnwys Parc Cenedlaethol Eryri, ac mae'r cymysgedd o nodweddion naturiol yn atyniad cryf i dwristiaid ac ymwelwyr.

Mae ymdeimlad cryfach o hunaniaeth Gymreig yn yr ardal, ac mae'n gartref i fwy o siaradwyr Cymraeg nag unrhyw le arall yng Nghymru.

Mae poblogaeth Gogledd Cymru yn cynyddu ac yn heneiddio. Rhagwelir y bydd gostyngiad yng nghyfran y bobl 64 oed ac iau yn ystod oes yr asesiad o anghenion fferyllol hwn (a hyd at 2047) a chynnydd yng nghyfran y bobl 65 oed a throsodd (34%), yn enwedig yn achos rhai 85 oed a throsodd (cynnydd o 98%).

Mae Pennod 1 yn nodi'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer darparu gwasanaethau fferyllol sydd, at ddiben y ddogfen hon, yn cynnwys y gwasanaethau hynny a ddarperir gan fferyllfeydd a chontractwyr cyfarpar fferyllol (y cyfeirir atynt fel gwasanaethau hanfodol, ychwanegol ac uwch) a'r gwasanaeth fferyllol a ddarperir gan rai practisau meddygon teulu i gleifion cymwys. Mae hefyd yn cynnwys safbwyntiau 123 o drigolion o ardal y bwrdd iechyd ynghylch eu defnydd o fferyllfeydd a meddygon fferyllol, a gasglwyd drwy holiadur ar-lein. Mae'r rhain yn dangos:

- Bod fferyllfeydd yn cael eu defnyddio'n bennaf ar gyfer rhoi cyffuriau ar bresgripsiwn, prynu meddyginiaethau neu gael cyngor.
- Bod y rhan fwyaf o bobl yn ymweld â fferyllfa'n fisol.
- O ran y rhai y mae'n well ganddynt ymweld â fferyllfa ar adeg benodol, rhwng 09.00 a 12.00 a rhwng 15.00 i 18.00 yw'r amseroedd mwyaf poblogaidd, ac yna rhwng 18.00 a 21.00.
- O ran y diwrnod o'r wythnos y mae'n well gan bobl ymweld â fferyllfa, nid oedd 44.2% o'r ymatebwyr yn ffafrio unrhyw ddiwrnodau penodol, dywedodd 29.2% eu bod yn ffafrio yn ystod yr wythnos yn gyffredinol a dywedodd 13.3% eu bod yn ffafrio yn ystod y penwythnos yn gyffredinol.
- Y dylanwadau mwyaf cyffredin wrth ddewis pa fferyllfa i'w defnyddio yw pa mor agos ydyw at gyfeiriad y cartref neu'r practis meddyg teulu, lleoliad sy'n hawdd ei gyrraedd, bod ardal breifat ar gyfer sgyrsiau â'r fferyllydd, bod y fferyllfa bob amser â'r meddyginiaethau angenrheidiol mewn stoc, ac ymddiriedaeth yn y staff.
- Bod 67.5% o'r ymatebwyr yn gyrru i fferyllfa a bod 24.2% yn cerdded.
- Gall 95.0% o'r ymatebwyr deithio i fferyllfa o fewn 20 munud.

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi lefel uchel o gyffredinrwydd yn yr ymatebion i'r holiadur hwn o gymharu â'r ymatebion a gafwyd pan ysgrifennwyd yr asesiad o anghenion fferyllol cyntaf.

Mae'r bennod hon hefyd yn cynnwys gwybodaeth a ddarparwyd gan gontractwyr na ellid ei chasglu o ffynonellau cenedlaethol. Dylid nodi bod cyfradd ymateb yr holiadur i gontractwyr fferylliaeth yn is (58.7%) nag ar gyfer yr asesiad o anghenion fferyllol blaenorol (100%). Mae hyn oherwydd y ffaith bod y cwestiynau yn yr holiadur blaenorol wedi'u hymgorffori yn ymarfer dilysu y Gronfa Ddata Fferyllol i Gymru Gyfan y mae'n ofynnol i bob contractwr gymryd rhan ynddo.

- Mae 96.4% o'r fferyllfeydd yn hygyrch i gadeiriau olwyn,

- Mae gan 79 o'r 84 a ymatebodd ardaloedd ymgynghori sy'n bodloni'r safonau gofynnol. O blith y pump nad yw eu hardaloedd ymgynghori yn cydymffurfio, mae gan ddau ohonynt drefniadau amgen ar gyfer trafodaethau cyfrinachol,
- Dywedodd 88.4% o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o gapasiti ar eu safleoedd presennol i ymdopi â chynnydd yn y galw, dywedodd 8.1% nad oes ganddynt ddigon o gapasiti ond y gallent wneud addasiadau, a dywedodd 2.3% nad oes ganddynt ddigon o gapasiti ac y byddent yn ei chael hi'n anodd ymdopi â chynnydd yn y galw.
  Dywedodd 26.7% fod ganddynt ddigon o gapasiti o fewn eu lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw, dywedodd 67.4% nad oes ganddynt ddigon o gapasiti ond y gallent wneud addasiadau, ac ni atebodd 5.8% y cwestiwn hwn.

Yn dilyn trosolwg o nodweddion demograffig trigolion ardal y bwrdd iechyd ym mhennod 2, mae pennod 3 yn canolbwyntio ar eu hanghenion iechyd.

Er mwyn sicrhau bod y rhai sy'n rhannu nodwedd warchodedig a grwpiau cleifion eraill yn gallu cael gafael ar wasanaethau fferyllol, mae pennod 4 yn nodi'r grwpiau penodol sy'n bresennol yn ardal y bwrdd iechyd a'u hanghenion iechyd tebygol.

Mae Pennod 5 yn canolbwyntio ar y gwasanaethau fferyllol a darperir yn ardal y bwrdd iechyd a'r darparwyr hynny sydd wedi'u lleoli y tu allan i'r ardal ond sy'n darparu gwasanaethau i'r rhai sy'n byw yn ardal y bwrdd iechyd. Ym mis Ebrill 2026, roedd 143 o fferyllfeydd wedi'u cynnwys ar restr fferyllol y bwrdd iechyd (gostyngiad o naw ers yr asesiad o anghenion fferyllol blaenorol), sy'n cael eu gweithredu gan 44 o gontractwyr gwahanol. Nid oes unrhyw gontractwyr cyfarpar fferyllol yn ardal y bwrdd iechyd. O blith y 96 o feddygfeydd teulu, mae 34 yn rhoi cyffuriau ar bresgripsiwn i'w cleifion cymwys (gostyngiad o dri) o 42 safle. Yn gyffredinol, mae'r fferyllfeydd wedi'u lleoli mewn ardaloedd â dwysedd poblogaeth uwch a lefelau uwch o amddifadedd mwy, ac mae'r practisau cyflenwi fel arfer wedi'u lleoli mewn ardaloedd â dwysedd poblogaeth is.

Er mwyn asesu a oes gwasgariad daearyddol da o fferyllfeydd ar hyn o bryd, mabwysiadodd y bwrdd iechyd amser teithio o 20 munud mewn car i fferyllfa. Mae hyn yn cyd-fynd â'r asesiad o anghenion fferyllol blaenorol ac yn adlewyrchu natur wledig llawer o Ogledd Cymru. Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod y mwyafrif helaeth o'i boblogaeth o fewn taith 20 munud mewn car i fferyllffa. Mae Google Maps yn datgelu bod yr ardaloedd hynny nad ydynt o fewn taith 20 munud mewn car fel arfer heb boblogaeth breswyl neu mai dim ond ychydig o dai, ffermydd, safleoedd gwersylla a safleoedd carafanau gwasgaredig sydd yno. Fodd bynnag, mae ychydig o bentrefi bach yng Ngorllewin Conwy nad ydynt o fewn taith 20 munud mewn car, ac mae'n debygol y byddai'r trigolion yn cael eu meddyginiaethau gan eu practis meddyg teulu.

Cafodd mwyafrif helaeth (84.3%) yr eitemau a roddwyd ar bresgripsiwn gan y practisau meddygon teulu eu dosbarthu gan un o'r 143 o fferyllfeydd yn 2024/25, a chafodd 13.1% ychwanegol eu dosbarthu neu eu rhoi'n bersonol gan y practisau cyflenwi a 0.9% eu rhoi'n bersonol gan y practisau nad ydynt yn cyflenwi. Dosbarthwyd y 1.7% sy'n weddill yn Lloegr yn bennaf gan fferyllfeydd ychydig dros y ffin neu gan gontractwyr cyfarpar fferyllol, er bod 0.3% wedi'u dosbarthu gan 209 o

fferyllfeydd gwahanol mewn mannau eraill yng Nghymru a'r contractwyr cyfarpar fferyllol yng Nghaerdydd. Gwelwyd patrwm dosbarthu tebyg iawn ar gyfer eitemau a roddwyd ar bresgripsiwn gan bractisau meddygon teulu yn ystod naw mis cyntaf 2025/26.

Mae gwasanaethau sy'n effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol naill ai drwy gynyddu neu leihau'r galw am wasanaeth neu wasanaethau penodol wedi'u nodi ym mhennod 6. Mae gwasanaethau o'r fath yn cynnwys yr ysbytai, practisau meddygon teulu sy'n rhoi eitemau eu hunain, y gwasanaeth meddyg teulu y tu allan i oriau gwaith, Helpa Fi i Stopio, gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, clinigau iechyd rhywiol a gwasanaethau cymunedol eraill.

Yn sgil ystyried anghenion iechyd cyffredinol y boblogaeth, mae pennod 7 yn canolbwyntio ar yr anghenion y gellir eu diwallu gan fferyllfeydd, contractwyr cyfarpar fferyllol a'r gwasanaeth dosbarthu a ddarperir gan rai practisau meddygon teulu.

Mae'r bwrdd iechyd wedi rhannu ei ardal yn 14 o ardaloedd lleol at ddiben y ddogfen hon, yn seiliedig ar y clystyrau meddygon teulu. Mae'r clystyrau'n dwyn ynghyd wasanaethau lleol sy'n ymwneud â darparu iechyd a gofal, ar draws ardal ddaearyddol sydd fel arfer yn gwasanaethu poblogaeth rhwng 25,000 a 100,000. Mae gweithio fel clwstwr yn sicrhau bod gofal yn cael ei gydlynu'n well er mwyn hyrwyddo llesiant unigolion a chymunedau. Felly maent yn ôl troed naturiol ar gyfer yr ardaloedd lleol yn yr asesiad o anghenion fferyllol hwn.

Mae gan bob ardal leol bennod bwrpasol sy'n rhoi sylw i anghenion y boblogaeth, yn ystyried y gwasanaethau fferyllol a ddarperir ar hyn o bryd i'r trigolion, ac yn nodi a yw'r ddarpariaeth bresennol yn diwallu anghenion y trigolion hynny ai peidio. Mae pob pennod yn mynd ymlaen i ystyried a oes unrhyw fylchau o ran cyflenwi gwasanaeth a allai godi yn ystod oes yr asesiad o anghenion fferyllol. Yn yr un modd â'r asesiad o anghenion fferyllol blaenorol, mae'r bwrdd iechyd wedi sicrhau bod y fersiwn hon yn addas ar gyfer y dyfodol fel y gall ymateb pe bai fferyllfa'n cau'n barhaol neu pe bai practis meddyg teulu yn rhoi'r gorau i ddarparu'r gwasanaeth cyflenwi. Mae hyn yn bwysig oherwydd dim ond os ydynt yn diwallu angen cyfredol neu angen yn y dyfodol a nodwyd yn yr asesiad o anghenion fferyllol yn unol â'r rheoliadau y gellir cymeradwyo ceisiadau am fferyllfeydd newydd.

Mae Pennod 22 yn nodi'r anghenion cyfredol a'r anghenion yn y dyfodol a nodwyd gan y bwrdd iechyd. Mae'r bwrdd iechyd wedi pennu mai'r gwasanaethau canlynol yw'r rhai sy'n angenrheidiol er mwyn diwallu'r angen am wasanaethau fferyllol yn ei ardal:

- Gwasanaethau clinigol hanfodol ac ychwanegol a ddarperir ym mhob safle sydd wedi'i gynnwys ar restr fferyllol, a
- Y gwasanaeth dosbarthu a ddarperir gan y practisau meddygon teulu hynny sydd wedi'u cynnwys ar restr meddygon fferyllol.

Mae'r asesiad o anghenion fferyllol wedi nodi angen ar hyn o bryd am fferyllfa ym Metws-y-coed sydd ar agor chwe diwrnod yr wythnos, gan ddarparu'r gwasanaethau canlynol.

- Gwasanaethau hanfodol,
- Gwasanaeth fferyllfa gymunedol glinigol,
- Dychwelyd offer miniog cleifion,
- Rhoi'r gorau i smygu lefel 2, a
- Helpa fi i Stopio – Gwasanaeth fferyllfa

Ni nodwyd unrhyw anghenion cyfredol eraill mewn perthynas â darparu gwasanaethau hanfodol, gwasanaethau clinigol ychwanegol na'r gwasanaeth dosbarthu gan feddygon teulu.

Mae'r bwrdd iechyd hefyd wedi edrych ar newidiadau a ragwelir yn ystod oes y ddogfen, er enghraifft y twf a ragwelir yn y boblogaeth. Yn ogystal, mae wedi ystyried 'Fferylliaeth; 'Cyflawni Cymru Iachach' sy'n nodi'r nodau hirdymor ar gyfer trawsnewid gwasanaethau er mwyn sicrhau'r budd iechyd mwyaf o feddyginiaethau ar bresgripsiwn. O ganlyniad, mae'r asesiad o anghenion fferyllol wedi nodi nifer o anghenion yn y dyfodol ar gyfer gwasanaethau clinigol ychwanegol mewn amgylchiadau penodol, er mai dewis y bwrdd iechyd yw mai'r fferyllfeydd presennol sy'n darparu'r gwasanaethau sydd eu hangen ar y boblogaeth.

Un o ddyheadau 'Fferylliaeth: Cyflawni Cymru Iachach' yw y bydd gan bob fferyllfa bresgripsiynydd annibynnol erbyn 2030, ac mae wedi gosod targedau dros dro, sef y bydd 50% o'r fferyllfeydd ym mhob ardal leol yn darparu'r gwasanaeth hwn erbyn mis Ebrill 2027 a 70% erbyn mis Ebrill 2029. O 2026 ymlaen, rhagwelir y bydd pob fferyllydd newydd gymhwyso hefyd yn cymhwyso fel presgripsiynydd annibynnol ar ôl cwblhau ei raglen israddedig. Os na fydd y targedau dros dro hyn yn cael eu cyflawni mewn un neu fwy o'r ardaloedd lleol, bydd angen yn y dyfodol i nifer digonol o fferyllfeydd yn yr ardal leol ddarparu'r gwasanaeth hwn er mwyn cyflawni'r ddau darged.

Mae 142 o'r fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth fferyllfa gymunedol glinigol sy'n cynnwys y gwasanaeth anhwylderau cyffredin, atal cenhedlu, a chyflenwi meddyginiaethau brys. Mae'r asesiad o anghenion fferyllol wedi nodi, os na fydd y fferyllfa sy'n weddill wedi dechrau darparu'r gwasanaeth hwn erbyn 1 Ebrill 2027, y bydd angen yn y dyfodol i ddarparu'r gwasanaeth hwn ym Modelwyddan, saith diwrnod yr wythnos, am:

- wyth awr y dydd o ddydd Llun i ddydd Gwener,
- chwe awr ar ddydd Sadwrn gan gynnwys 13.00 i 15.00,
- tair awr ar ddydd Sul ar ôl hanner dydd.

Mae'r asesiad o anghenion fferyllol wedi nodi, pe bai oriau agor atodol yn cael eu colli mewn unrhyw ardal leol ar ddydd Sadwrn o 1 Hydref 2026, a hynny'n arwain at lai na thair awr o wasanaethau fferyllol yn cael eu darparu mewn tref/pentref, y bydd angen yn y dyfodol i ddarparu gwasanaethau hanfodol am dair awr agor graidd ar ddydd Sadwrn yn y dref/pentref neu'r trefi/pentrefi lle mae'r gostyngiad mewn oriau agor atodol wedi digwydd, rhwng 09.00 a 17.00, oni bai bod fferyllfa arall yn y dref/pentref, ac yna ni fydd yr angen yn y dyfodol yn codi.

Mae'r asesiad o anghenion fferyllol wedi nodi, pe bai gwasanaethau hanfodol yn cael eu colli oherwydd bod fferyllfa yn cael ei thynnu oddi ar y rhestr fferyllol, y bydd angen yn y dyfodol am naill ai:

- fferyllfa newydd yn yr un dref/pentref sy'n darparu gwasanaethau hanfodol, y gwasanaeth fferyllfa gymunedol glinigol, dychwelyd blychau offer miniog cleifion, gwasanaeth rhoi meddyginiaethau dan oruchwyliaeth, Helpa fi i stopio – gwasanaeth fferyllfa, a gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu lefel 2 am 40 awr agor graidd yr wythnos, neu
- gwasanaeth dosbarthu meddyginiaethau gan feddygon teulu os yw'r dref/pentref mewn ardal a reolir,

oni bai bod fferyllfa arall yn y dref/pentref ac yna ni fydd yr angen hwn yn codi yn y dyfodol.

Mae'r asesiad o anghenion fferyllol hefyd wedi nodi, pe bai practis meddyg teulu yn rhoi'r gorau i ddosbarthu i ardal y mae ganddo gydsyniad amlinellol ar ei chyfer, y bydd angen yn y dyfodol naill ai am:

- wasanaeth dosbarthu gan feddygon teulu yn yr ardal honno tra ei bod yn parhau i fod yn ardal leol a reolir ac yn fwy nag 1.6km mewn llinell syth o fferyllfa, neu
- fferyllfa sydd ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener o leiaf, ac sy'n darparu:
    - pob un o'r gwasanaethau hanfodol, a'r
    - gwasanaeth fferyllfa gymunedol glinigol, offer miniog cleifion, rhoi'r gorau i smygu lefel 2, a helpa fi i stopio – gwasanaeth fferyllfa.

Bydd ymgynghoriad 60 diwrnod yn cael ei gynnal ar ganfyddiadau fersiwn ddrafft o'r asesiad o anghenion fferyllol, fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau, a chaiff y ddogfen ei hadolygu yng ngoleuni'r ymatebion.

1 Cyflwyniad

1.1 Diben asesiad o anghenion fferyllol

Diben yr asesiad o anghenion fferyllol yw asesu a nodi sut y gall darparu gwasanaethau fferyllol ddiwallu anghenion iechyd poblogaeth ardal bwrdd iechyd am gyfnod o hyd at bum mlynedd, gan gysylltu'n agos â Phroffil Iechyd a Lles 2026 y bwrdd iechyd. Er bod y proffil yn canolbwyntio ar anghenion iechyd cyffredinol poblogaeth ardal y bwrdd iechyd, mae'r asesiad o anghenion fferyllol yn ystyried sut y gellir diwallu'r anghenion iechyd hynny gan wasanaethau fferyllol a gomisiynir gan y bwrdd iechyd.

Os bydd person (fferyllfa neu gontractwr ddosbarthu cyfarpar) yn dymuno cynnig gwasanaethau fferyllol, bydd yn ofynnol iddynt gyflwyno cais i'r bwrdd iechyd, y mae'r safle i'w leoli yn ei ardal, i gael eu cynnwys ar ei restr fferyllol. Yn gyffredinol, rhaid i'w cais gynnig diwallu angen a nodir yn asesiad o anghenion fferyllol y bwrdd iechyd hwnnw. Fodd bynnag, ceir dau eithriad i hyn; ceisiadau i newid perchnogaeth ac adleoli at ddibenion busnes.

Os bydd meddyg teulu yn dymuno dosbarthu mewn ardal newydd neu o safle newydd neu ychwanegol, bydd yn ofynnol iddynt hefyd gyflwyno cais i'r bwrdd iechyd i gael eu cynnwys ar ei restr o feddygon dosbarthu, neu i ardal newydd neu safle newydd neu ychwanegol gael eu rhestru mewn perthynas â hwy. Yn gyffredinol, rhaid i'w cais hefyd gynnig diwallu angen a nodir yn asesiad o anghenion fferyllol y bwrdd iechyd hwnnw.

Yn ogystal â nodi a oes angen safle ychwanegol, bydd yr asesiad o anghenion fferyllol hefyd yn nodi a oes angen gwasanaeth neu wasanaethau ychwanegol. Gallai anghenion a nodwyd fod naill ai'n gyfredol neu byddant yn codi o fewn oes pum mlynedd yr asesiad o anghenion fferyllol.

1.2 Dyletswyddau'r bwrdd iechyd mewn perthynas â'r asesiad o anghenion fferyllol

Cyhoeddodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ei asesiad o anghenion fferyllol cyntaf ar 1 Hydref 2021. Mae rhagor o wybodaeth am ddyletswyddau penodol y bwrdd iechyd mewn perthynas ag asesiadau o anghenion fferyllol a chefndir polisi asesiadau o anghenion fferyllol ar gael yn atodiad A. Fodd bynnag, yn gryno, rhaid i'r bwrdd iechyd:

- gyhoeddi datganiadau diwygiedig (h.y. asesiadau o anghenion fferyllol dilynol), bob pum mlynedd, a dylent gydymffurfio â gofynion cyrff rheoleiddio;
- cyhoeddi asesiad dilynol o anghenion fferyllol yn gynt pan fydd yn nodi newidiadau i'r angen am wasanaethau fferyllol sydd o raddfa helaeth, oni bai y byddai gwneud hynny yn ymateb anghymesur i'r newidiadau hynny; a
- llunio datganiadau atodol sy'n esbonio newidiadau i argaeledd gwasanaethau fferyllol mewn rhai amgylchiadau.

1.3 Gwasanaethau fferyllol

Diffinnir y gwasanaethau y mae'n rhaid eu cynnwys mewn asesiad o anghenion fferyllol yn Neddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a Rheoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020.

Gall gwasanaethau fferyllol gael eu cynnig gan:

- gontractwr gwasanaethau fferyllol sydd wedi'i gynnwys yn y rhestr gwasanaethau fferyllol ar gyfer ardal y bwrdd iechyd;
- contractwr dosbarthu offer sydd wedi'i gynnwys yn y rhestr gwasanaethau fferyllol ar gyfer ardal y bwrdd iechyd; a
- meddyg neu bractis meddygon teulu sydd wedi'i gynnwys ar restr meddygon dosbarthu a gedwir ar gyfer ardal y bwrdd iechyd.

Mae pob bwrdd iechyd yn gyfrifol am baratoi, cynnal a chyhoeddi ei restrau. Yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ceir 143 o fferyllfeydd a 34 o bractisau dosbarthu (Mawrth 2026).

Gall contractwyr weithredu naill ai fel masnachwr unigol, partneriaeth, neu gorff corfforedig. Mae Deddf Meddyginiaethau 1968 yn llywodraethu pwy all fod yn gontractwr gwasanaethau fferyllol, ond nid oes cyfyngiad ar bwy all weithredu fel contractwr dosbarthu offer.

1.3.1 Gwasanaethau fferyllol a ddarperir gan gontractwyr gwasanaethau fferyllol

Yn wahanol i feddygon teulu, deintyddion ac optometryddion, nid oes gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gontractau gyda'r contractwyr gwasanaethau fferyllol yn ei ardal. Yn hytrach, maent yn cynnig gwasanaethau o dan fframwaith cytundebol, a elwir weithiau'n fframwaith cytundebol fferylliaeth gymunedol; mae manylion y fframwaith hwnnw (telerau gwasanaeth) wedi'u nodi yn atodlen 5 Rheoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020, Cyfarwyddiadau Gwasanaethau Fferyllol (Gwasanaethau Clinigol) (Cymru) 2022, a Chyfarwyddiadau Gwasanaethau Fferyllol (Gwasanaethau Uwch) (Offer) (Cymru) 2010.

Mae contractwyr gwasanaethau fferyllol yn cynnig tri math o wasanaeth sy'n cael eu cwmpasu gan y diffiniad o wasanaethau fferyllol a fframwaith cytundebol fferylliaeth gymunedol. Dyma'r gwasanaethau hynny:

- Gwasanaethau hanfodol – rhaid i bob fferyllfa ddarparu'r gwasanaethau hyn
    - Dosbarthu presgripsiynau, gan gynnwys cyflenwi cyffur neu offer ar frys heb bresgripsiwn
    - Dosbarthu presgripsiynau amlroddadwy
    - Gwaredu cyffuriau diangen
    - Hyrwyddo ffyrdd iach o fyw
    - Cyfeirio at wasanaethau eraill, a
    - Chymorth ar gyfer hunanofal

- Gwasanaethau cenedlaethol fferylliaeth gymunedol a chontractwyr cyfarpar - gall fferyllfeydd ddewis a chynnig y gwasanaethau hyn ai peidio. Os byddant yn dewis cynnig un neu fwy o'r gwasanaethau hyn, rhaid iddynt fodloni gofynion penodol a rhaid iddynt hefyd gydymffurfio'n llawn â'r gofynion yn ymwneud â gwasanaethau hanfodol a llywodraethu clinigol.
    - Gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol
    - Gwasanaeth adolygu meddyginiaethau ar adeg rhyddhau
    - Gwasanaeth rhagnodi annibynnol gan fferyllwyr
    - Gwasanaeth brechu rhag y ffliw tymhorol
    - Addasu cyfarpar stoma
    - Gwasanaeth cyflenwi profion llif unffordd
    - Adolygiadau o'r defnydd o gyfarpar

- Gwasanaethau clinigol ychwanegol – mae manylebau gwasanaeth ar gyfer y math hwn o wasanaeth yn cael eu datblygu gan y bwrdd iechyd, ac yna, cânt eu comisiynu er mwyn diwallu anghenion iechyd penodol. Dyma'r rhestr o wasanaethau gwell y gellir eu comisiynu:
    - Monitro gwrthgeulyddion
    - Gwasanaeth cartrefi gofal
    - Gwasanaeth rheoli meddyginiaethau penodol i glefydau
    - Gwasanaeth brys i gyflenwi triniaethau a phroffylacsis
    - Gwasanaeth brechu brys yn ystod pandemig
    - Gwasanaeth cyflenwi bwyd nad yw'n cynnwys glwten
    - Gwasanaeth danfon i gartrefi
    - Gwasanaeth mynediad iaith
    - Gwasanaeth adolygu meddyginiaethau
    - Gwasanaeth cymorth i asesu meddyginiaethau a chydymffurfiaeth â hwy
    - Gwasanaeth cyflenwi nodwyddau a chwistrellau
    - Argaeledd gwasanaeth cyffuriau arbenigol ar gais
    - Gwasanaeth y Tu Allan i Oriau
    - Gwasanaeth cyfarwyddyd grwpiau cleifion
    - Gwasanaeth cynorthwyo rhagnodwyr
    - Gwasanaeth ysgolion
    - Gwasanaeth sgrinio
    - Gwasanaeth rhoi'r gorau i ysmygu
    - Gwasanaeth gweini dan oruchwyliaeth
    - Gwasanaeth presgripsiynu
    - Gwasanaeth casglu meddyginiaethau gwrthfeirol
    - Gwasanaeth lleihau gwastraff

Mae rhagor o wybodaeth am ofynion hanfodol ynghylch gwasanaethau cenedlaethol fferylliaeth gymunedol a chontractwyr cyfarpar a gofynion ynghylch gwasanaethau clinigol ychwanegol ar gael yn atodiadau B, C a D yn y drefn honno.

Mae'r gofyniad ar bob contractwr gwasanaethau fferyllol i gyfranogi mewn system llywodraethu clinigol yn sail i ddarparu'r holl wasanaethau hyn. Nodir y system hon yn Rheoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 ac mae'n cynnwys:

- Rhaglen cynnwys cleifion a'r cyhoedd;

- Rhaglen archwiliadau clinigol;
- Cydweithio â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill drwy glystyrau er mwyn nodi a gwella iechyd a lles y boblogaeth a wasanaethir gan y fferyllfa;
- Rhaglen rheoli risgiau;
- Rhaglen effeithiolrwydd clinigol;
- Rhaglen staffio a rheoli staff;
- Rhaglen llywodraethu gwybodaeth; a
- Rhaglen safonau eiddo.

Mae'n ofynnol i fferyllfeydd fod ar agor am o leiaf 40 awr yr wythnos, a gelwir y rhain yn oriau agor craidd, ond gallant ddewis agor am gyfnod hirach, a gelwir yr oriau ychwanegol hynny yn oriau agor atodol. O dan Reoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020, mae'n bosibl i gontractwyr fferyllfeydd gyflwyno cais llwyddiannus i agor fferyllfa â nifer fwy o oriau agor craidd er mwyn diwallu angen a nodwyd mewn asesiad o anghenion fferyllol. Os bydd fferyllfa yn dymuno lleihau ei horiau agor craidd i lai na 40 yr wythnos, rhaid iddi gyflwyno cais i'r bwrdd iechyd yn gyntaf. Fodd bynnag, nid oes rhaid i'r bwrdd iechyd gytuno i gymeradwyo cais o'r fath.

Mae'r oriau agor arfaethedig ar gyfer pob fferyllfa wedi'u nodi yn y cais cychwynnol, ac os caniateir y cais a bydd y fferyllfa'n agor wedi hynny, yr oriau hynny fydd oriau agor cytundebol y fferyllfa. Gall y contractwr gyflwyno cais yn ddiweddarach i newid ei oriau agor craidd, a bydd y bwrdd iechyd yn asesu'r cais gan ystyried anghenion poblogaeth ei ardal (a nodir yn yr asesiad o anghenion fferyllol) i benderfynu a ddylid cytuno i gymeradwyo'r newid yn yr oriau agor craidd ai peidio. Os bydd contractwr gwasanaethau fferyllol yn dymuno newid ei oriau agor atodol, yr unig beth y bydd angen iddynt ei wneud fydd hysbysu'r bwrdd iechyd am y newid, gan roi o leiaf 12 wythnos o rybudd.

1.3.2 Gwasanaethau fferyllol a ddarperir gan gontractwyr dosbarthu cyfarpar

Fel yn achos contractwyr gwasanaethau fferyllol, nid oes gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gontractau â chontractwyr dosbarthu cyfarpar. Nodir eu telerau gwasanaeth yn atodlen 6 Rheoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 a Chyfarwyddiadau Gwasanaethau Fferyllol (Gwasanaethau Uwch) (Offer) (Cymru) 2010.

Mae contractwyr dosbarthu cyfarpar yn darparu'r gwasanaethau canlynol ar gyfer cyfarpar (nid cyffuriau), er enghraifft cathetrau a bagiau colostomi, sy'n cael eu cwmpasu gan y diffiniad o wasanaethau fferyllol:

- Dosbarthu presgripsiynau (yn electronig ac fel arall), gan gynnwys cyflenwi meddyginiaethau brys heb bresgripsiwn;
- Dosbarthu presgripsiynau amlroddadwy;
- Gwasanaeth danfon i gartrefi ar gyfer rhai eitemau;
- Cyflenwi eitemau atodol priodol (e.e. weips tafladwy a bagiau gwaredu);
- Cynnig cyngor clinigol arbenigol ynghylch y cyfarpar, a
- Chyfeirio at wasanaethau eraill.

Gallant hefyd ddewis darparu gwasanaethau uwch. Os byddant yn dewis eu cynnig, rhaid iddynt fodloni gofynion penodol a rhaid iddynt hefyd gydymffurfio'n llawn â thelerau'r gwasanaeth a gofynion yn ymwneud llywodraethu clinigol. Y ddau wasanaeth uwch y gallent eu darparu yw:

- Addasu cyfarpar stoma
- Adolygiadau o'r defnydd o gyfarpar

Fel yn achos fferyllfeydd, mae'n ofynnol i gontractwyr dosbarthu cyfarpar gyfranogi mewn system llywodraethu clinigol. Nodir y system hon yn Rheoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 ac mae'n cynnwys:

- Rhaglen cynnwys cleifion a'r cyhoedd;
- Rhaglen archwiliadau clinigol;
- Rhaglen rheoli risgiau;
- Rhaglen effeithiolrwydd clinigol;
- Rhaglen staffio a staff;
- Rhaglen llywodraethu gwybodaeth; a
- Rhaglen safonau eiddo.

Mae rhagor o wybodaeth am y gofynion ar gyfer y gwasanaethau hyn i'w gweld yn atodiad E.

Mae'n ofynnol i gontractwyr dosbarthu cyfarpar agor am o leiaf 30 awr yr wythnos, a gelwir yn oriau hynny yn oriau agor craidd. Gallant ddewis agor am gyfnod hirach, a gelwir yr oriau ychwanegol hyn yn oriau agor atodol. O dan Reoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 mae'n bosibl i gontractwyr dosbarthu cyfarpar gyflwyno cais llwyddiannus i agor safleoedd â nifer fwy o oriau agor craidd er mwyn diwallu angen a nodwyd mewn asesiad o anghenion fferyllol.

Mae'r oriau agor arfaethedig ar gyfer pob contractwr dosbarthu offer wedi'u nodi yn y cais cychwynnol, ac os caniateir y cais a bydd y contractwr dosbarthu offer yn agor wedi hynny, yr oriau hynny fydd oriau agor cytundebol y fferyllfa. Gall y contractwr gyflwyno cais yn ddiweddarach i newid ei oriau agor craidd. Bydd y bwrdd iechyd yn asesu'r cais gan ystyried anghenion poblogaeth ei ardal (a nodir yn yr asesiad o anghenion fferyllol) i benderfynu a ddylid cytuno i gymeradwyo'r newid yn yr oriau agor craidd ai peidio.

1.3.3 Gwasanaethau fferyllol a ddarperir gan feddygon

Mae Rheoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 yn caniatáu i feddygon ddosbarthu meddyginiaethau i gleifion cymwys o dan rai amgylchiadau. Mae'r rheoliadau'n gymhleth ynghylch y mater hwn, ond dyma grynodeb:

- Rhaid i gleifion fyw mewn 'ardal reoledig' (ardal y mae'r bwrdd iechyd neu sefydliad blaenorol wedi pennu ei bod yn un wledig ei natur, neu ar apêl gan Weinidogion Cymru), sydd fwy nag 1.6km (mesurir hynny mewn llinell syth) o fferyllfa, a

- Rhaid i'w practis fod wedi cael cymeradwyaeth safle a chaniatâd amlinellol i ddosbarthu meddyginiaethau i'r ardal honno.

Ceir rhai eithriadau i hynny, er enghraifft, cleifion sydd wedi bodloni'r bwrdd iechyd y byddent yn cael trafferth ddifrifol wrth geisio cyrchu fferyllfa oherwydd pellter neu annigonolrwydd dulliau cyfathrebu.

1.4 Gwasanaethau eraill y GIG

Caiff gwasanaethau eraill a gomisiynir neu a ddarperir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr sy'n dylanwadu ar yr angen am wasanaethau fferyllol hefyd eu yn yr asesiad o anghenion fferyllol hefyd.

1.5 Sut yr ymgymerwyd â'r asesiad

1.5.1 Grŵp llywio'r asesiad o anghenion fferyllol

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am gyhoeddi'r asesiad o anghenion fferyllol, ac mae cyfarwyddwr gweithredol iechyd y cyhoedd yn atebol am ddatblygu'r asesiad. Sefydlodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr grŵp llywio'r asesiad o anghenion fferyllol a'i ddiben oedd sicrhau bod asesiad o anghenion fferyllol cadarn yn cael ei ddatblygu a'i fod yn cydymffurfio â Rheoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 ac yn diwallu anghenion y boblogaeth leol. Sicrhaodd aelodaeth y grŵp llywio fod yr holl brif randdeiliaid wedi'u cynrychioli a gellir gweld eu manylion yn atodiad F.

1.5.2 Lleoliadau'r asesiad o anghenion fferyllol

Mae'r lleoliadau a ddefnyddiwyd at ddibenion yr asesiad o anghenion fferyllol yn cyfateb i ffiniau clystyrau meddygon teulu, sef:

- Ynys Môn
- Arfon
- Dwyfor a Gogledd Meirionnydd
- De Meirionnydd
- Gorllewin Conwy
- Dwyrain Conwy
- Gogledd Sir Ddinbych
- Canol a De Sir Ddinbych
- Gogledd Orllewin Sir y Fflint
- Gogledd-ddwyrain Sir y Fflint
- De Sir y Fflint
- Gogledd a Gorllewin Wrecsam
- Canol Wrecsam
- De Wrecsam

Mae'r clystyrau'n dwyn ynghyd y gwasanaethau lleol sy'n ymwneud â chynnig iechyd a gofal, ar draws ardal ddaearyddol sydd fel arfer yn gwasanaethu poblogaeth sy'n amrywio o 25,000 i 100,000 o bobl. Mae gweithio fel clwstwr yn sicrhau bod gofal yn cael ei gydlynu'n well i hyrwyddo lles unigolion a chymunedau. Maent felly yn ôl troed naturiol ar gyfer yr ardaloedd o fewn yr asesiad o anghenion fferyllol hwn.


1.5.3 Ymgysylltu â chleifion a'r cyhoedd

Er mwyn cael barn y cyhoedd ynghylch wasanaethau fferyllol, datblygwyd holiadur a oedd ar gael ar-lein rhwng 26 Mawrth 2026 a 27 Ebrill 2026. Hyrwyddwyd yr holiadur ar wefan y bwrdd iechyd a thrwy lwyfannau cyfryngau cymdeithasol. Roedd ar gael yn y Gymraeg ac yn Saesneg a gellir canfod copi, sy'n dangos y cwestiynau a ofynnwyd, yn atodiad G. Gellir canfod y canlyniadau llawn yn atodiad H.

Fe wnaeth tri o bobl ateb yr holiadur yn Gymraeg ac fe wnaeth 123 ei ateb yn Saesneg. Mae'r map gwres isod yn dangos lleoliad y sawl a ymatebodd ar sail ar yr ardal cod post y maent yn byw ynddi. Dylid nodi nad yw'r ardaloedd cod post yn mapio'n llawn i ffiniau ardal y bwrdd iechyd ac ni chafwyd ymatebion o bob ardal cod post.

Map 1.1 - map yn dangos ardaloedd cod post y sawl a ymatebodd i'r holiadur ar gyfer cleifion a'r cyhoedd

Nifer yr ymatebion



Pan ofynnwyd iddynt o ble byddant yn casglu eu meddyginiaethau:


- Fferyllfa oedd ateb 92.1% o bobl;
- Eu meddygfa oedd ateb 7.9% o bobl.

Mewn perthynas â'u dewis iaith wrth ddefnyddio gwasanaethau mewn fferyllfa neu feddygfa:

- Saesneg oedd ateb 87.2% o'r ymatebwyr;
- Cymraeg oedd ateb 12.0% ohonynt.
- Dewisodd 0.8% beidio ag ateb y cwestiwn.

Roedd 82.4% o'r ymatebwyr yn fenywod, 16.0% yn wrywod, ac roedd yn well gan 1.6% ohonynt beidio â dweud. Mae'r ffigur isod yn dangos dadansoddiad oedran yr ymatebwyr.

Ffigur 1.1 – Faint yw'ch oed chi?




Pan ofynnwyd pam eu bod fel arfer yn ymweld â fferyllfa, dyma'r atebion mwyaf cyffredin a gafwyd:

- I gasglu presgripsiwn i mi fy hun – 104 o bobl
- I gasglu presgripsiwn i rywun arall – 55 o bobl
- I brynu meddyginiaethau i mi fy hun – 46 o bobl
- I gael cyngor i mi fy hun – 39 o bobl
- I brynu meddyginiaethau i rywun arall – 23 o bobl
- I gael cyngor i rywun arall – 12 o bobl.

Gellid cynnig sawl ateb i'r cwestiwn hwn.


Mae'r ffigur isod yn dangos pa mor aml y bydd ymatebwyr yn ymweld â fferyllfa. Fel y gellid disgwyl, bydd y rhan fwyaf o bobl yn ymweld â fferyllfa bob mis, sy'n adlewyrchu hyd presgripsiwn.

Ffigur 1.2 – Pa mor aml fyddwch chi'n ymweld â fferyllfa?



Ni wnaeth 32.2% o'r ymatebwyr nodi adeg fwyaf cyfleus i ddefnyddio fferyllfa, ond o blith y sawl a wnaeth nodi hynny, yr adeg fwyaf cyfleus oedd y cyfnod rhwng 09.00 a 12.00 (25.6% o'r ymatebion), ac yna rhwng 15.00 a 18.00 (15.7% o'r ymatebion), yna rhwng 18.00 a 21.00 (12.4%), ac yna rhwng 12.00 a 15.00 (11.6%).

Ffigur 1.3 - Pryd yw'r adeg fwyaf cyfleus i chi ddefnyddio fferyllfa?



Pan ofynnwyd pa ddiwrnod oedd yn fwyaf cyfleus i ddefnyddio fferyllfa:

- Dywedodd 45.1% nad oeddent yn ffafrio unrhyw adeg benodol.

- Dywedodd 28.7% ar ddiwrnodau'r wythnos ar y cyfan;
- Dywedodd 13.1% ar benwythnosau yn gyffredinol,
- Dywedodd 6.4% ar ddydd Sadwrn, ac
- Roedd y 13.1% arall wedi'u gwasgaru'n gyfartal rhwng dyddiau penodol yn ystod yr wythnos a dydd Sadwrn.

Dywedodd 31 o bobl nad oeddent wedi gallu defnyddio eu fferyllfa arferol yn ystod cyfnod diweddar. Pan ofynnwyd iddynt beth oeddent wedi'i wneud yn lle hynny:

- Nododd 20 o bobl eu bod wedi mynd i fferyllfa arall;
- Nododd 8 o bobl eu bod wedi aros iddi agor;
- Ffoniodd 3 o bobl Galw Iechyd Cymru neu GIG 111 Cymru, cysylltodd dau â'u meddygfa, cysylltodd un â'r gwasanaeth meddygon teulu y tu allan i oriau, a
- Gofynnodd un i ffrind.

Gofynnai'r holiadur i bobl am eu dewis o fferyllfa. Dywedodd 81.1% y byddent bob amser yn defnyddio'r un fferyllfa, dywedodd 16.4% y byddent yn defnyddio gwahanol fferyllfeydd ond bod yn well ganddynt ymweld ag un yn amlach, dywedodd 1.6% y byddent bob amser yn defnyddio gwahanol fferyllfeydd, a dywedodd 0.8% nad fyddent fyth yn defnyddio fferyllfa.

Mae'r tabl isod yn dangos yr 11 peth pwysicaf sy'n dylanwadu ar ddewis fferyllfa.

Tabl 1.1 – beth sy'n dylanwadu ar eich dewis o fferyllfa?

Rheswm	**Nifer yr ymatebwyr**
Yn agos at fy nghartref	85
Yn agos at fy meddyg	51
Mae lleoliad y fferyllfa yn hawdd ei gyrraedd	41
Ceir lle preifat os bydd angen i mi siarad â'r fferyllydd	37
Rwy'n wastad wedi defnyddio'r fferyllfa hon	35
Mae'n hawdd parcio wrth y fferyllfa	30
Mae'r staff yn fy adnabod ac yn gofalu amdanaf	29
Y gwasanaeth cwsmeriaid	27
Mae'r fferyllfa'n cynnig gwybodaeth a chyngor da	26
Mae gan y fferyllfa oriau agor da	25
Fel arfer, bydd ganddyn nhw gyflenwadau o'r pethau y bydd eu hangen arnaf i	24


Pan ofynnwyd iddynt a oedd fferyllfa fwy cyfleus a/neu agosach na fyddant yn ei defnyddio, dywedodd 30 (24.6%) fod fferyllfa fwy cyfleus neu agosach atynt, a nodwyd y rhesymau canlynol.

Tabl 1.2 – rhesymau dros beidio â defnyddio fferyllfa fwy cyfleus a/neu agosach

Rheswm	Nifer yr ymatebion
Mae'r gwasanaeth yn rhy araf	8
Rydw i wedi cael profiad gwael yn y gorffennol	5
Nid yw'n hawdd parcio wrth y fferyllfa	3
Nid oes digon o breifatrwydd	3
Nid oes ganddynt gyflenwadau o'r pethau sydd eu hangen arnaf.	3
Anfonir presgripsiynau i fferyllfa arall	2
Ni fydd y fferyllfa ar agor pan fydd ei hangen arnaf.	1
Nid yw'r staff yn fy adnabod i	1
Nid yw'n addas i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn/coetsis babanod	1

Yna, holai'r holiadur sut fyddai pobl yn teithio i fferyllfeydd.

Ffigur 1.4 - os byddwch chi'n mynd i'r fferyllfa ar eich pen eich hun neu gyda rhywun, sut fyddwch chi fel arfer yn cyrraedd yno?




O blith y sawl a ddewisodd "arall":

- ni fydd un unigolyn yn ymweld â fferyllfeydd,
- Bydd un unigolyn yn teithio mewn car ac yn cerdded.

Yn achos y mwyafrif o'r ymatebwyr, bydd eu hamser teithio yn llai na 15 munud (89.3%), ac mae 95% yn byw o fewn 20 munud i fferyllfa. Yn achos 5.0%, bydd angen mwy nag 20 munud i deithio i fferyllfa.

Ffigur 1.5 - faint o amser sydd ei angen fel arfer i gyrraedd y fferyllfa?



Yn achos y sawl y bydd eu taith yn para mwy nag 20 munud:

- bydd pedwar o bobl yn mynd mewn car,
- bydd un yn cerdded, a
- bydd un yn teithio ar fws.

Pan ofynnwyd iddynt a fyddent yn dweud y byddent yn cael trafferth cyrraedd fferyllfa, dywedodd 93.4% na fyddent. Yn achos y saith ymatebydd a ddywedodd y byddent yn cael trafferth, darparwyd y wybodaeth ganlynol.

- Mae un unigolyn yn gaeth i'w gartref,
- Mae gan un unigolyn anableddau corfforol,
- Bydd un unigolyn yn cael trafferth parcio,
- Mae'n anodd i un unigolyn deithio i fferyllfa arall,
- Mae gan un unigolyn gyflwr hirdymor sy'n golygu na fyddant weithiau'n gallu gyrru a byddant yn dibynnu ar eu gŵr,
- Nid yw un unigolyn yn gyrru, ac
- Mae gan un unigolyn broblemau symudedd.

Chwilio drwy'r rhyngrwyd oedd y ffordd fwyaf poblogaidd o ganfod gwybodaeth am fferyllfa, er enghraifft, oriau agor a'r gwasanaethau a gynigir (85 o ymatebwyr), ac yna ffonio'r fferyllfa (37 o ymatebwyr), galw heibio a gofyn (23 o ymatebwyr), defnyddio cyfryngau cymdeithasol (18 o ymatebwyr), edrych yn y ffenestr (15 o ymatebwyr), ffonio GIG 111 Cymru neu ddefnyddio ei wefan (chwech o bobl), a gofyn i ffrind (pedwar o ymatebwyr). Gellid dewis sawl opsiwn yn achos y cwestiwn hwn.

Pan ofynnwyd iddynt a oeddent yn teimlo eu bod yn gallu trafod rhywbeth preifat â fferyllydd, atebodd y mwyafrif naill eu bod yn gallu (56.6%) neu nad oeddent erioed wedi gorfod gwneud hynny (22.1%). Fodd bynnag, dywedodd 14.8% o'r ymatebwyr nad oeddent yn gallu gwneud hynny.

Er bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn defnyddio fferyllfa er mwyn cael presgripsiwn, mae fferyllfeydd yn cynnig ystod o wasanaethau clinigol. Rhestrai'r holiadur nifer o wasanaethau a ddarperir gan bob fferyllfa neu'r rhan fwyaf ohonynt yn ardal y bwrdd iechyd a gofynnai a oedd yr ymatebwyr yn ymwybodol ohonynt. Mae'r tabl isod yn dangos eu hymatebion.

Tabl 1.3 – a ydych chi'n ymwybodol y gallech chi gael mynediad at y gwasanaethau canlynol gan fferyllfeydd fel rhan o'r GIG?

Gwasanaeth	Nifer y bobl sy'n ymwybodol o'r gwasanaeth
Brechiadau rhag y ffliw	101
Cynllun anhwylderau cyffredin	95
Cymorth i roi'r gorau i ysmygu	48
Dulliau atal cenhedlu hormonaidd brys, a elwir hefyd yn 'bilsen y bore wedyn'	44
Gwasanaeth adolygu meddyginiaethau ar adeg rhyddhau	32
Gwasanaeth adolygu'r defnydd o gyfarpar	15

Fe wnaeth 63 o bobl gynnig rhagor o sylwadau ynghylch eu profiad o ddefnyddio eu fferyllfa leol. Cafwyd 24 o sylwadau cadarnhaol, 35 o rai negyddol, a phedwar a oedd yn gadarnhaol ac yn negyddol.

Canolbwyntiai'r sylwadau cadarnhaol ar y gwasanaeth a ddarperid a'r staff cyfeillgar a chymwynasgar oedd yn gwneud eu gorau glas i ddiwallu anghenion pobl.

Mae enghreifftiau o'r sylwadau cadarnhaol yn cynnwys:

- "Staff rhagorol a gwybodus. Bob amser yn barod i gynorthwyo"
- "Gwasanaeth rhagnodi yn ddefnyddiol iawn"
- "Rhaid i mi ddweud bod y Fferyllfa rwy'n ei defnyddio yn wych, mae'r staff yn wych ac yn hynod o gymwynasgar. Maent yn fy adnabod a byddwn yn cael sgwrs hwyliog. Os bydd gen i broblem, byddant yn dda iawn ac yn egluro popeth."
- "Mae fy fferyllfa yn rhan hanfodol o'n cymuned, yn enwedig i bobl ifanc ac i'r henoed, a hefyd, fel yn fy achos i, i bobl nad ydynt yn gyrru neu rai sydd heb unrhyw ddull teithio."
- "Staff cyfeillgar. Bob amser yn fodlon helpu. Byddant yn gwneud ymdrech wych i'n helpu ni bob tro"

O ran y sylwadau negyddol, dyma'r prif themâu:

- Gwasanaeth araf a gorfod treulio amser yn ciwio
- Fferyllfeydd ddim ar agor ar benwythnosau nac yn hwyrach gyda'r hwyr yn ystod yr wythnos
- Ni ellir canfod presgripsiynau ac felly bydd oedi cyn eu dosbarthu.
- Hyd yr amser sy'n ofynnol i allu dosbarthu presgripsiynau, yn enwedig pan anfonir hwy i ganolfan ddosbarthu
- Diffyg cyflenwadau neu eitemau heb eu cynnwys yn achosi ymweliadau dro ar ôl tro (nid oedd yn eglur a oedd hynny'n broblem â'r fferyllfeydd perthnasol neu'n broblem oherwydd y prinder cenedlaethol)
- Gwasanaeth cwsmeriaid gwael
- Camgymeriadau'n digwydd

Mae enghreifftiau o'r sylwadau negyddol yn cynnwys:

- "Mae problem gyda stoc bob amser. Amser aros i'r presgripsiwn gael ei ddosbarthu. Diffyg lle."
- "Mae gen i bresgripsiwn rheolaidd am feddyginiaeth a byddaf arni am weddill fy oes. Byddaf yn cyflwyno fy mhresgripsiwn yn y feddygfa sy'n ei awdurdodi wedyn ac yn ei anfon i'r fferyllfa. Alla' i ddim dweud sawl gwaith nad yw fy mhresgripsiwn i'w weld yn y feddygfa. Bron bob tro, nid yw pob un o'r cyffuriau sydd eu hangen arna' i ar gael sy'n golygu bod angen cerdded i'r fferyllfa unwaith eto. Mae problem bob tro, weithiau bydd y presgripsiwn wedi diflannu i agendor rhwng y feddygfa a'r fferyllfa.
- "Roeddwn i'n arfer gadael fy mhresgripsiwn rheolaidd yn y fferyllfa ar gyfer y mis nesaf. Byddent yn anfon y cais am bresgripsiwn at y meddyg ac yn anfon neges destun ataf i pan oedd yn barod. Yn achlysurol, byddwn i'n gweld ei fod wedi cael ei anfon at y meddyg teulu anghywir. Cyrhaeddodd bwynt lle byddwn i heb fy meddyginiaeth yn gyson, oherwydd hyn, rydw i bellach yn cadw fy mhresgripsiwn rheolaidd fy hun ac yn mynd ag o at y feddygfa fy hun erbyn hyn. Mae'r amser y mae'n ei gymryd i fynd â'r presgripsiwn at y siop fferyllydd ac i'r feddyginiaeth fod yn barod bellach yn cymryd mwy na saith niwrnod."
- "Rwyf wedi gorfod newid fy fferyllfa i un arall oherwydd amseroedd aros hir... Y tro diwethaf, bûm i'n aros am 50 munud ac roedd rhaid i mi sefyll ac aros...dim esboniad, dim cyfathrebu, ac erbyn i mi dderbyn fy mhresgripsiwn, roedd saith o bobl eraill hefyd yn aros ac roedd 5 o'r rhain yn oedrannus ac nid oedd ganddynt hyd yn oed gadair i eistedd arni..."
- Cael gwybod bod presgripsiwn yn barod, er bod rhif cyswllt ganddynt, nid ydynt yn rhoi gwybod, nid yw'r presgripsiwn byth yn barod ac yn aml, nid yw ar gael y diwrnod hwnnw"

Yna gofynnai'r holiadur a oedd unrhyw rwystrau rhag cael mynediad at wasanaethau mewn fferyllfa nad oeddent eisoes wedi'u crybwyll. Dyma brif themâu'r 18 ymateb a gafwyd:

- Oriau agor (wyth o bobl) – ar gau yn ystod amser cinio, gyda'r hwyr ac ar y penwythnos,

- Cynnig gwasanaeth anghyson/anghyfleus (tri unigolyn),
- Diffyg gwasanaeth danfon (dau unigolyn).

Yn achos y deg o bobl y byddai eu meddygfa'n dosbarthu meddyginiaethau iddynt:

- Nid oedd saith yn ffafrio adeg benodol i ddefnyddio cownter fferyllfa, dywedodd dau rhwng 14.30 a 18.30, a dywedodd un rhwng 12.00 a 14.30.
- Nid pedwar yn ffafrio diwrnod penodol, dywedodd dau ddydd Iau, dywedodd dau rhwng dydd Llun a dydd Gwener ar y cyfan, dywedodd un ddydd Mercher a dywedodd 10.0% ddydd Gwener.
- Dywedodd dau unigolyn nad oeddent wedi gallu defnyddio'r cownter fferyllfa yn ddiweddar. Roedd un wedi mynd i fferyllfa ac roedd y llall wedi aros neu gwnaeth y cownter fferyllfa agor.
- Bydd pob un o'r saith yn gyrru i ymweld â'r cownter fferyllfa.
- Yn achos dau unigolyn, bydd eu taith yn llai na phum munud, yn achos pump, bydd rhwng pump a 15 munud, yn achos un unigolyn bydd yn fwy na 15 munud ond llai nag 20 munud, ac yn achos dau unigolyn, bydd yn fwy nag 20 munud. Bydd y ddau unigolyn hyn yn gyrru i ymweld â'r cownter fferyllfa.
- Dywedodd un unigolyn y byddant yn cael trafferth teithio i ymweld â'r cownter fferyllfa oherwydd eu gwaith amser llawn, felly bydd yn rhaid iddynt ofyn i aelod o'r teulu gasglu eu presgripsiwn amlroddadwy.

Pan ofynnwyd iddynt a oedd unrhyw beth arall yr hoffent ei ddweud am eu profiad o ddefnyddio'r cownter fferyllfa yn eu meddygfa, dyma themâu'r sylwadau:

- Gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol
- Oriau agor cyfyngedig/defnydd cyfyngedig o gyfleusterau ar ap y GIG
- Cawl presgripsiynau anghyflawn
- Ffafrio bod fferyllfa yn rhan o'r broses dosbarthu meddyginiaethau.

Dywedodd un unigolyn fod oriau agor y cownter fferyllfa yn rhwystr oherwydd byddent yn gweithio yn ystod yr un oriau.

Dywedodd chwech o bobl eu bod hwythau hefyd yn defnyddio fferyllfa.

1.5.4 Ymgysylltu â chontractwyr

Ymgymerwyd â holiadur ar-lein ar gyfer fferyllfeydd, a phenderfynwyd gofyn yn unig i gontractwyr am wybodaeth na ellid ei chanfod yn unman arall.

Mae copi o'r holiadur i'w gael yn atodiad I.

Gellid ateb yr holiadur rhwng 9 Mawrth a 7 Ebrill 2026 a chrynhoir y canlyniadau isod. Ymatebodd 84 o fferyllfeydd yn ardal y bwrdd iechyd.

Cadarnhaodd 81 o fferyllfeydd fod yr adeilad yn hygyrch i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn. Cadarnhaodd 84 o fferyllfeydd fod ganddynt fannau ymgynghori, ac roedd 77 o'r rheiny yn hygyrch i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn. Roedd un arall a fyddai'n hygyrch yn cael ei hadeiladu i'w hagor yn haf 2026.

Mae gallu cynnig man ymgynghori sy'n bodloni pedwar gofyniad penodol yn rhagofyniad er mwyn gallu cynnig gwasanaethau cenedlaethol contractwyr gwasanaethau fferylliaeth a dosbarthu cyfarpar. Mae'r pedwar gofyniad fel a ganlyn:

1. dylai'r fan ymgynghori fod yn ystafell gaeedig,
2. dylai'r fan ymgynghori fod yn llecyn gall y claf a'r fferyllydd eistedd gyda'i gilydd,
3. dylai'r claf a'r fferyllydd allu siarad yn y ffordd arferol heb i staff y fferyllfa nac ymwelwyr â'r fferyllfa ddigwydd eu clywed
4. dylid dynodi'n eglur ei bod yn fan ble gellir ymgymryd ag ymgynghoriadau cyfrinachol sy'n wahanol i fannau cyhoeddus cyffredinol y fferyllfa.

Ar sail yr ymatebion gan y fferyllfeydd:

- Mae 83 o'r mannau ymgynghori yn bodloni gofynion un, dau a phedwar, ac
- Mae 79 yn bodloni gofyniad tri.

Cadarnhaodd un fferyllfa nad yw ei man ymgynghori yn bodloni'r holl ofynion a bod ganddi drefniadau eraill ar waith i allu ymgymryd â thrafodaethau cyfrinachol.

Mae gan 56 o fferyllfeydd siaradwyr Cymraeg ymhlith aelodau eu staff, ac roedd 32 fferyllfa yn cynnig gwybodaeth am ieithoedd (ac eithrio Saesneg) a siaredir gan y staff.

- Pwyleg – 12 fferyllfa
- Wrdw – saith fferyllfa
- Hindi – pum fferyllfa
- Gwjarati – tair fferyllfa
- Rwmaneg – tair fferyllfa
- Arabeg – dwy fferyllfa
- Ffrangeg – dwy fferyllfa
- Maleieg – dwy fferyllfa
- Pwnjabeg – dwy fferyllfa
- Sbaeneg – dwy fferyllfa
- Asante Twi, Begaleg, Ffarsi, Almaeneg, Ghanaieg, Eidaleg, Mandarin, Parsi, Portiwgaleg a Chorëeg - un fferyllfa fesul un.

Er bod gofyn i fferyllfeydd ddosbarthu holl bresgripsiynau dilys y GIG am gyffuriau, gallant ddewis pa gyfarpar y byddant yn eu cyflenwi fel rhan o'u busnes arferol. Cadarnhaodd 82 o fferyllfeydd eu bod yn cynnig pob math o gyfarpar, roedd un yn cynnig rhwymynnau yn unig, ac nid yw un yn cynnig unrhyw gyfarpar.

Bydd 81 o'r fferyllfeydd yn casglu presgripsiynau o feddygfeydd teulu fel gwasanaeth preifat, yn rhad ac am ddim.

Mae 66 o fferyllfeydd yn danfon eitemau a ddosberthir i gleifion fel gwasanaeth preifat, yn rhad ac am ddim, ac mae 13 yn cynnig hynny fel gwasanaeth preifat y codir tâl amdano.

Mae 58 o fferyllfeydd yn cyfyngu'r gwasanaeth hwn i gleifion oedrannus a chleifion sy'n gaeth i'w cartrefi.

Mae chwe fferyllfa yn cyfyngu'r gwasanaeth danfon i ardaloedd penodol.

Mae gan un fferyllfa fan casglu awtomataidd ar y safle ac mae un arall yn bwriadu gosod un yn 2026/27.

Er mwyn cynorthwyo i nodi unrhyw fylchau yn y gwasanaethau clinigol ychwanegol sy'n cael eu cynnig ar hyn o bryd, gofynnwyd i fferyllfeydd gadarnhau a oes gofyniad am wasanaeth ychwanegol presennol nad yw'n cael ei gynnig yn yr ardal ar hyn o bryd, a chynnig y dystiolaeth i ategu hynny. Fe wnaeth chwe fferyllfa awgrymu gwasanaethau.

- Cynnig y gwasanaeth rhagnodi annibynnol gan fferyllwyr y tu allan i oriau gwaith arferol.
- Brechiadau iechyd teithwyr drwy'r GIG (dwy fferyllfa).
- Gwiriadau pwysedd gwaed (dwy fferyllfa).
- Microsugno clustiau drwy'r GIG.

Awgrymodd chwe fferyllfa fod gofyniad am y gwasanaethau newydd canlynol.

- Cynnwys mwy o wasanaethau rhagnodi.
- Gwiriadau pwysedd gwaed (dwy fferyllfa).
- Systemau dosio a gânt eu monitro.
- Archwilio mannau du a chryotherapi.
- Mwy o frechiadau e.e. rhag yr eryr.

Pan ofynnwyd a oedd angen gwasanaeth newydd nad oedd ar gael ar y pryd, awgrymwyd y canlynol:

- Gwasanaeth gwirio pwysedd gwaed
- Cynnwys mwy o wasanaethau rhagnodi
- Systemau dosio a gânt eu monitro
- Gwasanaeth gwirio mannau du
- Cryotherapi
- Ystod fwy o frechiadau e.e. rhag yr eryr.

Gan gydnabod bod y galw am wasanaethau fferyllol yn cynyddu oherwydd nifer o resymau gan gynnwys y cynnydd parhaus yn nifer yr eitemau sy'n cael eu rhagnodi a phoblogaeth sy'n tyfu, holai'r fferyllfeydd a allent ymdopi â'r cynnydd hwn.

- Dywedodd 76 o fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o gapasiti yn eu hadeiladau presennol i ddiwallu cynnydd yn y galw, dywedodd saith fferyllfa nad oedd ganddynt ddigon o gapasiti ond y gallent wneud addasiadau er mwyn sicrhau hynny, a dywedodd un fferyllfa nad oedd ganddi gapasiti a byddai'n cael trafferth rheoli cynnydd yn y galw.

- Dywedodd 23 o fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o gapasiti o fewn eu lefelau staffio presennol i ddiwallu'r cynnydd yn y galw, dywedodd 57 o fferyllfeydd nad oedd ganddynt gapasiti ond y gallent wneud addasiadau er mwyn sicrhau hynny. Ni wnaeth pedair fferyllfa ymateb i'r cwestiwn hwn.

Mae gan nifer o'r fferyllfeydd gynlluniau i ddatblygu neu ehangu'r gwasanaethau y maent yn eu cynnig.

- Mae naw yn bwriadu dechrau cynnig gwasanaeth rhagnodi annibynnol gan fferyllwyr yn 2026, mae saith yn bwriadu cynnig mwy o'r gwasanaeth hwn, ac mewn tair fferyllfa, ceir fferyllwyr sy'n hyfforddi i fod yn rhagnodwyr annibynnol.
- Mae gan wyth gynlluniau i ehangu'r adeilad neu symud i adeilad newydd er mwyn gallu cynnig mwy o ystafelloedd ymgynghori.
- Mae un yn ystyried yr opsiwn i ymestyn ei horiau agor.
- Mae un yn bwriadu dechrau cynnig gwasanaeth rhoi'r gorau i ysmygu.
- Mae un yn ystyried awtomeiddio.
- Mae gan un ail fferyllydd yn dechrau a fydd yn cymhwyso'n rhagnodydd annibynnol yn 2026. Mae ganddi hefyd ddau dechnegydd sy'n cynnig gwasanaethau yn unol â chyfarwyddiadau grwpiau cleifion.
- Mae un yn bwriadu cynyddu'r gwasanaethau preifat a gynigir e.e. brechiadau at ddibenion teithio a cholli pwysau os na fydd cynnydd yng ngwasanaethau'r GIG.

Ymgymerwyd â holiadur ar-lein ar gyfer practisau meddygon teulu sy'n dosbarthu presgripsiynau hefyd, a gellid ateb yr holiadur hwn rhwng 9 Mawrth a 7 Ebrill 2026. Fel yn achos fferyllfeydd, penderfynwyd gofyn yn unig i gontractwyr am wybodaeth na ellid ei chanfod yn unman arall.

Mae copi o'r holiadur ar gael yn atodiad J.

O blith y 34 meddygfa â chownter fferyllfa, ymatebodd chwech.

Mae oriau agor y cownteri fferyllfa yn amrywio o feddygfa i feddygfa, ond ar y cyfan, maent yn adlewyrchu oriau agor adeilad y feddygfa h.y. o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 08.30 a 18.00.

O ran dosbarthu cyfarpar, dywedodd y chwech eu bod yn dosbarthu pob math o gyfarpar o'r safle.

O ran gwasanaethau danfon, dywedodd tri phractis eu bod yn cynnig gwasanaeth danfon, dwy i ardaloedd penodol ac un i gleifion sy'n gaeth i'w cartrefi yn unig. Dywedodd un practis ei fod yn arfer cynnig gwasanaeth danfon ond roedd y gwasanaeth hwnnw wedi dod i ben yn 2024.

Cadarnhaodd pum practis fod ganddynt siaradwyr Cymraeg ymhlith aelodau eu staff. Ni adroddwyd y siaredid unrhyw ieithoedd ac eithrio'r Saesneg.

Mae gan dri o'r practisau ddigon o gapasiti yn eu hadeiladau presennol i ymdopi â chynnydd yn y galw am wasanaeth cownter fferyllfa, dywedodd dau nad oedd

ganddynt gapasiti ond y gallent wneud addasiadau, a dywedodd un nad oedd ganddynt gapasiti ac y byddai'n anodd iddynt ymdopi â chynnydd yn y galw. Mae gan ddau o'r practisau ddigon o gapasiti yn eu hadeiladau presennol i ymdopi â chynnydd yn y galw am wasanaeth cownter fferyllfa, dywedodd dau nad oedd ganddynt gapasiti ond y gallent wneud addasiadau, a dywedodd un nad oedd ganddynt gapasiti ac y byddai'n anodd iddynt ymdopi â chynnydd yn y galw.

Cynigir y gwasanaethau canlynol sy'n gysylltiedig â dosbarthu meddyginiaethau gan y practisau hefyd:

- Mae tri yn cynnig siartiau cofnodi gweini meddyginiaethau i breswylwyr cartrefi gofal, ac mae un yn eu cynnig i gleifion yn gyffredinol.
- Mae tri yn cynnig pecynnau pothelli.
- Roedd tri yn derbyn offer miniog gan gleifion.
- Mae gan un fan casglu awtomataidd.

1.5.5 Ymgynghoriad

Mae adroddiad ar yr ymgynghoriad gan gynnwys unrhyw newidiadau i'r asesiad o anghenion fferyllol wedi'i gynnwys yn Atodiad K.

2 Trosolwg o Ogledd Cymru

2.1 Cyflwyniad

Mae gan Ogledd Cymru boblogaeth breswyl o 697,115 o bobl, sy'n byw ar draws ardal o oddeutu 2,500 milltir sgwâr. Mae'n ffinio â Môr Iwerddon i'r gogledd a'r gorllewin, Ceredigion a Phowys i'r de, a Lloegr i'r dwyrain. Mae'r rhanbarth yn cael ei ddiffinio gan arfordirol, ardaloedd gwledig yn enwedig yn y gorllewin, ac ardaloedd mwy trefol yn y dwyrain yn bennaf yn Wrecsam a Glannau Dyfrdwy a'r cyffiniau. Mae'r mwyafrif o aneddiadau ar hyd yr arfordir, gan gynnwys cyrchfannau sy'n boblogaidd gyda thwristiaid fel y Rhyl, Llandudno, Pwllheli, Prestatyn a Thywyn. Mae'n fynyddig ac yn cynnwys Parc Cenedlaethol Eryri, ac mae'r cymysgedd o nodweddion naturiol yn atyniad cryf i dwristiaid ac ymwelwyr.

Mae ymdeimlad cryfach o hunaniaeth Gymreig yn yr ardal, ac mae'n gartref i fwy o siaradwyr Cymraeg na mannau eraill yng Nghymru.

Mae llawer o ardaloedd gwledig wedi gweld patrymau mudo sydd wedi arwain at boblogaethau sy'n heneiddio gydag anghenion iechyd a gofal cymdeithasol cynyddol. Mae heriau penodol wrth ddarparu gwasanaethau i boblogaethau gwasgaredig ac ynysig.

Mae Gogledd Cymru yn cael ei wasanaethu gan chwe awdurdod unedol:

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy,
- Cyngor Sir Ddinbych,
- Cyngor Sir y Fflint,
- Cyngor Gwynedd,
- Cyngor Sir Ynys Môn, a
- Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

Mae'r map isod yn dangos ardal pob cyngor.

Map 2.1 – map o ardal ddaearyddol pob awdurdod unedol yng Ngogledd Cymru




Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yw'r sefydliad iechyd mwyaf yng Nghymru, ac mae'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau sylfaenol, cymunedol, iechyd meddwl ac ysbytai acíwt i boblogaeth Gogledd Cymru.

2.2 Poblogaeth[1]

Fel y gwelir yn y ffigur isod, Sir y Fflint sydd â'r boblogaeth fwyaf (155,867) ac yna Wrecsam (138,245). Ynys Môn sydd â'r boblogaeth leiaf, sef 69,097.


Ffigur 2.1 - amcangyfrifon poblogaeth, pob person, yn ôl grŵp oedran, ac awdurdod unedol, 2024



Gwelwyd cynnydd cyffredinol yn nwysedd y boblogaeth ar draws Gogledd Cymru rhwng 2020 a 2023. Fel y dangosir yn y ffigur isod, mae dwysedd y boblogaeth ar ei uchaf yn y dwyrain gyda Sir y Fflint a Wrecsam â dwysedd uwch fesul cilomedr sgwâr (354 a 274 yn y drefn honno) na chyfartaledd Cymru (154).


[1] StatsCymru – Amcangyfrifon poblogaeth yn ôl awdurdod lleol, blwyddyn, rhyw ac oedran, canol blwyddyn 2024

Ffigur 2.2 – dwysedd poblogaeth (personau fesul cilomedr sgwâr) ar lefel awdurdod lleol a lefel Cymru, 2024



Mae'r map isod yn adlewyrchu natur wledig gyffredinol ochr orllewinol ardal y bwrdd iechyd o'i chymharu â'r ochr ddwyreiniol sy'n fwy trefol.

Map 2.2 – dosbarthiad gwledig/trefol (2021) Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr[2]




[2] Iechyd a Gofal Digidol Cymru – Mapiau Iechyd Cymru

Mae'n cynnwys data'r Arolwg Ordnans © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2026 (Telerau), ffynhonnell Polygon: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi'i thrwyddedu o dan Drwydded Llywodraeth Agored c.3.0, Wedi'i bweru gan ESRI

Gwledig mwy: pellach o dref neu ddinas fawr
Gwledig mwy: nes at dref neu ddinas fawr
Gwledig llai: pellach o dref neu ddinas fawr
Gwledig llai: nes at dref neu ddinas fawr
Trefol: pellach o dref neu ddinas fawr
Trefol: nes at dref neu ddinas fawr

Mae gan Sir y Fflint, Sir Ddinbych a Wrecsam boblogaeth iau gyda 17% o'r boblogaeth yn 15 oed ac iau, ac mae gan Ynys Môn a Chonwy boblogaeth hŷn gyda 28.3% a 27.4% yn y drefn honno yn 65 oed a hŷn. Mae'r darlun yn debyg ar gyfer trigolion 85 oed a hŷn. Conwy (3.9%) ac Ynys Môn (3.6%) sydd â'r gyfran uchaf; dim ond Wrecsam (2.6%) sy'n is na chyfartaledd Cymru (2.7%)

Ffigur 2.3 - canrannau poblogaeth, pob person, yn ôl grŵp oedran, ac awdurdod unedol, 2024



Mae poblogaeth Gogledd Cymru yn cynyddu ac yn heneiddio.

Disgwylir i'r boblogaeth gyffredinol gynyddu ychydig dros 50,000 o breswylwyr (6.8%) rhwng 2022 a 2047. Ar lefel awdurdod unedol, disgwylir y cynnydd mwyaf yng Ngwynedd (10.8%) a Sir Ddinbych (10.4%). Rhagwelir y bydd y cynnydd lleiaf yn Wrecsam (2.4%).

Yn gyffredinol, mae nifer y plant a phobl ifanc yn y boblogaeth wedi bod yn gostwng ledled Gogledd Cymru dros y degawd diwethaf. Mae tabl 2.1 yn dangos bod nifer y

plant a phobl ifanc (rhwng 0 a 17 oed) yng Ngogledd Cymru wedi gostwng tua 6,200 rhwng 2013 a 2023. Gwelwyd y gostyngiad mwyaf (1,350) yn Wrecsam.

Tabl 2.1 – nifer y bobl rhwng 0 a 65 oed, Gogledd Cymru ac awdurdodau unedol, 2013 i 2023[3]

Ardal	2023 nifer	2023 canran	2013 nifer	2013 canran	Newid 2013-23
Ynys Môn	13,050	18.9%	13,650	19.6%	- 600
Gwynedd	21,700	18.2%	23,350	18.8%	- 1,650
Conwy	20,450	17.9%	21,700	18.8%	- 1,250
Sir Ddinbych	19,300	19.8%	19,400	20.5%	- 100
Sir y Fflint	30,800	19.8%	32,050	21.0%	- 1,250
Wrecsam	27,750	20.4%	29,150	21.4%	- 1,350
Gogledd Cymru	133,050	19.2%	139,300	20.2%	- 6,200

Mae'r niferoedd wedi cael eu talgrynnu, felly efallai na fyddant yn dod i'r cyfanswm. Mae'r ganran yn cyfeirio at gyfanswm poblogaeth yr ardal.

Yn groes i hynny, rhwng 2013 a 2023, gwelwyd cynnydd o 17,800 yn y boblogaeth 65 oed a hŷn yng Ngogledd Cymru, sef cynnydd o 21.4% i 23.9% o gyfanswm y boblogaeth fel y gwelir yn y tabl isod.

Tabl 2.2 – nifer y bobl rhwng 0 a 17 oed, Gogledd Cymru ac awdurdodau unedol, 2013 i 2023[3]

Ardal	2023 nifer	2023 canran	2013 nifer	2013 canran	Newid 2013-23
Ynys Môn	18,800	27.1%	16,500	23.6%	2,300
Gwynedd	27,950	23.4%	26,400	21.9%	1,500
Conwy	32,000	28.0%	29,450	25.5%	2,550
Sir Ddinbych	24,300	25.0%	21,200	22.5%	3,100
Sir y Fflint	34,050	21.9%	29,300	19.2%	4,750
Wrecsam	28,300	20.8%	24,700	18.2%	3,550
Gogledd Cymru	165,350	23.9%	147,550	21.4%	17,800

Mae'r niferoedd wedi cael eu talgrynnu, felly efallai na fyddant yn dod i'r cyfanswm. Mae'r ganran yn cyfeirio at gyfanswm poblogaeth yr ardal.

[3] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol - Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn. Cynhyrchwyd gan Hwb Cydlynu Arloesi Rhanbarthol Gogledd Cymru

2.3 Preswylwyr dros dro

2.3.1 Preswylwyr carafanau hirdymor

Mae crynodiad uchel o safleoedd carafannau ar hyd arfordir Gogledd Cymru, yn bennaf ym Mae Cinmel a Thywyn.

Mae'n debygol y bydd nifer sylweddol o breswylwyr carafannau hirdymor yng Ngogledd Cymru sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd lleol. Fodd bynnag, mae ymchwil o Swydd Lincoln[4] wedi darganfod bod y Cyfrifiad, y gofrestr etholiadol a'r gofrestr treth gyngor oll yn tan-gofnodi'r boblogaeth hon yn ddifrifol. Mae'r hyn sydd wedi'i hepgor o'r Cyfrifiad yn arbennig o bwysig am fod data'r Cyfrifiad (ac amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn sy'n seiliedig ar ddata'r Cyfrifiad) yn chwarae rhan ganolog mewn fformiwlâu cyllido'r sector cyhoeddus.

Dyma rai o ganfyddiadau allweddol ynghylch demograffeg y boblogaeth mewn carafanau a arolygwyd yn Swydd Lincoln:

- mae bron i dri chwarter dros 55 oed, a mwy na 40 y cant dros 65 oed.
- mae mwy na 60% yn disgrifio eu hunain fel 'wedi ymddeol', ac
- mae gan lai na chwarter swydd – ac mae'r ffigur isel hwn yn cynnwys nifer o weithwyr safle a gafodd garafán gyda'r swydd.

Mae'r aelwydydd a arolygwyd yn treulio cyfran fawr o'r flwyddyn yn byw mewn carafán:

- mae 85% yn byw ar y safle am o leiaf dri mis o'r flwyddyn,
- mae dros 40% yn byw ar y safle o leiaf naw mis o'r flwyddyn,
- nid yw 43% yn dychwelyd i gartref arall mewn lleoliad arall am ran o'r flwyddyn,
- mae 39% yn ystyried mai eu carafán neu gaban gwyliau yw eu prif gartref, ac
- mae 39% wedi'u cofrestru'n barhaol gyda meddyg teulu yng nghyfeiriad y garafán.

Gallai'r canfyddiadau hyn fod yn berthnasol i Ogledd Cymru hefyd.

2.3.2 Twristiaid

Mae Gogledd Cymru yn brif gyrchfan i dwristiaid, yn bennaf ymwelwyr o Ogledd-orllewin Lloegr/Glannau Mersi (Lerpwl a Manceinion), sy'n aros mewn cyrchfannau arfordirol fel Llandudno, y Rhyl a Phrestatyn. Bydd y cynnydd mawr hwn yn nifer yr ymwelwyr, yn enwedig dros fisoedd yr haf, yn arwain at fwy o bwysau ar adnoddau gofal iechyd.

Yn ôl adroddiad blynyddol ystadegau twristiaeth Domestig Prydain Fawr 2024, yn ystod y flwyddyn honno roedd trigolion Prydain wedi gwneud 2.48 miliwn o deithiau dros nos i Ogledd Cymru. Tua 8.19 miliwn o nosweithiau a dreuliwyd oddi cartref ar y

[4] Beatty, C., Fothergill, S., & Powell, R. (2012). Living in seaside caravans: new survey evidence and the implications for local authority funding. People, Place and Policy, 6(2), pp. 90-100

teithiau hyn, a gwerth y gwariant yn ystod y teithiau hyn oedd £680 miliwn[5]. Dylid nodi bod gwariant a nifer yr ymweliadau yn is nag yr oeddent cyn Covid.

2.3.3 Ail gartrefi

Mae gwaith casglu data am anheddau sy'n destun treth gyngor (CT1) a wneir gan Lywodraeth Cymru yn darparu data ynghylch nifer yr anheddau sy'n gymwys i dalu'r dreth gyngor ym mhob awdurdod lleol[6]. Mae rhan o hyn yn cynnwys nifer yr ail gartrefi trethadwy ym mhob ardal awdurdod lleol.

Fel y gwelir o'r ffigur isod, yn 2020/21 Gwynedd oedd â'r nifer uchaf o ail gartrefi (a'r nifer uchaf yng Nghymru), a Wrecsam oedd â'r trydydd nifer isaf o ail gartrefi yng Nghymru ar ôl Blaenau Gwent (dim) a Thorfaen (un ar bymtheg).

Ffigur 2.4 – cyfanswm yr ail gartrefi trethadwy yng Ngogledd Cymru, 2026/27

Awdurdod lleol	Nifer yr ail gartrefi trethadwy
Conwy	1,508
Sir Ddinbych	439
Sir y Fflint	321
Gwynedd	5,004
Ynys Môn	2,297
Wrecsam	63

2.4 Ethnigrwydd

Mae gan y rhan fwyaf o ardaloedd awdurdodau unedol ar draws Gogledd Cymru ganran is o breswylwyr o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig o'i gymharu â chyfartaledd Cymru (5.2%), ac eithrio Sir Ddinbych, sydd hefyd yn 5.2%.

[5] Llywodraeth Cymru – Ystadegau twristiaeth ddomestig Prydain fawr (tripiau dros nos): adroddiad blynyddol 2024
[6] StatsCymru, Anheddau sy'n destun treth gyngor yn ôl awdurdod a band

Tabl 2.3 – ethnigrwydd yn ôl grŵp ethnig, awdurdodau unedol Cymru a Gogledd Cymru, Mehefin 2023[7]

Ardal	Pob person	Gwyn	Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig	Canran y bobl sy'n Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig
Cymru	3,149,100	2,982,400	165,200	5.2%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	703,300	676,300	26,600	3.8%
Conwy	115,500	113,300	2,200	1.9%
Sir Ddinbych	95,900	90,900	5,000	5.2%
Sir y Fflint	156,300	150,500	5,800	3.7%
Gwynedd	124,400	119,400	4,700	3.8%
Ynys Môn	70,100	67,600	2,400	3.5%
Wrecsam	141,100	134,600	6,500	4.6%

Mae cyfran y bobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig yn uwch ar gyfer pobl o dan 65 oed, sef tua 3.9%, felly gall y nifer sy'n 65 oed a hŷn godi wrth i'r bobl iau hyn heneiddio. Fodd bynnag, mae tua 19% o bobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig rhwng 16 a 64 oed sy'n byw yng Ngogledd Cymru yn fyfyrwyr amser llawn (o'i gymharu ag 8% o bobl wyn). Mae'r boblogaeth hon yn un symudol iawn, ac fe allai symud o'r ardal a chael ei disodli gan fyfyrwyr eraill sy'n symud i'r ardal yn hytrach na heneiddio yng Ngogledd Cymru[8].

Tabl 2.4 – Poblogaeth 65 oed a hŷn yn ôl grŵp ethnig bras, Gogledd Cymru ac awdurdodau unedol, 2021[9]


Ardal	Pob person	Gwyn	Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig	Canran y bobl sy'n Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig
Cymru	3,149,100	2,982,400	165,200	5.2%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	703,300	676,300	26,600	3.8%
Conwy	115,500	113,300	2,200	1.9%
Sir Ddinbych	95,900	90,900	5,000	5.2%
Sir y Fflint	156,300	150,500	5,800	3.7%
Gwynedd	124,400	119,400	4,700	3.8%
Ynys Môn	70,100	67,600	2,400	3.5%
Wrecsam	141,100	134,600	6,500	4.6%

[7] Cynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru gan ddefnyddio'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth
[8] Hwb Cydlynu Arloesi Rhanbarthol Gogledd Cymru, 2025
[9] Cynhyrchwyd gan Hwb Cydlynu Arloesi Rhanbarthol Gogledd Cymru gan ddefnyddio data Cyfrifiad 2021

2.5 Iaith yr aelwyd

Yng Nghyfrifiad 2021, roedd 19,354 o breswylwyr yn y bwrdd iechyd lle nad oedd y Gymraeg na'r Saesneg yn brif iaith iddynt, gyda 4,456 neu 23.0% ddim yn gallu siarad Cymraeg na Saesneg neu ddim yn gallu siarad yr un ohonynt yn dda[10]. Fel y gwelir o'r ffigur isod, mae'r gallu i siarad Cymraeg neu Saesneg yn dda iawn neu'n dda yn lleihau gydag oed i'r rhai lle nad y Gymraeg na'r Saesneg yw eu prif iaith.

Ffigur 2.5 - Medrusrwydd yn y Gymraeg neu'r Saesneg yn ôl oedran



Yn ôl Cyfrifiad 2021, Cymraeg neu Saesneg oedd prif iaith preswylwyr y bwrdd iechyd ar sail y cyfuniad o oedolion a phlant tair oed a hŷn (96.7%)[11]. Dyma'r wyth iaith a oedd yn cael eu siarad amlaf:

- Pwyleg - 0.7%
- Arabeg – 0.3%
- Rwmaneg – 0.2%
- Portiwgaleg, Bengaleg (gyda Sylheti a Chatgaya), 'Pob Tsieinëeg arall', Sbaeneg a Bwlgareg – 0.1% yr un

Mae rhywfaint o amrywiaeth ar lefel awdurdod lleol gyda llai o bobl yn siarad Cymraeg neu Saesneg fel eu prif iaith yn Wrecsam (94.9%) o'i gymharu ag ardaloedd awdurdodau lleol eraill (mwy na 96% ym mhob un).

[10] Nomis, Cyfrifiad 2021, RM111 – Medrusrwydd yn y Saesneg yn ôl oedran
[11] Nomis, Cyfrifiad 2021 – TS024 – Prif iaith

2.6 Sgiliau Cymraeg[12]

Mae gallu cael gafael ar wasanaethau yn Gymraeg yn cael effaith sylweddol ar brofiad cyffredinol llawer o siaradwyr Cymraeg fel defnyddwyr gwasanaethau iechyd a gofal.

Mae cyfran yr oedolion 16 oed a hŷn sy'n gallu siarad Cymraeg yng Ngogledd Cymru yn amrywio o 12.4% yn Sir y Fflint i 64.0% yng Ngwynedd. Y cyfartaledd ar gyfer Cymru gyfan yw 18.0%.

Mae cyfran y siaradwyr Cymraeg yn uwch eto mewn rhai cymunedau yng Ngogledd Cymru – mae dros 85% o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg mewn rhai adrannau etholiadol (wardiau) yng Nghaernarfon a'r cyffiniau. Yn gyffredinol, mae crynodiadau uwch i'w gweld mewn ardaloedd gwledig ac i'r gorllewin o'r rhanbarth[13].

Tabl 2.5 - canran y boblogaeth (16 oed a hŷn) sy'n gallu siarad Cymraeg, Cymru ac awdurdodau unedol, 2022-23

	Siarad Cymraeg	Ddim yn gallu siarad Cymraeg	Gallu siarad rhywfaint o Gymraeg
Cymru	18.0	66.0	15.9
Conwy	27.6	57.5	14.9
Sir Ddinbych	20.9	56.3	22.7
Sir y Fflint	12.4	65.4	22.2
Gwynedd	64.0	24.9	11.1
Ynys Môn	48.0	39.7	12.3
Wrecsam	16.7	64.7	18.6

Mae'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth 2025 yng Nghymru yn cofnodi amlder a gallu yn y Gymraeg. Yn 2025, dywedodd bron i 39% o breswylwyr yng Ngogledd Cymru eu bod yn gallu siarad Cymraeg. Fel y gwelir yn y tabl isod, mae hyn yn amrywio ar draws y rhanbarth o 15.5% yn Sir y Fflint i 72.7% yng Ngwynedd.

[12] StatsCymru - canran yr oedolion sy'n siarad Cymraeg (gan gynnwys y ganran nad ydynt yn gallu siarad Cymraeg ac sy'n meddu ar rywfaint o allu i siarad Cymraeg) yn ôl awdurdod lleol
[13] Hwb Cydlynu Arloesi Rhanbarthol Gogledd Cymru, 2025

Tabl 2.6 – gallu siarad Cymraeg, pobl 3 oed a hŷn, Cymru, bwrdd iechyd ac awdurdodau unedol, Mawrth 2025[14]

Ardal	Poblogaeth 3 oed a hŷn	Ydy, yn gallu siarad Cymraeg	Nac ydy, ddim yn gallu siarad Cymraeg	Pobl sy'n dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg (%)
Cymru				26.9
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	694,900	269,500	425,300	38.8
Conwy	114,500	46,200	68,300	40.4
Sir Ddinbych	94,600	30,500	64,000	32.3
Sir y Fflint	154,300	23,900	130,400	15.5
Gwynedd	122,500	89,000	33,500	40.4
Ynys Môn	69,800	43,600	26,200	62.5
Wrecsam	139,200	36,300	102,900	26.1

2.7 Crefydd

Yn 2021, roedd 51.6% o boblogaeth Gogledd Cymru yn drigolion a oedd yn dweud eu bod yn dilyn un o'r chwe phrif grefydd, gyda 41.7% yn dweud nad oeddent yn dilyn unrhyw grefydd.

Mae'r tabl isod yn dangos yr amrywiad rhwng awdurdodau unedol ac mae'n cymharu'r rhain â chyfartaledd Cymru.

Tabl 2.7 – crefydd ar lefel awdurdod unedol a Chymru[15]

Ardal	Cristion	Bwdhydd	Hindŵ	Iddew	Mwslim	Sikh	Crefydd arall	Dim crefydd	Crefydd heb ei nodi
Conwy	50.8%	0.3%	0.2%	0.1%	0.7%	0.0%	0.5%	40.9%	6.4%
Sir Ddinbych	49.3%	0.3%	0.2%	0.1%	0.8%	0.0%	0.5%	42.1%	6.7%
Sir y Fflint	51.5%	0.3%	0.2%	0.0%	0.5%	0.0%	0.3%	40.7%	6.5%
Gwynedd	46.2%	0.4%	0.2%	0.1%	1.0%	0.0%	0.7%	44.2%	7.3%
Ynys Môn	51.5%	0.2%	0.1%	0.0%	0.5%	0.0%	0.4%	40.7%	6.5%
Wrecsam	49.5%	0.3%	0.2%	0.0%	1.1%	0.1%	0.4%	41.8%	6.5%
Cymru	43.6%	0.3%	0.4%	0.1%	2.2%	0.1%	0.5%	46.5%	6.3%


[14] StatsCymru – Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth - y Gymraeg
[15] Nomis, Cyfrifiad 2021 – TS030 - Crefydd

2.8 Mynegai amddifadedd lluosog Cymru[16]

Mynegai amddifadedd lluosog Cymru yw'r mesur swyddogol o amddifadedd mewn ardaloedd bach yng Nghymru. Mae'n cael ei gynhyrchu ar lefel ardal gynnyrch ehangach haen is ac mae'n cynnwys wyth parth: cyflogaeth, incwm, addysg, iechyd, diogelwch cymunedol, mynediad at wasanaethau, tai, a'r amgylchedd ffisegol. Mae pob ardal gynnyrch ehangach haen is yn cael ei gosod mewn trefn o 1 (y mwyaf difreintiedig) i 1,917 (y lleiaf difreintiedig).

Mae'r map isod yn dangos safle pob ardal gynnyrch ehangach haen is yng Ngogledd Cymru.

Map 2.3 – Mynegai amddifadedd lluosog Cymru, Gogledd Cymru, ardaloedd cynnyrch ehangach is, 2025



[16] Llywodraeth Cymru - Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2025

Mae rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru i'w canfod yn y gogledd, yn enwedig ar hyd arfordir Gogledd Cymru. Gorllewin y Rhyl 2 yw'r ardal gynnyrch ehangach haen is fwyaf difreintiedig yng Nghymru, a De-orllewin y Rhyl 2 yw'r bumed ardal fwyaf difreintiedig. Mae'r tabl isod yn dangos y deg ardal gynnyrch ehangach haen is fwyaf difreintiedig yng Ngogledd Cymru ar sail eu safle cyffredinol.

Tabl 2.8 – Mae mynegai amddifadedd lluosog Cymru yn dangos bod deg o'r ardaloedd Cynnyrch Ehangach Is mwyaf difreintiedig yng Ngogledd Cymru, 2025

Awdurdod unedol	Ardal gynnyrch ehangach haen is	Safle
Sir Ddinbych	Gorllewin y Rhyl 2	1
Sir Ddinbych	De-orllewin y Rhyl 2	5
Wrecsam	Queensway 1	7
Sir Ddinbych	Gorllewin y Rhyl 1	9
Sir Ddinbych	Gorllewin y Rhyl 3	10
Sir Ddinbych	De-orllewin y Rhyl 1	21
Wrecsam	Plas Madog	22
Wrecsam	Wynnstay	28
Conwy	Tudno 2	42
Wrecsam	Queensway 2	54

Mae'r tabl isod yn dangos canran y bobl sy'n byw yn y 20% o ardaloedd cynnyrch ehangach haen is mwyaf difreintiedig fesul ardal. Ar draws y rhanbarth, mae'r canrannau'n amrywio o 0% yn ardaloedd Dwyfor a Gogledd Meirionnydd a De Meirionnydd i 27.8% yn ardal Gogledd Sir Ddinbych.

Tabl 2.9 – poblogaeth leol yn 20% o'r ardaloedd cynnyrch ehangach haen is mwyaf difreintiedig, nifer a chanran, ardal, 2025

Ardal	Poblogaeth	Canran sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig	Cwintel amddifadedd yr ardal
Ynys Môn	65,980	14.8%	3
Arfon	67,340	11.3%	3
Dwyfor a Gogledd Meirionnydd	37,628	0.0%	5
De Meirionnydd	18,898	0.0%	5
Dwyrain Conwy	52,247	21.3%	2
Gorllewin Conwy	64,171	5.7%	4
Gogledd Sir Ddinbych	61,847	27.8%	2
Canolbarth a De Sir Ddinbych	42,795	3.5%	5
Gogledd-ddwyrain Sir y Fflint	62,445	13.5%	3
Gogledd-orllewin Sir y Fflint	40,671	18.9%	3
De Sir y Fflint	52,774	2.8%	5
Gogledd a Gorllewin Wrecsam	36,303	8.4%	4
Canolbarth Wrecsam	58.433	17.1%	3
De Wrecsam	47,030	8.8%	4

2.9 Genedigaethau

Cyfanswm y gyfradd ffrwythlondeb yw nifer cyfartalog y plant byw y byddai grŵp o fenywod yn eu hesgor pe baent yn profi'r gyfradd ffrwythlondeb oedran-benodol mewn blwyddyn benodol drwy gydol eu blynyddoedd cael plant. Mae'r cyfraddau yng nghanolbarth a dwyrain Gogledd Cymru ychydig yn uwch o'u cymharu â gweddill Cymru.


Y gyfradd ffrwythlondeb gyffredinol yw cyfanswm y genedigaethau byw a anwyd i fenywod rhwng 15 a 44 oed ac mae'n ddangosydd defnyddiol wrth astudio twf a newid yn y boblogaeth. Yn 2024, roedd y cyfraddau ar draws Gogledd Cymru yn uwch na chyfartaledd Cymru, ac eithrio Gwynedd.

Tabl 2.10 - genedigaethau byw a chyfraddau ffrwythlondeb, Cymru ac awdurdodau unedol, 2024

Ardaloedd	Nifer y genedigaethau byw	Cyfradd geni fras	Cyfradd ffrwythlondeb gyffredinol	Cyfanswm y gyfradd ffrwythlondeb
Cymru	26,832	8.4	45.7	1.34
Conwy	503	7.3	48.6	1.5
Sir Ddinbych	780	7.9	49.2	1.5
Sir y Fflint	1,331	8.8	49.8	1.5
Gwynedd	945	7.8	42.7	1.3
Ynys Môn	503	7.3	48.6	1.5
Wrecsam	1,222	8.8	49.8	1.5

Mae'r cyfraddau beichiogi ar draws Gogledd Cymru yn y tabl isod. Mae'r data'n cynnwys beichiogrwydd sy'n arwain at un neu fwy o enedigaethau byw neu farw ac erthyliadau cyfreithlon; nid ydynt yn cynnwys camesgoriadau nac erthyliadau anghyfreithlon. Yn 2022, Conwy a Sir Ddinbych oedd â'r cyfraddau uchaf, sef 78 fesul 1,000 o fenywod, ac Ynys Môn oedd â'r gyfradd isaf, sef 73.6 i bob 1,000 o fenywod.

Ffigur 2.6 – cyfradd beichiogi fesul 1,000 o fenywod, Cymru, ac awdurdodau unedol 2018 i 2022[17]




[17] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

2.10 Disgwyliad oes

Mae disgwyliad oes adeg geni yn rhoi amcangyfrif o nifer cyfartalog y blynyddoedd y gallai babi newydd-anedig ddisgwyl byw, os defnyddir y cyfraddau marwolaethau presennol ar gyfer yr ardal drwy gydol eu hoes. Gan fod cyfraddau marwolaethau yn debygol o newid a phobl yn symud ardaloedd, mae disgwyliad oes yn rhoi mesur poblogaeth cymharol o farwolaethau'r rhai sy'n byw mewn ardal yn hytrach na rhagfynegiad cywir o ddisgwyliad oes babi newydd-anedig[18].

Fel y gwelir yn y ffigur isod, mae disgwyliad oes cyfartalog gwrywod (78.4 oed) a benywod (82.2) yng Ngogledd Cymru yn debyg i Gymru.

Ffigur 2.7 – disgwyliad oes adeg geni, blynyddoedd, gwrywod a benywod, Cymru a Gogledd Cymru, 2021-23[19]



Ar lefel awdurdod unedol, mae disgwyliad oes menywod yn Sir Ddinbych yn sylweddol is yn ystadegol na Chymru; ac yng Ngwynedd mae'n sylweddol uwch yn ystadegol na Chymru.

Ar gyfer gwrywod, mae disgwyliad oes yn awdurdod unedol Wrecsam yn sylweddol is yn ystadegol, ond mae'n sylweddol uwch yng Ngwynedd o'i gymharu â Chymru.

Mae anghydraddoldebau o ran disgwyliad oes rhwng yr aelodau mwyaf a lleiaf difreintiedig o'r boblogaeth. Gall gwrywod sy'n byw yn y cymunedau mwyaf difreintiedig ledled Gogledd Cymru ddisgwyl byw tua saith mlynedd yn llai na gwrywod yn y cymunedau lleiaf difreintiedig. Y gwahaniaeth i fenywod yw tua chwe blynedd.

[18] Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2020
[19] Cynhyrchwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru gan ddefnyddio data a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol

2.11 Marwolaethau[20]

Mae'r dangosyddion sy'n deillio o gyfraddau marwolaethau yn rhoi darlun da o iechyd cyffredinol y boblogaeth. Fodd bynnag, nid yw cyfraddau marwolaethau mewn ardaloedd bach yn ystyried demograffeg anarferol, fel niferoedd uchel o breswylwyr mewn cartrefi nyrsio a allai newid y patrwm marwolaeth disgwyliedig.

2.11.1 Marwolaethau cyn pryd o glefydau anhrosglwyddadwy allweddol

Cyfradd Gogledd Cymru ar gyfer marwolaethau cyn pryd o glefydau anhrosglwyddadwy allweddol yw 311 fesul 100,000, sy'n debyg i gyfartaledd Cymru o 310. Mae'r dangosydd yn cynnwys y clefydau canlynol:

- Clefydau'r system gylchredol
- Neoplasm malaen (ac eithrio neoplasm malaen arall a rhai amhenodol ar y croen)
- Diabetes mellitus
- Clefydau'r system resbiradol ac eithrio heintiau

Mae marwolaethau cyn pryd o afiechydon anhrosglwyddadwy allweddol yn y cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru bron ddwywaith yn uwch na'r gyfradd yn y cymunedau lleiaf difreintiedig. Wrecsam sydd â'r gyfradd uchaf o 337 fesul 100,000 o bobl rhwng 30 a 70 oed, ac fe'i dilynir gan Sir Ddinbych gyda 335. Gwynedd sydd â'r gyfradd isaf, sef 291.

2.11.2 Marwolaethau yn ôl achos

Mae cyfraddau marwolaethau pob achos ar gyfer pob unigolyn yng Ngogledd Cymru yn is na chyfartaledd Cymru ond nid ydynt yn sylweddol is yn ystadegol na Chymru. Ar lefel leol, mae'r cyfraddau'n sylweddol uwch yn ystadegol na Chymru yng Ngogledd Sir Ddinbych ac yn sylweddol is yn ystadegol yng Nghanolbarth a De Sir Ddinbych, Gorllewin Conwy, De Sir y Fflint a De Meirionnydd.
Mae'r tabl isod yn rhestru cyfraddau marwolaethau (yn ôl achos) sy'n wahanol iawn yn ystadegol o'u cymharu â Chymru.

[20] Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr – Proffil iechyd a lles 2026

Tabl 2.11 – cymharu cyfraddau marwolaethau Gogledd Cymru â chyfartaledd Cymru, 2024

Achos marwolaethau	Ardaloedd lle mae'r gyfradd marwolaethau yn sylweddol uwch yn ystadegol	Ardaloedd lle mae'r gyfradd marwolaethau yn sylweddol is yn ystadegol
Clefydau'r system gylchredol	Gogledd Sir Ddinbych	Canolbarth a De Sir Ddinbych De Meirionnydd
Clefydau'r system resbiradol	(dim)	De Sir y Fflint
Canserau	(dim)	(dim)
Anhwylderau meddyliol ac ymddygiadol	(dim)	Gorllewin Conwy

2.11.3 Marwolaethau y gellir eu hosgoi

Mae marwolaethau y gellir eu hosgoi yn cyfeirio at farwolaethau a achosir gan gyflyrau penodol lle mae ymyriadau meddygol ac iechyd cyhoeddus effeithiol ar gael ar eu cyfer. Dylent fod yn brin ac yn ddelfrydol ni ddylent ddigwydd o gwbl. Gellir eu rhannu'n farwolaethau y gellir eu hatal a marwolaethau y gellid bod wedi'u hatal drwy driniaeth.

- Marwolaethau y gellir eu hosgoi – cyfanswm y marwolaethau y gellir eu hatal a marwolaethau y gellid bod wedi'u hatal drwy driniaeth.
- Marwolaethau y gellir eu hatal – achosion marwolaeth y gellir eu hosgoi'n bennaf drwy ymyriadau sylfaenol ac iechyd cyhoeddus effeithiol.
- Marwolaethau y gellid bod wedi'u hatal drwy driniaeth – achosion marwolaeth y gellir eu hosgoi'n bennaf drwy ymyriadau gofal iechyd amserol ac effeithiol, gan gynnwys atal a thriniaeth eilaidd.[21]

Ystyriwyd bod modd osgoi neu atal drwy driniaeth tua un o bob pum marwolaeth yn 2023 yn Lloegr (21.6%) ac yng Nghymru (22.7%). Mae'r gyfran hon o farwolaethau y gellir eu hosgoi yn debyg i'r flwyddyn flaenorol, ac maent yn dal yn uwch na'r lefelau cyn pandemig y coronafeirws (Covid-19).

Mae cyfraddau marwolaethau y gellir eu hosgoi yn uwch mewn ardaloedd mwy difreintiedig. Yng Nghymru, mae cyfradd marwolaethau y gellir eu hosgoi y cwintel mwyaf difreintiedig 2.7 gwaith yn uwch na'r cwintel lleiaf difreintiedig, a hynny ar gyfer gwrywod a benywod.

Prif achos marwolaethau y gellir eu hosgoi yng Nghymru (a Lloegr) yw canser ac yna clefydau'r system gylchredol. Mae marwolaethau y gellir eu hosgoi oherwydd achosion sy'n gysylltiedig ag alcohol a chyffuriau wedi bod yn cynyddu ers 2001, gyda'r cynnydd mwyaf o 2019 ymlaen.

[21] Iechyd Cyhoeddus Cymru, Fframwaith Canlyniadau Iechyd Cyhoeddus 2025

Ar lefel awdurdod unedol, mae cyfraddau ar gyfer marwolaethau y gellir eu hosgoi a marwolaethau y gellid bod wedi'u hosgoi drwy driniaeth yn sylweddol uwch yn ystadegol yn Wrecsam o'i gymharu â Chymru.

Ar lefel leol, mae cyfraddau marwolaethau y gellir eu hosgoi yng Ngogledd Sir Ddinbych yn sylweddol uwch yn ystadegol o'i gymharu â Chymru; mae cyfraddau'n sylweddol is yn ystadegol yn Ne Meirionnydd o'i gymharu â Chymru. Mae'r cyfraddau ar gyfer marwolaethau y gellid bod wedi'u hosgoi drwy driniaeth yng Ngogledd Sir Ddinbych hefyd yn sylweddol uwch yn ystadegol o'i gymharu â Chymru.

2.12 Pobl ag anableddau

2.12.1 Pobl ag anableddau dysgu

Mae'r prif ffynonellau data sydd ar gael fel mater o drefn ynghylch y nifer y bobl ag anabledd dysgu mewn gofal sylfaenol ac awdurdodau lleol. Mae gan feddygfeydd meddygon teulu gofrestrau anableddau dysgu sy'n cael eu defnyddio fel rhan o'r gwaith o adrodd ar y fframwaith gwella a sicrhau ansawdd.

Gall y cofrestrau hyn roi amcangyfrifon bras iawn o nifer y bobl ag anabledd dysgu; fodd bynnag, dylid nodi bod amrywiadau o ran arferion meddygfeydd o godio a chofnodi cyflyrau cronig.

Yn 2025, roedd meddygon teulu wedi cofrestru bod gan 3,946 o gleifion anabledd dysgu. Mae'r nifer uchaf o bobl sydd wedi'u cofrestru ag anabledd dysgu yng Ngogledd Sir Ddinbych ac Arfon.

Mae'n rhaid i awdurdodau lleol yng Nghymru gofnodi nifer y lleoliadau ar gyfer pobl ag anableddau dysgu. Mae'r lleoliadau'n cynnwys:

- cymuned, er enghraifft, ei gartref ei hun, cartref y teulu, a byw â chymorth,
- llety gwasanaeth iechyd,
- llety awdurdod lleol, a
- llety preifat neu wirfoddol.

Fodd bynnag, gall cofrestrau awdurdodau unedol danamcangyfrif nifer y bobl ag anableddau dysgu gan fod cofrestru'n wirfoddol. Credir mai dim ond un o bob pedwar unigolyn ag anabledd dysgu yng Nghymru sy'n hysbys i'r gwasanaethau cymdeithasol[22].

Yn 2021-22, cofnodwyd bron i 3,100 o leoliadau ar gyfer pobl ag anableddau dysgu yng Ngogledd Cymru. Roedd y nifer uchaf o leoliadau yn Sir y Fflint (tua 1,000)[23].

[22] Mencap – Ynglŷn ag anabledd dysgu
[23] StatsCymru

2.12.2 Pobl ag anableddau corfforol

Mae data hefyd yn gyfyngedig ynglŷn â nifer y bobl ag anabledd corfforol. Mae cofrestrau anabledd awdurdodau lleol hefyd yn debygol o danamcangyfrif gwir nifer y bobl ag anableddau corfforol yng Ngogledd Cymru.

Tabl 2.12 - niferoedd y bobl ar gofrestrau anabledd awdurdodau unedol, 2021/22

Ardal	Cyfanswm sydd â nam difrifol ar y golwg	Cyfanswm sydd â nam ar y golwg	Cyfanswm sydd â nam ar y clyw	Anabledd corfforol yn unig	Cyfanswm heb anabledd gweledol	Cyfanswm y bobl anabl ar y gofrestr
Bwrdd lechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	770	929	568	4,878	5,464	7,163
Conwy	61	36	38	1,579	1,617	1,714
Sir Ddinbych	150	77	224	-	224	451
Sir y Fflint	116	319	236	1,349	1,585	2,020
Ynys Môn	162	141	22	863	885	1,188
Wrecsam	38	65	29	30	59	162

Ar draws Gogledd Cymru, mae 39 fesul 1,000 o breswylwyr wedi colli eu golwg o'i gymharu â 35 fesul 1,000 ledled Cymru. Conwy sydd â'r gyfradd uchaf, sef 48 fesul 1,000.

Mae cyfradd y preswylwyr sydd wedi'u cofrestru'n ddall yng Ngogledd Cymru (429 fesul 100,000) yn uwch na chyfradd Cymru gyfan (417 fesul 100,000). Ar lefel awdurdod unedol, Conwy sydd â'r gyfradd uchaf (586 fesul 100,000) a Sir Ddinbych sydd â'r gyfradd isaf (424 fesul 100,000. Rhagwelir y bydd nifer y bobl sy'n colli eu golwg yng Ngogledd Cymru yn cynyddu 17% rhwng 2022 a 2032[24].

Conwy hefyd sydd â'r cyfraddau uchaf o bobl â nam cymedrol neu ddifrifol ar y clyw a nam dwys ar y clyw, yn ogystal â'r amcangyfrif o niferoedd a chyfraddau o bobl sydd wedi colli eu clyw a'u golwg.

2.13 Cyfansoddiad yr aelwyd[25]

Gyda golwg ar gyfansoddiad aelwydydd yng Ngogledd Cymru, yng Nghyfrifiad 2021:

- roedd 32.2% yn aelwydydd un person (gyda 49.1% o'r rheiny'n 66 oed a hŷn),
- roedd 63.4% yn deuluoedd sengl,
- roedd 4.4% yn fathau eraill o aelwydydd.

[24] Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion – adnodd data colli golwg
[25] Nomis, Cyfrifiad 2021 – TS003 – cyfansoddiad aelwydydd

Ar lefel awdurdod unedol, Gwynedd sydd â'r gyfran uchaf o aelwydydd un person ar draws Gogledd Cymru, sef 34.6%. Sir y Fflint sydd â'r gyfran isaf (29.1%).
Fodd bynnag, Conwy sydd â'r ganran uchaf o aelwydydd un person lle mae rhywun 66 oed a hŷn yn byw ynddynt, sef 17.8%. Wrecsam sydd â'r gyfran leiaf, sef 13.9%.

Tabl 2.13: Nifer a chanran yr aelwydydd un person, Cymru ac awdurdodau unedol, 2021

	Aelwydydd un person		Aelwydydd un person: 66 oed neu hŷn	
Ardal	**Nifer**	**Canran**	**Nifer**	**Canran**
Cymru	429.559	31.9%	196,056	14.6%
Conwy	17,909	34.3%	9,318	17.8%
Sir Ddinbych	14,107	33.3%	6,982	16.5%
Sir y Fflint	19,471	29.1%	9,639	14.4%
Gwynedd	17,644	34.6%	8,472	16.6%
Ynys Môn	10,189	33.1%	5,223	16.9%
Wrecsam	17,662	30.5%	8,042	13.9%

2.14 Perchnogaeth ceir[26]

Yn ôl data Cyfrifiad 2021:


- nid oedd gan 17.5% o aelwydydd yng Ngogledd Cymru gar na fan,
- roedd gan 41.3% un car neu fan,
- roedd gan 29.3% ddau gar neu fan, ac
- roedd gan 11.8% dri char neu fan.

Mae lefel perchnogaeth ceir yng Ngogledd Cymru wedi cynyddu ers Cyfrifiad 2011. Bryd hynny nid oedd gan 22.9% o aelwydydd gar na fan.

Mae'r ffigur isod yn dangos yr amrywiad ar lefel awdurdod lleol a lefel Cymru, Fel y gwelir, yn gyffredinol mae'r nifer sy'n berchen ar gar yn uwch yn Sir y Fflint nag yn ardaloedd yr awdurdodau unedol eraill, gyda mwy o aelwydydd â dau neu fwy o geir neu faniau (45.6%) o'i gymharu â chyfartaledd Gogledd Cymru (41.4%) a Chymru gyfan (38.8%). Wrecsam sydd â'r gyfran uchaf o aelwydydd heb gar na fan (19.1%).

[26] Nomis, Cyfrifiad 2021 – TS045 – argaeledd car neu fan

Ffigur 2.8 – perchnogaeth ceir ar lefel awdurdod lleol



2.15 Gweithgarwch economaidd

Yn ôl Cyfrifiad 2021[27], mae 54.9% o'r boblogaeth sy'n 16 oed a hŷn yn economaidd weithgar (ac eithrio myfyrwyr amser llawn), mae 43.2% yn economaidd anweithgar, ac mae 1.9% yn economaidd weithgar ac yn fyfyrwyr amser llawn.

Mewn perthynas â'r boblogaeth gyfan, mae cyfraddau'r bobl sy'n:

- economaidd weithgar ar eu huchaf yn Sir y Fflint (58.9%) ac ar eu hisaf yng Nghonwy (52.0%),
- economaidd weithgar ac yn fyfyrwyr amser llawn ar eu huchaf yng Ngwynedd (2.7%) ac ar eu hisaf yng Nghonwy ac Ynys Môn (1.5% yr un),
- economaidd anweithgar ar eu huchaf yng Nghonwy (46.5%) ac ar eu hisaf yn Sir y Fflint (39.4%).

2.16 Cyfeiriadedd rhywiol

Am y tro cyntaf yn ei hanes, roedd Cyfrifiad 2021[28] yn cynnwys cwestiwn gwirfoddol i bobl 16 oed a hŷn a oedd yn gofyn, "Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau eich cyfeiriadedd rhywiol?".

Mae cyfeiriadedd rhywiol yn derm cyffredinol sy'n cynnwys hunaniaeth rywiol, atyniad, ac ymddygiad. Efallai na fydd y rhain yr un fath ar gyfer ymatebydd unigol. Er enghraifft, gall rhywun mewn perthynas â rhywun o wahanol ryw hefyd gael ei

[27] Nomis, Cyfrifiad 2021 – TS066 statws gweithgarwch economaidd
[28] Nomis, Cyfrifiad 2021 – TS079 – cyfeiriadedd rhywiol

ddenu at rywun o'r un rhyw, ac i'r gwrthwyneb. Mae hyn yn golygu y dylid dehongli'r ystadegau fel rhai sydd ddim ond yn dangos sut yr ymatebodd pobl i'r cwestiwn, yn hytrach na'u bod yn dangos at bwy maent yn cael eu denu neu eu perthnasoedd go iawn.

- Dywedodd 89.4% eu bod yn syth neu'n heterorywiol,
- nid oedd 8.1% wedi ateb y cwestiwn,
- dywedodd 1.3% eu bod yn hoyw neu lesbiaidd,
- dywedodd 1.0% eu bod yn ddeurywiol,
- dywedodd 0.1% eu bod yn panrywiol, a
- dywedodd 0.1% pob cyfeiriadedd rhywiol arall.

2.17 Gofalwyr di-dâl

Cafodd dros 66,600 o breswylwyr Gogledd Cymru eu nodi fel 'gofalwyr di-dâl' yng Nghyfrifiad 2021; mae hyn yn cyfateb i 9.7% o'r boblogaeth, ac mae hynny'n debyg i gyfartaledd Cymru (Tabl 2.14).

Tabl 2.14 – nifer a chanran y preswylwyr sy'n darparu gofal di-dâl yng Nghymru, bwrdd iechyd a'r awdurdodau unedol, 2021[29]

Ardal	Nifer	Canran
Cymru	310,751	10.0%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	66,663	9.7%
Conwy	11,640	10.1%
Sir Ddinbych	10,169	10.6%
Sir y Fflint	15,262	9.8%
Gwynedd	9,988	8.5%
Ynys Môn	6,746	9.8%
Wrecsam	12,858	9.5%

Roedd Cyfrifiad 2021 hefyd yn dangos:

- Mae nifer yr oriau o ofal a ddarperir bob wythnos wedi cynyddu ers 2011,
- mae 59% o ofal di-dâl yn cael ei roi gan fenywod,
- mae gofalwyr di-dâl yn debygol o fod rhwng 50 a 64 oed,
- mae gofalwyr di-dâl yn fwy tebygol o fod yn economaidd anweithgar na phobl nad ydynt yn ofalwyr, ac
- mae gofalwyr di-dâl yn fwy tebygol o fod mewn iechyd gwael ac yn anabl eu hunain o'i gymharu â'r boblogaeth nad ydynt yn ofalwyr.

Ar lefel leol, Gogledd Sir Ddinbych sydd â'r gyfran uchaf o ofalwyr di-dâl (11.4%) a'r niferoedd uchaf, sef ychydig dros 6,500. Arfon sydd â'r gyfran isaf, sef 8.1%.

[29] Nomis, Cyfrifiad 2021 – TS039 – Darparu gofal di-dâl

2.18 Cymunedau Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig

Dangosodd Cyfrifiad 2021[30] fod y niferoedd canlynol o bobl yn dweud eu bod yn Wyn: Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig

- Conwy - 75
- Sir Ddinbych - 48
- Sir y Fflint - 123
- Gwynedd – 100
- Ynys Môn - 54
- Wrecsam – 109

Mae'r ffigurau hyn yn cymharu â chyfanswm o 3,370 ar draws Cymru gyfan neu 15.1% o'r boblogaeth.

Fodd bynnag, mae'n debygol na fyddai llawer o aelwydydd wedi llenwi'r cyfrifiad – efallai am eu bod yn byw ar 'safleoedd heb eu hawdurdodi' neu wersylloedd ac felly ddim yn ymddangos ar gofnodion swyddogol, neu oherwydd diffyg ymddiriedaeth ynghylch pwrpas y cyfrifiad. Ar ben hynny, mae'n bosibl bod lefelau llythrennedd is na'r cyffredin yn golygu na fyddai rhai aelwydydd wedi llenwi'r Cyfrifiad, a phan oeddent wedi'u cwblhau, byddai rhai aelwydydd wedi dewis peidio â nodi eu bod yn Sipsiwn neu'n Deithwyr Gwyddelig.

Yn ôl cyfrif carafannau Sipsiwn a Theithwyr ym mis Ionawr 2025[31] roedd 315 o garafannau yng Ngogledd Cymru. Mae'r tabl isod yn dangos nifer y carafannau ar lefel awdurdod unedol. Fel y gwelir, mae'r nifer uchaf o garafannau yn Sir y Fflint, a'r isaf yng Nghonwy a Sir Ddinbych.

Tabl 2.15- nifer y carafannau yn ôl awdurdodiad ac awdurdod lleol


	Nifer y carafannau ar safleoedd awdurdodedig	Nifer y carafannau ar safleoedd anawdurdodedig	Cyfanswm
Conwy	4	0	4
Sir Ddinbych	4	0	4
Sir y Fflint	167	64	231
Gwynedd	14	4	18
Ynys Môn	0	14	14
Wrecsam	37	7	44

Mae proffil oedran y gymuned yng Ngogledd Cymru yn dangos graddau'r broblem o ran disgwyliad oes teithwyr. O'i gymharu â'r proffil cyffredinol, mae'r strwythur oedran wedi'i ganoli'n drwm ar y bandiau oedran is, sydd fel arfer yn uwch na'r ffigurau cyfrannol ar gyfer Gogledd Cymru tan 35 oed, ac wedyn mae'n disgyn yn is na hynny, yn enwedig o 65 oed ymlaen. Er bod ffactorau diwylliannol yn cyfrannu'n

[30] Nomis, Cyfrifiad 2021 – TS022 - grŵp ethnig
[31] Llywodraeth Cymru - Cyfrif carafanau sipsiwn a theithwyr, Ionawr 2025

sylweddol at eu hiechyd gwael, gallai rhan o'r broblem hefyd ymwneud â'u cyswllt â gwasanaethau ac agosrwydd safleoedd at wasanaethau gofal iechyd.

Ffigur 2.9 - Proffil oedran ar gyfer poblogaeth y bwrdd iechyd a'r gymuned Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig 2021[32]



2.19 Troseddwyr

Mae poblogaeth y rhai sydd wedi'u dynodi'n droseddwyr yn cynnwys dau grŵp penodol.

Y cyntaf yw poblogaeth CEF Berwyn, sef carchar Categori C (carchar hyfforddi) i ddynion sy'n oedolion yn Wrecsam. Mae'n gartref i tua 2,100 o ddynion

Yr ail grŵp o droseddwyr yw'r rhai nad ydynt yn treulio amser yn y carchar mwyach; gall hyn gynnwys y rhai sy'n bwrw dedfrydau gohiriedig, y rhai sydd ar brawf, a'r rhai sy'n byw mewn llety diogel.

Mae "adeiladau cymeradwy" yn llety tebyg i hostel sydd wedi'i gymeradwyo ar gyfer goruchwylio ac adsefydlu troseddwyr am gyfnod dros dro, ac ar gyfer pobl ar fechnïaeth.
Mae dau adeilad cymeradwy yng Ngogledd Cymru ar gyfer dynion sy'n oedolion, sef Plas y Wern yn Wrecsam a Tŷ Newydd yng Ngwynedd. Nid oes adeilad cymeradwy o'r fath ar gyfer menywod.

Mae llety mechnïaeth yn cadw pobl ar fechnïaeth ac ar Gyrffyw Cadw yn y Cartref – oedolion yw'r rhain sydd angen cyfeiriad addas, neu rywfaint o gymorth, er mwyn

[32] Nomis, Cyfrifiad 2021 – TM032 - grŵp ethnig yn ôl rhyw ac oedran

iddynt allu cael eu rhyddhau. Mae dau yng Ngogledd Cymru, a'r rheiny yn Wrecsam. Mae gan un le i dair menyw, ac mae gan y llall le i dri dyn.

Nid oes darpariaethau diogel lleol yng Ngogledd Cymru ar gyfer pobl ifanc sy'n cael eu remandio i Lety Cadw Ieuenctid neu'n cael eu dedfrydu gan y Llysoedd i ddedfrydau o gystodaeth (Gorchmynion Cadw a Hyfforddi neu ddedfrydau Adran 90-92 gan Lysoedd y Goron). Mae hyn yn peri problem sylweddol, gan gynnwys o ran y Gymraeg, ac ni ragwelir y bydd hyn yn newid.

2.20 Digartrefedd a chysgu ar y stryd

Yn 2024/25, ledled Cymru, dyma'r prif resymau dros asesu aelwydydd fel rhai dan fygythiad o ddigartrefedd cyn pen 56 diwrnod:

- "Colli llety rhent neu lety clwm" – 33% o achosion,
- "Rhiant, perthynas arall neu ffrindiau bellach yn anfodlon lletya" – 26%,
- "Perthynas â phartner yn chwalu" – 13%, ac
- "Ôl-ddyledion rhent neu forgais" – tua 9%[33].

Dyma'r prif resymau pam fod unigolyn yn dod yn ddigartref yn 2024/25:

- "Rhiant, perthynas arall neu ffrindiau bellach yn anfodlon lletya" - 30%),
- "Perthynas â phartner yn chwalu" - 20%,
- "Colli llety rhent" - 15%,
- "Person sy'n gadael carchar" – 12%, ac
- "Arall (gan gynnwys digartref mewn argyfwng, wedi dychwelyd o dramor, yn cysgu ar y stryd neu mewn hostel)" – 10%.

Ar gyfer y rhai yr aseswyd eu bod yn anfwriadol ddigartref ac mewn angen blaenoriaethol, dyma'r prif resymau:

- "Rhiant, perthynas arall neu ffrindiau bellach yn anfodlon lletya" - 29% o'r holl achosion,
- "Perthynas â phartner yn chwalu" - 20%,
- "Colli llety rhent neu lety clwm" - 18%,
- "Arall (gan gynnwys digartref mewn argyfwng, wedi dychwelyd o dramor, yn cysgu ar y stryd neu mewn hostel)" - 10%, a
- "Person sy'n gadael carchar" – 9%.

Yn 2024/25, aseswyd bod 2,436 o aelwydydd yng Ngogledd Cymru yn gymwys, yn ddigartref yn amodol ar ddyletswydd i helpu i sicrhau llety. Sir y Fflint oedd â'r nifer uchaf o aelwydydd, sef 633, ac yna Conwy â 537. Ynys Môn oedd â'r nifer isaf o aelwydydd, sef 240[34].

Mae awdurdodau unedol a'u partneriaid yn cyfrif nifer y bobl sy'n cysgu ar y stryd er mwyn rhoi cipolwg ar un noson. Mae'r cyfrif amcangyfrifedig yn seiliedig ar y data a

[33] Llywodraeth Cymru - Digartrefedd: Ebrill 2024 i Fawrth 2025
[34] StatsCymru - Aelwydydd a ganfuwyd sy'n gymwys, yn ddigartref yn amodol ar ddyletswydd i helpu i sicrhau yn ystod y flwyddyn: Y prif reswm dros golli'r cartref sefydlog diwethaf yn ôl y math o aelwyd (Adran 73)

gasglwyd dros gyfnod o bythefnos. At ddibenion cyfrif, diffinnir rhywun sy'n cysgu ar y stryd fel unigolyn sy'n cysgu yn yr awyr agored dros nos (fel drysau siopau, llochesi bysiau neu barciau) neu mewn adeiladau, cerbydau neu fannau eraill nad ydynt wedi'u bwriadu i bobl fyw ynddynt (fel grisiau, ysguboriau, siediau, meysydd parcio, pebyll, ceir/faniau).

Mae'r ffigur isod yn dangos nifer y bobl sy'n cysgu ar y stryd yn ystod cyfrif un noson ar 28 Chwefror 2026.

Ffigur 2.10 – nifer y bobl sy'n cysgu ar y stryd 2026[35]

Ardal	Cyfanswm y bobl sy'n cysgu ar y stryd
Conwy	1
Sir Ddinbych	1
Sir y Fflint	8
Gwynedd	8
Ynys Môn	4
Wrecsam	2

[35] Llywodraeth Cymru - Pobl sy'n cysgu ar y stryd yn ôl ardal awdurdod lleol

3 Anghenion iechyd cyffredinol Gogledd Cymru

3.1 Canser[36]

Mae canser yn un o brif achosion salwch ac yn ôl, Cancer Research UK, bydd un o bob dau o bobl yn y DU yn cael canser yn ystod eu hoes. Mae'n grŵp o 200 o glefydau, sydd gyda'i gilydd, yn faich trwm lle mae afiechydon yn y cwestiwn.

Mae canser yn achosi rhyw un ym mhob pedair o farwolaethau yn achos pobl sy'n byw yng Nghymru (2024). Canser yr ysgyfaint yw prif achos marwolaeth oherwydd canser yng Nghymru ac yn 2024, achosodd 1,759 o farwolaethau, bron yn ddwywaith yn fwy na'r achos mwyaf cyffredin nesaf. Mathau eraill o ganser a achosodd fwy na 500 o farwolaethau yn 2024 oedd canser y colon a'r rhefr (987), canser o darddiad cychwynnol anhysbys (659), canser y prostad (624), canser y fron (590, yr oedd 589 o'r rhain yn cynnwys canser y fron yn achos menywod), a chanser y pancreas (555).

Yng Ngogledd Cymru[37], fel sy'n wir yng Nghymru gyfan, canserau'r prostad, y fron, y colon a'r rhefr, a'r ysgyfaint yw'r mathau mwyaf cyffredin o ganser yn achos yr holl unigolion (2022-2022). Yn achos dynion, y pedwar math o ganser sydd fwyaf cyffredin yw canser y prostad, y colon a'r rhefr, yr ysgyfaint, a melanoma'r croen, ond yn achos menywod, y rhain yw canser y fron, yr ysgyfaint, y colon a'r rhefr, a'r groth.

Yn 2015, roedd dros 7,000 o achosion newydd o ganser (rhyw bedwar ymhob deg) yng Nghymru bob blwyddyn, yn gysylltiedig â ffactorau risg y gellir eu newid[38]. Gyda'i gilydd, roedd canser yr ysgyfaint, melanoma'r croen, a chanser y fron yn cyfrif am dros dair rhan o bump o achosion canser y gellid eu hatal o bosibl. Mae ystod o ffactorau'n dylanwadu ar risg unigolyn o ddatblygu canser yn ystod ei oes a gellir addasu rhai o'r ffactorau pwysicaf o ran canser.

- Ysmygu,
- Y rhai sydd dros eu pwysau neu sy'n byw gyda gordewdra,
- Derbyn gormod o ymbelydredd uwchfioled (o'r haul neu welyau haul),
- Dod i gysylltiad â sylweddau niweidiol yn y gwaith (megis asbestos),
- Heintiau penodol (megis feirws papiloma dynol),
- Yfed alcohol,
- Peidio â bwyta digon o ffibr,
- Dod i gysylltiad ag ymbelydredd ïoneiddio, a
- Bwyta cig wedi'i brosesu.

Fodd bynnag, ni ellir addasu rhai o'r ffactorau hyn gan eu bod yn ymwneud â phethau megis oedran, rhyw, a chyfansoddiad genetig.

---

[36] Iechyd Cyhoeddus Cymru GIG Cymru - Canser yng Nghymru - tueddiadau ac amcanestyniadau (Medi 2025)
[37] Iechyd Cyhoeddus Cymru GIG Cymru – Offeryn adrodd ar ganser Cymru (Mawrth 2026)
[38] Brown, K.F., Rumgay, H., Dunlop, C. *et al.* The fraction of cancer attributable to modifiable risk factors in England, Wales, Scotland, Northern Ireland, and the United Kingdom in 2015. Br J Cancer **118**, 1130–1141 (2018)

Mae i fathau gwahanol o ganser ffactorau risg gwahanol; mae rhai o'r rhain yn ffactor risg yn achos rhai mathau o ganser yn unig, er bod eraill yn ffactor risg yn achos llawer o fathau gwahanol o ganser.

Amcangyfrifwyd bod rhyw 40% o ganserau yn gysylltiedig yn uniongyrchol â'r ymddygiadau ffordd o fyw hyn y gellid eu haddasu.

Ar draws Gogledd Cymru, mae annhegwch o ran cyfraddau goroesi yn achos rhai mathau o ganser gan fod y rhai sy'n byw ag amddifadedd economaidd-gymdeithasol mwy yn fwy tebygol o fod â mathau newydd o ganser, ond maent yn llai tebygol o oroesi na'r rhai sy'n fwy cefnog.

Mewn perthynas â phob malaenedd (ac eithrio canserau'r croen nad ydynt yn cynnwys melanoma) ar gyfer y cyfnod o 2020 hyd at 2022[39], Wrecsam oedd â'r gyfradd safonedig yn ôl oedran uchaf yn Ewrop fesul 100,000 o'r boblogaeth ar gyfer yr holl unigolion (636.6) a Sir Ddinbych oedd yr ail gyfradd uchaf (634.7). Mae'r ffigurau hyn yn cymharu â chyfartaledd Cymru, sef 596.0. Gwynedd, ar 587.8, oedd â'r gyfradd isaf yng Ngogledd Cymru.

3.2 Clefyd cardiofasgwlaidd

Mae clefydau cardiofasgwlaidd yn effeithio ar gyflenwad y gwaed i'r galon ac i organau hollbwysig eraill ac maent yn cynnwys[40]:

- Clefyd cynhenid y galon,
- Clefyd coronaidd y galon,
- Clefyd cerebrofasgwlaidd
- Thrombosis gwythiennau dwfn ac emboledd ysgyfeintiol
- Methiant y galon,
- Ffibriliad atrïaidd,
- Clefyd rhiwmatig y galon,
- Strôc, a
- chlefyd fasgwlaidd ymylol.

Fel yn achos canser, bydd cymryd camau i addasu ymddygiadau ffordd o fyw'n helpu i leihau'r risg o glefyd cardiofasgwlaidd. Mae'r prif ffactorau risg yn cynnwys:

- Alcohol,
- Diabetes,
- Pwysedd gwaed uchel,
- Lefelau colesterol uchel,
- Anweithgarwch corfforol,
- Deiet afiach,
- Gorbwysau a gordewdra, ac
- Ysmygu.

[39] Iechyd Cyhoeddus Cymru GIG Cymru – Offeryn adrodd ar ganser Cymru (Mawrth 2026)
[40] Sefydliad Iechyd y Byd - Cardiovascular disease (31 Gorffennaf 2025)

Mae ffactorau risg nad oes modd eu haddasu'n cynnwys oedran, rhywedd gwrywaidd, ethnigrwydd, a hanes teuluol o glefyd cardiofasgwlaidd cynamserol.

3.3 Diabetes

Mae dau brif fath o ddiabetes, sef math 1 a math 2, ac mae'r un olaf yn fwy cyffredin o lawer. Gall gael ei ragflaenu gan gyflwr cyn diabetes lle bydd lefelau siwgr yn y gwaed yn uwch ond nad ydynt eto yn ddigon uchel i roi diagnosis diabetes.

Mae gan bobl â diabetes math 1 risg uwch o lawer o ddatblygu cyflyrau awto-imiwn eraill megis clefyd coeliag neu glefyd thyroid. Yn ogystal, gall gynyddu'r risg o ganser yr afu, y pancreas, yr aren a'r stumog. Fodd bynnag, mae rhywfaint o dystiolaeth i ddangos y gallai diabetes math 1 leihau'r risg o ganser yn ymwneud â'r prostad neu'r fron.

Mae gan y rhai sydd â diabetes math 2 risg gynyddol o gael canser y coluddyn, yr afu, y fron a'r pancreas, yn ogystal â chlefyd y thyroid.

Mae cymhlethdodau eraill sy'n gysylltiedig â diabetes yn cynnwys methiant yr arennau, clefydau sy'n effeithio ar y llygaid a phroblemau o ran cylchrediad y gwaed a phroblemau niwrolegol yn y droed a'r goes. Mae diabetes yn fwy cyffredin ymysg cymunedau sy'n wynebu amddifadedd economaidd-gymdeithasol ac ymysg pobl Dduon ac Asiaidd.

Yn ôl Diabetes UK[41], Cymru sydd â'r amlder uchaf o ddiabetes yn y DU, gan fod mwy na 207,000 o bobl, neu 8% o'r boblogaeth, yn byw gyda diabetes. Mae'r niferoedd yn codi bob blwyddyn, yn rhannol oherwydd cyfradd gynyddol o ddiagnosisau am ddiabetes math 2. Mae amcangyfrifon yn awgrymu bod 65,000 o bobl eraill â diabetes math 2 nad ydynt eto wedi derbyn diagnosis.

Gwnaeth dadansoddiad o gost salwch wedi'i ddiweddaru amcangyfrif mai cost uniongyrchol diabetes yn y DU oedd £10.7 biliwn yn 2021/22, ac roedd dros 60% o'r gwariant hwn wedi cael ei briodoli i reoli cymhlethdodau. Amcangyfrifir bod diabetes bellach yn cyfrif am fwy na 6.0% o gyllideb iechyd y DU. Roedd modelu hanesyddol wedi rhagamcanu'n flaenorol y byddai diabetes yn cynrychioli ryw 10% o gyfanswm gwariant iechyd, gyda'r posibilrwydd o godi i 17% erbyn 2035 hyd at 2036 pe bai tueddiadau'n parhau.


Yng Nghymru, mae rhagamcaniadau'n awgrymu y gallai 48,000 o bobl ychwanegol fod yn byw gyda diabetes erbyn 2035, sy'n golygu mai rhyw un ym mhob 11 o oedolion yw'r cyfanswm wedyn. Mae'r baich ariannol yn sylweddol, ac mae derbyniadau ysbyty sy'n gysylltiedig â diabetes yn costio £4,518 ar gyfartaledd fesul ysbaid yn 2021/22 (ac eithrio'r rhai sy'n cynnwys trychiadau), ac roedd costau presgripsiwn ar gyfer meddyginiaethau diabetes wedi cyrraedd £105 miliwn yn 2022 hyd at 2023.

[41] Diabetes UK, Diabetes in Wales

Mae'r ffactorau risg y gellid eu haddasu'n cynnwys bod dros bwysau a gordewdra, anweithgarwch corfforol, deiet afiach, pwysedd gwaed uchel[42].

Yn unol â'r fframwaith ansawdd a chanlyniadau, mae practisau meddygon teulu yn pennu cofrestr ac yn ei chynnal ar gyfer yr holl gleifion sy'n 17 oed ac yn hŷn sydd â diabetes. Mae ffigurau ar gyfer 2025 yn dangos bod amlder diabetes yn amrywio rhwng 6.5% (Arfon) a 9.6% (Dwyrain Conwy) ar gyfer y boblogaeth sydd wedi cofrestru â meddyg teulu yng Ngogledd Cymru. Mae'r tabl isod yn dangos yr amrywiadau o ran amlder diabetes ar lefel ardal leol yn seiliedig ar y cofrestrau sy'n cael eu cynnal gan y practisau meddygon teulu yn yr ardal leol honno o gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer y bwrdd iechyd a Chymru.

Ffigur 3.1: Amcangyfrifon o ganran amlder diabetes yn seiliedig ar gleifion sydd ar gofrestrau practisau meddygon teulu yn ôl ardal leol, bwrdd iechyd a Chymru 2025[43]



Fel y gwelir, mae'r gyfradd amlder uchaf yn ardal leol Dwyrain Conwy (9.6%) ac mae'r gyfradd isaf yn ardal leol Arfon (6.5%). Mae naw o blith yr 14 o ardaloedd lleol yn is neu'n hafal i gyfraddau'r Bwrdd Iechyd a Chymru (8.3% a 8.4% yn eu trefn) ac mae pum ardal leol yn uwch.

[42] Iechyd Cyhoeddus Cymru GIG Cymru - Mynychder diabetes - tueddiadau, ffactorau risg ac amcanestyniadau 10 mlynedd
[43] StatsCymru Llywodraeth Cymru - Cofrestrau clefydau yn ôl bwrdd iechyd lleol, clwstwr a phractis meddyg teulu

3.4 Lles Meddyliol


Y prif negeseuon ynghylch iechyd meddwl oedolion yng Ngogledd Cymru yn asesiad poblogaeth Gogledd Cymru 2022[44] yw:

- Yn ôl pobl yng Ngogledd Cymru, mae eu hiechyd meddwl ychydig yn well nag yn achos Cymru gyfan.
- Mae nifer y bobl â phroblemau iechyd meddwl yn debygol o barhau i fod yn sefydlog.
- Y mathau mwyaf cyffredin o salwch meddwl y sonnir amdanynt yw gorbryder ac iselder.
- Mae ymchwil yn awgrymu nad yw nifer fawr o bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl yn ceisio cymorth.
- Mae nifer y derbyniadau i gyfleusterau iechyd meddwl yn gostwng.
- Mae pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl yn fwy tebygol o fod ag iechyd corfforol gwael.

Yn unol â'r fframwaith ansawdd a chanlyniadau meddygon teulu, mae'n ofynnol i bractisau meddygon teulu gynnal cofrestr cleifion sydd â sgitsoffrenia, anhwylder affeithiol deubegynol a mathau eraill o seicosis a chleifion eraill sy'n derbyn therapi lithiwm. Mae'r ffigur isod yn dangos canran y bobl sydd wedi cofrestru â phractis meddyg teulu yng Ngogledd Cymru ac sydd wedi'u cynnwys ar gofrestr iechyd meddwl practis. Fodd bynnag, dylid nodi bod y ffigurau'n debygol o danamcangyfrif y gwir amlder gan ei fod yn dibynnu ar y claf yn mynd at y meddyg teulu am driniaeth, derbyn diagnosis, a chofnodi ei fanylion ar y gofrestr afiechydon. Bydd llawer o gleifion yn y gymuned sydd â symptomau anhwylder seicolegol nad ydynt wedi mynd at eu meddyg teulu am hyn, felly mae'n bwysig dehongli'r amcangyfrifon hyn yn ofalus.

[44] Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru – Asesiad Anghenion y Boblogaeth Gogledd Cymru 2022

Ffigur 3.2: Amcangyfrifon o ganran amlder iechyd meddwl yn seiliedig ar gleifion sydd ar gofrestrau meddygon teulu yn ôl ardal leol, bwrdd iechyd a Chymru 2025[45]



Fel y gwelir, mae'r gyfradd amlder uchaf yn ardal leol Canol Wrecsam (1.5%) ac mae'r gyfradd isaf yn ardal leol Gogledd-ddwyrain Sir y Fflint (0.8%). Mae 11 o blith yr 14 o ardaloedd lleol yn is neu'n hafal i gyfraddau'r Bwrdd Iechyd a Chymru (1.1%) ac mae tair ardal leol yn uwch.

Yn 2025, roedd bron 27% o gleifion wedi cofrestru ym maes gofal sylfaenol am fod ag unrhyw gyflwr iechyd meddwl; mae hyn yn uwch na chyfartaledd Cymru (23.9%). Ar draws y rhanbarth, mae ffigurau'n amrywio o 22.2% yn ardal leol Arfon hyd at 32.5% yn ardal leol Gogledd Sir Ddinbych.

Mae achosion hunanladdiad yn gymhleth. Gwnaeth crynodeb o dystiolaeth ar atal hunanladdiad nodi nifer o ffactorau sy'n gysylltiedig â risg gynyddol o hunanladdiad gan gynnwys:

- rhywedd (gwrywod),
- oedran (y sawl rhwng 15 a 44 mlwydd oed),
- amddifadedd economaidd-gymdeithasol,
- salwch seiciatrig yn cynnwys iselder mawr,
- anhwylder deubegynol,
- anhwylderau gorbryder,
- salwch corfforol megis canser,
- hanes o hunan-niweidio, a

[45] StatsCymru Llywodraeth Cymru - Cofrestrau afiechydon yn ôl bwrdd iechyd lleol, clwstwr a phractis meddyg teulu

- hanes teuluol o hunanladdiad.

Mae'n bwysig cydnabod y ffaith bod hunanladdiadau yn digwydd yn bur anaml. Dylid dehongli dadansoddiadau'n ymwneud ag ardaloedd bach yn ofalus, gan fod cyfraddau'n gallu amrywio'n drawiadol oherwydd nifer fach o achosion. Mae data'n ymwneud â hunanladdiad hefyd yn amodol ar nifer o gafeatau.

Mae cyfradd hunanladdiadau yn ardal y bwrdd iechyd (11.9 fesul 100,000) ychydig islaw'r gyfradd i Gymru (12.5 fesul 100,000). Ar lefel awdurdod unedol, mae cyfradd Sir y Fflint yn sylweddol is ar lefel ystadegol o gymharu â'r gyfradd i Gymru.

Mae gwahaniaeth amlwg o ran cyfraddau hunanladdiad rhwng y cymunedau mwyaf a lleiaf difreintiedig ledled Cymru. Mae pobl sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig bron i ddwywaith yn fwy tebygol o farw oherwydd hunanladdiad o gymharu â'r rhai sy'n byw yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig.

3.5 Dementia

Mae dementia'n gyflwr iechyd meddwl pwysig yn ymwneud â henaint, gan ei fod yn un o brif achosion afiachedd, marwolaeth a defnyddio gwasanaethau gofal iechyd. Wrth i bobl fwy'n hirach, mae amlder dementia'n debygol o gynyddu.

Clefyd Alzheimer yw'r ffurf fwyaf cyffredin ar ddementia. Caiff ei achosi gan broteinau sy'n cronni ar yr ymennydd sy'n effeithio ar sut mae celloedd yr ymennydd yn trawsyrru negeseuon. Dementia fasgwlaidd yw'r ail fath mwyaf cyffredin o ddementia a chaiff ei achosi gan ostyngiad yn llif y gwaed i'r ymennydd. Yn aml, mae dementia fasgwlaidd yn codi o ganlyniad i strôc neu byliau o isgemia dros dro.

Mae ffurfiau eraill ar ddementia'n cynnwys dementia gyda chyrff Lewy a chredir bod y rhain yn cyfrif am ryw 10-15% o blith y rhai sydd â dementia. Mae dementia cyrff Lewy yn cynnwys dau is-fath: dementia â chyrff Lewy a dementia Clefyd Parkinson. Mae dementia blaen-arleisiol yn derm a ddefnyddir ar gyfer grŵp o ddementias sy'n gallu effeithio ar bersonoliaeth, ymddygiad ac iaith.

Caiff dementia cynnar ei achosi'n bennaf gan yr un afiechydon sy'n achosi dementia yn achos pobl hŷn, megis Clefyd Alzheimer neu glefyd fasgwlaidd. Mae geneteg yn ffactor pwysig yn achos dementia cynnar, yn ogystal â ffactorau megis niwed difrifol i'r ymennydd wedi'i achosi gan strôc gynnar, anaf trawmatig i'r ymennydd neu ddefnyddio alcohol yn drwm.

Mae dementia'n gyflwr cymhleth gydag achosion a ffactorau risg lluosog sydd wedi'u crynhoi isod.

Mae nifer o ffactorau risg yn hysbys yn achos dementia[46]:

- henaint,
- genynnau (risg etifeddol)
- cyflyrau iechyd hirdymor eraill,

[46] Cymdeithas Clefyd Alzheimer – risk factors for dementia

- ffordd o fyw, er enghraifft, ymysgu a defnydd gormodol o alcohol,
- rhyw a rhywedd, a
- cronfa wybyddol, gallu'r ymennydd i dal i weithio er gwaethaf y clefyd.

Mae amlder dementia'n cynyddu gydag oedran. Dim ond rhyw un ym mhob 100 o bobl rhwng 60 a 64 oed (0.9%) y disgwylir iddynt brofi dementia, ond erbyn 95 oed a hŷn, disgwylir i hyn godi i ryw 41 ym mhob 100 o bobl (41.1%)[47].

Mae dementia'n un o'r cyflyrau cronig sydd wedi'i gofnodi ym maes gofal sylfaenol ac yr adroddir arno trwy fframwaith sicrhau ansawdd a gwella'r meddygon teulu.

Yng Ngogledd Cymru, mae 6,147 o gleifion sydd wedi cofrestru â phractisau meddygon teulu wedi cael diagnosis dementia. Mae'r niferoedd uchaf o gleifion i'w cael yng Ngogledd Sir Ddinbych (1.2% o gleifion sydd wedi cofrestru), Canol Wrecsam a Dwyrain Conwy (1.1% o gleifion sydd wedi cofrestru ym mhob un). Mae'r isaf i'w cael yn Arfon ac yng Ngogledd-ddwyrain Sir y Fflint (0.6% yr un).

Fodd bynnag, amcangyfrifir bod rhyw hanner y bobl sydd â dementia yng Ngogledd Cymru heb dderbyn diagnosis.

Disgwylir i nifer y bobl y rhagwelir y byddant yn byw gyda dementia gynyddu o 27.2% rhwng 2024 a 2034 gyda'r cynnydd uchaf yn Wrecsam (37.7%) a'r cynnydd isaf yng Ngwynedd (23.8%)[47].

Tabl 3.1 – nifer y bobl y rhagwelir y byddant yn byw gyda dementia yng Ngogledd Cymru, 2034 a 2044

Awdurdod unedol	Amcangyfrif diweddaraf 2024	Rhagamcaniad 2034	Cynnydd canrannol
Conwy	2,400	3,050	27.1%
Sir Ddinbych	1,800	2,250	25.0%
Sir y Fflint	2,450	3,100	26.5%
Gwynedd	2,100	2,600	23.8%
Ynys Môn	1,350	1,750	29.6%
Wrecsam	2,050	2,700	31.7%

3.6 Clefydau anadlol

Clefydau sy'n effeithio ar y llwybrau anadlu a strwythurau eraill o fewn yr ysgyfaint yw clefydau anadlol. Mae'r clefydau mwyaf cyffredin yn cynnwys clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint, asthma, clefydau galwedigaethol yn ymwneud â'r ysgyfaint megis niwmoconiosis y glowyr, niwmonia a gorbwysedd yn yr ysgyfaint.

[47] Hwb Cydlynu Arloesi Rhanbarthol Gogledd Cymru - Amcangyfrifon o fynychder dementia yng Ngogledd Cymru Rhagfyr 2025

Dros y deng mlynedd diwethaf[48], clefydau cronig sy'n effeithio ar y system anadlu isaf a'r ffliw a niwmonia fu dau o'r prif achosion isorweddol o farwolaeth yn gyson yng Nghymru. Mae'r niferoedd sy'n marw o glefyd cronig y system anadlu isaf wedi bod yn cynyddu bob blwyddyn ers 2020, ac yn 2023, hyn oedd achos isorweddol 2,132 o farwolaethau.

Mae marwolaethau oherwydd y ffliw a niwmonia wedi codi a gostwng a'r rhain oedd achos isorweddol 1,534 o farwolaethau yn 2023. Gyda'i gilydd, roedd y ddau grŵp clefyd anadlol hyn yn cyfrif am 3,666 o farwolaethau, sef 10% o'r holl farwolaethau yng Nghymru. Roedd y cyfanswm cyfunol hwn ychydig yn llai na'r prif achos marwolaeth, sef 'dementia a Chlefyd Alzheimer', a oedd achos isorweddol 3,796 o farwolaethau. Mae'r ffigurau hyn yn seiliedig ar achos isorweddol marwolaeth, sy'n golygu'r clefyd neu'r anaf a fu'n sbarduno'r gyfres o ddigwyddiadau a arweiniodd yn uniongyrchol at farwolaeth.

Tybaco yw'r achos mwyaf o ganser yr ysgyfaint yn y DU, a dangoswyd am y tro cyntaf yn y 1950au fod pobl sy'n ysmygu'n fwy tebygol o ddatblygu canser yr ysgyfaint o gymharu â'r sawl nad ydynt yn ysmygu. Mae hefyd yn cynyddu'r risg o gael canser mewn rhannau eraill o'r corff, er enghraifft, y geg, y gwefusau, y trwyn a'r sinysau, yr oesoffagws, y stumog, yr afu, y bledren a'r colon/rhefr.

Er y gall clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint fod o ganlyniad i gael cysylltiad â pheryglon galwedigaethol a llygredd aer, caiff ei achosi'n bennaf gan gysylltiad parhaus ac ail law â mwg tybaco.

Gellir dal niwmonia naill ai yn yr ysbyty/amgylchedd gofal iechyd a gall effeithio ar bobl o unrhyw oedran. Yn y DU, mae niwmonia'n effeithio ar ryw 0.5 i 1% o oedolion bob blwyddyn ac mae'n fwy cyffredin yn ystod yr hydref a'r gaeaf. Mae ysmygu a chysylltiad â mwg tybaco yn ffactorau risg yn achos niwmonia sy'n cael ei ddal yn y gymuned.

Asthma yw'r clefyd cronig mwyaf cyffredin yn ystod plentyndod a hwn hefyd yw prif achos afiachedd yn ystod plentyndod oherwydd clefyd cronig fel y caiff ei fesur gan absenoldeb o'r ysgol, ymweld ag adrannau achosion brys a derbyniadau i'r ysbyty. Mae'n effeithio ar bobl o bob oedran, hil ac ethnigrwydd. Gall cysylltiad â mwg sigaréts hefyd arwain at ddatblygu asthma ac at waethygu symptomau.

Mae rhoi'r gorau i ysmygu'n un o'r ffyrdd mwyaf effeithiol o atal clefydau anadlol ac o drin pobl sydd â chlefyd anadlol.

3.7 Iechyd rhywiol

Mae iechyd rhywiol yn cyfeirio at y galluedd a'r rhyddid i fwynhau rhywioldeb ac i'w fynegi heb gamfanteisio, gormes neu niwed corfforol neu emosiynol. Mae problemau iechyd rhywiol yn cynnwys:

[48] Iechyd Cyhoeddus Cymru GIG Cymru - Mynychder clefydau anadlol - tueddiadau, ffactorau risg, ac amcanestyniadau 10 mlynedd (19 Mehefin 2025)

- Heintiau a drosglwyddir yn rhywiol gan gynnwys haint feirws omiwnoddiffygiant dynol,
- Beichiogrwydd anfwriadol,
- Erthylu,
- Problemau ffrwythlondeb, a
- Chamweithrediad rhywiol.

Gwnaeth Coleg Brenhinol y Bydwragedd gyhoeddi “Wales state of maternity service 2023[49]” ac mae rhai o'r canfyddiadau i'w gweld isod.

- Mae cyfansoddiad demograffig menywod sy'n defnyddio gwasanaethau mamolaeth yng Nghymru yn newid, er enghraifft, mae'r mwyafrif o fenywod sy'n rhoi genedigaeth yng Nghymru bellach dros 30 mlwydd oed. Mae hyn yn newid sylweddol dros y degawd diwethaf, lle mae cyfran y genedigaethau yn achos menywod sy'n 30 oed a hŷn wedi codi o 42% (2011) i 53% (2021).
- Cafodd ychydig dros 15,000 o fabanod eu geni i fenywod rhwng 30 oed neu hŷn, a chafwyd ychydig dros 13,500 o enedigaethau yn achos menywod iau a merched.
- Roedd bron i chwech o bob deg o fenywod beichiog dros eu pwysau neu'n ordew yn ystod 2021. Mae mynegai màs y corff uwch yn ystod beichiogrwydd yn ffactor risg sylweddol, i fenywod ac i'w babanod, a gall arwain at gyflyrau megis diabetes yn ystod beichiogrwydd.
- Yn 2021, cyfanswm nifer y genedigaethau "byw" yng Nghymru oedd 28,879, ac o blith y rhain, roedd 6,211 ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.
- Yn 2021, yr oedran mwyaf cyffredin i famau ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr oedd 30-34, ac yna, 25-29. Yr oedran lleiaf cyffredin oedd 19 mlwydd oed ac iau.

Mae beichiogrwydd yn ystod yr arddegau yn achos ac yn ganlyniad posibl i dlodi yn ystod plentyndod, a gall hyn gynyddu'r tebygolrwydd o anghydraddoldebau iechyd. Mae bod yn fam yn ei harddegau neu'n blentyn i fam yn ei harddegau'n cynyddu'r risg o gael problemau iechyd a phroblemau eraill, i'r fam ac i'r plentyn. Mae cyfraddau cenhedlu uwch yn ystod yr arddegau'n gysylltiedig ag ardaloedd o amddifadedd uwch ac ardaloedd o ddiweithdra uwch.

Fel y gwelir o'r tabl isod, Sir Ddinbych sydd â'r gyfradd genhedlu uchaf ar gyfer menywod o dan 18 mlwydd oed (20.9), a'r ail gyfradd uchaf yng Nghymru.[50].

[49] Coleg Brenhinol y Bydwragedd – Wales state of maternity services 2023
[50] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol - Conceptions in England and Wales

Tabl 3.2 - Cyfraddau cenhedlu ar gyfer menywod o dan 18 mlwydd oed, yn ôl awdurdod lleol, Cymru, 2022

Awdurdod Unedol	Cyfradd genhedlu fesul 1,000 o fenywod yn ôl grŵp oedran
Sir Ddinbych	20.9
Sir y Fflint	19.8
Wrecsam	17.7
Ynys Môn	16.8
Conwy	15.1
Gwynedd	14.5

3.8 Alcohol[51, 52, 53]

Yn 2016, gwnaeth Prif Swyddog Meddygol y DU gyhoeddi canllawiau newydd sy'n cynghori yfed dim mwy na 14 uned o alcohol bob wythnos er mwyn cadw risgiau iechyd yn isel[54]. Mae defnyddio alcohol yn dal i fod yn her fawr o ran iechyd y cyhoedd yng Nghymru. Caiff ei gysylltu â datblygu llawer o gyflyrau iechyd megis pwysedd gwaed uchel, clefyd y galon, sirosis yr afu a chanser sy'n effeithio ar y geg, y gwddf a'r fron. Mae hefyd wedi cael ei nodi fel ffactor achosol (lle bod yfed alcohol yn achos uniongyrchol neu rannol) yn achos mwy na 200 o gyflyrau meddygol.

Mae camddefnyddio alcohol hefyd yn gallu achosi codymau, damweiniau, ac anafiadau yn ogystal â phroblemau cymdeithasol megis ymosodiadau a throseddau. Yng Nghymru, mae 49% o'r holl droseddau treisgar yn gysylltiedig ag alcohol, yn ogystal â chyfrannu at droseddau yn erbyn y drefn gyhoeddus ac ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn cymunedau, esgeuluso plant, trais domestig a thrais gan bartneriaid agosaf a cham-drin unigolion sy'n agored i niwed[55].

Mae cael magwraeth mewn teuluoedd lle bo alcohol neu gamddefnyddio sylweddau'n broblem yn gallu cael effeithiau negyddol sy'n parhau am yn hir nes bod yn oedolyn. Mae 14% o oedolion wedi dod i gysylltiad â chamddefnyddio alcohol yn ystod plentyndod. Gall lleihau profiadau niweidiol yn ystod plentyndod leihau lefelau yfed niweidiol o 35%.

Nid oes i yfed alcohol yr un cysylltiad ag amddifadedd ag sydd i ymddygiadau ffordd o fyw eraill. Mae yfed alcohol uwchlaw'r canllawiau argymelledig yn uwch ymysg oedolion yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig yng Nghymru (21.3%) o gymharu â'r ardaloedd mwyaf difreintiedig (14.6%).

Yn 2023, gwnaeth marwolaethau sy'n ymwneud yn benodol ag alcohol (wedi'u hachosi gan alcohol yn gyfan gwbl) gynyddu i'r lefel uchaf erioed wrth i 562 o farwolaethau gael eu cofnodi, gan nodi cynnydd o 16.0% o gymharu â'r flwyddyn

[51] Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, Alcohol yng Nghymru
[52] Iechyd Cyhoeddus Cymru GIG Cymru - Alcohol
[53] Iechyd Cyhoeddus Cymru GIG Cymru - Marwolaethau cysylltiedig ag alcohol yn uwch nag erioed yng Nghymru yn amlygu pryderon brys iechyd y cyhoedd (Mawrth 2025)
[54] Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol - UK Chief Medical Officers' Low Risk Drinking Guidelines (2016)
[55] Alcohol Change UK - Alcohol, crime and disorder


flaenorol (486). O'r marwolaethau a oedd yn ymwneud yn benodol ag alcohol yn 2023, roedd bron i ddwy ran o dair ohonynt (64.8%) yn cynnwys gwrywod.

Mae derbyniadau ysbyty sy'n ymwneud yn benodol ag alcohol yn parhau i godi ac mae dros 12,000 o dderbyniadau'n cynnwys mwy na 8,000 o unigolion. Roedd oedolion hŷn 50 oed a hŷn yn cynnwys hyd at ddwy ran o dair (67.0%) o'r achosion hynny.

Er bod derbyniadau ysbyty yn ymwneud yn benodol ag alcohol ymysg y rhai o dan 25 oed wedi gostwng o 17.4% yn gyffredinol o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, gwnaeth gwaharddiadau o'r ysgol yn ymwneud â chyffuriau ac alcohol gyrraedd y lefel uchaf erioed gyda 939 o achosion yn ystod blwyddyn academaidd 2022/23.

Mae'r ffigur isod yn amlygu'r patrymau yfed yr adroddwyd arnynt ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac awdurdodau lleol o gymharu â'r gyfradd i Gymru.

Ffigur 3.3: Lefelau yfed wythnosol yn achos oedolion yn ôl awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru (2021-2023)[56]



Allwedd

Lefelau yfed alcohol fesul wythnos
1. Ddim yn yfed (dim unedau)
2. Yn yfed yn gymedrol (hyd at ac yn cynnwys 14 uned)
3. Yn yfed yn beryglus (hyd at 35 o unedau ar gyfer benywod a 50 o unedau ar gyfer gwrywod)

[56] Gofal Cymdeithasol Cymru - Porth data gofal cymdeithasol cenedlaethol Cymru - Yfed

4. Yn yfed yn niweidiol (mwy na 35 o unedau ar gyfer benywod a 50 o unedau ar gyfer gwrywod)

- Roedd canran y sawl nad ydynt yn yfed ar ei huchaf ar Ynys Môn (25.05%) ac ar ei hisaf yn Wrecsam (16.2%),
- Roedd canran y sawl sy'n yfed yn gymedrol ar ei huchaf yn Wrecsam (69.2%) ac ar ei hisaf yng Ngwynedd (60.0%).
- Roedd canran y sawl sy'n yfed yn beryglus ar ei huchaf yng Ngwynedd (18.4%) ac ar ei hisaf yn Wrecsam (10.9%), ac
- Roedd canran y sawl sy'n yfed yn niweidiol ar ei huchaf yn Wrecsam (3.7%) ac ar ei hisaf ar Ynys Môn ac yng Ngwynedd (1.5%).

3.9 Gordewdra

Mae amlder gordewdra ar gynnydd yng Nghymru (ac felly yw hi'n fyd-eang). Mae bod dros bwysau neu'n ordew yn cynyddu'r risg o gael ystod eang o glefydau cronig, yn bennaf diabetes math 2, gorbwysedd, clefyd cardiofasgwlaidd gan gynnwys strôc, yn ogystal â rhai mathau o ganser, clefyd yr arennau, apnoea cwsg rhwystrol, y gymalwst, osteoarthritis, a chlefyd yr afu, ymysg eraill[57].

Mae gordewdra'n gymhleth a gall nifer o ffactorau ddylanwadu arno gan gynnwys penderfynyddion economaidd, masnachol, cymdeithasol ac amgylcheddol, gan ymestyn ar draws adrannau'r llywodraeth.

Mynegai màs y corff uchel (h.y. bod dros bwysau neu'n ordew) ac anweithgarwch corfforol yw'r trydydd a'r pedwerydd prif achos sy'n sail i salwch yn y DU. O'u hystyried gyda'i gilydd, gellid dadlau mai hwn yw'r ffactor pwysicaf sy'n cyfrannu at les gwael mewn cymunedau yn yr oes sydd ohoni. Mae gordewdra yn ystod plentyndod yn arwain at ordewdra fel oedolyn ac yn ei waethygu sydd yn ei dro yn achosi neu'n gwaethygu ein cyflyrau salwch hirdymor cyfyngus mwyaf cyffredin. Derbynnir yn eang bod gordewdra fel oedolyn yn arwain at leihad mewn disgwyliad oes iach a disgwyliad oes byrrach.

Mae dros 89,600 o boblogaeth y Bwrdd Iechyd wedi cael eu cofrestru gan eu meddyg teulu fel rhai sy'n ordew; mae hyn yn cyfrif am bron i 15% o'r boblogaeth. Ar lefel ardal leol, mae'r cyfrannau uchaf i'w cael yng Ngogledd a Gorllewin Wrecsam (17.4%) a De Wrecsam (16.8%).

Mae deiet iach a chytbwys yn elfen hanfodol o fyw'n iach. Mae deiet cytbwys ochr yn ochr â gweithgarwch corfforol yn helpu i reoleiddio pwysau'r corff ac mae'n cyfrannu at iechyd da. Mae cynnal pwysau corff iach hefyd yn lleihau'r risg o gael problemau iechyd megis diabetes, clefyd coronaidd y galon, strôc a rhai mathau o ganser. Mae gweithgarwch corfforol rheolaidd yn rhan hanfodol o fyw'n iach. Mae diffyg gweithgarwch corfforol ymysg prif achosion salwch y gellid ei osgoi a marwolaeth gynamserol.

[57] Iechyd Cyhoeddus Cymru GIG Cymru - Gorbwysau a gordewdra

Mae'r Llywodraeth yn cynghori y dylai pawb gael o leiaf bum cyfran o ffrwythau a llysiau amrywiol bob dydd. Cyfran ffrwythau neu lysiau i oedolyn yw 80g. Yn ôl y canlyniadau i Ogledd Cymru o Arolwg Cenedlaethol Cymru rhwng 2021 a 2023[58]:

- Roedd rhwng 63.0% (Sir y Fflint sydd isaf) a 83.0% (Ynys Môn sydd uchaf) o bobl wedi bwyta rhwng un a phedair cyfran o ffrwythau a llysiau y diwrnod blaenorol ac
- Roedd rhwng 16.0% (Ynys Môn sydd isaf) a 29.0% (Sir y Fflint sydd uchaf) wedi bwyta pum cyfran o ffrwythau a llysiau y diwrnod blaenorol.

Mae canllawiau gweithgarwch corfforol i oedolion rhwng 19 a 64 oed yn cynnwys o leiaf 150 munud o weithgarwch o ddwyster cymedrol bob wythnos neu 75 munud o weithgarwch o ddwyster egnïol bob wythnos. Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru, roedd yr ystod ganrannol ar lefel awdurdod lleol ar gyfer y rhai a hunanadroddodd fod yn actif am 150 munud yn ystod yr wythnos rhwng 37.0% (Conwy sydd isaf) a 56.0% (Sir Ddinbych a Wrecsam sydd uchaf).

Yng Nghymru, hunanadroddodd 62.0% o oedolion eu bod dros eu pwysau a hunanadroddodd 25.0% eu bod yn ordew. Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru, roedd yr ystod ganrannol ar lefel awdurdod lleol ar gyfer y rhai a adroddodd fod dros eu pwysau rhwng 54.0% (Sir Ddinbych sydd isaf) a 63.0% (Conwy sydd uchaf) ac ar gyfer y rhai a adroddodd eu bod yn ordew, roedd rhwng 17.0% (Sir Ddinbych sydd isaf) a 30.0% (Gwynedd sydd uchaf).

3.10 Ysmygu[59]

Mae ysmygu'n hynod niweidiol i iechyd. Hwn yw'r achos marwolaeth i ryw hanner o'r holl ysmygwyr hirdymor[60] ac mae Sefydliad Iechyd y Byd[61] yn amcangyfrif bod tybaco'n lladd mwy nag wyth miliwn o bobl bob blwyddyn ym mhedwar ban byd.

Erys ysmygu'n un o brif achosion marwolaeth a salwch yng Nghymru ac mae'n un o brif achosion marwolaeth gynamserol a bydd un o bob dau o ysmygwyr hirdymor yn marw oherwydd afiechydon sy'n gysylltiedig ag ysmygu.

Dros gyfnod 2020 – 2022[62]:

- Amcangyfrifir bod 3,845 o farwolaethau bob blwyddyn ymysg y rhai sy'n 35 oed a hŷn yng Nghymru oherwydd ysmygu. Mae hyn yn golygu bod modd priodoli 10.7% ar gyfartaledd o'r holl farwolaethau yng Nghymru ymysg y rhai sy'n 25 oed a hŷn yn ystod y blynyddoedd hyn i ysmygu.
- Mae nifer y marwolaethau y gellir eu priodoli i ysmygu'n amrywio cryn dipyn yn ôl amddifadedd. Ymhlith y rhai a oedd yn 35 oed a hŷn a oedd yn byw yn yr

[58] Data InfoBaseCymru ar gyfer Cymru ddeallus - Oedolion sy'n adrodd ar ymddygiadau ffordd o fyw (O 2021 hyd at 2023)
[59] StatsCymru, Ffyrdd o fyw oedolion yn ôl awdurdod lleol a bwrdd iechyd
[60] Doll, R., et al. (2004). Mortality in relation to smoking: 50 years' observations on male British doctors
[61] Sefydliad Iechyd y Byd 2022 - Tobacco: Fact sheet (Mehefin 2025)
[62] Iechyd Cyhoeddus Cymru GIG Cymru - Marwolaethau a derbyniadau ysbyty y gellir eu priodoli i ysmygu yng Nghymru, 2020–22 (dadansoddiad newydd)

ardaloedd mwyaf difreintiedig fesul pumed, roedd modd priodoli 14.5% o'r holl farwolaethau i ysmygu. Cyfradd safonedig yn ôl oedran Ewrop o ran marwolaethau y gellir eu priodoli i ysmygu oedd 337 fesul 100,000 o oedolion 35 oed a hŷn a oedd yn byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig fesul pumed, sy'n fwy na thair gwaith yn uwch o gymharu â'r ardaloedd lleiaf difreintiedig fesul pumed.

- Amcangyfrifir bod 17,195 o dderbyniadau ysbyty bob blwyddyn yng Nghymru oherwydd ysmygu. Mae hyn yn golygu o'r holl dderbyniadau ysbyty ar gyfartaledd yng Nghymru ymysg y rhai 35 oed a hŷn yn ystod y blynyddoedd hyn, y gellir priodoli 3.4% ohonynt i ysmygu.

Mae amlder ysmygu'n uwch yn achos oedolion sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn dangos bod 21.8% o oedolion yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru yn adrodd eu bod yn ysmygu yn 2022-2023, sydd bron tair gwaith yn uwch na'r oedolion yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig (7.5%).

Mae'r tabl isod yn dangos marwolaethau y gellir eu priodoli i ymysgu, fesul cyfradd safonedig yn ôl oedran Ewrop fesul 100,000, unigolion 35 oed a hŷn yn ôl bwrdd iechyd a Chymru, 2020-2022 ar gyfer y saith bwrdd iechyd yng Nghymru.

Safle: Mae'r cyntaf (un) yn hafal i'r bwrdd iechyd gyda'r marwolaethau isaf y gellir eu priodoli i salwch a saith yw'r bwrdd iechyd gyda'r marwolaethau salwch.

Tabl 3.3 - Marwolaethau y gellir eu priodoli, ar sail cyfradd safonedig yn ôl oedran Ewrop fesul 100,000 unigolion 35 oed a hŷn fesul bwrdd iechyd a Chymru, 2020-22[63]

Safle	Y Bwrdd Iechyd	Marwolaethau y gellir eu priodoli i ysmygu fesul 100,000 o bobl, 25 mlwydd oed a hŷn
1	Powys	152
2	Caerdydd a'r Fro	165
3	Hywel Dda	172
4	Betsi Cadwaladr	188
5	Bae Abertawe	200
6	Aneurin Bevan	206
7	Cwm Taf Morgannwg	220
	Cymru	190

Deellir hefyd bod ysmygu'n cynyddu risg pobl o ddatblygu ystod eang o afiechydon, sy'n gallu bod yn angheuol neu sy'n gallu achosi niwed hirdymor i iechyd nad oes modd ei wrthdroi[64]. Mae'r rhain yn cynnwys mathau o ganser, afiechydon anadlol, a chlefydau cardiofasgwlaidd, gan gynnwys strôc, trawiad ar y galon a dementia.

[63] Iechyd Cyhoeddus Cymru GIG Cymru - Marwolaethau a derbyniadau ysbyty y gellir eu priodoli i ysmygu yng Nghymru, 2020–22 (dadansoddiad newydd)
[64] GIG 2018 - What are the health risks of smoking?

Dangoswyd bod mwg ail law yn peri niwed sylweddol, gan gynyddu'r risgiau i'r sawl nad ydynt yn ysmygu ddatblygu afiechydon sy'n gysylltiedig ag ysmygu gan gynnwys canser yr ysgyfaint a chlefyd cardiofasgwlaidd[65]. Mae cysylltiad â mwg ail law yn arbennig o niweidiol i blant, gan arwain at gyflyrau sy'n cynnwys clefyd y glust ganol, asthma ac alergeddau[66].

Deellir bod ysmygu yn ystod beichiogrwydd yn cael ystod eang o effeithiau ar y beichiogrwydd a'r plentyn yn ddiweddarach, gan gynnwys risg gynyddol o gamesgoriad, genedigaeth gynamserol a syndrom marwolaeth sydyn babanod[67].

Mae'r tabl isod, yn dangos canran yr ysmygwyr ar hyn o bryd ar gyfartaledd (oedolion sy'n 18 mlwydd oed a hŷn) ar draws y pum awdurdod unedol, o 2020 hyd at 2024. Cyfartaleddau pum mlynedd yw'r cyfartaleddau a gyflwynir, sydd wedi'u cyfrifo gan ddefnyddio data o 2020 hyd 2024, lle maent ar gael. Mae'r golofn safle yn dangos lle mae pob awdurdod unedol arni o gymharu â'r 21 o awdurdodau unedol eraill yng Nghymru, lle mae 1 yn dangos y ganran isaf o ysmygwyr ar gyfartaledd.

Tabl 3.4: Canran yr ysmygwyr ar hyn o bryd ar gyfartaledd (oedolion sy'n 18 oed a hŷn) rhwng 2020 hyd at 2024)[68]

Safle	Awdurdod unedol	O 2020 hyd at 2024 Canran yr ysmygwyr ar hyn o bryd (ar gyfartaledd)
7	Sir y Fflint	12.3
10	Ynys Môn	12.7
11	Conwy	12.7
13	Wrecsam	13.4
14	Sir Ddinbych	14
18	Gwynedd	14.4

Mae'r tabl isod yn dangos canran yr oedolion 16 mlwydd oed a hŷn, yn y chwe awdurdod unedol sydd wedi hunanadrodd eu bod yn ysmygu ac yn defnyddio e-sigaréts fel y'i cofnodwyd gan Arolwg Cenedlaethol Cymru[69] rhwng 2021 a 2023.

[65] Pwyllgor Gwyddonol Iecyd ar Dybaco ac Iechyd (SCOTH) 2004. Secondhand Smoke: Review of the evidence since 1998
[66] Coleg Brenhinol y Meddygon - Passive smoking and children (Mawrth 2010)
[67] Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr – Smoking and pregnancy (2021)
[68] Y Swyddfa Ystadau Gwladol - Adult smoking habits in the UK: 2024
[69] Data InfoBaseCymru ar gyfer Cymru ddeallus - Oedolion sy'n adrodd ar ymddygiadau ffordd o fyw (O 2021 hyd at 2023)

Tabl 3.5: Canran yr oedolion (16 mlwydd oed a hŷn) a hunanadroddodd eu bod yn ysmygu ac yn defnyddio e-sigaréts yn ôl awdurdod lleol a Chymru, o 2021 hyd at 2023

Awdurdod unedol	Canran yr ysmygwyr hunanadroddedig	Canran y defnyddwyr e-sigaréts hunanadroddedig
Conwy	6.0%	4.0%
Sir Ddinbych	14.0%	5.0%
Sir y Fflint	11.0%	10.0%
Gwynedd	17.0%	6.0%
Ynys Môn	11.0%	1.0%
Wrecsam	14.0%	10.0%

Mae nifer y bobl ifanc sy'n fepio wedi codi'n sylweddol yng Nghymru dros y blynyddoedd diwethaf, er iddi fod yn anghyfreithiol gwerthu fêp i unrhyw un o dan 18 oed ers 2015[70].

Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod argaeledd dyfeisiau tafladwy a'r ffyrdd y caiff fepiau eu marchnata wedi cyfrannu'n gryf at eu hapêl ymysg pobl ifanc.

Mae Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr mewn Ysgolion Uwchradd y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion, 2023 yn seiliedig ar 129,761 o ddysgwyr o flwyddyn 7 hyd at flwyddyn 11 o 201 o ysgolion yng Nghymru yn ymateb i'r arolwg a gafodd ei weinyddu rhwng Medi a Rhagfyr 2023. Y prif ganfyddiadau oedd:


- Nifer y dysgwyr ym mlwyddyn 7 i flwyddyn 11 yng Nghymru sy'n adrodd fepio o leiaf unwaith yr wythnos yw 7.0%, sef cynnydd o 5.4% (2021) a 2.7% (2019)
- Ers 2021, mae fepio wedi cynyddu ymysg merched, dysgwyr blwyddyn 11 a'r sawl nad ydynt yn ysmygu, ond gwnaeth fepio wythnosol gynyddu rhwng 2021 a 2023 ond ym mhob grŵp blwyddyn ac eithrio blwyddyn 7
- Mae merched (8.6%) yn fwy tebygol o fepio'n rheolaidd na bechgyn (5.1%). Mae'r rhai ym mlwyddyn 11 (15.9%) yn fwy tebygol o fepio na'r sawl sydd mewn grwpiau blwyddyn iau
- Mae mwy na chwarter (25.7%) o'r holl ddysgwyr o flwyddyn 7 hyd at flwyddyn 11 wedi rhoi cynnig ar fêp, sef cynnydd o 20.5% (2021). Ymysg dysgwyr blwyddyn 11, y ffigur oedd 45.4%
- Dim ond 2.7% o ddysgwyr ym mlwyddyn 7 hyd at flwyddyn 11 sy'n ysmygu'n rheolaidd bellach. Mae'r rhan fwyaf o'r rhain hefyd yn fepio
- Nifer y dysgwyr ym mlwyddyn 7 hyd at flwyddyn 11 sy'n fepio'n unig yw 5.2%, sy'n uwch nag yn 2021 (3.5%)
- Mae cyfran y dysgwyr sy'n ysmygu'n unig a'r gyfran sy'n ysmygu ac yn fepio'n rheolaidd wedi gostwng ers 2021

[70] Iechyd Cyhoeddus Cymru GIG Cymru a Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion - Fepio ac Ysmygu ymysg Dysgwyr ym Mlwyddyn 7 hyd at Flwyddyn 11 yng Nghymru - Dadansoddiad o Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr mewn ysgolion uwchradd y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion, 2023

- Mae defnydd nicotin trwy ysmygu neu fepio o leiaf yn wythnosol ar 0.8% ar hyn o bryd ymysg dysgwyr ym mlwyddyn 7 hyd at flwyddyn 11. Mae'r gyfran hon wedi codi ym mhob Arolwg ers 2019 pan oedd ar 5.4%
- Mae'r data yn rhoi tystiolaeth bod nifer cynyddol o ddysgwyr nad ydynt erioed wedi ysmygu ac na fyddent byth yn gwneud hynny'n rheolaidd, yn fepio'n rheolaidd

Mae'r tabl isod yn dangos canran y bobl ifanc rhwng 11 a 16 mlwydd oed a oedd yn ysmygwyr ac yn ddefnyddwyr e-sigaréts yn 2023[71].

Tabl 3.6: Canran y bobl ifanc sy'n ysmygu ac yn defnyddio e-sigaréts bob wythnos yn ôl awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru, 2023



[71] Iechyd Cyhoeddus Cymru GIG Cymru - Dangosfwrdd Iechyd a Lles Plant Ysgolion Uwchradd: Data Arolwg y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion

4 Grwpiau cleifion dynodedig – problemau iechyd penodol

Nodwyd bod y grwpiau cleifion canlynol yn rhai sy'n byw yng Ngogledd Cymru, neu'n ymweld â'r rhanbarth:

- Y rhai sy'n rhannu un neu ragor o'r nodweddion gwarchodedig canlynol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010,
  - Oedran
  - Anabledd, sef amhariad corfforol neu feddyliol sy'n achosi effaith andwyol sylweddol a hirdymor ar allu rhywun i wneud gweithgareddau arferol bywyd beunyddiol.
  - Beichiogrwydd a mamolaeth
  - Hil, sy'n cynnwys lliw, cenedligrwydd, tarddiad ethnig neu genedlaethol
  - Crefydd (gan gynnwys diffyg crefydd) neu gred (unrhyw gred grefyddol neu athronyddol)
  - Rhyw
  - Cyfeiriadedd rhywiol
  - Ailbennu rhywedd
  - Priodas a phartneriaeth sifil,
- Myfyrwyr prifysgol
- Troseddwyr a phobl sydd ar brawf
- Pobl sy'n ddigartref ac yn cysgu allan
- Cymunedau Sipsiwn a Theithwyr
- Ffoaduriaid a cheiswyr lloches
- Cyn-aelodau o'r lluoedd arfog
- Ymwelwyr â chyfleusterau chwaraeon a hamdden a pherchnogion ail gartrefi
- Anfantais gymdeithasol-economaidd
- Pobl sy'n siarad Cymraeg

Er y cyfeirir at rai o'r grwpiau hyn mewn rhannau eraill o'r asesiad o anghenion fferyllol, mae'r adran hon yn canolbwyntio ar eu problemau iechyd penodol.

4.1 Oedran

Mae problemau iechyd yn tueddu i fod yn waeth ymhlith plant ifanc iawn a phobl hen iawn. Fodd bynnag, er ei bod yn amlwg bod nifer a chyfran y bobl sy'n 65 mlwydd oed neu'n hŷn yn debygol o gynyddu a bod nifer yr achosion o bron pob cyflwr cronig a hirdymor yn cynyddu yn sgil oedran, mae'n bwysig cydnabod bod y boblogaeth hŷn yn amrywiol iawn ei natur a bod llawer o bobl yn dal yn heini ac yn cadw'n brysur. Er ei bod yn wir y bydd poblogaeth hŷn sy'n tyfu yn arwain at nifer cynyddol o bobl yn byw ag anghenion iechyd a gofal cymhleth, bydd niferoedd cynyddol hefyd ar draws pob grŵp oedran hŷn yn byw heb unrhyw anghenion sylweddol am gymorth.

Ar ben hynny, nid yw bod â chyflwr iechyd neu anabledd o reidrwydd yn cyfateb i lefelau uchel o alw am wasanaethau iechyd a gofal. Bydd gan lawer o bobl sy'n 75 mlwydd oed neu'n hyn un neu ragor o gyflyrau iechyd ond efallai na fyddant yn ystyried bod eu cyflwr neu eu cyflyrau iechyd yn effeithio'n sylweddol ar eu bywyd. Yn ychwanegol, mae pobl hŷn hefyd yn neilltuo llawer iawn o'u hamser a'u hegni i ofalu am eraill.

I bobl hŷn:

- Mae ysmygu sigaréts yn gysylltiedig ag wyth o'r pedwar ar ddeg o brif achosion marwolaeth ymhlith pobl sy'n 65 mlwydd oed neu'n hŷn. Mae ysmygu yn achosi clefydau sy'n achosi anabledd ac sy'n angheuol, gan gynnwys canserau'r ysgyfaint a chanserau eraill, clefydau'r galon a chylchrediad y gwaed, a chlefydau anadlol megis emffysema. Mae hefyd yn cyflymu cyfradd dirywiad dwysedd esgyrn yn ystod y broses heneiddio. Pan fyddant yn 70 mlwydd oed, bydd gan ysmygwyr esgyrn llai dwys a byddant yn wynebu mwy o berygl o brofi toresgyrn na phobl nad ydynt yn ysmygu. Mae ysmygwyr benywaidd yn wynebu mwy o berygl o gael osteoporosis ar ôl y menopos. Mae hanner yr ysmygwyr hirdymor yn marw o afiechydon sy'n gysylltiedig â thybaco, y rhan fwyaf ohonynt yn gynamserol, ac mae llawer yn dioddef gan amrywiaeth o gyflyrau cronig sy'n gysylltiedig ag ysmygu.
- Gall hyd yn oed defnydd cymedrol o alcohol yn ystod henaint fod yn niweidiol oherwydd mae'n cyfrannu at godymau, cof gwael, camreoli meddyginiaethau, diet annigonol a chyfyngiadau ar fyw'n annibynnol.
- Mae codymau yn bryder mawr o ran iechyd y cyhoedd, yn enwedig yn achos oedolion hŷn, a bydd mwy na thraean o bobl sy'n 65 mlwydd oed neu'n hŷn yn cael codwm bob blwyddyn. Disgwylir i dros 700 o bobl hŷn yng Nghymru farw yn sgil cael codwm bob blwyddyn, bydd 7,750 yn gorfod cael gofal mewn ysbyty, a bydd 132,000 yn cael codymau dro ar ôl tro yn eu cartref. Mae codymau'n creu effaith seicolegol a chorfforol sylweddol, gan arwain yn aml at unigedd, pryder a llai o annibyniaeth[72]. Gall teimlo'n unig neu ddiffyg cysylltiad â ffrindiau effeithio'n negyddol iawn ar les ac iechyd. Mae'n gysylltiedig ag iechyd meddwl gwael a chyflyrau megis clefyd cardiofasgwlaidd, pwysedd gwaed uchel a dementia. Mae'n debygol bod y cyfyngiadau symud a orfodwyd yn ystod pandemig Covid-19 yn 2020 wedi gwaethygu'r problemau hyn ymhlith pob grŵp oedran. Mae unigrwydd yn effeithio'n llawer ehangach ar iechyd y cyhoedd hefyd, oherwydd mae'n gysylltiedig â nifer o ganlyniadau iechyd negyddol gan gynnwys marwolaethau, afiacheddau, iselder a hunanladdiad. Mae pobl unig yn tueddu i wneud mwy o ddefnydd o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ac maent yn fwy tebygol o gael eu derbyn yn gynnar i leoliad gofal preswyl neu nyrsio. Mae'n bwysig ystyried gwahanol ffyrdd o sicrhau bod pobl hŷn yn cadw mewn cysylltiad â'r pethau sy'n bwysig iddynt a bod cyfleoedd ar gael i bobl hŷn fod yn egnïol a chynnal eu cysylltiadau.
- Iselder yw'r angen iechyd meddwl mwyaf cyffredin ymhlith pobl hŷn ac mae nifer yr achosion yn cynyddu yn sgil oedran. Cynhaliodd Age Cymru ddigwyddiad ym mis Ebrill 2024 a amlygodd y bwlch rhwng lefelau'r buddsoddiadau presennol ym maes iechyd meddwl pobl hŷn a'r anghenion dybryd ledled Cymru. Fe wnaeth y digwyddiad ddwyn sylw at rywfaint o ystadegau allweddol ynghylch iechyd meddwl gwael ymhlith demograffeg hŷn yng Nghymru gan gynnwys 22% o ddynion a 28% o fenywod dros 65 oed yn dioddef gan iselder, â 30% o ofalwyr hŷn yn profi iselder rywbryd neu'i gilydd.

[72] Age Cymru - Falls amongst older people can have a devastating impact but they are not an inevitable part of ageing

Fe wnaeth hefyd amlygu fod unigolion hŷn sy'n cael profedigaeth bedair gwaith yn fwy tebygol o ddioddef gan iselder[73].

- Gall pobl ag anghenion iechyd meddwl geisio cyngor a chymorth gan eu meddyg teulu. Fodd bynnag, ni fydd dwy ran o dair o bobl hŷn sydd ag iselder fyth yn trafod hynny â'u meddyg teulu, ac o blith y traean sy'n ei drafod, dim ond hanner sy'n cael diagnosis a thriniaeth. Mae hyn yn golygu mai 15 y cant yn unig, neu un o bob saith, o'r sawl sydd ag iselder, sy'n cael diagnosis ac yn cael unrhyw fath o driniaeth. Hyd yn oed pan gânt ddiagnosis, bydd pobl hŷn yn llai tebygol o gael cynnig triniaeth na phobl rhwng 16 a 64 oed.
- Dementia yw achos pennaf marwolaethau yng Nghymru a Lloegr. Mae Llywodraeth Cymru yn amcangyfrif bod 42,000 o bobl dros 65 oed yn byw gyda dementia yng Nghymru, ond mae amcangyfrifon Cymdeithas Alzheimer Cymru[74] yn awgrymu y gallai'r cyfanswm fod mor uchel â 51,000. Mae disgwyl i'r ffigur hwn godi 37% i bron i 70,000 o bobl erbyn 2040. Mae datblygu cymunedau sy'n deall dementia yn hanfodol i les pobl hŷn, yn enwedig y miloedd o bobl sy'n byw gyda dementia, beth bynnag fo'u diagnosis swyddogol, a'r bobl o'u cwmpas sydd hefyd yn profi'r effeithiau. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi Strategaeth Dementia newydd (2026 – 2036) yn 2026, gan ddisodli'r Cynllun Gweithredu Dementia a gyhoeddwyd yn 2018[75]., a'r Ddogfen Ategol ddilynol a gyhoeddwyd yn 2021. Nod Strategaeth Dementia 2026 yw gwella gofal a chymorth yn ymwneud â dementia ledled Cymru. Ar adeg ysgrifennu'r asesiad hwn o anghenion fferyllol, nid oedd y strategaeth wedi'i chyhoeddi.
- Mae iechyd corfforol da yn sicrhau effaith fuddiol sylweddol ar iechyd a lles yn ystod henaint; mae'r gallu i fod yn gorfforol egnïol yn gwella cryfder cyhyrau ac iechyd emosiynol ac yn lleihau'r perygl o gael codymau ac unigedd.
- Fe wnaeth astudiaeth yng Nghymru[76] [77]a ariannwyd gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru trwy gydweithrediad â Phrifysgol Caerdydd archwilio sut i wella bywydau pobl sy'n byw ag amhariad ar eu golwg. Yn 2020, roedd dros 1,000 o bobl yng Nghymru wedi'u cofrestru'n ffurfiol fel rhai ag amhariad ar eu golwg neu ag amhariad difrifol ar eu golwg. Mae nam ar y golwg yn un o'r cyflyrau anablu mwyaf cyffredin ymhlith pobl hŷn sy'n effeithio ar fywydau beunyddiol, gan gynnwys perthnasoedd a chysylltiadau cymdeithasol.
- Mae colli golwg yn broblem iechyd sylweddol o ran iechyd y cyhoedd, yn enwedig i bobl hŷn, oherwydd gall effeithio ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl ac annibyniaeth unigolyn, gan wneud pobl yn fwy tebygol o gael codymau neu brofi ynysigrwydd cymdeithasol. Oedran yw'r ffactor unigol mwyaf sy'n gysylltiedig â bod â chyflwr hirdymor ac mae hynny'n effeithio ar 60% o bobl sy'n 65 oed neu'n hŷn, ond amcangyfrifir bod ffactorau ffordd o fyw megis ysmygu, yfed gormod o alcohol, deietau afiach ac anweithgarwch corfforol yn achosi tua 50% o gyflyrau hirdymor.

---

[73] Age Cymru - Llywodraeth Cymru'n ymgynghori ar iechyd meddwl a llesiant, a strategaethau atal hunanladdiad (2024)
[74] Cymdeithas Clefyd Alzheimer Cymru - Cynllun gweithredu newydd ar gyfer dementia i Gymru (2025)
[75] Llywodraeth Cymru - Cynllun gweithredu ar gyfer dementia 2018 - 2022
[76] Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru - Ymchwil i lwybr ar gyfer pobl hŷn sydd â nam ar eu golwg i lywio cymorth a gwasanaethau 18 Medi 2025
[77] Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru - A preventative approach to ensuring access to a sustainable, whole system pathway for older people with vision impairment (ASSIST)

I blant a phobl ifanc:

- Ceir tystiolaeth sy'n awgrymu bod mil diwrnod cyntaf bywyd[78] (mae hyn yn cynnwys y cyfnod cyn i'r plentyn gael ei eni, hyd nes bydd yn ddyflwydd) yn effeithio'n sylweddol ar weddill bywyd y plentyn. Fel yr eglurodd Cymru Well Wales, "caiff y cyfnod hollbwysig hwn effaith hirbarhaol ar unigolion a theuluoedd. Maent yn llywio'r dynged ar gyfer plant wrth iddynt dyfu: eu cyflawniadau addysgol, eu gallu i sicrhau incwm, eu dylanwadau ar eu plant eu hunain, a'u hiechyd mewn oedran hŷn."
- Mae plant sy'n cael eu geni'n mewn amgylchiadau tlawd yn fwy tebygol o fod yn oedolion ag iechyd gwael na'r rhai sy'n cael eu geni mewn amgylchiadau goludog.
- Ceir tystiolaeth gadarn i gadarnhau pwysigrwydd bwydo ar y fron o ran cynnig manteision iechyd i'r fam a'r baban er mwyn hybu ymlyniad. Mae cyfraddau bwydo ar y fron mewn ardaloedd mwy difreintiedig yn sylweddol is nag yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig. Mae mamau ifanc ymhlith y grwpiau sy'n lleiaf tebygol o fwydo ar y fron.
- Mae babi sy'n cael ei eni i fam sy'n ordew ac yn ysmygu drwy gydol beichiogrwydd mewn mwy o berygl o ddatblygu ffyrdd o fyw afiach yn y dyfodol a bydd hynny'n golygu eu bod yn wynebu mwy o berygl o ddatblygu cyflyrau cronig difrifol a fydd yn effeithio ar ansawdd eu bywyd a'u disgwyliad oes.
- Bydd rhai plant yn profi camdriniaeth gorfforol, emosiynol neu rywiol neu'n byw mewn teuluoedd ble ceir rhieni'n gwahanu, camddefnyddio sylweddau, trais domestig, neu salwch meddwl; gelwir y rhain yn brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Mae profiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn brofiadau ingol sy'n digwydd yn ystod plentyndod ac sy'n niweidio plentyn yn uniongyrchol neu'n effeithio ar yr amgylchedd y mae'r plentyn yn byw ynddo. Gallant barhau i niweidio iechyd plant drwy gydol eu hoes.
- Yn 2016, cyhoeddodd Iechyd Cyhoeddus Cymru yr astudiaeth gyntaf o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod yng Nghymru[79]. Datgelodd hynny fod 47% o oedolion yng Nghymru wedi cael o leiaf un profiad niweidiol yn ystod eu plentyndod, a bod 14% wedi cael pedwar neu ragor. Mae profiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn achosi niwed hirdymor i iechyd a bydd hynny'n parhau yn ystod cyfnodau oedolaeth a henaint.
- Mae pobl sydd wedi profi pedwar neu ragor o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod:
    - bedair gwaith yn fwy tebygol o fod yn yfwr risg uchel
    - chwe gwaith yn fwy tebygol o ysmygu
    - chwe gwaith yn fwy tebygol o fod wedi cael cyfathrach rywiol dan oed
    - chwe gwaith yn fwy tebygol o fod wedi dod yn feichiog yn anfwriadol neu fod wedi achosi beichiogrwydd anfwriadol yn ystod yr arddegau
    - 11 gwaith yn fwy tebygol o fod wedi ysmygu canabis
    - 14 gwaith yn fwy tebygol o fod wedi bod yn ddioddefwr trais yn ystod y 12 mis blaenorol

[78] Iechyd Cyhoeddus Cymru - Rhaglen y 1000 Diwrnod Cyntaf Hydref 2023
[79] Iechyd Cyhoeddus Cymru - Profiadau Niweidiol adeg Plentyndod

    - 15 gwaith yn fwy tebygol o fod wedi cyflawni trais yn erbyn unigolyn arall yn ystod y flwyddyn flaenorol
    - 16 gwaith yn fwy tebygol o fod wedi defnyddio heroin neu grac cocên, ac
    - 20 gwaith yn fwy tebygol o gael eu carcharu yn ystod eu hoes.
- Yng Nghymru, roedd chwarter (23%) yr oedolion wedi dod i gysylltiad â cham-drin geiriol pan oeddent yn blentyn; roedd rhieni un o bob pump (20%) wedi gwahanu; roedd 17% wedi dod i gysylltiad â cham-drin corfforol; 16% wedi dod i gysylltiad â thrais domestig; 14% wedi dod i gysylltiad â salwch meddwl; 14% wedi dod i gysylltiad â chamddefnyddio alcohol; 10% wedi dod i gysylltiad â cham-drin rhywiol; 5% wedi dod i gysylltiad â chamddefnyddio cyffuriau ac roedd 5% wedi profi rhiant yn cael eu carcharu. Gall gwasanaethau 'sy'n ystyriol o drawma' gynnig amgylchedd cefnogol i bobl sydd wedi profi profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, gan annog ymgysylltu a rheoli cyflyrau'n well.
- Bydd sicrhau bod plant yn cael eu cynorthwyo i ysgwyddo cyfrifoldeb am eu bywydau a'u lles eu hunain yn eu helpu i fyw eu bywyd yn y ffordd orau bosibl. Mae cynnig gwybodaeth eglur a hygyrch iawn am sut y gall pobl ifanc a'u teuluoedd ddysgu rhagor am y cymorth cynnar sydd ar gael yn eu hardal yn bwysig.
- Mae blynyddoedd yr arddegau hefyd yn bwysig. Mae tystiolaeth gref i awgrymu fod cysylltiad agos rhwng ymddygiadau ffordd o fyw sy'n effeithio ar ganlyniadau iechyd a gofal cymdeithasol tymor hwy yn y dyfodol pan fydd pobl yn oedolion a'u ffordd o fyw yn ystod blynyddoedd eu harddegau. Mae llawer o blant yn datblygu ymddygiadau afiach o ran gweithgarwch corfforol a deiet, felly bydd dylanwadu ar ddewisiadau ffordd o fyw cadarnhaol ymhlith pobl ifanc yn effeithio ar ganlyniadau iechyd pobl ifanc ac ar y galw yn y dyfodol am ystod eang o wasanaethau gan oedolion.
- Ar gyfartaledd ledled Cymru, mae un o bob pedwar plentyn naill ai'n pwyso gormod neu'n ordew (25.5%). Wrth i lefelau amddifadedd gynyddu yng Nghymru, felly hefyd y mae canran y plant sydd mewn perygl o fod yn ordew. Er enghraifft, mae ychydig dros un o bob saith o blant sy'n byw yn y cymdogaethau mwyaf difreintiedig yn debygol o fod yn ordew yn y dyfodol (14.6%), o'i gymharu â llai nag un o bob deg sy'n byw yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig (8.4%)[80]. Yn eu hymateb i ymgynghoriad "Bwyta ac yfed yn iach mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru" yn 2025, dywedodd Cynghrair Gordewdra Cymru fod astudiaethau'n dangos bod plant a phobl ifanc sy'n ordew tua phum gwaith yn fwy tebygol o fod yn ordew pan fyddant yn oedolion, a bydd 80% o bobl ifanc sy'n ordew yn dal yn ordew pan fyddant yn oedolion[81].
- Casglodd Iechyd Cyhoeddus Cymru ddata ledled Cymru yn ystod blwyddyn ysgol 2026-2024 – Rhaglen Mesur Plant 2022-2023[82]. Dangosodd y data ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr:
    - Roedd o 0.7% o blant 4 i 5 oed yn rhy ysgafn (roedd y ganran uchaf, sef 1.0%, yn Sir y Fflint)

[80] Chemisy4u - Obesity Statistics Report 2025
[81] Ymateb Cynghrair Gordewdra Cymru - Hybu bwyta ac yfed yn iach mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru (2025)
[82] Iechyd Cyhoeddus Cymru - Rhaglen Mesur Plant 2023-24

    - Roedd 13.1% o blant 4 i 5 oed yn ordew (roedd y ganran uchaf, sef 13.6%, yn Ynys Môn)
    - Roedd 15.0% yn pwyso gormod ond nid yn ordew (roedd y ganran uchaf, sef 17.3%, yn Ynys Môn), a
    - Roedd gan 71.3% bwysau iach ((roedd y ganran uchaf, sef 72.2%, yn Sir y Fflint).
- Fe wnaeth 90% o bobl sy'n ysmygu yn y DU ddechrau gwneud hynny cyn troi'n 21 mlwydd oed[83]. Bellach, fepio yw'r ymddygiad defnyddio nicotin mwyaf cyffredin ymhlith pobl ifanc yng Nghymru. Bydd 5% o blant a phobl ifanc 11-16 oed yn fepio o leiaf unwaith yr wythnos (cynnydd o'r 3% yn 2019).[84]
- Gall heintiau a drosglwyddir yn rhywiol heb eu trin achosi effeithiau hirdymor ar iechyd, gan gynnwys anffrwythlondeb. Gall ymddygiad rhywiol pobl ifanc hefyd arwain at feichiogrwydd heb ei gynllunio a cheir risgiau iechyd sylweddol yn sgil hynny a bydd yn niweidio iechyd a chyfleoedd bywyd tymor hwy mamau a babanod. Ar ben hynny, gwyddys fod pwysau isel ar adeg genedigaeth yn gysylltiedig â beichiogrwydd yn yr arddegau a mamau sy'n ysmygu tra'n feichiog. Er mwyn lleihau'r perygl y caiff babanod eu geni'n gynnar, â phwysau geni isel, a'r risg o anableddau a ddaw yn sgil hynny, mae'n bwysig sicrhau bod cymorth ar gael i'r rhai a allai fod mewn perygl.
- Bydd tua 50% o achosion o salwch meddwl gydol oes yn dechrau erbyn i bobl droi'n 14 oed[85]. Mae plant a phobl ifanc sydd mewn mwy o berygl o broblemau iechyd meddwl yn cynnwys y rhai sy'n profi chwalfa deuluol; y rhai yn y System Derbyn Gofal a'r rhai sy'n amlygu problemau ymddygiad; a phlant sydd wedi profi trawma.
- Lluniodd Canolfan Cymru ar gyfer Gofal sy'n Seiliedig ar Dystiolaeth ym Mhrifysgol Caerdydd (2023) y rhagolwg cenedlaethol diweddaraf o gyflyrau hirdymor ar draws grwpiau oedran yng Nghymru[86]. Disgwylir i faich cyflyrau hirdymor godi dros y deng mlynedd nesaf, wedi'u hysgogi gan gynnydd mewn amlafiacheddau, gordewdra, diffyg maeth, ac anghydraddoldebau iechyd parhaus.

4.2 Anabledd

Ceir llawer o wahanol fathau o anableddau, a gall anabledd fod yn bresennol er adeg genedigaeth neu ddigwydd yn ystod oes unigolyn.

Yn ôl Sefydliad Iechyd y Byd[87], amcangyfrifir bod 1.3 biliwn o bobl yn profi anabledd sylweddol, ac mae'r nifer hwn yn cynyddu oherwydd newidiadau demograffig ac epidemiolegol yn y boblogaeth (megis heneiddio a'r cynnydd byd-eang mewn cyflyrau iechyd cronig), ac argyfyngau iechyd (megis brigiadau o glefydau, trychinebau naturiol, a gwrthdaro).

[83] Cancer Research UK - Around 350 young adults start smoking every day in the UK - Cancer News
[84] Rhwydwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru - Smygu ac anweddu
[85] Cymdeithas y Plant - Children's mental health statistics
[86] Canolfan Cymru ar gyfer Gofal sy'n Seiliedig ar Dystiolaeth - Forecasted prevalence and incidence of long-term conditions in Wales (2023)
[87] Sefydliad Iechyd y Byd - Disability factsheet 2023

- Bydd rhai pobl ag anableddau yn marw hyd at 20 mlynedd yn gynharach na phobl sydd heb anableddau.
- Yn achos pobl ag anableddau, mae'r perygl o ddatblygu cyflyrau megis iselder, asthma, diabetes, strôc, gordewdra, neu iechyd gwael y geg ddwywaith yn fwy.
- Mae pobl ag anableddau yn wynebu llawer o anghydraddoldebau iechyd.
- Mae cludiant anhygyrch ac anfforddiadwy 15 gwaith yn anoddach i bobl ag anableddau nag i bobl heb anableddau.
- Mae anghydraddoldebau iechyd yn deillio o amodau annheg y mae pobl ag anableddau yn eu hwynebu, gan gynnwys stigma, gwahaniaethu, tlodi, allgau o addysg a chyflogaeth, a rhwystrau a wynebir yn y system iechyd ei hun.

Nid yw pobl ag anableddau yn grŵp homogenaidd. Maent yn cynnwys pobl sy'n amrywio o ran eu hoedran, eu rhywedd a'u hethnigrwydd, a bydd hynny'n dylanwadu ar eu hanghenion gofal iechyd a'u mynediad atynt.

Nododd astudiaeth yn 2010 gan Arsyllfa Anableddau Dysgu Health and Lives Learning fod iechyd pobl ag anableddau dysgu iechyd yn waeth nag iechyd eu cymheiriaid nad ydynt yn anabl, a bod ganddynt wahaniaethau mewn statws iechyd y gellid, i ryw raddau, eu hosgoi. Nodai hefyd fod anghydraddoldebau iechyd y mae pobl ag anabledd dysgu yn eu hwynebu wedi dechrau yn ystod plentyndod a'u bod yn aml yn deillio o ddiffyg mynediad at ofal iechyd prydlon, priodol ac effeithiol.

Mae'r canlyniadau i oedolion ag anableddau o'u cymharu â'r boblogaeth ehangach yn waeth ym mron pob ffordd. Mae disgwyliad oes pobl ag anableddau dysgu yn fyrrach ac maent mewn mwy o berygl o farw'n gynnar o'i gymharu â'r boblogaeth gyffredinol. Mae ymchwil wedi dangos y bydd pobl ag anabledd dysgu ar gyfartaledd yn marw 19.5 mlynedd yn gynharach na phobl heb anabledd dysgu[88].

Fodd bynnag, mae pobl ag anableddau dysgu yn byw'n hirach nag yn y gorffennol, ac yn sgil hynny, mae nifer y bobl hŷn ag anabledd dysgu yn cynyddu. Yn ôl adroddiad blynyddol 2023 gan LeDeR ynghylch dysgu gwersi yn sgil bywydau a marwolaethau pobl ag anabledd dysgu a phobl awtistig[89]:

- Roedd 54.7% o'r oedolion ag anableddau dysgu yr hysbyswyd LeDeR amdanynt yn 2023 yn wrywod
- Roedd 79.5% o oedolion awtistig a fu farw yn 2021-2023 yn wrywod
- Roedd 7% o oedolion yr hysbyswyd amdanynt LeDeR yn 2023 yn hanu o grwpiau ethnig lleiafrifol
- Yn 2023, bu farw oedolion ag anabledd dysgu 19.5 mlynedd yn iau na'r boblogaeth gyffredinol ar gyfartaledd.
- Roedd oedran canolrifol ar adeg marwolaeth oedolion ag anabledd dysgu yr hysbyswyd LeDeR am eu marwolaeth rhwng 2018 a 2023 yn 62.5.

---

[88] Canolfan Astudiaethau Anabledd Norah Fry Prifysgol Bryste (2019) - The Learning Disabilities Mortality Review (LeDeR) Programme: *Annual Report* 2018. Llundain: Partneriaeth Ansawdd Gwella Gofal Iechyd.

[89] Partneriaeth Awtistiaeth ac Anabledd Dysgu LeDeR, Coleg y Brenin Llundain - Learning from Lives and Deaths - People with a learning disability and autistic people (LeDeR) report for 2023 (diweddarwyd Ionawr 2026)

- Roedd 38.6% o oedolion a fu farw yn 2023 yn byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig (y tri chanradd uchaf).
- Bu farw bron i 60% o oedolion ag anabledd dysgu a gafodd adolygiad gan LeDeR cyn troi'n 65 oed.
- Er bod nifer y marwolaethau y gellid eu hosgoi wedi gostwng ers 2021, mae'r gyfradd ar gyfer oedolion ag anabledd dysgu a fu farw yn 2023 yn dal i fod bron ddwywaith y gyfradd o'i gymharu â'r boblogaeth gyffredinol (data ar gyfer 2022).
- Yn 2023, roedd 15.1% o'r holl farwolaethau yn rhai y gellid bod wedi'u hatal a gellid bod wedi trin 25.1%.
- Y tri achos mwyaf cyffredin o farwolaeth y gellid eu hosgoi oedd ffliw a niwmonia (13.1%), clefydau isgemia'r galon (10.6%) a chlefydau cerebrofasgwlaidd (7.5%).

Canfu adroddiad Sefydliad Joseph Rowntree ar Dlodi yng Nghymru yn 2020[90] fod 27.2% o bobl anabl yng Nghymru yn byw mewn tlodi o'i gymharu â 20% o bobl nad oeddent yn anabl.

Yn 2021, roedd cyflog canolrifol gweithwyr anabl oedd yn byw yng Nghymru[91] 11.6% yn llai na chyflog gweithwyr nad oeddent yn anabl (er mai dyma oedd y bwlch lleiaf o blith pedair gwlad y DU).

Roedd bwlch cyflogaeth pobl anabl (y gwahaniaeth rhwng canran y bobl anabl a'r rhai nad ydynt yn anabl sydd mewn cyflogaeth) yn ail chwarter 2025 yn 29.7%[92]. I bob unigolyn anabl, mae bwlch cyflogaeth pobl anabl yn ehangach i ddynion, pobl hŷn (50 i 64 oed), pobl heb gymwysterau, pobl sy'n byw mewn tai cymdeithasol, pobl nad ydynt yn byw mewn perthynas â chymar, a phobl sy'n byw yng Ngogledd Iwerddon, yr Alban, Gogledd Lloegr, Gorllewin Canolbarth Lloegr a Chymru. Roedd pobl anabl yn fwy tebygol o fod yn anweithgar yn economaidd na phobl nad oeddent yn anabl, ac yn achos y rhai oedd yn anweithgar, nododd y mwyafrif mai salwch hirdymor oedd eu prif reswm dros fod yn anweithgar. Roeddent hefyd yn fwy tebygol o ddymuno canfod swydd ac yn llai tebygol o fod wedi bod â swydd rhwng 2023 a 2025, ac roedd un o bob pump heb weithio ers dros ddeng mlynedd.

Yn ardal y bwrdd iechyd, mae practisau meddygon teulu yn cynnal cofrestrau anableddau dysgu a ddefnyddir fel rhan o adroddiadau ynghylch y fframwaith sicrhau ansawdd a gwella. Mae'r rhain yn cynnig amcangyfrifon bras iawn o nifer y bobl ag anabledd dysgu; fodd bynnag, dylid nodi y ceir amrywiadau o ran sut caiff cyflyrau cronig eu codio a'u cofnodi gan feddygfeydd. Roedd enwau 3,946 o bobl ar y gofrestr anableddau dysgu ym mis Ebrill 2025.

4.3 Beichiogrwydd a mamolaeth

Mae beichiogrwydd yn gyfnod hollbwysig, ac yn ystod y cyfnod hwn, gall lles corfforol a meddyliol y fam arwain at effeithiau gydol oes ar y plentyn. Gall straen, deiet a chamddefnyddio alcohol neu gyffuriau yn ystod cyfnod beichiogrwydd beryglu

[90] Sefydliad Joseph Rowntree - Poverty in Wales 2020
[91] Swyddfa Ystadegau Gwladol - Disability pay gaps in the UK: 2021
[92] Adran Gwaith a Phensiynau - The employment of disabled people 2025

datblygiad plentyn yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae beichiogrwydd hefyd yn gymhelliant pwerus ar gyfer newid oherwydd mae'n gyfnod pan fo merched a phartneriaid yn fwy parod i dderbyn gwybodaeth newydd ac yn fwy tebygol o weithredu newidiadau cadarnhaol i'w ffordd o fyw er mwyn cynnig yr amodau gorau posibl i sicrhau iechyd a lles y baban yn y groth.

Mae'r cyfnodau cyn, yn ystod ac ar ôl beichiogrwydd hefyd yn cynnig cyfleoedd i roi cyngor ymarferol a chyson i fenywod i'w helpu i reoli eu pwysau a rhoi'r gorau i ysmygu er mwyn osgoi cymhlethdodau cysylltiedig.

4.3.1 Iechyd meddwl amenedigol[93,94]

Mae afiechydon meddwl yn y cyfnod amenedigol yn effeithio ar o leiaf 10% o fenywod, ac os na chânt eu trin, gallant achosi effeithiau dinistriol arnynt hwy ac ar eu teuluoedd. Pan fydd mamau'n dioddef gan y mathau hyn o salwch, bydd hynny'n cynyddu'r tebygolrwydd y bydd plant yn profi anawsterau ymddygiadol, cymdeithasol neu ddysgu ac yn methu â chyflawni eu potensial llawn. Os na chaiff afiechydon meddwl yn y cyfnod amenedigol eu trin, gallant arwain at oblygiadau hirdymor o ran les menywod, eu babanod a'u teuluoedd (Jones ac eraill, 2014).

Mae canllawiau a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal yn nodi mai iselder a phryder yw'r problemau iechyd meddwl mwyaf cyffredin a brofir yn ystod beichiogrwydd, a bod oddeutu 12% o fenywod beichiog yn profi iselder a 13% yn profi pryder ar ryw adeg, â llawer yn profi'r ddau. Gall y ddau barhau i effeithio ar fenywod am hyd at flwyddyn ar ôl genedigaeth eu plentyn.

Yn ystod beichiogrwydd a'r cyfnod ôl-enedigol, gall anhwylderau gorbryder, gan gynnwys anhwylder panig, anhwylder gorbryder cyffredinol, anhwylder obsesiynol-gorfodaethol, anhwylder straen wedi trawma a thocoffobia (profi ofnau eithafol ynghylch geni plentyn), ddigwydd ar eu pen eu hunain neu gallant ddigwydd ar y un pryd ag iselder. Gall seicosis ailymddangos neu waethygu yn ystod beichiogrwydd a'r cyfnod ôl-enedigol. Bydd seicosis ôl-enedigol yn effeithio ar rhwng un a dwy o bob 1,000 o fenywod sydd wedi geni plentyn. Mae menywod ag anhwylder deubegwn mewn perygl neilltuol o brofi hynny, ond gall seicosis ôl-enedigol ddigwydd yn achos menywod heb hanes seiciatrig blaenorol.

Gall newidiadau i siâp y corff (gan gynnwys magu pwysau) yn ystod beichiogrwydd ac ar ôl geni plentyn beri pryder i fenywod ag anhwylder bwyta. Er bod nifer yr achosion o anorecsia nerfosa a bwlimia nerfosa yn is ymhlith menywod beichiog, mae nifer yr achosion o anhwylderau bwyta mewn pyliau yn uwch.

Yng Nghymru[95]

- Nododd 32% o fenywod beichiog fod ganddynt gyflwr iechyd meddwl yn ystod

[93] Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal - Antenatal and postnatal mental health: clinical management and service guidance, 2020. National Institute for Health and Care Excellence
[94] Coleg Brenhinol y Bydwragedd - Strengthening perinatal mental health, a roadmap to the right support at the right time
[95] Llywodraeth Cymru - Ystadegau mamolaeth a genedigaethau Cymru 2023

eu hasesiad cychwynnol yn 2023. Mae hyn yn gynnydd o 1.4% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, a chynnydd o 12.2% o'i gymharu â 2016 (blwyddyn gyntaf casglu data cymharol)
- Nododd 38% o fenywod beichiog rhwng 16 a 19 oed a 40% o'r rhai rhwng 20 a 24 oed fod ganddynt gyflwr iechyd meddwl yng Nghymru yn 2023. Gostyngodd y gyfran i 29% yn achos menywod yn y grwpiau oedran 30 i 34 a 35 i 39
- Nododd 38% o fenywod beichiog o grwpiau ethnig Cymysg a 36% o grwpiau ethnig Gwyn fod ganddynt gyflwr iechyd meddwl yn eu hasesiad cychwynnol yn 2023. Dyma'r ddau grŵp ethnig â'r gyfran uchaf o fenywod beichiog yn datgan fod ganddynt gyflwr iechyd meddwl ac mae hynny wedi dilyn tuedd esgynnol ers y tro cyntaf y casglwyd y data yn 2016.

Sylwer: Nid yw canran y menywod a nododd fod ganddynt gyflwr iechyd meddwl yn ystod eu hasesiad cychwynnol yn cynnwys data ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr na Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.

4.3.2 Ysmygu

Ysmygu yw'r ffactor risg addasadwy mwyaf ar gyfer canlyniadau gwael yn ystod beichiogrwydd. Gall annog menywod beichiog i roi'r gorau i ysmygu yn ystod beichiogrwydd eu helpu i roi'r gorau i'r arfer am byth, cynnig manteision iechyd i'r fam a'r plentyn yn y groth, a sicrhau y daw plant i gysylltiad â llai o fwg ail-law.

Yng Nghymru[96]

- Nid oedd 20% o fenywod a oedd yn ysmygwyr yn yr asesiad cychwynnol yn ysmygwyr ar adeg geni eu plentyn. Mae hyn yn ostyngiad o 6.5% ers y flwyddyn flaenorol, ac yn gynnydd o 2.0% ers i ddata gael eu casglu am y tro cyntaf yn 2016. Efallai fod y cynnydd hwn ers 2021 wedi'i effeithio gan y ffaith bod yr holl ddata fwy neu lai yn rhai hunan-adroddedig, yn hytrach na data yn deillio o fonitro carbon monocsid, ac efallai fod hynny a'r cyfanswm mwy nag arfer o ddata coll yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf wedi effeithio ar y cynnydd mawr ers 2021.
- Cofnodwyd bod 14% o fenywod beichiog yn ysmygwyr yn eu hasesiad cychwynnol yn 2023 a chofnodwyd bod 12% o fenywod a wnaeth eni plentyn yn 2023 yn ysmygwyr ar yr adeg y gwnaethant esgor. Mae'r ddwy gyfradd yn debyg i gyfraddau'r ddwy flynedd flaenorol
- Cofnodwyd bod 28% o ferched beichiog o dan 20 oed yn ysmygwyr yn yr asesiad cychwynnol, o'i gymharu â 21% o'r rhai a oedd rhwng 20 a 24 oed, a 12% o'r rhai a oedd yn 35 oed neu'n hŷn.
- Cofnodwyd bod 27% o fenywod beichiog o dan 20 oed yn ysmygwyr ar adeg geni eu plentyn, o'i gymharu â 19% o'r rhai a oedd rhwng 20 a 24 oed a 10% o'r rhai a oedd yn 35 oed neu'n hŷn.
- Roedd y cyfraddau ysmygu uchaf ymhlith mamau iau a mamau o gefndiroedd ethnig Gwyn a Chymysg

[96] Llywodraeth Cymru - Ystadegau mamolaeth a genedigaethau Cymru 2023

- Mae canran y menywod beichiog a gofnodwyd eu bod yn ysmygwyr yn amrywio'n fawr yn ôl grŵp ethnig. Yn yr asesiad cychwynnol yn 2023, roedd cyfraddau ysmygu yn amrywio o 2% o fenywod beichiog o grwpiau ethnig Asiaidd i 16% o fenywod beichiog o grwpiau ethnig Gwyn.
- Ar adeg geni eu plentyn yn 2023, roedd cyfraddau ysmygu yn amrywio rhwng 1% o fenywod beichiog o grwpiau ethnig Du a 2% o fenywod beichiog o grwpiau ethnig Asiaidd i 14% o fenywod beichiog o grwpiau ethnig Gwyn a Chymysg.
- Dros y 5 mlynedd diwethaf, mae cyfraddau ysmygu wedi gostwng ymhlith y grwpiau ethnig Gwyn a Chymysg, ac mae cyfraddau wedi bod yn debyg ar y cyfan (ond ar lefel llawer is) yn achos menywod beichiog o grwpiau ethnig Eraill, Pobl Dduon ac Asiaidd.
- Mae gostyngiad mawr yng nghyfradd yr asesiad cychwynnol ers 2020 yn cyd-daro â'r ffaith bod yr holl ddata fwy neu lai yn hunan-adroddedig, yn hytrach na data wedi'u hadrodd trwy ddull monitro carbon monocsid. Wedi'i atal ers pandemig Covid-19 yn 2020. Gallai'r newid hwn yn y dull casglu data egluro'r gostyngiadau sydyn o'r adeg hon ymlaen

Sylwer: Nid yw'r canrannau ynghylch ysmygu ar adeg geni plentyn yn cynnwys data gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

4.3.3 Defnyddio sylweddau ac alcohol

Mae camddefnyddio cyffuriau gan famau yn ystod beichiogrwydd yn cynyddu'r perygl o bwysau geni isel, genedigaethau cynamserol, marwolaethau amenedigol, a marwolaeth ddisymwth annisgwyl yn ystod babandod (a elwir weithiau'n farwolaeth yn y crud).

Mae nifer o risgiau'n gysylltiedig ag yfed alcohol yn ystod beichiogrwydd[97], gan gynnwys:

- cynnydd yn y posibilrwydd o gamesgor
- effeithiau ar sut bydd y baban yn datblygu yn y groth ac, yn benodol, ar sut bydd ei ymennydd yn datblygu
- effeithiau ar sut bydd y baban yn tyfu yn y groth trwy beri i'r brych beidio â gweithio cystal ag y dylai
- cynyddu'r perygl o farw-enedigaethau
- cynyddu'r perygl o esgor cynamserol
- peri i'r baban fod yn fwy tebygol o brofi salwch yn ystod babandod ac yn ystod plentyndod, a phan yn oedolyn hefyd
- achosi anhwylder sbectrwm alcohol y ffoetws neu syndrom alcohol y ffoetws

Bydd peidio â chymryd unrhyw gyffuriau yn ystod beichiogrwydd yn lleihau'r perygl o:

- enedigaeth gynnar
- babanod dan bwysau ar adeg yr enedigaeth

[97] Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a Gynaecolegwyr 2018 - Alcohol and pregnancy patient information

- problemau bwydo ac anadlu
- dal heintiau
- profi problemau â'u datblygiad a'u twf
- cam-esgor
- marw-enedigaethau
- marwolaethau disymwth anesboniadwy yn ystod babandod

4.3.4 Pwysau iach a maeth

Mae bod dros bwysau yn ystod beichiogrwydd yn cynyddu'r posibilrwydd o gymhlethdodau i'r fam, er enghraifft, cam-esgor, diabetes yn ystod beichiogrwydd, pwysedd gwaed uchel a chyneclampsia a cheuladau gwaed. Yn achos y baban, gall bod dros bwysau arwain at eni'r baban yn gynnar (cyn 37 wythnos) a chynyddu'r posibilrwydd o farw-enedigaethau. Mae'n fwy posibl hefyd y bydd gan y baban gyflwr iechyd, er enghraifft, nam yn y tiwb niwral megis *spina bifida*.

Yng Nghymru[98]:

- Ystyrid bod 32% o fenywod beichiog yn ordew ar sail eu sgôr mynegai màs y corff yn yr asesiad cychwynnol yn 2023. Mae hyn yn gynnydd o 0.8% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, gan barhau â'r duedd esgynnol ers 2016, ac mae wedi cynyddu bob blwyddyn ers i waith casglu data ddechrau yn 2016. Yn 2023, roedd yn 5.8% yn uwch nag yn 2016
- Roedd màs corff 33% o fenywod beichiog o grwpiau ethnig Du a 33% o fenywod beichiog o grwpiau ethnig Gwyn yn 30 neu'n fwy. Bu mymryn o newid yn y ganran ar gyfer y ddau grŵp ethnig o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Tuedd esgynnol ers i ddata gael eu casglu am y tro cyntaf yn 2016.
- Roedd màs corff 27% o fenywod beichiog o grwpiau ethnig cymysg fynegai yn 30 neu'n fwy. Roedd hynny'n ostyngiad bach o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ond canran y grŵp hwn oedd â'r duedd esgynnol fwyaf serth yn y tymor hwy ac roedd hynny 8.7% yn uwch yn 2023 nag yn 2016.
- O blith bob un o'r pum grŵp ethnig, roedd y gyfran isaf o fenywod beichiog â BMI o 30 neu fwy yn y grwpiau ethnig Arall ac Asiaidd, sef 21% a 19% yn y drefn honno.
- Roedd BMI 32% o fenywod beichiog heb grŵp ethnig penodol yn 30 neu'n fwy yn 2023
- Ychydig o amrywiad oedd yng nghanran y menywod beichiog â mynegai màs y corff o 30 neu fwy rhwng y rhan fwyaf o grwpiau oedran. Roedd y ganran yn amrywio rhwng 30% a 34% ym mhob grŵp oedran rhwng 20 a 24 a 40 i 44; ar y llaw arall, roedd y ganran gryn dipyn yn is ar gyfer y grwpiau oedran dan 16 oed (5%), y rhai 16 i 19 oed (21%), a'r rhai a oedd yn 45 oed neu'n hŷn (25%).

Sylwer: Ystyrir bod unigolyn sydd â mynegai màs y corff sy'n 30 neu'n fwy yn ordew.

[98] Llywodraeth Cymru - Ystadegau mamolaeth a genedigaethau Cymru 2023

4.3.5 Bwydo ar y fron[99]

Mae bwydo ar y fron yn bwysig o ran iechyd a datblygiad babanod a'u mamau ac mae'n gysylltiedig ag atal anghydraddoldebau iechyd mawr. Cyflenwi llaeth dynol yw'r gweithgaredd mwyaf hygyrch a chost-effeithiol sydd ar gael o ran iechyd y cyhoedd, ac mae'n hysbys bod hynny'n atal amrywiaeth o glefydau heintus ac anhrosglwyddadwy (NCDs), ac yn benodol, gastro-enteritis, gordewdra yn ystod plentyndod, diabetes math 2 a chanser y fron sy'n gysylltiedig â beichiogrwydd.

Dylai pob plentyn yng Nghymru gael y dechrau gorau mewn bywyd[100], a gall bwydo ar y fron wella'r dechrau hwn. Fodd bynnag, efallai na fydd pob dynes yn dewis bwydo ar y fron. Felly, mae'n hanfodol sicrhau y gall pob teulu gael digon o wybodaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth i wneud dewis seiliedig ar wybodaeth ac yna cael cymorth ynghylch pa ddewis bynnag a wnânt.

Mae data ynghylch bwydo ar y fron yng Nghymru ar gyfer 2024[101] yn seiliedig ar fwriadau mamau i fwydo ar y fron cyn geni plentyn, felly mae data'n seiliedig ar famau a esgorodd yn 2024 yn hytrach na phlant a anwyd yn 2024.

- Roedd 65% o'r holl famau yng Nghymru yn bwriadu bwydo ar y fron cyn geni plentyn. Mae'r ganran hon wedi parhau i fod yn gymharol sefydlog. Fodd bynnag, yn y flwyddyn ddiweddaraf, roedd wedi gostwng 1.0% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol ond wedi cynyddu 1.7% o'i gymharu â phum mlynedd yn ôl.
- Roedd 61% o famau a gafodd fwy nag un plentyn (efeilliaid, tripledi neu bedrybledau) yn bwriadu bwydo ar y fron yn 2024. Mae hynny 1.9% yn is na'r flwyddyn flaenorol a 3.1% yn uwch na'r gyfradd bum mlynedd yn ôl.
- Roedd 64% o fabanod yn cael eu bwydo ar y fron ar adeg eu geni. Mae'r ganran wedi amlygu tuedd esgynnol ac mae hynny 2.2% yn uwch na phum mlynedd yn ôl. Ond fe wnaeth hynny ostwng hefyd yn y flwyddyn ddiweddaraf, oherwydd roedd 1.2% yn is o'i gymharu â 2023.
- Roedd 57% o fabanod yn cael eu bwydo ar y fron 10 diwrnod ar ôl eu geni. Mae'r ganran wedi amlygu tuedd esgynnol ac mae hynny 8.3% yn uwch na phum mlynedd yn ôl ac 1.9% yn uwch nag yn 2023.
- Roedd 44% o fabanod yn cael eu bwydo ar y fron 6 wythnos ar ôl eu geni. Mae'r ganran wedi amlygu tuedd esgynnol ac mae hynny hefyd 9.8% yn uwch na phum mlynedd yn ôl a 3.4% yn uwch nag yn 2023.
- Roedd 32% o fabanod yn cael eu bwydo ar y fron pan oeddent yn chwe mis oed. Mae'r ganran wedi amlygu tuedd esgynnol ac mae hynny hefyd 10% yn uwch na phum mlynedd yn ôl a 3.8% yn uwch nag yn 2023.

Roedd mamau yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn llai tebygol o fwydo ar y fron na'r rhai yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig. Roedd 52% o famau yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn 2024 yn bwydo ar y fron ar adeg geni eu plentyn o'i gymharu â 75% o famau yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig yn 2024.
Mae cyfraddau bwydo ar y fron ar adeg genedigaeth o fewn pob cwintel amddifadedd wedi parhau i fod yn gymharol sefydlog ers 2019. Fodd bynnag, bu

[99] Llywodraeth Cymru – Data bwydo ar y fron: 2024 (Cymru)
[100] Llywodraeth Cymru – Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
[101] Llywodraeth Cymru – Data bwydo ar y fron: 2024 (Cymru)

cynnydd o dros 3% yng nghyfraddau bwydo ar y fron ar adeg genedigaeth yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig, o 49% yn 2019 i 52% yn 2024. Bu cynnydd o 0.7% dros yr un cyfnod yn achos cyfraddau'r ardaloedd lleiaf difreintiedig.

Sylwer: Nid yw'r canrannau'n cynnwys data ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

4.3.6 Anghenion iechyd cyffredinol

Mae llawer o broblemau iechyd cyffredin yn gysylltiedig â beichiogrwydd. Dyma rywfaint o'r rhai mwyaf cyffredin:

- Troethi'n aml
- Poen yn y pelfis
- Y peils (clwy'r marchogion)
- Newidiadau yn y croen a gwallt
- Diffyg cwsg
- Olion ymestyn
- Fferau, traed, bysedd chwyddedig
- Deintgig chwyddedig a dolurus, a all waedu
- Blinder
- Rhedlif o'r wain
- Gwaedu o'r wain
- Gwythiennau chwyddedig

4.4 Hil

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi canfod bod ethnigrwydd yn fater pwysig oherwydd, yn ogystal â phrofi anghenion penodol sy'n ymwneud ag iaith a diwylliant, mae pobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol o hanu o deuluoedd incwm isel, dioddef amodau byw gwaeth a chyflawni cymwysterau addysgol ar lefelau is.

Yn ychwanegol, ceir cyfraddau uwch o rai cyflyrau iechyd ymhlith rhai grwpiau ethnig penodol. Er enghraifft, yn achos poblogaethau o dras De Asiaidd a Charibïaidd, ceir risg sylweddol uwch o gael diabetes; mae poblogaethau o dras Bangladeshaidd yn fwy tebygol o osgoi alcohol ond yn fwy tebygol o ysmygu, ac mae anemia cryman-gelloedd yn anhwylder gwaed etifeddol, sy'n effeithio'n bennaf ar bobl o dras Affricanaidd neu Garibïaidd.

4.5 Crefydd neu gred

Gall credoau am iechyd, salwch a gofal iechyd amrywio rhwng crefyddau a diwylliannau ac o fewn unrhyw grŵp crefyddol neu ddiwylliannol penodol. Gall cred grefyddol effeithio ar barodrwydd i dderbyn agweddau ar ofal meddygol, er enghraifft, gweithdrefnau diagnostig a rhai mathau o driniaethau, a gall arferion crefyddol megis cyfnodau o ymprydio effeithio ar gynlluniau iechyd a thriniaethau.

Ni ddylai neb gymryd yn ganiataol y bydd unigolyn sy'n perthyn i grŵp crefyddol penodol o reidrwydd yn cydymffurfio â holl safbwyntiau ac arferion y grŵp hwnnw neu'n ufuddhau'n llwyr iddynt. Gall nifer o ffactorau ddylanwadu ar ymatebion cleifion unigol i sefyllfa glinigol benodol, gan gynnwys cangen y grefydd neu'r gred benodol y maent yn perthyn iddi, a pha mor gryf yw eu credoau crefyddol (er enghraifft, uniongred neu ddiwygiedig, cymedrol neu ffwndamentalaidd). Oherwydd hynny, dylid trin pob unigolyn fel unigolyn.

Mae credoau, arferion a defodau ynghylch beichiogrwydd a genedigaeth, 'cyflawni llawnoed', mislif, priodas a marwolaeth yn amrywio'n sylweddol rhwng crefyddau a diwylliannau, a gallant oll effeithio ar iechyd ac ymddygiadau ceisio iechyd.

Ceir cysylltiad posibl â 'thrais ar sail anrhydedd', sef math o drais domestig sy'n cael ei ysgogi gan y cysyniad o anrhydedd. Bydd yn digwydd yn y cymunedau hynny lle mae'r cysyniad o anrhydedd yn gysylltiedig ag ymddygiadau disgwyliedig teuluoedd ac unigolion.

Mae anffurfio organau cenhedlu benywod yn gysylltiedig â ffactorau diwylliannol, crefyddol a chymdeithasol o fewn teuluoedd a chymunedau, er nad oes cysylltiad uniongyrchol ag unrhyw grefydd na ffydd. Mae'n arfer anghyfreithlon sy'n codi pryderon difrifol ynghylch iechyd.

Ceir posibilrwydd hefyd o droseddau casineb sy'n gysylltiedig â chrefydd a chred.

4.6 Rhyw

Uchafbwyntiau Cynllun Iechyd Menywod GIG Cymru 2025-2035[102]:

- Mae menywod yn tueddu i fyw nifer lai flynyddoedd heb anabledd o'u gymharu â dynion. Mae disgwyliad oes cyfartalog menywod yng Nghymru yn 82 flynedd, ond mae'r disgwyliad oes iach wedi gostwng i 60.3 mlynedd, ac mae hynny'n effeithio fwyaf ar fenywod o grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, menywod anabl a rhai o ardaloedd mwy difreintiedig.
- Bydd menywod yn aml yn aros yn hirach am driniaethau lleddfu poen na dynion.
- Gall symptomau menywod, yn enwedig yn achos cyflyrau megis anhwylderau'r galon, asthma, anymataliaeth, a phroblemau iechyd meddwl, fod yn wahanol iawn i symptomau dynion.
- Mae un o bob pump o fenywod yn y DU (19%) yn profi anhwylder meddwl cyffredin (megis gorbryder neu iselder), o'i gymharu ag un o bob wyth (12%) o ddynion.
- Mae data yng Nghymru yn dangos bod menywod a merched rhwng 10 a 24 oed dair gwaith yn fwy tebygol o hunan-niweidio o'u cymharu â dynion.
- Bydd menywod yn wynebu mwy o berygl o ddatblygu dementia yn ystod eu hoes na dynion, ac mae menywod ddwywaith yn fwy tebygol o ddatblygu clefyd Alzheimer, sef achos mwyaf cyffredin dementia. Y rheswm pennaf am

[102] GIG Cymru – Cynllun Iechyd Menywod GIG Cymru 2025-2035 Rhagfyr 2024

hynny yw’r ffaith bod menywod yn byw'n hirach na dynion, a henaint yw'r ffactor risg mwyaf yn achos y clefyd hwn.

- Clefyd Alzheimer yw prif achos pob marwolaeth ymhlith menywod yng Nghymru.
- Mae dros 212,000 o bobl yn byw gyda diabetes yng Nghymru, ac mae hynny’n effeithio ar fwy o ddynion na menywod ym mhob grŵp oedran.
- Fodd bynnag, o gymharu â dynion, mae canlyniadau diabetes yn effeithio'n fwy difrifol ar fenywod.
    - Mae menywod â diabetes yn wynebu risg uwch o gael clefyd y galon.
    - Mae menywod yn fwy tebygol o fod ag incwm is ac yn brin o amser a gallu i ganolbwyntio ar ofalu amdanynt hwy eu hunain yn ogystal â gofalu am eraill, gan arwain at ganlyniadau gwaeth.
    - Mae menywod yn fwy tebygol o brofi retinopathi a niwropathi, a gall amrywiadau hormonaidd waethygu hyn ymhellach, er enghraifft, yn ystod beichiogrwydd.
    - Mae rheoli diabetes yn anoddach i fenywod oherwydd amrywiadau hormonaidd.
    - Mae menywod oedrannus â Diabetes Mellitus math 2 a chlefyd yr arennau cam olaf yn fwy tebygol o farw na dynion â phroblemau tebyg.
- Clefyd isgemig y galon sy’n ail yn y rhestr o achosion mwyaf cyffredin marwolaeth ymhlith menywod yng Nghymru, ac mae’r cyflwr yn lladd dwywaith yn fwy o fenywod na chanser y fron. Canfu astudiaeth gan Brifysgol Leeds fod menywod 50% yn fwy tebygol o gael diagnosis cychwynnol anghywir wedi trawiad ar y galon, â risg uwch o farwolaeth ar ôl 30 diwrnod sy’n 70% yn fwy o'i gymharu â'r rhai sawl sydd wedi cael diagnosis cywir. Mae tystiolaeth hefyd yn dangos bod menywod yn llai tebygol o gael meddyginiaethau presgripsiwn sy'n atal rhagor o drawiadau ar y galon.
- Cyflyrau cyhyrysgerbydol yw achos mwyaf cyffredin poen hirdymor ac anabledd corfforol ar y lefel fyd-eang. Y rhain yw prif achos cyflyrau sy'n cyfyngu ar fywyd yng Nghymru, a cheir cysylltiad cryf rhyngddynt â difreintedd, ethnigrwydd, rhyw ac oedran. Bydd menywod yn gyson yn amlygu symptomau ac arwyddion clinigol mwy cyffredin a mwy difrifol anhwylderau Cyhyrysgerbydol, ac mae’r gwahaniaeth hwn yn gwaethygu ag oedran.
- Bydd un o bob tair dynes yn profi torasgwrn yn sgil eiddilwch pan fyddant dros 50 oed, o'i gymharu ag un o bob pum dyn.
- Arthritis gwynegol yw'r cyflwr llidus mwyaf cyffredin, ac mae’n effeithio ar 1% o'r boblogaeth. Mae’r cyflwr ddwy neu dair gwaith yn fwy cyffredin mewn menywod nag mewn dynion, sy'n awgrymu bod ffactorau hormonaidd benywod yn cyfrannu at ddatblygiad y clefyd.
- Mae canran y merched sydd â sgoriau lles meddyliol isel yn cynyddu wrth iddynt heneiddio, ac mae gan ddwywaith cymaint o ferched 16 oed sgôr lles meddyliol isel, o'i gymharu â bechgyn 16 oed.
- Mae llai o ferched yn eu harddegau, o'u cymharu â bechgyn, yn cyflawni'r targed gweithgarwch corfforol a argymhellir, sef o leiaf 60 munud y dydd drwy gydol yr wythnos.
- Bydd mwy o ferched na bechgyn rhwng 11 a 16 oed yn yfed alcohol neu'n ysmygu.

- Er y caiff y rhan fwyaf o achosion o syffilis eu diagnosio ymhlith dynion, bu cynnydd o 26% mewn achosion ymhlith benywod rhwng 2021 a 2022, a nodwyd tuedd esgynnol gyffredinol ers 2013.

Mae enghreifftiau eraill o'r bwlch iechyd rhwng y rhywiau yn cynnwys y canlynol.

- Mae dynion yn fwy tebygol o farw'n gynamserol oherwydd clefyd coronaidd y galon ac maent hefyd yn fwy tebygol o farw yn ystod digwyddiad cardiaidd disymwth. Ar y cyfan, bydd risg menywod o gael clefyd cardiofasgwlaidd yn cynyddu'n ddiweddarach mewn bywyd ac mae menywod yn fwy tebygol o farw yn sgil strôc.
- Mae menywod yn fwy tebygol o roi gwybod am iselder a gorbryder, ymgynghori yn eu cylch, a chael diagnosis yn cadarnhau iselder a gorbryder. Fodd bynnag, mae'n bosibl nad yw lefel iselder a gorbryder ymhlith dynion yn cael ei diagnosio'n ddigonol. Mae achosion o hunanladdiad a chamddefnyddio pob mathau o sylweddau yn fwy cyffredin ymhlith dynion.
- Yn ôl diweddariad modelu 2025 Llywodraeth Cymru ynghylch yfed alcohol[103], mae 23% o yfwyr sy'n oedolion yng Nghymru yn yfed mwy na'r hyn a argymhellir yn y DU i sicrhau bod lefel risgiau yn isel. Mae'r grŵp hwn yn yfed 70% o'r holl alcohol a werthir yng Nghymru, gan ddwyn sylw at grynodiad arferion yfed ymhlith yfwyr trymach. Mae anhwylderau alcohol ddwywaith mor gyffredin ymhlith dynion, er bod tueddiad i yfed gormod o alcohol yn cynyddu'n gyflymach ymhlith merched ifanc. Ymhlith pobl hŷn, mae'r bwlch rhwng dynion a menywod yn llai amlwg.
- Mae lefelau afiacheddau a marwolaethau yn gyson uwch yn achos dynion ar gyfer bron pob math o ganser nad yw'n benodol i ryw. Ar yr un pryd, mae cyfraddau afiacheddau a marwolaethau yn sgil canser yn lleihau'n gyflymach i ddynion na menywod.

4.7 Cyfeiriadedd rhywiol

Fe wnaeth adroddiad a gyhoeddwyd gan yr LGBT Foundation yn 2023[104] ddwyn sylw at ystadegau allweddol sydd, ym marn y sefydliad, yn cyfleu effaith ddilyniannol ac arwyddocaol profi anghydraddoldeb dros gwrs bywyd yn fwyaf eglur.

- Yn 2017, nododd 21% o bobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol eu bod wedi profi trosedd casineb homoffobig, deuffobig neu drawsffobig yn y 12 mis blaenorol, ac roedd hynny'n cynyddu i 41% yn achos pobl draws.
- Mae 23% o bobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol rywbryd neu'i gilydd wedi clywed sylwadau gwrth-lesbiaidd, homoffobig, deuffobig a thrawsffobig gan staff gofal iechyd.
- Yn 2017, nododd un o bob chwech o bobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol eu bod wedi yfed bron bob dydd yn ystod y flwyddyn flaenorol; gellir cymharu hynny ag un o bob deg oedolyn yn y boblogaeth gyffredinol sy'n nodi eu bod yn yfed alcohol bum niwrnod neu fwy bob wythnos.
- Mae 45% o bobl ifanc draws (11-19 oed) a 22% o bobl ifanc gis sy'n lesbiaidd, hoyw a deurywiol wedi ceisio'u lladd eu hunain. Ymhlith y

[103] Llywodraeth Cymru – Modelu newydd o bolisïau prisio alcohol, yfed alcohol a niwed yng Nghymru
[104] LGBT Foundation - Hidden Figures: LGBT Health Inequalities in the UK

boblogaeth gyffredinol, mae'r GIG yn amcangyfrif bod y ffigur hwn yn 13% yn achos merched a 5% yn achos bechgyn 16-24 oed.

- Mae 24% o bobl ddigartref rhwng 16 a 24 oed yn lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol ac mae 69% o'r bobl hyn yn credu bod amharodrwydd rhieni i dderbyn hynny wedi bod yn ffactor pwysig o ran dod yn ddigartref.
- Dywedodd 42.8% o fenywod lesbiaidd, deurywiol a thrawsrywiol eu bod wedi profi trais rhywiol, o gymharu â thua 20% o'r holl fenywod yn y DU.
- Nid oedd 55% o ddynion hoyw, deurywiol a thraws yn ddigon egnïol i gynnal iechyd da, o gymharu â 33% o ddynion yn y boblogaeth gyffredinol.
- Yn 2017, nododd 52% o bobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol eu bod wedi profi iselder yn ystod y flwyddyn flaenorol. Mae hynny'n cynnwys 67% o bobl draws a 70% o bobl anneuaidd.
- Yn 2017, nododd 40% o bobl draws a oedd wedi defnyddio gwasanaethau gofal iechyd cyhoeddus neu wedi ceisio'u defnyddio eu bod wedi cael o leiaf un profiad negyddol oherwydd eu hunaniaeth o ran rhywedd yn ystod y 12 mis blaenorol.
- Mae 93% o arbenigwyr a defnyddwyr gwasanaethau sy'n lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol yn ystyried bod angen gwneud mwy o waith i wella gwasanaethau diwedd oes i bobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol.
- Mae pobl LHDTC+ 2.2 gwaith yn fwy tebygol o hunan-niweidio neu geisio lladd eu hunain na phobl heterorywiol.
- Mae dynion hoyw a deurywiol 2.5 gwaith yn fwy tebygol o geisio lladd eu hunain.
- Mae bron i un o bob pump (18.6%) o bobl ifanc lesbiaidd, hoyw a deurywiol (16–24) wedi ceisio lladd eu hunain[105].

4.8 Ailbennu rhywedd[106]

Mae ailbennu rhywedd yn cyfeirio at unigolion sydd naill ai:

- wedi cael, yn bwriadu cael neu wrthi'n cael ailbennu eu rhywedd (triniaeth feddygol a llawfeddygol i newid y corff), neu unigolyn
- nad ydynt yn bwriadu cael triniaeth feddygol ond sy'n dymuno byw'n barhaol mewn rhywedd sy'n wahanol i'w rhywedd ar adeg eu geni.

Mae 'trawsnewid' yn cyfeirio at y broses ailbennu rhywedd a/neu'r cyfnod pan fydd ailbennu rhywedd yn digwydd (ag ymyrraeth feddygol). Yn ôl Cymdeithas Ymchwil ac Addysg Hunaniaeth o ran Rhywedd, mae nifer o faterion iechyd a lles yn gysylltiedig ag ailbennu rhywedd. Maent yn cynnwys:

- Mae cyffuriau ac alcohol yn cael eu prosesu gan yr afu ac mae hormonau croesrywiol yn cael eu prosesu gan yr afu hefyd. Gall defnydd trwm o alcohol a/neu gyffuriau wrth gymryd hormonau gynyddu'r risg o wenwyndra yn yr afu a niwed i'r afu.

[105] Data DU gyfan o ddata ONS a adroddwyd ONS Data: LGB+ Community Facing Higher Mental Health Risks | LGBT HERO
[106] Gender Identity Research and Education Society - Trans Health Factsheets

- Gall alcohol, cyffuriau a thybaco a defnyddio therapi hormonau oll gynyddu'r perygl o gael cyflyrau cardiofasgwlaidd. Gyda'i gilydd, gallant hefyd waethygu'r perygl sydd eisoes yn gysylltiedig â therapi hormonau.
- Gall ysmygu effeithio ar lefelau estrogen, gan gynyddu'r perygl o gael osteoporosis a lleihau effeithiau benyweiddio meddyginiaethau estrogen.
- Mae pobl drawsryweddol yn wynebu nifer o rwystrau a all eu hatal rhag ymgymryd ag ymarfer corff yn rheolaidd. Mae llawer o bobl drawsryweddol yn profi anawsterau â delwedd eu corff, ac oherwydd hynny, efallai y byddant yn anfodlon ymgymryd ag ymarfer corff.
- Dysfforia rhywedd yw'r term meddygol a ddefnyddir i ddisgrifio'r anesmwythdra hwn. Mae pobl drawsryweddol yn debygol o ddioddef gan salwch meddwl fel ymateb i'r anesmwythder y maent yn ei deimlo. Caiff hynny ei ysgogi'n bennaf gan ymdeimlad o wahaniaeth a theimlo nad yw'r gymdeithas yn fodlon eu derbyn. Os bydd unigolyn trawsryweddol yn dymuno trawsnewid a byw yn y rôl rhywedd y maent yn uniaethu â hi, efallai y byddant hefyd yn poeni am niweidio eu perthnasoedd, colli eu swydd, dioddef trosedd casineb a phrofi gwahaniaethu. Gall ofni rhagfarn a gwahaniaethu o'r fath, boed yn rhagfarn go iawn neu'n rhagfarn a ddychmygir, beri gofid seicolegol sylweddol.

4.9 Priodas a phartneriaeth sifil

Nid oes unrhyw anghenion iechyd penodol sy'n unigryw i'r boblogaeth hon.

4.10 Myfyrwyr prifysgol

Ceir dwy brifysgol yng Ngogledd Cymru, Prifysgol Bangor yng Ngwynedd (tua 10,000 o fyfyrwyr) a Phrifysgol Wrecsam yn Wrecsam (tua 8,500 o fyfyrwyr).

Mae dechrau astudio mewn prifysgol yn gyfnod cyffrous. I lawer o bobl ifanc, dyma fydd eu tro cyntaf oddi cartref, a byddant yn profi pwysau yn sgil dod yn annibynnol a gorfod dibynnu arnynt hwy eu hunain mewn amgylchedd newydd. Ond hefyd, mae'n gyfnod o drawsnewid, a gall heriau bywyd prifysgol effeithio ar ofal iechyd. Mae'r anghenion iechyd[107] a nodwyd yn cynnwys:

- sgrinio am glefydau a drosglwyddir yn rhywiol, a'u trin.
- rhoi'r gorau i ysmygu,
- brechu rhag llid yr ymennydd,
- cymorth ynghylch camddefnyddio alcohol a sylweddau,
- atal cenhedlu, gan gynnwys cynnig dulliau atal cenhedlu hormonaidd brys,
- cymorth ag iechyd meddwl (mae straen, gorbryder ac iselder yn gyffredin oherwydd pwysau academaidd a phroblemau personol),
- cymorth â lles cymdeithasol (teimlo cysylltiad ag eraill a chael cymorth yng nghymuned y brifysgol. Gall unigrwydd ac arwahanrwydd effeithio'n negyddol ar iechyd meddwl a chorfforol), a

[107] Addysg - Health and Wellbeing Services for Students in UK Universities 2024

- phryderon ynghylch iechyd corfforol (diffyg maeth, diffyg ymarfer corff, ac anhwylderau cysgu).

Fe wnaeth astudiaeth yn y DU a gynhaliwyd gan Transforming Access and Student Outcomes in Higher Education a Sefydliad Polisi Coleg y Brenin yn Llundain archwilio addysg uwch ym Mhrydain yn 2024[108], a chanfod:

- Nododd bron i un o bob pump (18%) o fyfyrwyr eu bod wedi cael problem iechyd meddwl yn 2024, sef teirgwaith yn fwy na'r gyfradd yn 2017, pan oedd yn 6.0%.
- Nododd 17.9% o fyfyrwyr eu bod yn profi heriau iechyd meddwl, sy'n dangos bod bron i un o bob pump o fyfyrwyr, neu oddeutu 300,000 o fyfyrwyr y DU, bellach yn profi anawsterau iechyd meddwl.
- Mae gorbryder ac iselder yn parhau i fod yn brif heriau iechyd meddwl myfyrwyr, yn gysylltiedig â:
    - phwysau costau byw,
    - straen academaidd,
    - effeithiau wedi'r pandemig, a
    - ynysu cymdeithasol ac unigrwydd.
- Mae anawsterau iechyd meddwl yn uwch ymhlith pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol, cwiar a'u cefnogwyr. Yn 2024, myfyrwyr deurywiol wnaeth brofi'r gyfradd uwch o anawsterau iechyd meddwl (30%), ac roedd myfyrwyr lesbiaidd (29%) yn ail iddynt.
- Mae mwy na hanner y myfyrwyr anneuaidd a myfyrwyr sy'n uniaethu fel rhai cwiar bellach yn profi anawsterau iechyd meddwl.
- Mae myfyrwyr benywaidd ddwywaith yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn profi anawsterau iechyd meddwl (22%) o gymharu â myfyrwyr gwrywaidd (11%), ac mae'r bwlch wedi cynyddu o gymharu â 2023. Mae marwolaeth trwy hunanladdiad yn fwy cyffredin ymhlith dynion ifanc na merched ifanc, sy'n awgrymu angen sylweddol iawn am gymorth ymhlith myfyrwyr gwrywaidd.
- O blith 40,810 o fyfyrwyr y gofynnwyd iddynt a oeddent wedi ystyried rhoi'r gorau i astudio mewn prifysgol, dywedodd 11,424 (27.9%) eu bod wedi ystyried hynny, ac anawsterau iechyd meddwl oedd y rheswm mwyaf cyffredin a nodwyd ynghylch hynny. Roedd nifer yr atebion yn nodi'r rheswm hwn gryn dipyn yn fwy na'r holl resymau eraill, yn cynnwys anawsterau ariannol.
- Mae data 2024 yn dangos bod cyfran y myfyrwyr sydd wedi ystyried rhoi'r gorau iddi wedi gostwng wedi cyfraddau cymharol gyson yn ystod blynyddoedd blaenorol.

4.11 Troseddwyr a phobl sydd ar brawf

Mae Carchar Berwyn yn garchar ar gyfer oedolion gwrywaidd Categori C (carchar hyfforddi) yn Wrecsam, ac mae'n cartrefu tua 2,100 o ddynion. Hwn yw carchar mwyaf y DU. Nid oes unrhyw gyfleusterau carchar i fenywod yng Nghymru, a bydd

[108] Transforming Access and Students outcomes in Higher Education - Report Student mental health in 2024: How the situation is changing for LGBTQ+ students

llawer o fenywod o Ogledd Cymru yn treulio eu dedfrydau yn CEF Styal yn Swydd Gaer sy'n garchar categori caeedig.

Fe wnaeth y bwrdd iechyd gomisiynu asesiad o anghenion iechyd a gofal cymdeithasol preswylwyr Carchar Berwyn yn 2021[109]. Fe wnaeth yr asesiad nodi nodweddion canlynol y boblogaeth.

- Roedd cyfradd y dynion a gafodd driniaeth am asthma yn uwch nag a ragwelid, ac roedd hynny wedi cynyddu ers ymgymryd â'r asesiad o anghenion yn 2015.
- Roedd cyfradd clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint a nodwyd ac a driniwyd yn is na'r cyfartaledd ymhlith carchardai cymharol.
- Roedd cyfradd y diabetes a nodwyd ac a driniwyd yn is na'r cyfartaledd ymhlith carchardai cymharol. Fodd bynnag, gall y ffaith bod categori dynion gwyn wedi'i orgynrychioli yn y carchar esbonio hynny.
- Er bod cyfraddau epilepsi yn uwch na'r nifer a ragwelid, roedd yn is na'r cyfartaledd ymhlith carchardai cymharol.
- Roedd cyfradd nodi gorbwysedd gryn dipyn yn is na'r gyfradd ddisgwyliedig ar sail proffil oedran y boblogaeth. Roedd hefyd yn isel ymhlith carchardai cymharol, er bod cyfraddau nodi yn y carchardai cymharol hefyd yn is nag a ragwelid.
- Er bod cyfradd nodi clefyd coronaidd y galon yn cyd-fynd â'r gyfran a ragwelid, roedd y gyfradd yn gymharol isel ymhlith carchardai cymharol.
- Roedd cyfraddau nodi canser yn debyg i'r cyfraddau a ragwelid.
- Roedd cyfradd yr iselder a nodwyd yn debygol o fod yn is na'r gyfradd nodweddiadol, er bod cynnydd o 39% wedi'i amlygu yn lefelau rhagnodi meddyginiaethau gwrth-iselder fesul 100 o breswylwyr yn flynyddol rhwng 2019/20 a 2020/21. Er bod cynnydd tebyg wedi'i nodi mewn carchardai eraill yn 2020/21, roeddent yn llawer is yng Ngharchar Berwyn.
- Mae nifer y preswylwyr y nodwyd eu bod yn dioddef gan anhwylderau sy'n gysylltiedig â gorbryder a straen yn uwch na'r disgwyl.
- Roedd cyfradd y preswylwyr â phroblemau iechyd meddwl difrifol a pharhaus (gan gynnwys sgitsoffrenia, anhwylder affeithiol deubegynol neu fathau eraill o seicosis) yn gyfartalog o'i gymharu â lefelau carchardai cymharol, ond roedd wedi gostwng ychydig ers asesiad 2015.
- Roedd cyfradd y preswylwyr oedd wedi cael diagnosis cofnodedig yn cadarnhau anhwylder straen wedi trawma yn llawer uwch nag a ragwelid.
- Roedd cyfradd yr anhwylder personoliaeth a nodwyd ychydig yn is na'r cyfartaledd ymhlith carchardai cymharol.
- Roedd cyfradd nodi preswylwyr â phroblemau iechyd meddwl a/neu gamddefnyddio sylweddau yn digwydd ar yr un pryd (diagnosis deuol) wedi cynyddu, yn bennaf yn sgil mwy o waith. Er bod nifer yr achosion o broblemau iechyd meddwl a gofnodwyd (gan gynnwys camddefnyddio sylweddau) yn agos at y cyfartaledd ar y cyfan yng Ngharchar Berwyn o'i gymharu â charchardai cymharol, mae'n ymddangos bod proffil y cyflyrau a nodwyd yn gogwyddo fwy tuag at ddiagnosis deuol nag yn achos y mwyafrif.

[109] Tamlyn Cairns Partnership - HMP Berwyn health and social care needs assessment, Mehefin 2021

- Roedd y gyfradd a gofnodwyd o anableddau dysgu yn llawer is na'r gyfradd a ragwelid ar sail y llenyddiaeth. Fodd bynnag, nodwyd cyfran is nag a ragwelid mewn carchardai cymharol hefyd.
- Roedd nifer yr achosion a nodwyd o anhwylderau'r sbectrwm awtistiaeth yn debyg i gyfartaledd y DU.
- Er bod y gyfradd diagnosio ar gyfer anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd yn isel o gymharu â'r hyn a ragwelid, roedd ychydig yn uwch na'r cyfartaledd ar draws carchardai cymharol.
- Roedd y galw a welwyd am gyffuriau a ddefnyddir i drin camddefnyddio sylweddau yn is nag a ragwelid.
- Yn achos trin dibyniaeth ar alcohol, roedd y galw a welwyd hefyd yn llawer is nag a ragwelid (nid yw hynny'n anarferol, ac mae annog carcharorion i gael triniaeth oherwydd dibyniaeth ar alcohol yn ddihareb o heriol mewn unrhyw sefydliad).
- Gan gymharu â charchardai Categori C ar gyfartaledd, roedd proffil defnyddio sylweddau'r sawl a oedd yn cael triniaeth yn gogwyddo'n fwy tuag at ddefnydd o gyffuriau nad ydynt yn opioidau, ac o gymharu â charchar Categori C nodweddiadol, roedd cyfrannau is o gleifion a oedd yn cael triniaeth yn nodi eu bod yn defnyddio alcohol.
- Nodwyd cyfran is o bobl yn dechrau triniaeth camddefnyddio sylweddau a oedd yn defnyddio nodwyddau ar y pryd a chyfran uwch o bobl oedd wedi bod yn defnyddio nodwyddau i gymryd cyffuriau, o'i gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer carchardai Categori C (er bod hynny'n debyg i'r cyfartaledd ar gyfer carchardai Cymru).
- Roedd cyfradd uchel o brofion am heintiau a drosglwyddir yn rhywiol ac roedd mwyafrif helaeth y canlyniadau positif yn ymwneud â chlamydia.
- Roedd nifer y cleifion y cofnodwyd eu bod wedi cael unrhyw un o blith ystod eang o frechlynnau wedi gostwng yn sylweddol yn ystod pandemig Covid-19.

Ymgymerwyd ag asesiad o anghenion iechyd a gofal cymdeithasol preswylwyr mewn safleoedd cymeradwy yng Nghymru yn 2023 gan y bwrdd iechyd ar y cyd â Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF yng Nghymru[110]. Er y caiff anghenion iechyd poblogaeth y carchardai eu cofnodi'n dda, gwyddys llai am anghenion y sawl sydd dan oruchwyliaeth y gwasanaeth prawf.

Mae "safle cymeradwy" yn llety tebyg i hostel sydd wedi'i gymeradwyo at ddibenion goruchwylio ac adsefydlu troseddwyr dros dro ac ar gyfer pobl sydd ar fechnïaeth. Maent yn cael eu staffio 24 awr y dydd ac yn lletya troseddwyr risg uchel, a daw'r mwyafrif ohonynt yno yn syth o'r carchar. O blith y pedwar safle cymeradwy yng Nghymru, ceir dau yng Ngogledd Cymru – Bangor (Tŷ Newydd) a Wrecsam (Plas Y Wern). Maent yn lletya dynion, ac mae 60% ohonynt wedi'u barnu'n euog o droseddau rhywiol ac mae'r gweddill wedi'u barnu'n euog o droseddau treisgar neu droseddau eraill. Mae'n ofynnol i droseddwyr benywaidd o Gymru y mae arnynt angen gwasanaethau safleoedd cymeradwy fynd i safle cymeradwy yn Lloegr.

[110] Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr - "A Health and Social Care Needs Assessment for Residents in Approved Premises in Wales", Medi 2023

Fel arfer, bydd pobl yn aros rhwng wyth a deuddeg wythnos mewn safle cymeradwy, ond gallant aros yn hirach dan rai amgylchiadau. Yn aml, bydd gan y sawl sy'n aros mewn safleoedd cymeradwy anghenion iechyd a gofal cymdeithasol cymhleth a bydd cyfnod yn y safle cymeradwy yn cynnig cyfle i bob preswylydd gael ei gyfeirio at asiantaethau sy'n gallu cynnig cymorth, er enghraifft, meddygon teulu, gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, timau iechyd meddwl cymunedol, a gweithwyr cymdeithasol.

Fe wnaeth yr asesiad ganfod mai iechyd meddwl a chyflyrau niwroamrywiol yw'r angen iechyd mwyaf ymhlith preswylwyr safleoedd cymeradwy, a chanfod bod y diffyg cyfatebiaeth mwyaf rhwng y galw am wasanaethau gofal iechyd a'r gwasanaethau a oedd yn cael eu cynnig. Nodwyd y bylchau canlynol yn y gwasanaethau a gynigid:

- nid oedd y meddyginiaethau a ddarperid ar ôl rhyddhau pobl o'r carchar yn ddigonol i bara nes gellid ysgrifennu a gweini presgripsiwn yn y gymuned. Yn ychwanegol, efallai na fyddai rhai meddygon teulu'n fodlon ail-ragnodi rhai meddyginiaethau seicoweithredol a byddai hynny'n golygu bod angen cyfeirio pobl at wasanaethau arbenigol.
- roedd y preswylwyr hynny a oedd wedi cael gofal gan wasanaethau iechyd meddwl yn y carchar yn teimlo bod yn rhaid iddynt ddechrau o'r newydd ar ôl dychwelyd i'r gymuned.
- Yn aml, byddai'r cyfnod y byddai'n rhaid aros i gael cyfeiriad at wasanaethau iechyd meddwl yn hirach nag arhosiad cyfan mewn safle cymeradwy.

Canfuwyd cyflyrau iechyd corfforol ar lefel sy'n cyfateb i'r rhai a welid yn boblogaeth gyffredinol neu ar lefel is na hynny. Efallai fod y canfyddiad hwnnw'n wir neu efallai ei fod yn adlewyrchu oedran iau preswylwyr safleoedd cymeradwy. Ychydig ar y cyfan sydd yn y categorïau oedran hŷn pan ddaw'r rhan fwyaf o gyflyrau iechyd corfforol yn fwy cyffredin. Ni chasglodd yr asesiad fod mynediad at ofal gan wasanaethau meddygol sylfaenol ac eilaidd i drin cyflyrau iechyd corfforol yn broblem yn achos unrhyw gyflwr ac eithrio mynediad at ofal deintyddol.

Canfu'r asesiad fod angen heb ei ddiwallu am driniaeth ddeintyddol ymhlith preswylwyr safleoedd cymeradwy. Bydd y mwyafrif wedi symud o'u hardal, ac felly, ni fydd ganddynt unrhyw berthynas â deintyddfeydd lleol, gan olygu bod angen iddynt ychwanegu eu henw at restr aros er mwyn gallu cofrestru fel claf newydd.

Canfuwyd fod cyfraddau ysmygu a fepio gryn dipyn yn uwch nag yn achos y boblogaeth gyffredinol. Ni chaniateir ysmygu mewn carchardai, felly roedd y trigolion hynny a nododd eu bod yn ysmygu wedi dechrau gwneud hynny neu wedi ailafael yn yr arfer yn ddiweddar.

Canfuwyd bod gan drigolion lefelau hanesyddol cymharol uchel o ddefnydd problemus o alcohol, hapchwarae a chamddefnyddio sylweddau. Ni ofynnai'r arolwg a gynhaliwyd i lywio'r asesiad anghenion am ymddygiadau presennol, oherwydd byddai amodau trwyddedau yn gwahardd gweithgareddau o'r fath.

4.12 Pobl sy'n ddigartref ac yn cysgu allan

Mae digartrefedd yn fater cymhleth. Er y cysylltir hynny'n aml â phobl yn cysgu allan, gellir ystyried bod unigolyn yn ddigartref, neu mewn perygl o ddod yn ddigartref, mewn llawer o amgylchiadau gwahanol:

- Aros dros dro gyda ffrindiau neu deulu (gelwir hynny hefyd yn 'syrffio soffas')
- Aros mewn hostel neu lety gwely a brecwast.
- Byw mewn amodau hynod o orlawn.
- Mewn perygl o drais neu gam-drin yn eu cartref.
- Byw mewn amodau gwael sy'n effeithio ar eich iechyd, neu os yw eich cartref yn anaddas i fyw ynddo.
- Byw yn rhywle nad oes gennych hawl gyfreithlon i aros ynddo (sgwatio).
- Byw yn rhywle na allwch fforddio talu amdano heb amddifadu'ch hun o hanfodion.
- Gorfod byw ar wahân i'r teulu, neu oddi wrth rywun y byddech fel arfer yn byw gyda hwy, oherwydd anaddasrwydd y llety neu berthynas yn chwalu.

Mae cysgu allan yn beryglus ac yn niweidiol iawn i iechyd corfforol a meddyliol unigolyn. Canfu ymchwil gan elusen ddigartrefedd Crisis[111], fod pobl sy'n cysgu allan 17 gwaith yn fwy tebygol o ddioddef trais na'r cyhoedd yn gyffredinol. Mae mwy nag un o bob tri o bobl sy'n cysgu allan wedi cael eu taro neu eu cicio'n fwriadol neu wedi profi rhyw fath arall o drais tra'n ddigartref. Mae pobl ddigartref dros naw gwaith yn fwy tebygol o ladd eu hunain na'r boblogaeth gyffredinol.

Mae disgwyliad oes cyfartalog rhywun sy'n cysgu allan yng Nghymru yn dal yn 45 mlynedd yn achos dynion ac yn 43 mlynedd yn achos menywod ac nid yw hynny wedi gwella ers y 1990au. Ar y llaw arall, mae disgwyliad oes cyfartalog y boblogaeth gyffredinol yn 77.9 yn achos dynion ac yn 81.8 yn achos menywod. Mae cyfanswm y bobl sydd wedi marw tra'n ddigartref ledled y DU wedi cynyddu 9%, ac ar gyfartaledd ceir pedair marwolaeth ar bob un o ddiwrnodau'r flwyddyn. Bu farw 90 o bobl tra'n ddigartref yng Nghymru yn 2024. Bellach, gellir ystyried bod mwyafrif marwolaethau pobl ddigartref (55%) yn 'farwolaethau anobaith' ac adroddir am fwy o farwolaethau trwy hunanladdiad a cheir tystiolaeth o gyfradd uwch o farwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau. Ceir problemau sylweddol â sylweddau seicoweithredol megis 'sbeis' ac opioidau synthetig[112].

Bellach, mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi manylion cyfanswm misol y bobl sy'n cysgu allan[113]. Ym mis Gorffennaf 2025, roedd:

- Pump o bobl yn cysgu allan yn Ynys Môn
- Naw yng Ngwynedd
- Un yng Nghonwy
- Tri yn Sir Ddinbych
- Un yn Sir y Fflint

[111] Crisis, Sanders, B. & Albanese, F. - "It's no life at all" - Rough sleepers' experiences of violence and abuse on the streets of England and Wales (2016)
[112] Museum of Homelessness – The Wallich homeless deaths (2025)
[113] StatsCymru – Pobl sy'n cysgu ar y stryd yn ôl ardal awdurdod lleol

Dros y tair blynedd diwethaf, o blith y pum awdurdod lleol, mae'r nifer uchaf o bobl sy'n cysgu allan wedi gwneud hynny yng Ngwynedd, ac mae'r nifer leiaf wedi gwneud hynny yng Nghonwy.

Roedd prif ganfyddiadau adroddiad gan Homeless Link yn 2022[114] fel a ganlyn.

- Mae pobl sy'n profi digartrefedd yn dioddef gan iechyd corfforol ac iechyd meddwl sy'n waeth na'r hyn a brofir gan y boblogaeth gyffredinol.
- Rhwng 2018 a 2021, nododd 63% o'r ymatebwyr fod ganddynt salwch hirdymor, anabledd, neu wendid (22% yn y boblogaeth gyffredinol).
- Nododd 80% o'r rhai oedd â chyflwr iechyd corfforol fod ganddynt o leiaf un cydafiachedd, ac roedd 29% wedi cael rhwng pump a deg diagnosis.
- Y cyflwr a nodwyd yn fwyaf mynych oedd poenau yn y cymalau/problemau ag esgyrn a chyhyrau, ac roedd problemau deintyddol/dannedd yn ail ymhlith y cyflyrau mwyaf cyffredin.
- Mae nifer y bobl sydd wedi cael diagnosis yn cadarnhau cyflwr iechyd meddwl wedi cynyddu'n sylweddol o 45% yn 2014 i 82% yng ngharfan 2018 – 2021 (12% o'r boblogaeth gyffredinol).
- Nododd 81% o'r bobl oedd â chyflwr iechyd meddwl eu bod wedi profi o leiaf ddau gyflwr iechyd meddwl, ac fe wnaeth 17% nodi pum cyflwr neu fwy.
- Nododd 45% o'r ymatebwyr eu bod yn hunanfeddyginiaethu â chyffuriau neu alcohol i'w helpu i ymdopi â'u hiechyd meddwl.
- Mae rhwystrau rhag cael y cymorth sy'n ofynnol i drin cyflyrau iechyd corfforol ac iechyd meddwl yn golygu bod pobl sy'n profi digartrefedd yn rhy ddibynnol ar wasanaethau gofal iechyd brys; roedd 48% o'r ymatebwyr wedi defnyddio gwasanaethau adrannau achosion brys yn ystod y flwyddyn ddiwethaf: tair gwaith yn fwy na'r boblogaeth gyffredinol.
- Rhwng 2018 a 2021, roedd cyfanswm o 38% o'r ymatebwyr wedi cael eu derbyn i'r ysbyty yn ystod y 12 mis cyn cyfranogi mewn archwiliad o anghenion iechyd pobl ddigartref. Roedd y rheswm mwyaf cyffredin dros dderbyn pobl i'r ysbyty yn gysylltiedig â chyflwr iechyd corfforol (37%), ac roedd 28% yn gysylltiedig â chyflwr iechyd meddwl neu hunan-niweidio neu ymgais i gyflawni hunanladdiad.
- O blith y rhai a oedd wedi cael eu derbyn i'r ysbyty, roedd bron i chwarter (24%) wedi cael eu rhyddhau i barhau i fyw ar y stryd.
- Roedd 54% o'r ymatebwyr wedi defnyddio cyffuriau yn y 12 mis cyn cyfranogi mewn asesiad o anghenion iechyd pobl ddigartref. Nododd 38% fod ganddynt broblem cyffuriau, neu eu bod yn adfer yn sgil problem o'r fath.
- Roedd 20% yn yfed mwy na'r hyn a argymhellir yn y canllawiau ynghylch yfed risg isel yn rheolaidd (24% yn y boblogaeth gyffredinol). Nododd 29% fod ganddynt broblem cyffuriau, neu eu bod yn adfer yn sgil problem o'r fath.
- Nododd 76% o'r ymatebwyr eu bod yn ysmygu sigaréts, sigarau, neu getyn (13.8% yn y boblogaeth gyffredinol). O blith y rhain, dymunai 50% allu rhoi'r gorau i ysmygu.
- Mae maeth yn her fawr ac fe wnaeth traean o'r ymatebwyr nodi na fyddant, ar gyfartaledd, yn bwyta mwy nag un pryd y dydd. Roedd 66% yn bwyta un dogn

[114] Homeless Link - The unhealthy state of homelessness 2024: Findings from the homeless health needs audit

neu lai o ffrwythau neu lysiau bob dydd, a dim ond 4% oedd yn bwyta'r pum dogn neu ragor a argymhellir.

Mae Healthy Mouths gan Groundswell[115] yn datgelu bod pobl ddigartref yn dioddef gan iechyd gwael iawn yn y geg o'i gymharu â'r boblogaeth gyffredinol.

- Mae 90% wedi profi problemau â'u ceg ers dod yn ddigartref. Roedd deintgig yn gwaedu (56%), tyllau mewn dannedd (46%) a chrawniadau deintyddol (26%) yn broblemau neilltuol o gyffredin.
- Roedd llawer o gyfranogwyr wedi profi poen deintyddol sylweddol. Roedd 60% wedi profi poen yn eu cegau ers iddynt ddod yn ddigartref. Roedd 30% yn profi poen deintyddol ar y pryd.
- Nododd 70% eu bod wedi colli dannedd ers iddynt ddod yn ddigartref ac nid oedd gan 7% unrhyw ddannedd o gwbl, Roedd gweithiwr meddygol proffesiynol wedi tynnu dannedd 35% ohonyn, roedd 17% wedi colli eu dannedd yn sgil gweithredoedd treisgar ac roedd 15% o gyfranogwyr wedi tynnu eu dannedd eu hunain.

Nododd yr astudiaeth rywfaint o ffactorau allweddol sy'n sail i iechyd gwael y geg yn achos pobl ddigartref.

- Mae deiet y cyfranogwyr yn niweidiol i iechyd y geg – roedd diffyg mynediad at fwyd iach ac angen am ffynhonnell egni yn golygu bod pobl yn bwyta llawer o siwgr.
- Roedd cyfraddau uchel o gamddefnyddio cyffuriau ac alcohol ac roedd ysmygu tybaco yn debygol o fod yn niweidiol i iechyd y geg. Roedd gan 37% broblemau camddefnyddio alcohol, roedd gan 33% broblemau camddefnyddio cyffuriau ac roedd 78% yn ysmygwyr ar y pryd.
- Roedd iechyd meddwl gwael yn gyffredin ac roedd hynny'n effeithio'n sylweddol ar eu gallu i ofalu amdanynt hwy eu hunain a cheisio triniaeth.
- Er bod cyfranogwyr yn ystyried bod gofalu am iechyd eu ceg yn bwysig iawn ac yn deall pa mor bwysig yw hynny, roedd digartrefedd yn effeithio ar y gallu i wneud hynny.
- Roedd cyfraddau glanhau dannedd yn sylweddol is na'r lefelau gofynnol a argymhellir - roedd 35% yn glanhau eu dannedd ddwywaith y dydd neu'n amlach o'i gymharu â 75% o'r boblogaeth gyffredinol. Roedd 29% yn glanhau eu dannedd lai nag unwaith y dydd neu ni fyddent fyth yn glanhau eu dannedd.
- Roedd defnyddio alcohol a chyffuriau i geisio rheoli problemau iechyd y geg yn gyffredin. Roedd 27% o'r cyfranogwyr wedi defnyddio alcohol i'w helpu i ymdopi â phoen deintyddol ac roedd 28% wedi defnyddio cyffuriau.

Yn ôl adroddiad gan Centrepoint[116], mae pobl ifanc digartref ymhlith y bobl sy'n profi'r difreintedd cymdeithasol mwyaf yn y gymdeithas. Mae ymchwil flaenorol wedi dangos bod gan lawer ohonynt broblemau cymhleth gan gynnwys camddefnyddio sylweddau a phroblemau iechyd meddwl a chorfforol, a'u bod wedi dioddef camdriniaeth neu ddigwyddiadau trawmatig. Mae gan 42% o bobl ifanc ddigartref

[115] Groundswell - Healthy Mouths
[116] Centrepoint - Toxic Mix: The health needs of homeless young people 2014

broblem iechyd meddwl sydd wedi'i diagnosio neu maent yn nodi symptomau iechyd meddwl gwael, mae 18% wedi ceisio cyflawni hunanladdiad, mae gan 31% broblem iechyd corfforol (megis problemau â'u hanadlu, eu cymalau a'u cyhyrau, neu gur pen mynych), mae gan 21% hanes o hunan-niweidio, mae 52% yn nodi problemau cysgu, mae 55% yn ysmygu, ac mae 50% yn defnyddio sylweddau anghyfreithlon.

4.13 Cymunedau Sipsiwn a Theithwyr

Mae Sipsiwn a Theithwyr ymhlith y poblogaethau lleiafrifoedd ethnig hynaf yn y DU. Mae Sipsiwn, y Roma a Theithwyr Gwyddelig yn grwpiau hiliol sy'n cael eu cydnabod yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Yng Nghyfrifiad 2021, nododd 3,630 o bobl eu bod yn Sipsiwn neu'n Deithwyr Gwyddelig yng Nghymru, sef 5.1% o gyfanswm y boblogaeth Sipsiwn/Teithwyr Gwyddelig ledled Cymru a Lloegr. Mae hynny'n gyfystyr â thua 0.12% o boblogaeth Cymru ac yn gynnydd o 845 o bobl o'i gymharu ag ystadegau Cyfrifiad 2011[117].

Yng Nghymru, mae gan Sipsiwn a Theithwyr hawl i gael triniaeth gan Feddyg Teulu fel preswylydd parhaol neu dros dro. Mae astudiaethau wedi dangos bod Sipsiwn a Theithwyr yn wynebu heriau o ran defnyddio gwasanaethau, a gallai'r heriau hynny ddeillio o:

- Natur dros dro bod yn yr ardal.
- Lleoliad safleoedd.
- Cludiant – yn gysylltiedig yn benodol â menywod sy'n aml yn methu â gyrru.
- Lefelau isel o lythrennedd iechyd o ran pa wasanaethau y mae ganddynt hawl i'w defnyddio neu sut i'w cyrchu.

Bydd bod yn Sipsi, Roma neu Deithiwr fel arfer yn rhan bwysig o hunaniaeth rhywun. Mae credoau diwylliannol yn cynnwys ystyried y dylai problemau iechyd gael eu trin gan aelodau'r aelwyd neu eu cadw o fewn yr uned deuluol estynedig. Ceir rhaniad cryf hefyd rhwng y rhywiau yn niwylliannau Sipsiwn a Theithwyr ac ystyrir bod preifatrwydd yn werthfawr.

Fe wnaeth cyflwyniad i Fwrdd Iechyd a Lles Doncaster ym mis Tachwedd 2023[118] ddwyn sylw at y ffeithiau canlynol:

- Bydd pobl sy'n Sipsiwn a Theithwyr yn byw rhwng deg a 25 mlynedd yn llai na'r boblogaeth gyffredinol.
- Mae iechyd cyfartalog pobl 60 oed o gymunedau Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig yn debyg i iechyd unigolyn gwyn Prydeinig 80 oed ar gyfartaledd.
- Mae dynion sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr dros 12 gwaith yn fwy tebygol o ddioddef mwy na dau gyflwr iechyd corfforol na dynion gwyn Prydeinig.
- Pobl Roma oedd â'r risg uchaf o fethu â chyrchu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

---

[117] Cyfrifiad 2021 – Poblogaethau Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig, Cymru a Lloegr – Swyddfa Ystadegau Gwladol

[118] Cyfarfod Bwrdd Iechyd a Lles Doncaster (Eitem 11) - Health inequalities – a focus on Gypsy Roma Traveller communities

- Mae mamau sy'n Sipsiwn a Theithwyr 20 gwaith yn fwy tebygol o brofi marwolaeth plentyn.
- Mae 29% o rieni sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn debygol o brofi un neu ragor o gamesgoriadau (o'i gymharu â 16% o'r grŵp nad ydynt yn deithwyr a arolygwyd).
- Mae mamau sy'n Roma yn profi cyfraddau uwch o ganlyniadau gwael i fabanod, er enghraifft, genedigaethau cynamserol a babanod sy'n rhy ysgafn ar adeg eu geni.
- Er bod y dystiolaeth ynghylch iechyd meddwl a hunanladdiad yn gyfyngedig oherwydd casglu data gwael, mae'n amlygu
    - lefelau uchel o anghenion heb eu diwallu,
    - mae pobl yng nghymunedau'r Sipsiwn, Roma a Theithwyr dair gwaith yn fwy tebygol o fod yn orbryderus a ddwywaith yn fwy tebygol o ddioddef gan iselder,
    - mae iechyd meddwl yn bwnc tabŵ,
    - mae dynion yn fwy tebygol o "estyn am y rhaff" na siarad, ac
    - mae dynion sy'n Deithwyr Gwyddelig saith gwaith yn fwy tebygol o farw trwy hunanladdiad, ac mae menywod chwe gwaith yn fwy tebygol o wneud hynny.
- Mae'r heriau a wynebir wrth gyrchu gwasanaethau iechyd a gofal yn cynnwys:
    - troseddau casineb, ymyleiddio, gwahaniaethu,
    - credoau diwylliannol,
    - diffyg llythrennedd neu anllythrennedd,
    - Saesneg heb fod yn iaith gyntaf,
    - allgáu digidol,
    - diffyg addysg,
    - tlodi,
    - cludiant, a
    - rhagfarn anymwybodol/agwedd staff.
- Fe wnaeth Arolwg Cenedlaethol Evidence for Equality[119] yn 2023 ddatgelu bod mwy na thraean o bobl o grwpiau lleiafrifoedd ethnig a chrefyddol wedi profi rhyw fath o ymosodiad hiliol. Roedd yr arolwg hwn wedi cynnwys y nifer fwyaf o gyfranogwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr mewn unrhyw arolwg cenedlaethol hyd hynny a datgelodd:
    - Roedd 62% o Sipsiwn a Theithwyr wedi profi cam-drin hiliol, sef y lefel uchaf o blith yr holl grwpiau ethnig lleiafrifol a arolygwyd,
    - Roedd 47% o bobl Roma wedi dioddef ymosodiad hiliol, ac
    - Roedd 37% o bobl Roma wedi dioddef ymosodiad corfforol.
- Mae effeithiau eang gwahaniaethu yn cynnwys:
    - llety gwael, mynediad cyfyngedig at gyfleusterau,
    - pobl sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr sy'n profi'r lefelau uchaf o amddifadedd cymdeithasol ac economaidd,
    - nid oedd gan fwy na hanner y bobl sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr unrhyw gymwysterau addysgol,

[119] Arolwg Cenedlaethol Evidence for Equality, Canolfan Dynameg Ethnigrwydd - Racism and ethnic inequality in a time of crisis

    - roedd 85% o ddynion sy'n Sipsiwn neu'n Deithwyr a 65% o ddynion sy'n Roma mewn cyflogaeth ansicr, o'i gymharu â 19% o ddynion gwyn Prydeinig, ac
    - mae 6% o boblogaeth y carchardai yn Sipsiwn, Roma a Theithwyr.
- Mewn perthynas â phlant a phlant ifanc Sipsiwn, Roma a Theithwyr:
    - hwy yw'r bobl fwyaf agored i niwed o blith unrhyw grŵp yn y DU o safbwynt ystadegol,
    - nododd 86% mai bwlio oedd eu her fwyaf yn yr ysgol,
    - gadael yr ysgol yn gynnar,
    - roedd tua 50% yn absennol o'r ysgol yn gyson,
    - eu cyrhaeddiad addysgol yw'r isaf o blith yr holl grwpiau ethnig, ac
    - mae 15% o boblogaeth unedau hyfforddi diogel yn Sipsiwn, Roma Theithwyr.

4.14 Ffoaduriaid a cheiswyr lloches

Mae ceisiwr lloches yn unigolyn sydd hefyd yn ceisio amddiffyniad rhyngwladol rhag peryglon yn eu gwlad gartref, ond nad yw eu hawliad am statws ffoadur wedi'i benderfynu'n gyfreithiol. Er enghraifft, mae unigolyn wedi dod i'r DU i arfer ei hawl gyfreithiol i hawlio lloches o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Statws Ffoaduriaid 1951 (yn aml iawn, defnyddir y ffurf fer, Confensiwn Ffoaduriaid 1951, i gyfeirio at hynny). Os bydd eu cais yn llwyddiannus, rhoddir statws ffoadur i'r unigolyn.

Mae Ffoadur yn unigolyn sydd wedi gorfod ffoi o'u cartref oherwydd rhyfel, trais neu erledigaeth, yn aml heb rybudd, ac sy'n methu dychwelyd i'w cartref oni bai a hyd nes bydd amodau yn eu gwledydd brodorol yn ddiogel iddynt.

Mae mudwr yn derm ymbarél heb ddiffiniad cyfreithiol o dan gyfraith ryngwladol. Fel arfer, mae'n disgrifio unigolyn sydd wedi gadael ei gartref, naill ai o fewn ei wlad neu ar draws ffiniau. Gall mudwyr adael eu cartref dros dro neu'n barhaol a gall hynny ddigwydd oherwydd amryw o resymau. Er enghraifft, efallai y byddant yn teimlo nad oes ganddynt ddewis ond gadael eu cartrefi oherwydd aflonyddwch gwleidyddol, tlodi neu amgylchiadau difrifol eraill a allai olygu bod dychwelyd yn anniogel. Bydd eraill yn gadael yn wirfoddol am oherwydd rhesymau megis addysg, cyfleoedd gwaith tymhorol neu i ymuno â'u teuluoedd.

Nid yw materion mewnfudo a lloches yn bwerau sydd wedi'u datganoli i Gymru. Fodd bynnag, mae gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldebau dros lawer o feysydd bywyd a wnaiff effeithio ar geiswyr lloches sydd wedi'u lleoli yng Nghymru, ac un o'r cyfrifoldebau hynny yw eu mynediad at wasanaethau iechyd.

Mae ceiswyr lloches yn un o'r grwpiau mwyaf agored i niwed yn y gymdeithas, ac mae gan lawer ohonynt anghenion iechyd a gofal cymdeithasol cymhleth. Efallai bydd profiadau cyn gadael eu mamwlad, tra'n teithio, neu wrth gyrraedd y DU yn dylanwadu ar yr anghenion hynny.

Bydd gan lawer o geiswyr lloches anghenion iechyd a gofal cymdeithasol cymhleth. Mae menywod beichiog, plant ar eu pen eu hunain, pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl sylweddol, a phobl sydd wedi profi digwyddiadau trawmatig megis treisio

neu artaith, yn debygol o fod yn neilltuol o agored i niwed. Er bod llawer o'u gofynion iechyd yr un fath â rhai'r gymuned leol, efallai bydd gan geiswyr lloches hefyd broblemau iechyd a phroblemau cysylltiedig ag iechyd sy'n wahanol i rai'r gymuned leol[120]. Er enghraifft:

- problemau penodol sy'n deillio o'u profiadau a'u hamgylchiadau a allai fod wedi arwain at eu cais am loches e.e. byddant wedi profi artaith neu gamdriniaeth neu wedi gweld hynny'n digwydd.
- heriau iechyd megis:
    - imiwneiddiadau anghyflawn,
    - clefydau heintus megis twbercwlosis, feirws diffyg imiwnedd dynol/syndrom diffyg imiwnedd caffaeledig a chlefydau eraill a drosglwyddir yn rhywiol, ac
    - mewn perygl o brofi cyflyrau penodol,
- clefydau cronig,
- problemau iechyd meddwl a allai fod yn gysylltiedig â phrofiadau yn y gorffennol neu broblemau sy'n bodoli eisoes ac a allai fod wedi'u gwaethygu gan amgylchiadau presennol e.e., anhwylder straen wedi trawma, a
- diffyg iechyd y geg.

Ceir tystiolaeth bod unigolion nad ydynt wedi'u geni yn y DU sy'n byw yn y DU yn profi canlyniadau gwaeth o ran iechyd corfforol ac iechyd meddwl na phreswylwyr eraill, er bod hynny'n amrywio yn ôl hanes mudo. Mae amgylchiadau economaidd-gymdeithasol a rheoliadau mewnfudo sy'n effeithio ar rai grwpiau o fudwyr yn effeithio'n negyddol ar eu mynediad at wasanaethau gofal iechyd a'u defnydd ohonynt. Mae cyfraddau clefydau heintus, gan gynnwys twbercwlosis a'r feirws diffyg imiwnedd dynol, yn uwch nag yn achos pobl nad ydynt yn fudwyr. Gall diffyg ymwybyddiaeth o gymhwysedd i gael gwasanaethau gofal iechyd, problemau ieithyddol, ac ofni cael eu riportio i Asiantaeth Ffiniau'r DU, fod yn rhwystrau rhag ceisio gofal.

Ceir tystiolaeth o lefelau uwch o iselder a phryder ymhlith ceiswyr lloches a ffoaduriaid o'i gymharu â'r boblogaeth genedlaethol, ac mae llawer o ymchwil wedi canolbwyntio ar effaith gorfforol a meddyliol gwrthdaro a rhyfel yng ngwledydd cartref mudwyr. Mae plant, a menywod sydd wedi dioddef camdriniaeth rywiol a chorfforol yn grwpiau neilltuol o agored i niwed.

Ym mis Ionawr 2019, fe wnaeth Llywodraeth Cymru lansio Cenedl Noddfa: Cynllun ar gyfer Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches[121], sy'n ceisio mynd i'r afael ag anawsterau allweddol ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Mae'r rhain yn cynnwys sicrhau:

- Y gall ffoaduriaid a cheiswyr lloches gael mynediad at y gwasanaethau iechyd (gan gynnwys gwasanaethau iechyd meddwl) sydd eu hangen arnynt trwy gydol y 'siwrnai loches'. Mae hyn yn cynnwys asesiadau iechyd wrth gyrraedd ac yn ystod y cyfnodau gwasgaru ac wedi trawma;
- Bod ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn cael y wybodaeth a'r cyngor sydd eu hangen arnynt i ddechrau integreiddio i gymdeithas Cymru o'r diwrnod cyntaf;

[120] Llywodraeth Cymru – Darpariaeth iechyd a llesiant i ffoaduriaid a cheiswyr lloches (2018)
[121] Llywodraeth Cymru – Cenedl Noddfa – Cynllun Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches (2019)

- Nad yw ceiswyr lloches yn cael eu hatal rhag cael mynediad at gynlluniau priodol Llywodraeth Cymru a fyddai'n eu helpu i integreiddio;
- Bod ffoaduriaid a cheiswyr lloches newydd yn llai tebygol o wynebu amddifadedd;
- Bod pob ffoadur a cheisiwr lloches (yn enwedig plant ar eu pen eu hunain yn ceisio lloches) yn cael eu diogelu'n briodol ac yn gallu cael gafael ar gefnogaeth eirioli;
- Bod ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn gallu cael mynediad at gyfleoedd addysgol, gan gynnwys sgiliau iaith, i'w helpu i ailadeiladu eu bywydau a chyflawni eu potensial llawn.

Mae cyfathrebu'n dda â mudwyr yn hanfodol. Mae pennu iaith ac addasrwydd y fformat (e.e. ysgrifenedig, sain, wyneb yn wyneb, dros y ffôn) a'r cymorth sydd ar gael, megis eiriolaeth a dehongli, yn elfennau hanfodol i sicrhau cyfathrebu effeithiol. Yn ychwanegol, mae materion eraill a amlygwyd yn achos mewnfudwyr a cheiswyr lloches yn cynnwys yr angen am fwy o eiriolaeth a chymorth yn ôl yr angen i fewnfudwyr, diffyg dull strategol o ddarparu gwybodaeth a gwasanaethau i fewnfudwyr newydd a diffyg cydlynu rhwng gwasanaethau i fewnfudwyr, ceiswyr lloches a ffoaduriaid.

4.15 Cyn-aelodau o'r lluoedd arfog

Cyfrifiad 2021 oedd y cyntaf wnaeth ofyn i bobl a oeddent wedi gwasanaethu yn lluoedd arfog y DU yn flaenorol. Gofynnwyd i bobl 16 oed a hŷn a oeddent wedi gwasanaethu'n flaenorol yn lluoedd arfog rheolaidd neu wrth gefn y DU, neu'r ddau. Cynghorwyd pobl a oedd yn gwasanaethu yn lluoedd arfog y DU ar y pryd a'r rhai nad oeddent erioed wedi gwasanaethu i dicio "na".

At ddibenion Cyfrifiad 2021, dyma'r diffiniad o gyn-aelodau'r lluoedd arfog: "pobl sydd wedi gwasanaethu yn lluoedd arfog y DU o'r blaen". Maent yn cynnwys pobl sydd wedi gwasanaethu am o leiaf un diwrnod yn y lluoedd arfog (rheolaidd neu wrth gefn), neu Longwyr yn y Llynges Fasnachol sydd wedi gwasanaethu fel rhan o weithrediadau milwrol a ddiffinnir yn gyfreithiol[122].

Mae'r tabl isod yn dangos nifer cyn-aelodau'r lluoedd arfog yn byw yn ardaloedd pum awdurdod lleol Gogledd Cymru, ar sail Cyfrifiad 2021.

[122] Swyddfa Ystadegau Gwladol - TS071 previously served in the UK armed forces Cyfrifiad 2021

Tabl 4.1 – nifer cyn-aelodau'r lluoedd arfog yn byw yn ardaloedd pob awdurdod lleol lleol 2021

Awdurdod lleol	Wedi gwasanaethau'n flaenorol yn lluoedd arfog rheolaidd ac wrth gefn y DU	Wedi gwasanaethau'n flaenorol yn lluoedd arfog rheolaidd y DU	Wedi gwasanaethau'n flaenorol yn lluoedd wrth gefn y DU	Cyfanswm
Sir y Fflint	286	5,249	1,237	**6,772**
Conwy	242	4,453	954	**5,649**
Wrecsam	205	3,923	938	**5,066**
Sir Ddinbych	219	3,344	746	**4,309**
Gwynedd	167	3,214	796	**4,177**
Ynys Môn	121	2,619	481	**3,221**

Ym mis Medi 2024, fe wnaeth Canolfan y Brenin dros Ymchwil Iechyd y Lluoedd Arfog gyhoeddi adroddiad[123] yn ymwneud â data a gasglwyd gan Bersonél Lluoedd Arfog y DU oedd yn gwasanaethu ar y pryd ac a oedd wedi gwasanaethu'n flaenorol. Fe wnaeth 4,104 o bobol a oedd yn bersonél y Lluoedd Arfog ar y pryd neu'n gyn-bersonél ymateb i holiadur manwl a oedd yn archwilio symptomau anhwylderau meddwl cyffredin, anhwylder straen wedi trawma tebygol, anhwylder straen wedi trawma cymhleth a chamddefnyddio alcohol. Fe wnaeth y data hyn amlygu'r canlynol:

- Nododd 28% o'r ymatebwyr symptomau anhwylderau meddwl cyffredin, cynnydd o gymharu â 22% yn 2014/16 a 20% yn 2004/06.
- Nododd 9% o'r ymatebwyr anhwylder straen wedi trawma tebygol, cynnydd o gymharu â 6% yn 2014/16 a 4% yn 2004/06.
- Nododd cyn-bersonél y lluoedd rheolaidd gyfraddau anhwylder straen wedi trawma tebygol uwch na phersonél y lluoedd rheolaidd a oedd yn gwasanaethu ar y pryd, sef 11% a 7% yn y drefn honno.

Mae'r data'n dwyn sylw at gyffredinrwydd ar sail statws gwasanaethu; roedd y gyfradd yn 11% yn achos cyn-bersonél y lluoedd rheolaidd ac yn 7% yn achos personél y lluoedd rheolaidd oedd yn gwasanaethu ar y pryd. Mae hyn yn ategu canfyddiadau'r gorffennol a nodai y bydd anhwylder straen wedi trawma yn aml yn dod i'r amlwg neu'n gwaethygu ar ôl gorffen gwasanaethu yn y lluoedd, yn enwedig yn ystod y cyfnod pontio i fywyd sifiliaid.

Yr adroddiad hwn ynghylch Cyfnod 4 oedd y tro cyntaf i anhwylder straen wedi trawma cymhleth gael ei fesur ymhlith y garfan hon, gan gynnig tystiolaeth newydd hanfodol. Mae'n gyflwr is-set o anhwylder straen wedi trawma sy'n aml yn cael ei achosi yn sgil profi digwyddiadau trawmatig hirdymor neu gylchol tra a phrofi symptomau ychwanegol megis trafferth rheoli'r emosiynau ar yr un pryd. Canfu ymchwilwyr fod bron i dri chwarter (72%) yr ymatebwyr oedd yn profi anhwylder

[123] Swyddfa Materion Cyn-aelodau'r Lluoedd Arfog - Office for Veterans' Affairs Final Report. Health and Wellbeing Study of Serving and Ex-Serving UK Armed Forces Personnel: Phase 4

straen wedi trawma tebygol yn cyflawni'r trothwy ar gyfer anhwylder straen wedi trawma cymhleth.

Dywedodd Dr Marie-Louise Sharp, Uwch Gymrawd Ymchwil yng Nghanolfan y Brenin ar gyfer Ymchwil Iechyd y Lluoedd Arfog ac awdur arweiniol yr adroddiad, "mae anhwylder straen wedi trawma yn gyflwr a allai newid bywyd a all fod yn anodd ei drin. Gall cynnig triniaeth effeithiol i unigolion ag anhwylder straen wedi trawma cymhleth fod yn fwy cymhleth, oherwydd efallai y byddent yn disgwyl mwy cyn gofyn am gymorth ac maent yn fwy tebygol o fod yn rheoli amrywiaeth o wahanol gyflyrau iechyd meddwl. Bydd angen i wasanaethau sy'n darparu ar gyfer cyn-aelodau'r lluoedd arfog asesu pa mor dda y maent yn cynorthwyo ac yn trin cyflyrau iechyd cymhleth a chydredol".

Roedd camddefnyddio alcohol wedi gostwng yn ystod cyfnodau blaenorol ond ymddengys ei fod wedi lefelu gan aros ar lefel uchel o'i gymharu â'r boblogaeth gyffredinol.

Canfuwyd bod dod i gysylltiad â phroblemau iechyd meddwl yn ystod ac wedi ymgyrchoedd milwrol yn ffactorau risg ar gyfer trais yn yr amgylchedd y teulu ac oddi allan i'r amgylchedd hwnnw.

Fe wnaeth y data cenedlaethol cyntaf a gyhoeddwyd ynghylch hunanladdiad cyn-aelodau'r lluoedd arfog yng Nghymru a Lloegr[124] ddangos fod 253 o gyn-aelodau Lluoedd Arfog y DU wedi marw trwy hunanladdiad yn 2021, ac roedd 93.7% ohonynt yn ddynion a 6.3% yn fenywod. Digwyddodd 5.9% o 253 o hunanladdiadau cyn-aelodau Lluoedd Arfog y DU yn 2021 yng Nghymru.

Nid oedd y cyfraddau cyffredinol ar gyfer cyn-aelodau lluoedd arfog y DU yn uwch na'r boblogaeth gyffredinol. Fodd bynnag, mae cyfraddau hunanladdiad ddwy i bedair gwaith yn uwch ymhlith cyn-aelodau'r lluoedd arfog gwrywaidd a benywaidd rhwng 16 a 24 oed o'i gymharu â'r un grŵp oedran yn y boblogaeth gyffredinol.

Hunanladdiad ar ôl gadael Lluoedd Arfog y DU 1996–2018: astudiaeth garfan[125][126] a gyhoeddwyd yn 2023, canfuwyd bod cyn-aelodau Lluoedd Arfog y DU yn y perygl uchaf o hunanladdiad yn eu dwy flynedd gyntaf ar ôl gadael y Lluoedd Arfog. Dyma'r ffactorau sy'n gysylltiedig â risg uwch o hunanladdiad:

- bod yn wryw,
- gwasanaethu yn y Fyddin,
- cael eu rhyddhau o'r lluoedd pan fyddant rhwng 16 a 34 oed,
- hyd gwasanaeth sy'n llai 10 mlynedd, a
- bod yn anhyfforddedig ar adeg eu rhydau.

[124] Cyfrifiad 2021- Suicides in UK armed forces veterans, England and Wales - Office for National Statistics
[125] Ymchwiliad Cyfrinachol Cenedlaethol i Hunanladdiad a Diogelwch mewn Iechyd Meddwl, Prifysgol Manceinion - Suicide after leaving the UK Armed Forces 1996–2018: A cohort study
[126] Samariaid - Armed Forces and Veteran Suicide

Roedd chwarter holl gyn-aelodau'r lluoedd arfog a fu farw trwy hunanladdiad wedi bod mewn cysylltiad â gwasanaethau iechyd meddwl yn ystod y flwyddyn cyn iddynt farw.

Cyhoeddwyd Astudiaeth Iechyd a Hapchwarae Cyn-aelodau Lluoedd Arfog y Deyrnas Unedig yn 2021[127], a chanfuwyd bod cyn-aelodau'r lluoedd arfog gryn dipyn yn fwy tebygol o brofi anawsterau â phroblemau hapchwarae na phobl nad ydynt yn gyn-aelodau lluoedd arfog y DU. Roedd cyn-aelodau'r lluoedd arfog a ymatebodd i'r arolwg fwy na deg gwaith yn fwy tebygol o brofi niwed yn sgil hapchwarae na'r ymatebwyr nad oeddent yn gyn-aelodau'r lluoedd arfog. Roeddent hefyd bedair gwaith yn fwy tebygol o fod wedi hapchwarae'n ddiweddar, ac ar fwy o weithgareddau nag ymatebwyr nad oeddent yn gyn-aelodau'r lluoedd arfog. Roedd lefel hapchwarae cyn-aelodau'r lluoedd arfog saith gwaith yn fwy tebygol o gael ei ysgogi gan yr angen i ddianc rhag neu osgoi gofid, a chanfuwyd hefyd eu bod yn wynebu perygl mwy o lawer o brofi canlyniadau iechyd meddwl gwael gan gynnwys iselder, pryder, anhwylder straen wedi trawma, a bod yn gaeth i alcohol a/neu nicotin.

Mae materion eraill y mae astudiaethau wedi'u nodi fel rhai o bwys i gyn-aelodau'r lluoedd arfog yn cynnwys:

- gallu cael llety addas ac atal digartrefedd,
- cynorthwyo cyn-aelodau'r lluoedd arfog i gael cyflogaeth,
- gallu cael cyngor ariannol priodol a gwybodaeth am fudd-daliadau perthnasol,
- gallu cael gwasanaethau iechyd a chymorth,
- cynorthwyo cyn-aelodau'r lluoedd arfog sydd wedi dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol,
- unigrwydd ac arwahanrwydd, a
- chynorthwyo teulu ehangach cyn-aelodau'r lluoedd arfog.

4.16 Ymwelwyr â chyfleusterau chwaraeon a hamdden a pherchnogion ail gartrefi

Ni ragwelir y bydd anghenion iechyd y grŵp cleifion hwn yn debygol o fod yn wahanol iawn i anghenion poblogaeth gyffredinol Gogledd Cymru. Efallai y byddant yn yr ardal am gyfnod byr yn unig, felly mae'n debygol y bydd eu hanghenion iechyd fel a ganlyn:

- Trin cyflwr acíwt sy'n gofyn am feddyginiaethau ar bresgripsiwn
- Yr angen am feddyginiaeth a geir yn rheolaidd
- Cymorth ar gyfer hunanofal, neu
- Gyfeirio at wasanaethau iechyd eraill megis meddyg teulu neu ddeintydd.

Fe wnaeth adolygiad a gynhaliwyd gan Wasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru ynghylch effaith twristiaeth ar iechyd[128] ganfod y canlynol:

[127] Prifysgol Abertawe - The United Kingdom Armed Forces Veterans' Health and Gambling Study
[128] Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru, 2005. Health Impacts of Seasonal Demographic changes in areas with high levels of tourism in the UK – Canfyddiadau allweddol o'r llenyddiaeth.

- Prin iawn yw'r ymchwil sydd wedi'i wneud ynghylch effeithiau twristiaeth ar iechyd yn y DU.
- Mae patrymau ymgynghori â gwasanaethau gofal sylfaenol ymwelwyr yn wahanol i batrymau'r boblogaeth breswyl, a byddant yn ymgynghori'n amlach â meddyg ynghylch heintiau anadlol, anhwylderau gastroberfeddol, mân heintiau ac anhwylderau'r croen.
- Gall llwyth gwaith meddygon teulu mewn cyrchfannau gwyliau poblogaidd gynyddu yn ystod misoedd yr haf.
- Yn aml, ni fydd pobl sy'n mynd ar eu gwyliau wedi paratoi'n dda at eu hymweliad, a byddant yn anghofio meddyginiaethau hanfodol ac yn teithio wedi salwch difrifol a llawdriniaethau. Gallai cwnsela cynhwysfawr cyn gwyliau gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol yn yr ardaloedd ble mae ymwelwyr yn preswylio, yn enwedig yn achos pobl sydd â chyflyrau cronig, leihau'r baich ar wasanaethau iechyd yn yr ardaloedd sy'n eu lletya dros dro.
- Yn aml, ni fydd gan ymwelwyr lawer o wybodaeth leol am amodau, ac felly, byddant mewn mwy o berygl o gael damweiniau, yn enwedig mewn perthynas â'r amgylchedd naturiol.
- Gall casglu data cynhwysfawr ynghylch cyfnodau gofal iechyd ymwelwyr a chyfathrebu a rhannu gwybodaeth yn dda rhwng gwasanaethau iechyd, y diwydiant ymwelwyr a llywodraeth leol gynorthwyo â gwaith i gynllunio at effeithiau'r diwydiant ymwelwyr ar iechyd.
- Bydd ymddygiad peryglus o ran defnyddio alcohol, defnyddio cyffuriau ac ymddygiad rhywiol yn cynyddu pan fydd pobl ar wyliau.
- Gall awyrgylch hedonistaidd a 'charnifalaidd' dros dro cyrchfannau glan môr y DU, ynghyd ag argaeledd rhwydd alcohol, gyfrannu at bobl ifanc yn bod yn fentrus mewn perthynas â'u hymddygiad rhywiol. Yn aml, bydd pobl ifanc yn cael eu denu i leoliadau'r diwydiant hamdden ac adloniant sydd wedi'u hanelu at oedolion, a gall hynny olygu eu bod mewn perygl o brofi camfanteisio.

4.17 Anfantais economaidd-gymdeithasol

Daeth y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol i rym yng Nghymru ar 31 Mawrth 2021 ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r bwrdd iechyd ymdrin â sut y gallai ei benderfyniadau helpu i leihau'r anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol.

Ym mis Hydref 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adroddiad[129] a oedd yn cynnwys crynodeb o'r dystiolaeth allweddol yn ymwneud â sut mae amddifadedd economaidd-gymdeithasol yn effeithio ar bobl Cymru. Er y ceir cydnabyddiaeth helaeth i bwysigrwydd iechyd a'i gysylltiadau ag amddifadedd, mae anghydraddoldebau iechyd yn amlwg yng Nghymru ac mae gan oedolion yn ardaloedd mwyaf difreintiedig y wlad (er enghraifft, rhai o'r trefi yng Ngogledd Cymru sydd ar yr arfordir ac yn agos at y ffin) ddisgwyliadau oes is, a bydd oedolion a phlant mewn ardaloedd tlotach yn profi canlyniadau iechyd gwaeth na'r sawl sy'n byw yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig.

[129] Llywodraeth Cymru - "Gweithredu'r Ddyletswydd Gymdeithasol-Economaidd. Adolygiad o dystiolaeth am anfantais economaidd-gymdeithasol ac anghydraddoldebau canlyniadau" Hydref 2021

Dygodd yr adroddiad sylw at yr anghydraddoldebau iechyd canlyniadau canlynol oherwydd anfantais economaidd-gymdeithasol.

- Iechyd corfforol gwaeth a disgwyliadau oes is mewn ardaloedd mwy difreintiedig.
- Bod yn fwy tebygol o ddioddef gan glefyd anhrosglwyddadwy mewn ardaloedd mwy difreintiedig.
- Bod pobl mewn ardaloedd mwy difreintiedig yn fwy tebygol o brofi iechyd meddwl gwaeth a risg uwch o hunanladdiad, ac yn llai tebygol o ofyn am gymorth i drin cyflyrau iechyd meddwl.
- Llai o fynediad at wasanaethau gofal iechyd digonol yn achos rhai cymunedau buddiant ac mewn ardaloedd gwledig.
- Bod pobl o gymunedau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn fwy tebygol o ddioddef anghydraddoldebau iechyd a phrofi rhwystrau rhag mynediad at wasanaethau gofal iechyd a gweithgareddau ymarfer corff/chwaraeon.
- Bod Menywod yn fwy tebygol o fod yn ofalwyr di-dâl.
- Bod Pobl LHDTC+ yn fwy tebygol o ddioddef gan ofid seicolegol.
- Bod pobl anabl yn wynebu mwy o anghenion heb eu diwallu ym maes gofal iechyd.

4.18 Siaradwyr Cymraeg

Er nad yw anghenion iechyd siaradwyr Cymraeg yn debygol o fod yn wahanol i anghenion pobl nad ydynt yn siarad Cymraeg, dylai'r gallu i unigolyn gael gwasanaethau yn y Gymraeg, ar adeg pan fyddant yn fwyaf agored i niwed, fod yn rhan annatod o ofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Lansiwyd “Mwy na Geiriau: Cynllun y Gymraeg mewn iechyd a gofal cymdeithasol”[130] gan y gweinidog iechyd a gwasanaethau cymdeithasol ar y pryd ym mis Awst 2022. Datganai’r ddogfen fod safonau proffesiynol mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn nodi bod cyfathrebu effeithiol yn ofyniad allweddol, gan ddwyn sylw at yr angen i gynnal urddas a pharch. Felly, dylai mabwysiadu a chyflwyno “Mwy na geiriau” helpu i wella ansawdd gofal i unigolion sy’n byw mewn gwlad ddwyieithog. Yn y rhagair gan y gweinidog, fe wnaeth y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd eglurebu hynny drwy ddisgrifio senario menyw oedrannus sydd wedi byw mewn cymuned Gymraeg glos ar hyd ei hoes, yn dioddef fwyfwy gan ddementia ac yn cael ei derbyn i ysbyty neu gartref gofal ble’r oedd y Saesneg yn brif iaith. Os nad yw hi'n gallu deall yn llawn beth yn union sy’n digwydd iddi oherwydd ni all ei gofalwyr siarad ei hiaith, mae'n debygol yr aiff hi’n fwy rhwystredig, a bydd hynny’n debygol o effeithio'n negyddol ar ganlyniadau clinigol yn ymwneud â’i lles.

Un o elfennau craidd “Mwy na geiriau” yw’r “cynnig rhagweithiol” – cynnig gwasanaeth yn y Gymraeg heb i rywun orfod gofyn am hynny.

[130] Llywodraeth Cymru "Mwy na geiriau: cynllun y Gymraeg mewn iechyd a gofal cymdeithasol" Awst 2022

5 Darparu gwasanaethau fferyllol


5.1 Y ddarpariaeth bresennol yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Mae 143 o fferyllfeydd wedi'u cynnwys ar y rhestr fferyllol ar gyfer ardal y bwrdd iechyd ym mis Mawrth 2025, a chaiff y rhain eu rhedeg gan 44 o gontractwyr unigol. Mae hyn yn ostyngiad o'r 152 o fferyllfeydd yn yr asesiad o anghenion fferyllol yn 2021.

Mae chwe fferyllfa'n gweithredu o dan y 'cynllun fferyllfeydd bach hanfodol', un yr un yn Ynys Môn, Canolbarth a De Sir Ddinbych, De Meirionnydd, a De Wrecsam, a dwy yn Nwyfor a Gogledd Meirionnydd. Mae bod yn 'fferyllfa fach hanfodol' yn golygu bod y fferyllfa'n cael taliad ychwanegol i sicrhau ei bod yn cael isafswm incwm ar gyfer darparu gwasanaethau hanfodol a'i bod felly'n hyfyw.

O blith y 96 o feddygfeydd yn ardal y bwrdd iechyd, mae 34 yn gweinyddu presgripsiynau i gleifion cymwys o 42 safle yn ardal y bwrdd iechyd. Mae'r map isod yn dangos lleoliad y safleoedd hyn.

Map 5.1 – lleoliad fferyllfeydd a safleoedd meddygfeydd fferyllol



© OpenStreetMap © CARTO

Safleoedd meddygfeydd fferyllol

Fferyllfa

Fel y gellir gweld, mae dwysedd mwy o fferyllfeydd ar hyd arfordir y gogledd ac yn nwyrain ardal y bwrdd iechyd lle bydd dwysedd y boblogaeth ar ei uchaf. Mae safleoedd meddygfeydd fferyllol yn fwy tebygol i'w cael mewn ardaloedd lle bo dwysedd y boblogaeth yn is.


Yn 2024/25, gweinyddwyd 84.3% o'r eitemau a gafodd eu rhagnodi gan feddygfeydd yn ardal y bwrdd iechyd gan fferyllfeydd yn ardal y bwrdd iechyd. Cafodd 13.1% eu gweinyddu neu eu rhoi'n bersonol gan y meddygfeydd fferyllol. Yn ystod naw mis cyntaf 2025/26, cafodd 84.8% eu gweinyddu gan fferyllfeydd a chafodd 13.2% eu gweinyddu neu eu rhoi'n bersonol gan y meddygfeydd fferyllol.

5.1.1 Mynediad i'r safleoedd

Mae'r bwrdd iechyd wedi dewis amser teithio o 20 munud mewn car fel safon mynediad briodol. Er mwyn asesu a yw preswylwyr yn gallu cael mynediad at fferyllfa yn unol â'r amseroedd teithio safonol hyn, fe'u dadansoddwyd gan ddefnyddio Claude.ai.

Mae'r ardaloedd hynny sydd wedi'u marcio mewn gwyrdd o fewn taith pum munud mewn car i fferyllfa, mae'r ardaloedd sydd wedi'u marcio mewn melyn o fewn taith deg munud mewn car i fferyllfa, ac mae'r ardaloedd sydd wedi'u marcio mewn coch o fewn taith 20 munud i fferyllfa. Mae dadansoddiad o'r ardaloedd nad ydynt o fewn taith 20 munud mewn car o fferyllfa i'w cael yn y penodau ardaloedd priodol.

Map 5.2 – Yr amser a gymerir i gyrraedd fferyllfa mewn car



© OpenStreetMap © CARTO

Mae'r ymatebion i'r holiadur ymgysylltu â'r cyhoedd yn rhoi'r darlun canlynol i ni o ran cyrraedd fferyllfeydd.

- Mae 67.2% o'r ymatebwyr yn gyrru i fferyllfa.
- Mae 24.6% yn cerdded.
- Mae 4.1% yn mynd ar fws.
- Mae taith 95.0% o'r ymatebwyr yn para llai na 20 munud. Mae taith 89.3% yn para 15 munud neu lai.

5.1.2 Mynediad at wasanaethau hanfodol

Er y bydd y rhan fwyaf o bobl yn ymweld â fferyllfa rhwng 08.30 a 18.30, dydd Llun i ddydd Gwener, ar ôl ymweld â'u meddyg teulu neu weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall, fe fydd adegau pan fydd pobl angen mynd i fferyllfa y tu allan i'r amseroedd hynny, neu'n dewis gwneud hynny. Gall hyn fod er mwyn cael presgripsiwn ar ôl defnyddio'r gwasanaeth meddyg teulu y tu allan i oriau, neu i gasglu eitemau ar eu ffordd i'r gwaith neu ar eu ffordd yn ôl. Mae hefyd yn bosibl y bydd angen defnyddio un o wasanaethau eraill fferyllfa y tu hwnt i ddiwrnod gwaith arferol yr unigolyn.

Roedd yr ymatebion i'r holiadur ymgysylltu â'r cyhoedd yn dangos y canlynol:

- nid oedd 32.2% o'r ymatebwyr yn ffafrio unrhyw amser penodol i ymweld â fferyllfa,
- roedd yn well gan 25.6% fynd rhwng 9.00 a hanner dydd,
- 15.7% rhwng 15.00 a 18.00,
- 12.4% rhwng 18.00 a 21.00, ac
- 11.6% rhwng hanner dydd a 15.00.

Mewn perthynas â'r diwrnod a ffefrir o ran mynd i fferyllfa:

- nid oedd 45.1% yn ffafrio unrhyw ddiwrnod penodol,
- dywedodd 28.7% diwrnodau'r wythnos yn gyffredinol, a
- dywedodd 13.1% y penwythnos yn gyffredinol.

Mae Atodiad L yn cynnwys gwybodaeth ynghylch oriau agor fferyllfeydd ym mis Ionawr 2026. Bryd hynny roedd:

- 15 fferyllfa ar agor saith diwrnod yr wythnos
- 40 o fferyllfeydd ar agor o ddydd Llun i ddydd Sadwrn
- 60 o fferyllfeydd ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener, ac ar ddydd Sadwrn hyd 14.00
- 28 o fferyllfeydd ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener.

Mae gwasanaeth gyda'r nos yn ystod yr wythnos ar gael sy'n darparu ar gyfer y canlynol:

- Mae pedair fferyllfa ar Ynys Môn yn agor am 30 munud ychwanegol o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 17.30 a 18.00.
- Mae fferyllfa yn Arfon yn agor am awr ychwanegol o ddydd Llun i ddydd Mercher ac ar ddydd Gwener, rhwng 17.30 a 18.30.
- Mae dwy fferyllfa yng Nghanolbarth a De Sir Ddinbych yn aros yn agored bob yn ail wythnos o ddydd Llun i ddydd Mercher a dydd Gwener, un am awr ychwanegol (rhwng 17.30 a 18.30) a'r llall am 30 munud ychwanegol (17.30 i 18.00).
- Mae fferyllfa yng Ngorllewin Conwy yn agor am awr ychwanegol rhwng 17.30 a 18.30 o ddydd Llun i ddydd Gwener.

Mae tair fferyllfa yn Nwyfor a Gogledd Meirionnydd yn agor am 30 munud ychwanegol o ddydd Llun i ddydd Gwener (17.30 i 18.00), ac mae dwy'n agor am awr ychwanegol (17.30 i 18.30) bob yn ail wythnos, o ddydd Llun i ddydd Gwener.

Mae meddygfeydd dan gontract i ddarparu gwasanaethau rhwng 08.00 a 18.30, o ddydd Llun i ddydd Gwener, ac eithrio gwyliau'r banc a gwyliau cyhoeddus. Yn gyffredinol, bydd fferyllfeydd mewn meddygfeydd ar agor ar yr un pryd â'r feddygfa ei hun, a byddant yn gweinyddu presgripsiynau a roddwyd yn dilyn ymgynghoriad yn ystod yr amser hwn yn ogystal â phresgripsiynau rheolaidd.

5.1.3 Mynediad at y gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol


Mae tair elfen i'r gwasanaeth hwn:

- gwasanaeth anhwylderau cyffredin,
- gwasanaeth atal cenhedlu (dulliau atal cenhedlu brys, Pontio a Quickstart), a
- gwasanaeth cyflenwi meddyginiaethau brys.

Comisiynwyd pob fferyllfa ond un i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.


Yn 2025/26, darparwyd cyfanswm o 106,498 o ymgynghoriadau gwasanaeth anhwylderau cyffredin, ac mae'r ffigur isod yn dangos y nifer a ddarparwyd bob mis.

Ffigur 5.1 – nifer yr ymgynghoriadau gwasanaeth anhwylderau cyffredin yn 2025/26




Yn 2025/26, darparwyd cyfanswm o 6,161 o ymgynghoriadau gwasanaeth atal cenhedlu, ac mae'r ffigur isod yn dangos y nifer a ddarparwyd bob mis.

Ffigur 5.2 – nifer yr ymgynghoriadau gwasanaeth atal cenhedlu yn 2025/26



Yn 2025/26, darparwyd cyfanswm o 32,374 o ymgynghoriadau gwasanaeth cyflenwi meddyginiaethau brys ac mae'r ffigur isod yn dangos y nifer a ddarparwyd bob mis.


Ffigur 5.3 – nifer yr ymgynghoriadau gwasanaeth cyflenwi meddyginiaethau brys yn 2025/26



5.1.4 Mynediad at y gwasanaeth adolygu meddyginiaethau wrth ryddhau cleifion

Yn 2025/26, darparodd 122 o fferyllfeydd y gwasanaeth a hawlio cyfanswm o 4,365 o adolygiadau. Mae'r ffigur isod yn dangos nifer yr adolygiadau a hawliwyd bob mis.

Ffigur 5.4 – nifer yr adolygiadau o feddyginiaethau wrth ryddhau cleifion a hawliwyd yn 2025/26




5.1.5 Mynediad at y gwasanaeth rhagnodi annibynnol gan fferyllwyr

Comisiynwyd 62 fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

Yn 2025/26, darparwyd cyfanswm o 96,954 o ymgynghoriadau ac mae'r ffigur isod yn dangos y nifer a ddarparwyd bob mis.

Ffigur 5.5 – nifer yr ymgynghoriadau a ddarparwyd gan fferyllydd-ragnodydd annibynnol yn 2025/26



5.1.6 Mynediad at y gwasanaeth brechu tymhorol rhag y ffliw

Comisiynwyd 140 o fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26 a darparwyd cyfanswm o 23,216 o frechiadau ym mis Hydref a mis Tachwedd yn bennaf.

5.1.7 Mynediad at addasu cyfarpar stoma

Ni wnaeth unrhyw fferyllfa ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26 er bod o leiaf 82 o fferyllfeydd yn gweinyddu presgripsiynau ar gyfer pob math o gyfarpar.

5.1.8 Mynediad at adolygu'r defnydd o gyfarpar

Ni wnaeth unrhyw fferyllfa ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26 er bod o leiaf 82 o fferyllfeydd yn gweinyddu presgripsiynau ar gyfer pob math o gyfarpar.

5.1.9 Mynediad at wasanaeth cyflenwi profion llif unffordd

Comisiynwyd 127 fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

5.1.10 Mynediad at y gwasanaeth profi am feirysau a gludir yn y gwaed

Nod y gwasanaeth hwn yw gwella mynediad at sgrinio am feirysau a gludir yn y gwaed a'r driniaeth a'r cyngor iechyd cysylltiedig, a thrwy hynny leihau'r risgiau i iechyd personol a chyhoeddus sy'n gysylltiedig â haint Hepatitis B, Hepatitis C, a feirws imiwnoddiffygiant dynol.

Comisiynwyd 20 fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

5.1.11 Mynediad at wasanaeth brechu Covid-19

O dan y gwasanaeth hwn, mae fferyllfeydd yn darparu brechiadau Covid-19 i gleifion cymwys o dan gyfarwyddyd grŵp cleifion y cytunwyd arno'n genedlaethol.

Comisiynwyd 13 fferyllfa i ddarparu brechiadau Covid-19 i bobl gymwys o dan y gwasanaeth hwn yn 2025/26.

5.1.12 Mynediad at wasanaeth Helpa Fi i Stopio fferyllfeydd

Diben y gwasanaeth hwn yw rhoi triniaeth a chymorth cynhwysfawr i gleifion i'w helpu i roi'r gorau i ysmygu dros raglen 12 wythnos, sy'n cynnwys wyth ymgynghoriad. Bydd hefyd yn cynnwys darparu Varenicline dan gyfarwyddyd grŵp cleifion.

Comisiynwyd 119 fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

5.1.13 Mynediad at wasanaeth cyflenwi Naloxone

O dan y gwasanaeth hwn, gall fferyllfeydd ddarparu Naloxone i'r rhai sydd mewn perygl o orddos opioid, ac i'r rhai a allai fod yn dyst i orddos opioid.

Comisiynwyd deg fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

5.1.14 Mynediad at y gwasanaeth cymorth cenedlaethol i gartrefi gofal

O dan y gwasanaeth hwn, mae fferyllfeydd yn cefnogi cartrefi gofal i sicrhau bod meddyginiaethau'n cael eu defnyddio'n fwy diogel yn gyffredinol drwy wneud y canlynol:

- adolygu systemau a pholisïau,
- darparu addysg ar roi, storio a gwaredu meddyginiaeth,
- adolygu gweithdrefnau archebu i leihau gwastraff, ac
- adolygu prosesau'r cartref gofal ar gyfer delio â chamgymeriadau sy'n ymwneud â meddyginiaethau.

Comisiynwyd 42 fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

5.1.15 Mynediad at wasanaeth dychwelyd blychau offer miniog cleifion

Mae gan bobl sy'n rhoi pigiadau eu hunain gartref, fel pobl â diabetes neu arthritis gwynegol, wastraff miniog y mae angen cael gwared arno'n ddiogel.

Yn 2025/26, comisiynwyd 139 o fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth offer miniog, gan ddarparu mynediad cyfleus at y gwasanaeth diogelu iechyd pwysig hwn.

5.1.16 Mynediad at y gwasanaeth ar gyfer rhoi'r gorau i ysmygu lefel 2

Mae'r gwasanaeth rhoi'r gorau i ysmygu lefel 2 yn cysylltu fferyllfeydd â'r gwasanaeth cymorth ymddygiadol dwys a ddarperir gan Helpa Fi i Stopio. O dan y drefn hon, mae fferyllydd ar gontract yn darparu therapi disodli nicotin i ysmygwyr sy'n derbyn cymorth ymddygiadol i roi'r gorau i ysmygu gan Helpa Fi i Stopio, a hynny yn dilyn derbyn llythyr atgyfeirio neu gerdyn apwyntiad sy'n nodi dibyniaeth y cleient ar nicotin. Mae'r gwasanaeth Helpa Fi i Stopio yn darparu rhaglen gymorth dros chwe wythnos, ac yn ystod y cyfnod hwn bydd llythyr atgyfeirio'n cael ei roi ar gyfer pob cyflenwad o therapi disodli nicotin gan y fferyllfa. Ar ôl cwblhau'r rhaglen yn llwyddiannus, bydd Helpa Fi i Stopio yn anfon llythyr rhyddhau a fydd yn atgyfeirio'r claf at fferyllfa er mwyn i'r claf gael cyflenwad arall o therapi disodli nicotin bob pythefnos am chwe wythnos.

Comisiynwyd 140 o gontractwyr i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

5.1.17 Mynediad at y gwasanaeth cymryd meddyginiaeth dan oruchwyliaeth

O dan y gwasanaeth hwn, yn ogystal â chyflenwi'r feddyginiaeth, mae'r fferyllydd yn gwylio'r cleient yn cymryd y feddyginiaeth i wneud yn siŵr ei fod yn cymryd y dos llawn, gan leihau'r risg o ddargyfeirio a, thrwy'r cyswllt dyddiol/rheolaidd â gweithiwr gofal iechyd proffesiynol, gwella cyfraddau cadw yn y gwasanaeth. Fferyllfeydd sy'n cyflenwi therapi amnewid trwy'r geg ac, yn enwedig y rhai sy'n goruchwylio, sy'n cysylltu amlaf â phobl sy'n cael triniaeth am eu dibyniaeth ar opioidau, ac mae hyn yn gyfle i wella iechyd ehangach defnyddiwr y gwasanaeth

Yn 2025/26, comisiynwyd 128 o fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

5.1.18 Mynediad at y rhaglenni nodwyddau a chwistrellau

Mae rhaglenni nodwyddau a chwistrellau yn rhoi cyfarpar chwistrellu glân, wedi'i ddiheintio, a phriodol i bobl sy'n chwistrellu cyffuriau, ac maent yn derbyn cyfarpar sydd wedi'i ddefnyddio er mwyn ei waredu'n ddiogel. Mae hwn yn wasanaeth pwysig i leihau niwed am ei fod yn osgoi'r angen i rannu cyfarpar chwistrellu sy'n gysylltiedig â lledaenu'r feirws imiwnoddiffygiant dynol a hepatitis, ac mae hefyd yn lleihau'r risg o anaf sy'n gysylltiedig â chwistrellu wrth ddefnyddio hen gyfarpar neu gyfarpar amhriodol. Mae'r risgiau hyn yn bresennol ar draws pob grŵp o bobl sy'n chwistrellu cyffuriau, gan gynnwys opioidau, symbylwyr a chyffuriau gwella perfformiad a delwedd fel steroidau anabolig androgenig

Yn 2025/26, comisiynwyd 56 o fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

5.1.19 Mynediad at y gwasanaeth meddyginiaethau brys

Mae'r gwasanaeth cyflenwi meddyginiaethau brys yn cefnogi mynediad amserol "o fewn oriau" at feddyginiaethau na fyddai o bosibl ar gael ar unwaith fel arfer, mewn niferoedd digonol, mewn fferyllfa. Comisiynir fferyllfeydd i gadw lefelau sylfaenol o feddyginiaethau a bennir ar restr y cytunwyd arni ac i wneud cyflenwadau brys yn unol â Rheoliadau Meddyginiaethau Dynol 2012 lle mae angen brys, ym marn y fferyllydd, ac nad yw'n ymarferol cael presgripsiwn heb oedi gormodol.

Yn 2025/26, comisiynwyd deg fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

5.1.20 Y gwasanaeth gweinyddu a ddarperir gan rai meddygfeydd

Bydd meddygfeydd fferyllol yn darparu'r gwasanaeth gweinyddu yn ystod eu horiau craidd, sef rhwng 8.00 a 18.30 o ddydd Llun i ddydd Gwener ac eithrio gwyliau cyhoeddus a gwyliau banc. Gellir darparu'r gwasanaeth hefyd yn ystod unrhyw oriau agor estynedig yn y meddygfeydd. O blith y 96 o feddygfeydd yn ardal y bwrdd iechyd, mae 34 yn gweinyddu presgripsiynau i gleifion cymwys o 42 safle.

Fel arfer, pan fydd angen meddyginiaeth ar glaf, bydd ei feddyg teulu yn rhoi presgripsiwn iddo, a bydd y presgripsiwn hwnnw'n cael ei weinyddu gan fferyllfa neu gontractwr offer dosbarthu.
Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau, gall meddygfeydd weinyddu'r feddyginiaeth ar y safle. Mae'r rheoliadau ynghylch darparu'r gwasanaeth hwn yn gymhleth, ond i grynhoi, gall meddyg teulu weinyddu meddyginiaeth i glaf dan yr amgylchiadau canlynol:

- os yw'r claf yn byw mewn ardal y penderfynwyd ei bod yn "ardal reoledig" h.y. ardal wledig ei natur,
- os yw'r claf yn byw mwy na 1.6km (wedi'i fesur mewn llinell syth) o fferyllfa,
- os yw'r feddygfa wedi cael cydsyniad i weinyddu i'r ardal y mae'r claf yn byw ynddi, ac
- os oes gan y feddygfa "gymeradwyaeth safle" ar gyfer y safle lle mae'r gwaith gweinyddu'n digwydd.

Ym mis Tachwedd 2025, roedd y meddygfeydd wedi gweinyddu presgripsiynau i 90,372 o'u cleifion cofrestredig (41.8% o'r cyfanswm ar restr cleifion pob un o'r meddygfeydd fferyllol). Roedd y ganran o gleifion a oedd yn derbyn presgripsiynau gan y feddygfa yn amrywio rhwng 7.0 a 96.0% o'r cleifion cofrestredig.

Ar gyfer y rhai a ymatebodd i'r holiadur ymgysylltu â'r cyhoedd ac sy'n cael eu presgripsiynau gan eu meddygfa:

- nid yw 70% yn ffafrio unrhyw amser penodol i ddefnyddio'r fferyllfa, dywedodd 20% eu bod yn ffafrio rhwng 14.30 a 18.30, a dywedodd 10% eu bod yn ffafrio rhwng 12.00 a 14.30.
- nid yw 40% yn ffafrio unrhyw ddiwrnod penodol i ddefnyddio'r fferyllfa, dywedodd 20% eu bod yn ffafrio mynd yn ystod yr wythnos yn gyffredinol, dywedodd 20% eu bod yn ffafrio dydd Iau, a dywedodd 10% eu bod yn ffafrio dydd Mercher.
- Dywedodd pawb eu bod yn gyrru i'w meddygfa.
- Dywedodd 20% ei fod yn cymryd llai na phum munud iddynt yrru i'w meddygfa, dywedodd 50% ei fod yn cymryd rhwng 5 a 15 munud, dywedodd 10% ei fod yn cymryd mwy na 15 munud ond llai nag 20 munud, a dywedodd 20% ei fod yn cymryd mwy nag 20 munud.

5.1.21 Mynediad at wasanaethau fferyllol ar wyliau cyhoeddus a gwyliau banc

Mae gan y bwrdd iechyd ddyletswydd i sicrhau bod preswylwyr yn ei ardal yn gallu defnyddio gwasanaethau fferyllol bob dydd. Nid oes yn rhaid i fferyllfeydd a chontractwyr offer dosbarthu agor ar wyliau cyhoeddus a gwyliau banc, neu ar Sul y Pasg, er bod rhai yn dewis gwneud hynny. Cyn y diwrnodau hyn, mae'r bwrdd iechyd yn gofyn i fferyllfeydd gadarnhau a fyddant yn agor ai peidio. Yna mae'r wybodaeth yn cael ei chasglu ac os oes unrhyw fylchau o ran darpariaeth, mae fferyllfeydd yn cael eu comisiynu i agor.

5.2 Y ddarpariaeth bresennol y tu allan i ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

5.2.1 Mynediad at wasanaethau hanfodol a gwasanaethau sy'n cyfateb i gontractwyr dosbarthu offer

Mae cleifion yn cael dewis ble maent yn defnyddio gwasanaethau fferyllol; gall hyn fod yn agos at eu meddygfa, eu cartref, eu gweithle neu lle maent yn mynd i siopa, ymgymryd â gweithgareddau hamdden, neu resymau eraill. O ganlyniad, nid yw'r holl bresgripsiynau a ysgrifennir i breswylwyr ardal y bwrdd iechyd yn cael eu gweinyddu yn yr un ardal, er bod hyn yn wir yn achos y rhan fwyaf ohonynt, fel y nodwyd yn yr adran flaenorol. Yn 2024/25, gweinyddwyd 1.7% o'r eitemau a gafodd eu rhagnodi gan feddygfeydd y tu allan i ardal y bwrdd iechyd yn Lloegr (1.4%) ac ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (0.9%, a chafodd 99.4% o'r rheiny eu gweinyddu gan y pedwar contractwr dosbarthu offer).

Yn ystod naw mis cyntaf 2025/26, cafodd 1.6% o bresgripsiynau eu gweinyddu y tu allan i ardal y bwrdd iechyd, a hynny'n bennaf yn Lloegr eto (1.4%) ac ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (0.2%, a chafodd 99.6% o'r rheiny eu gweinyddu gan y pedwar contractwr dosbarthu offer).

5.2.2 Mynediad at wasanaethau fferyllfa gymunedol genedlaethol a chontractwyr offer dosbarthu

Nid oes gwybodaeth ar gael ynglŷn â'r math o wasanaethau fferyllfa gymunedol genedlaethol a chontractwyr offer dosbarthu a ddarperir gan fferyllfeydd y tu allan i ardal y bwrdd iechyd i'w breswylwyr. Wrth wneud cais am y gwasanaethau hyn, dim ond y cyfanswm a ddarperir ar gyfer pob gwasanaeth y mae contractwyr yn gwneud cais amdano. Yr eithriad i hyn yw'r gwasanaeth addasu cyfarpar stoma, lle gwneir taliad yn seiliedig ar y wybodaeth a geir ar y presgripsiwn. Fodd bynnag, hyd yn oed yn achos y gwasanaeth hwn, dim ond cyfanswm nifer yr eitemau perthnasol o ran cyfarpar a nodir at ddibenion talu.

Gellir cymryd, fodd bynnag, y bydd preswylwyr ardal y bwrdd iechyd yn defnyddio'r gwasanaethau hyn gan gontractwyr y tu allan i'r ardal.

5.2.3 Mynediad at wasanaethau clinigol ychwanegol

Yn yr un modd â gwasanaethau fferyllfa gymunedol genedlaethol a chontractwyr offer dosbarthu, nid oes gwybodaeth ar gael ynglŷn â darparu gwasanaethau clinigol

ychwanegol gan fferyllfeydd y tu allan i ardal y bwrdd iechyd i'w breswylwyr. Gellir cymryd, fodd bynnag, y bydd preswylwyr ardal y bwrdd iechyd yn defnyddio'r gwasanaethau hyn gan gontractwyr y tu allan i'r ardal.

5.2.4 Y gwasanaeth gweinyddu a ddarperir gan rai meddygfeydd

Bydd rhai o breswylwyr ardal y bwrdd iechyd yn dewis cofrestru â meddygfa y tu allan i'r ardal, a byddant yn defnyddio'r gwasanaeth gweinyddu a gynigir gan eu meddygfa.

5.3 Dewis o ran cael gwasanaethau fferyllol

Fel y gwelir yn adrannau 5.1 a 5.2, mae preswylwyr ardal y bwrdd iechyd ar hyn o bryd yn manteisio ar eu dewis o ran ble i ddefnyddio gwasanaethau fferyllol, a hynny i raddau helaeth. Yn ardal y bwrdd iechyd, mae ganddynt ddewis o blith 143 o fferyllfeydd, sy'n cael eu rhedeg gan 44 o gontractwyr unigol. Y tu allan i ardal y bwrdd iechyd, dewisodd preswylwyr ddefnyddio 209 o fferyllfeydd eraill yng Nghymru yn 2024/25, er nad yw llawer o'r rhain yn cael eu defnyddio'n rheolaidd. Yn ystod naw mis cyntaf 2025/26, dewisodd preswylwyr ddefnyddio 193 o fferyllfeydd mewn rhannau eraill o Gymru. Ar ben hynny, gweinyddodd contractwyr yn Lloegr bresgripsiynau a ysgrifennwyd gan feddygfeydd yn ystod y ddwy flwyddyn.

Pan ofynnwyd beth sy'n dylanwadu ar eu dewis o ran fferyllfa, y pedwar ymateb mwyaf cyffredin yn yr holiadur ymgysylltu â'r cyhoedd oedd:

- Agos at adref,
- Agos at feddygfa,
- Mae'n hawdd cyrraedd y lleoliad, ac
- Mae man preifat ar gael os oes angen siarad â'r fferyllydd.

6 Gwasanaethau eraill y GIG

Mae'r bennod hon yn disgrifio gwasanaethau'r GIG sydd, ym marn y bwrdd iechyd, yn effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol yn ei ardal.

6.1 Fferyllfeydd neu adrannau mewn ysbytai

Mae gan yr ysbytai canlynol yng Ngogledd Cymru fferyllfeydd sy'n gweinyddu meddyginiaeth i gleifion mewnol:

- Ysbyty Gwynedd, Bangor,
- Ysbyty Glan Clwyd, Bodelwyddan,
- Ysbyty Maelor Wrecsam, ac
- Ysbyty Cyffredinol Llandudno.

Caiff presgripsiynau a roddir i gleifion allanol eu gweinyddu gan yr ysbyty neu o dan wasanaethau fferyllol gan fferyllfeydd.

Hefyd, mae 16 o ysbytai cymunedol ac mae'r presgripsiynau a ysgrifennir ynddynt yn cael eu gweinyddu o dan wasanaethau fferyllol gan fferyllfeydd.

Felly, mae'r ysbytai'n lleihau (drwy ddosbarthu meddyginiaethau cleifion mewnol) ac yn cynyddu (drwy roi presgripsiynau i'w gweinyddu gan fferyllfeydd) y galw am wasanaethau fferyllol.

6.2 Darparu cyffuriau, meddyginiaethau ac offer i roi triniaeth ar unwaith neu i'w roi'n bersonol gan feddygon teulu

O dan eu contract gwasanaethau meddygol sylfaenol gyda'r bwrdd iechyd, bydd achlysuron pan fydd meddyg teulu neu weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall yn y practis yn:

- gorfod darparu cyffur, meddyginiaeth neu offer i glaf pan fydd darpariaeth o'r fath yn angenrheidiol er mwyn trin y claf ar unwaith cyn y gellir sicrhau'r ddarpariaeth fel arall, neu
- gall ddarparu cyffur, meddyginiaeth neu offer i glaf a bydd y meddyg teulu neu'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yn ei roi i'r claf.

Yn gyffredinol, pan fydd angen meddyginiaeth neu offer ar glaf, bydd ei feddyg teulu yn rhoi presgripsiwn iddo, a bydd y presgripsiwn hwnnw'n cael ei weinyddu gan y fferyllfa a ffefrir ganddo neu gontractwr offer dosbarthu. Weithiau, fodd bynnag, bydd y meddyg teulu neu'r nyrs practis yn cyflenwi'r eitem ar bresgripsiwn, a'r enw ar hyn yw gweinyddu personol gan fod yr eitem a gyflenwir yn cael ei rhoi i'r claf gan y meddyg teulu neu'r nyrs. Mae hyn yn wahanol i weinyddu presgripsiynau a dim ond i eitemau penodol y mae hyn yn berthnasol, er enghraifft brechlynnau, anaesthetig, pigiadau, dyfeisiau atal cenhedlu yn y groth, a phwythau.

Ar gyfer yr eitemau hyn, bydd y feddygfa'n paratoi presgripsiwn; serch hynny, ni fydd yn rhaid i'r claf fynd ag ef i fferyllfa i'w weinyddu ac yna dychwelyd i'r feddygfa er

mwyn i'r feddyginiaeth gael ei roi iddo. Yn hytrach, bydd y feddygfa'n cadw'r presgripsiwn ac yn ei anfon i Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ar ddiwedd y mis i gael ad-daliad.

Ar wahân i wneud hynny, gall practis meddyg teulu ddarparu cyffur, meddyginiaeth neu offer i drin claf ar unwaith am nad yw'r claf yn gallu cael gafael ar yr eitem o fferyllfa o fewn yr amserlen ofynnol. Mae'r bwrdd iechyd wedi datblygu polisi sy'n sail i'r ddarpariaeth hon yn y contractau gwasanaethau meddygol sylfaenol, ac mae'n monitro cydymffurfiaeth ag ef.

Nid oes modd canfod cyfanswm yr eitemau a gafodd eu rhoi'n bersonol neu a gafodd eu darparu ar gyfer triniaeth ar unwaith gan feddygfeydd teulu yng Nghymru gan fod y ffigurau cyhoeddedig yn cynnwys eitemau sydd naill ai wedi cael eu rhoi'n bersonol, eu darparu ar gyfer triniaeth ar unwaith, neu eu gweinyddu gan feddygfeydd fferyllol. Fodd bynnag, yn 2024/25 cafodd o leiaf 170,665 o eitemau eu rhoi'n bersonol neu eu darparu ar gyfer triniaeth ar unwaith gan feddygfeydd nad ydynt hefyd yn gweinyddu presgripsiynau. Yn ystod naw mis cyntaf 2025/26, cafodd o leiaf 43,654 o eitemau eu rhoi'n bersonol.

Felly, mae'r gwasanaeth hwn yn lleihau'r galw am y gwasanaeth gweinyddu presgripsiynau hanfodol oherwydd bydd rhai eitemau'n cael eu rhoi'n bersonol neu eu darparu i'r claf ar gyfer triniaeth ar unwaith.

6.3 Gwasanaeth meddygon teulu y tu allan i oriau

Mae gwasanaeth Meddygon Teulu y Tu Allan i Oriau Gogledd Cymru yn darparu gofal iechyd ar gyfer problemau meddygol brys y tu allan i oriau arferol meddygfeydd (h.y. rhwng 18.30 a 08.00 dydd Llun i ddydd Gwener a 18.30 dydd Gwener i 08.00 dydd Llun, ac ar wyliau cyhoeddus a gwyliau banc).
Mae'r gwasanaeth 111 cenedlaethol yn delio â phob galwad i'r gwasanaeth. Mae'r rhai sydd angen asesiad clinigol pellach yn cael eu hanfon at y gwasanaeth gyda blaenoriaeth glinigol 111. Bydd y rhai sy'n ffonio yn cael galwad yn ôl gan ymarferydd nyrsio, meddyg neu fferyllydd yn ystod y cyfnod y tu allan i oriau.

Mae'r gwasanaeth yn gweithredu o'r lleoliadau canlynol:

- Ysbyty Gymunedol Glannau Dyfrdwy,
- Ysbyty Maelor Wrecsam,
- Ysbyty Glan Clwyd,
- Ysbyty Gwynedd, ac
- Ysbyty Alltwen.

Cafodd 46,424 o eitemau eu rhagnodi gan y gwasanaeth yn 2024/25. Roedd 99.2% o'r rhain wedi cael eu gweinyddu gan fferyllfeydd yng Ngogledd Cymru, 0.7% gan gontractwyr yn Lloegr, a'r 0.1% a oedd yn weddill mewn mannau eraill yng Nghymru, yn bennaf gan fferyllfeydd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Rhagnodwyd 28,441 o eitemau yn ystod naw mis cyntaf 2025/26. Gweinyddwyd 99.3% ohonynt gan fferyllfeydd yng Ngogledd Cymru, 0.6% yn Lloegr, gyda'r gweddill wedi cael eu gweinyddu mewn mannau eraill yng Nghymru.

Mae'r gwasanaeth hwn yn cynyddu'r angen am wasanaethau fferyllol, yn enwedig y gwasanaeth gweinyddu hanfodol.

6.4 Unedau mân anafiadau

Mae unedau mân anafiadau yn cael eu staffio gan ymarferwyr brys profiadol sy'n cael eu cefnogi gan gynorthwywyr gofal iechyd; nid oes meddygon yn yr unedau. Bydd cleifion sy'n mynd i un o'r unedau'n cael eu hasesu a'u trin cyn gynted ag y bo modd. Os nad oes modd delio â'i gyflwr yn yr uned mân anafiadau, bydd y claf yn cael ei atgyfeirio at ei feddyg teulu, yr adran achosion brys agosaf, neu at wasanaeth priodol arall.

Dyma rai anafiadau sy'n cael eu trin:

- Mân anafiadau oedolion
- Mân anafiadau plant
- Brathiadau gan bobl/anifeiliaid
- Mân losgiadau
- Mân anafiadau i'r pen/rhwygiad ar groen y pen
- Pethau dieithr yn y glust/trwyn
- Anafiadau i'r goes neu'r fraich
- Mân anafiadau i'r llygaid, a
- Brathiadau gan bryfed.

Mae naw uned mân anafiadau ledled Gogledd Cymru:

- Ysbyty Penrhos Stanley, Caergybi
- Ysbyty Dolgellau
- Ysbyty Bryn Beryl, Pwllheli
- Ysbyty Alltwen, Tremadog
- Ysbyty Tywyn
- Ysbyty Llandudno
- Ysbyty Dinbych
- Ysbyty Treffynnon, ac
- Ysbyty Cymuned yr Wyddgrug.

Nid yw'r unedau mân anafiadau yn rhoi presgripsiynau ond gallant leihau'r angen am gymorth y gwasanaeth hanfodol hunanofal ac elfen gwasanaeth anhwylderau cyffredin y gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol.

6.5 Canolfannau gofal sylfaenol brys

Gall cleifion gael eu hatgyfeirio at ganolfan gofal sylfaenol brys gan eu meddygfa. Mae canolfannau gofal sylfaenol brys yn trin cleifion sydd ag anghenion gofal sylfaenol brys ar yr un diwrnod, gan greu capasiti i gefnogi meddygfeydd meddygon teulu a lleihau presenoldeb diangen yn yr adran achosion brys.

Mae tîm sy'n cynnwys uwch-ymarferwyr nyrsio, meddygon teulu a ffisiotherapyddion yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu gofal i bobl sydd wedi gofyn am ofal gan eu meddyg teulu neu un o'r adrannau brys.

Bydd cleifion sy'n cael eu cyfeirio at y gwasanaeth yn cael ymgynghoriad dros y ffôn â chlinigydd y ganolfan. Os yw'n briodol, efallai y bydd cleifion yn cael eu gwahodd i apwyntiad wyneb yn wyneb yn un o'r canolfannau.

Mae'r cyflyrau a welir yn y canolfannau gofal sylfaenol brys yn cynnwys y canlynol:

- poen yn yr abdomen*
- llid acíwt y sinysau
- rhwymedd
- poen yn y glust/rhywbeth dieithr yn y glust
- dulliau atal cenhedlu brys*
- brathiadau/ pigiadau gan bryfed
- poen acíwt newydd yn yr aelodau/cymalau/cefn*
- clwyf heintiedig ar ôl llawdriniaeth
- brech/heintiau ar y croen/llid yr isgroen*
- heintiau'r llwybr anadlol
- yr eryr
- anaf i'r feinwe feddal*
- tonsilitis/dolur gwddf
- heintiau'r llwybr wrinol*

* Nid yw rhai eithriadau'n cael eu cynnwys.

Mae pum canolfan gofal sylfaenol brys yng Ngogledd Cymru.

- Ysbyty Gwynedd, LL57 2PW
- Ysbyty Penrhos Stanley, LL65 2QA
- Ysbyty Alltwen, LL49 9AQ
- Uned Mân Anafiadau Ysbyty Cymuned yr Wyddgrug, CH7 1XG
- Adran Cleifion Allanol Ysbyty Maelor Wrecsam, LL13 7TD

Yn 2024/25 roedd y canolfannau gofal sylfaenol brys wedi rhoi presgripsiynau ar gyfer 649 o eitemau. Gweinyddwyd 94.5% ohonynt gan fferyllfa yng Ngogledd Cymru, a chafodd y gweddill eu gweinyddu gan gontractwyr yn Lloegr.

Rhagnodwyd 466 o eitemau yn ystod naw mis cyntaf 2025/26. Gweinyddwyd 77.3% ohonynt gan fferyllfa yng Ngogledd Cymru, a chafodd y gweddill eu gweinyddu gan gontractwyr yn Lloegr.

Felly, mae'r canolfannau hyn yn cynyddu'r galw am y gwasanaeth gweinyddu presgripsiynau hanfodol a gallant leihau'r galw am wasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol.

6.6 Rhagnodi gan ddeintyddion ac optometryddion

Yn wahanol i feddygfeydd meddygon teulu, nid yw'r presgripsiynau a ysgrifennir gan

ddeintyddion wedi'u halinio â phractis y deintydd. Felly, nid oed modd nodi sawl eitem a ragnodwyd gan bractisau deintyddol yng Ngogledd Cymru. Fodd bynnag, mae'n bosibl nodi nifer y presgripsiynau deintyddol a weinyddwyd gan fferyllfeydd yng Ngogledd Cymru.

Yn 2024/25, cafodd cyfanswm o 28,647 o eitemau eu gweinyddu gan fferyllfeydd a chafodd 20,394 o eitemau eu gweinyddu yn ystod naw mis cyntaf 2025/26.

Mae'r sefyllfa'r un fath ar gyfer presgripsiynau a ysgrifennwyd gan optometryddion. Yn 2024/25, gweinyddwyd cyfanswm o 3,293 o eitemau gan fferyllfeydd, ac yn ystod naw mis cyntaf 2025/26 gweinyddwyd 3,636 o eitemau.

Ar gyfer y ddau wasanaeth, gweinyddwyd y nifer fwyaf o bresgripsiynau yn Wrecsam, a'r isaf yng Nghonwy.

Felly, mae'r gwasanaethau hyn yn cynyddu'r galw am y gwasanaeth gweinyddu presgripsiynau hanfodol.

6.7 CEF Berwyn

Mae'r fferyllfa ar y safle yn gweinyddu meddyginiaethau ar gyfer y bobl sydd yn y carchar. Felly, mae'r gwasanaeth hwn yn lleihau'r angen am wasanaethau fferyllol gan ei fod yn golygu nad yw presgripsiynau'n cael eu gweinyddu gan fferyllfeydd mewn gofal sylfaenol.

6.8 Gwasanaeth camddefnyddio sylweddau

Mae'r gwasanaeth camddefnyddio sylweddau yn darparu cymorth cyfrinachol, anfeirniadol, proffesiynol a hygyrch sy'n ceisio lleihau'r niwed y mae cyffuriau ac alcohol yn ei achosi i unigolion, teuluoedd a'r gymuned leol. Mae chwe chlinig cymunedol yn gweithredu ledled Gogledd Cymru, un ym mhob ardal awdurdod unedol.

Yn 2024/25, cafodd 9,974 o eitemau eu rhagnodi gan y gwasanaeth. Roedd 99.5% o'r rhain wedi cael eu gweinyddu gan fferyllfeydd yng Ngogledd Cymru gyda 0.2% gan gontractwyr yn Lloegr, a 0.1% yr un ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys. Cafodd 8,056 o eitemau eu rhagnodi yn ystod naw mis cyntaf 2025/26. Roedd 99.5% o'r rhain wedi cael eu gweinyddu gan fferyllfeydd yng Ngogledd Cymru, 0.2% gan fferyllfeydd ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys, a 0.1% gan gontractwyr yn Lloegr neu fferyllfeydd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

Mae gwasanaeth 'clicio a danfon' yn darparu mynediad at naloxone i unrhyw un sy'n byw yng Ngogledd Cymru ac sy'n defnyddio opioidau fel heroin, methadon neu bwprenorffin neu boenladdwyr opioid fel tramadol, ocsicodon, codîn ac ati y tu allan i bresgripsiwn. Mae hefyd ar gael i ffrindiau neu aelodau o deulu'r rhai sy'n defnyddio opioidau neu boenladdwyr opioid.

Mae'r gwasanaeth hwn yn cynyddu'r galw am y gwasanaeth gweinyddu presgripsiynau hanfodol gan fod y presgripsiynau sy'n cael eu hysgrifennu o dan y

gwasanaeth yn cael eu gweinyddu gan fferyllfeydd a'r gwasanaeth cymryd meddyginiaeth dan oruchwyliaeth. Fodd bynnag, mae'n lleihau'r galw am y gwasanaeth clinigol ychwanegol ar gyfer cyflenwi naloxone gan ei fod yn darparu gwasanaeth 'clicio a danfon'.

6.9 Helpa Fi i Stopio

Helpa Fi i Stopio yw brand cenedlaethol y GIG ar gyfer rhoi'r gorau i ysmygu yng Nghymru. Mae'n darparu cymorth am ddim sy'n seiliedig ar dystiolaeth er mwyn helpu unigolion i roi'r gorau i ysmygu am byth. Gellir darparu cymorth dros y ffôn, cymorth un-i-un, sesiynau grŵp a/neu feddyginiaeth rhoi'r gorau i ysmygu.

Darperir gwasanaethau mewn nifer o leoliadau ar draws Gogledd Cymru, gan gynnwys meddygfeydd, ysbytai cymunedol, ysbytai cyffredinol dosbarth, a lleoliadau eraill fel llyfrgelloedd a chanolfannau teulu, yn ogystal â fferyllfeydd.

Bydd y gwasanaeth hwn a ddarperir mewn lleoliadau ar wahân i fferyllfeydd yn cynyddu'r angen am y gwasanaeth rhoi'r gorau i ysmygu lefel 2.

6.10 Gwasanaethau a ddarperir gan feddygon teulu o dan eu contract gwasanaethau meddygol cyffredinol

Mae meddygfeydd meddygon teulu yng Ngogledd Cymru yn darparu'r gwasanaethau canlynol sy'n lleihau'r angen am wasanaethau fferyllol:

- Darparu cyngor a rhoi presgripsiynau mewn perthynas â dulliau atal cenhedlu hormonaidd brys
- Y ffliw a brechiadau Covid-19
- Cyngor a thriniaeth ar gyfer anhwylderau cyffredin
- Gwaredu offer miniog, pecynnau meddyginiaethau rhag ofn, a phecynnau achub
- Adolygu mewnanadlyddion

Mae darparu gwasanaethau meddygol cyffredinol yn cynyddu'r angen am y gwasanaeth gweinyddu hanfodol gan fod presgripsiynau'n cael eu rhoi. Fodd bynnag, bydd hefyd yn lleihau'r angen i ddarparu rhai o'r gwasanaethau contractwyr cyfarpar a fferylliaeth gymunedol cenedlaethol a gwasanaethau clinigol ychwanegol.

6.11 Cynllun triniaeth amgen

Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu gwasanaethau meddygol sylfaenol i gleifion sydd wedi cael eu tynnu oddi ar restr cleifion eu meddygfa meddyg teulu.

Mae'r gwasanaeth hwn yn cynyddu'r galw am y gwasanaeth gweinyddu presgripsiynau hanfodol gan fod y presgripsiynau sy'n cael eu hysgrifennu o dan y gwasanaeth hwn yn cael eu gweinyddu o dan wasanaethau fferyllol.

6.12 Hosbisau

Mae pedair hosbis yng Ngogledd Cymru, ac mae un ohonynt yn rhoi presgripsiynau sydd wedyn yn cael eu gweinyddu gan fferyllfeydd.

Yn 2024/25, cafodd 195 o eitemau eu rhagnodi gan y gwasanaeth a'u gweinyddu fel a ganlyn:

- 57.9% gan fferyllfeydd yng Nghanolbarth Wrecsam,
- 13.3% yng Ngogledd a Gorllewin Wrecsam,
- 10.3% gan fferyllfeydd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe,
- 7.2% yn Ne Wrecsam,
- 6.2% yng Ngogledd-ddwyrain Sir y Fflint,
- 4.1% yn Ne Sir y Fflint,
- 0.5% yr un yng Nghanolbarth a De Sir Ddinbych, a Gogledd a Gorllewin Wrecsam.

Cafodd 72 o eitemau eu rhagnodi yn ystod naw mis cyntaf 2025/26, a'u gweinyddu fel a ganlyn:

- 81.9% gan fferyllfeydd yng Nghanolbarth Wrecsam,
- 5.6% yr un yng Ngogledd a Gorllewin Wrecsam a De Wrecsam,
- 4.2% yn Ne Sir y Fflint, a
- 1.4% yr un yng Ngogledd-ddwyrain Sir y Fflint a Lloegr.

Mae'r gwasanaeth hwn yn cynyddu'r galw am y gwasanaeth gweinyddu presgripsiynau hanfodol gan fod y presgripsiynau sy'n cael eu hysgrifennu o dan y gwasanaeth hwn yn cael eu gweinyddu o dan wasanaethau fferyllol.

6.13 Gwasanaethau iechyd rhywiol

Mae clinigau iechyd rhywiol yn gweithredu o amrywiaeth o leoliadau ysbyty a chymunedol ar draws Gogledd Cymru, ac maent yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau cyfrinachol yn rhad ac am ddim, gan gynnwys:

- profi ar gyfer heintiau sy'n cael eu trosglwyddo'n rhywiol,
- profi am feirws imiwnoddiffygiant dynol,
- dulliau atal cenhedlu gan gynnwys atal cenhedlu brys,
- condomau am ddim,
- profion beichiogrwydd,
- sgrinio am feirysau a gludir yn y gwaed (hepatitis B a C)
- brechiad ar gyfer hepatitis B a feirws papiloma dynol,
- proffylacsis cyn-gysylltiad a phroffylacsis ôl-gysylltiad, a hybu iechyd rhyw, a
- hybu iechyd rhyw.

Maent yn lleihau'r galw am elfen atal cenhedlu'r gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol a ddarperir gan y fferyllfeydd.

O dan y gwasanaeth hwn, mae fferyllfeydd yn darparu pecynnau ‘profi gartref’ ar gyfer Clamydia a Gonorea. Nid yw’r gwasanaeth hwn yn cael ei ddarparu fel rhan o wasanaethau fferyllol, ac mae’n lleihau’r angen am y gwasanaeth clinigol ychwanegol ar gyfer sgrinio am feirws a gludir yn y gwaed.

6.14 Gwasanaethau eraill a ddarperir yn y gymuned

Mae amrywiaeth o wasanaethau cymunedol eraill sy’n rhoi presgripsiynau sydd wedyn yn cael eu gweinyddu gan fferyllfeydd. Mae’r rhain yn cynnwys nyrsys cymunedol a deintyddiaeth gymunedol.

7 Anghenion iechyd y gellir eu diwallu gan wasanaethau fferyllol

Mae pob ymweliad â fferyllfa sy'n gysylltiedig ag iechyd yn gyfle gwerthfawr i gefnogi newid mewn ymddygiadau trwy wneud i bob un o'r cysylltiadau hyn gyfrif. Gall gwneud dewisiadau iach fel rhoi'r gorau i ysmygu, gwella deiet a maeth, cynyddu gweithgarwch corfforol, colli pwysau a lleihau faint o alcohol sy'n cael ei yfed wneud cyfraniad sylweddol at leihau'r risg o glefyd, gwella canlyniadau iechyd i'r rhai â chyflyrau hirdymor, lleihau marwolaethau cynamserol a gwella lles meddyliol. Mae fferyllfeydd mewn sefyllfa ddelfrydol i annog a chefnogi pobl i wneud dewisiadau iach fel rhan o'r ddarpariaeth o wasanaethau fferyllol. Mae dros 11,000 o ymgynghoriadau yn digwydd ar draws rhwydwaith y fferyllfeydd yng Nghymru bob dydd[131].

7.1 Angen am gyffuriau a chyfarpar

Bydd angen presgripsiynau ar bawb ar ryw adeg, p'un a ydynt yn un o'r grwpiau a nodwyd yn adran pedwar ai peidio, gan mai meddyginiaethau presgripsiwn yw un o'r ymyriadau mwyaf cyffredin mewn gofal iechyd. Gall hyn fod ar gyfer cwrs untro o wrthfiotigau neu ar gyfer meddyginiaeth y bydd angen ei chymryd, neu gyfarpar y bydd angen iddynt ei ddefnyddio, am weddill eu hoes er mwyn rheoli cyflwr hirdymor. Dim ond trwy ddarparu gwasanaethau fferyllol y gellir diwallu'r angen iechyd hwn ym maes gofal sylfaenol, boed hynny gan fferyllfeydd, contractwyr dosbarthu cyfarpar neu feddygon fferyllol.

Ynghyd â hyn mae casglu a gwaredu cyffuriau'n ddiogel boed y rheiny'n gyffuriau diangen neu rai sydd wedi mynd heibio eu dyddiad defnyddio. Mae gan y bwrdd iechyd a fferyllfeydd ddyletswydd i sicrhau y gall pobl sy'n byw gartref neu mewn cartref gofal preswyl (h.y. sefydliad sy'n bodoli'n gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer darparu llety preswyl ynghyd â bwyd a gofal personol, ond dim gofal nyrsio) ddychwelyd cyffuriau diangen neu sydd wedi mynd heibio eu dyddiad defnyddio i'w gwaredu'n ddiogel.

Dylid nodi nad yw gwasanaethau casglu a danfon yn wasanaethau cytundebol ac felly cânt eu darparu'n breifat gan fferyllfeydd yn ôl eu disgresiwn. Yr unig eithriad i hynny yw lle mae'r ddarpariaeth yn cael ei chomisiynu o dan wasanaeth fferyllfa gymunedol genedlaethol a chontractwr cyfarpar, neu wasanaeth clinigol ychwanegol.

Bydd y gwasanaeth adolygu meddyginiaethau wrth ryddhau yn rhoi cefnogaeth i gleifion sydd wedi eu rhyddhau rhwng lleoliadau gofal yn ddiweddar, drwy sicrhau bod newidiadau i feddyginiaethau cleifion a wneir mewn un lleoliad gofal (e.e. yn ystod cael eu cyfnod yn yr ysbyty) yn cael eu gweithredu yn y gymuned fel y bwriadwyd. Bydd hyn yn helpu i leihau'r risg o broblemau y gellir eu hatal sy'n gysylltiedig â meddyginiaethau ac yn cefnogi cleifion i gymryd y feddyginiaeth newydd a roddwyd.

Gall gwasanaeth sy'n cofnodi gweinyddu meddyginiaethau gynorthwyo darparwyr gofal cartref, gofalwyr, ffrindiau a theuluoedd i reoli a rhoi meddyginiaethau'n ddiogel

[131] Community Pharmacy Wales (2020) Pharmacy advice audit (full report) Richard Brown PhD, FRPharmS

i'r rhai y maent yn gofalu amdanynt, a thrwy hynny sicrhau'r budd mwyaf o feddyginiaethau a ragnodir.

Efallai y bydd achlysuron pan fo unigolyn yn rhedeg allan o'i feddyginiaeth reolaidd ac y bydd y fferyllydd yn credu nad yw'n ymarferol bosibl i'r unigolyn hwnnw gael y meddyginiaethau a ragnodwyd eisoes ac sydd eu hangen arno yn ddi-oed o fewn amserlen glinigol briodol trwy ddilyn y llwybr arferol. O dan y gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol, efallai y bydd unigolyn yn gallu cael mynediad at gyflenwad o'i feddyginiaethau sydd eu hangen ar frys.

Yn ogystal, gellid comisiynu gwasanaeth clinigol ychwanegol i sicrhau mynediad amserol “o fewn oriau” at feddyginiaethau na fyddent fel arall ar gael ar unwaith fel mater o drefn, mewn meintiau digonol, mewn fferyllfa. Yna gallai fferyllfeydd wneud cyflenwadau brys yn unol â Rheoliadau Meddyginiaethau Dynol 2012 lle, ym marn y fferyllydd, mae angen brys, ac nad yw'n ymarferol cael presgripsiwn heb oedi gormodol.

I'r rhai sydd â chyfarpar, bydd y gwasanaeth adolygu defnyddio cyfarpar yn helpu i wella eu gwybodaeth a'u defnydd ohono. Nod y gwasanaeth yw sicrhau bod pobl yn cael y budd mwyaf o ddefnyddio eu cyfarpar a bod eu profiad o'i ddefnyddio yn gwella.

I'r rhai sydd â chyfarpar stoma sydd angen ei addasu, bydd y gwasanaeth addasu cyfarpar stoma yn sicrhau bod y cyfarpar yn cael ei ddefnyddio'n gywir a'i ffitio'n gyfforddus ac yn gwella hyd ei ddefnydd, a thrwy hynny, yn lleihau gwastraff.

Mae mynediad at feddyginiaethau gofal lliniarol arbenigol yn hanfodol i gefnogi gofal diwedd oes a ddarperir yng nghartref unigolyn, fodd bynnag oherwydd natur arbenigol y meddyginiaethau efallai na fyddant bob amser ar gael mewn fferyllfa. Gall gwasanaeth clinigol ychwanegol sicrhau bod fferyllfeydd sy'n cymryd rhan yn stocio ystod gytunedig o feddyginiaethau arbenigol ac yn ymrwymo i sicrhau bod gan ddefnyddwyr fynediad prydlon at y meddyginiaethau hynny yn ystod oriau agor craidd ac atodol.

Bydd darparu therapi amnewid nicotin i bobl sy'n derbyn cymorth ymddygiadol trwy wasanaeth rhoi'r gorau i ysmygu yn helpu'r rhai sy'n dymuno rhoi'r gorau i ysmygu i gael gwell mynediad at y therapi hwn ac yn cyfrannu at wella cyfraddau llwyddiant.

Efallai y bydd achlysuron pan fydd rhywun yn rhedeg allan o'u meddyginiaethau rheolaidd, ac yn methu cael presgripsiwn ar gyfer cyflenwad pellach neu'n methu cael presgripsiwn cyn bod angen iddynt gymryd eu meddyginiaethau. Yn hytrach na'r unigolyn yn gorfod ffonio gwasanaeth y tu allan i oriau'r meddyg teulu neu fynd heb eu meddyginiaethau, gellid comisiynu gwasanaeth a fyddai'n caniatáu i fferyllfeydd ddarparu cyflenwad brys o feddyginiaeth bresgripsiwn reolaidd unigolion o dan y GIG, yn hytrach nag ar sail breifat o dan Reoliadau Meddyginiaethau Dynol 2012.

Bydd trin rhai cyflyrau yn ei gwneud yn ofynnol i bobl chwistrellu eu hunain ac o ganlyniad bydd ganddynt eitemau miniog y mae angen eu gwaredu'n ddiogel. Bydd gwasanaeth clinigol ychwanegol lle gall pobl ddychwelyd blychau eitemau miniog i

fferyllfa yn sicrhau gwaredu diogel ac yn lleihau'r risg y cânt eu gwaredu trwy wasanaethau casglu sbwriel cartref.

Mae pryderon wedi cael eu nodi ynghylch ymdrin â meddyginiaethau mewn cartrefi gofal. Gall gwasanaeth clinigol ychwanegol i gartrefi gofal gysylltu fferyllfeydd a chartrefi gofal er mwyn asesu eu gweithdrefnau o ran archebu, storio a rhoi meddyginiaethau, gyda'r bwriad o nodi meysydd i'w gwella. Gall adolygiadau o'r meddyginiaethau sy'n cael eu cymryd gan breswylwyr cartrefi gofal hefyd arwain at welliannau mewn rhagnodi.

7.2 Defnyddio sylweddau

Bydd darparu gwasanaeth clinigol ychwanegol ar gyfer defnyddio dan oruchwyliaeth fferyllwyr yn caniatáu:

- cynorthwyo clinigwyr sy'n rhagnodi i ragnodi yn y gymuned,
- sicrhau bod y claf yn cymryd y dosau cywir o feddyginiaeth fel y'i rhagnodir,
- atal meddyginiaethau ar bresgripsiwn rhag cael eu dargyfeirio i'r farchnad anghyfreithlon,
- lleihau'r posibilrwydd o wenwyno damweiniol, yn enwedig ymhlith plant, a
- lleihau achosion o farwolaethau damweiniol trwy orddos.

Bydd gwasanaeth clinigol ychwanegol i gyfnewid nodwyddau a chwistrellau yn cynorthwyo i leihau rhannu nodwyddau (ac offer) a all arwain at drosglwyddo feirysau a gludir yn y gwaed a heintiau eraill (megis feirws diffyg imiwnedd dynol, hepatitis B ac C). Yn ei dro, gallai hyn arwain at ostyngiad yn nifer yr achosion o feirysau a gludir yn y gwaed, a thrwy hynny fod o fudd i'r gymdeithas ehangach hefyd.

Gall gwasanaethau clinigol ychwanegol i ddarparu Naloxone o fferyllfeydd “i’w gymryd adref” helpu i wrthdroi effeithiau opioidau fel Heroin, Methadon neu Buprenorffin dros dro a thrwy hynny osgoi gorddos o ganlyniad i opioidau, ac achub bywydau.

Gall mynediad at wasanaeth profi feirysau a gludir yn y gwaed helpu i wella mynediad at sgrinio a thriniaeth gysylltiedig, a chyngor iechyd, a thrwy hynny, leihau'r risgiau iechyd personol a chyhoeddus sy'n gysylltiedig â haint gan Hepatitis B, Hepatitis C, a feirws diffyg imiwnedd dynol.

Mae elfennau o ddarparu gwasanaethau hanfodol a fydd yn helpu i fynd i'r afael â'r angen iechyd hwn hefyd.

- Mae'n ofynnol i fferyllfeydd gymryd rhan mewn hyd at bedwar ymgyrch iechyd cyhoeddus bob blwyddyn galendr trwy hyrwyddo negeseuon iechyd cyhoeddus i ddefnyddwyr. Dewisir y pynciau ar gyfer yr ymgyrchoedd hyn gan y bwrdd iechyd a gallent gynnwys camddefnyddio cyffuriau ac alcohol. Gallai ymgyrchoedd iechyd cyhoeddus gynnwys codi ymwybyddiaeth am risgiau yfed alcohol drwy drafod risgiau yfed alcohol dros y symiau a argymhellir, arddangos posteri a dosbarthu taflenni, cardiau crafu a deunyddiau perthnasol eraill.

- Lle nad yw'r fferyllfa'n darparu'r gwasanaethau clinigol ychwanegol o gyfnewid nodwyddau a chwistrelli a rhoi meddyginiaethau camddefnyddio sylweddau dan oruchwyliaeth, gall gyfeirio pobl sy'n defnyddio'r fferyllfa at ddarparwyr eraill y gwasanaethau.
- Cyfeirio pobl sydd o bosibl yn ddibynnol ar alcohol at ddarparwyr triniaeth alcohol arbenigol lleol.
- Rhoi cyngor yn ystod ymgynghoriadau ar fyw'n iach ac ymgysylltu â phobl sy'n dod i'r fferyllfa.

7.3 Canser

Yn ogystal â rhoi presgripsiynau, gall fferyllfeydd fel rhan o'r gwasanaethau hanfodol y maen nhw'n eu darparu, gyfrannu at ddatrys llawer o'r problemau iechyd cyhoeddus sy'n ymwneud â gofal canser.

- Gwaredu cyffuriau diangen, gan gynnwys cyffuriau rheoledig.
- Mae'n ofynnol i fferyllfeydd gymryd rhan mewn hyd at bedwar ymgyrch iechyd cyhoeddus bob blwyddyn galendr trwy hyrwyddo negeseuon iechyd cyhoeddus i ddefnyddwyr. Dewisir y pynciau ar gyfer yr ymgyrchoedd hyn gan y bwrdd iechyd a gallent gynnwys ymwybyddiaeth o ganser a/neu sgrinio.
- Rhoi cyngor priodol i bobl sy'n defnyddio'r fferyllfa ac sy'n ysmygu neu dros bwysau gyda'r nod o gynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth yr unigolion hynny o'r materion iechyd sy'n berthnasol i'w hamgylchiadau personol.
- Cyfeirio pobl sy'n defnyddio'r fferyllfa at ddarparwyr gwasanaethau neu gymorth eraill.

Bydd cefnogaeth i bobl sy'n dymuno rhoi'r gorau i ysmygu, boed hynny o dan wasanaethau lefel 2 neu lefel 3, hefyd yn helpu i leihau nifer yr achosion o rai mathau o ganser.

7.4 Cyflyrau hirdymor eraill

Yn ogystal â rhoi presgripsiynau, gall fferyllfeydd fel rhan o'r gwasanaethau hanfodol y maen nhw'n eu darparu, gyfrannu at ddatrys llawer o'r problemau iechyd cyhoeddus sy'n ymwneud â chyflyrau hirdymor.

- Pan fo unigolyn yn cyflwyno presgripsiwn a'i bod yn ymddangos i'r fferyllydd ei fod yn dioddef o broblem iechyd niweidiol neu ei fod mewn perygl o ddatblygu problem iechyd niweidiol, rhaid i'r fferyllydd roi cyngor i'r unigolyn hwnnw gyda'r nod o gynyddu ei wybodaeth a'i ddealltwriaeth o'r materion iechyd sy'n berthnasol i'w amgylchiadau personol.
- Mae'n ofynnol i fferyllfeydd gymryd rhan mewn hyd at bedwar ymgyrch iechyd cyhoeddus bob blwyddyn galendr trwy hyrwyddo negeseuon iechyd cyhoeddus i ddefnyddwyr. Dewisir y pynciau ar gyfer yr ymgyrchoedd hyn gan y bwrdd iechyd a gallent gynnwys cyflyrau hirdymor.
- Cyfeirio pobl sy'n defnyddio'r fferyllfa at ddarparwyr gwasanaethau neu gymorth eraill.
- Rhoi cyngor gan gynnwys cyngor ar opsiynau triniaeth a newidiadau i'w ffordd o fyw pan fo'n ymddangos i staff fferyllfa y byddai unigolyn yn elwa o gyngor

i'w helpu i reoli cyflwr meddygol. Gallai hyn gynnwys rhoi cyngor i ofalwr i'w helpu i reoli cyflwr meddygol unigolyn arall.
- Rhoi cyngor yn ystod ymgynghoriadau ar fyw'n iach ac ymgysylltu â phobl sy'n dod i'r fferyllfa.

Bydd darparu adolygiadau defnyddio cyfarpar, addasu offer stoma, adolygiadau meddyginiaethau wrth ryddhau, brechiadau rhag y ffliw a Covid, dychwelyd a chyflenwi biniau offer miniog, darparu profion llif unffordd i'r rhai sy'n gymwys oherwydd cyflwr iechyd, a'r cyflenwad brys o wasanaethau meddyginiaethau hefyd yn cynorthwyo pobl i reoli eu cyflyrau hirdymor er mwyn gwneud y gorau o'u hansawdd bywyd.

Bydd cefnogaeth i bobl sy'n dymuno rhoi'r gorau i ysmygu, boed hynny o dan wasanaethau lefel 2 neu lefel 3, hefyd yn helpu i leihau nifer yr achosion o glefydau cylchrediad y gwaed a chlefydau cardiofasgwlaidd.

Mae rheoliadau'n caniatáu i fferyllwyr ragnodi'n annibynnol ar gyfer unrhyw gyflwr o fewn eu cymhwysedd clinigol. Felly maent yn caniatáu i fferyllwyr gynorthwyo i ddarparu gofal brys a gofal heb ei drefnu, a thrwy hynny helpu i leihau'r galw am wasanaethau eraill. Mae gwasanaethau rhagnodi annibynnol gan amlaf yn cwmpasu anhwylderau anadlol (er enghraifft clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint ac asthma sy'n gwaethygu), heintiau bacteriol a ffwngaidd y croen, a heintiau'r llwybr wrinol a amheuir.

7.5 Gordewdra

Bydd pedair elfen o'r gwasanaethau hanfodol yn mynd i'r afael â'r angen iechyd hwn.

- Mae'n ofynnol i fferyllfeydd gymryd rhan mewn hyd at bedwar ymgyrch iechyd cyhoeddus bob blwyddyn galendr trwy hyrwyddo negeseuon iechyd cyhoeddus i ddefnyddwyr. Dewisir y pynciau ar gyfer yr ymgyrchoedd hyn gan y bwrdd iechyd a gallent gynnwys gordewdra.
- Cyfeirio pobl sy'n defnyddio'r fferyllfa at ddarparwyr gwasanaethau neu gymorth arall ar gyfer rheoli pwysau.
- Rhoi cyngor gan gynnwys cyngor ar opsiynau triniaeth a newidiadau i'w ffordd o fyw pan fo'n ymddangos i staff fferyllfa y byddai unigolyn yn elwa o gyngor i'w helpu i reoli cyflwr meddygol. Gallai hyn gynnwys rhoi cyngor i ofalwr i'w helpu i reoli cyflwr meddygol unigolyn arall.
- Rhoi cyngor yn ystod ymgynghoriadau ar fyw'n iach ac ymgysylltu â phobl sy'n dod i'r fferyllfa.

7.6 Iechyd rhywiol

Yn ogystal â'r gwasanaeth fferyllfa gymunedol glinigol sy'n cynnwys darparu gwasanaeth atal cenhedlu mae yna elfennau o ddarpariaeth gwasanaeth hanfodol a fydd yn helpu i fynd i'r afael â'r angen iechyd hwn.

- Mae'n ofynnol i fferyllfeydd gymryd rhan mewn hyd at bedwar ymgyrch iechyd cyhoeddus bob blwyddyn galendr trwy hyrwyddo negeseuon iechyd cyhoeddus i ddefnyddwyr. Dewisir y pynciau ar gyfer yr ymgyrchoedd hyn gan

y bwrdd iechyd a gallent gynnwys heintiau a drosglwyddir yn rhywiol a feirws diffyg imiwnedd dynol.
- Rhoi cyngor gan gynnwys cyngor ar opsiynau triniaeth a newidiadau i'w ffordd o fyw pan fo'n ymddangos i staff fferyllfa y byddai unigolyn yn elwa o gyngor i'w helpu i reoli cyflwr meddygol. Gallai hyn gynnwys rhoi cyngor i ofalwr i'w helpu i reoli cyflwr meddygol unigolyn arall.
- Cyfeirio pobl sy'n defnyddio'r fferyllfa at ddarparwyr gwasanaethau sgrinio ar gyfer heintiau a drosglwyddir yn rhywiol.
- Rhoi cyngor yn ystod ymgynghoriadau ar fyw'n iach ac ymgysylltu â phobl sy'n dod i'r fferyllfa.

Byddai rhagnodwyr annibynnol yn gallu darparu gwasanaeth atal cenhedlu llawn i ehangu'r gwasanaeth a ddarperir gan feddygfeydd teulu a chlinigau iechyd rhywiol.

7.7 Beichiogrwydd yn yr arddegau

Bydd y gwasanaeth fferyllfa gymunedol glinigol, sy'n cynnwys darparu gwasanaeth atal cenhedlu ynghyd ag elfennau o ddarpariaeth gwasanaeth hanfodol, yn helpu i fynd i'r afael â'r angen iechyd hwn.

- Mae'n ofynnol i fferyllfeydd gymryd rhan mewn hyd at bedwar ymgyrch iechyd cyhoeddus bob blwyddyn galendr trwy hyrwyddo negeseuon iechyd cyhoeddus i ddefnyddwyr. Dewisir y pynciau ar gyfer yr ymgyrchoedd hyn gan y bwrdd iechyd a gallent gynnwys beichiogrwydd yn yr arddegau.
- Lle nad yw'r fferyllfa'n darparu'r gwasanaeth fferyllfa gymunedol glinigol, cyfeirio pobl sy'n defnyddio'r fferyllfa at ddarparwyr eraill y gwasanaeth.

7.8 Ysmygu

Yn ogystal â gwasanaethau clinigol ychwanegol rhoi'r gorau i ysmygu, mae elfennau o ddarpariaeth gwasanaeth hanfodol a fydd yn helpu i fynd i'r afael â'r angen iechyd hwn.

- Mae'n ofynnol i fferyllfeydd gymryd rhan mewn hyd at bedwar ymgyrch iechyd cyhoeddus bob blwyddyn galendr trwy hyrwyddo negeseuon iechyd cyhoeddus i ddefnyddwyr. Dewisir y pynciau ar gyfer yr ymgyrchoedd hyn gan y bwrdd iechyd a gallent gynnwys ysmygu.
- Lle nad yw'r fferyllfa'n darparu'r gwasanaethau clinigol ychwanegol ar gyfer rhoi'r gorau i ysmygu, cyfeirio pobl sy'n defnyddio'r fferyllfa at ddarparwyr eraill y gwasanaethau hyn.
- Trafod rhoi'r gorau i ysmygu'n rheolaidd wrth werthu meddyginiaethau perthnasol dros y cownter.
- Rhoi cyngor yn ystod ymgynghoriadau ar fyw'n iach ac ymgysylltu â phobl sy'n dod i'r fferyllfa.

7.9 Cymorth hunanofal

Mae cymorth ar gyfer hunanofal yn wasanaeth hanfodol. Fel rhan o'u gwasanaethau

hanfodol, rhaid i fferyllfeydd roi cyngor ar hunanofal i gleifion o ran opsiynau triniaeth a newidiadau i ffordd o fyw.

7.10 Anhwylderau cyffredin

Yn ôl pob tebyg, ar ôl yr angen am feddyginiaethau, cymorth i drin anhwylderau cyffredin yw'r ail reswm mwyaf cyffredin dros ymweld â fferyllfa.

Mae'r gwasanaeth rhagnodi annibynnol mewn fferyllfeydd yn wahanol i'r gwasanaeth anhwylderau cyffredin o dan y gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol gan fod gofyn i fferyllwyr sydd wedi'u hyfforddi'n briodol ragnodi meddyginiaethau ar gyfer cyflenwad y GIG lle bo'n briodol, gan ddisodli'r angen am apwyntiad gyda meddyg teulu yn aml. Yn wahanol i'r gwasanaeth anhwylderau cyffredin, sydd fel arfer yn canolbwyntio ar fân broblemau iechyd a chyflenwi triniaethau dros y cownter, mae'r gwasanaeth rhagnodi annibynnol yn grymuso fferyllwyr i reoli ystod ehangach o gyflyrau'n annibynnol. Mae'r rôl uwch hon yn cynorthwyo cleifion gan roi mynediad amserol at ofal iechyd, lleihau'r pwysau ar feddygfeydd teulu a gwella darpariaeth gofal yn y gymuned.

Rhaid i unrhyw gontractwr fferyllfa sy'n dymuno darparu'r gwasanaeth rhagnodi annibynnol mewn fferyllfa hefyd ddarparu'r gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol sy'n cynnwys tair elfen; gwasanaeth anhwylderau cyffredin, gwasanaeth atal cenhedlu brys, Pontio a Chychwyn Cyflym a gwasanaeth cyflenwi meddyginiaeth frys.

7.11 Brechiadau

Mae fferyllfeydd wedi cynnig brechlynnau rhag y ffliw ers nifer o flynyddoedd, gan wella'r gwasanaeth a ddarperir gan feddygfeydd teulu drwy gynyddu nifer y lleoliadau, a'r amseroedd a'r dyddiau, y gellir rhoi brechlynnau. Gellid eu comisiynu i ddarparu brechiadau eraill er enghraifft brechiadau Covid-19 a fyddai, oherwydd eu horiau agor hirach yn aml, yn gwella mynediad i gleifion.

8 Ardal Ynys Môn

8.1 Ffeithiau allweddol[132]

- Poblogaeth leiaf o'r chwe awdurdod unedol, sef 66,021.
- Mae'r dwysedd poblogaeth yn 0.9 person fesul hectar, o'i gymharu ag 1.1 ar gyfer Gogledd Cymru ac 1.5 ar gyfer Cymru[133].
- Mae 27.4% o'r boblogaeth yn 65 oed neu'n hŷn, sef yr ail uchaf ar draws ardal y Bwrdd Iechyd, ac mae hyn yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef 21.7%.
- Mae 3.6% o boblogaeth yr ardal leol yn 85 oed a hŷn, sy'n uwch na chyfartaledd y bwrdd iechyd o 3.1% ac yn uwch na chyfartaledd Cymru, o 2.7%.
- Mae disgwyl i'r boblogaeth breswyl 85 oed a hŷn yn y Bwrdd Iechyd gynyddu bron i 98%. Ar draws y rhanbarth, disgwylir y cynnydd canrannol mwyaf yn Wrecsam (114.6%) ac yn Ynys Môn (109.4%).
- Mae 98.3% o'r boblogaeth yn Wyn.
- Nid oes gan 15.0% o'r aelwydydd gar na fan (yr ail ganran isaf ar draws gogledd Cymru).
- Mae 14.8% o'r boblogaeth yn byw yn yr 20% mwyaf difreintiedig ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru[134].
- Yn Ynys Môn, mae disgwyliad oes dynion yn 78.6 a menywod yn 82.4[135]
- Yn Ynys Môn, mae'r disgwyliad oes iach yn 63.1 mlynedd ar gyfer dynion a 63.0 mlynedd ar gyfer menywod ac mae'r bwlch anghydraddoldeb ar gyfer disgwyliad oes iach Ynys Môn yn 8.4 blynedd ar gyfer dynion a 7.4 mlynedd ar gyfer menywod.
- Mae 31.9% o blant pedair a phump oed dros eu pwysau neu'n ordew.
- Mae data ar ymddygiad a ffyrdd iach o fyw ar gyfer oedolion yn Ynys Môn yn dangos y canlynol:

Ardal	Yn gorfforol egnïol am o leiaf 60 munud bob dydd	Yn bwyta o leiaf un dogn o ffrwythau neu lysiau bob dydd	Yn ysmygu tybaco o leiaf unwaith yr wythnos	Yn defnyddio e-sigarennau o leiaf unwaith yr wythnos	Yn dweud eu bod yn yfed alcohol
Ynys Môn	18.3%	44.3%	4.5%	9.1%	36.6%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	18.3%	45.7%	3.3%	8.2%	36.8%
Cymru	18.3%	46.5%	2.6%	6.9%	35.6%

- Dywedodd 48% o oedolion (16 oed a hŷn) eu bod yn gallu siarad Cymraeg, gyda 12.3% arall yn gallu siarad rhywfaint o Gymraeg. Mae cyfran yr oedolion

[132] Proffiliau Iechyd y Cyhoedd - Proffiliau Cydweithredol Gogledd Orllewin Cymru 2025
[133] Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru - Proffil ystadegol clwstwr gofal sylfaenol Ynys Môn 2025
[134] Iechyd Cyhoeddus Cymru - Dangosfwrdd clystyrau gofal sylfaenol
[135] Data InfoBaseCymru ar gyfer Cymru ddeallus - Disgwyliad oes dynion a menywod (2020 i 2022)

16 oed a hŷn sy'n gallu siarad Cymraeg yn ardal y Bwrdd Iechyd yn amrywio o 12.4% yn Sir y Fflint i 64.0% yng Ngwynedd. Y cyfartaledd ar gyfer Cymru gyfan yw 18.0%.

- Mae nifer y cleifion sydd â chyflyrau cronig fel yr adroddwyd ar gofrestrau clefydau Iechyd a Gofal Digidol Cymru, Ebrill 2025, i'w gweld isod.

Cofrestr clefydau	Ynys Môn	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	Cymru
Asthma	8.7%	7.6%	7.1%
Ffibriliad atrïaidd	3.1%	2.8%	2.7%
Canser	4.8%	4.3%	3.7%
Clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint	3.1%	2.7%	2.3%
Diabetes	9.3%	8.3%	8.4%
Epilepsi	0.9%	0.9%	1.0%
Methiant y galon	1.3%	1.4%	1.4%
Gorbwysedd	18.8%	17.9%	16.3%
Trawiad isgemig byrhoedlog oherwydd strôc	2.7%	2.3%	2.2%
Atal clefyd coronaidd y galon am yr eildro	3.8%	3.6%	3.4%

Mae Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011 - 2026[136] yn nodi y bydd 761 o unedau tai ychwanegol yn cael eu hadeiladu:

- Amlwch – 373 o unedau
- Caergybi – 147 o unedau
- Llangefni – 241 o unedau

Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn monitro 38 o ddatblygiadau tai mawr yn yr ardal. Mae gwybodaeth a ddarparwyd gan y cyngor ym mis Mai 2026 yn cadarnhau bod 758 o unedau eto i'w hadeiladu.

Mae'r seithfed adroddiad monitro blynyddol[137] ar y cynllun datblygu lleol ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025 yn nodi mai 2,697 o unedau a gwblhawyd rhwng 2011/12 a 2024/25, sy'n is na'r ffigur a ragwelwyd o 3,231 uned. Cafodd 249 o unedau eu cwblhau yn 2024/25 a oedd yn fwy na'r gofyniad blynyddol cyfartalog dangosol o 232 uned. Mae cynllun datblygu lleol newydd yn cael ei ddatblygu ar gyfer Ynys Môn.

Cymeradwywyd datblygu safle Sipsiwn a Theithwyr parhaol newydd gyda deg lle yng Nghroesffordd Star ym mis Hydref 2018. Ym mis Rhagfyr 2025, cymeradwyodd

[136] Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011 – 2026
[137] Cyngor Sir Ynys Môn, Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011 - 2026 Seithfed Adroddiad Monitro Blynyddol 2024/25

pwyllgor cynllunio a gorchmynion y cyngor gais am dystysgrif datblygiad cyfreithlon ac i amrywio dau amod ar y cais gwreiddiol.

Mae disgwyl i orsaf bŵer niwclear gael ei hadeiladu yn Wylfa, a rhagwelir y bydd adweithyddion niwclear modiwlaidd bach yn cael eu hadeiladu yn y 2030au[138].

Disgwylir rhagor o ddatblygiadau yng ngogledd yr ardal o ganlyniad i ddatblygu Porthladd Rhydd Ynys Môn. Bydd hyn yn cynnwys safleoedd yn y Parc Ffyniant a Pharc Cybi yng Nghaergybi, M-SParc ger Gaerwen a dau safle tir llwyd yn Ystâd Ddiwydiannol Llangefni.


Nod y Porthladd Rhydd yw denu buddsoddiad gwerth £6.5 biliwn a chreu tua 17,000 o swyddi.

8.2 Y ddarpariaeth bresennol o wasanaethau fferyllol o fewn ardal yr Awdurdod Lleol

Mae 13 fferyllfa yn yr ardal sy'n cael eu rhedeg gan bum contractwr gwahanol. Mae un fferyllfa yn rhan o'r cynllun fferyllfa fach hanfodol. O'r 10 practis meddygon teulu, mae saith yn gweinyddu presgripsiynau o gyfanswm o 12 safle. Mae'r lefelau gweinyddu yn amrywio o 20.1% i 83.5% o boblogaethau cofrestredig y practisau.

Mae'r map isod yn dangos lleoliad y fferyllfeydd a'r meddygfeydd fferyllol. Dylid nodi, pan fydd safleoedd yn agos at ei gilydd, y bydd y symbolau'n gorgyffwrdd.

Map 8.1 – lleoliad fferyllfeydd a safleoedd meddygfeydd fferyllol



[138] Erthygl Ymchwil Llywodraeth Cymru – Niwclear newydd yn Wylfa: beth sy'n digwydd nesaf? Rhagfyr 2025

© OpenStreetMap © CARTO

 Safleoedd meddygfeydd fferyllol  Fferyllfa

Yn 2024/25, cafodd 70.4% o'r presgripsiynau a ysgrifennwyd gan bractisau meddygon teulu yn yr ardal eu gweinyddu gan fferyllfa yn yr ardal, a chafodd 27.4% o'r eitemau ar bresgripsiwn eu gweinyddu neu eu rhoi'n bersonol gan y meddygfeydd fferyllol. Er nad yw'r data sydd ar gael yn dangos y rhaniad canrannol rhwng eitemau wedi'u gweinyddu ac eitemau a roddwyd yn bersonol, ar sail y lefelau rhoi'n bersonol mewn mannau eraill yng Nghymru, gellir tybio bod llai na 2% o'r eitemau wedi cael eu rhoi'n bersonol.

Yn ystod naw mis cyntaf 2025/26, cafodd 71.5% o bresgripsiynau a ysgrifennwyd gan bractisau meddygon teulu yn yr ardal eu gweinyddu gan fferyllfa yn yr ardal, a chafodd 27.4% o'r eitemau ar bresgripsiwn eu gweinyddu neu eu rhoi'n bersonol gan y meddygfeydd fferyllol.

Mae'r map ym mhennod 5 yn dangos nad yw rhai ardaloedd ar hyd yr arfordir o fewn taith car 20 munud o fferyllfa. Mae dadansoddi pellach yn datgelu eu bod yn cynnwys:

- Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru yng ngogledd yr ynys,
- Gwarchodfa Natur The Range, a
- Gwarchodfa Natur Genedlaethol a Choedwig Niwbwrch.

Mae Google Maps yn datgelu bod fawr ddim poblogaeth breswyl neu ddim poblogaeth breswyl o gwbl yn yr ardaloedd hyn.

Dyddiau agor y fferyllfeydd:

- mae dwy ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener
- mae tair ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener ac am oriau cyfyngedig ar ddydd Sadwrn
- mae wyth ar agor o ddydd Llun i ddydd Sadwrn.

Nid oes fferyllfeydd ar agor ar ddydd Sul ar Ynys Môn.

Oriau agor y fferyllfeydd hyn rhwng dydd Llun a dydd Gwener:

- Roedd pob un o'r 13 fferyllfa yn agor am 09.00
- Mae'r amseroedd cau yn amrywio rhwng 17.30 a 18.00 gydag un fferyllfa yng Nghaergybi ar agor tan 19.00. Mae un fferyllfa yn cau am 13.00 ar ddydd Mercher ac un arall am 14.00 ar ddydd Iau.

Comisiynwyd pedair fferyllfa i agor am 30 munud ychwanegol (17.30 i 18.00) yn ystod yr wythnos yn 2025/26.

Mae deuddeg fferyllfa'n cau am ginio ar adegau amrywiol rhwng 12.30 a 14.00. Mae gweddill y fferyllfeydd ar agor drwy'r dydd.

Ar ddydd Sadwrn, mae'r 11 fferyllfa sydd ar agor yn gwneud hynny am 09.00. O'r wyth fferyllfa sydd ar agor drwy'r dydd, nid yw tair yn cau am ginio, ac mae'r pump arall yn cau am ginio ar wahanol adegau rhwng 12.30 a 14.00. Mae gan 11 fferyllfa oriau agor craidd ar ddydd Sadwrn.

Mae'r bwrdd iechyd yn gofyn i'r fferyllfeydd a fyddant ar agor ar wyliau cyhoeddus a gwyliau banc a Sul y Pasg. Mae'r ymatebion yn cael eu casglu, ac mae'r bwrdd iechyd yn sefydlu a oes unrhyw fylchau daearyddol yn y ddarpariaeth ai peidio. Pan fydd bwlch, bydd fferyllfa naill ai'n cael ei chomisiynu neu ei chyfarwyddo i agor.

Ymatebodd 10 fferyllfa i'r holiadur contractwr fferyllol a daw'r wybodaeth ganlynol o'r ymatebion hynny.

Mae'r deg fferyllfa hyn yn hygyrch i gadeiriau olwyn, ac mae gan naw ohonynt ardal ymgynghori sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn. Mae gan y deg ardal ymgynghori:

- ystafelloedd preifat
- ardal ddynodedig lle gall y claf a'r fferyllydd eistedd gyda'i gilydd
- maent wedi'u dynodi'n glir fel ardaloedd ar gyfer ymgynghoriadau cyfrinachol sydd ar wahân i'r ardaloedd yn y fferyllfa ar gyfer y cyhoedd.

Fodd bynnag, dim ond naw sydd ag ardal i gleifion a fferyllwyr siarad ar lefelau normal heb gael eu clywed.

Cadarnhaodd y deg fferyllfa fod ganddynt siaradwyr Cymraeg. Nododd tair fferyllfa fod staff yn siarad ieithoedd eraill:

- Pwyleg
- Ffrangeg
- Almaeneg, Hindi, Punjabi ac iaith arwyddion.

Mae pob un o'r deg fferyllfa yn gweinyddu pob math o bresgripsiynau.

Mae pob un o'r deg fferyllfa yn casglu presgripsiynau gan bractisau meddygon teulu ac yn cynnig gwasanaeth danfon preifat. Mae wyth yn cyfyngu'r gwasanaeth i gleifion oedrannus ac agored i niwed sy'n gaeth i'r tŷ. Mae un fferyllfa'n darparu gwasanaeth danfon preifat am ddim sydd wedi'i gyfyngu i grwpiau penodol o gleifion,

Nid oedd yr un o'r fferyllfeydd yn dweud bod angen gwasanaeth clinigol ychwanegol nad yw'n cael ei ddarparu ar hyn o bryd, ac nid oedd yr un ohonynt o'r farn bod angen gwasanaeth newydd nad yw ar gael ar hyn o bryd.

Cadarnhaodd pob fferyllfa fod ganddynt ddigon o gapasiti yn eu safle presennol i reoli cynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn eu darparu. Dywedodd dwy fferyllfa fod ganddynt ddigon o staff i reoli cynnydd yn y galw, a dywedodd yr wyth arall nad oes ganddynt gapasiti o'r fath ond y gallent wneud addasiadau i reoli cynnydd yn y galw.

Mae gan bedair fferyllfa gynlluniau i ddatblygu neu ehangu eu darpariaeth gwasanaeth.

- Mae tair fferyllfa yn bwriadu dechrau darparu gwasanaeth presgripsiynu annibynnol fferyllwyr, gyda dwy yn dechrau ym mis Mai 2026.
- Mae un yn bwriadu dechrau darparu gwasanaeth rhoi'r gorau i ysmygu. Gan ei bod eisoes yn darparu'r gwasanaeth rhoi'r gorau i ysmygu lefel 2, tybir bod hyn yn cyfeirio at y gwasanaeth Helpa Fi i Stopio yn y fferyllfa.

Nid oedd yr un o'r meddygfeydd fferyllol wedi ymateb i'r holiadur meddyg fferyllol.

8.2.1 Gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol

Roedd yr holl fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn ac yn 2025/26 roeddent wedi darparu:

- 10,396 o ymgynghoriadau ar gyfer anhwylderau cyffredin
- 469 o ymgynghoriadau ar gyfer dulliau atal cenhedlu
- 2,274 o gyflenwadau meddyginiaethau brys

8.2.2 Adolygu meddyginiaethau wrth ryddhau

Yn 2025/26, roedd pob un o'r fferyllfeydd wedi darparu'r gwasanaeth hwn a chwblhau 251 o adolygiadau.

8.2.3 Gwasanaeth presgripsiynu annibynnol gan fferyllwyr

Comisiynwyd pedair fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26 a darparwyd cyfanswm o 1,395 o ymgynghoriadau yn ystod y flwyddyn.

8.2.4 Gwasanaeth brechu tymhorol rhag y ffliw

Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26 a darparwyd cyfanswm o 1,584 o frechiadau.

8.2.5 Addasu cyfarpar stoma

Nid oes yr un o'r fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn er eu bod yn rhoi presgripsiynau am gyfarpar.

8.2.6 Adolygu'r defnydd o gyfarpar

Nid oes yr un o'r fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn er eu bod yn rhoi presgripsiynau am gyfarpar.

8.2.7 Gwasanaeth cyflenwi profion llif unffordd

Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

8.2.8 Gwasanaeth profi am firysau a gludir yn y gwaed

Ni chomisiynwyd unrhyw fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

8.2.9 Gwasanaeth brechu Covid-19

Comisiynwyd dwy fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

8.2.10 Helpa fi i stopio yn y fferyllfa

Comisiynwyd 11 fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

8.2.11 Gwasanaeth adolygu mewnanadlyddion

Comisiynwyd 11 fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

8.2.12 Gwasanaeth cyflenwi Naloxone

Comisiynwyd un fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

8.2.13 Gwasanaeth cymorth cenedlaethol i gartrefi gofal

Comisiynwyd pum fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

8.2.14 Dychwelyd blychau offer miniog cleifion

Comisiynwyd 12 fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

8.2.15 Gwasanaeth rhoi'r gorau i ysmygu lefel 2

Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

8.2.16 Gwasanaeth cymryd meddyginiaeth dan oruchwyliaeth

Comisiynwyd 12 fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

8.2.17 Rhaglenni nodwyddau a chwistrellau

Comisiynwyd saith fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

8.2.18 Gwasanaeth meddyginiaethau brys

Comisiynwyd un fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

8.3 Y ddarpariaeth bresennol o wasanaethau fferyllol y tu allan i ardal y clwstwr

Mae rhai trigolion yn dewis defnyddio contractwyr y tu allan i'r ardal leol ac ardal y Bwrdd Iechyd:

- Er mwyn defnyddio gwasanaethau a gynigir gan Gontractwyr Presgripsiynau Dyfeisiau
- Oherwydd bod y contractwr hwnnw yn agos at ble mae'n gweithio, yn siopa neu'n mynd at ddibenion hamdden neu am resymau eraill.

Er bod y rhan fwyaf o bresgripsiynau a ysgrifennwyd gan bractisau meddygon teulu yn 2024/25 wedi eu gweinyddu gan fferyllfeydd neu feddygfeydd fferyllol yn yr ardal, cafodd 1.6% eu gweinyddu y tu allan i'r ardal leol.

- 0.6% gan fferyllfeydd yn Arfon
- 0.5% gan gontractwyr yn Lloegr
- 0.4% mewn mannau eraill yng Nghymru

Yn ystod naw mis cyntaf 2025/26, gweinyddwyd 1.6% y tu allan i'r ardal leol.

- 0.7% gan fferyllfeydd yn Arfon
- 0.5% gan gontractwyr yn Lloegr
- 0.3% mewn mannau eraill yng Nghymru

Yn ogystal, mae'n bosibl bod preswylwyr wedi defnyddio un neu fwy o wasanaethau fferyllol a ddarperir gan fferyllfa arall y tu allan i'r ardal leol ac ardal y Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag, nid yw'n bosibl mesur hyn o'r data a gofnodwyd.

8.4 Gwasanaethau eraill y GIG

Mae manylion gwasanaethau'r GIG sy'n effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol ar gael ym mhennod chwech.

8.5 Dewis o ran cael gwasanaethau fferyllol

Fel y gwelir yn adrannau 8.2 ac 8.3, mae'r rhai sy'n byw yn yr ardal ac sydd wedi cofrestru ag un o'r practisau meddygon teulu fel arfer yn dewis casglu eu presgripsiynau o un o'r fferyllfeydd yn yr ardal neu, os ydynt yn gymwys, i gael eu presgripsiwn o'r practis. Mae'r rhai sy'n mynd y tu hwnt i'r ardal leol fel arfer yn gwneud hynny er mwyn defnyddio fferyllfa gyfagos neu gontractwr cyfarpar dosbarthu yn ardal y bwrdd iechyd.

Yn 2024/25, gweinyddodd dros 114 o gontractwyr eitemau a ysgrifennwyd gan un o'r practisau meddygon teulu yn yr ardal hon, ac o'r rhain:

- roedd 13 wedi'u lleoli yn yr ardal
- roedd 77 wedi'u lleoli mewn mannau eraill yn ardal y bwrdd iechyd
- roedd 24 wedi'u lleoli mewn mannau eraill yng Nghymru
- roedd nifer o'r presgripsiynau wedi'u gweinyddu yn Lloegr.

Yn ystod naw mis cyntaf 2025/26, gweinyddodd 107 o gontractwyr eitemau a ysgrifennwyd gan un o'r practisau meddygon teulu yn yr ardal hon, ac o'r rhain:

- roedd 13 wedi'u lleoli yn yr ardal hon

- roedd 76 wedi'u lleoli mewn mannau eraill yn ardal y bwrdd iechyd
- roedd 18 wedi'u lleoli mewn mannau eraill yng Nghymru
- Roedd nifer o bresgripsiynau wedi'u gweinyddu yn Lloegr.

8.6 Bylchau yn y ddarpariaeth

Wrth ystyried a oes unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth o wasanaethau fferyllol, mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod pob fferyllfa wedi cadarnhau bod ganddynt ddigon o gapasiti yn eu safle presennol i reoli cynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn eu darparu. Dywedodd dwy fferyllfa fod ganddynt ddigon o staff i reoli cynnydd yn y galw, a dywedodd wyth ohonynt nad oes ganddynt gapasiti o'r fath ond y gallent wneud addasiadau i reoli cynnydd yn y galw.

8.6.1 Gwasanaethau hanfodol

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi:

- Mae'r fferyllfeydd ar wasgar mewn ardaloedd lle mae dwysedd poblogaeth ac amddifadedd uwch. Yn gyffredinol, mae'r meddygfeydd fferyllol wedi'u lleoli mewn ardaloedd lle mae'r dwysedd poblogaeth yn is.
- Nid yw rhai rhannau o'r ardal o fewn pellter gyrru o 20 munud i fferyllfa, ond nid oes ychwaith poblogaeth breswyl yn yr ardaloedd hynny, neu ychydig o eiddo gwasgaredig sydd yno.
- Datblygiadau tai ar raddfa fawr a dyraniadau yn y cynllun datblygu lleol.
- Mae poblogaeth yr ardal yn cynyddu yn ystod y tymor gwyliau oherwydd mewnlif o ymwelwyr a thwristiaid.
- Nid oes fferyllfeydd ar agor ar ddydd Sul.

Nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw angen ar hyn o bryd i ddarparu gwasanaethau hanfodol yn yr ardal hon.

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi, pe bai gwasanaethau hanfodol yn cael eu colli oherwydd bod fferyllfa'n cael ei thynnu oddi ar y rhestr fferyllol, y bydd angen un o'r canlynol yn y dyfodol:

- fferyllfa newydd yn yr un dref/pentref sy'n darparu gwasanaethau hanfodol, y gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol, dychwelyd blychau miniog cleifion, gwasanaeth gweinyddu meddyginiaeth dan oruchwyliaeth, Helpa Fi i Stopio yn y fferyllfa, a gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu lefel 2 am 40 o oriau agor craidd yr wythnos
- y gwasanaeth gweinyddu presgripsiynau gan feddygon teulu os yw'r dref/pentref mewn ardal reoledig

oni bai bod fferyllfa arall yn y dref/pentref honno ac yna ni fydd yr angen hwn yn codi yn y dyfodol.

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi, pe bai oriau agor atodol ar ddydd Sadwrn yn cael eu colli o 1 Hydref 2026 ymlaen, a fyddai'n arwain at lai na thair awr o ddarpariaeth o wasanaethau fferyllol mewn tref/pentref, y bydd angen yn y dyfodol i ddarparu

gwasanaethau hanfodol am dair awr graidd ar ddydd Sadwrn yn y dref/pentref neu drefi/pentrefi lle mae'r gostyngiad mewn oriau agor atodol wedi digwydd, rhwng 09.00 a 17.00, oni bai bod fferyllfa arall yn y dref/pentref honno ac yna ni fydd yr angen yn codi yn y dyfodol.

Os bydd practis meddygon teulu yn rhoi'r gorau i weinyddu presgripsiynau i ardal y mae ganddo gydsyniad amlinellol ar ei chyfer, mae'r bwrdd iechyd wedi nodi y bydd angen un o'r canlynol yn y dyfodol:

- darparu gwasanaeth gweinyddu presgripsiynau gan feddygon teulu yn yr ardal honno tra bo'n parhau i fod yn ardal reoledig ac yn fwy na 1.6km mewn llinell syth o fferyllfa
- fferyllfa sydd ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener o leiaf, ac sy'n darparu:
    - yr holl wasanaethau hanfodol
    - y gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol, dychwelyd blychau miniog cleifion, gwasanaeth cymryd meddyginiaeth dan oruchwyliaeth, Helpa fi i Stopio yn y fferyllfa, a gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu lefel 2.

8.6.2 Gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod yr holl fferyllfeydd wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Felly, nid yw wedi nodi unrhyw anghenion presennol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal, nac anghenion yn y dyfodol.

8.6.3 Adolygu meddyginiaethau wrth ryddhau

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi'r holl fferyllfeydd a ddarparodd y gwasanaeth hwn yn 2025/26. Felly, nid yw wedi nodi unrhyw anghenion presennol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal, nac anghenion yn y dyfodol.

8.6.4 Gwasanaeth presgripsiynu annibynnol gan fferyllwyr

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi:

- Comisiynwyd pedair fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.
- Mae tair fferyllfa yn bwriadu dechrau darparu'r gwasanaeth hwn yn 2026/27.
- Y dyhead a nodir yn Fferylliaeth: Cyflawni Cymru Iachach yw i bob fferyllfa gael presgripsiynydd annibynnol erbyn 2030 ac mae wedi gosod targedau interim i 50% o fferyllfeydd ddarparu'r gwasanaeth hwn ym mhob ardal erbyn mis Ebrill 2027 a 70% erbyn mis Ebrill 2029.
- O 2026 ymlaen, rhagwelir y bydd pob fferyllydd sydd newydd gymhwyso hefyd yn cymhwyso fel presgripsiynydd annibynnol ar ôl cwblhau rhaglen israddedig

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

Os na fydd y targedau interim yn cael eu cyrraedd, bydd angen yn y dyfodol i ddigon o fferyllfeydd yn yr ardal ddarparu'r gwasanaeth hwn er mwyn cyrraedd y ddau darged.

8.6.5 Gwasanaeth brechu tymhorol rhag y ffliw

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod yr holl fferyllfeydd wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Felly, nid yw wedi nodi unrhyw anghenion presennol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal, nac anghenion yn y dyfodol.

8.6.6 Addasu cyfarpar stoma

Er nad oes fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn, mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi bod presgripsiynau am gyfarpar yn cael eu gweinyddu gan gontractwyr mewn mannau eraill yng Nghymru a hefyd yn Lloegr.

Rhagwelir felly y bydd y contractwyr hyn yn addasu cyfarpar stoma yn ôl yr angen cyn eu hanfon neu eu danfon at gleifion.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

8.6.7 Adolygu'r defnydd o gyfarpar

Er nad oes fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn, mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi bod presgripsiynau am gyfarpar yn cael eu gweinyddu gan gontractwyr mewn mannau eraill yng Nghymru a hefyd yn Lloegr.

Mae unigolion y mae angen y gwasanaeth adolygu defnydd o gyfarpar arnynt yn debygol o gael mynediad at y gwasanaeth hwn gan y contractwr sy'n gweinyddu eu presgripsiynau am gyfarpar neu gallai gael mynediad ato gan ddarparwyr gofal iechyd eraill fel nyrsys stoma.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

8.6.8 Gwasanaeth cyflenwi profion llif unffordd

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod yr holl fferyllfeydd wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Felly, nid yw wedi nodi unrhyw anghenion presennol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal, nac anghenion yn y dyfodol.

8.6.9 Gwasanaeth profi am firysau a gludir yn y gwaed

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi nad oedd unrhyw fferyllfa wedi'i chomisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Fodd bynnag, mae darparwyr eraill i'r gwasanaeth, er enghraifft tîm lleihau niwed y Bwrdd Iechyd.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

8.6.10 Gwasanaeth brechu Covid-19

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod dwy fferyllfa wedi'i chomisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Mae hefyd wedi nodi bod practisau meddygon teulu a thîm brechu'r Bwrdd Iechyd yn darparu'r gwasanaeth.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

8.6.11 Helpa fi i stopio yn y fferyllfa

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi:

- Comisiynwyd 11 fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.
- Mae un fferyllfa'n bwriadu dechrau darparu'r gwasanaeth.
- Mae'r galw am y gwasanaeth yn dibynnu ar bobl sy'n dymuno rhoi'r gorau i ysmygu.
- Mae darparwyr eraill y gwasanaeth, er enghraifft Helpa fi i Stopio er mwyn cael babi, Helpa fi i Stopio yn yr ysbyty, a'r gwasanaeth Helpa fi i Stopio cyffredinol.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

8.6.12 Gwasanaeth adolygu mewnanadlyddion

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi:

- Comisiynwyd 11 fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.
- Mae practisau meddygon teulu hefyd yn darparu'r gwasanaeth.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

8.6.13 Gwasanaeth cyflenwi Naloxone

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi:

- Comisiynwyd un fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.
- Mae darparwyr eraill y gwasanaeth, er enghraifft tîm lleihau niwed y bwrdd iechyd a'r gwasanaeth 'clicio a danfon' a ddarperir gan DAN24/7.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

8.6.14 Gwasanaeth cymorth cenedlaethol i gartrefi gofal

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi:

- Comisiynwyd pum fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.
- Mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu gan fferyllfeydd i'r cartrefi gofal y maent yn darparu gwasanaethau iddynt, neu lle mae cartref gofal wedi gofyn am y gwasanaeth.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

8.6.15 Dychwelyd blychau offer miniog cleifion

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod 12 fferyllfa wedi'i chomisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Felly, nid yw wedi nodi unrhyw anghenion presennol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal, nac anghenion yn y dyfodol.

8.6.16 Rhoi'r Gorau i Ysmygu Lefel 2

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi:

- Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.
- Mae'r galw am y gwasanaeth yn dibynnu ar bobl sy'n dymuno rhoi'r gorau i ysmygu.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

8.6.17 Gwasanaeth cymryd meddyginiaeth dan oruchwyliaeth

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod 12 fferyllfa wedi'i chomisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Felly, nid yw wedi nodi unrhyw anghenion presennol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal, nac anghenion yn y dyfodol.

8.6.18 Rhaglenni nodwyddau a chwistrellau

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi:

- Comisiynwyd saith fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.
- Mae darparwyr eraill i'r gwasanaeth, ac mae gwasanaeth postio'n cael ei seyfdlu ar gyfer y rhai na allant ddefnyddio fferyllfa
- Os gofynnir i fferyllfa ddarparu'r gwasanaeth, gall gysylltu â'r bwrdd iechyd a gofyn am gael ei chomisiynu i'w ddarparu.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

8.6.19 Gwasanaeth meddyginiaethau brys

Mae'r bwrdd iechyd wedi bod un fferyllfa wedi'i chomisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Oherwydd natur y gwasanaeth, fe'i comisiynir i sicrhau gwasgariad daearyddol da o fferyllfeydd sy'n ei ddarparu ar draws daearyddiaeth y bwrdd iechyd.

Felly, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

8.6.20 Gwasanaeth gweinyddu presgripsiynau gan Feddygon Teulu

Nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol mewn perthynas â'r gwasanaeth hwn.

Os bydd practis meddygon teulu yn rhoi'r gorau i weinyddu presgripsiynau i ardal y mae ganddo gydsyniad amlinellol ar ei chyfer, mae'r bwrdd iechyd wedi nodi y bydd angen un o'r canlynol yn y dyfodol:

- darparu gwasanaeth gweinyddu presgripsiynau gan feddygon teulu yn yr ardal honno tra bo'n parhau i fod yn ardal reoledig ac yn fwy na 1.6km mewn llinell syth o fferyllfa
- fferyllfa sydd ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener o leiaf, ac sy'n darparu:
    - yr holl wasanaethau hanfodol
    - y gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol, offer miniog cleifion, rhoi'r gorau i ysmygu lefel 2, a gwasanaeth Helpa Fi i Stopio yn y fferyllfa.

9 Ardal Arfon

9.1 Ffeithiau allweddol[139]

- Mae gan Wynedd boblogaeth o 120,813, sef yr ail uchaf o'r chwe awdurdod unedol yng Ngogledd Cymru.
- Mae'r dwysedd poblogaeth yn 1.7 person fesul hectar, o'i gymharu ag 1.1 ar gyfer Gogledd Cymru ac 1.5 ar gyfer Cymru[140].
- Mae 23.4% o'r boblogaeth yn 65 oed neu'n hŷn. Mae hyn yn uwch na chyfartaledd Cymru o 21.7% ond ychydig yn is na chyfartaledd y bwrdd iechyd o 24.0%.
- Mae 15.3% o boblogaeth yr ardal rhwng 66 a 84 oed, sy'n is na chyfartaledd Cymru o 17.7% a chyfartaledd y bwrdd iechyd o 19.6%.
- Mae 2.2% o boblogaeth yr ardal leol yn 85 oed ac yn hŷn, sy'n is na chyfartaledd y bwrdd iechyd o 3.1% ac yn is na chyfartaledd Cymru o 2.7%.
- Mae 22.5% o boblogaeth yr ardal rhwng 16 a 29 oed, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru o 16.7% a chyfartaledd y bwrdd iechyd o 14.7%. Mae'n debyg mai poblogaeth myfyrwyr Bangor sy'n gyfrifol am hyn.
- Disgwylir i boblogaeth gyffredinol y bwrdd iechyd gynyddu ychydig dros 50,000 o breswylwyr (6.8%) rhwng 2022 a 2047. Ar lefel awdurdodau unedol, disgwylir y cynnydd mwyaf yng Ngwynedd (10.8%) a Sir Ddinbych (10.4%). Rhagwelir y bydd y cynnydd lleiaf yn Wrecsam (2.4%).
- Gwynedd sydd â'r ganran uchaf o oedolion sy'n gallu siarad Cymraeg, sef 64.0%. Mae hyn o'i gymharu â 12.4% yn Sir y Fflint a chyfartaledd Cymru o 18.0%.
- Gwynedd sydd â'r gyfran uchaf o aelwydydd un person ar draws ardal y bwrdd iechyd (34.6%) er bod y ffigur ar gyfer Arfon yn is, sef 32.8%. Mae 14.2% o aelwydydd un person yn Arfon yn cael eu meddiannu gan un deiliad 66 oed a hŷn.
- Nid oes gan 19.5% o'r aelwydydd gar na fan.
- Ar gyfer poblogaeth clwstwr Arfon, mae 11.3% o'r boblogaeth yn byw yn yr 20% mwyaf difreintiedig ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru[141]
- Mae disgwyliad oes Gwynedd yn 79.2 ar gyfer dynion ac 83.1 ar gyfer menywod[142]
- Mae disgwyliad oes iach yng Ngwynedd yn 64.9 mlynedd ar gyfer dynion a 65.0 mlynedd ar gyfer menywod ac mae'r bwlch anghydraddoldeb o ran disgwyliad oes iach yng Ngwynedd yn 3.0 blynedd ar gyfer dynion a 2.8 mlynedd ar gyfer menywod.
- Mae 31.1% o blant pedair a phump oed yn Arfon dros eu pwysau neu'n ordew.
- Mae bron i 37% o bobl ifanc rhwng 11 a 16 oed yng Ngogledd Cymru yn dweud eu bod yn yfed alcohol o'i gymharu â 35.6% ledled Cymru. Cofnodwyd y lefelau uchaf o bobl ifanc sy'n yfed alcohol ar draws y rhanbarth yn Sir y Fflint (39.3%) a Gwynedd (38.2%).

---

[139] Proffiliau Iechyd y Cyhoedd - Proffiliau Cydweithredol Gogledd Orllewin Cymru 2025
[140] Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru - Proffil ystadegol clwstwr gofal sylfaenol Arfon 2025
[141] Iechyd Cyhoeddus Cymru - Dangosfwrdd clystyrau gofal sylfaenol
[142] Data InfoBaseCymru ar gyfer Cymru ddeallus - Disgwyliad oes dynion a menywod (2020 i 2022)

- Dangosir data ar ymddygiad a ffyrdd iach o fyw ar gyfer oedolion yng Ngwynedd isod.

Ardal	Yn gorfforol egnïol am o leiaf 60 munud bob dydd	Yn bwyta o leiaf un dogn o ffrwythau neu lysiau bob dydd	Yn ysmygu tybaco o leiaf unwaith yr wythnos	Yn defnyddio e-sigarennau o leiaf unwaith yr wythnos	Yn dweud eu bod yn yfed alcohol
Gwynedd	18.3%	50.2%	3.4%	6.6%	38.2%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	18.3%	45.7%	3.3%	8.2%	36.8%
Cymru	18.3%	46.5%	2.6%	6.9%	35.6%

- Mae nifer y cleifion sydd â chyflyrau cronig fel yr adroddwyd ar gofrestrau clefydau Iechyd a Gofal Digidol Cymru, Ebrill 2025, i'w gweld isod.

Cofrestr clefydau	Arfon	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	Cymru
Asthma	6.6%	7.6%	7.1%
Ffibriliad atrïaidd	2.0%	2.8%	2.7%
Canser	3.6%	4.3%	3.7%
Clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint	2.5%	2.7%	2.3%
Diabetes	6.5%	8.3%	8.4%
Epilepsi	0.9%	0.9%	1.0%
Methiant y galon	0.8%	1.4%	1.4%
Gorbwysedd	14.0%	17.9%	16.3%
Trawiad isgemig byrhoedlog oherwydd strôc	1.7%	2.3%	2.2%
Atal clefyd coronaidd y galon am yr eildro	2.5%	3.6%	3.4%

- Arfon sydd â'r gyfradd isaf o bobl sydd â diabetes o'i gymharu â gweddill Gogledd Cymru.

Mae Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011 - 2026[143] yn nodi y bydd 393 o unedau tai ychwanegol yn cael eu hadeiladu ym Mangor. Nodir bod y seithfed adroddiad monitro blynyddol ar y cynllun datblygu lleol ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025 wedi cadarnhau mai 212, yn is na'r gofyniad blynyddol cyfartalog o 479 uned, oedd nifer yr unedau a gwblhawyd yn 2024/25. Cadarnhaodd yr adroddiad hefyd fod 2,687 o unedau wedi'u cwblhau rhwng 2011/12 a 2024/25, tra bod y trywydd yn rhagweld ffigur o 3,487 o unedau.

[143] Cyngor Gwynedd, Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011 – 2026

9.2 Y ddarpariaeth bresennol o wasanaethau fferyllol o fewn ardal yr Awdurdod Lleol

Mae naw fferyllfa yn yr ardal sy'n cael eu rhedeg gan chwe chontractwr gwahanol. O'r wyth practis meddygon teulu, mae pump yn gweinyddu presgripsiynau o gyfanswm o wyth safle. Mae'r lefelau gweinyddu yn amrywio o 19.9% i 84.8% o boblogaethau cofrestredig y practisau.

Mae'r map isod yn dangos lleoliad y fferyllfeydd a'r meddygfeydd fferyllol. Dylid nodi, pan fydd safleoedd yn agos at ei gilydd, y bydd y symbolau'n gorgyffwrdd.

Map 9.1 – lleoliad fferyllfeydd a safleoedd meddygfeydd fferyllol



© OpenStreetMap © CARTO

Safleoedd meddygfeydd fferyllol Fferyllfa

Yn 2024/25, cafodd 58.1% o bresgripsiynau a ysgrifennwyd gan bractisau meddygon

teulu yn yr ardal eu gweinyddu gan fferyllfa yn yr ardal, a chafodd 33.4% o'r eitemau ar bresgripsiwn eu gweinyddu neu eu rhoi'n bersonol gan y meddygfeydd fferyllol. Er nad yw'r data sydd ar gael yn dangos y rhaniad canrannol rhwng eitemau wedi'u gweinyddu ac eitemau a roddwyd yn bersonol, ar sail y lefelau rhoi'n bersonol mewn mannau eraill yng Nghymru, gellir tybio bod llai na 2% o'r eitemau wedi cael eu rhoi'n bersonol.

Yn ystod naw mis cyntaf 2025/26, cafodd 58.5% o bresgripsiynau a ysgrifennwyd gan bractisau meddygon teulu yn yr ardal eu gweinyddu gan fferyllfa yn yr ardal, a chafodd 33.2% o'r eitemau ar bresgripsiwn eu gweinyddu neu eu rhoi'n bersonol gan y meddygfeydd fferyllol.

Mae'r map ym mhennod 5 yn dangos nad yw rhai rhannau o'r ardal leol o fewn taith car o 20 munud o fferyllfa. Mae dadansoddi pellach yn datgelu eu bod yn cynnwys:

- Maes awyr Caernarfon a RAF Llandwrog
- Yr Wyddfa, a
- Rhannau o Barc Cenedlaethol Eryri

Mae Google Maps yn datgelu bod fawr ddim poblogaeth breswyl neu ddim poblogaeth breswyl o gwbl yn yr ardaloedd hyn.

Dyddiau agor y fferyllfeydd:

- mae un ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener
- mae dwy ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener ac am oriau cyfyngedig ar ddydd Sadwrn
- mae pedair ar agor o ddydd Llun i ddydd Sadwrn
- mae dwy ar agor o ddydd Llun i ddydd Sul ym Mangor.

Oriau agor y fferyllfeydd hyn rhwng dydd Llun a dydd Gwener:

- Bydd un yn agor am 08.45 a'r gweddill yn agor am 09.00,
- Mae'r amseroedd cau yn amrywio rhwng 17.30 a 18.30 (er bod un yn cau am 16.30 ar ddydd Iau) gydag un fferyllfa ym Mangor ar agor tan 20.00.

Mae un fferyllfa ym Mhenygroes wedi'i chomisiynu i agor am 30 munud ar ddydd Llun, dydd Mawrth, dydd Mercher a dydd Gwener (17.30 i 18.00) yn 2025/26.

Mae chwe fferyllfa'n cau am ginio ar adegau amrywiol rhwng 12.30 a 14.00. Mae gweddill y fferyllfeydd ar agor drwy'r dydd.

Ar ddydd Sadwrn, mae un fferyllfa'n agor am 09:30, gyda'r gweddill yn agor am 09:00. Mae gan saith fferyllfa oriau agor craidd ar ddydd Sadwrn.

O'r pedair fferyllfa sydd ar agor drwy'r dydd, mae dwy ar gau am ginio rhwng 12:30 a 14:00. Maent yn cau rhwng 16:00 a 18:00.

Mae'r ddwy fferyllfa sydd ar agor ar ddydd Sul ym Mangor, a rhyngddynt maent ar agor rhwng 10.00 a 16.30. Oriau agor ychwanegol yw'r rhain.

Mae'r bwrdd iechyd yn gofyn i'r fferyllfeydd a fyddant ar agor ar wyliau cyhoeddus a gwyliau banc a Sul y Pasg. Mae'r ymatebion yn cael eu casglu, ac mae'r bwrdd iechyd yn sefydlu a oes unrhyw fylchau daearyddol yn y ddarpariaeth ai peidio. Pan fydd bwlch, bydd fferyllfa naill ai'n cael ei chomisiynu neu ei chyfarwyddo i agor.

Ymatebodd pum fferyllfa i holiadur contractwr fferyllol a daw'r wybodaeth ganlynol o'r ymatebion hynny.

Mae'r pum fferyllfa hyn yn hygyrch i gadeiriau olwyn, ac mae gan bob un ardal ymgynghori sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn. Mae gan y pum ardal ymgynghori:

- ystafelloedd preifat
- ardal ddynodedig lle gall y claf a'r fferyllydd eistedd i lawr gyda'i gilydd a siarad gyda llais arferol heb gael eu clywed
- maent wedi'u dynodi'n glir fel ardaloedd ar gyfer ymgynghoriadau cyfrinachol sydd ar wahân i'r ardaloedd yn y fferyllfa ar gyfer y cyhoedd.

Cadarnhaodd pob un o'r pum fferyllfa fod ganddynt siaradwyr Cymraeg. Cadarnhaodd un fferyllfa fod staff hefyd yn siarad Arabeg ac ieithoedd Ghana, a chadarnhaodd un arall eu bod yn gallu siarad Maleieg a Rwmaneg.

Mae'r pum fferyllfa yn gweinyddu presgripsiynau ar gyfer pob math o gyfarpar.

Mae pob un o'r pum fferyllfa'n casglu presgripsiynau gan bractisau meddygon teulu. O ran danfon eitemau wedi'u gweinyddu, mae tair fferyllfa'n darparu gwasanaeth danfon i grwpiau penodol o gleifion.

Cafwyd un awgrym ar gyfer gwasanaeth presennol nad yw'n cael ei ddarparu yn yr ardal ar hyn o bryd, sef y gwasanaeth profi a thrin dolur gwddf.

Nid oedd yr un o'r fferyllfeydd o'r farn bod angen gwasanaeth clinigol ychwanegol newydd nad yw'n cael ei ddarparu ar hyn o bryd, na bod angen gwasanaeth newydd nad yw ar gael ar hyn o bryd.

Dywedodd pedair fferyllfa fod gan eu safle ddigon o gapasiti i reoli cynnydd yn y galw, gyda'r pumed yn dweud nad oedd hynny'n wir ond y gallai wneud addasiadau i reoli'r cynnydd yn y galw. Dywedodd un fferyllfa fod ganddi ddigon o staff i reoli'r cynnydd yn y galw, gyda'r pedair arall yn dweud nad oes ganddynt ddigon o staff ond eu bod yn gwneud addasiadau i sicrhau'r cynnydd hwnnw.

Nid oes gan yr un o'r fferyllfeydd gynlluniau i ddatblygu neu ehangu eu darpariaeth gwasanaeth.

Atebodd un o'r pum practis sy'n gweinyddu presgripsiynau yr holiadur meddyg fferyllol a daw'r wybodaeth ganlynol o'r ymatebion hynny. Maent yn darparu gwasanaethau o un safle.

- Mae'r ddosbarthfa ar agor rhwng 09.00 a 13.00 a 15.00 a 17.30 o ddydd Llun i ddydd Gwener.

- Mae pob math o gyfarpar yn cael ei ddosbarthu.
- Nid yw'r practis yn darparu gwasanaeth danfon preifat.
- Mae gan y practis staff sy'n siarad Cymraeg. Ni siaredir unrhyw ieithoedd eraill, ar wahân i Saesneg.
- Nid oes gan y practis ddigon o gapasiti ar y safle na digon o staff i gynyddu'r galw am y gwasanaeth gweinyddu a byddai'n cael trafferth rheoli cynnydd o'r fath.
- Mae'r practis yn darparu cofnodion gweinyddu meddyginiaeth i gleifion mewn cartrefi gofal.

9.2.1 Gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol

Roedd yr holl fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn ac yn 2025/26 roeddent wedi darparu:

- 11,002 o ymgynghoriadau ar gyfer anhwylderau cyffredin
- 830 o ymgynghoriadau ar gyfer dulliau atal cenhedlu
- 2,219 o gyflenwadau meddyginiaethau brys

9.2.2 Adolygu meddyginiaethau wrth ryddhau

Yn 2025/26, darparodd pob un o'r fferyllfeydd y gwasanaeth hwn a chwblhau 378 o adolygiadau.

9.2.3 Gwasanaeth presgripsiynu annibynnol gan fferyllwyr

Comisiynwyd chwe fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26 a darparwyd cyfanswm o 7,459 o ymgynghoriadau yn ystod y flwyddyn.

9.2.4 Gwasanaeth brechu tymhorol rhag y ffliw

Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26 a darparwyd cyfanswm o 1,509 o frechiadau.

9.2.5 Addasu cyfarpar stoma

Nid oes yr un o'r fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn er eu bod yn rhoi presgripsiynau am gyfarpar.

9.2.6 Adolygu'r defnydd o gyfarpar

Nid oes yr un o'r fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn er eu bod yn rhoi presgripsiynau am gyfarpar.

9.2.7 Gwasanaeth cyflenwi profion llif unffordd

Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

9.2.8 Gwasanaeth profi am firysau a gludir yn y gwaed

Ni chomisiynwyd unrhyw fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

9.2.9 Gwasanaeth brechu Covid-19

Ni chomisiynwyd unrhyw fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

9.2.10 Helpa fi i stopio yn y fferyllfa

Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

9.2.11 Gwasanaeth adolygu mewnanadlyddion

Comisiynwyd pedair fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

9.2.12 Gwasanaeth cyflenwi Naloxone

Ni chomisiynwyd unrhyw fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

9.2.13 Gwasanaeth cymorth cenedlaethol i gartrefi gofal

Comisiynwyd dwy fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

9.2.14 Dychwelyd blychau offer miniog cleifion

Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

9.2.15 Gwasanaeth rhoi'r gorau i ysmygu lefel 2

Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

9.2.16 Gwasanaeth cymryd meddyginiaeth dan oruchwyliaeth

Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

9.2.17 Rhaglenni nodwyddau a chwistrellau

Comisiynwyd pedair fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

8.2.18 Gwasanaeth meddyginiaethau brys

Comisiynwyd un fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

9.3 Y ddarpariaeth bresennol o wasanaethau fferyllol y tu allan i ardal yr ardal leol

Mae rhai trigolion yn dewis defnyddio contractwyr y tu allan i'r ardal leol ac ardal y Bwrdd Iechyd:

- Er mwyn defnyddio gwasanaethau a gynigir gan gontractwyr dosbarthu cyfarpar

- Oherwydd bod y contractwr hwnnw yn agos at ble mae'n gweithio, yn siopa neu'n mynd at ddibenion hamdden neu am resymau eraill.

Er bod y rhan fwyaf o bresgripsiynau a ysgrifennwyd gan bractisau meddygon teulu yn 2024/25 wedi eu gweinyddu gan y naw fferyllfa yn yr ardal neu'r pum meddygfa fferyllol, cafodd 8.0% eu gweinyddu y tu allan i'r ardal leol.

- 6.7% gan fferyllfeydd yn Ynys Môn
- 0.7% gan gontractwyr yn Lloegr
- 0.4% gan fferyllfeydd mewn byrddau iechyd eraill yng Nghymru
- 0.1% gan fferyllfeydd yng Ngorllewin Conwy.

Yn ystod naw mis cyntaf 2025/26.8, gweinyddwyd 1% y tu allan i'r ardal leol.

- 6.7% gan fferyllfeydd yn Ynys Môn
- 0.5% gan gontractwyr yn Lloegr
- 0.3% gan fferyllfeydd yn Nwyfor a Gogledd Meirionnydd
- 0.3% gan fferyllfeydd mewn byrddau iechyd eraill yng Nghymru
- 0.1% gan fferyllfeydd yng Ngorllewin Conwy.

Yn ogystal, mae'n bosibl bod preswylwyr wedi defnyddio un neu fwy o wasanaethau fferyllol a ddarperir gan fferyllfa arall y tu allan i'r ardal leol ac ardal y Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag, nid yw'n bosibl mesur hyn o'r data a gofnodwyd.

9.4 Gwasanaethau eraill y GIG

Mae manylion gwasanaethau'r GIG sy'n effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol ar gael ym mhennod chwech.

9.5 Dewis o ran cael gwasanaethau fferyllol

Fel y gwelir yn adrannau 9.2 ac 9.3, mae'r rhai sy'n byw yn yr ardal ac sydd wedi cofrestru ag un o'r practisau meddygon teulu fel arfer yn dewis casglu eu presgripsiynau o un o'r fferyllfeydd yn yr ardal neu, os ydynt yn gymwys, i gael eu presgripsiwn o'r practis. Mae'r rhai sy'n mynd y tu hwnt i'r ardal leol fel arfer yn gwneud hynny er mwyn defnyddio fferyllfa gyfagos neu gontractwr cyfarpar dosbarthu yn ardal y bwrdd iechyd.

Yn 2024/25, gweinyddodd dros 124 o gontractwyr eitemau a ysgrifennwyd gan un o'r practisau meddygon teulu yn yr ardal hon, ac o'r rhain:

- roedd naw wedi'u lleoli yn yr ardal leol
- roedd 69 wedi'u lleoli mewn mannau eraill yn ardal y bwrdd iechyd
- roedd 42 wedi'u lleoli mewn mannau eraill yng Nghymru
- roedd nifer o bresgripsiynau wedi'u gweinyddu yn Lloegr.

Yn ystod naw mis cyntaf 2025/26, gweinyddodd dros 115 o gontractwyr eitemau a ysgrifennwyd gan un o'r practisau meddygon teulu yn yr ardal hon, ac o'r rhain:

- roedd naw wedi'u lleoli yn yr ardal leol
- roedd 66 wedi'u lleoli mewn mannau eraill yn ardal y bwrdd iechyd
- roedd 40 wedi'u lleoli mewn mannau eraill yng Nghymru
- roedd nifer o'r presgripsiynau wedi'u gweinyddu yn Lloegr.

9.6 Bylchau yn y ddarpariaeth

Wrth ystyried a oes unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth o wasanaethau fferyllol, mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod pedair fferyllfa wedi dweud bod gan eu safle ddigon o gapasiti i reoli cynnydd yn y galw, gyda'r pumed yn dweud nad oedd hynny'n wir ond y gallai wneud addasiadau i reoli'r cynnydd yn y galw. Dywedodd un fferyllfa fod ganddi ddigon o staff i reoli'r cynnydd yn y galw, gyda'r pedair arall yn dweud nad oes ganddynt ddigon o staff ond eu bod yn gwneud addasiadau i sicrhau'r cynnydd hwnnw.

9.6.1 Gwasanaethau hanfodol

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi:

- Mae'r fferyllfeydd ar wasgar mewn ardaloedd lle mae dwysedd poblogaeth ac amddifadedd uwch. Yn gyffredinol, mae'r meddygfeydd fferyllol wedi'u lleoli mewn ardaloedd lle mae'r dwysedd poblogaeth yn is.
- Nid yw rhai rhannau o'r ardal leol o fewn pellter gyrru o 20 munud i fferyllfa, ond nid oes poblogaeth breswyl yn yr ardaloedd hynny.
- Nifer disgwyliedig y tai newydd ar gyfer yr ardal leol.
- Oriau agor y fferyllfeydd.

Nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw angen ar hyn o bryd i ddarparu gwasanaethau hanfodol yn yr ardal hon.

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi, pe bai gwasanaethau hanfodol yn cael eu colli oherwydd bod fferyllfa'n cael ei thynnu oddi ar y rhestr fferyllol, y bydd angen un o'r canlynol yn y dyfodol:

- fferyllfa newydd yn yr un dref/pentref sy'n darparu gwasanaethau hanfodol, y gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol, dychwelyd blychau miniog cleifion, gwasanaeth gweinyddu meddyginiaeth dan oruchwyliaeth, Helpa Fi i Stopio yn y fferyllfa, a gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu lefel 2 am 40 o oriau agor craidd yr wythnos
- y gwasanaeth gweinyddu presgripsiynau gan feddygon teulu os yw'r dref/pentref mewn ardal reoledig

oni bai bod fferyllfa arall yn y dref/pentref honno ac yna ni fydd yr angen hwn yn codi yn y dyfodol.

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi, pe bai oriau agor atodol yn cael eu colli ar ddydd Sadwrn o 1 Hydref 2026 ymlaen, a fyddai'n arwain at lai na thair awr o ddarpariaeth gwasanaethau fferyllol mewn tref/pentref, y bydd angen yn y dyfodol i agor am dair awr graidd ar ddydd Sadwrn yn y dref/pentref neu drefi/pentrefi lle mae'r gostyngiad

mewn oriau agor atodol wedi digwydd, rhwng 09.00 a 17.00, oni bai bod fferyllfa arall yn y dref/pentref honno ac yna ni fydd yr angen yn codi yn y dyfodol.

Os bydd practis meddygon teulu yn rhoi'r gorau i weinyddu presgripsiynau i ardal y mae ganddo gydsyniad amlinellol ar ei chyfer, mae'r bwrdd iechyd wedi nodi y bydd angen un o'r canlynol yn y dyfodol:

- darparu gwasanaeth gweinyddu presgripsiynau gan feddygon teulu yn yr ardal honno tra bo'n parhau i fod yn ardal reoledig ac yn fwy na 1.6km mewn llinell syth o fferyllfa
- fferyllfa sydd ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener o leiaf, ac sy'n darparu:
    - yr holl wasanaethau hanfodol
    - y gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol, dychwelyd blychau miniog cleifion, gwasanaeth cymryd meddyginiaeth dan oruchwyliaeth, Helpa fi i Stopio yn y fferyllfa, a gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu lefel 2.

9.6.2 Gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod yr holl fferyllfeydd wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Felly, nid yw wedi nodi unrhyw anghenion presennol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal, nac anghenion yn y dyfodol.

9.6.3 Adolygu meddyginiaethau wrth ryddhau

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi'r holl fferyllfeydd a ddarparodd y gwasanaeth hwn yn 2025/26. Felly, nid yw wedi nodi unrhyw anghenion presennol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal, nac anghenion yn y dyfodol.

9.6.4 Gwasanaeth presgripsiynu annibynnol gan fferyllwyr

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi:

- Comisiynwyd chwe fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.
- Y dyhead a nodir yn Fferylliaeth: Cyflawni Cymru Iachach yw i bob fferyllfa gael presgripsiynydd annibynnol erbyn 2030 ac mae wedi gosod targedau interim i 50% o fferyllfeydd ddarparu'r gwasanaeth hwn ym mhob ardal erbyn mis Ebrill 2027 a 70% erbyn mis Ebrill 2029.
- O 2026 ymlaen, rhagwelir y bydd pob fferyllydd sydd newydd gymhwyso hefyd yn cymhwyso fel presgripsiynydd annibynnol ar ôl cwblhau ei raglen israddedig.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

Os na fydd y targedau interim yn cael eu cyrraedd, bydd angen yn y dyfodol i ddigon o fferyllfeydd yn yr ardal ddarparu'r gwasanaeth hwn er mwyn cyrraedd y ddau darged.

9.6.5 Gwasanaeth brechu tymhorol rhag y ffliw

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod yr holl fferyllfeydd wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Felly, nid yw wedi nodi unrhyw anghenion presennol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal, nac anghenion yn y dyfodol.

9.6.6 Addasu cyfarpar stoma

Er nad oes fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn, mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi bod presgripsiynau am gyfarpar yn cael eu gweinyddu gan gontractwyr mewn mannau eraill yng Nghymru a hefyd yn Lloegr.

Rhagwelir felly y bydd y contractwyr hyn yn addasu cyfarpar stoma yn ôl yr angen cyn eu hanfon neu eu danfon at gleifion.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

9.6.7 Adolygu'r defnydd o gyfarpar

Er nad oes fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn, mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi bod presgripsiynau am gyfarpar yn cael eu gweinyddu gan gontractwyr mewn mannau eraill yng Nghymru a hefyd yn Lloegr.

Mae unigolion y mae angen y gwasanaeth adolygu defnydd o gyfarpar arnynt yn debygol o gael mynediad at y gwasanaeth hwn gan y contractwr sy'n gweinyddu eu presgripsiynau am gyfarpar neu gallai gael mynediad ato gan ddarparwyr gofal iechyd eraill fel nyrsys stoma.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

9.6.8 Gwasanaeth cyflenwi profion llif unffordd

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod saith fferyllfa wedi'i chomisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Mae hefyd wedi nodi bod y gwasanaeth hwn ar gael i grwpiau penodol o gleifion yn unig. O ganlyniad, mae'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal leol ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

9.6.9 Gwasanaeth profi am firysau a gludir yn y gwaed

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi nad oedd unrhyw fferyllfa wedi'i chomisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Fodd bynnag, mae darparwyr eraill i'r gwasanaeth, er enghraifft tîm lleihau niwed y Bwrdd Iechyd.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

9.6.10 Gwasanaeth brechu Covid-19

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi nad oedd unrhyw fferyllfa wedi'i chomisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Mae hefyd wedi nodi bod practisau meddygon teulu a thîm brechu'r Bwrdd Iechyd yn darparu'r gwasanaeth.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

9.6.11 Helpa fi i stopio yn y fferyllfa

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod yr holl fferyllfeydd wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Felly, nid yw wedi nodi unrhyw anghenion presennol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal, nac anghenion yn y dyfodol.

9.6.12 Gwasanaeth adolygu mewnanadlyddion

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi:

- Comisiynwyd pedair fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.
- Mae practisau meddygon teulu hefyd yn darparu'r gwasanaeth.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

9.6.13 Gwasanaeth cyflenwi Naloxone

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi nad oedd unrhyw fferyllfa wedi'i chomisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Fodd bynnag, mae darparwyr eraill y gwasanaeth, er enghraifft tîm lleihau niwed y bwrdd iechyd a'r gwasanaeth 'clicio a danfon' a ddarperir gan DAN24/7.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

9.6.14 Gwasanaeth cymorth cenedlaethol i gartrefi gofal

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi:

- Comisiynwyd dwy fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.
- Mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu gan fferyllfeydd i'r cartrefi gofal y maent yn darparu gwasanaethau iddynt, neu lle mae cartref gofal wedi gofyn am y gwasanaeth.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

9.6.15 Dychwelyd blychau offer miniog cleifion

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod yr holl fferyllfeydd wedi'u comisiynu i ddarparu'r

gwasanaeth hwn yn 2025/26. Felly, nid yw wedi nodi unrhyw anghenion presennol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal, nac anghenion yn y dyfodol.

9.6.16 Rhoi'r Gorau i Ysmygu Lefel 2

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod yr holl fferyllfeydd wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Felly, nid yw wedi nodi unrhyw anghenion presennol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal, nac anghenion yn y dyfodol.

9.6.17 Gwasanaeth cymryd meddyginiaeth dan oruchwyliaeth

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod yr holl fferyllfeydd wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Felly, nid yw wedi nodi unrhyw anghenion presennol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal, nac anghenion yn y dyfodol.

9.6.18 Rhaglen nodwyddau a chwistrellau

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi:

- Comisiynwyd pedair fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.
- Mae darparwyr eraill i'r gwasanaeth, ac mae gwasanaeth postio'n cael ei sefydlu ar gyfer y rhai nad ydynt yn gallu defnyddio fferyllfa.
- Os gofynnir i fferyllfa ddarparu'r gwasanaeth, gall gysylltu â'r bwrdd iechyd a gofyn am gael ei chomisiynu i'w ddarparu.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

8.6.19 Gwasanaeth meddyginiaethau brys

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod un fferyllfa wedi'i chomisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Oherwydd natur y gwasanaeth, caiff ei gomisiynu i sicrhau lledaeniad daearyddol da o fferyllfeydd sy'n ei ddarparu ar draws daearyddiaeth y bwrdd iechyd.

Felly nid yw'r bwrdd iechyd wedi canfod unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol yn ymwneud â'r gwasanaeth hwn yn yr ardal leol.

9.6.20 Gwasanaeth gweinyddu presgripsiynau gan Feddygon Teulu

Nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol mewn perthynas â'r gwasanaeth hwn.

Os bydd practis meddygon teulu yn rhoi'r gorau i weinyddu presgripsiynau i ardal y mae ganddo gydsyniad amlinellol ar ei chyfer, mae'r bwrdd iechyd wedi nodi y bydd angen un o'r canlynol yn y dyfodol:

- darparu gwasanaeth gweinyddu presgripsiynau gan feddygon teulu yn yr ardal honno tra bo'n parhau i fod yn ardal reoledig ac yn fwy na 1.6km mewn llinell syth o fferyllfa

- fferyllfa sydd ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener o leiaf, ac sy'n darparu:
    - yr holl wasanaethau hanfodol
    - y gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol, offer miniog cleifion, rhoi'r gorau i ysmygu lefel 2, a Helpa Fi i Stopio yn y gwasanaeth fferylliaeth.

10 Ardal Dwyfor a Gogledd Meirionnydd

10.1 Ffeithiau allweddol

- Mae gan Wynedd boblogaeth o 120,813, sef yr ail uchaf o'r chwe awdurdod unedol yng Ngogledd Cymru.
- Mae'r dwysedd poblogaeth yn 0.4 person fesul hectar, o'i gymharu ag 1.1 ar gyfer Gogledd Cymru ac 1.5 ar gyfer Cymru[144].
- Mae 23.4% o boblogaeth Gwynedd yn 65 oed neu'n hŷn. Mae hyn yn uwch na chyfartaledd Cymru o 21.7% ond ychydig yn is na chyfartaledd y bwrdd iechyd o 24.0%.
- Mae 15.2% o boblogaeth yr ardal rhwng 0 a 15 oed, sy'n is na chyfartaledd Cymru o 17.1% a chyfartaledd y bwrdd iechyd o 16.7%.
- Mae 22.2% o boblogaeth yr ardal rhwng 66 a 84 oed, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru o 17.7% a chyfartaledd y bwrdd iechyd o 19.6%.
- Mae 4.2% o boblogaeth yr ardal leol yn 85 oed ac yn hŷn, sy'n uwch na chyfartaledd y bwrdd iechyd o 3.1% ac yn uwch na chyfartaledd Cymru o 2.7%.
- Disgwylir i boblogaeth gyffredinol y bwrdd iechyd gynyddu ychydig dros 50,000 o breswylwyr (6.8%) rhwng 2022 a 2047. Ar lefel awdurdodau unedol, disgwylir y cynnydd mwyaf yng Ngwynedd (10.8%) a Sir Ddinbych (10.4%).
- Gwynedd sydd â'r ganran uchaf o oedolion sy'n gallu siarad Cymraeg, sef 64.0%. Y cyfartaledd ar gyfer Cymru gyfan yw 18.0%.
- Gwynedd sydd â'r gyfran uchaf o aelwydydd un person ar draws y bwrdd iechyd (34.6%), er bod y ffigur yn uwch yn yr ardal ar 35.9%; mae 18.6% o aelwydydd un person yr ardal yn cael eu meddiannu gan un deiliad 66 oed a hŷn.
- Nid oes gan 17.7% o'r aelwydydd gar na fan.
- Nid oes dim o'r boblogaeth yn byw yn yr 20% mwyaf difreintiedig o Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru[145].
- Yng Ngwynedd, mae disgwyliad oes dynion yn 79.2 a menywod yn 83.1[146]
- Mae disgwyliad oes iach yng Ngwynedd yn 64.9 mlynedd ar gyfer dynion a 65.0 mlynedd ar gyfer menywod ac mae'r bwlch anghydraddoldeb o ran disgwyliad oes iach yng Ngwynedd yn 3.0 blynedd ar gyfer dynion a 2.8 mlynedd ar gyfer menywod.
- Mae 31.2% o blant pedair a phump oed yn Nwyfor ac yng Ngogledd Meirionnydd dros eu pwysau neu'n ordew.
- Mae bron i 37% o bobl ifanc rhwng 11 a 16 oed yng Ngogledd Cymru yn dweud eu bod yn yfed alcohol o'i gymharu â 35.6% ledled Cymru. Mae'r lefelau uchaf o yfed alcohol a gofnodwyd ar draws y rhanbarth yn Sir y Fflint (39.3%) a Gwynedd (38.2%).
- Dangosir data ar ymddygiad a ffyrdd iach o fyw ar gyfer oedolion yng Ngwynedd isod.

[144] Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru - Proffil ystadegol clwstwr gofal sylfaenol Dwyfor a Gogledd Meirionnydd 2025
[145] Iechyd Cyhoeddus Cymru - Dangosfwrdd clystyrau gofal sylfaenol
[146] Data InfoBaseCymru ar gyfer Cymru ddeallus - Disgwyliad oes dynion a menywod (2020 i 2022)

Ardal	Yn gorfforol egnïol am o leiaf 60 munud bob dydd	Yn bwyta o leiaf un dogn o ffrwythau neu lysiau bob dydd	Yn ysmygu tybaco o leiaf unwaith yr wythnos	Yn defnyddio e-sigarennau o leiaf unwaith yr wythnos	Yn dweud eu bod yn yfed alcohol
Gwynedd	18.3%	50.2%	3.4%	6.6%	38.2%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	18.3%	45.7%	3.3%	8.2%	36.8%
Cymru	18.3%	46.5%	2.6%	6.9%	35.6%

- Mae nifer y cleifion sydd â chyflyrau cronig fel yr adroddwyd ar gofrestrau clefydau Iechyd a Gofal Digidol Cymru, Ebrill 2025, i'w gweld isod.

Cofrestr clefydau	Dwyfor a Gogledd Meirionnydd	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	Cymru
Asthma	7.6%	7.6%	7.1%
Ffibriliad atrïaidd	3.0%	2.8%	2.7%
Canser	5.0%	4.3%	3.7%
Clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint	2.8%	2.7%	2.3%
Diabetes	8.3%	8.3%	8.4%
Epilepsi	0.9%	0.9%	1.0%
Methiant y galon	1.3%	1.4%	1.4%
Gorbwysedd	20.0%	17.9%	16.3%
Trawiad isgemig byrhoedlog oherwydd strôc	2.4%	2.3%	2.2%
Atal clefyd coronaidd y galon am yr eildro	3.4%	3.6%	3.4%

- Yr ardal hon sydd â'r gyfradd uchaf o bwysedd gwaed uchel o'i gymharu â gweddill Gogledd Cymru.

Mae Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011 - 2026[147] yn nodi y bydd 393 o unedau tai ychwanegol yn cael eu hadeiladu ym Mangor. Nodir bod y seithfed adroddiad monitro blynyddol ar y cynllun datblygu lleol ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025 wedi cadarnhau mai 212, sy'n is na'r gofyniad blynyddol cyfartalog o 479 uned, oedd nifer yr unedau a gwblhawyd yn 2024/25. Cadarnhaodd yr adroddiad hefyd fod 2,687 o unedau wedi'u cwblhau rhwng 2011/12 a 2024/25, tra bod y trywydd yn rhagweld ffigur o 3,487 o unedau.


[147] Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011 – 2026

10.2 Y ddarpariaeth bresennol o wasanaethau fferyllol o fewn ardal yr Awdurdod Lleol

Mae 13 fferyllfa yn yr ardal sy'n cael eu rhedeg gan bedwar contractwr gwahanol. Mae dwy fferyllfa yn rhan o'r cynllun fferyllfa fach hanfodol. O'r chwe phractis meddygon teulu, mae dau yn gweinyddu presgripsiynau o ddau safle. Y lefel gweinyddu presgripsiynau yw 57.4% o boblogaeth gofrestredig un practis a 66.2% o boblogaeth gofrestredig y practis arall.

Mae'r map isod yn dangos lleoliad y fferyllfeydd a'r meddygfeydd fferyllol. Dylid nodi, pan fydd safleoedd yn agos at ei gilydd, y bydd y symbolau'n gorgyffwrdd.

Map 10.1 – lleoliad fferyllfeydd a safleoedd meddygfeydd fferyllol



© OpenStreetMap © CARTO

Safleoedd meddygfeydd fferyllol Fferyllfa

Yn 2025/26, cafodd 82.8% o bresgripsiynau a ysgrifennwyd gan bractisau meddygon teulu yn yr ardal eu gweinyddu gan fferyllfa yn yr ardal, a chafodd 13.2% o'r eitemau ar bresgripsiwn eu gweinyddu neu eu rhoi'n bersonol gan y meddygfeydd fferyllol. Er nad yw'r data sydd ar gael yn dangos y rhaniad canrannol rhwng eitemau wedi'u gweinyddu ac eitemau a roddwyd yn bersonol, ar sail y lefelau rhoi'n bersonol mewn mannau eraill yng Nghymru, gellir tybio bod llai na 2% o'r eitemau wedi cael eu rhoi'n bersonol.

Yn ystod naw mis cyntaf 2025/26, cafodd 84.0% o bresgripsiynau a ysgrifennwyd gan bractisau meddygon teulu yn yr ardal eu gweinyddu gan fferyllfa yn yr ardal, a chafodd 13.7% o'r eitemau ar bresgripsiwn eu gweinyddu neu eu rhoi'n bersonol gan y meddygfeydd fferyllol.

Mae'r map ym mhennod 5 yn dangos rhai rhannau o'r ardal leol nad ydynt o fewn taith car o 20 munud i fferyllfa. Mae'r ardal yn ne-orllewin yr ardal leol yn cynnwys tai, ffermydd, a safleoedd carafannau a gwersylla wedi'u gwasgaru ar hyd yr arfordir. Mae'r ardal i'r gorllewin o Flaenau Ffestiniog ym Mharc Cenedlaethol Eryri ac nid yw'n cynnwys unrhyw boblogaeth breswyl. Mae'r ardaloedd o amgylch Harlech naill ai'n warchodfeydd natur, rhosydd, neu ardaloedd mynyddig gyda fawr ddim poblogaeth breswyl neu ddim poblogaeth breswyl o gwbl.

Dyddiau agor y fferyllfeydd:

- Mae un ar agor o ddydd Llun i ddydd Iau (Trawsfynydd)
- Mae dwy ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener
- Mae pedair ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener ac am oriau cyfyngedig ar ddydd Sadwrn
- Mae pump ar agor o ddydd Llun i ddydd Sadwrn
- Mae un ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener ac am oriau cyfyngedig ar ddydd Sul

Oriau agor y fferyllfeydd hyn rhwng dydd Llun a dydd Gwener:

- Mae'r holl fferyllfeydd yn agor am 09.00
- Mae'r amseroedd cau yn amrywio rhwng 17.30 a 18.30.

Comisiynwyd pum fferyllfa i aros ar agor am 30 munud ychwanegol o ddydd Llun i ddydd Gwener (17.30 i 18.00) yn 2025/26.

Mae deg fferyllfa'n cau am ginio ar adegau amrywiol rhwng 12.30 a 14.00. Mae gweddill y fferyllfeydd ar agor drwy'r dydd.

Ar ddydd Sadwrn, mae naw fferyllfa yn agor am 09.00. O'r pum fferyllfa sydd ar agor drwy'r dydd, mae tair yn cau am ginio rhwng 12:30 a 13.40. Maent yn cau rhwng 16:00 a 17.30. Mae gan wyth fferyllfa oriau agor craidd ar ddydd Sadwrn.

Mae un fferyllfa ym Mhenrhyndeudraeth ar agor rhwng 10:30 a 14:30 ar ddydd Sul. Yr oriau agor craidd yw'r rhain.

Mae'r bwrdd iechyd yn gofyn i'r fferyllfeydd a fyddant ar agor ar wyliau cyhoeddus a gwyliau banc a Sul y Pasg. Mae'r ymatebion yn cael eu casglu, ac mae'r bwrdd iechyd yn sefydlu a oes unrhyw fylchau daearyddol yn y ddarpariaeth ai peidio. Pan fydd bwlch, bydd fferyllfa naill ai'n cael ei chomisiynu neu ei chyfarwyddo i agor.

Ymatebodd saith fferyllfa i holiadur contractwr fferyllol a daw'r wybodaeth ganlynol o'r ymatebion hynny.

Mae chwe fferyllfa yn hygyrch i gadeiriau olwyn, ac mae'r saith ardal ymgynghori yn hygyrch i gadeiriau olwyn. Mae gan y naw ardal ymgynghori:

- ystafelloedd preifat
- ardal ddynodedig lle gall y claf a'r fferyllydd eistedd i lawr gyda'i gilydd a siarad gyda llais arferol heb gael eu clywed

- maent wedi'u dynodi'n glir fel ardaloedd ar gyfer ymgynghoriadau cyfrinachol sydd ar wahân i'r ardaloedd yn y fferyllfa ar gyfer y cyhoedd.

Cadarnhaodd pob un o'r saith fferyllfa fod ganddynt siaradwyr Cymraeg. Dywedodd un fferyllfa hefyd eu bod yn gallu siarad Wrdw.

Mae pob un o'r saith fferyllfa yn gweinyddu presgripsiynau ar gyfer pob math o gyfarpar.

Mae pob un o'r saith fferyllfa'n casglu presgripsiynau gan bractisau meddygon teulu. O ran danfon eitemau sy'n cael eu gweinyddu, mae chwe fferyllfa'n cynnig gwasanaeth danfon i grwpiau penodol o gleifion (cleifion sy'n gaeth i'r tŷ, a chleifion oedrannus ac agored i niwed sy'n gaeth i'r tŷ) ac mae un yn ystyried cyflwyno newid i'w gwasanaeth.

Dywedodd dwy fferyllfa fod angen gwasanaeth clinigol ychwanegol nad yw'n cael ei ddarparu yn yr ardal ar hyn o bryd:

- brechiadau iechyd teithio ar y GIG – mae staff hyfforddedig yn cynnig gwasanaethau iechyd teithio yn breifat ar hyn o bryd
- microsugno'r glust.

Roedd un fferyllfa o'r farn bod angen gwasanaeth ychwanegol newydd nad yw ar gael ar hyn o bryd:

- gwirio mannau geni, a
- cryotherapi.

Cadarnhaodd pob un o'r saith fferyllfa fod ganddynt ddigon o gapasiti yn eu safle presennol i reoli cynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn eu darparu. Mae gan un fferyllfa ddigon o staff, ond nid oes gan y chwech arall, ond gallant wneud addasiadau i reoli'r cynnydd yn y galw.

Mae un fferyllfa yn bwriadu ychwanegu estyniad yn y 12 i 18 mis nesaf, os gall wneud cais am grant a'i dderbyn. Byddai hyn yn caniatáu ychwanegu ail ystafell ymgynghori, yn cynyddu maint y ddosbarthfa ac yn darparu gwell cyfleusterau i staff. Mae un arall yn ystyried darparu mwy o wasanaethau preifat.

Nid oedd yr un o'r meddygfeydd fferyllol wedi ymateb i'r holiadur meddyg fferyllol.

10.2.1 Gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol

Roedd yr holl fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn ac yn 2025/26 roeddent wedi darparu:

- 10,092 o ymgynghoriadau ar gyfer anhwylderau cyffredin
- 362 o ymgynghoriadau ar gyfer dulliau atal cenhedlu
- 3,010 o gyflenwadau meddyginiaethau brys

10.2.2 Adolygu meddyginiaethau wrth ryddhau

Yn 2025/26, darparodd pob un o'r fferyllfeydd y gwasanaeth hwn a chwblhau 534 o adolygiadau.

10.2.3 Gwasanaeth presgripsiynu annibynnol gan fferyllwyr

Comisiynwyd saith fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26 a darparwyd cyfanswm o 6,200 o ymgynghoriadau yn ystod y flwyddyn.

10.2.4 Brechiad tymhorol rhag y ffliw

Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26 a darparwyd cyfanswm o 2,804 o frechiadau.

10.2.5 Addasu cyfarpar stoma

Nid oes yr un o'r fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn er eu bod yn rhoi presgripsiynau am gyfarpar.

10.2.6 Adolygu'r defnydd o gyfarpar

Nid oes yr un o'r fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn er eu bod yn rhoi presgripsiynau am gyfarpar.

10.2.7 Gwasanaeth cyflenwi profion llif unffordd

Comisiynwyd 12 fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

10.2.8 Gwasanaeth profi am firysau a gludir yn y gwaed

Comisiynwyd dwy fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

10.2.9 Gwasanaeth brechu Covid-19

Comisiynwyd chwe fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

10.2.10 Helpa fi i stopio yn y fferyllfa

Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

10.2.11 Gwasanaeth adolygu mewnanadlyddion

Comisiynwyd 11 fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

10.2.12 Gwasanaeth cyflenwi Naloxone

Comisiynwyd un fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

10.2.13 Gwasanaeth cymorth cenedlaethol i gartrefi gofal

Comisiynwyd pum fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

10.2.14 Dychwelyd blychau offer miniog cleifion

Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

10.2.15 Rhoi'r Gorau i Ysmygu lefel 2

Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

10.2.16 Gwasanaeth cymryd meddyginiaeth dan oruchwyliaeth

Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

10.2.17 Rhaglenni nodwyddau a chwistrellau

Comisiynwyd pum fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

10.2.18 Gwasanaeth meddyginiaethau brys

Comisiynwyd un fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

10.3 Y ddarpariaeth bresennol o wasanaethau fferyllol y tu allan i'r ardal leol

Mae rhai trigolion yn dewis defnyddio contractwyr y tu allan i'r ardal leol ac ardal y Bwrdd Iechyd:

- Er mwyn defnyddio gwasanaethau a gynigir gan gontractwyr dosbarthu cyfarpar
- Oherwydd bod y contractwr hwnnw yn agos at ble mae'n gweithio, yn siopa neu'n mynd at ddibenion hamdden neu am resymau eraill.

Er bod y rhan fwyaf o bresgripsiynau a ysgrifennwyd gan bractisau meddygon teulu yn 2025/26 wedi eu gweinyddu gan fferyllfeydd neu feddygfeydd fferyllol yr ardal, cafodd 2.8% eu gweinyddu y tu allan i'r ardal leol.

- 2.2% gan gontractwyr yn Lloegr
- 0.4% mewn mannau eraill yng Nghymru
- 0.1% gan fferyllfeydd yn Arfon
- 0.1% gan fferyllfeydd yn Ne Meirionnydd

Yn ystod naw mis cyntaf 2025/26, gweinyddwyd 1.9% o'r eitemau y tu allan i'r ardal leol:

- 1.4% gan gontractwyr yn Lloegr
- 0.4% mewn mannau eraill yng Nghymru

- 0.1% gan fferyllfeydd yn Ne Meirionnydd

Yn ogystal, mae'n bosibl bod preswylwyr wedi defnyddio un neu fwy o wasanaethau fferyllol a ddarperir gan fferyllfa arall y tu allan i'r ardal leol ac ardal y Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag, nid yw'n bosibl mesur hyn o'r data a gofnodwyd.

10.4 Gwasanaethau eraill y GIG

Mae manylion gwasanaethau'r GIG sy'n effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol ar gael ym mhennod chwech.

10.5 Dewis o ran cael gwasanaethau fferyllol

Fel y gwelir yn adrannau 10.2 ac 10.3, mae'r rhai sy'n byw yn yr ardal ac sydd wedi cofrestru ag un o'r practisau meddygon teulu fel arfer yn dewis casglu eu presgripsiynau o un o'r fferyllfeydd yn yr ardal neu, os ydynt yn gymwys, i gael eu presgripsiwn o'r practis. Mae'r rhai sy'n mynd y tu hwnt i'r ardal leol fel arfer yn gwneud hynny er mwyn defnyddio fferyllfa gyfagos neu gontractwr cyfarpar dosbarthu yn ardal y bwrdd iechyd.

Yn 2024/25, gweinyddodd dros 107 o gontractwyr eitemau a ysgrifennwyd gan un o'r practisau meddygon teulu yn yr ardal hon, ac o'r rhain:

- roedd 15 wedi'u lleoli yn yr ardal
- roedd 60 wedi'u lleoli mewn mannau eraill yn ardal y bwrdd iechyd
- roedd 32 wedi'u lleoli mewn mannau eraill yng Nghymru
- roedd nifer o'r presgripsiynau wedi'u gweinyddu yn Lloegr.

Yn ystod naw mis cyntaf 2025/26, gweinyddodd dros 72 o gontractwyr eitemau a ysgrifennwyd gan un o'r practisau meddygon teulu yn yr ardal hon, ac o'r rhain:

- roedd 13 wedi'u lleoli yn yr ardal
- roedd 40 wedi'u lleoli mewn mannau eraill yn ardal y bwrdd iechyd
- roedd 19 wedi'u lleoli mewn mannau eraill yng Nghymru
- roedd nifer o bresgripsiynau wedi'u gweinyddu yn Lloegr.

10.6 Bylchau yn y ddarpariaeth

Wrth ystyried a oes unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth o wasanaethau fferyllol, mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod saith fferyllfa wedi cadarnhau bod ganddynt ddigon o gapasiti yn eu safle presennol i reoli cynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn eu darparu. Mae gan un fferyllfa ddigon o staff, ond nid oes gan y chwech arall, ond gallant wneud addasiadau i reoli'r cynnydd yn y galw.

10.6.1 Gwasanaethau hanfodol

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi:

- Mae'r fferyllfeydd wedi'u gwasgaru ar draws yr ardal leol ac maent wedi'u lleoli mewn ardaloedd lle mae dwysedd poblogaeth uwch. Mae'r meddygfeydd fferyllol wedi'u lleoli mewn ardaloedd o amddifadedd is.
- Nid yw rhai rhannau o'r ardal leol o fewn pellter gyrru o 20 munud i fferyllfa, ond ychydig iawn o boblogaeth breswyl neu ddim poblogaeth breswyl o gwbl sydd yn yr ardaloedd hynny.
- Oriau agor y fferyllfeydd.

Nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw angen ar hyn o bryd i ddarparu gwasanaethau hanfodol yn yr ardal hon.

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi, pe bai oriau agor atodol yn cael eu colli ar ddydd Sadwrn o 1 Hydref 2026 ymlaen, a fyddai'n arwain at lai na thair awr o ddarpariaeth gwasanaethau fferyllol mewn tref/pentref, y bydd angen yn y dyfodol i agor am dair awr graidd ar ddydd Sadwrn yn y dref/pentref neu drefi/pentrefi lle mae'r gostyngiad mewn oriau agor atodol wedi digwydd, rhwng 09.00 a 17.00, oni bai bod fferyllfa arall yn y dref/pentref honno ac yna ni fydd yr angen yn codi yn y dyfodol.

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi, pe bai gwasanaethau hanfodol yn cael eu colli oherwydd bod fferyllfa'n cael ei thynnu oddi ar y rhestr fferyllol, y bydd angen un o'r canlynol yn y dyfodol:

- fferyllfa newydd yn yr un dref/pentref sy'n darparu gwasanaethau hanfodol, y gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol, dychwelyd blychau miniog cleifion, gwasanaeth gweinyddu dan oruchwyliaeth, Helpa Fi i Stopio yn y fferyllfa, a gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu lefel 2
- y gwasanaeth gweinyddu presgripsiynau gan feddygon teulu os yw'r dref/pentref mewn ardal reoledig

oni bai bod fferyllfa arall yn y dref/pentref honno ac yna ni fydd yr angen hwn yn codi yn y dyfodol.

Os bydd practis meddygon teulu yn rhoi'r gorau i weinyddu presgripsiynau i ardal y mae ganddo gydsyniad amlinellol ar ei chyfer, mae'r bwrdd iechyd wedi nodi y bydd angen un o'r canlynol yn y dyfodol:

- darparu gwasanaeth gweinyddu presgripsiynau gan feddygon teulu yn yr ardal honno tra bo'n parhau i fod yn ardal reoledig ac yn fwy na 1.6km mewn llinell syth o fferyllfa
- fferyllfa sydd ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener o leiaf, ac sy'n darparu:
    - yr holl wasanaethau hanfodol
    - y gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol, dychwelyd blychau miniog cleifion, gwasanaeth cymryd meddyginiaeth dan oruchwyliaeth, Helpa fi i Stopio yn y fferyllfa, a gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu lefel 2.

10.6.2 Gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod yr holl fferyllfeydd wedi'u comisiynu i ddarparu'r

gwasanaeth hwn yn 2025/26. Felly, nid yw wedi nodi unrhyw anghenion presennol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal, nac anghenion yn y dyfodol.

10.6.3 Adolygu meddyginiaethau wrth ryddhau

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi'r holl fferyllfeydd a ddarparodd y gwasanaeth hwn yn 2025/26. Felly, nid yw wedi nodi unrhyw anghenion presennol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal, nac anghenion yn y dyfodol.

10.6.4 Gwasanaeth presgripsiynu annibynnol gan fferyllwyr

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi:

- Comisiynwyd saith fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.
- Y dyhead a nodir yn Fferylliaeth: Cyflawni Cymru Iachach yw i bob fferyllfa gael presgripsiynydd annibynnol erbyn 2030 ac mae wedi gosod targedau interim i 50% o fferyllfeydd ddarparu'r gwasanaeth hwn ym mhob ardal erbyn mis Ebrill 2027 a 70% erbyn mis Ebrill 2029.
- O 2026 ymlaen, rhagwelir y bydd pob fferyllydd sydd newydd gymhwyso hefyd yn cymhwyso fel presgripsiynydd annibynnol ar ôl cwblhau ei raglen israddedig

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

Os na fydd y targedau interim yn cael eu cyrraedd, bydd angen yn y dyfodol i ddigon o fferyllfeydd yn yr ardal ddarparu'r gwasanaeth hwn er mwyn cyrraedd y ddau darged.

10.6.5 Gwasanaeth brechu tymhorol rhag y ffliw

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod yr holl fferyllfeydd wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Felly, nid yw wedi nodi unrhyw anghenion presennol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal, nac anghenion yn y dyfodol.

10.6.6 Addasu cyfarpar stoma

Er nad oes fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn, mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi bod presgripsiynau am gyfarpar yn cael eu gweinyddu gan gontractwyr mewn mannau eraill yng Nghymru a hefyd yn Lloegr.

Rhagwelir felly y bydd y contractwyr hyn yn addasu cyfarpar stoma yn ôl yr angen cyn eu hanfon neu eu danfon at gleifion.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

10.6.7 Adolygu'r defnydd o gyfarpar

Er nad oes fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn, mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi

bod presgripsiynau am gyfarpar yn cael eu gweinyddu gan gontractwyr mewn mannau eraill yng Nghymru a hefyd yn Lloegr.

Mae unigolion y mae angen y gwasanaeth adolygu defnydd o gyfarpar arnynt yn debygol o gael mynediad at y gwasanaeth hwn gan y contractwr sy'n gweinyddu eu presgripsiynau am gyfarpar neu gallai gael mynediad ato gan ddarparwyr gofal iechyd eraill fel nyrsys stoma.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

10.6.8 Gwasanaeth cyflenwi profion llif unffordd

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod saith fferyllfa wedi'i chomisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Mae hefyd wedi nodi bod y gwasanaeth hwn ar gael i grwpiau penodol o gleifion yn unig. O ganlyniad, mae'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal leol ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

10.6.9 Gwasanaeth profi am firysau a gludir yn y gwaed

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi nad oedd unrhyw fferyllfa wedi'i chomisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Fodd bynnag, mae darparwyr eraill i'r gwasanaeth, er enghraifft tîm lleihau niwed y Bwrdd Iechyd.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

10.6.10 Gwasanaeth brechu Covid-19

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi nad oedd unrhyw fferyllfa wedi'i chomisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Mae hefyd wedi nodi bod practisau meddygon teulu a thîm brechu'r Bwrdd Iechyd yn darparu'r gwasanaeth.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

10.6.11 Helpa fi i stopio yn y fferyllfa

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod yr holl fferyllfeydd wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Felly, nid yw wedi nodi unrhyw anghenion presennol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal, nac anghenion yn y dyfodol.

10.6.12 Gwasanaeth adolygu mewnanadlyddion

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi:

- comisiynwyd pedair fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.
- Mae practisau meddygon teulu hefyd yn darparu'r gwasanaeth.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

10.6.13 Gwasanaeth cyflenwi Naloxone

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi nad oedd unrhyw fferyllfa wedi'i chomisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Fodd bynnag, mae darparwyr eraill y gwasanaeth, er enghraifft tîm lleihau niwed y bwrdd iechyd a'r gwasanaeth 'clicio a danfon' a ddarperir gan DAN24/7.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

10.6.14 Gwasanaeth cymorth cenedlaethol i gartrefi gofal

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi:

- comisiynwyd dwy fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.
- Mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu gan fferyllfeydd i'r cartrefi gofal y maent yn darparu gwasanaethau iddynt, neu lle mae cartref gofal wedi gofyn am y gwasanaeth.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

10.6.15 Dychwelyd blychau offer miniog cleifion

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod yr holl fferyllfeydd wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Felly, nid yw wedi nodi unrhyw anghenion presennol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal, nac anghenion yn y dyfodol.

10.6.16 Rhoi'r Gorau i Ysmygu Lefel 2

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod yr holl fferyllfeydd wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Felly, nid yw wedi nodi unrhyw anghenion presennol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal, nac anghenion yn y dyfodol.

10.6.17 Gwasanaeth cymryd meddyginiaeth dan oruchwyliaeth

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod yr holl fferyllfeydd wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Felly, nid yw wedi nodi unrhyw anghenion presennol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal, nac anghenion yn y dyfodol.

10.6.18 Rhaglen nodwyddau a chwistrellau

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi:

- Comisiynwyd pedair fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.
- Mae darparwyr eraill i'r gwasanaeth, ac mae gwasanaeth postio'n cael ei sefydlu ar gyfer y rhai na allant ddefnyddio fferyllfa.

- Os gofynnir i fferyllfa ddarparu'r gwasanaeth, gall gysylltu â'r bwrdd iechyd a gofyn am gael ei chomisiynu i'w ddarparu.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

10.6.19 Gwasanaeth meddyginiaethau brys

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod un fferyllfa wedi'i chomisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Oherwydd natur y gwasanaeth, fe'i comisiynir i sicrhau gwasgariad daearyddol da o fferyllfeydd sy'n ei ddarparu ar draws daearyddiaeth y bwrdd iechyd.

Felly, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

10.6.20 Gwasanaeth gweinyddu presgripsiynau gan Feddygon Teulu

Nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol mewn perthynas â'r gwasanaeth hwn.

Os bydd practis meddygon teulu yn rhoi'r gorau i weinyddu presgripsiynau i ardal y mae ganddo gydsyniad amlinellol ar ei chyfer, mae'r bwrdd iechyd wedi nodi y bydd angen un o'r canlynol yn y dyfodol:

- darparu gwasanaeth gweinyddu presgripsiynau gan feddygon teulu yn yr ardal honno tra bo'n parhau i fod yn ardal reoledig ac yn fwy na 1.6km mewn llinell syth o fferyllfa
- fferyllfa sydd ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener o leiaf, ac sy'n darparu:
    - yr holl wasanaethau hanfodol
    - y gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol, offer miniog cleifion, rhoi'r gorau i ysmygu lefel 2, a Helpa Fi i Stopio yn y gwasanaeth fferylliaeth.

11 Ardal De Meirionnydd

11.1 Ffeithiau allweddol

- Mae gan Wynedd boblogaeth o 120,813, sef yr ail uchaf o'r chwe awdurdod unedol yng Ngogledd Cymru.
- Mae'r dwysedd poblogaeth yn 0.2 person fesul hectar, o'i gymharu ag 1.1 ar gyfer Gogledd Cymru ac 1.5 ar gyfer Cymru[148].
- Mae 23.4% o'r boblogaeth yn 65 oed neu'n hŷn. Mae hyn yn uwch na chyfartaledd Cymru o 21.7% ond ychydig yn is na chyfartaledd y bwrdd iechyd o 24.0%.
- Mae 13.7% o boblogaeth yr ardal rhwng 0 a 15 oed, sy'n is na chyfartaledd Cymru o 17.1% a chyfartaledd y bwrdd iechyd o 16.7%.
- Mae 24.5% o boblogaeth yr ardal rhwng 66 a 84 oed, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru o 17.7% a chyfartaledd y bwrdd iechyd o 19.6%.
- Mae 4.2% o boblogaeth yr ardal leol yn 85 oed ac yn hŷn, sy'n uwch na chyfartaledd y bwrdd iechyd o 3.1% ac yn uwch na chyfartaledd Cymru o 2.7%.
- Disgwylir i boblogaeth gyffredinol y bwrdd iechyd gynyddu ychydig dros 50,000 o breswylwyr (6.8%) rhwng 2022 a 2047. Ar lefel awdurdodau unedol, disgwylir y cynnydd mwyaf yng Ngwynedd (10.8%) a Sir Ddinbych (10.4%).
- Gwynedd sydd â'r ganran uchaf o oedolion sy'n gallu siarad Cymraeg sef 64.0%. Mae hyn o'i gymharu â 12.4% yn Sir y Fflint. Y cyfartaledd ar gyfer Cymru gyfan yw 18.0%.
- Gwynedd sydd â'r gyfran uchaf o aelwydydd un person ar draws y bwrdd iechyd (34.6%), ac mae hyd yn oed yn uwch yn Ne Meirionnydd 37.8%. Mae 19.8% o aelwydydd un person yr ardal yn cael eu meddiannu gan un deiliad 66 oed a hŷn.
- Nid oes gan 17.7% o'r aelwydydd gar na fan.
- Nid oes dim o boblogaeth yr ardal yn byw yn yr 20% mwyaf difreintiedig o Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru[149].
- Yng Ngwynedd, mae disgwyliad oes dynion yn 79.2 a menywod yn 83.1[150]
- Mae disgwyliad oes iach yng Ngwynedd yn 64.9 mlynedd ar gyfer dynion a 65.0 mlynedd ar gyfer menywod ac mae'r bwlch anghydraddoldeb o ran disgwyliad oes iach yng Ngwynedd yn 3.0 blynedd ar gyfer dynion a 2.8 mlynedd ar gyfer menywod.
- Mae 26.8% o blant pedair a phump oed yn Ne Meirionnydd dros eu pwysau neu'n ordew.
- Mae bron i 37% o bobl ifanc rhwng 11 a 16 oed yng Ngogledd Cymru yn dweud eu bod yn yfed alcohol o'i gymharu â 35.6% ledled Cymru. Cofnodwyd y lefelau uchaf o bobl ifanc sy'n yfed alcohol ar draws y rhanbarth yn Sir y Fflint (39.3%) a Gwynedd (38.2%)
- Dangosir data ar ymddygiad a ffyrdd iach o fyw ar gyfer oedolion yng Ngwynedd isod.

[148] Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru - Proffil ystadegol clwstwr gofal sylfaenol De Meirionnydd 2025
[149] Iechyd Cyhoeddus Cymru - Dangosfwrdd clystyrau gofal sylfaenol
[150] Data InfoBaseCymru ar gyfer Cymru ddeallus - Disgwyliad oes dynion a menywod (2020 i 2022)

Ardal	Yn gorfforol egnïol am o leiaf 60 munud bob dydd	Yn bwyta o leiaf un dogn o ffrwythau neu lysiau bob dydd	Yn ysmygu tybaco o leiaf unwaith yr wythnos	Yn defnyddio e-sigarennau o leiaf unwaith yr wythnos	Yn dweud eu bod yn yfed alcohol
Gwynedd	18.3%	50.2%	3.4%	6.6%	38.2%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	18.3%	45.7%	3.3%	8.2%	36.8%
Cymru	18.3%	46.5%	2.6%	6.9%	35.6%

- Mae nifer y cleifion sydd â chyflyrau cronig fel yr adroddwyd ar gofrestrau clefydau Iechyd a Gofal Digidol Cymru, Ebrill 2025, i'w gweld isod.

Cofrestr clefydau	De Meirionnydd	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	Cymru
Asthma	7.5%	7.6%	7.1%
Ffibriliad atrïaidd	3.8%	2.8%	2.7%
Canser	5.7%	4.3%	3.7%
Clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint	3.5%	2.7%	2.3%
Diabetes	9.5%	8.3%	8.4%
Epilepsi	0.9%	0.9%	1.0%
Methiant y galon	2.2%	1.4%	1.4%
Gorbwysedd	19.6%	17.9%	16.3%
Trawiad isgemig byrhoedlog oherwydd strôc	2.9%	2.3%	2.2%
Atal clefyd coronaidd y galon am yr eildro	4.4%	3.6%	3.4%

- De Meirionnydd sydd â'r ail gyfradd uchaf o bwysedd gwaed uchel o'i gymharu â gweddill Gogledd Cymru.

Mae Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016-2031[151] yn gosod gofyniad am gyfanswm o 750 i 852 o unedau tai, ar gyfartaledd o 50 i 55 y flwyddyn. Yn ystod oes yr asesiad hwn o anghenion fferyllol, mae hynny'n cyfateb i gyfanswm o tua 250 i 275 uned. Mae tua thraean o'r rhain yng nghanolfannau gwasanaeth lleol/allweddol Dolgellau a'r Bala, 10 i 14% yn aneddiadau gwasanaeth Harlech, Aberdyfi, Betws-y-Coed, Trawsfynydd a Llanberis (sydd ond yn rhannol ym Mharc Cenedlaethol Eryri), gyda dim mwy na 47% mewn aneddiadau eilaidd. Fodd bynnag, mae'r pumed adroddiad monitro blynyddol ar gyfer 2023/24[152] yn cadarnhau bod diffyg o 41% ar gyfer y

[151] Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016-2031
[152] Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Adroddiad Monitro Blynyddol Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2023/24, Hydref 2024

gyfradd adeiladu gronnol sy'n ofynnol rhwng 2016/17 a 31 Mawrth 2024. Felly, mae'r cynllun datblygu lleol yn is o lawer na'r hyn a fwriadwyd.

11.2 Y ddarpariaeth bresennol o wasanaethau fferyllol o fewn ardal yr Awdurdod Lleol

Mae chwe fferyllfa yn yr ardal sy'n cael eu rhedeg gan dri chontractwr gwahanol. Mae un fferyllfa yn rhan o'r cynllun fferyllfa fach hanfodol. O'r pedwar practis meddygon teulu, mae un practis yn gweinyddu presgripsiynau o un safle. Mae'r lefelau gweinyddu yn 50.6% o boblogaeth gofrestredig y practis.

Mae'r map isod yn dangos lleoliad y fferyllfeydd a'r meddygfeydd fferyllol. Dylid nodi, pan fydd safleoedd yn agos at ei gilydd, y bydd y symbolau'n gorgyffwrdd.

Map 11.1 – lleoliad fferyllfeydd a safleoedd meddygfeydd fferyllol



© OpenStreetMap © CARTO

Safleoedd meddygfeydd fferyllol

Fferyllfa

Yn 2024/25, cafodd 83.9% o bresgripsiynau a ysgrifennwyd gan bractisau meddygon teulu yn yr ardal eu gweinyddu gan fferyllfa yn yr ardal, a chafodd 13.1% o'r eitemau ar bresgripsiwn eu gweinyddu neu eu rhoi'n bersonol gan y meddygfeydd fferyllol. Er nad yw'r data sydd ar gael yn dangos y rhaniad canrannol rhwng eitemau wedi'u gweinyddu ac eitemau a roddwyd yn bersonol, ar sail y lefelau rhoi'n bersonol mewn mannau eraill yng Nghymru, gellir tybio bod llai na 2% o'r eitemau wedi cael eu rhoi'n bersonol.

Yn ystod naw mis cyntaf 2025/26, cafodd 85.8% o bresgripsiynau a ysgrifennwyd gan bractisau meddygon teulu yn yr ardal eu gweinyddu gan fferyllfa yn yr ardal, a chafodd 12.3% o'r eitemau ar bresgripsiwn eu gweinyddu neu eu rhoi'n bersonol gan y meddygfeydd fferyllol.

Mae'r map ym mhennod 5 yn dangos nad yw rhai rhannau o'r ardal leol o fewn taith car o 20 munud i fferyllfa. Mae dadansoddi pellach yn datgelu nad oes ganddynt unrhyw boblogaeth breswyl ar y cyfan gan eu bod o fewn Parc Cenedlaethol Eryri a'r mynyddoedd. Fodd bynnag, mae tai a ffermydd gwasgaredig, a safleoedd gwersylla a charafannau wedi'u lleoli ger y ffyrdd sy'n croesi'r ardal.

Dyddiau agor y fferyllfeydd:

- Mae pedair fferyllfa ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener ac am oriau cyfyngedig ar ddydd Sadwrn
- Mae dwy fferyllfa ar agor o ddydd Llun i ddydd Sul.

Oriau agor y fferyllfeydd hyn rhwng dydd Llun a dydd Gwener:

- Mae un fferyllfa'n agor am 08:30, gyda'r gweddill yn agor am 09:00.
- Mae un fferyllfa'n cau am 15.00 bob diwrnod gwaith (ac eithrio ar ddydd Mawrth pan fydd yn cau am 13:00), mae pedair fferyllfa'n cau am 17:30 ac mae un fferyllfa'n cau am 18:00 (ac eithrio ar ddydd Mercher pan fydd yn cau am 17:00).

Mae pum fferyllfa'n cau am ginio ar adegau amrywiol rhwng 13:00 a 14.00. Nid yw'r fferyllfeydd eraill yn cau am ginio ond dyma'r fferyllfa sy'n cau am 15:00 (ac eithrio ar ddydd Mawrth, pan fydd yn cau am 13:00).

Ar ddydd Sadwrn, mae un fferyllfa'n agor am 08:30, gyda'r gweddill yn agor am 09:00. Mae'r ddwy fferyllfa sydd ar agor drwy'r dydd yn cau am ginio rhwng 13:00 a 14:00. Mae gan yr holl fferyllfeydd oriau agor craidd ar ddydd Sadwrn.

Nid oes yr un fferyllfa ar agor ar ddydd Sul.

Mae'r bwrdd iechyd yn gofyn i'r fferyllfeydd a fyddant ar agor ar wyliau cyhoeddus a gwyliau banc a Sul y Pasg. Mae'r ymatebion yn cael eu casglu, ac mae'r bwrdd iechyd yn sefydlu a oes unrhyw fylchau daearyddol yn y ddarpariaeth ai peidio. Pan fydd bwlch, bydd fferyllfa naill ai'n cael ei chomisiynu neu ei chyfarwyddo i agor.

Ymatebodd pum fferyllfa i holiadur contractwr fferyllol a daw'r wybodaeth ganlynol o'r ymatebion hynny.

Mae pob un o'r pum fferyllfa hyn yn hygyrch i gadeiriau olwyn, ac mae gan bob un ardal ymgynghori sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn. Mae gan yr ardaloedd ymgynghori:

- ystafelloedd preifat
- ardal ddynodedig lle gall y claf a'r fferyllydd eistedd i lawr gyda'i gilydd a siarad gyda llais arferol heb gael eu clywed
- maent wedi'u dynodi'n glir fel ardaloedd ar gyfer ymgynghoriadau cyfrinachol sydd ar wahân i'r ardaloedd yn y fferyllfa ar gyfer y cyhoedd.

Cadarnhaodd pob un o'r pum fferyllfa fod ganddynt siaradwyr Cymraeg. Ieithoedd eraill sy'n cael eu siarad yw De Korea a Rwmaneg.

Mae pob un o'r pum fferyllfa yn gweinyddu presgripsiynau ar gyfer pob math o gyfarpar.

Mae pob un o'r pum fferyllfa'n casglu presgripsiynau gan bractisau meddygon teulu. Mae pedair fferyllfa yn darparu gwasanaeth danfon, ac mae tair yn ei gyfyngu i gleifion oedrannus ac agored i niwed sy'n gaeth i'r tŷ.

Nid oedd unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwasanaethau presennol nad ydynt yn cael eu darparu yn yr ardal ar hyn o bryd ac nid oedd yr un fferyllfa o'r farn bod angen darparu gwasanaeth clinigol ychwanegol yn yr ardal ar hyn o bryd.

Cadarnhaodd y pum fferyllfa fod ganddynt ddigon o gapasiti yn eu safle presennol i reoli cynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn eu darparu. Mae gan un ddigon o staff hefyd, ond dywedodd pedair fferyllfa nad oes ganddynt ddigon o staff ond gallant wneud addasiadau i reoli unrhyw gynnydd yn y galw.

Mae gan ddwy fferyllfa gynlluniau i ddatblygu neu ehangu eu darpariaeth gwasanaeth.

- Mae gan un fferyllfa fferyllydd sy'n hyfforddi i fod yn bresgripsiynydd annibynnol ar hyn o bryd.
- Mae un yn bwriadu ehangu'r ystafell ymgynghori.

Ni chafwyd ymateb i'r holiadur i feddygon fferyllol.

11.2.1 Gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol

Yn 2025/26, mae'r holl fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

- 3,637 o ymgynghoriadau ar gyfer anhwylderau cyffredin
- 184 o ymgynghoriadau ar gyfer dulliau atal cenhedlu
- 1,463 o gyflenwadau meddyginiaethau brys

11.2.2 Adolygu meddyginiaethau wrth ryddhau

Roedd yr holl fferyllfeydd wedi darparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26 ac wedi cwblhau 97 o adolygiadau.

11.2.3 Gwasanaeth presgripsiynu annibynnol gan fferyllwyr

Comisiynwyd dwy fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26 a darparwyd cyfanswm o 589 o ymgynghoriadau yn ystod y flwyddyn.

11.2.4 Gwasanaeth brechu tymhorol rhag y ffliw

Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26 a darparwyd cyfanswm o 661 o frechiadau.

11.2.5 Addasu cyfarpar stoma

Nid oes yr un o'r fferyllfeydd yn yr ardal yn darparu'r gwasanaeth hwn er eu bod yn rhoi presgripsiynau am gyfarpar.

11.2.6 Adolygu'r defnydd o gyfarpar

Nid oes yr un o'r fferyllfeydd yn yr ardal yn darparu'r gwasanaeth hwn er eu bod yn rhoi presgripsiynau am gyfarpar.

11.2.7 Gwasanaeth cyflenwi profion llif unffordd

Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

11.2.8 Gwasanaeth profi am firysau a gludir yn y gwaed

Ni chomisiynwyd unrhyw fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

11.2.9 Gwasanaeth brechu Covid-19

Comisiynwyd un fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

11.2.10 Helpa fi i stopio yn y fferyllfa

Comisiynwyd pum fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

11.2.11 Gwasanaeth adolygu mewnanadlyddion

Comisiynwyd pum fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

11.2.12 Gwasanaeth cyflenwi Naloxone

Ni chomisiynwyd unrhyw fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

11.2.13 Gwasanaeth cymorth cenedlaethol i gartrefi gofal

Comisiynwyd tair fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

11.2.14 Dychwelyd blychau offer miniog cleifion

Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

11.2.15 Rhoi'r Gorau i Ysmygu lefel 2

Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

11.2.16 Gwasanaeth cymryd meddyginiaeth dan oruchwyliaeth

Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

11.2.17 Rhaglenni nodwyddau a chwistrellau

Comisiynwyd tair fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

11.2.18 Gwasanaeth meddyginiaethau brys

Comisiynwyd dwy fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

11.3 Y ddarpariaeth bresennol o wasanaethau fferyllol y tu allan i'r ardal leol

Mae rhai trigolion yn dewis defnyddio contractwyr y tu allan i'r ardal leol ac ardal y Bwrdd Iechyd:

- Er mwyn defnyddio gwasanaethau a gynigir gan gontractwyr dosbarthu cyfarpar
- Oherwydd bod y contractwr hwnnw yn agos at ble mae'n gweithio, yn siopa neu'n mynd at ddibenion hamdden neu am resymau eraill.

Er bod y rhan fwyaf o bresgripsiynau a ysgrifennwyd gan bractisau meddygon teulu yn 2024/25 wedi eu gweinyddu gan fferyllfeydd neu feddygfeydd fferyllol yn yr ardal, cafodd 1.7% eu gweinyddu y tu allan i'r ardal leol:

- 0.8% gan gontractwyr yn Lloegr
- 0.6% gan fferyllfeydd yn Nwyfor a Gogledd Meirionnydd
- 0.2% gan fferyllfeydd mewn byrddau iechyd eraill yng Nghymru

Yn ystod naw mis cyntaf 2025/26, gweinyddwyd 1.5% o'r eitemau y tu allan i'r ardal leol:

- 0.7% gan gontractwyr yn Lloegr
- 0.6% gan fferyllfeydd yn Nwyfor a Gogledd Meirionnydd
- 0.2% gan fferyllfeydd mewn byrddau iechyd eraill yng Nghymru

Yn ogystal, mae'n bosibl bod preswylwyr wedi defnyddio un neu fwy o wasanaethau fferyllol a ddarperir gan fferyllfa arall y tu allan i'r ardal leol ac ardal y Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag, nid yw'n bosibl mesur hyn o'r data a gofnodwyd.

11.4 Gwasanaethau eraill y GIG

Mae manylion gwasanaethau'r GIG sy'n effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol ar gael ym mhennod chwech.

11.5 Dewis o ran cael gwasanaethau fferyllol

Fel y gwelir yn adrannau 11.2 ac 11.3, mae'r rhai sy'n byw yn yr ardal ac sydd wedi cofrestru ag un o'r practisau meddygon teulu fel arfer yn dewis casglu eu presgripsiynau o un o'r fferyllfeydd yn yr ardal neu, os ydynt yn gymwys, i gael eu presgripsiwn o'r practis. Mae'r rhai sy'n mynd y tu hwnt i'r ardal leol fel arfer yn gwneud hynny er mwyn defnyddio fferyllfa gyfagos neu gontractwr cyfarpar dosbarthu yn ardal y bwrdd iechyd.

Yn 2024/25, gweinyddodd dros 82 o gontractwyr eitemau a ysgrifennwyd gan un o'r practisau meddygon teulu yn yr ardal hon, ac o'r rhain:

- roedd chwech wedi'u lleoli yn yr ardal leol
- roedd 45 wedi'u lleoli mewn mannau eraill yn ardal y bwrdd iechyd
- roedd 31 wedi'u lleoli mewn mannau eraill yng Nghymru
- roedd nifer o'r presgripsiynau wedi'u gweinyddu yn Lloegr.

Yn ystod naw mis cyntaf 2025/26, gweinyddodd dros 66 o gontractwyr eitemau a ysgrifennwyd gan un o'r practisau meddygon teulu yn yr ardal hon, ac o'r rhain:

- roedd chwech wedi'u lleoli yn yr ardal leol
- roedd 35 wedi'u lleoli mewn mannau eraill yn ardal y bwrdd iechyd
- roedd 25 wedi'u lleoli mewn mannau eraill yng Nghymru
- roedd nifer o'r presgripsiynau wedi'u gweinyddu yn Lloegr.

11.6 Bylchau yn y ddarpariaeth

Wrth ystyried a oes unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth o wasanaethau fferyllol, mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod pum fferyllfa wedi cadarnhau bod ganddynt ddigon o gapasiti yn eu safle presennol i reoli cynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn eu darparu. Mae gan un ddigon o staff hefyd, ond dywedodd pedair fferyllfa nad oes ganddynt ddigon o staff ond gallant wneud addasiadau i reoli unrhyw gynnydd yn y galw.

11.6.1 Gwasanaethau hanfodol

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi:

- Mae'r fferyllfeydd a'r meddygfeydd fferyllol wedi'u gwasgaru ar draws yr ardal leol ac, yn gyffredinol, maent wedi'u lleoli mewn ardaloedd lle mae dwysedd poblogaeth ac amddifadedd uwch.
- Nid yw rhai rhannau o'r ardal o fewn pellter gyrru o 20 munud i fferyllfa. Fodd bynnag, yn gyffredinol maent yn ardaloedd heb boblogaeth breswyl gan eu bod ym Mharc Cenedlaethol Eryri ac yn fynyddoedd. Fodd bynnag, mae tai a ffermydd ar wasgar, a safleoedd gwersylla a charafanau ger y ffyrdd sy'n croesi'r ardal.
- Mae'r cynllun datblygu lleol yn gosod gofyniad o 50 i 55 o dai y flwyddyn tan 2031.
- Mae poblogaeth yr ardal yn cynyddu yn ystod y tymor gwyliau oherwydd mewnlif o ymwelwyr a thwristiaid.
- Nid oes yr un fferyllfa ar agor ar ddydd Sul.

Nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw angen ar hyn o bryd i ddarparu gwasanaethau hanfodol yn yr ardal hon.

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi, pe bai oriau agor atodol ar ddydd Sadwrn yn cael eu colli o 1 Hydref 2026 ymlaen, a fyddai'n arwain at lai na thair awr o ddarpariaeth o wasanaethau fferyllol mewn tref/pentref, y bydd angen yn y dyfodol i ddarparu gwasanaethau hanfodol am dair awr graidd ar ddydd Sadwrn yn y dref/pentref neu drefi/pentrefi lle mae'r gostyngiad mewn oriau agor atodol wedi digwydd, rhwng 09.00 a 17.00, oni bai bod fferyllfa arall yn y dref/pentref honno ac yna ni fydd yr angen yn codi yn y dyfodol.

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi, pe bai gwasanaethau hanfodol yn cael eu colli oherwydd bod fferyllfa'n cael ei thynnu oddi ar y rhestr fferyllol mewn tref/pentref, y bydd angen un o'r canlynol yn y dyfodol:

- fferyllfa newydd yn yr un dref/pentref sy'n darparu gwasanaethau hanfodol, y gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol, dychwelyd blychau miniog cleifion, gwasanaeth gweinyddu dan oruchwyliaeth, Helpa Fi i Stopio yn y fferyllfa, a gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu lefel 2 am 40 o oriau agor craidd yr wythnos
- y gwasanaeth gweinyddu presgripsiynau gan feddygon teulu os yw'r dref/pentref mewn ardal reoledig

oni bai bod fferyllfa arall yn y dref/pentref honno ac yna ni fydd yr angen hwn yn codi yn y dyfodol.

Os bydd practis meddygon teulu yn rhoi'r gorau i weinyddu presgripsiynau i ardal y mae ganddo gydsyniad amlinellol ar ei chyfer, mae'r bwrdd iechyd wedi nodi y bydd angen un o'r canlynol yn y dyfodol:

- darparu gwasanaeth gweinyddu presgripsiynau gan feddygon teulu yn yr ardal honno tra bo'n parhau i fod yn ardal reoledig ac yn fwy na 1.6km mewn llinell syth o fferyllfa
- fferyllfa sydd ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener o leiaf, ac sy'n darparu:
    - yr holl wasanaethau hanfodol

- y gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol, dychwelyd blychau miniog cleifion, gwasanaeth cymryd meddyginiaeth dan oruchwyliaeth, Helpa fi i Stopio yn y fferyllfa, a gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu lefel 2.

11.6.2 Gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod yr holl fferyllfeydd wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Felly, nid yw wedi nodi unrhyw anghenion presennol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal, nac anghenion yn y dyfodol.

11.6.3 Adolygu meddyginiaethau wrth ryddhau

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi'r holl fferyllfeydd a ddarparodd y gwasanaeth hwn yn 2025/26. Felly, nid yw wedi nodi unrhyw anghenion presennol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal, nac anghenion yn y dyfodol.

11.6.4 Gwasanaeth presgripsiynu annibynnol gan fferyllwyr

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi:

- Comisiynwyd dwy fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.
- Roedd gan y drydedd fferyllfa fferyllydd dan hyfforddiant ddechrau 2026.
- Y dyhead a nodir yn Fferylliaeth: Cyflawni Cymru Iachach yw i bob fferyllfa gael presgripsiynydd annibynnol erbyn 2030 ac mae wedi gosod targedau interim i 50% o fferyllfeydd ddarparu'r gwasanaeth hwn ym mhob ardal erbyn mis Ebrill 2027 a 70% erbyn mis Ebrill 2029.
- O 2026 ymlaen, rhagwelir y bydd pob fferyllydd sydd newydd gymhwyso hefyd yn cymhwyso fel presgripsiynydd annibynnol ar ôl cwblhau ei raglen israddedig

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

Os na fydd y targedau interim yn cael eu cyrraedd, bydd angen yn y dyfodol i ddigon o fferyllfeydd yn yr ardal ddarparu'r gwasanaeth hwn er mwyn cyrraedd y ddau darged.

11.6.5 Gwasanaeth brechu tymhorol rhag y ffliw

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod yr holl fferyllfeydd wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Felly, nid yw wedi nodi unrhyw anghenion presennol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal, nac anghenion yn y dyfodol.

11.6.6 Addasu cyfarpar stoma

Er nad oes fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn, mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi bod presgripsiynau am gyfarpar yn cael eu gweinyddu gan gontractwyr mewn mannau eraill yng Nghymru a hefyd yn Lloegr.

Rhagwelir felly y bydd y contractwyr hyn yn addasu cyfarpar stoma yn ôl yr angen cyn eu hanfon neu eu danfon at gleifion.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

11.6.7 Adolygu'r defnydd o gyfarpar

Er nad oes fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn, mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi bod presgripsiynau am gyfarpar yn cael eu gweinyddu gan gontractwyr mewn mannau eraill yng Nghymru a hefyd yn Lloegr.

Mae unigolion y mae angen y gwasanaeth adolygu defnydd o gyfarpar arnynt yn debygol o gael mynediad at y gwasanaeth hwn gan y contractwr sy'n gweinyddu eu presgripsiynau am gyfarpar neu gallai gael mynediad ato gan ddarparwyr gofal iechyd eraill fel nyrsys stoma.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

11.6.8 Gwasanaeth cyflenwi profion llif unffordd

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod yr holl fferyllfeydd wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Nid yw wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal leol ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

11.6.9 Gwasanaeth profi am firysau a gludir yn y gwaed

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod tair fferyllfa wedi'i chomisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Mae hefyd wedi nodi bod practisau meddygon teulu a thîm brechu'r Bwrdd Iechyd yn darparu'r gwasanaeth.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

11.6.10 Gwasanaeth brechu Covid-19

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod un fferyllfa wedi'i chomisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Mae hefyd wedi nodi bod practisau meddygon teulu a thîm brechu'r Bwrdd Iechyd yn darparu'r gwasanaeth.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

11.6.11 Helpa fi i stopio yn y fferyllfa

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi:

- Comisiynwyd pum fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

- Mae darparwyr eraill y gwasanaeth, er enghraifft Helpa fi i Stopio er mwyn cael babi, Helpa fi i Stopio yn yr ysbyty, a'r gwasanaeth Helpa fi i Stopio cyffredinol.
- Mae'r galw am y gwasanaeth yn dibynnu ar bobl sy'n dymuno rhoi'r gorau i ysmygu.

11.6.12 Gwasanaeth adolygu mewnanadlyddion

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi:

- Comisiynwyd pum fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.
- Mae practisau meddygon teulu hefyd yn darparu'r gwasanaeth.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

11.6.13 Gwasanaeth cyflenwi Naloxone

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi nad oedd unrhyw fferyllfa wedi'i chomisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Fodd bynnag, mae darparwyr eraill y gwasanaeth, er enghraifft tîm lleihau niwed y bwrdd iechyd a'r gwasanaeth 'clicio a danfon' a ddarperir gan DAN24/7.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

11.6.14 Gwasanaeth cymorth cenedlaethol i gartrefi gofal

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi:

- Comisiynwyd tair fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.
- Mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu gan fferyllfeydd i'r cartrefi gofal y maent yn darparu gwasanaethau iddynt, neu lle mae cartref gofal wedi gofyn am y gwasanaeth.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

11.6.15 Dychwelyd blychau offer miniog cleifion

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod yr holl fferyllfeydd wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Felly, nid yw wedi nodi unrhyw anghenion presennol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal, nac anghenion yn y dyfodol.

11.6.16 Rhoi'r Gorau i Ysmygu Lefel 2

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi:

- Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

- Mae’r galw am y gwasanaeth yn dibynnu ar bobl sy’n dymuno rhoi’r gorau i ysmygu.

Ar sail yr uchod, nid yw’r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

11.6.17 Gwasanaeth cymryd meddyginiaeth dan oruchwyliaeth

Mae’r bwrdd iechyd wedi nodi bod yr holl fferyllfeydd wedi’u comisiynu i ddarparu’r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Felly, nid yw wedi nodi unrhyw anghenion presennol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal, nac anghenion yn y dyfodol.

11.6.18 Rhaglen nodwyddau a chwistrellau

Mae’r bwrdd iechyd wedi nodi:

- Comisiynwyd tair fferyllfa i ddarparu’r gwasanaeth hwn yn 2025/26.
- Mae darparwyr eraill i’r gwasanaeth, ac mae gwasanaeth postio’n cael ei sefydlu ar gyfer y rhai na allant ddefnyddio fferyllfa.
- Os gofynnir i fferyllfa ddarparu’r gwasanaeth, gall gysylltu â’r bwrdd iechyd a gofyn am gael ei chomisiynu i’w ddarparu.

Ar sail yr uchod, nid yw’r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

11.6.19 Gwasanaeth meddyginiaethau brys

Mae’r bwrdd iechyd wedi nodi bod dwy fferyllfa wedi’i chomisiynu i ddarparu’r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Oherwydd natur y gwasanaeth, fe’i comisiynir i sicrhau gwasgariad daearyddol da o fferyllfeydd sy’n ei ddarparu ar draws daearyddiaeth y bwrdd iechyd.

Felly, nid yw’r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

11.6.20 Gwasanaeth gweinyddu presgripsiynau gan Feddygon Teulu

Nid yw’r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol mewn perthynas â’r gwasanaeth hwn.

Os bydd practis meddygon teulu yn rhoi’r gorau i weinyddu presgripsiynau i ardal y mae ganddo gydsyniad amlinellol ar ei chyfer, mae’r bwrdd iechyd wedi nodi y bydd angen un o’r canlynol yn y dyfodol:

- darparu gwasanaeth gweinyddu presgripsiynau gan feddygon teulu yn yr ardal honno tra bo’n parhau i fod yn ardal reoledig ac yn fwy na 1.6km mewn llinell syth o fferyllfa
- fferyllfa sydd ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener o leiaf, ac sy’n darparu:
    - yr holl wasanaethau hanfodol

- y gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol, offer miniog cleifion, rhoi'r gorau i ysmygu lefel 2, a gwasanaeth Helpa Fi i Stopio yn y fferyllfa.

12 Ardal Gorllewin Conwy

12.1 Ffeithiau allweddol[153]

- Awdurdod Unedol Conwy sydd â'r boblogaeth drydedd leiaf o'r chwe awdurdod unedol, sef 114,891.
- Mae'r dwysedd poblogaeth yn 0.7 person fesul hectar, o'i gymharu ag 1.1 ar gyfer Gogledd Cymru ac 1.5 ar gyfer Cymru[154].
- Mae ganddo'r gyfran uchaf o breswylwyr 65 oed a hŷn (22.3%) ac yna Ynys Môn (27.4%) sy'n uwch na chyfartaledd Cymru (21.7%).
- Disgwylir i boblogaeth y bwrdd iechyd sy'n 65 oed a hŷn gynyddu erbyn 2047. Rhagwelir y bydd preswylwyr 65 oed a throsodd yn cynyddu bron 34%, a disgwylir y cynnydd mwyaf yn Sir Ddinbych (36%). Disgwylir y cynnydd mwyaf yn nifer y trigolion yn Awdurdod Unedol Conwy a Sir y Fflint.
- Ar gyfer trigolion 85 oed a hŷn, Awdurdod Unedol Conwy sydd â'r gyfran uchaf, sef 3.9%, ochr yn ochr ag Ynys Môn (3.6%). Mae'r ddau yn uwch na chyfartaledd Cymru o 2.7%.
- Mae 22.9% o boblogaeth yr ardal rhwng 66 ac 84 oed, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru o 17.7% a chyfartaledd y bwrdd iechyd o 19.6%.
- Mae 15.1% o boblogaeth yr ardal rhwng 0 a 15 oed, sy'n is na chyfartaledd Cymru o 17.1% a chyfartaledd y bwrdd iechyd o 16.7%.
- Mae 3.9% o boblogaeth yr ardal leol yn 85 oed ac yn hŷn, sy'n uwch na chyfartaledd y bwrdd iechyd o 3.1% ac yn uwch na chyfartaledd Cymru o 2.7%.
- Mae aelwydydd un person yn yr ardal yn cynrychioli 34.6% o gyfanswm yr aelwydydd. Mae 18.2% o aelwydydd yn cael eu meddiannu gan un person dros 66 oed. Mae hyn yn uwch na chyfartaledd Cymru o (14.6%) a chyfartaledd y bwrdd iechyd o 15.8%.
- Nid oes gan 18.5% o aelwydydd gar na fan (y drydedd ganran uchaf ar draws Gogledd Cymru).
- Mae 5.7% o boblogaeth yr ardal leol yn byw yn yr 20% mwyaf difreintiedig ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru[155].
- Mae disgwyliad oes Conwy yn 78.5 ar gyfer dynion ac 82.6 ar gyfer menywod[156]
- Mae disgwyliad oes iach yng Nghonwy yn 63.1 mlynedd ar gyfer dynion a 63.3 mlynedd ar gyfer menywod ac mae'r bwlch anghydraddoldeb ar gyfer disgwyliad oes iach yng Nghonwy yn 7.5 mlynedd ar gyfer dynion a 75.3 mlynedd ar gyfer menywod.
- Mae 29.4% o blant pedair a phump oed yn ardal Gorllewin Conwy dros eu pwysau neu'n ordew.
- Yng Nghyfrifiad 2021, dywedir bod gan bron i 21% o breswylwyr ardal y Bwrdd Iechyd salwch tymor hir cyfyngol, sy'n debyg i Gymru (21.6%). Ar draws y rhanbarth, cofnodwyd y cyfrannau uchaf yn awdurdod unedol Conwy, sef 22.6% a Sir Ddinbych, sef 23.3%.

[153] Proffiliau Iechyd y Cyhoedd - Proffiliau Cydweithredol Gogledd Orllewin Cymru 2025
[154] Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru - Proffil ystadegol clwstwr gofal sylfaenol Gorllewin Conwy 2025
[155] Iechyd Cyhoeddus Cymru - Dangosfwrdd clystyrau gofal sylfaenol
[156] Data InfoBaseCymru ar gyfer Cymru ddeallus - Disgwyliad oes dynion a menywod (2020 i 2022)

- Dangosir data ar ymddygiad a ffyrdd iach o fyw ar gyfer oedolion yn Awdurdod Unedol Conwy isod.

Ardal	Yn gorfforol egnïol am o leiaf 60 munud bob dydd	Yn bwyta o leiaf un dogn o ffrwythau neu lysiau bob dydd	Yn ysmygu tybaco o leiaf unwaith yr wythnos	Yn defnyddio e-sigarennau o leiaf unwaith yr wythnos	Yn dweud eu bod yn yfed alcohol
Conwy	20.2%	46.9%	2.9%	7.4%	36.2%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	18.3%	45.7%	3.3%	8.2%	36.8%
Cymru	18.3%	46.5%	2.6%	6.9%	35.6%

- Mae'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yng Nghymru yn cofnodi amlder a gallu yn y Gymraeg. Yn 2025, dywedodd bron i 39% o breswylwyr y bwrdd iechyd eu bod yn gallu siarad Cymraeg. Yng Nghonwy, dywedodd 40.4% o'r boblogaeth eu bod yn gallu siarad Cymraeg.
- Mae nifer y cleifion sydd â chyflyrau cronig fel yr adroddwyd ar gofrestrau clefydau Iechyd a Gofal Digidol Cymru, Ebrill 2025, i'w gweld isod.

Cofrestr clefydau	Gorllewin Conwy	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	Cymru
Asthma	7.2%	7.6%	7.1%
Ffibriliad atrïaidd	3.0%	2.8%	2.7%
Canser	4.8%	4.3%	3.7%
Clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint	2.6%	2.7%	2.3%
Diabetes	8.1%	8.3%	8.4%
Epilepsi	0.9%	0.9%	1.0%
Methiant y galon	1.5%	1.4%	1.4%
Gorbwysedd	18.8%	17.9%	16.3%
Trawiad isgemig byrhoedlog oherwydd strôc	2.6%	2.3%	2.2%
Atal clefyd coronaidd y galon am yr eildro	4.0%	3.6%	3.4%

Mae dau gynllun datblygu lleol yn berthnasol i'r ardal.

Mae Cynllun Datblygu Lleol Conwy[157] yn nodi'r angen am 4,300 o gartrefi rhwng 2018 a 2033 ar gyfradd flynyddol o 290. Mae rhai o'r datblygiadau a nodwyd yn berthnasol i oes yr asesiad hwn o anghenion fferyllol:

[157] Cynllun Datblygu Lleol Conwy

- Llanfairfechan – 400 uned rhwng 2021 a 2029
- Llanrhos – 250 uned rhwng 2024 a 2031
- Llanrwst – 200 uned rhwng 2021 a 2026.

Cynhaliodd y cyngor adolygiad llawn o'r cynllun datblygu lleol ac ym mis Ebrill 2026, roedd yng ngham 6 "Cyflwyno cynllun datblygu lleol newydd" gyda chamau 7 ac 8 eto i'w cwblhau.

Mae Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016-2031[158] yn gosod gofyniad am gyfanswm o 750 i 852 o unedau tai, ar gyfartaledd o 50 i 55 y flwyddyn. Yn ystod oes yr asesiad hwn o anghenion fferyllol, mae hynny'n cyfateb i gyfanswm o tua 250 i 275 uned. Mae tua thraean o'r rhain yng nghanolfannau gwasanaeth lleol/allweddol Dolgellau a'r Bala, 10 i 14% yn aneddiadau gwasanaeth Harlech, Aberdyfi, Betws-y-Coed, Trawsfynydd a Llanberis (sydd ond yn rhannol ym Mharc Cenedlaethol Eryri), gyda dim mwy na 47% mewn aneddiadau eilaidd. Fodd bynnag, mae'r pumed adroddiad monitro blynyddol ar gyfer 2023/24[159] yn cadarnhau bod diffyg o 41% ar gyfer y gyfradd adeiladu gronnol sy'n ofynnol rhwng 2016/17 a 31 Mawrth 2024. Felly, mae'r cynllun datblygu lleol yn is o lawer na'r hyn a fwriadwyd.


12.2 Y ddarpariaeth bresennol o wasanaethau fferyllol o fewn ardal yr Awdurdod Lleol

Mae 13 fferyllfa yn yr ardal sy'n cael eu rhedeg gan chwe chontractwr gwahanol. O'r 11 practis meddyg teulu, mae tri yn gweinyddu presgripsiynau o dri safle. Mae'r lefelau gweinyddu yn amrywio o 42.9% i 94.1% o boblogaethau cofrestredig y practisau.

Mae'r map isod yn dangos lleoliad y fferyllfeydd a'r meddygfeydd fferyllol. Dylid nodi, pan fydd safleoedd yn agos at ei gilydd, y bydd y symbolau'n gorgyffwrdd.

[158] Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016-2031
[159] Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Adroddiad Monitro Blynyddol Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2023/24, Hydref 2024

Map 12.1 – lleoliad fferyllfeydd a safleoedd meddygfeydd fferyllol



© OpenStreetMap © CARTO

Safleoedd meddygfeydd fferyllol Fferyllfa

Yn 2024/25, cafodd 86.8% o bresgripsiynau a ysgrifennwyd gan bractisau meddygon teulu yn yr ardal eu gweinyddu gan fferyllfa yn yr ardal, a chafodd 8.3% o'r eitemau ar bresgripsiwn eu gweinyddu neu eu rhoi'n bersonol gan y meddygfeydd fferyllol. Er nad yw'r data sydd ar gael yn dangos y rhaniad canrannol rhwng eitemau wedi'u gweinyddu ac eitemau a roddwyd yn bersonol, ar sail y lefelau rhoi'n bersonol mewn

mannau eraill yng Nghymru, gellir tybio bod llai na 2% o'r eitemau wedi cael eu rhoi'n bersonol.

Yn ystod naw mis cyntaf 2025/26, cafodd 87.4% o bresgripsiynau a ysgrifennwyd gan bractisau meddygon teulu yn yr ardal eu gweinyddu gan fferyllfa yn yr ardal, a chafodd 8.6% o'r eitemau ar bresgripsiwn eu gweinyddu neu eu rhoi'n bersonol gan y meddygfeydd fferyllol.

Mae'r map ym mhennod 5 yn dangos nad yw rhai ardaloedd o fewn taith car o 20 munud i fferyllfa. Mae'r ardaloedd yng ngorllewin yr ardal leol yn fynyddig ac mae Google Maps yn datgelu nad oes unrhyw boblogaeth breswyl. Mae'r ardaloedd yn y de yn fynyddig yn cynnwys nifer o bentrefi bach gyda phoblogaethau preswyl, er enghraifft, Ysbyty Ifan.

Dyddiau agor y fferyllfeydd:

- Mae pump fferyllfa ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener ac am oriau cyfyngedig ar ddydd Sadwrn,
- Mae pump fferyllfa ar agor o ddydd Llun i ddydd Sadwrn
- Mae tair ffryllfa ar agor o ddydd Llun i ddydd Sul, ac mae pob un ohonynt yn Llandudno.

Oriau agor y fferyllfeydd hyn rhwng dydd Llun a dydd Gwener:

- Mae un yn agor am 08.30, mae un yn agor am 08:45 ac mae'r gweddill yn agor am 09.00
- Mae'r amseroedd cau yn amrywio rhwng 17.30 a 18.30 gydag un fferyllfa ym Mharc Llandudno ar agor tan 19:00 ac un arall yn Llandudno ar agor tan 20:00.

Comisiynir un fferyllfa ym Mhenmaenmawr i agor am 30 munud ychwanegol (17.30 a 18.30) yn ystod yr wythnos.

Mae naw fferyllfa'n cau am ginio ar adegau amrywiol rhwng 13:00 a 15.00. Mae gweddill y fferyllfeydd ar agor drwy'r dydd.

Bydd un fferyllfa ar agor rhwng 13:00 a 16:00 ar ddydd Sadwrn. Mae gweddill y fferyllfeydd yn agor am 09:00. O'r wyth fferyllfa sydd ar agor drwy'r dydd, mae chwech yn cau am ginio rhwng 13.00 a 15.00. Maent yn cau rhwng 16:00 a 20.00. Mae gan 11 fferyllfa oriau agor craidd ar ddydd Sadwrn.

Rhyngddynt, mae'r tair fferyllfa sydd ar agor ar ddydd Sul ar agor rhwng 10.00 a 17.00. Dim ond un fferyllfa sydd ag oriau agor craidd ar ddydd Sul.

Mae'r bwrdd iechyd yn gofyn i'r fferyllfeydd a fyddant ar agor ar wyliau cyhoeddus a gwyliau banc a Sul y Pasg. Mae'r ymatebion yn cael eu casglu, ac mae'r bwrdd iechyd yn sefydlu a oes unrhyw fylchau daearyddol yn y ddarpariaeth ai peidio. Pan fydd bwlch, bydd fferyllfa naill ai'n cael ei chomisiynu neu ei chyfarwyddo i agor.

Ymatebodd pum fferyllfa i holiadur contractwr fferyllol a daw'r wybodaeth ganlynol o'r ymatebion hynny.

Mae pedair fferyllfa yn hygyrch i gadeiriau olwyn, ac mae gan bob un ardal ymgynghori sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn. Mae gan y pedair ardal ymgynghori:

- ystafelloedd preifat
- ardal ddynodedig lle gall y claf a'r fferyllydd eistedd i lawr gyda'i gilydd a siarad gyda llais arferol heb gael eu clywed
- maent wedi'u dynodi'n glir fel ardaloedd ar gyfer ymgynghoriadau cyfrinachol sydd ar wahân i'r ardaloedd yn y fferyllfa ar gyfer y cyhoedd.

Nid yw'r pumed ardal ymgynghori yn gadael i'r claf a'r fferyllydd siarad ar lefelau normal heb gael eu clywed.

Cadarnhaodd pedair fferyllfa bod ganddynt siaradwyr Cymraeg. Ar wahân i Saesneg, ni nodwyd bod staff yn siarad unrhyw ieithoedd eraill.

Mae pedair fferyllfa'n gweinyddu presgripsiynau ar gyfer pob math o gyfarpar, ac mae un fferyllfa'n rhoi gorchuddion yn unig.

Mae pedair fferyllfa'n casglu presgripsiynau gan bractisau meddygon teulu. Mewn perthynas â danfon eitemau a weinyddwyd:

- nid yw un yn darparu gwasanaeth danfon
- mae dwy yn darparu gwasanaeth danfon nad yw wedi ei gyfyngu i unrhyw grŵp penodol o gleifion
- mae dwy yn darparu gwasanaeth danfon i gleifion oedrannus ac agored i niwed sy'n gaeth i'r tŷ.

Nid oedd yr un o'r fferyllfeydd o'r farn bod angen gwasanaeth clinigol ychwanegol newydd nad yw ar gael ar hyn o bryd.

Nid oedd unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwasanaeth newydd nad yw ar gael yn yr ardal ar hyn o bryd.

Cadarnhaodd tair fferyllfa fod ganddynt ddigon o gapasiti yn eu safleoedd presennol i reoli cynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn eu darparu, dywedodd un nad oes ganddi'r capasiti ond y gallai gwneud addasiadau, a dywedodd un nad oes ganddi'r capasiti ac y byddai'n cael trafferth rheoli cynnydd yn y galw. Cadarnhaodd dwy fferyllfa fod ganddynt ddigon o staff i reoli cynnydd yn y galw, a chadarnhaodd tair fferyllfa nad oes ganddynt gapasiti o'r fath ond y gallent wneud addasiadau i reoli cynnydd.

Mae un fferyllfa'n bwriadu ehangu ei gwasanaeth presgripsiynu annibynnol.

Roedd un o'r meddygfeydd fferyllol wedi ymateb i'r holiadur meddyg fferyllol.

- mae'r ddosbarthfa ar agor rhwng 08.00 a 18.00
- mae pob math o gyfarpar yn cael ei ddosbarthu

- mae ganddi staff sy'n siarad Cymraeg
- nid oes gan y practis safle digon mawr na digon o staff ar hyn o bryd, ond gallai wneud addasiadau i ddelio â'r cynnydd yn y galw
- yn ogystal â'r gwasanaeth danfon, mae'r practis yn cael gwared ar offer miniog cleifion ac yn darparu siartiau adolygu gweinyddu meddyginiaeth ar gyfer cartrefi gofal.

12.2.1 Gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol

Roedd yr holl fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn ac yn 2025/26 roeddent wedi darparu:

- 6,166 o ymgynghoriadau ar gyfer anhwylderau cyffredin
- 626 o ymgynghoriadau ar gyfer dulliau atal cenhedlu
- 2,825 o gyflenwadau meddyginiaethau brys

12.2.2 Adolygu meddyginiaethau wrth ryddhau

Yn 2025/26, darparodd pob un o'r fferyllfeydd y gwasanaeth hwn a chwblhau 580 o adolygiadau.

12.2.3 Gwasanaeth presgripsiynu annibynnol gan fferyllwyr

Comisiynwyd pum fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26 a darparwyd cyfanswm o 1,629 o ymgynghoriadau yn ystod y flwyddyn.

12.2.4 Brechiad tymhorol rhag y ffliw

Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26 a darparwyd cyfanswm o 1,847 o frechiadau.

12.2.5 Addasu cyfarpar stoma

Nid oes yr un o'r fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn er eu bod yn rhoi presgripsiynau am gyfarpar.

12.2.6 Adolygu'r defnydd o gyfarpar

Nid oes yr un o'r fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn er eu bod yn rhoi presgripsiynau am gyfarpar.

12.2.7 Gwasanaeth cyflenwi profion llif unffordd

Comisiynwyd 12 fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

12.2.8 Gwasanaeth profi am firysau a gludir yn y gwaed

Ni chomisiynwyd unrhyw fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

12.2.9 Gwasanaeth brechu Covid-19

Ni chomisiynwyd unrhyw fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

12.2.10 Helpa fi i stopio yn y fferyllfa

Comisiynwyd 11 fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

12.2.11 Gwasanaeth adolygu mewnanadlyddion

Comisiynwyd wyth fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

12.2.12 Gwasanaeth cyflenwi Naloxone

Ni chomisiynwyd unrhyw fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

12.2.13 Gwasanaeth cymorth cenedlaethol i gartrefi gofal

Comisiynwyd tair fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

12.2.14 Dychwelyd blychau offer miniog cleifion

Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

12.2.15 Rhoi'r Gorau i Ysmygu lefel 2

Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

12.2.16 Gwasanaeth cymryd meddyginiaeth dan oruchwyliaeth

Comisiynwyd 11 fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

12.2.17 Rhaglenni nodwyddau a chwistrellau

Comisiynwyd tair fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

12.2.18 Gwasanaeth meddyginiaethau brys

Ni chomisiynwyd unrhyw fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

12.3 Y ddarpariaeth bresennol o wasanaethau fferyllol y tu allan i'r ardal leol

Mae rhai trigolion yn dewis defnyddio contractwyr y tu allan i'r ardal leol ac ardal y Bwrdd Iechyd:

- Er mwyn defnyddio gwasanaethau a gynigir gan gontractwyr dosbarthu cyfarpar
- Oherwydd bod y contractwr hwnnw yn agos at ble mae'n gweithio, yn siopa neu'n mynd at ddibenion hamdden neu am resymau eraill.

Er bod y rhan fwyaf o bresgripsiynau a ysgrifennwyd gan bractisau meddygon teulu yn 2024/25 wedi eu gweinyddu gan fferyllfeydd neu feddygfeydd fferyllol yn yr ardal, cafodd 3.4% eu gweinyddu y tu allan i'r ardal leol:

- 1.9% gan fferyllfeydd yn Nwyrain Conwy
- 0.7% gan gontractwyr yn Lloegr
- 0.4% gan fferyllfeydd mewn byrddau iechyd eraill yng Nghymru
- 0.2% gan fferyllfeydd yng Nghanolbarth a De Sir Ddinbych
- 0.1% yng Ngogledd Sir Ddinbych.

Yn ystod naw mis cyntaf 2025/26, gweinyddwyd 3.4% y tu allan i'r ardal leol:

- 2.0% gan fferyllfeydd yn Nwyrain Conwy
- 0.6% gan gontractwyr yn Lloegr
- 0.3% gan fferyllfeydd mewn byrddau iechyd eraill yng Nghymru
- 0.2% gan fferyllfeydd yng Nghanolbarth a De Sir Ddinbych
- 0.1% yng Ngogledd Sir Ddinbych.

Yn ogystal, mae'n bosibl bod preswylwyr wedi defnyddio un neu fwy o wasanaethau fferyllol a ddarperir gan fferyllfa arall y tu allan i'r ardal leol ac ardal y Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag, nid yw'n bosibl mesur hyn o'r data a gofnodwyd.

12.4 Gwasanaethau eraill y GIG

Mae manylion gwasanaethau'r GIG sy'n effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol ar gael ym mhennod chwech.

12.5 Dewis o ran cael gwasanaethau fferyllol

Fel y gwelir yn adrannau 12.2 ac 12.3, mae'r rhai sy'n byw yn yr ardal ac sydd wedi cofrestru ag un o'r practisau meddygon teulu fel arfer yn dewis casglu eu presgripsiynau o un o'r fferyllfeydd yn yr ardal neu, os ydynt yn gymwys, i gael eu presgripsiwn o'r practis. Mae'r rhai sy'n mynd y tu hwnt i'r ardal leol fel arfer yn gwneud hynny er mwyn defnyddio fferyllfa gyfagos neu gontractwr cyfarpar dosbarthu yn ardal y bwrdd iechyd.

Yn 2024/25, gweinyddodd dros 144 o gontractwyr eitemau a ysgrifennwyd gan un o'r practisau meddygon teulu yn yr ardal hon, ac o'r rhain:

- roedd 13 wedi'u lleoli yn yr ardal
- roedd 100 wedi'u lleoli mewn mannau eraill yn ardal y bwrdd iechyd
- roedd 31 wedi'u lleoli mewn mannau eraill yng Nghymru
- roedd nifer o bresgripsiynau wedi'u gweinyddu yn Lloegr.

Yn ystod naw mis cyntaf 2025/26, gweinyddodd dros 125 o gontractwyr eitemau a ysgrifennwyd gan un o'r practisau meddygon teulu yn yr ardal hon, ac o'r rhain:

- roedd 13 wedi'u lleoli yn yr ardal

- roedd 88 wedi'u lleoli mewn mannau eraill yn ardal y bwrdd iechyd
- roedd 24 wedi'u lleoli mewn mannau eraill yng Nghymru
- roedd nifer o bresgripsiynau wedi'u gweinyddu yn Lloegr.

12.6 Bylchau yn y ddarpariaeth

Wrth ystyried a oes unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth o wasanaethau fferyllol, Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod tair fferyllfa wedi cadarnhau bod ganddynt ddigon o gapasiti yn eu safleoedd presennol i reoli cynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn eu darparu, dywedodd un nad oes ganddi'r capasiti ond y gallai wneud addasiadau, a dywedodd un nad oes ganddi'r capasiti ac y byddai'n cael trafferth rheoli cynnydd yn y galw. Cadarnhaodd dwy fferyllfa fod ganddynt ddigon o staff i reoli cynnydd yn y galw, a chadarnhaodd tair fferyllfa nad oes ganddynt gapasiti o'r fath ond y gallent wneud addasiadau i reoli cynnydd.

12.6.1 Gwasanaethau hanfodol

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi:

- Mae'r fferyllfeydd ar wasgar mewn ardaloedd lle mae dwysedd poblogaeth ac amddifadedd uwch. Yn gyffredinol, mae'r meddygfeydd fferyllol wedi'u lleoli mewn ardaloedd o amddifadedd is.
- Nid yw rhai rhannau o'r ardal o fewn pellter gyrru o 20 munud i fferyllfa. Er bod rhai ardaloedd yn fynyddig ac nad oes ganddynt boblogaeth breswyl, yn rhan ddeheuol yr ardal mae nifer o bentrefi bach â phoblogaeth breswyl, er enghraifft Ysbyty Ifan (yn ôl Wikipedia, yr ail boblogaeth leiaf o unrhyw gymuned yng Nghymru, y lleiaf yw Ganllwyd yng Ngwynedd)
- Mae tri datblygiad tai hysbys i fod i ddigwydd yn ystod oes y ddogfen hon a fydd yn darparu hyd at 850 o dai newydd erbyn 2033.
- Mae poblogaeth breswyl yr ardal yn cynyddu oherwydd nifer y twristiaid a'r ymwelwyr â'r ardal drwy gydol y flwyddyn, yn enwedig yng nghanol yr ardal.
- Oriau agor y fferyllfeydd.

Ar sail yr uchod, mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod angen fferyllfa ym Metws-y-Coed ar hyn o bryd sydd, o leiaf, ag oriau agor craidd o:

- 09.00 tan 17.00 o ddydd Llun i ddydd Gwener
- Chwe awr ar ddydd Sadwrn.

Ar hyn o bryd, mae angen i'r fferyllfa hon ddarparu'r gwasanaethau canlynol o'r adeg y caiff ei chynnwys ar y rhestr fferyllol:

- yr holl wasanaethau hanfodol
- gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol
- dychwelyd offer miniog cleifion
- rhoi'r gorau i ysmygu lefel 2
- gwasanaeth helpa fi i stopio yn y fferyllfa.

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi, pe bai gwasanaethau hanfodol yn cael eu colli oherwydd bod fferyllfa'n cael ei thynnu oddi ar y rhestr fferyllol, y bydd angen un o'r canlynol yn y dyfodol:

- fferyllfa newydd yn yr un dref/pentref sy'n darparu gwasanaethau hanfodol, y gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol, dychwelyd blychau miniog cleifion, gwasanaeth gweinyddu meddyginiaeth dan oruchwyliaeth, Helpa Fi i Stopio yn y fferyllfa, a gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu lefel 2 am 40 o oriau agor craidd yr wythnos
- y gwasanaeth gweinyddu presgripsiynau gan feddygon teulu os yw'r dref/pentref mewn ardal reoledig

oni bai bod fferyllfa arall yn y dref/pentref honno ac yna ni fydd yr angen hwn yn codi yn y dyfodol.

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi, pe bai oriau agor atodol ar ddydd Sadwrn yn cael eu colli o 1 Hydref 2026 ymlaen, a fyddai'n arwain at lai na thair awr o ddarpariaeth o wasanaethau fferyllol mewn tref/pentref, y bydd angen yn y dyfodol i ddarparu gwasanaethau hanfodol am dair awr graidd ar ddydd Sadwrn yn y dref/pentref neu drefi/pentrefi lle mae'r gostyngiad mewn oriau agor atodol wedi digwydd, rhwng 09.00 a 17.00, oni bai bod fferyllfa arall yn y dref/pentref honno ac yna ni fydd yr angen yn codi yn y dyfodol.

Os bydd practis meddygon teulu yn rhoi'r gorau i weinyddu presgripsiynau i ardal y mae ganddo gydsyniad amlinellol ar ei chyfer, mae'r bwrdd iechyd wedi nodi y bydd angen un o'r canlynol yn y dyfodol:

- darparu gwasanaeth gweinyddu presgripsiynau gan feddygon teulu yn yr ardal honno tra bo'n parhau i fod yn ardal reoledig ac yn fwy na 1.6km mewn llinell syth o fferyllfa
- fferyllfa sydd ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener o leiaf, ac sy'n darparu:
    - yr holl wasanaethau hanfodol
    - y gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol, dychwelyd blychau miniog cleifion, gwasanaeth cymryd meddyginiaeth dan oruchwyliaeth, Helpa fi i Stopio yn y fferyllfa, a gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu lefel 2.

12.6.2 Gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod yr holl fferyllfeydd wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Felly, nid yw wedi nodi unrhyw anghenion presennol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal, nac anghenion yn y dyfodol.

12.6.3 Adolygu meddyginiaethau wrth ryddhau

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi'r holl fferyllfeydd a ddarparodd y gwasanaeth hwn yn 2025/26. Felly, nid yw wedi nodi unrhyw anghenion presennol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal, nac anghenion yn y dyfodol.

12.6.4 Gwasanaeth presgripsiynu annibynnol gan fferyllwyr

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi:

- Comisiynwyd pum fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.
- Y dyhead a nodir yn Fferylliaeth: Cyflawni Cymru Iachach yw i bob fferyllfa gael presgripsiynydd annibynnol erbyn 2030 ac mae wedi gosod targedau interim i 50% o fferyllfeydd ddarparu'r gwasanaeth hwn ym mhob ardal erbyn mis Ebrill 2027 a 70% erbyn mis Ebrill 2029.
- O 2026 ymlaen, rhagwelir y bydd pob fferyllydd sydd newydd gymhwyso hefyd yn cymhwyso fel presgripsiynydd annibynnol ar ôl cwblhau ei raglen israddedig

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

Os na fydd y targedau interim yn cael eu cyrraedd, bydd angen yn y dyfodol i ddigon o fferyllfeydd yn yr ardal ddarparu'r gwasanaeth hwn er mwyn cyrraedd y ddau darged.

12.6.5 Brechiad tymhorol rhag y ffliw

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod yr holl fferyllfeydd wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Felly, nid yw wedi nodi unrhyw anghenion presennol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal, nac anghenion yn y dyfodol.

12.6.6 Addasu cyfarpar stoma

Er nad oes fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn, mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi bod presgripsiynau am gyfarpar yn cael eu gweinyddu gan gontractwyr mewn mannau eraill yng Nghymru a hefyd yn Lloegr.

Rhagwelir felly y bydd y contractwyr hyn yn addasu cyfarpar stoma yn ôl yr angen cyn eu hanfon neu eu danfon at gleifion.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

12.6.7 Adolygu'r defnydd o gyfarpar

Er nad oes fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn, mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi bod presgripsiynau am gyfarpar yn cael eu gweinyddu gan gontractwyr mewn mannau eraill yng Nghymru a hefyd yn Lloegr.

Mae unigolion y mae angen y gwasanaeth adolygu defnydd o gyfarpar arnynt yn debygol o gael mynediad at y gwasanaeth hwn gan y contractwr sy'n gweinyddu eu presgripsiynau am gyfarpar neu gallai gael mynediad ato gan ddarparwyr gofal iechyd eraill fel nyrsys stoma.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

12.6.8 Gwasanaeth cyflenwi profion llif unffordd

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod 12 fferyllfa wedi'i chomisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Mae hefyd wedi nodi bod y gwasanaeth hwn ar gael i grwpiau penodol o gleifion yn unig. O ganlyniad, mae'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal leol ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

12.6.9 Gwasanaeth profi am firysau a gludir yn y gwaed

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi nad oedd unrhyw fferyllfa wedi'i chomisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Fodd bynnag, mae darparwyr eraill i'r gwasanaeth, er enghraifft tîm lleihau niwed y Bwrdd Iechyd.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

12.6.10 Gwasanaeth brechu Covid-19

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi nad oedd unrhyw fferyllfa wedi'i chomisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Mae hefyd wedi nodi bod practisau meddygon teulu a thîm brechu'r Bwrdd Iechyd yn darparu'r gwasanaeth.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

12.6.11 Helpa fi i stopio yn y fferyllfa

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi:

- Comisiynwyd 11 fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.
- Mae'r galw am y gwasanaeth yn dibynnu ar bobl sy'n dymuno rhoi'r gorau i ysmygu.

Felly, nid yw wedi nodi unrhyw anghenion presennol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal, nac anghenion yn y dyfodol.

12.6.12 Gwasanaeth adolygu mewnanadlyddion

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi:

- Comisiynwyd wyth fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.
- Mae practisau meddygon teulu hefyd yn darparu'r gwasanaeth.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

12.6.13 Gwasanaeth cyflenwi Naloxone

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi nad oedd unrhyw fferyllfa wedi'i chomisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Fodd bynnag, mae darparwyr eraill y gwasanaeth, er enghraifft tîm lleihau niwed y bwrdd iechyd a'r gwasanaeth 'clicio a danfon' a ddarperir gan DAN24/7.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

12.6.14 Gwasanaeth cymorth cenedlaethol i gartrefi gofal

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi:

- Comisiynwyd tair fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.
- Mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu gan fferyllfeydd i'r cartrefi gofal y maent yn darparu gwasanaethau iddynt, neu lle mae cartref gofal wedi gofyn am y gwasanaeth.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

12.6.15 Dychwelyd blychau offer miniog cleifion

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod yr holl fferyllfeydd wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Felly, nid yw wedi nodi unrhyw anghenion presennol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal, nac anghenion yn y dyfodol.

12.6.16 Rhoi'r Gorau i Ysmygu Lefel 2

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod yr holl fferyllfeydd wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

12.6.17 Gwasanaeth cymryd meddyginiaeth dan oruchwyliaeth

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod 11 fferyllfa wedi'i chomisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Felly, nid yw wedi nodi unrhyw anghenion presennol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal, nac anghenion yn y dyfodol.

12.6.18 Rhaglenni nodwyddau a chwistrellau

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi:

- Comisiynwyd tair fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.
- Mae darparwyr eraill i'r gwasanaeth, ac mae gwasanaeth postio'n cael ei sefydlu ar gyfer y rhai nad ydynt yn gallu defnyddio fferyllfa.

- Os gofynnir i fferyllfa ddarparu'r gwasanaeth, gall gysylltu â'r bwrdd iechyd a gofyn am gael ei chomisiynu i'w ddarparu.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal leol.

12.6.19 Gwasanaeth meddyginiaethau brys

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi nad oedd unrhyw fferyllfa wedi'i chomisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Oherwydd natur y gwasanaeth, fe'i comisiynir i sicrhau gwasgariad daearyddol da o fferyllfeydd sy'n ei ddarparu ar draws daearyddiaeth y bwrdd iechyd.

Felly, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

12.6.20 Gwasanaeth gweinyddu presgripsiynau gan Feddygon Teulu

Nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol mewn perthynas â'r gwasanaeth hwn.

Os bydd practis meddygon teulu yn rhoi'r gorau i weinyddu presgripsiynau i ardal y mae ganddo gydsyniad amlinellol ar ei chyfer, mae'r bwrdd iechyd wedi nodi y bydd angen un o'r canlynol yn y dyfodol:

- darparu gwasanaeth gweinyddu presgripsiynau gan feddygon teulu yn yr ardal honno tra bo'n parhau i fod yn ardal reoledig ac yn fwy na 1.6km mewn llinell syth o fferyllfa
- fferyllfa sydd ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener o leiaf, ac sy'n darparu:
    - yr holl wasanaethau hanfodol
    - y gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol, dychwelyd offer miniog cleifion, rhoi'r gorau i ysmygu lefel 2, a Helpa Fi i Stopio yn y gwasanaeth fferylliaeth.

13 Ardal Dwyrain Conwy

13.1 Ffeithiau allweddol[160]

- Awdurdod Unedol Conwy sydd â'r boblogaeth drydedd leiaf o'r chwe awdurdod unedol, sef 114,891.
- Fodd bynnag, mae'r dwysedd poblogaeth yn 3.7 person fesul hectar, o'i gymharu ag 1.1 ar gyfer Gogledd Cymru ac 1.5 ar gyfer Cymru[161].
- Mae ganddo'r gyfran uchaf o breswylwyr 65 oed a hŷn (22.3%) ac yna Ynys Môn (27.4%) sy'n uwch na chyfartaledd Cymru (21.7%).
- Disgwylir i boblogaeth y bwrdd iechyd sy'n 65 oed a hŷn gynyddu erbyn 2047. Rhagwelir y bydd preswylwyr 65 oed a throsodd yn cynyddu bron 34%, a disgwylir y cynnydd mwyaf yn Sir Ddinbych (36%). Disgwylir y cynnydd mwyaf yn nifer y trigolion yng Nghonwy a Sir y Fflint.
- Ar gyfer trigolion 85 oed a hŷn, Conwy sydd â'r gyfran uchaf, sef 3.9%, ochr yn ochr ag Ynys Môn (3.6%). Mae'r ddau yn uwch na chyfartaledd Cymru o 2.7%.
- Mae 22.9% o boblogaeth yr ardal rhwng 66 a 84 oed, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru o 17.7% a chyfartaledd y bwrdd iechyd o 19.6%.
- Mae 3.9% yn 85 oed ac yn hŷn na chyfartaledd y bwrdd iechyd o 3.1% a chyfartaledd Cymru o 2.7%.
- Mae 13% o boblogaeth yr ardal rhwng 16 a 29 oed, sy'n is na chyfartaledd Cymru (16.7%) a chyfartaledd y bwrdd iechyd o 14.7%.
- Nid oes gan 18.5% o aelwydydd yn Awdurdod Unedol Conwy gar na fan (y drydedd ganran uchaf ar draws Gogledd Cymru).
- Mae 21.3% o boblogaeth yr ardal leol yn byw yn yr 20% mwyaf difreintiedig ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru[162]. Dyma'r ail uchaf ar draws y clystyrau yng Ngogledd Cymru.
- Mae disgwyliad oes yn Awdurdod Unedol Conwy yn 78.5 ar gyfer dynion ac 82.6 ar gyfer menywod[163]
- Mae disgwyliad oes iach yn Awdurdod Unedol Conwy yn 63.1 mlynedd ar gyfer dynion a 63.3 mlynedd ar gyfer menywod ac mae'r bwlch anghydraddoldeb ar gyfer disgwyliad oes iach yn Awdurdod Unedol Conwy yn 7.5 mlynedd ar gyfer dynion a 75.3 mlynedd ar gyfer menywod.
- Yng Nghyfrifiad 2021, dywedir bod gan bron i 21% o breswylwyr ardal y Bwrdd Iechyd salwch tymor hir cyfyngol, sy'n debyg i Gymru (21.6%). Ar draws y rhanbarth, cofnodwyd y cyfrannau uchaf yn Awdurdod Unedol Conwy, sef 22.6% a Sir Ddinbych, sef 23.3%.
- Mae 29% o blant pedair a phump oed yn ardal leol Dwyrain Conwy dros eu pwysau neu'n ordew.
- Dangosir data ar ymddygiad a ffyrdd iach o fyw ar gyfer oedolion yn Awdurdod Unedol Conwy:

[160] Proffiliau Iechyd y Cyhoedd - Proffiliau Cydweithredol Gogledd Orllewin Cymru 2025
[161] Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru - Proffil ystadegol clwstwr gofal sylfaenol Dwyrain Conwy 2025
[162] Iechyd Cyhoeddus Cymru - Dangosfwrdd clystyrau gofal sylfaenol
[163] Data InfoBaseCymru ar gyfer Cymru ddeallus - Disgwyliad oes dynion a menywod (2020 i 2022)

Ardal	Yn gorfforol egnïol am o leiaf 60 munud bob dydd	Yn bwyta o leiaf un dogn o ffrwythau neu lysiau bob dydd	Yn ysmygu tybaco o leiaf unwaith yr wythnos	Yn defnyddio e-sigarennau o leiaf unwaith yr wythnos	Yn dweud eu bod yn yfed alcohol
Awdurdod Unedol Conwy	20.2%	46.9%	2.9%	7.4%	36.2%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	18.3%	45.7%	3.3%	8.2%	36.8%
Cymru	18.3%	46.5%	2.6%	6.9%	35.6%

- Mae'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yng Nghymru yn cofnodi amlder a gallu yn y Gymraeg. Yn 2025, dywedodd bron i 39% o'r preswylwyr yn ardal y bwrdd iechyd eu bod yn gallu siarad Cymraeg. Yn Awdurdod Unedol Conwy, dywedodd 40.4% o'r boblogaeth eu bod yn gallu siarad Cymraeg.
- Mae nifer y cleifion sydd â chyflyrau cronig fel yr adroddwyd ar gofrestrau clefydau Iechyd a Gofal Digidol Cymru, Ebrill 2025, i'w gweld isod.

Cofrestr clefydau	Gorllewin Conwy	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	Cymru
Asthma	8.3%	7.6%	7.1%
Ffibriliad atrïaidd	3.2%	2.8%	2.7%
Canser	4.8%	4.3%	3.7%
Clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint	2.8%	2.7%	2.3%
Diabetes	9.6%	8.3%	8.4%
Epilepsi	1.0%	0.9%	1.0%
Methiant y galon	1.6%	1.4%	1.4%
Gorbwysedd	18.9%	17.9%	16.3%
Trawiad isgemig byrhoedlog oherwydd strôc	2.6%	2.3%	2.2%
Atal clefyd coronaidd y galon am yr eildro	4.6%	3.6%	3.4%

Mae Cynllun Datblygu Lleol Conwy[164] yn nodi'r angen am 4,300 o gartrefi rhwng 2018 a 2033 ar gyfradd flynyddol o 290. Mae un o'r datblygiadau a nodwyd yn berthnasol i oes yr asesiad hwn o anghenion fferyllol:

- Hen Golwyn – 450 uned rhwng 2024 a 2033

[164] Cynllun Datblygu Lleol Conwy

Cynhaliodd y cyngor adolygiad llawn o'r cynllun datblygu lleol ac ym mis Ebrill 2026, roedd yng ngham 6 "Cyflwyno cynllun datblygu lleol newydd" gyda chamau 7 ac 8 eto i'w cwblhau.

13.2 Y ddarpariaeth bresennol o wasanaethau fferyllol o fewn ardal yr Awdurdod Lleol

Mae deg fferyllfa yn yr ardal sy'n cael eu rhedeg gan saith contractwr gwahanol. O'r pedwar practis meddygon teulu, mae un yn gweinyddu presgripsiynau i 11.7% o'i phoblogaeth gofrestredig o un safle.

Mae'r map isod yn dangos lleoliad y fferyllfeydd a'r meddygfeydd fferyllol. Dylid nodi, pan fydd safleoedd yn agos at ei gilydd, y bydd y symbolau'n gorgyffwrdd.

Map 13.1 – lleoliad fferyllfeydd a safleoedd meddygfeydd fferyllol



© OpenStreetMap © CARTO

Safleoedd meddygfeydd fferyllol

Fferyllfa

Yn 2024/25, cafodd 88.0% o bresgripsiynau a ysgrifennwyd gan bractisau meddygon teulu yn yr ardal leol eu gweinyddu gan fferyllfa yn yr ardal, a chafodd 4.1% o'r eitemau ar bresgripsiwn eu gweinyddu neu eu rhoi'n bersonol gan y meddygfeydd fferyllol. Er nad yw'r data sydd ar gael yn dangos y rhaniad canrannol rhwng eitemau wedi'u gweinyddu ac eitemau a roddwyd yn bersonol, ar sail lefel gweinyddu personol mewn mannau eraill yng Nghymru, gellir tybio bod llai na 2% o'r eitemau wedi cael eu gweinyddu'n bersonol.

Yn ystod naw mis cyntaf 2025/26, cafodd 88.8% o bresgripsiynau a ysgrifennwyd gan bractisau meddygon teulu yn yr ardal eu gweinyddu gan fferyllfa yn yr ardal, a chafodd 4.0% o'r eitemau ar bresgripsiwn eu gweinyddu neu eu rhoi'n bersonol gan y feddygfa fferyllol.

Mae'r map ym mhennod 5 yn dangos un ardal yn ne'r ardal leol nad yw o fewn taith car 20 munud i fferyllfa. Mae Google Maps yn datgelu ei bod yn rhan o Fynydd Hiraethog yn cynnwys ychydig o dai/ffermydd gwasgaredig yn unig.

Dyddiau agor y fferyllfeydd:

- mae dwy ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener
- mae pump ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener ac am oriau cyfyngedig ar ddydd Sadwrn
- mae dwy ar agor o ddydd Llun i ddydd Sadwrn
- mae un ar agor o ddydd Llun i ddydd Sul ym Mae Colwyn.

Oriau agor y fferyllfeydd hyn rhwng dydd Llun a dydd Gwener:

- mae tair yn agor am 08.30 a'r gweddill yn agor am 09.00
- mae'r amseroedd cau yn amrywio rhwng 17.30 a 18.30 gydag un fferyllfa yng Nghaergybi ar agor tan 19.00.

Mae deuddeg fferyllfa'n cau am ginio ar adegau amrywiol rhwng 12.30 a 14.00. Mae gweddill y fferyllfeydd ar agor drwy'r dydd.

Ar ddydd Sadwrn, mae'r holl fferyllfeydd yn agor am 09.00. O'r tair fferyllfa sydd ar agor drwy'r dydd, mae un yn cau am ginio rhwng 12:30 a 13.20. Maent yn cau rhwng 17:00 a 18.00. Mae gan chwe fferyllfa oriau agor craidd ar ddydd Sadwrn.

Mae'r fferyllfa sy'n agor ar ddydd Sul yn gwneud hynny rhwng 10.00 a 16.00. Oriau agor ychwanegol yw'r rhain.

Mae'r bwrdd iechyd yn gofyn i'r fferyllfeydd a fyddant ar agor ar wyliau cyhoeddus a gwyliau banc a Sul y Pasg. Mae'r ymatebion yn cael eu casglu, ac mae'r bwrdd iechyd yn sefydlu a oes unrhyw fylchau daearyddol yn y ddarpariaeth ai peidio. Pan fydd bwlch, bydd fferyllfa naill ai'n cael ei chomisiynu neu ei chyfarwyddo i agor.

Ymatebodd saith fferyllfa i holiadur contractwr fferyllol a daw'r wybodaeth ganlynol o'r ymatebion hynny.

Mae pob un o'r saith fferyllfa hyn yn hygyrch i gadeiriau olwyn, ac mae gan bum ardal ymgynghori sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn. Nid oes gan un ystafell ymgynghori fynediad i gadeiriau olwyn, a gall un fferyllfa dynnu cadair i wneud yr ystafell ymgynghori'n hygyrch i gadeiriau olwyn. Mae'r chwe ardal ymgynghori yn cynnwys:

- ystafelloedd preifat
- ardal ddynodedig lle gall y claf a'r fferyllydd eistedd i lawr gyda'i gilydd a siarad gyda llais arferol heb gael eu clywed
- maent wedi'u dynodi'n glir fel ardaloedd ar gyfer ymgynghoriadau cyfrinachol sydd ar wahân i'r ardaloedd yn y fferyllfa ar gyfer y cyhoedd.

Nid yw'r seithfed yn gadael i glaf a fferyllydd eistedd i lawr gyda'i gilydd a siarad gyda llais arferol heb gael eu clywed. Dyma'r fferyllfa y byddai angen iddi gael gwared ar gadair i sicrhau mynediad i gadeiriau olwyn.

Cadarnhaodd pedair fferyllfa fod ganddynt siaradwyr Cymraeg, a chadarnhaodd pedair fferyllfa bod staff yn siarad ieithoedd ar wahân i Saesneg.

- Pwyleg ac Wrdw
- Pwyleg
- Arabaidd
- Wrdw.

Mae pob un o'r chwe fferyllfa yn gweinyddu presgripsiynau ar gyfer pob math o gyfarpar.

Mae pob un o'r chwe fferyllfa'n casglu presgripsiynau gan bractisau meddygon teulu. Mewn perthynas â danfon eitemau a weinyddwyd:

- mae pump yn darparu gwasanaeth danfon am ddim ar gais, ac mae un hefyd yn darparu'r gwasanaeth am ffi
- mae un fferyllfa yn darparu gwasanaeth danfon am ffi
- dywedodd un ei bod yn cyfyngu'r gwasanaeth i gleifion oedrannus ac agored i niwed sy'n gaeth i'r tŷ.

Awgrymodd un fferyllfa fod angen gwasanaeth newydd nad yw'n cael ei ddarparu yn yr ardal ar hyn o bryd – pecynnau systemau dosio wedi'u monitro.

Roedd un fferyllfa o'r farn bod angen gwasanaethau clinigol ychwanegol newydd nad ydynt ar gael ar hyn o bryd – gwasanaeth atal y mislif dros dro a brechiadau teithio.

Cadarnhaodd pob un o'r wyth fferyllfa fod ganddynt ddigon o gapasiti yn eu safle presennol i reoli cynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn eu darparu. Dywedodd pedair fod ganddynt gapasiti staffio digonol, dywedodd dwy nad oes ganddynt ddigon o gapasiti staffio ond y gallent wneud addasiadau, ac ni chadarnhaodd un fferyllfa ei sefyllfa.

Mae gan ddwy fferyllfa gynlluniau i ddatblygu neu ehangu eu safleoedd neu'r gwasanaethau maent yn eu darparu:

- mae un yn bwriadu cyflwyno gwasanaethau presgripsiynu gan fod fferyllydd presgripsiynu ganddi bellach, ac ehangu ei gwasanaeth danfon am ddim.
- Mae gan un fferyllfa fferyllydd sydd wrthi'n datblygu cwmpas ei ymarfer.

Ni chomisiynwyd y naill fferyllfa na'r llall i ddarparu'r gwasanaeth presgripsiynu annibynnol gan fferyllwyr yn 2025/26.

Ni chafwyd ymateb i'r holiadur i feddygon fferyllol.

13.2.1 Gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol

Roedd yr holl fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn ac yn 2025/26 roeddent wedi darparu:

- 7,087 o ymgynghoriadau ar gyfer anhwylderau cyffredin
- 426 o ymgynghoriadau ar gyfer dulliau atal cenhedlu
- 1,950 o gyflenwadau meddyginiaethau brys

13.2.2 Adolygu meddyginiaethau wrth ryddhau

Yn 2025/26, darparodd pob un o'r fferyllfeydd y gwasanaeth hwn a chwblhau 370 o adolygiadau.

13.2.3 Gwasanaeth presgripsiynu annibynnol gan fferyllwyr

Comisiynwyd tair fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26 a darparwyd cyfanswm o 2,090 o ymgynghoriadau yn ystod y flwyddyn.

13.2.4 Gwasanaeth brechu tymhorol rhag y ffliw

Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26 a darparwyd cyfanswm o 2,718 o frechiadau.

13.2.5 Addasu cyfarpar stoma

Nid oes yr un o'r fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn er eu bod yn rhoi presgripsiynau am gyfarpar.

13.2.6 Adolygu'r defnydd o gyfarpar

Nid oes yr un o'r fferyllfeydd yn yr ardal yn darparu'r gwasanaeth hwn er eu bod yn rhoi presgripsiynau am gyfarpar.

13.2.7 Gwasanaeth cyflenwi profion llif unffordd

Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

13.2.8 Gwasanaeth profi am firysau a gludir yn y gwaed

Ni chomisiynwyd unrhyw fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

13.2.9 Gwasanaeth brechu Covid-19

Ni chomisiynwyd unrhyw fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

13.2.10 Helpa fi i stopio yn y fferyllfa

Comisiynwyd wyth fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

13.2.11 Gwasanaeth adolygu mewnanadlyddion

Comisiynwyd saith fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

13.2.12 Gwasanaeth cyflenwi Naloxone

Ni chomisiynwyd unrhyw fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

13.2.13 Gwasanaeth cymorth cenedlaethol i gartrefi gofal

Comisiynwyd un fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

13.2.14 Dychwelyd blychau offer miniog cleifion

Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

13.2.15 Gwasanaeth rhoi'r gorau i ysmygu lefel 2

Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

13.2.16 Gwasanaeth cymryd meddyginiaeth dan oruchwyliaeth

Comisiynwyd naw fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

13.2.17 Rhaglenni nodwyddau a chwistrellau

Comisiynwyd pedair fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

13.2.18 Gwasanaeth meddyginiaethau brys

Comisiynwyd un fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

13.3 Y ddarpariaeth bresennol o wasanaethau fferyllol y tu allan i'r ardal leol

Mae rhai trigolion yn dewis defnyddio contractwyr y tu allan i'r ardal leol ac ardal y Bwrdd Iechyd:

- Er mwyn defnyddio gwasanaethau a gynigir gan gontractwyr dosbarthu cyfarpar
- Oherwydd bod y contractwr hwnnw yn agos at ble mae'n gweithio, yn siopa neu'n mynd at ddibenion hamdden neu am resymau eraill.

Er bod y rhan fwyaf o bresgripsiynau a ysgrifennwyd gan bractisau meddygon teulu yn 2024/25 wedi eu gweinyddu gan fferyllfeydd neu feddygfeydd fferyllol yn yr ardal, cafodd 7.2% eu gweinyddu y tu allan i'r ardal leol:

- 4.2% gan fferyllfeydd yng Ngorllewin Conwy
- 2.0% gan fferyllfeydd yng Ngogledd Sir Ddinbych
- 0.7% gan gontractwyr yn Lloegr
- 0.3% yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Yn ogystal, mae'n bosibl bod preswylwyr wedi defnyddio un neu fwy o wasanaethau fferyllol a ddarperir gan fferyllfa arall y tu allan i'r ardal leol ac ardal y Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag, nid yw'n bosibl mesur hyn o'r data a gofnodwyd.

13.4 Gwasanaethau eraill y GIG

Mae manylion gwasanaethau'r GIG sy'n effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol ar gael ym mhennod chwech.

13.5 Dewis o ran cael gwasanaethau fferyllol

Fel y gwelir yn adrannau 13.2 ac 13.3, mae'r rhai sy'n byw yn yr ardal ac sydd wedi cofrestru ag un o'r practisau meddygon teulu fel arfer yn dewis casglu eu presgripsiynau o un o'r fferyllfeydd yn yr ardal neu, os ydynt yn gymwys, i gael eu presgripsiwn o'r practis. Mae'r rhai sy'n mynd y tu hwnt i'r ardal leol fel arfer yn gwneud hynny er mwyn defnyddio fferyllfa gyfagos neu gontractwr cyfarpar dosbarthu yn ardal y bwrdd iechyd.

Yn 2024/25, gweinyddodd dros 98 o gontractwyr eitemau a ysgrifennwyd gan un o'r practisau meddygon teulu yn yr ardal hon, ac o'r rhain:

- roedd deg wedi'u lleoli yn yr ardal leol
- roedd 66 wedi'u lleoli mewn mannau eraill yn ardal y bwrdd iechyd
- roedd 22 wedi'u lleoli mewn mannau eraill yng Nghymru
- roedd nifer o'r presgripsiynau wedi'u gweinyddu yn Lloegr.

Yn 2025/26, gweinyddodd dros 130 o gontractwyr eitemau:

- roedd deg wedi'u lleoli yn yr ardal leol
- roedd 62 wedi'u lleoli mewn mannau eraill yn ardal y bwrdd iechyd
- roedd 58 wedi'u lleoli mewn mannau eraill yng Nghymru
- roedd nifer o'r presgripsiynau wedi'u gweinyddu yn Lloegr.

13.6 Bylchau yn y ddarpariaeth

Wrth ystyried a oes unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth o wasanaethau fferyllol, mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod wyth fferyllfa wedi cadarnhau bod ganddynt ddigon o gapasiti yn eu safle presennol i reoli cynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn eu darparu. Dywedodd pedair fod ganddynt gapasiti staffio digonol, dywedodd dwy nad oes ganddynt ddigon o gapasiti staffio ond y gallent wneud addasiadau, ac ni chadarnhaodd un fferyllfa ei sefyllfa.

13.6.1 Gwasanaethau hanfodol

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi:

- Mae'r fferyllfeydd wedi'u gwasgaru ar hyd yr arfordir, mewn ardaloedd lle mae dwysedd poblogaeth uwch ac amddifadedd uwch yn gyffredinol.
- Nid yw ardal yng nghornel de orllewinol yr ardal leol o fewn pellter gyrru o 20 munud i fferyllfa, ond mae hon yn rhan o Fynydd Hiraethog gyda dim ond ychydig o dai/ffermydd gwasgaredig.
- Mae un datblygiad tai hysbys i fod i ddigwydd yn ystod oes y ddogfen hon a fydd yn darparu hyd at 450 o dai newydd erbyn 2033.
- Mae poblogaeth yr ardal yn cynyddu yn ystod y tymor gwyliau oherwydd mewnlif o ymwelwyr a thwristiaid.
- Oriau agor y fferyllfeydd.

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi, pe bai gwasanaethau hanfodol yn cael eu colli oherwydd bod fferyllfa'n cael ei thynnu oddi ar y rhestr fferyllol, y bydd angen un o'r canlynol yn y dyfodol:

- fferyllfa newydd yn yr un dref/pentref sy'n darparu gwasanaethau hanfodol, y gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol, dychwelyd blychau miniog cleifion, gwasanaeth gweinyddu meddyginiaeth dan oruchwyliaeth, Helpa Fi i Stopio yn y fferyllfa, a gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu lefel 2 am 40 o oriau agor craidd yr wythnos
- y gwasanaeth gweinyddu presgripsiynau gan feddygon teulu os yw'r dref/pentref mewn ardal reoledig

oni bai bod fferyllfa arall yn y dref/pentref honno ac yna ni fydd yr angen hwn yn codi yn y dyfodol.

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi, pe bai oriau agor atodol ar ddydd Sadwrn yn cael eu colli o 1 Hydref 2026 ymlaen, a fyddai'n arwain at lai na thair awr o ddarpariaeth o wasanaethau fferyllol mewn tref/pentref, y bydd angen yn y dyfodol i ddarparu gwasanaethau hanfodol am dair awr graidd ar ddydd Sadwrn yn y dref/pentref neu drefi/pentrefi lle mae'r gostyngiad mewn oriau agor atodol wedi digwydd, rhwng 09.00 a 17.00, oni bai bod fferyllfa arall yn y dref/pentref honno ac yna ni fydd yr angen yn codi yn y dyfodol.

Os bydd practis meddygon teulu yn rhoi'r gorau i weinyddu presgripsiynau i ardal y mae ganddo gydsyniad amlinellol ar ei chyfer, mae'r bwrdd iechyd wedi nodi y bydd angen un o'r canlynol yn y dyfodol:

- darparu gwasanaeth gweinyddu presgripsiynau gan feddygon teulu yn yr ardal honno tra bo'n parhau i fod yn ardal reoledig ac yn fwy na 1.6km mewn llinell syth o fferyllfa
- fferyllfa sydd ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener o leiaf, ac sy'n darparu:
    - yr holl wasanaethau hanfodol
    - y gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol, dychwelyd blychau miniog cleifion, gwasanaeth cymryd meddyginiaeth dan oruchwyliaeth, Helpa fi i Stopio yn y fferyllfa, a gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu lefel 2.

13.6.2 Gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod yr holl fferyllfeydd wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Felly, nid yw wedi nodi unrhyw anghenion presennol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal, nac anghenion yn y dyfodol.

13.6.3 Adolygu meddyginiaethau wrth ryddhau

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi'r holl fferyllfeydd a ddarparodd y gwasanaeth hwn yn 2025/26. Felly, nid yw wedi nodi unrhyw anghenion presennol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal, nac anghenion yn y dyfodol.

13.6.4 Gwasanaeth presgripsiynu annibynnol gan fferyllwyr

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi:

- Comisiynwyd tair fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.
- Mae gan ddwy fferyllfa gynlluniau i gyflwyno'r gwasanaeth hwn.
- Y dyhead a nodir yn Fferylliaeth: Cyflawni Cymru Iachach yw i bob fferyllfa gael presgripsiynydd annibynnol erbyn 2030 ac mae wedi gosod targedau interim i 50% o fferyllfeydd ddarparu'r gwasanaeth hwn ym mhob ardal erbyn mis Ebrill 2027 a 70% erbyn mis Ebrill 2029.
- O 2026 ymlaen, rhagwelir y bydd pob fferyllydd sydd newydd gymhwyso hefyd yn cymhwyso fel presgripsiynydd annibynnol ar ôl cwblhau ei raglen israddedig

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

Os na fydd y targedau interim yn cael eu cyrraedd, bydd angen yn y dyfodol i ddigon o fferyllfeydd yn yr ardal ddarparu'r gwasanaeth hwn er mwyn cyrraedd y ddau darged.

13.6.5 Gwasanaeth brechu tymhorol rhag y ffliw

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod yr holl fferyllfeydd wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Felly, nid yw wedi nodi unrhyw anghenion presennol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal, nac anghenion yn y dyfodol.

13.6.6 Addasu cyfarpar stoma

Er nad oes fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn, mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi bod presgripsiynau am gyfarpar yn cael eu gweinyddu gan gontractwyr mewn mannau eraill yng Nghymru a hefyd yn Lloegr.

Rhagwelir felly y bydd y contractwyr hyn yn addasu cyfarpar stoma yn ôl yr angen cyn eu hanfon neu eu danfon at gleifion.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

13.6.7 Adolygu'r defnydd o gyfarpar

Er nad oes fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn, mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi bod presgripsiynau am gyfarpar yn cael eu gweinyddu gan gontractwyr mewn mannau eraill yng Nghymru a hefyd yn Lloegr.

Mae unigolion y mae angen y gwasanaeth adolygu defnydd o gyfarpar arnynt yn debygol o gael mynediad at y gwasanaeth hwn gan y contractwr sy'n gweinyddu eu presgripsiynau am gyfarpar neu gallai gael mynediad ato gan ddarparwyr gofal iechyd eraill fel nyrsys stoma.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

13.6.8 Gwasanaeth cyflenwi profion llif unffordd

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod yr holl fferyllfeydd wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. O ganlyniad, mae'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal leol ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

13.6.9 Gwasanaeth profi am firysau a gludir yn y gwaed

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi nad oedd unrhyw fferyllfa wedi'i chomisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Fodd bynnag, mae darparwyr eraill i'r gwasanaeth, er enghraifft tîm lleihau niwed y Bwrdd Iechyd.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

13.6.10 Gwasanaeth brechu Covid-19

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi nad oedd unrhyw fferyllfa wedi'i chomisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Mae hefyd wedi nodi bod practisau meddygon teulu a thîm brechu'r Bwrdd Iechyd yn darparu'r gwasanaeth.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

13.6.11 Helpa fi i stopio yn y fferyllfa

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod yr holl fferyllfeydd wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Felly, nid yw wedi nodi unrhyw anghenion presennol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal, nac anghenion yn y dyfodol.

13.6.12 Gwasanaeth adolygu mewnanadlyddion

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi:

- Comisiynwyd saith fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.
- Mae practisau meddygon teulu hefyd yn darparu'r gwasanaeth.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

13.6.13 Gwasanaeth cyflenwi Naloxone

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi nad oedd unrhyw fferyllfa wedi'i chomisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Fodd bynnag, mae darparwyr eraill y gwasanaeth, er enghraifft tîm lleihau niwed y bwrdd iechyd a'r gwasanaeth 'clicio a danfon' a ddarperir gan DAN24/7.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

13.6.14 Gwasanaeth cymorth cenedlaethol i gartrefi gofal

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi:

- Comisiynwyd un fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.
- Mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu gan fferyllfeydd i'r cartrefi gofal y maent yn darparu gwasanaethau iddynt, neu lle mae cartref gofal wedi gofyn am y gwasanaeth.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

13.6.15 Dychwelyd blychau offer miniog cleifion

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod yr holl fferyllfeydd wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Felly, nid yw wedi nodi unrhyw anghenion presennol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal, nac anghenion yn y dyfodol.

13.6.16 Rhoi'r Gorau i Ysmygu Lefel 2

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod yr holl fferyllfeydd wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Felly, nid yw wedi nodi unrhyw anghenion presennol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal, nac anghenion yn y dyfodol.

13.6.17 Gwasanaeth cymryd meddyginiaeth dan oruchwyliaeth

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod naw fferyllfa wedi'i chomisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Felly, nid yw wedi nodi unrhyw anghenion presennol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal, nac anghenion yn y dyfodol.

13.6.18 Rhaglenni nodwyddau a chwistrellau

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi:

- Comisiynwyd pedair fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.
- Mae darparwyr eraill i'r gwasanaeth, ac mae gwasanaeth postio'n cael ei sefydlu ar gyfer y rhai na allant ddefnyddio fferyllfa.
- Os gofynnir i fferyllfa ddarparu'r gwasanaeth, gall gysylltu â'r bwrdd iechyd a gofyn am gael ei chomisiynu i'w ddarparu.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

13.6.19 Gwasanaeth meddyginiaethau brys

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod un fferyllfa wedi'i chomisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Oherwydd natur y gwasanaeth, fe'i comisiynir i sicrhau gwasgariad daearyddol da o fferyllfeydd sy'n ei ddarparu ar draws daearyddiaeth y bwrdd iechyd.

Felly, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

13.6.20 Gwasanaeth gweinyddu presgripsiynau gan Feddygon Teulu

Nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol mewn perthynas â'r gwasanaeth hwn.

Os bydd practis meddygon teulu yn rhoi'r gorau i weinyddu presgripsiynau i ardal y mae ganddo gydsyniad amlinellol ar ei chyfer, mae'r bwrdd iechyd wedi nodi y bydd angen un o'r canlynol yn y dyfodol:

- darparu gwasanaeth gweinyddu presgripsiynau gan feddygon teulu yn yr ardal honno tra bo'n parhau i fod yn ardal reoledig ac yn fwy na 1.6km mewn llinell syth o fferyllfa
- fferyllfa sydd ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener o leiaf, ac sy'n darparu:
    - yr holl wasanaethau hanfodol
    - y gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol, offer miniog cleifion, rhoi'r gorau i ysmygu lefel 2, a gwasanaeth Helpa Fi i Stopio yn y fferyllfa.

14 Ardal Gogledd Sir Ddinbych

14.1 Ffeithiau allweddol[165]

- Awdurdod Unedol Sir Ddinbych sydd â'r boblogaeth leiaf ond un o'r chwe awdurdod unedol, sef 98,202.
- Mae'r dwysedd poblogaeth yn 7.97 person fesul hectar, o'i gymharu ag 1.1 ar gyfer Gogledd Cymru ac 1.5 ar gyfer Cymru[166].
- Disgwylir i boblogaeth gyffredinol y bwrdd iechyd gynyddu ychydig dros 50,000 o breswylwyr (6.8%) rhwng 2022 a 2047. Ar lefel awdurdodau lleol, disgwylir y cynnydd mwyaf yng Ngwynedd (10.8%) a Sir Ddinbych (10.4%). Rhagwelir y bydd y cynnydd lleiaf yn Wrecsam (2.4%).
- Disgwylir i boblogaeth y bwrdd iechyd sy'n 65 oed a hŷn gynyddu erbyn 2047 hefyd. Rhagwelir y bydd preswylwyr 65 oed a throsodd yn cynyddu bron 34%, a disgwylir y cynnydd mwyaf yn Sir Ddinbych (36%).
- Ar gyfer trigolion 85 oed a hŷn, Awdurdod Unedol Sir Ddinbych sydd â'r drydedd gyfran uchaf, sef 3.2%. Mae hyn yn uwch na chyfartaledd Cymru o 2.7%.
- Mae gan y rhan fwyaf o ardaloedd awdurdodau unedol ar draws ardal y Bwrdd Iechyd ganran is o breswylwyr o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig o'i gymharu â'r cyfartaledd i Gymru (5.2%), ac eithrio Sir Ddinbych sydd hefyd yn 5.2%.
- Mae 20.2% o boblogaeth yr ardal rhwng 66-84 oed, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru o 17.7% a chyfartaledd y bwrdd iechyd o 19.6%.
- Mae 3.1% o boblogaeth yr ardal leol yn 85 oed ac yn hŷn, yr un peth â chyfartaledd y bwrdd iechyd o 3.1% ac yn uwch na chyfartaledd Cymru o 2.7%.
- Mae 18% o boblogaeth yr ardal rhwng 0 a 15 oed, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru (17.1%) a chyfartaledd y bwrdd iechyd o 16.7%.
- Mae aelwydydd un person yng Ngogledd Sir Ddinbych yn cyfrif am 34.1% o gyfanswm yr aelwydydd; mae 16.9% o aelwydydd Gogledd Sir Ddinbych yn cael eu meddiannu gan un person dros 66 oed. Mae hyn yn uwch na chyfartaledd Cymru o (14.6%) a chyfartaledd y bwrdd iechyd o 15.8%.
- Ar lefel ardal, Gogledd Sir Ddinbych sydd â'r gyfran uchaf o ofalwyr di-dâl (11.4%) a'r niferoedd uchaf, sef ychydig dros 6,500.
- Nid oes gan 22.1% o aelwydydd yr ardal gar na fan (yr ail ganran uchaf ar draws Gogledd Cymru).
- Mae 27.8% o boblogaeth yr ardal yn byw yn yr 20% mwyaf difreintiedig o Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru.[167] Dyma'r gyfran uchaf o boblogaeth ar draws yr ardaloedd.
- Mae disgwyliad oes yn Sir Ddinbych yn 77.5 ar gyfer dynion ac 81.0 ar gyfer menywod[168].
- Mae disgwyliad oes iach yn Sir Ddinbych yn 60.5 mlynedd ar gyfer dynion a 59.6 mlynedd ar gyfer menywod ac mae'r bwlch anghydraddoldeb ar gyfer

[165] Proffiliau Iechyd y Cyhoedd - Proffiliau Cydweithredol Gogledd Orllewin Cymru 2025
[166] Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru - Proffil ystadegol clwstwr gofal sylfaenol Gogledd Sir Ddinbych 2025
[167] Iechyd Cyhoeddus Cymru - Dangosfwrdd clystyrau gofal sylfaenol
[168] Data InfoBaseCymru ar gyfer Cymru ddeallus - Disgwyliad oes dynion a menywod (2020 i 2022)

disgwyliad oes iach yn Sir Ddinbych yn 9.2 blynedd ar gyfer dynion a 8.9 mlynedd ar gyfer menywod.

- Mae 29.7% yn blant pedair a phump oed yn ardal leol Gogledd Sir Ddinbych dros eu pwysau neu'n ordew.
- Yng Nghyfrifiad 2021, dywedir bod gan bron i 21% o breswylwyr ardal y Bwrdd Iechyd salwch tymor hir cyfyngol, sy'n debyg i Gymru (21.6%). Ar draws y rhanbarth, cofnodwyd y cyfrannau uchaf yng Nghonwy, sef 22.6% a Sir Ddinbych, sef 23.3%.
- Mae data ar ymddygiad a ffyrdd iach o fyw ar gyfer oedolion yn Awdurdod Unedol Sir Ddinbych yn dangos y canlynol:

Ardal	Yn gorfforol egnïol am o leiaf 60 munud bob dydd	Yn bwyta o leiaf un dogn o ffrwythau neu lysiau bob dydd	Yn ysmygu tybaco o leiaf unwaith yr wythnos	Yn defnyddio e-sigarennau o leiaf unwaith yr wythnos	Yn dweud eu bod yn yfed alcohol
Sir Ddinbych	19.7%	47.9%	2.5%	7.4%	33.7%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	18.3%	45.7%	3.3%	8.2%	36.8%
Cymru	18.3%	46.5%	2.6%	6.9%	35.6%

- Mae llai na 40% o oedolion o oedran gweithio ar draws yr ardal yn gyffredinol yn dweud eu bod o bwysau iach. Sir Ddinbych sydd â'r gyfran uchaf ar lefel awdurdod unedol ar 47.6%.
- Mae'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yng Nghymru yn cofnodi amlder a gallu yn y Gymraeg. Yn 2025, dywedodd bron i 39% o'r preswylwyr yn ardal y bwrdd iechyd eu bod yn gallu siarad Cymraeg. Yn Sir Ddinbych, dywedodd 32.3% o'r boblogaeth eu bod yn gallu siarad Cymraeg.
- Mae nifer y cleifion sydd â chyflyrau cronig fel yr adroddwyd ar gofrestrau clefydau Iechyd a Gofal Digidol Cymru, Ebrill 2025, i'w gweld isod.

Cofrestr clefydau	Gorllewin Conwy	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	Cymru
Asthma	8.0%	7.6%	7.1%
Ffibriliad atrïaidd	2.9%	2.8%	2.7%
Canser	4.2%	4.3%	3.7%
Clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint	3.2%	2.7%	2.3%
Diabetes	9.4%	8.3%	8.4%
Epilepsi	1.1%	0.9%	1.0%
Methiant y galon	1.4%	1.4%	1.4%
Gorbwysedd	17.7%	17.9%	16.3%
Trawiad isgemig byrhoedlog oherwydd strôc	2.2%	2.3%	2.2%

Atal clefyd coronaidd y galon am yr eildro	4.1%	3.6%	3.4%


- Mae Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych[169] yn nodi'r angen am 3,775 o unedau tai rhwng 2018 a 2033. Yn ôl Adroddiad Monitro Blynyddol 2025, er mai cyfradd adeiladu'r cyngor yw 500 uned y flwyddyn, cwblhawyd 351 yn 2024/25 a rhagwelwyd y byddai 85 a 93 yn cael eu cwblhau yn 2025/26 a 2026/27 yn y drefn honno. Er bod disgwyl i 1,715 o unedau gael eu hadeiladu ym Modelwyddan, mae'r adroddiad yn cadarnhau bod y caniatâd cynllunio amlinellol wedi dod i ben.

14.2 Y ddarpariaeth bresennol o wasanaethau fferyllol o fewn yr ardal

Mae 15 fferyllfa yn yr ardal sy'n cael eu rhedeg gan ddeg contractwr gwahanol. Nid oes yr un o'r chwe practis yn gweinyddu presgripsiynau.

Mae'r map isod yn dangos lleoliad y fferyllfeydd. Dylid nodi, pan fydd safleoedd yn agos at ei gilydd, y bydd y symbolau'n gorgyffwrdd.

Map 14.1 – lleoliad fferyllfeydd



© OpenStreetMap © CARTO Fferyllfa

[169] Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych ac Adroddiadau Monitro Blynyddol

Rhwng 2025 a 2026, cafodd 93.3% o bresgripsiynau a ysgrifennwyd gan yr wyth practis meddygon teulu yn yr ardal eu gweinyddu gan fferyllfa yn yr ardal.

Yn ystod naw mis cyntaf 2025/26, ysgrifennwyd 93.6% o'r presgripsiynau gan bractisau meddygon teulu yr ardal.

Mae'r map ym mhennod 5 yn dangos bod pob rhan o'r ardal leol o fewn taith car o 20 munud i fferyllfa, ac mae'r rhan fwyaf o drigolion o fewn pellter o ddeg munud mewn car.

Dyddiau agor y fferyllfeydd:

- mae pump ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener
- mae chwech ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener ac am oriau cyfyngedig ar ddydd Sadwrn
- mae dwy ar agor o ddydd Llun i ddydd Sadwrn
- mae dwy ar agor o ddydd Llun i ddydd Sul, un ym Modelwyddan ac un ym Mhrestatyn.

Oriau agor y fferyllfeydd hyn rhwng dydd Llun a dydd Gwener:

- mae un yn agor am 08.45 a'r gweddill yn agor am 09.00
- mae'r amseroedd cau yn amrywio rhwng 17.30 a 18.00 gydag un fferyllfa ym Mhrestatyn ar agor tan 20:00 ac un arall ym Modelwyddan ar agor tan 22:00. Mae un fferyllfa yn cau am 13:00 ar ddydd Mercher.

Mae 11 fferyllfa'n cau am ginio ar adegau amrywiol rhwng 12.45 a 14.15. Mae gweddill y fferyllfeydd ar agor drwy'r dydd.

Ar ddydd Sadwrn, mae un fferyllfa'n agor am 08:45, gyda'r gweddill yn agor am 09:00. O'r pedair fferyllfa sydd ar agor drwy'r dydd, mae un yn cau am ginio rhwng 12:45 a 13.30, ac mae un arall ar gau rhwng 13:00 a 16:30. Mae dwy fferyllfa'n cau am 17.30, un am 19.00 ac un am 22.00. Mae gan ddeg fferyllfa oriau agor craidd ar ddydd Sadwrn.

Rhyngddynt, mae'r ddwy fferyllfa sydd ar agor ar ddydd Sul ar agor rhwng 08.45 a 22.00. Oriau agor atodol yw'r rhain.

Mae'r bwrdd iechyd yn gofyn i'r fferyllfeydd a fyddant ar agor ar wyliau cyhoeddus a gwyliau banc a Sul y Pasg. Mae'r ymatebion yn cael eu casglu, ac mae'r bwrdd iechyd yn sefydlu a oes unrhyw fylchau daearyddol yn y ddarpariaeth ai peidio. Pan fydd bwlch, bydd fferyllfa naill ai'n cael ei chomisiynu neu ei chyfarwyddo i agor.

Ymatebodd dwy fferyllfa i holiadur contractwr fferylliaeth a daw'r wybodaeth ganlynol o'r ymatebion hynny.

Mae'r ddwy fferyllfa yn hygyrch i gadeiriau olwyn, ac mae ganddynt ardal ymgynghori sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn. Mae gan y ddwy ardal ymgynghori:

- ystafelloedd preifat

- ardal ddynodedig lle gall y claf a'r fferyllydd eistedd i lawr gyda'i gilydd a siarad gyda llais arferol heb gael eu clywed
- maent wedi'u dynodi'n glir fel ardaloedd ar gyfer ymgynghoriadau cyfrinachol sydd ar wahân i'r ardaloedd yn y fferyllfa ar gyfer y cyhoedd.

Nid oes siaradwyr Cymraeg yn y naill fferyllfa na'r llall. Ni siaredir unrhyw ieithoedd eraill, ar wahân i Saesneg.

Mae'r ddwy fferyllfa yn gweinyddu presgripsiynau ar gyfer pob math o gyfarpar.

Mae'r ddwy fferyllfa'n casglu presgripsiynau gan bractisau meddygon teulu. Maent yn darparu gwasanaeth danfon i gleifion oedrannus ac agored i niwed sy'n gaeth i'r tŷ.

Nid oedd yr un o'r fferyllfeydd o'r farn bod angen gwasanaeth clinigol ychwanegol sydd eisoes yn bodoli ond nad yw'n cael ei ddarparu ar hyn o bryd, na bod angen gwasanaeth newydd.

Cadarnhaodd y ddwy fferyllfa fod ganddynt ddigon o gapasiti yn eu safle presennol i reoli cynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn eu darparu. Er nad oes ganddynt ddigon o staff na chapasiti yn yr adeilad, gallant wneud addasiadau i ddelio â'r cynnydd yn y galw.

Nid oes gan y naill fferyllfa na'r llall gynlluniau i ddatblygu nac ehangu eu darpariaeth gwasanaeth.

14.2.1 Gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol

Roedd 14 fferyllfa wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn ac yn 2025/26 roeddent wedi darparu:

- 7,461 o ymgynghoriadau ar gyfer anhwylderau cyffredin
- 510 o ymgynghoriadau ar gyfer dulliau atal cenhedlu
- 3,310 o gyflenwadau meddyginiaethau brys

14.2.2 Adolygu meddyginiaethau wrth ryddhau

Yn 2025/26, roedd pob un o'r fferyllfeydd wedi darparu'r gwasanaeth hwn a chwblhau 558 o adolygiadau.

14.2.3 Gwasanaeth presgripsiynu annibynnol gan fferyllwyr

Comisiynwyd saith fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26 a darparwyd cyfanswm o 4,534 o ymgynghoriadau yn ystod y flwyddyn.

14.2.4 Gwasanaeth brechu tymhorol rhag y ffliw

Comisiynwyd 14 fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26 a darparwyd cyfanswm o 1,677 o frechiadau.

14.2.5 Addasu cyfarpar stoma

Nid oes yr un o'r fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn er eu bod yn rhoi presgripsiynau am gyfarpar.

14.2.6 Adolygu'r defnydd o gyfarpar

Nid oes yr un o'r fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn er eu bod yn rhoi presgripsiynau am gyfarpar.

14.2.7 Gwasanaeth cyflenwi profion llif unffordd

Comisiynwyd deg fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

14.2.8 Gwasanaeth profi am firysau a gludir yn y gwaed

Comisiynwyd un fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

14.2.9 Gwasanaeth brechu Covid-19

Comisiynwyd pedair fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

14.2.10 Helpa fi i stopio yn y fferyllfa

Comisiynwyd 12 fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

14.2.11 Gwasanaeth adolygu mewnanadlyddion

Comisiynwyd pum fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

14.2.12 Gwasanaeth cyflenwi Naloxone

Comisiynwyd un fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

14.2.13 Gwasanaeth cymorth cenedlaethol i gartrefi gofal

Comisiynwyd saith fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

14.2.14 Dychwelyd blychau offer miniog cleifion

Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

14.2.15 Gwasanaeth rhoi'r gorau i ysmygu lefel 2

Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

14.2.16 Gwasanaeth cymryd meddyginiaeth dan oruchwyliaeth

Comisiynwyd 12 fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

14.2.17 Rhaglenni nodwyddau a chwistrellau

Comisiynwyd pedair fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

14.2.18 Gwasanaeth meddyginiaethau brys

Comisiynwyd un fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

14.3 Y ddarpariaeth bresennol o wasanaethau fferyllol y tu allan i'r ardal leol

Mae rhai trigolion yn dewis defnyddio contractwyr y tu allan i'r ardal leol ac ardal y Bwrdd Iechyd:

- Er mwyn defnyddio gwasanaethau a gynigir gan gontractwyr dosbarthu cyfarpar
- Oherwydd bod y contractwr hwnnw yn agos at ble mae'n gweithio, yn siopa neu'n mynd at ddibenion hamdden neu am resymau eraill.

Er bod y rhan fwyaf o bresgripsiynau a ysgrifennwyd gan bractisau meddygon teulu yn 2024/25 wedi eu gweinyddu gan fferyllfeydd yn yr ardal, cafodd 5.7% eu gweinyddu y tu allan i'r ardal:

- 2.8% gan fferyllfeydd yn Nwyrain Conwy
- 1.0% gan fferyllfeydd yng Ngorllewin Conwy
- 0.9% gan gontractwyr yn Lloegr
- 0.3% gan fferyllfeydd yng Ngogledd Ddwyrain Sir y Fflint a Gogledd Orllewin Sir y Fflint
- 0.3% yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- 0.1% yng Nghanolbarth a De Sir Ddinbych.

Yn ystod naw mis cyntaf 2025/26, gweinyddwyd 6.0% o'r eitemau y tu allan i'r ardal leol:

- 3.3% gan fferyllfeydd yn Nwyrain Conwy
- 1.0% gan fferyllfeydd yng Ngorllewin Conwy
- 1.0% gan gontractwyr yn Lloegr
- 0.2% gan fferyllfeydd yng Ngogledd Orllewin Sir y Fflint
- 0.1% gan fferyllfeydd yng Ngogledd Ddwyrain Sir y Fflint
- 0.2% yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- 0.1% yng Nghanolbarth a De Sir Ddinbych.

Yn ogystal, mae'n bosibl bod preswylwyr wedi defnyddio un neu fwy o wasanaethau fferyllol a ddarperir gan fferyllfa arall y tu allan i'r ardal leol ac ardal y Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag, nid yw'n bosibl mesur hyn o'r data a gofnodwyd.

14.4 Gwasanaethau eraill y GIG

Mae manylion gwasanaethau'r GIG sy'n effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol ar gael ym mhennod chwech.

14.5 Dewis o ran cael gwasanaethau fferyllol

Fel y gwelir yn adrannau 14.2 ac 14.3, mae'r rhai sy'n byw yn yr ardal ac sydd wedi cofrestru ag un o'r practisau meddygon teulu fel arfer yn dewis casglu eu presgripsiynau o un o'r fferyllfeydd yn yr ardal neu, os ydynt yn gymwys, i gael eu presgripsiwn o'r practis. Mae'r rhai sy'n mynd y tu hwnt i'r ardal leol fel arfer yn gwneud hynny er mwyn defnyddio fferyllfa gyfagos neu gontractwr cyfarpar dosbarthu yn ardal y bwrdd iechyd.

Yn 2024/25, gweinyddodd dros 124 o gontractwyr eitemau a ysgrifennwyd gan un o'r practisau meddygon teulu yn yr ardal hon, ac o'r rhain:

- roedd 15 wedi'u lleoli yn yr ardal
- roedd 85 wedi'u lleoli mewn mannau eraill yn ardal y bwrdd iechyd
- roedd 24 wedi'u lleoli mewn mannau eraill yng Nghymru
- roedd nifer o'r presgripsiynau wedi'u gweinyddu yn Lloegr.

Yn ystod naw mis cyntaf 2025/26, roedd dros 127 o gontractwyr wedi gweinyddu eitemau:

- roedd 15 wedi'u lleoli yn yr ardal
- roedd 97 wedi'u lleoli mewn mannau eraill yn ardal y bwrdd iechyd
- roedd 24 wedi'u lleoli mewn mannau eraill yng Nghymru
- roedd nifer o'r presgripsiynau wedi'u gweinyddu yn Lloegr.

14.6 Bylchau yn y ddarpariaeth

Wrth ystyried a oes unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth o wasanaethau fferyllol, mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod dwy fferyllfa wedi cadarnhau bod ganddynt ddigon o gapasiti yn eu safle presennol i reoli cynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn eu darparu. Er nad oes ganddynt ddigon o staff na chapasiti yn yr adeilad, gallant wneud addasiadau i ddelio â'r cynnydd yn y galw.

14.6.1 Gwasanaethau hanfodol

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi:

- Mae'r fferyllfeydd ar wasgar mewn ardaloedd lle mae dwysedd poblogaeth ac amddifadedd uwch.
- Mae pob rhan o'r ardal leol o fewn taith car o 20 munud i fferyllfa, ac mae'r rhan fwyaf o drigolion o fewn taith o ddeg munud.
- Lefel y tai ar gyfer Sir Ddinbych yn gyffredinol a diffyg unrhyw ddatblygiad arfaethedig sylweddol o 500 neu fwy o anheddau.
- Oriau agor y fferyllfeydd.

Nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaethau hyn yn yr ardal ar hyn o bryd.

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi, pe bai gwasanaethau hanfodol yn cael eu colli oherwydd bod fferyllfa'n cael ei thynnu oddi ar y rhestr fferyllol, y bydd angen un o'r canlynol yn y dyfodol:

- fferyllfa newydd yn yr un dref/pentref sy'n darparu gwasanaethau hanfodol, y gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol, dychwelyd blychau miniog cleifion, gwasanaeth gweinyddu dan oruchwyliaeth, Helpa Fi i Stopio yn y fferyllfa, a gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu lefel 2 am 40 o oriau agor craidd yr wythnos
- y gwasanaeth gweinyddu presgripsiynau gan feddygon teulu os yw'r dref/pentref mewn ardal reoledig

oni bai bod fferyllfa arall yn y dref/pentref honno ac yna ni fydd yr angen hwn yn codi yn y dyfodol.

Os bydd y fferyllfa ym Modelwyddan yn tynnu ei henw oddi ar y rhestr fferyllol, mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi y bydd angen fferyllfa newydd yn y dref yn y dyfodol i ddarparu gwasanaethau hanfodol yn ystod yr oriau agor craidd canlynol:

- O leiaf deg awr o oriau craidd bob dydd o ddydd Llun i ddydd Gwener
- Chwe awr graidd ar ddydd Sadwrn
- Chwe awr graidd ar ddydd Sadwrn.

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi, pe bai oriau agor atodol ar ddydd Sadwrn yn cael eu colli o 1 Hydref 2026 ymlaen, a fyddai'n arwain at lai na thair awr o ddarpariaeth o wasanaethau fferyllol mewn tref/pentref, y bydd angen yn y dyfodol i ddarparu gwasanaethau hanfodol am dair awr graidd ar ddydd Sadwrn yn y dref/pentref neu drefi/pentrefi lle mae'r gostyngiad mewn oriau agor atodol wedi digwydd, rhwng 09.00 a 17.00, oni bai bod fferyllfa arall yn y dref/pentref honno ac yna ni fydd yr angen yn codi yn y dyfodol.

14.6.2 Gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod 14 fferyllfa wedi'i chomisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

Fodd bynnag, mae'r fferyllfa nad yw'n darparu'r gwasanaeth wedi ymestyn ei horiau agor a byddai'r boblogaeth yn elwa o gael y gwasanaeth hwn. Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod bwlch yn narpariaeth y gwasanaeth hwn ym Modelwyddan. Bydd y bwrdd iechyd yn gweithio gyda'r fferyllfa bresennol mewn cysylltiad â diffyg darpariaeth o'r gwasanaeth hwn. Fodd bynnag, pe na bai'r bwlch hwn yn cael ei gau, yna o 1 Ebrill 2027 ymlaen byddai angen darparu'r gwasanaeth hwn ym Modelwyddan, saith diwrnod yr wythnos am yr oriau canlynol:

- wyth awr y dydd o ddydd Llun i ddydd Gwener
- chwe awr ar ddydd Sadwrn, gan gynnwys rhwng 13.00 a 15.00
- tair awr ar ddydd Sul ar ôl hanner dydd.

14.6.3 Adolygu meddyginiaethau wrth ryddhau

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi'r holl fferyllfeydd a ddarparodd y gwasanaeth hwn yn 2025/26. Felly, nid yw wedi nodi unrhyw anghenion presennol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal, nac anghenion yn y dyfodol.

14.6.4 Gwasanaeth presgripsiynu annibynnol gan fferyllwyr

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi:

- Comisiynwyd 7 fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.
- Y dyhead a nodir yn Fferylliaeth: Cyflawni Cymru Iachach yw i bob fferyllfa gael presgripsiynydd annibynnol erbyn 2030 ac mae wedi gosod targedau interim i 50% o fferyllfeydd ddarparu'r gwasanaeth hwn ym mhob ardal erbyn mis Ebrill 2027 a 70% erbyn mis Ebrill 2029.
- O 2026 ymlaen, rhagwelir y bydd pob fferyllydd sydd newydd gymhwyso hefyd yn cymhwyso fel presgripsiynydd annibynnol ar ôl cwblhau ei raglen israddedig

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

Os na fydd y targedau interim yn cael eu cyrraedd, bydd angen yn y dyfodol i ddigon o fferyllfeydd yn yr ardal ddarparu'r gwasanaeth hwn er mwyn cyrraedd y ddau darged.

14.6.5 Brechiad tymhorol rhag y ffliw

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi'r pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd 14 fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.
- Mae darparwyr eraill i'r gwasanaeth, er enghraifft y practisau meddygon teulu.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

14.6.6 Addasu cyfarpar stoma

Er nad oes fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn, mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi bod presgripsiynau am gyfarpar yn cael eu gweinyddu gan gontractwyr mewn mannau eraill yng Nghymru a hefyd yn Lloegr.

Rhagwelir felly y bydd y contractwyr hyn yn addasu cyfarpar stoma yn ôl yr angen cyn eu hanfon neu eu danfon at gleifion.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

14.6.7 Adolygu'r defnydd o gyfarpar

Er nad oes fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn, mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi bod presgripsiynau am gyfarpar yn cael eu gweinyddu gan gontractwyr mewn mannau eraill yng Nghymru a hefyd yn Lloegr.

Mae unigolion y mae angen y gwasanaeth adolygu defnydd o gyfarpar arnynt yn debygol o gael mynediad at y gwasanaeth hwn gan y contractwr sy'n gweinyddu eu presgripsiynau am gyfarpar neu gallai gael mynediad ato gan ddarparwyr gofal iechyd eraill fel nyrsys stoma.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

14.6.8 Gwasanaeth cyflenwi profion llif unffordd

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod 10 fferyllfa wedi'i chomisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Mae hefyd wedi nodi bod y gwasanaeth hwn ar gael i grwpiau penodol o gleifion yn unig. O ganlyniad, mae'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal leol ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

14.6.9 Gwasanaeth profi am firysau a gludir yn y gwaed

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod un fferyllfa wedi'i chomisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Fodd bynnag, mae darparwyr eraill i'r gwasanaeth, er enghraifft tîm lleihau niwed y Bwrdd Iechyd.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

14.6.10 Gwasanaeth brechu Covid-19

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod pedair fferyllfa wedi'i chomisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Mae hefyd wedi nodi bod practisau meddygon teulu a thîm brechu'r Bwrdd Iechyd yn darparu'r gwasanaeth.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

14.6.11 Helpa fi i stopio yn y fferyllfa

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi:

- Comisiynwyd 12 fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

- Mae darparwyr eraill y gwasanaeth, er enghraifft Helpa fi i Stopio er mwyn cael babi, Helpa fi i Stopio yn yr ysbyty, a'r gwasanaeth Helpa fi i Stopio cyffredinol.
- Mae'r galw am y gwasanaeth yn dibynnu ar bobl sy'n dymuno rhoi'r gorau i ysmygu.

Felly, nid yw wedi nodi unrhyw anghenion presennol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal, nac anghenion yn y dyfodol.

14.6.12 Gwasanaeth adolygu mewnanadlyddion

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi:

- Comisiynwyd pum fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.
- Mae practisau meddygon teulu hefyd yn darparu'r gwasanaeth.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

14.6.13 Gwasanaeth cyflenwi Naloxone

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod un fferyllfa wedi'i chomisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Fodd bynnag, mae darparwyr eraill y gwasanaeth, er enghraifft tîm lleihau niwed y bwrdd iechyd a'r gwasanaeth 'clicio a danfon' a ddarperir gan DAN24/7.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

14.6.14 Gwasanaeth cymorth cenedlaethol i gartrefi gofal

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi:

- Comisiynwyd saith fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.
- Mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu gan fferyllfeydd i'r cartrefi gofal y maent yn darparu gwasanaethau iddynt, neu lle mae cartref gofal wedi gofyn am y gwasanaeth.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

14.6.15 Dychwelyd blychau offer miniog cleifion

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod yr holl fferyllfeydd wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Felly, nid yw wedi nodi unrhyw anghenion presennol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal, nac anghenion yn y dyfodol.

14.6.16 Rhoi'r Gorau i Ysmygu Lefel 2

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod yr holl fferyllfeydd wedi'u comisiynu i ddarparu'r

gwasanaeth hwn yn 2025/26. Felly, nid yw wedi nodi unrhyw anghenion presennol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal, nac anghenion yn y dyfodol.

14.6.17 Gwasanaeth cymryd meddyginiaeth dan oruchwyliaeth

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod 12 fferyllfa wedi'i chomisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Nid yw wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal leol ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

14.6.18 Rhaglenni nodwyddau a chwistrellau

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi'r pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd pedair fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.
- Mae darparwyr eraill i'r gwasanaeth, ac mae gwasanaeth postio'n cael ei sefydlu ar gyfer y rhai na allant ddefnyddio fferyllfa.
- Os gofynnir i fferyllfa ddarparu'r gwasanaeth, gall gysylltu â'r bwrdd iechyd a gofyn am gael ei chomisiynu i'w ddarparu.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

14.6.19 Gwasanaeth meddyginiaethau brys

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod un fferyllfa wedi'i chomisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Oherwydd natur y gwasanaeth, fe'i comisiynir i sicrhau gwasgariad daearyddol da o fferyllfeydd sy'n ei ddarparu ar draws daearyddiaeth y bwrdd iechyd.

Felly, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

15 Ardal Canol a De Sir Ddinbych

15.1 Ffeithiau allweddol[170]

- Awdurdod Unedol Sir Ddinbych sydd â'r ail boblogaeth leiaf o'r chwe awdurdod unedol sef 98,202.
- Dwysedd y boblogaeth yw 0.5 o bobl yr hectar, o'i gymharu ag 1.1 ar gyfer Gogledd Cymru ac 1.5 ar gyfer Cymru [171].
- Disgwylir i boblogaeth gyffredinol y Bwrdd Iechyd gynyddu ychydig dros 50,000 o drigolion (6.8%) rhwng 2022 a 2047. Ar lefel awdurdod lleol, disgwylir y cynnydd mwyaf yng Ngwynedd (10.8%) a Sir Ddinbych (10.4%). Rhagwelir y bydd y cynnydd lleiaf yn Wrecsam (2.4%).
- Disgwylir hefyd i boblogaeth y Bwrdd Iechyd sy'n 65 oed a throsodd gynyddu erbyn 2047. Rhagwelir y bydd trigolion 65 oed a throsodd yn cynyddu bron i 34%, gyda'r cynnydd canrannol mwyaf yn cael ei ragweld yn Sir Ddinbych (36%).
- Ar gyfer trigolion 85 oed a throsodd, Awdurdod Unedol Sir Ddinbych sydd â'r drydedd gyfran uchaf sef 3.2%. Mae hyn yn uwch na chyfartaledd Cymru o 2.7%.
- Mae gan y rhan fwyaf o ardaloedd awdurdodau unedol ledled Gogledd Cymru ganran is o drigolion o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig o'i gymharu â chyfartaledd Cymru (5.2%), ac eithrio Sir Ddinbych sydd hefyd yn 5.2%.
- Mae 21.2% o boblogaeth yr ardal rhwng 66 a 84 oed, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru o 17.7%, ac yn uwch na chyfartaledd y Bwrdd Iechyd o 19.6%.
- Mae 3.2% o boblogaeth yr ardal leol yn 85 oed ac yn hŷn, yn debyg i gyfartaledd y bwrdd iechyd o 3.1% ac yn uwch na chyfartaledd Cymru o 2.7%.
- Mae 16.3% o boblogaeth yr ardal rhwng 0 a 15 oed, sy'n is na chyfartaledd Cymru (17.1%) ac yn is na chyfartaledd y Bwrdd Iechyd o 16.7%.
- Mae aelwydydd un person yn yr ardal yn cyfrif am 31.3% o gyfanswm yr aelwydydd; mae 15.8% o'r aelwydydd yn cael eu meddiannu gan un person dros 66 oed. Mae hyn yn uwch na chyfartaledd Cymru (14.6%) ac yr un fath â chyfartaledd y Bwrdd Iechyd o 15.8%.
- Yng Nghanolbarth a De Sir Ddinbych, nid oes gan 12.4% o gartrefi gar na fan (yr ail ganran isaf ar draws Gogledd Cymru)
- Mae 3.5% o boblogaeth y clwstwr yn byw yn yr 20% mwyaf difreintiedig o wardiau Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru.[172]
- Disgwyliad oes yn Sir Ddinbych yw 77.5 i ddynion ac 81.0 i fenywod [173].
- Disgwyliad oes iach yn Sir Ddinbych yw 60.5 mlynedd i ddynion a 59.6 mlynedd i fenywod a'r bwlch anghydraddoldeb ar gyfer disgwyliad oes iach yn Sir Ddinbych yw 9.2 mlynedd i ddynion ac 8.9 mlynedd i fenywod.
- Mae 30.8% o blant pedair a phump oed yng Nghanol a De Sir Ddinbych dros eu pwysau neu'n ordew.

---

[170]Proffiliau Iechyd Cyhoeddus - Proffiliau Cydweithredol y Gogledd Orllewin 2025
[171]Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gogledd Cymru - Proffil ystadegol clwstwr gofal sylfaenol Canol a De Sir Ddinbych 2025
[172]Iechyd Cyhoeddus Cymru - Dangosfwrdd clystyrau gofal sylfaenol
[173]Data InfoBaseCymru ar gyfer Cymru ddeallus - Disgwyliad oes mewn dynion a menywod (2020 i 2022)

- Yng Nghyfrifiad 2021, adroddwyd bod gan bron i 21% o drigolion yn ardal y Bwrdd Iechyd salwch hirdymor cyfyngol, sy'n debyg i Gymru (21.6%). Ar draws y rhanbarth, adroddwyd am y cyfrannau uchaf yn awdurdod lleol Conwy sef 22.6% a Sir Ddinbych sef 23.3%.
- Mae data ffyrdd iach o fyw ac ymddygiad iach ar gyfer oedolion yn Awdurdod Uneold Sir Ddinbych yn dangos:

Ardal	Yn gorfforol egnïol am o leiaf 60 munud y dydd	Bwyta o leiaf un dogn o ffrwythau neu lysiau bob dydd	Ysmygu tybaco o leiaf unwaith yr wythnos	Wedi rhoi cynnig ar sigaréts electronig o leiaf unwaith yr wythnos	Yn yfed alcohol
Sir Ddinbych	19.7%	47.9%	2.5%	7.4%	33.7%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	18.3%	45.7%	3.3%	8.2%	36.8%
Cymru	18.3%	46.5%	2.6%	6.9%	35.6%

- Mae llai na 40% o oedolion o oedran gweithio ar draws y Bwrdd Iechyd cyfan yn nodi fod eu pwysau yn iach. Sir Ddinbych sydd â'r gyfran uchaf ar lefel awdurdod unedol sef 47.6%.
- Mae'r Arolwg Poblogaeth Blynyddol yng Nghymru yn cofnodi gallu ac amlder y defnydd o'r iaith Gymraeg. Yn 2025, dywedodd bron i 39% o drigolion y Bwrdd Iechyd eu bod yn gallu siarad Cymraeg. Yn Sir Ddinbych, dywedodd 32.3% o'r boblogaeth eu bod yn gallu siarad Cymraeg.
- Dangosir isod nifer y cleifion â chyflyrau cronig fel y'u hadroddwyd ar gofrestrau clefydau Iechyd a Gofal Digidol Cymru, Ebrill 2025.

Cofrestr clefydau	Canol a De Sir Ddinbych	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	Cymru
Asthma	7.8%	7.6%	7.1%
Ffibriliad atrïaidd	3.1%	2.8%	2.7%
Canser	4.6%	4.3%	3.7%
Clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint	2.7%	2.7%	2.3%
Diabetes	7.9%	8.3%	8.4%
Epilepsi	0.9%	0.9%	1.0%
Methiant y galon	1.4%	1.4%	1.4%
Gorbwysedd	18.4%	17.9%	16.3%
Strôc ymosodiad isgemig dros dro	2.3%	2.3%	2.2%
Atal eilaidd clefyd coronaidd y galon	3.6%	3.6%	3.4%

- Mae Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych [174]yn nodi'r angen am 3,775 o unedau tai rhwng 2018 a 2033. Yn ôl Adroddiad Monitro Blynyddol 2025, er bod cyfradd adeiladu flynyddol y cyngor yn 500 o unedau y flwyddyn, cwblhawyd 351 yn 2024/25 a rhagwelir y bydd 85 yn cael eu cwblhau yn 2025/26 a 93 yn 2026/27.

15.2 Darpariaeth bresennol o wasanaethau fferyllol o fewn ardal yr ardal leol

Mae wyth fferyllfa yn yr ardal a weithredir gan bum contractwr gwahanol. Mae un fferyllfa wedi'i chynnwys yn y cynllun fferyllfeydd bach hanfodol. O'r wyth practis meddygon teulu, mae chwech yn dosbarthu o gyfanswm o chwe safle. Mae lefel y dosbarthu yn amrywio o 36.7 % i 53.4 % o boblogaethau cofrestredig y practisau.

Mae'r map isod yn dangos lleoliad y fferyllfeydd a'r practisau dosbarthu. Dylid nodi, lle mae safleoedd yn agos at ei gilydd, y bydd y siapiau'n gorgyffwrdd.

Map 15.1 – lleoliad fferyllfeydd a meddygfeydd dosbarthu



[174] Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych ac Adroddiadau Monitro Blynyddol

© OpenStreetMap © CARTO

 Safleoedd meddygfeydd fferyllol  Fferyllfa

Yn 2024/25, cafodd 55.3% o'r presgripsiynau a ysgrifennwyd gan feddygfeydd teulu yn yr ardal eu dosbarthu gan fferyllfa yn yr ardal, a dosbarthodd neu gweinyddodd y meddygfeydd dosbarthu 39.2% o'r eitemau a ragnodir yn bersonol. Er nad yw'r data sydd ar gael yn dangos y ganran rhwng eitemau a ddosbarthwyd ac eitemau a weinyddir yn bersonol, yn seiliedig ar lefel y weinyddiaeth bersonol mewn mannau eraill yng Nghymru, gellir tybio bod llai na 2% o eitemau wedi'u gweinyddu'n bersonol.

Yn ystod naw mis cyntaf 2025/26, cafodd 58.0% o'r presgripsiynau a ysgrifennwyd gan feddygfeydd teulu yn yr ardal eu dosbarthu gan fferyllfa yn yr ardal, a dosbarthodd neu gweinyddodd y meddygfeydd dosbarthu 36.7% o'r eitemau a ragnodir yn bersonol. Rhoddwyd llai na 2% o'r eitemau yn bersonol.

Mae'r map yn mhennod 5 yn dangos bod ardaloedd nad ydynt o fewn 20 munud o daith mewn car i fferyllfa. Mae’r ardal i’r de-orllewin o Ruthun yn wledig ei natur, gydag ychydig o dai/ffermydd a safleoedd gwersylla gwagaredig. Yr ardal i’r de o Gorwen yw Gwarchodfa Natur Genedlaethol y Berwyn.

Amseroedd agor y fferyllfeydd:

- Mae dwy ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener,
- Mae pedair ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener, a rhan o ddydd Sadwrn, a
- Mae dwy ar agor o ddydd Llun i ddydd Sadwrn.

Amseroedd y mae'r fferyllfeydd hyn ar agor rhwng dydd Llun a dydd Gwener:

- i gyd ar agor am 09.00,
- yr amseroedd cau yw naill ai 17.30 neu 18.00.

Comisiynwyd y ddwy fferyllfa yn Rhuthun i aros ar agor am 30 munud ychwanegol (17.30 i 18.00) ar ddydd Llun, dydd Mawrth, dydd Mercher a dydd Gwener bob yn ail wythnos yn 2025/26.

Mae'r holl fferyllfeydd yn cau am ginio ar wahanol adegau rhwng 12.30 a 14.00.

Ar ddydd Sadwrn, mae'r chwe fferyllfa yn agor am 09.00. Mae'r ddwy fferyllfa sydd ar agor drwy'r dydd yn cau am ginio, gydag un yn cau am 17.00 a'r llall am 17.30. Mae gan y chwe fferyllfa oriau agor craidd ddydd Sadwrn.

Nid oes fferyllfeydd ar agor ar y Sul.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn gofyn i'r fferyllfeydd a fyddant ar agor ar wyliau cyhoeddus a gwyliau banc a Sul y Pasg. Mae'r ymatebion yn cael eu casglu, ac mae'r Bwrdd Iechyd yn sefydlu a oes unrhyw fylchau daearyddol yn y ddarpariaeth ai peidio. Lle

mae bwlch yn bodoli, mae fferyllfa naill ai'n cael ei chomisiynu neu ei chyfarwyddo i agor.

Ymatebodd chwe fferyllfa i'r holiadur contractwyr fferyllfa ac mae'r wybodaeth ganlynol wedi'i chymryd o'r ymatebion hynny.

Mae pob un o'r chwe fferyllfa yn hygyrch i gadeiriau olwyn, ac o'r rhain mae gan bump ardal ymgynghori sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn. Yn y pum ardal ymgynghori mae:

- ystafelloedd caeedig,
- ardal ddynodedig lle gall y claf a'r fferyllydd eistedd i lawr gyda'i gilydd a siarad gan siarad ar uchder arferol heb gael eu clywed, a
- wedi'i ddynodi'n glir fel ardal ar gyfer ymgynghoriadau cyfrinachol ar wahân i ardaloedd cyhoeddus cyffredinol y fferyllfa.

Nid ystafell gaeedig yw'r chweched ac nid yw'n caniatáu i'r claf a'r fferyllydd eistedd i lawr gyda'i gilydd a siarad ar uchder siarad arferol heb gael eu clywed. Fodd bynnag, mae trefniadau eraill ar gyfer trafodaethau cyfrinachol.

Cadarnhaodd pum fferyllfa fod ganddyn nhw siaradwyr Cymraeg. Cadarnhaodd dwy fferyllfa fod staff yn gallu siarad Pwyleg.

Mae pum fferyllfa yn dosbarthu presgripsiynau ar gyfer pob math o offer. Nid yw'r chweched yn dosbarthu unrhyw offer.

Mae pob fferyllfa yn casglu presgripsiynau o feddygfeydd teulu. Mewn perthynas â dosbarthu eitemau a ragnodir:

- mae dau yn darparu gwasanaeth dosbarthu am ddim trwy wneud cais, ac mae un yn darparu gwasanaeth am ffi, a
- dywedodd tri eu bod yn cyfyngu'r gwasanaeth i grwpiau penodol o gleifion (cleifion oedrannus a chleifion bregus sy'n gaeth i'r tŷ).

Roedd un fferyllfa o'r farn bod angen gallu darparu gwasanaeth clinigol yn ychwanegol i'r ddarpariaeth bresennol, sef gwiriadau pwysedd gwaed.

Cadarnhaodd pum fferyllfa fod ganddynt ddigon o gapasiti o fewn eu hadeiladau presennol i reoli cynnydd yn y galw am y gwasanaethau a ddarparant, a dywedodd un nad oedd hyn yn bosibl ond y gellid gwneud addasiadau i reoli unrhyw gynnydd yn y galw. Cadarnhaodd tair fferyllfa fod ganddynt ddigon o gapasiti staffio, a dywedodd tair fferyllfa y gallent wneud addasiadau i reoli unrhyw gynnydd yn y galw.

O ran cynlluniau i ddatblygu neu ehangu safleoedd neu ddarpariaeth gwasanaethau:

- dywedodd un fferyllfa eu bod wedi ehangu'n ddiweddar i ddwy ystafell ymgynghori i ddiwallu'r galw, a bod ganddynt y gallu i dyfu,
- mae un arall yn bwriadu adnewyddu/ehangu'r fferyllfa a'r ystafell ymgynghori, a

- mae gan fferyllfa arall fferyllydd sy'n derbyn hyfforddiant i ddod yn bresgripsiynydd annibynnol.

Ymatebodd pedwar o'r chwe meddygfa fferyllol i holiadur y meddyg fferyllol ac mae'r wybodaeth ganlynol wedi'i chymryd o'r ymatebion hynny. Maent yn darparu gwasanaethau dros bedwar safle.

Mae'r pedair dosbarthfa ar agor drwy'r dydd, o ddydd Llun i ddydd Gwener gyda thri yn agor am 08.30 ac un am 09.00. Maen nhw i gyd yn cau am 18.00.

O ran rhoi presgripsiynau ar gyfer offer, mae pob un yn rhoi presgripsiynau ar gyfer pob math o offer.

Mae tri yn darparu gwasanaeth dosbarthu, un i ardaloedd dethol, un i bum siop bentref, ac un i ddim ond cleifion sy'n gaeth i'w cartrefi.

Mae gan ddau bractis siaradwyr Cymraeg.

Mae gan ddau bractis ddigon o gapasiti yn eu hadeiladau a lefelau staffio i ymdopi â'r cynnydd yn y galw yn eu hardal. Nid oes gan un fwy o le ond gellid addasu lefelau staffio.

O ran gweithgareddau eraill a ddarperir sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth dosbarthu:

- mae un practis yn darparu siartiau cofnodi gweinyddu meddyginiaeth i gartrefi gofal,
- mae un yn darparu siartiau cofnodi gweinyddu meddyginiaeth a phecynnau pothell yn dilyn asesiad anghenion,
- mae un yn cael gwared ar eitemau miniog cleifion ac yn darparu pecynnau pothell, a
- mae un yn darparu siartiau cofnodi gweinyddu meddyginiaeth, yn gwaredu eitemau miniog cleifion, mae ganddynt bwynt casglu presgripsiwn Medpoint sy'n caniatáu casglu meddyginiaethau a ddosberthir 24/7, ac yn darparu pecynnau pothell.

15.2.1 Gwasanaeth fferyllfa gymunedol glinigol

Roedd yr holl fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn ac yn 2025/26 roeddent yn darparu:

- 5,407 o ymgynghoriadau ar gyfer anhwylderau cyffredin
- 222 o ymgynghoriadau ar gyfer atal cenhedlu
- 1,578 o gyflenwadau meddyginiaethau brys

15.2.2 Adolygiad o feddyginiaethau rhyddhau

Yn 2025/26, darparodd pum fferyllfa'r gwasanaeth hwn a chwblhawyd 179 o adolygiadau.

15.2.3 Gwasanaeth rhagnodi annibynnol fferyllwyr

Comisiynwyd dwy fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26 a darparwyd cyfanswm o 2,533 o ymgynghoriadau dros y flwyddyn.

15.2.4 Gwasanaeth brechu ffliw tymhorol

Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26 a darparwyd cyfanswm o 767 o frechiadau.

15.2.5 Addasu cyfarpar stoma

Nid yw'r un o'r fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn er eu bod yn darparu presgripsiynau ar gyfer cyfarpar.

15.2.6 Adolygiadau defnydd o gyfarpar

Nid yw'r un o'r fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn er eu bod yn darparu presgripsiynau ar gyfer cyfarpar.

15.2.7 Gwasanaeth cyflenwi prawf llif unffordd

Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

15.2.8 Gwasanaeth profi firysau a gludir yn y gwaed

Ni chomisiynwyd unrhyw fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

15.2.9 Gwasanaeth brechu Covid-19

Ni chomisiynwyd unrhyw fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

15.2.10 Helpa fi i stopio yn y fferyllfa

Comisiynwyd saith fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

15.2.11 Gwasanaeth adolygu anadlyddion

Comisiynwyd chwe fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

15.2.12 Gwasanaeth cyflenwi Nalocson

Ni chomisiynwyd unrhyw fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

15.2.13 Gwasanaeth cymorth cartrefi gofal cenedlaethol

Comisiynwyd tair fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

15.2.14 Dychwelyd blychau offer miniog cleifion

Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

15.2.15 Gwasanaeth rhoi'r gorau i ysmygu lefel 2

Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

15.2.16 Gwasanaeth gweinyddu dan oruchwyliaeth

Comisiynwyd saith fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

15.2.17 Rhaglenni nodwyddau a chwistrellau

Comisiynwyd dwy fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

15.2.18 Gwasanaeth meddyginiaethau brys

Ni chomisiynwyd unrhyw fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

15.3 Darpariaeth bresennol o wasanaethau fferyllol y tu allan i’r ardal leol

Mae rhai trigolion yn dewis defnyddio contractwyr y tu allan i'r ardal leol ac ardal y Bwrdd Iechyd er mwyn cael mynediad at wasanaethau:

- Wedi'i gynnig gan gontractwyr offer dosbarthu
- Sydd wedi'u lleoli ger lle maen nhw'n gweithio, yn siopa, neu'n ymweld at ddibenion hamdden neu ddibenion eraill.

Er bod mwyafrif y presgripsiynau a roddwyd gan feddygfeydd teulu yn 2024/25 wedi'u dosbarthu naill ai gan y fferyllfeydd yn yr ardal neu'r meddygfeydd dosbarthu, dosbarthwyd 5.2% y tu allan i'r ardal:

- 3.8% gan fferyllfeydd yng Ngogledd Sir Ddinbych,
- 0.7% gan gontractwyr yn Lloegr,
- 0.2% gan fferyllfeydd yng Ngorllewin Conwy,
- 0.1 % gan fferyllfeydd yn Nwyrain Conwy,
- 0.2% gan fferyllfeydd yn Ne Sir y Fflint, a
- 0.2% yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Yn ystod naw mis cyntaf 2025/26, dosbarthwyd 5.2% y tu allan i'r ardal leol:

- 3.8% gan fferyllfeydd yng Ngogledd Sir Ddinbych,
- 0.7% gan gontractwyr yn Lloegr,
- 0.2% gan fferyllfeydd yn Ne Sir y Fflint,
- 0.2% yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro,
- 0.1% gan fferyllfeydd yn Nwyrain Conwy a Gorllewin Conwy, a
- 0.1% gan fferyllfeydd ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys.

Yn ogystal, efallai bod trigolion wedi cael mynediad at un neu fwy o wasanaethau fferyllol a ddarperir gan fferyllfa arall y tu allan i'r ardal leol ac ardal y Bwrdd Iechyd; fodd bynnag, ac nid yw'n bosibl mesur y gweithgaredd hwn o'r data a gofnodwyd.

15.4 Gwasanaethau GIG eraill

Mae manylion am wasanaethau'r GIG sy'n effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol i'w gweld ym mhennod chwech.

15.5 Dewis o ran cael gwasanaethau fferyllol

Fel y gwelir o adrannau 15.2 a 15.3, mae'r rhai sy'n byw yn yr ardal ac wedi cofrestru gydag un o'r practisau meddygon teulu fel arfer yn dewis mynd i un o'r fferyllfeydd yn yr ardal er mwyn cael eu presgripsiynau wedi'u dosbarthu neu, os ydynt yn gymwys, i gael eu dosbarthu gan eu practis. Mae'r rhai sy'n edrych y tu allan i'r ardal fel arfer yn gwneud hynny naill ai i fynd i fferyllfa gyfagos neu gontractwr offer dosbarthu y tu allan i ardal y Bwrdd Iechyd.

Yn 2024/25, dosbarthodd dros 128 o gontractwyr eitemau a roddwyd gan un o feddygfeydd teulu yn yr ardal hon, ac o'r rhain:

- Roedd wyth wedi'u lleoli o fewn yr ardal,
- Roedd 98 wedi'u lleoli mewn mannau eraill o fewn ardal y Bwrdd Iechyd,
- Roedd 22 wedi'u lleoli mewn mannau eraill yng Nghymru, a
- Dosbarthwyd nifer o bresgripsiynau yn Lloegr.

Yn ystod naw mis cyntaf 2025/26, dosbarthodd dros 113 o gontractwyr eitemau, ac o'r rhain:

- Roedd wyth wedi'u lleoli o fewn yr ardal,
- Roedd 88 wedi'u lleoli mewn mannau eraill o fewn ardal y Bwrdd Iechyd,
- Roedd 16 wedi'u lleoli mewn mannau eraill yng Nghymru, a
- Dosbarthwyd nifer o bresgripsiynau yn Lloegr.

15.6 Bylchau yn y ddarpariaeth

Wrth ystyried a oes unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth o wasanaethau fferyllol mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi bod pum fferyllfa wedi cadarnhau bod ganddynt ddigon o gapasiti o fewn eu hadeiladau presennol i reoli cynnydd yn y galw am y gwasanaethau a ddarparant, a dywedodd un nad oedd ganddynt le ond y gallai wneud addasiadau i reoli unrhyw gynnydd yn y galw. Cadarnhaodd tair fferyllfa fod ganddynt ddigon o gapasiti staffio, a dywedodd tair y gallent wneud addasiadau i reoli unrhyw gynnydd yn y galw.

15.6.1 Gwasanaethau hanfodol

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi:

- Fod y fferyllfeydd wedi'u gwasgaru ar draws yr ardal ac wedi'u lleoli mewn ardaloedd â dwysedd poblogaeth uwch ac amddifadedd uwch.
- Nid yw rhai rhannau o'r ardal o fewn 20 munud o yrru i fferyllfa, fodd bynnag nid oes unrhyw boblogaeth breswyl neu dim ond ychydig o eiddo gwasgaredig sydd yn yr ardaloedd hynny.
- Lefel y tai ar gyfer Sir Ddinbych gyfan a diffyg unrhyw ddatblygiad arfaethedig sylweddol o 500 neu fwy o anheddau.
- Nid oes unrhyw fferyllfeydd ar agor ar ddydd Sul.

Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol mewn perthynas â darparu gwasanaethau hanfodol yn yr ardal.

Pe bai colli gwasanaethau hanfodol oherwydd tynnu fferyllfa oddi ar y rhestr fferyllol mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi y bydd angen yn y dyfodol am naill ai:

- fferyllfa newydd yn yr un dref/pentref sy'n darparu gwasanaethau hanfodol, y gwasanaeth fferyllfa gymunedol glinigol, dychwelyd blychau offer miniog i gleifion, gwasanaeth gweinyddu dan oruchwyliaeth, Helpa fi i stopio yn y fferyllfa, a gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu lefel 2 am 40 awr agor graidd yr wythnos, neu
- gwasanaeth dosbarthu meddyginiaethau'r meddyg teulu os yw'r dref/pentref mewn ardal reoledig,

oni bai bod fferyllfa arall yn y dref/pentref hwnnw, ac yna ni fyddai hyn ei angen yn y dyfodol.

Pe byddai gostyngiad i oriau agor atodol ar ddydd Sadwrn o 1 Hydref 2026 sy'n arwain at lai na thair awr o ddarparu gwasanaethau fferyllol o fewn tref/pentref, y mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi y byddai angen yn y dyfodol i ddarparu gwasanaethau hanfodol am dair awr agor graidd ar ddydd Sadwrn yn y dref/pentref neu'r trefi/pentrefi lle mae'r gostyngiad mewn oriau agor atodol wedi digwydd, rhwng 09.00 a 17.00 , oni bai bod fferyllfa arall yn y dref/pentref hwnnw, ac yna ni fyddai yr angen yn y dyfodol yn codi.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi angen, pe bai practis meddyg teulu yn rhoi'r gorau i ddosbarthu i ardal y mae ganddo ganiatâd amlinellol ar ei chyfer, am naill ai:

- y gwasanaeth dosbarthu meddygon teulu i ddarparu i'r ardal honno tra'n parhau i fod yn lleoliad rheoledig ac yn fwy nag 1.6km mewn llinell syth o fferyllfa, neu
- fferyllfa sydd ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener ac sydd o leiaf yn darparu:
    - yr holl wasanaethau hanfodol, a
    - y gwasanaeth fferyllfa cymunedol glinigol, dychwelyd blychau eitemau miniog i gleifion, gwasanaeth gweinyddu dan oruchwyliaeth, Helpa fi i roi'r gorau iddi yn y fferyllfa, a gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu lefel 2.

15.6.2 Gwasanaeth fferyllfa gymunedol glinigol

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi bod yr holl fferyllfeydd wedi cael eu comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth yma yn 2025/26.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol nac anghenion yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

15.6.3 Adolygiad o feddyginiaethau rhyddhau

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi bod pump o'r fferyllfeydd wedi darparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26

Nid oes cofnod o unrhyw anghenion presennol nac anghenion yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

15.6.4 Gwasanaeth rhagnodi annibynnol fferyllwyr

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi:

- Fod dwy fferyllfa wedi eu comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.
- Mae gan un fferyllfa fferyllydd sy'n ymgymryd â'i hyfforddiant presgripsiynwyr annibynnol.
- Y dyhead a nodir yn ‘Fferylliaeth: Cyflawni Cymru Iachach’ yw i bob fferyllfa gael presgripsiynydd annibynnol erbyn 2030 ac mae wedi gosod targedau dros dro o 50% o fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn ym mhob ardal erbyn Ebrill 2027 a 70% erbyn Ebrill 2029.
- O 2026 ymlaen, rhagwelir y bydd pob fferyllydd newydd gymhwyso hefyd yn gymwys fel presgripsiynwyr annibynnol ar ôl cwblhau eu gradd israddedig.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol nac anghenion yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

Os na chyflawnir y targedau dros dro, bydd angen darparu'r gwasanaeth hwn yn y dyfodol gan ddigon o fferyllfeydd yn yr ardal i gyflawni'r ddau darged.

15.6.5 Gwasanaeth brechu ffliw tymhorol

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi bod yr holl fferyllfeydd wedi cael eu comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. O’r herwydd, nid oes unrhyw anghenion cyfredol nac anghenion yn y dyfodol wedi eu hadnabod ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

15.6.6 Addasu cyfarpar stoma

Er nad oes unrhyw fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn, mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi bod presgripsiynau ar gyfer cyfarpar yn cael eu dosbarthu gan gontractwyr mewn mannau eraill yng Nghymru a hefyd yn Lloegr.

O’r herwydd, rhagwelir y bydd y contractwyr hyn yn addasu cyfarpar stoma yn ôl yr angen cyn eu hanfon neu eu danfon at gleifion.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol nac anghenion yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

15.6.7 Adolygiadau defnydd o gyfarpar

Er nad oes unrhyw fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn, mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi bod presgripsiynau ar gyfer cyfarpar yn cael eu dosbarthu gan gontractwyr mewn mannau eraill yng Nghymru a hefyd yn Lloegr.

Mae'n debygol y bydd unigolion sydd angen y gwasanaeth adolygu defnydd o gyfarpar yn cael mynediad at y gwasanaeth hwn gan y contractwr sy'n dosbarthu eu presgripsiynau ar gyfer cyfarpar, neu gallant ei gael gan ddarparwyr gofal iechyd eraill fel nyrsys stoma.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

15.6.8 Gwasanaeth cyflenwi profion llif unffordd

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi bod yr holl fferyllfeydd wedi cael eu comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. O’r herwydd, nid oes unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol wedi eu nodi ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

15.6.9 Gwasanaeth profi firysau a gludir yn y gwaed

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi na chomisiynwyd unrhyw fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Fodd bynnag, mae darparwyr eraill yn cynnig y gwasanaeth, er enghraifft tîm lleihau niwed y Bwrdd Iechyd.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol nac anghenion yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

15.6.10 Gwasanaeth brechu Covid-19

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi na chomisiynwyd unrhyw fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Mae hefyd wedi nodi bod meddygfeydd teulu a thîm brechu'r Bwrdd Iechyd yn darparu'r gwasanaeth.
Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol nac anghenion yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

15.6.11 Helpa Fi i Stopio yn y fferyllfa

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi:

- Fod saith fferyllfa wedi eu comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

- Mae'r galw am y gwasanaeth yn cael ei bennu gan bobl sy'n dymuno rhoi'r gorau i ysmygu.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

15.6.12 Gwasanaeth adolygu anadlyddion

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi:

- Fod chwe fferyllfa wedi eu comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.
- Mae meddygfeydd teulu hefyd yn darparu'r gwasanaeth.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

15.6.13 Gwasanaeth cyflenwi Nalocson

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi:

- na chomisiynwyd unrhyw fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.
- Mae darparwyr eraill o'r gwasanaeth fel tîm lleihau niwed y Bwrdd Iechyd a'r gwasanaeth 'cliciwch a chyflenwi' a ddarperir gan DAN24/7.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

15.6.14 Gwasanaeth cymorth cartrefi gofal cenedlaethol

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi:

- fod tair fferyllfa wedi eu comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.
- Darperir y gwasanaeth gan fferyllfeydd i'r cartrefi gofal y maent yn darparu gwasanaethau iddynt, neu lle mae cartref gofal wedi gofyn am y gwasanaeth.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

15.6.15 Dychwelyd blychau offer miniog cleifion

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi bod yr holl fferyllfeydd wedi cael eu comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Nid oes unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol wedi eu nodi felly ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

15.6.16 Rhoi'r gorau i ysmygu lefel 2

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi bod yr holl fferyllfeydd wedi cael eu comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

Nid yw'r Bwrdd Iechyd felly wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

15.6.17 Gwasanaeth gweinyddu dan oruchwyliaeth

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi bod saith fferyllfa wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Nid yw felly wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

15.6.18 Rhaglenni nodwyddau a chwistrellau

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi:

- fod dwy fferyllfa wedi eu comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.
- Mae darparwyr eraill yn cynnig y gwasanaeth, ac mae gwasanaeth postio'n cael ei sefydlu ar gyfer y rhai na allant ddefnyddio fferyllfa.
- Os gofynnir i fferyllfa ddarparu'r gwasanaeth, gallant gysylltu â'r Bwrdd Iechyd a gofyn iddynt gael eu comisiynu i'w ddarparu.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol nac anghenion yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

15.6.19 Gwasanaeth meddyginiaethau brys

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi na chomisiynwyd unrhyw fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Oherwydd natur y gwasanaeth, mae wedi'i gomisiynu i sicrhau lledaeniad daearyddol da o fferyllfeydd sy'n ei ddarparu ar draws ardal ddaearyddol y Bwrdd Iechyd.

Nid yw'r Bwrdd Iechyd felly wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol nac anghenion yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

15.6.20 Gwasanaeth dosbarthu meddygon teulu

Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol mewn perthynas â'r gwasanaeth hwn.

Pe bai practis meddyg teulu yn rhoi'r gorau i ddosbarthu i ardal y mae ganddo ganiatâd amlinellol ar ei chyfer, mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi y byddai angen yn y dyfodol am naill ai:

- y gwasanaeth dosbarthu meddygon teulu i'w ddarparu i'r ardal honno tra ei bod yn parhau i fod yn lleoliad rheoledig ac yn fwy nag 1.6km mewn llinell syth o fferyllfa, neu
- fferyllfa sydd ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener ac sydd o leiaf yn darparu:
    - yr holl wasanaethau hanfodol, a
    - y gwasanaeth fferyllfa gymunedol glinigol, offer miniog i gleifion, rhoi'r gorau i ysmygu lefel 2, a gwasanaeth Helpa Fi i Stopio yn y fferyllfa.

16 Ardal Gogledd Orllewin Sir y Fflint

16.1 Ffeithiau allweddol[175]

- Awdurdod Unedol Sir y Fflint sydd â'r boblogaeth fwyaf o'r chwe awdurdod lleol sef 155,867.
- Bu cynnydd cyffredinol yn nwysedd y boblogaeth ar draws Gogledd Cymru rhwng 2020 a 2023. Ardal ddwyreiniol y Bwrdd Iechyd sy'n parhau i fod yr un fwyaf poblog, gyda mwy o bobl fesul cilomedr sgwâr na chyfartaledd Cymru (152.6). Sir y Fflint yw'r ardal awdurdod unedol fwyaf poblog gyda 354.3 o bobl fesul cilomedr sgwâr.
- Disgwylir i boblogaeth y Bwrdd Iechyd sydd yn 65 oed a throsodd gynyddu erbyn 2047. Rhagwelir y bydd trigolion 65 oed a throsodd yn cynyddu bron i 34%, gyda'r cynnydd canrannol mwyaf i'w ddisgwyl yn Sir Ddinbych (36%). Disgwylir y cynnydd mwyaf o ran nifer y trigolion yng Nghonwy a Sir y Fflint.
- Nid oes gan 14.6% o gartrefi yn yr ardal gar na fan (y ganran isaf ledled Gogledd Cymru).
- Mae 17.6% o boblogaeth yr ardal rhwng 66 a 84 oed, sy'n debyg i gyfartaledd Cymru o 17.7%, ac yn is na chyfartaledd y Bwrdd Iechyd o 19.6%.
- Mae 2.3% o boblogaeth yr ardal leol yn 85 oed ac yn hŷn, yn is na chyfartaledd y bwrdd iechyd o 3.1% ac yn is na chyfartaledd Cymru o 2.7%.
- Mae 17.7% o boblogaeth yr ardal rhwng 0 a 15 oed, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru (17.1%) ac yn uwch na chyfartaledd y Bwrdd Iechyd o 16.7%.
- Mae aelwydydd un person yn yr ardal yn 29.9% o gyfanswm yr aelwydydd. Mae 14.3% o aelwydydd yn yr ardal yn cael eu meddiannu gan un person dros 66 oed. Mae hyn yn is na chyfartaledd Cymru (14.6%) ac yn is na chyfartaledd y Bwrdd Iechyd o 15.8%.
- Mae 18.9% o boblogaeth yr ardal yn byw yn yr 20% mwyaf difreintiedig o wardiau Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru.[176]
- Disgwyliad oes yn Sir y Fflint yw 78.6 i ddynion ac 82.1 i fenywod [177].
- Mae disgwyliad oes iach yn Sir y Fflint yn 61.3 mlynedd i wrywod a 62.0 mlynedd i fenywod a'r bwlch anghydraddoldeb ar gyfer disgwyliad oes iach yn Sir y Fflint yw 8.0 mlynedd i wrywod a 5.5 mlynedd i fenywod.
- Mae 32.4% o blant pedair a phump oed yng Ngogledd-orllewin Sir y Fflint dros eu pwysau neu'n ordew.
- Mae data ffyrdd o fyw ac ymddygiad ar gyfer oedolion yn Awdurdod Uned Sir y Fflint yn dangos:

[175]Proffiliau Iechyd Cyhoeddus - Proffiliau Cydweithredol y Gogledd Orllewin 2025
[176]Iechyd Cyhoeddus Cymru - Dangosfwrdd clystyrau gofal sylfaenol
[177]Data InfoBaseCymru ar gyfer Cymru ddeallus - Disgwyliad oes mewn dynion a menywod (2020 i 2022)

Ardal	Yn gorfforol egnïol am o leiaf 60 munud y dydd	Yn bwyta o leiaf un dogn o ffrwythau neu lysiau bob dydd	Ysmygu tybaco o leiaf unwaith yr wythnos	Wedi rhoi cynnig ar sigaréts electronig o leiaf unwaith yr wythnos	Yn yfed alcohol
Sir y Fflint	17.6%	44.2%	3.6%	9.6%	39.3%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	18.3%	45.7%	3.3%	8.2%	36.8%
Cymru	18.3%	46.5%	2.6%	6.9%	35.6%

- Ar draws ardal y Bwrdd Iechyd, mae canran yr oedolion sy'n nodi eu bod yn yfed mwy na'r canllawiau a argymhellir yn amrywio o 9.9% yn Sir Ddinbych i 20.4% yn Sir y Fflint.
- Mae bron i 37% o blant 11 i 16 oed yn nodi eu bod yn yfed alcohol yng Ngogledd Cymru o'i gymharu â 35.6% ledled Cymru. Yn Sir y Fflint mae'r lefelau uchaf o yfed alcohol a gofnodwyd ar draws y rhanbarth (39.3%) a Gwynedd (38.2%).
- Mae'r Arolwg Poblogaeth Blynyddol yng Nghymru yn cofnodi gallu ac amlder y defnydd o'r iaith Gymraeg. Yn 2025, dywedodd bron i 39% o drigolion y Bwrdd Iechyd eu bod yn gallu siarad Cymraeg. Yn Sir y Fflint, dywedodd 15.5% o'r boblogaeth eu bod yn gallu siarad Cymraeg. Dyma'r ganran isaf ledled Gogledd Cymru.
- Dangosir isod nifer y cleifion â chyflyrau cronig fel y'u hadroddwyd ar gofrestrau clefydau Iechyd a Gofal Digidol Cymru, Ebrill 2025.

Cofrestr clefydau	Gogledd Orllewin Sir y Fflint	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	Cymru
Asthma	7.4%	7.6%	7.1%
Ffibriliad atrïaidd	2.5%	2.8%	2.7%
Canser	3.7%	4.3%	3.7%
Clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint	2.8%	2.7%	2.3%
Diabetes	8.5%	8.3%	8.4%
Epilepsi	0.9%	0.9%	1.0%
Methiant y galon	1.4%	1.4%	1.4%
Gorbwysedd	18.9%	17.9%	16.3%
Strôc ymosodiad isgemig dros dro	2.0%	2.3%	2.2%
Ataliad eilaidd clefyd coronaidd y galon	3.6%	3.6%	3.4%

- Yn y Bwrdd Iechyd, ychydig dros hanner y bobl 50 i 64 oed â risg glinigol a gafodd eu brechiad ffliw; mae hyn yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Ar draws y rhanbarth, roedd y gyfradd a gafodd y brechiad yn amrywio o 46.5% yn Sir Ddinbych i 53.1% yn Sir y Fflint.
- Mae amcangyfrifon o nifer y bobl â dementia yng Ngogledd Cymru yn dangos cynnydd o 14.1% rhwng 2013 a 2023. Roedd y cynnydd mwyaf yn Sir y Fflint, sef 24.5%.

Mae Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint [178]yn nodi dau safle strategol allweddol a fydd yn darparu 1,625 o unedau tai, 23% o gyfanswm y cynllun. Mae'r ddau o fewn Gogledd-ddwyrain Sir y Fflint.

Mae 11 safle cyflogaeth anstrategol o fewn y cynllun datblygu lleol y disgwylir iddynt gyflawni'r canlynol ledled Sir y Fflint:

- 2026/27 – 465
- 2027/28 – 404
- 2028/29 – 205
- 2029/2030 – 173
- 2030 a thu hwnt – 20

Mae hyn yn cyfateb i gyfanswm o 3,168 o bobl ar draws y safleoedd.

16.2 Darpariaeth bresennol o wasanaethau fferyllol o fewn ardal yr ardal leol

Mae saith fferyllfa yn yr ardal gan bum contractwr gwahanol. O'r saith practis meddygon teulu, mae tri yn dosbarthu o gyfanswm o dair safle. Mae lefel y dosbarthu yn amrywio o 27.3% i 44.3% o boblogaethau cofrestredig y practisau.

Mae'r map isod yn dangos lleoliad y fferyllfeydd a'r practisau dosbarthu. Dylid nodi, lle mae safleoedd yn agos at ei gilydd, y bydd y symbolau'n gorgyffwrdd.

[178]Cyngor Sir y Fflint, Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint 2015 i 2030

Map 16.1 – Ileoliad fferyllfeydd a safleoedd meddygon dosbarthu



© OpenStreetMap © CARTO

Safleoedd meddygfeydd fferyllol Fferyllfa

Yn 2024/25, cafodd 74.9% o'r presgripsiynau a roddwyd gan feddygfeydd teulu yn yr ardal eu dosbarthu gan fferyllfa yn yr ardal, ac mae'r meddygfeydd dosbarthu wedi dosbarthu neu weinyddu 20.6% o'r eitemau a ragnodir yn bersonol. Er nad yw'r data sydd ar gael yn dangos canran y rhaniad rhwng eitemau a ddosbarthwyd ac eitemau a weinyddir yn bersonol, yn seiliedig ar lefel y weinyddiaeth bersonol mewn mannau eraill yng Nghymru, gellir tybio bod llai na 2% o eitemau wedi'u gweinyddu'n bersonol.

Yn ystod naw mis cyntaf 2025/26, cafodd 75.8% o'r presgripsiynau a roddwyd gan feddygfeydd teulu yn yr ardal eu dosbarthu gan fferyllfa yn yr ardal, a dosbarthodd neu weinyddodd y meddygfeydd dosbarthu 20.2% o'r eitemau a ragnodir yn bersonol.

Mae'r map ym mhennod 5 yn dangos bod pob rhan o'r ardal leol o fewn 20 munud o daith mewn car i fferyllfa, ac mae'r rhan fwyaf o drigolion o fewn pellter o ddeg munud i fferyllfa.

Amseroedd agor y fferyllfeydd yw:

- Mae un ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener,
- Mae pedair ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener, a rhan o ddydd Sadwrn, a
- Dwy ar agor o ddydd Llun i ddydd Sadwrn.

O ran yr amseroedd y mae'r fferyllfeydd hyn ar agor rhwng dydd Llun a dydd Gwener:

- Pob un ar agor am 09.00,
- Mae tair yn cau am 17.30 a'r gweddill am 18.00.

Mae pedair fferyllfa yn cau am ginio ar wahanol adegau rhwng 13.00 a 14.00. Mae'r fferyllfeydd sy'n weddill ar agor drwy'r dydd.

Ar ddydd Sadwrn, mae pum fferyllfa yn agor am 09.00, ac mae un yn agor am 09.30. O'r ddwy fferyllfa sy'n agor drwy'r dydd, mae un yn cau am ginio. Maent yn cau rhwng 16.30 a 17.30. Mae gan bob un o'r chwe fferyllfa oriau agor craidd ddydd Sadwrn.

Nid oes unrhyw un o'r fferyllfeydd ar agor ar y Sul.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn gofyn i'r fferyllfeydd a fyddant ar agor ar wyliau cyhoeddus a gwyliau banc a Sul y Pasg. Mae'r ymatebion yn cael eu casglu, ac mae'r Bwrdd Iechyd yn sefydlu a oes unrhyw fylchau daearyddol yn y ddarpariaeth ai peidio. Lle mae bwlch yn bodoli, mae fferyllfa naill ai'n cael ei chomisiynu neu ei chyfarwyddo i agor.

Ymatebodd pedair fferyllfa i'r holiadur contractwyr fferyllfa ac mae'r wybodaeth ganlynol wedi'i chymryd o'r ymatebion hynny.

Mae pob fferyllfa yn hygyrch i gadeiriau olwyn, ac mae ganddyn nhw hefyd ardal ymgynghori sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn. Yn y pedair ardal ymgynghori mae:

- ystafelloedd caeedig,
- ardal ddynodedig lle gall y claf a'r fferyllydd eistedd i lawr gyda'i gilydd a siarad ar uchder arferol heb gael eu clywed, a
- ardal wedi'i dynodi'n glir fel man ar gyfer ymgynghoriadau cyfrinachol ar wahân i ardaloedd cyhoeddus cyffredinol y fferyllfa.

Cadarnhaodd un fferyllfa fod ganddynt siaradwyr Cymraeg. Cadarnhaodd fferyllfa arall fod staff yn siarad Pwyleg.

Mae pob un o'r pedair fferyllfa yn dosbarthu presgripsiynau ar gyfer pob math o offer.

Mae'r pedair fferyllfa'n casglu presgripsiynau o feddygfeydd teulu. Mewn perthynas â

dosbarthu eitemau a ragnodir:

- mae un yn darparu gwasanaeth dosbarthu am ddim, ac
- mae tair yn cyfyngu'r gwasanaeth i grwpiau penodol o gleifion (cleifion oedrannus a chleifion bregus sy'n gaeth i'r tŷ).

Nid oedd unrhyw fferyllfeydd o'r farn bod gofyniad am wasanaeth clinigol ychwanegol presennol neu wasanaeth newydd nad yw'n cael ei ddarparu neu ar gael ar hyn o bryd.

Cadarnhaodd tair fferyllfa fod ganddynt ddigon o gapasiti yn eu hadeiladau presennol i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau a ddarparant, a dywedodd un nad oes ganddynt gapasiti ond y gellid gwneud addasiadau i ymdopi ag unrhyw gynnydd yn y galw. Nid oedd gan dair fferyllfa ddigon o gapasiti staffio ond gallent wneud addasiadau.

Mae un fferyllfa yn bwriadu cynyddu nifer yr ymgynghoriadau gan bresgripsiynwyr annibynnol, ac mae un arall yn bwriadu dechrau darparu'r gwasanaeth presgripsiynwyr annibynnol fferyllwyr yn 2026.

Ni chafwyd unrhyw ymatebion i holiadur y meddygon dosbarthu.

16.2.1 Gwasanaeth fferyllfa gymunedol glinigol

Roedd yr holl fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn ac yn 2025/26 roeddent yn darparu:

- 3,436 o ymgynghoriadau ar gyfer anhwylderau cyffredin
- 190 o ymgynghoriadau ar gyfer atal cenhedlu
- 470 o gyflenwadau meddyginiaethau brys

16.2.2 Adolygiad o feddyginiaethau rhyddhau

Yn 2025/26, darparodd pum fferyllfa'r gwasanaeth hwn a chwblhwyd 50 o adolygiadau.

16.2.3 Gwasanaeth rhagnodi annibynnol fferyllwyr

Comisiynwyd dwy fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26 a darparwyd cyfanswm o 1,024 o ymgynghoriadau yn ystod y flwyddyn.

16.2.4 Gwasanaeth brechu ffliw tymhorol

Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26 a darparwyd cyfanswm o 1,056 o frechiadau.

16.2.5 Addasu cyfarpar stoma

Nid yw'r un o'r fferyllfeydd yn yr ardal yn darparu'r gwasanaeth hwn er eu bod yn darparu presgripsiynau ar gyfer cyfarpar.

16.2.6 Adolygiadau defnydd o gyfarpar

Nid yw'r un o'r fferyllfeydd yn yr ardal yn darparu'r gwasanaeth hwn er eu bod yn darparu presgripsiynau ar gyfer cyfarpar.

16.2.7 Gwasanaeth cyflenwi prawf llif unffordd

Comisiynwyd chwe fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

16.2.8 Gwasanaeth profi firysau a gludir yn y gwaed

Ni chomisiynwyd unrhyw fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

16.2.9 Gwasanaeth brechu Covid-19

Ni chomisiynwyd unrhyw fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

16.2.10 Helpa Fi i Stopio yn y fferyllfa

Comisiynwyd tair o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

16.2.11 Gwasanaeth adolygu anadlyddion

Comisiynwyd pedair fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

16.2.12 Gwasanaeth cyflenwi Nalocson

Ni chomisiynwyd unrhyw fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

16.2.13 Gwasanaeth cymorth cartrefi gofal cenedlaethol

Comisiynwyd dwy fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

16.2.14 Dychwelyd blychau offer miniog cleifion

Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

16.2.15 Gwasanaeth rhoi'r gorau i ysmygu lefel 2

Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

16.2.16 Gwasanaeth gweinyddu dan oruchwyliaeth

Comisiynwyd chwe fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

16.2.17 Rhaglenni nodwyddau a chwistrellau

Comisiynwyd pedair fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26

16.2.18 Gwasanaeth meddyginiaethau brys

Ni chomisiynwyd unrhyw fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

16.3 Darpariaeth bresennol o wasanaethau fferyllol y tu allan i'r ardal leol

Mae rhai trigolion yn dewis defnyddio contractwyr y tu allan i'r ardal leol ac ardal y Bwrdd Iechyd er mwyn cael mynediad at wasanaethau:

- Wedi'i gynnig gan gontractwyr dosbarthu cyfarpar
- Sydd wedi'u lleoli ger lle maen nhw'n gweithio, yn siopa, neu'n ymweld at ddibenion hamdden neu ddibenion eraill.

Er bod mwyafrif y presgripsiynau a ysgrifennwyd gan feddygfeydd teulu yn 2024/25 wedi'u dosbarthu naill ai gan y fferyllfeydd yn yr ardal neu'r meddygfeydd dosbarthu, dosbarthwyd 4.2% y tu allan i'r ardal:

- 1.5% gan gontractwyr yn Lloegr,
- 0.8% gan fferyllfeydd yng Ngogledd Ddwyrain Sir y Fflint,
- 0.6% gan fferyllfeydd yng Nghanolbarth a De Sir Ddinbych,
- 0.4% gan fferyllfeydd yng Ngogledd Sir Ddinbych,
- 0.4% gan fferyllfeydd yn Ne Sir y Fflint, a
- 0.2% yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Yn ystod naw mis cyntaf 2025/26, dosbarthwyd y rhan fwyaf o'r presgripsiynau naill ai gan y fferyllfeydd yn yr ardal neu'r practisau dosbarthu. Dosbarthwyd 4.0% y tu allan i'r ardal:

- 1.5% gan gontractwyr yn Lloegr,
- 0.6% yng Nghanolbarth a De Sir Ddinbych,
- 0.6% yng Ngogledd Ddwyrain Sir y Fflint,
- 0.4% yng Ngogledd Sir Ddinbych,
- 0.3% yn Ne Sir y Fflint,
- 0.2% yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Yn ogystal, efallai bod trigolion wedi cael mynediad at un neu fwy o wasanaethau fferyllol a ddarperir gan fferyllfa arall y tu allan i'r ardal leol ac ardal y Bwrdd Iechyd; fodd bynnag, ac nid yw'n bosibl mesur y gweithgaredd hwn o'r data a gofnodwyd.

16.4 Gwasanaethau GIG eraill

Mae manylion am wasanaethau'r GIG sy'n effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol i'w gweld ym mhennod chwech.

16.5 Dewis o ran cael gwasanaethau fferyllol

Fel y gwelir o adrannau 16.2 a 16.3, mae'r rhai sy'n byw yn yr ardal ac wedi cofrestru gydag un o'r practisau meddygon teulu fel arfer yn dewis mynd i un o'r fferyllfeydd yn yr ardal er mwyn cael eu presgripsiynau wedi'u dosbarthu neu, os ydynt yn gymwys,

i gael eu dosbarthu gan eu practis. Mae'r rhai sy'n edrych y tu allan i'r ardal fel arfer yn gwneud hynny naill ai i fynd i fferyllfa gyfagos neu gontractwr offer dosbarthu y tu allan i ardal y Bwrdd Iechyd.

Yn 2024/25, dosbarthodd dros 152 o gontractwyr eitemau a ysgrifennwyd gan un o feddygfeydd teulu yn yr ardal hon, ac o'r rhain:

- Roedd saith wedi'u lleoli o fewn yr ardal,
- Roedd 126 wedi'u lleoli mewn mannau eraill o fewn ardal y Bwrdd Iechyd,
- Roedd 19 wedi'u lleoli mewn mannau eraill yng Nghymru, a
- Dosbarthwyd nifer o bresgripsiynau yn Lloegr.

Yn ystod naw mis cyntaf 2025/26, ysgrifennwyd dros 140 o eitemau a ddosbarthwyd gan un o'r meddygfeydd teulu.

- Roedd saith wedi'u lleoli o fewn yr ardal,
- Roedd 122 wedi'u lleoli mewn mannau eraill o fewn ardal y Bwrdd Iechyd,
- Roedd 11 wedi'u lleoli mewn mannau eraill yng Nghymru, a
- Dosbarthwyd nifer o bresgripsiynau yn Lloegr.

16.6 Bylchau yn y ddarpariaeth

Wrth ystyried a oes unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth o wasanaethau fferyllol mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi bod tair fferyllfa wedi cadarnhau bod ganddynt ddigon o gapasiti o fewn eu hadeiladau presennol i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau a ddarparant, a dywedodd un nad oes ganddynt le ond y gellid gwneud addasiadau i ymdopi ag unrhyw gynnydd yn y galw. Nid oedd gan dair fferyllfa ddigon o gapasiti staffio ond gallent wneud addasiadau.

16.6.1 Gwasanaethau hanfodol

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi:

- Fod y fferyllfeydd fel arfer wedi'u lleoli mewn ardaloedd â dwysedd poblogaeth uwch ac amddifadedd uwch.
- Mae'r ardal gyfan o fewn 20 munud o daith mewn car i fferyllfa , ac mae llawer o drigolion o fewn taith deg munud mewn car i fferyllfa.
- Y datblygiadau tai yr ydym yn ymwybodol ohonynt.
- Dim fferyllfeydd ar agor ar y Sul.

Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol ar gyfer y gwasanaethau hyn yn yr ardal.

Pe bai colli gwasanaethau hanfodol oherwydd tynnu fferyllfa oddi ar y rhestr fferyllol mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi y bydd angen yn y dyfodol am naill ai:

- fferyllfa newydd yn yr un dref/pentref sy'n darparu gwasanaethau hanfodol , y gwasanaeth fferyllfa gymunedol glinigol, dychwelyd blychau offer miniog i gleifion, gwasanaeth gweinyddu dan oruchwyliaeth, Helpa fi i stopio yn y

fferyllfa, a gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu lefel 2 am 40 awr agor graidd yr wythnos, neu
- gwasanaeth dosbarthu meddyginiaethau'r meddyg teulu os yw'r dref/pentref mewn ardal reoledig,

oni bai bod fferyllfa arall yn y dref/pentref hwnnw ac yna ni fyddai'r angen hwn yn codi yn y dyfodol.

Pe byddai gostyngiad i oriau agor atodol ar ddydd Sadwrn o 1 Hydref 2026 sy'n arwain at lai na thair awr o ddarparu gwasanaethau fferyllol o fewn tref/pentref, y mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi y byddai angen yn y dyfodol i ddarparu gwasanaethau hanfodol am dair awr agor graidd ar ddydd Sadwrn yn y dref/pentref neu'r trefi/pentrefi lle mae'r gostyngiad mewn oriau agor atodol wedi digwydd, rhwng 09.00 a 17.00 , oni bai bod fferyllfa arall yn y dref/pentref hwnnw ac yna ni fydd yr angen yn y dyfodol yn codi.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi angen, pe bai practis meddyg teulu yn rhoi'r gorau i ddosbarthu i ardal y mae ganddo ganiatâd amlinellol ar ei chyfer, am naill ai:

- y gwasanaeth dosbarthu meddygon teulu i ddarparu i'r ardal honno tra ei bod yn parhau i fod yn lleoliad rheoledig ac yn fwy nag 1.6km mewn llinell syth o fferyllfa, neu
- fferyllfa sydd ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener o leiaf yn darparu:
    - yr holl wasanaethau hanfodol, a
    - y gwasanaeth fferyllfa gymunedol glinigol, dychwelyd blychau offer miniog i gleifion, gwasanaeth gweinyddu dan oruchwyliaeth, Helpa fi i stopio yn y fferyllfa, a gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu lefel 2.

16.6.2 Gwasanaeth fferyllfa gymunedol glinigol

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi bod yr holl fferyllfeydd wedi cael eu comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. O'r herwydd, nid oes unrhyw anghenion cyfredol nac anghenion yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

16.6.3 Adolygiad o feddyginiaethau rhyddhau

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi bod pump o'r fferyllfeydd wedi darparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Nid yw wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol nac anghenion yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

16.6.4 Gwasanaeth rhagnodi annibynnol fferyllwyr

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi:

- Fod dwy fferyllfa wedi eu comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.
- Mae un fferyllfa yn bwriadu dechrau darparu'r gwasanaeth yn 2026.
- Y dyhead a nodir yn 'Fferylliaeth: Cyflawni Cymru Iachach' yw i bob fferyllfa gael presgripsiynydd annibynnol erbyn 2030 ac mae wedi gosod targedau dros dro o 50% o fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn ym mhob ardal erbyn Ebrill 2027 a 70% erbyn Ebrill 2029.

- 2026 ymlaen, rhagwelir y bydd pob fferyllydd newydd gymhwyso hefyd yn gymwys fel presgripsiynwyr annibynnol ar ôl cwblhau eu gradd israddedig.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

Os na chyflawnir y targedau dros dro, bydd angen darparu'r gwasanaeth hwn yn y dyfodol gan ddigon o fferyllfeydd yn yr ardal i gyflawni'r ddau darged.

16.6.5 Brechiad ffliw tymhorol

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi bod yr holl fferyllfeydd wedi cael eu comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. O'r herwydd, nid yw wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol nac anghenion yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

16.6.6 Addasu cyfarpar stoma

Er nad oes unrhyw fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn, mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi bod presgripsiynau ar gyfer cyfarpar yn cael eu dosbarthu gan gontractwyr mewn mannau eraill yng Nghymru a hefyd yn Lloegr.

O'r herwydd, rhagwelir y bydd y contractwyr hyn yn addasu cyfarpar stoma yn ôl yr angen cyn eu hanfon neu eu danfon at gleifion.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

16.6.7 Adolygiadau defnydd o gyfarpar

Er nad oes unrhyw fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn, mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi bod presgripsiynau ar gyfer cyfarpar yn cael eu dosbarthu gan gontractwyr mewn mannau eraill yng Nghymru a hefyd yn Lloegr.

Mae'n debygol y bydd unigolion sydd angen y gwasanaeth adolygu defnydd o gyfarpar yn cael mynediad at y gwasanaeth hwn gan y contractwr sy'n dosbarthu eu presgripsiynau ar gyfer cyfarpar neu gallant ei gael gan ddarparwyr gofal iechyd eraill fel nyrsys stoma.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

16.6.8 Gwasanaeth cyflenwi profion llif unffordd

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi bod chwe fferyllfa wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Mae hefyd wedi nodi mai dim ond i grwpiau penodol o gleifion y mae'r gwasanaeth hwn ar gael. Pe bai un o'r fferyllfeydd nad ydynt yn darparu'r gwasanaeth yn nodi angen amdano, byddai'r Bwrdd Iechyd yn comisiynu'r gwasanaeth gan y fferyllfa honno. O ganlyniad, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi nodi

unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

16.6.9 Gwasanaeth profi firysau a gludir yn y gwaed

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi na chomisiynwyd unrhyw fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Fodd bynnag, mae darparwyr eraill yn cynnig y gwasanaeth, er enghraifft tîm lleihau niwed y Bwrdd Iechyd.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol nac anghenion yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

16.6.10 Gwasanaeth brechu Covid-19

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi na chomisiynwyd unrhyw fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Mae hefyd wedi nodi bod meddygfeydd teulu a thîm brechu'r Bwrdd Iechyd yn darparu'r gwasanaeth.
Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol nac anghenion yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

16.6.11 Helpa Fi i Stopio yn y fferyllfa

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi:

- Fod tair fferyllfa wedi eu comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.
- Mae'r galw am y gwasanaeth yn cael ei bennu gan bobl sy'n dymuno rhoi'r gorau i ysmygu.
- Mae eraill yn darparu'r gwasanaeth, er enghraifft Helpa fi i stopio ar gyfer y babi, Helpa fi i stopio yn yr ysbyty, a'r gwasanaeth Helpa fi i stopio cyffredinol.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

16.6.12 Gwasanaeth adolygu anadlyddion

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi:

- fod tair fferyllfa wedi eu comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.
- Mae meddygfeydd teulu hefyd yn darparu'r gwasanaeth.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol nac anghenion yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

16.6.13 Gwasanaeth cyflenwi Nalocson

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi:

- na chomisiynwyd unrhyw fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

- Mae darparwyr eraill o'r gwasanaeth fel tîm lleihau niwed y Bwrdd Iechyd a'r gwasanaeth 'cliciwch a chyflenwi' a ddarperir gan DAN24/7.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

16.6.14 Gwasanaeth cymorth cartrefi gofal cenedlaethol

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi:

- fod dwy fferyllfa wedi eu comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.
- Darperir y gwasanaeth gan fferyllfeydd i'r cartrefi gofal y maent yn darparu gwasanaethau iddynt, neu lle mae cartref gofal wedi gofyn am y gwasanaeth.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

16.6.15 Dychwelyd blychau offer miniog cleifion

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi bod yr holl fferyllfeydd wedi cael eu comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. O'r herwydd, nid yw wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

16.6.16 Rhoi'r gorau i ysmygu lefel 2

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi bod yr holl fferyllfeydd wedi cael eu comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Felly nid yw wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

16.6.17 Gwasanaeth gweinyddu dan oruchwyliaeth

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi bod chwe fferyllfa wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Nid yw wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

16.6.18 Rhaglenni nodwyddau a chwistrellau

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi:

- fod pedair fferyllfa wedi eu comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.
- Mae darparwyr eraill yn cynnig y gwasanaeth, ac mae gwasanaeth postio'n cael ei sefydlu ar gyfer y rhai na allant ddefnyddio fferyllfa.
- Os gofynnir i fferyllfa ddarparu'r gwasanaeth, gallant gysylltu â'r Bwrdd Iechyd a gofyn iddynt gael eu comisiynu i'w ddarparu.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol nac anghenion yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

16.6.19 Gwasanaeth meddyginiaethau brys

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi na chomisiynwyd unrhyw fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Oherwydd natur y gwasanaeth, mae wedi'i gomisiynu i sicrhau lledaeniad daearyddol da o fferyllfeydd sy'n ei ddarparu ar draws ardal ddaearyddol y Bwrdd Iechyd.

O'r herwydd, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol nac anghenion yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

16.6.20 Gwasanaeth dosbarthu meddygon teulu

Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol mewn perthynas â'r gwasanaeth hwn.

Pe bai practis meddyg teulu yn rhoi'r gorau i ddosbarthu i ardal y mae ganddo ganiatâd amlinellol ar ei chyfer, mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi y byddai angen yn y dyfodol am naill ai:

- y gwasanaeth dosbarthu meddygon teulu i'w ddarparu i'r ardal honno tra ei bod yn parhau i fod yn lleoliad rheoledig ac yn fwy nag 1.6km mewn llinell syth o fferyllfa, neu
- fferyllfa sydd ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener o leiaf yn darparu:
    - yr holl wasanaethau hanfodol, a
    - y gwasanaeth fferyllfa gymunedol glinigol, offer miniog i gleifion, rhoi'r gorau i ysmygu lefel 2, a gwasanaeth Helpa fi i stopio yn y fferyllfa

17 Ardal Gogledd-ddwyrain Sir y Fflint

17.1 Ffeithiau allweddol[179]

- Awdurdod Unedol Sir y Fflint sydd â'r boblogaeth fwyaf o'r chwe awdurdod lleol sef 155,867.
- Bu cynnydd cyffredinol yn nwysedd y boblogaeth ar draws Gogledd Cymru rhwng 2020 a 2023. Ardal ddwyreiniol y Bwrdd Iechyd sy'n parhau i fod y mwyaf poblog, gyda mwy o bobl fesul cilomedr sgwâr o'i gymharu â chyfartaledd Cymru (152.6). Sir y Fflint yw'r ardal awdurdod unedol fwyaf poblog gyda 354.3 o bobl fesul cilomedr sgwâr.
- Disgwylir i boblogaeth y Bwrdd Iechyd sydd yn 65 oed a throsodd gynyddu erbyn 2047. Rhagwelir y bydd trigolion 65 oed a throsodd yn cynyddu bron i 34%, gyda'r cynnydd canrannol mwyaf i'w ddisgwyl yn Sir Ddinbych (36%). Disgwylir y cynnydd mwyaf o ran nifer y trigolion yng Nghonwy a Sir y Fflint.
- Nid oes gan 15.9% o aelwydydd yn yr ardal gar na fan.
- Mae 16.1% o boblogaeth yr ardal rhwng 66 a 84 oed, sy'n is na chyfartaledd Cymru o 17.7%, ac yn is na chyfartaledd y Bwrdd Iechyd o 19.6%.
- Mae 2.4% o boblogaeth yr ardal leol yn 85 oed ac yn hŷn, yn is na chyfartaledd yn bwrdd iechyd o 3.1% ac yn is na chyfartaledd Cymru o 2.7%
- Mae 17.9% o boblogaeth yr ardal rhwng 0 a 15 oed, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru (17.1%) ac yn uwch na chyfartaledd y Bwrdd Iechyd o 16.7%.
- Mae aelwydydd un person yn yr ardal yn cyfrif am 28.4% o gyfanswm yr aelwydydd; mae 13.4% o'r aelwydydd yn cael eu meddiannu gan un person dros 66 oed. Mae hyn yn is na chyfartaledd Cymru (14.6%) ac yn is na chyfartaledd y Bwrdd Iechyd o 15.8%.
- Mae 13.5% o boblogaeth yr ardal yn byw yn yr 20% mwyaf difreintiedig o wardiau Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru.[180]
- Disgwyliad oes yn Sir y Fflint yw 78.6 i ddynion ac 82.1 i fenywod [181].
- Mae disgwyliad oes iach yn Sir y Fflint yn 61.3 mlynedd i wrywod a 62.0 mlynedd i fenywod a'r bwlch anghydraddoldeb ar gyfer disgwyliad oes iach yn Sir y Fflint yw 8.0 mlynedd i wrywod a 5.5 mlynedd i fenywod.
- Mae 30.3% o blant pedair a phump oed yn ardal Sir y Fflint dros eu pwysau neu'n ordew.
- Mae data ffyrdd iach o fyw ac ymddygiad iach ar gyfer oedolion yn Awdurdod Unedol Sir y Fflint yn dangos:

[179] Proffiliau Iechyd Cyhoeddus - Proffiliau Cydweithredol y Gogledd Orllewin 2025
[180] Iechyd Cyhoeddus Cymru - Dangosfwrdd clystyrau gofal sylfaenol
[181] Data InfoBaseCymru ar gyfer Cymru ddeallus - Disgwyliad oes mewn dynion a menywod (2020 i 2022)

Ardal	Yn gorfforol egnïol am o leiaf 60 munud y dydd	Yn bwyta o leiaf un dogn o ffrwythau neu lysiau bob dydd	Ysmygu tybaco o leiaf unwaith yr wythnos	Wedi rhoi cynnig ar sigaréts electronig o leiaf unwaith yr wythnos	Yn yfed alcohol
Sir y Fflint	17.6%	44.2%	3.6%	9.6%	39.3%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	18.3%	45.7%	3.3%	8.2%	36.8%
Cymru	18.3%	46.5%	2.6%	6.9%	35.6%

- Ar draws ardal y Bwrdd Iechyd, mae canran yr oedolion sy'n nodi eu bod yn yfed mwy na'r canllawiau a argymhellir yn amrywio o 9.9% yn Sir Ddinbych i 20.4% yn Sir y Fflint.
- Mae bron i 37% o blant 11 i 16 oed yn nodi eu bod yn yfed alcohol yng Ngogledd Cymru o'i gymharu â 35.6% ledled Cymru. Y lefelau uchaf o yfed alcohol a gofnodwyd ar draws y rhanbarth yw yn Sir y Fflint (39.3%) a Gwynedd (38.2%).
- Mae'r Arolwg Poblogaeth Blynyddol yng Nghymru yn cofnodi gallu ac amlder y defnydd o'r iaith Gymraeg. Yn 2025, dywedodd bron i 39% o drigolion y Bwrdd Iechyd eu bod yn gallu siarad Cymraeg. Yn Sir y Fflint, dywedodd 15.5% o'r boblogaeth eu bod yn gallu siarad Cymraeg. Dyma'r ganran isaf ledled Gogledd Cymru.
- Dangosir isod nifer y cleifion â chyflyrau cronig fel y'u hadroddwyd ar gofrestrau clefydau Iechyd a Gofal Digidol Cymru, Ebrill 2025.

Cofrestr clefydau	Gogledd-ddwyrain Sir y Fflint	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	Cymru
Asthma	7.3%	7.6%	7.1%
Ffibriliad atrïaidd	2.5%	2.8%	2.7%
Canser	3.7%	4.3%	3.7%
Clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint	2.2%	2.7%	2.3%
Diabetes	7.9%	8.3%	8.4%
Epilepsi	0.9%	0.9%	1.0%
Methiant y galon	1.3%	1.4%	1.4%
Gorbwysedd	17.0%	17.9%	16.3%
Strôc ymosodiad isgemig dros dro	1.9%	2.3%	2.2%
Ataliad eilaidd clefyd coronaidd y galon	3.5%	3.6%	3.4%

- Yn y Bwrdd Iechyd, ychydig dros hanner y bobl 50 i 64 oed â risg glinigol a gafodd eu brechiad ffliw; mae hyn yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Ar draws y rhanbarth, roedd y gyfradd a gafodd y brechiad yn amrywio o 46.5% yn Sir Ddinbych i 53.1% yn Sir y Fflint.
- Mae amcangyfrifon o nifer y bobl â dementia yng Ngogledd Cymru yn dangos cynnydd o 14.1% rhwng 2013 a 2023. Roedd y cynnydd mwyaf yn Sir y Fflint sef 24.5%.

Mae Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint[182] yn nodi dau safle strategol allweddol a fydd yn darparu 1,625 o unedau tai, 23% o gyfanswm y cynllun. Mae'r ddau o fewn Gogledd-ddwyrain Sir y Fflint – safle datblygu cymysg Porth y Gogledd (1,325 o unedau) a safle datblygu cymysg Neuadd Warren (300 o unedau).

Mae pump o ddatblygwyr ar y safle ym Mhorth y Gogledd. Mae'r dyddiad cwblhau ar ei hôl hi ar gyfer y cynllun ond rhagwelir y bydd y cwblhau yn parhau dros y tair blynedd nesaf oherwydd y gweithgarwch sylweddol sy'n digwydd ar draws y safle ar hyn o bryd. Dyma'r rhagamcanion cwblhau.

- 2026/27 – 240
- 2027/28 – 186
- 2028/29 – 102
- 2029/2030 – 71
- 2030 a thu hwnt – 60[183].

Yn seiliedig ar 2.4 o bobl fesul annedd, mae hyn yn cyfateb i gartrefu cyfanswm o 1,584 o bobl.

Bydd Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â chamau cychwynnol astudiaeth dichonoldeb, arolygon a dylunio sy'n ymwneud â thir yn Warren Hall - astudiaethau sy'n ofynnol i gefnogi unrhyw geisiadau cynllunio yn y dyfodol (Ionawr 2026).

Mae 11 safle cyflogaeth anstrategol o fewn y cynllun datblygu lleol y disgwylir iddynt gyflawni'r nifer canlynol o swyddi ledled Sir y Fflint:

- 2026/27 – 465
- 2027/28 – 404
- 2028/29 – 205
- 2029/2030 – 173
- 2030 a thu hwnt – 20

Mae hyn yn cyfateb i gyfanswm o 3,168 o bobl ar draws y safleoedd.


17.2 Darpariaeth bresennol o wasanaethau fferyllol o fewn ardal yr ardal leol

Mae 12 fferyllfa yn yr ardal a gaiff eu gweinyddu gan wyth contractwr gwahanol. Nid yw'r un o'r saith practis yn darparu gwasanaeth dosbarthu.

[182] Cyngor Sir y Fflint - Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint 2015 i 2030
[183] Cyngor Sir y Fflint – Adroddiad monitro blynyddol (AMR) 2 01/04/2024 – 31/03/25

Mae'r map isod yn dangos lleoliad y fferyllfeydd. Dylid nodi, lle mae safleoedd yn agos at ei gilydd, y bydd y symbolau'n gorgyffwrdd.

Map 17.1 – lleoliad fferyllfeydd



© OpenStreetMap © CARTO Fferyllfa

Yn 2024/25, cafodd 80.5% o bresgripsiynau a roddwyd gan feddygfeydd teulu yn yr ardal eu dosbarthu gan fferyllfa yn yr ardal.

Yn ystod naw mis cyntaf 2025/26, cafodd 81.7% o'r presgripsiynau a roddwyd gan feddygfeydd teulu yn yr ardal eu dosbarthu gan fferyllfa yn yr ardal.

Mae'r map ym mhennod 5 yn dangos bod yr holl ardal leol o fewn 20 munud o daith mewn car i fferyllfa, ac mae'r rhan fwyaf o'r trigolion yn gallu cyrraedd fferyllfa o fewn deg munud.

Mae'r fferyllfeydd ar agor:

- Pedair ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener,
- Pump ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener, a rhan o ddydd Sadwrn, a
- Tair ar agor o ddydd Llun i ddydd Sul yn Bretton, Cei Connah a Saltney.

Amseroedd y mae'r fferyllfeydd hyn ar agor rhwng dydd Llun a dydd Gwener yw:

- Pedair ar agor am 08.30 a'r gweddill ar agor am 09.00,
- Mae amseroedd cau yn amrywio rhwng 17.30 a 18.30 gydag un yn cau am 19.00, un arall am 20.00 a'r drydedd am 21.00.

Mae wyth fferyllfa yn cau am ginio ar wahanol adegau rhwng 12.00 a 14.00. Mae'r fferyllfeydd eraill ar agor drwy'r dydd.

Ar ddydd Sadwrn, mae'r holl fferyllfeydd yn agor am 09.00. O'r tair fferyllfa sydd ar agor drwy'r dydd, mae un yn cau am ginio rhwng 13.00 a 14.00. Maent yn cau rhwng 17.00 a 19.00. Mae gan wyth fferyllfa oriau agor craidd ddydd Sadwrn.

Mae'r tair fferyllfa sy'n agor ar ddydd Sul yn cwmpasu oriau agor o 10.00 tan 17.00. Mae gan un oriau agor craidd rhwng 10.00 a 16.00.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn gofyn i'r fferyllfeydd a fyddant ar agor ar wyliau cyhoeddus a gwyliau banc a Sul y Pasg. Mae'r ymatebion yn cael eu casglu, ac mae'r Bwrdd Iechyd yn gweld os oes unrhyw fylchau daearyddol yn y ddarpariaeth ai peidio. Os oes bwlch, mae fferyllfa naill ai'n cael ei chomisiynu neu ei chyfarwyddo i agor.

Ymatebodd chwe fferyllfa i'r holiadur contractwyr fferyllfa ac mae'r wybodaeth ganlynol wedi'i chymryd o'r ymatebion hynny.

Mae pob un o'r chwe fferyllfa yn hygyrch i gadeiriau olwyn ac mae gan bump ohonynt ardal ymgynghori sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn. Mae gan y chweched fferyllfa ardal ymgynghori nad yw'n hygyrch i gadeiriau olwyn ond yn y broses o greu ail un a fydd yn hygyrch. Mae'r chwe ardal ymgynghori yn:

- ystafelloedd caeedig,
- ardal ddynodedig lle gall y claf a'r fferyllydd eistedd i lawr gyda'i gilydd a siarad ar uchder llais arferol heb gael eu clywed, a
- wedi'i ddynodi'n glir fel ardal ar gyfer ymgynghoriadau cyfrinachol ar wahân i ardaloedd cyhoeddus cyffredinol y fferyllfa.

Cadarnhaodd tair fferyllfa fod ganddyn nhw siaradwyr Cymraeg. Yr ieithoedd eraill a siaredir gan staff yw:

- mae gan un fferyllfa staff sy'n siarad Hundi a Phwnjabi,
- mae gan un arall staff sy'n siarad Ffrangeg ac Eidaleg, a
- mae gan draean o'r fferyllfeydd staff sy'n siarad Portiwgaleg.

Mae pob un o'r chwe fferyllfa yn dosbarthu presgripsiynau ar gyfer pob math o offer.

Mae pedair fferyllfa yn casglu presgripsiynau o feddygfeydd teulu. Mewn perthynas â dosbarthu eitemau:

- mae pedair fferyllfa'n darparu gwasanaeth dosbarthu am ddim ar gais,
- mae un fferyllfa yn cyfyngu'r gwasanaeth i ardaloedd penodol, a

- dywedodd tair fferyllfa eu bod yn cyfyngu'r gwasanaeth i grwpiau penodol o gleifion (cleifion sy'n gaeth i'r tŷ ag anghenion ychwanegol, cleifion sy'n gaeth i'r tŷ neu'r rhai nad ydynt yn gallu teithio i'r fferyllfa dros dro, ac mae dwy fferyllfa'n danfon i gleifion oedrannus ac agored i niwed sy'n gaeth i'r tŷ).

Roedd un awgrym ar gyfer gwasanaeth newydd nad yw'n cael ei ddarparu yn yr ardal ar hyn o bryd, sef cynnwys gwasanaethau rhagnodi â thâl mwy priodol.

Nid oedd unrhyw fferyllfeydd o'r farn bod angen gwasanaeth clinigol ychwanegol newydd nad ydynt eisoes ar gael.

Cadarnhaodd pum fferyllfa fod ganddynt ddigon o gapasiti o fewn eu hadeiladau presennol i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau a ddarparant, a dywedodd un nad oedd ganddynt ond y gallent wneud addasiadau. Dywedodd tair fferyllfa fod ganddynt lefelau staffio digonol, a dywedodd dwy y gallent wneud addasiadau. Ni ymatebodd un fferyllfa i'r cwestiwn hwn.

Nid oes gan unrhyw fferyllfeydd gynlluniau i ddatblygu nac ehangu eu darpariaeth gwasanaeth.

17.2.1 Gwasanaeth fferyllfa gymunedol glinigol

Roedd yr holl fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn ac yn 2025/26 roeddent yn darparu:

- 7,955 o ymgynghoriadau ar gyfer anhwylderau cyffredin
- 811 o ymgynghoriadau ar gyfer atal cenhedlu
- 2,233 o gyflenwadau meddyginiaethau brys

17.2.2 Adolygiad o feddyginiaethau rhyddhau

Yn 2025/26, darparodd saith fferyllfa'r gwasanaeth hwn a chwblhawyd 138 o adolygiadau.

17 .2.3 Gwasanaeth rhagnodi annibynnol fferyllwyr

Comisiynwyd chwe fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26 a darparwyd cyfanswm o 4,624 o ymgynghoriadau dros y flwyddyn.

17.2.4 Gwasanaeth brechu ffliw tymhorol

Comisiynwyd deg fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26 a darparwyd cyfanswm o 1,880 o frechiadau.

17.2.5 Addasu offer cyfarpar

Nid yw'r un o'r fferyllfeydd yn yr ardal yn darparu'r gwasanaeth hwn er eu bod yn rhoi presgripsiynau ar gyfer cyfarpar.

17.2.6 Adolygiadau defnydd o gyfarpar

Nid yw'r un o'r fferyllfeydd yn yr ardal yn darparu'r gwasanaeth hwn er eu bod yn rhoi presgripsiynau ar gyfer cyfarpar.

17.2.7 Gwasanaeth cyflenwi prawf llif unffordd

Comisiynwyd 11 fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

17.2.8 Gwasanaeth profi firysau a gludir yn y gwaed

Ni chomisiynwyd unrhyw fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

17.2.9 Gwasanaeth brechu Covid-19

Ni chomisiynwyd unrhyw fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

17.2.10 Helpa fi i stopio yn y fferyllfa

Comisiynwyd naw fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

17.2.11 Gwasanaeth adolygu anadlyddion

Comisiynwyd saith fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

17.2.12 Gwasanaeth cyflenwi Nalocson

Comisiynwyd un fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

17.2.13 Gwasanaeth cymorth cartrefi gofal cenedlaethol

Comisiynwyd tair fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

17.2.14 Dychwelyd blychau offer miniog cleifion

Comisiynwyd 11 fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

17.2.15 Gwasanaeth rhoi'r gorau i ysmygu lefel 2

Comisiynwyd deg fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

17.2.16 Gwasanaeth gweinyddu dan oruchwyliaeth

Comisiynwyd 11 fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

17.2.17 Rhaglenni nodwyddau a chwistrellau

Comisiynwyd tair fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

17.2.18 Gwasanaeth meddyginiaethau brys

Ni chomisiynwyd unrhyw fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

17.3 Darpariaeth bresennol o wasanaethau fferyllol y tu allan i'r ardal leol

Mae rhai trigolion yn dewis defnyddio contractwyr y tu allan i'r ardal leol ac ardal y Bwrdd Iechyd er mwyn cael mynediad at wasanaethau:

- Wedi'i gynnig gan gontractwyr dosbarthu cyfarpar
- Sydd wedi'u lleoli ger lle maen nhw'n gweithio, yn siopa, neu'n ymweld at ddibenion hamdden neu ddibenion eraill.

Er bod y rhan fwyaf o'r presgripsiynau a ysgrifennwyd gan feddygfeydd teulu yn 2024/25 wedi'u dosbarthu gan y fferyllfeydd yn yr ardal, dosbarthwyd 17.9% y tu allan i'r ardal:

- 16.1% gan fferyllfeydd yn Ne Sir y Fflint,
- 1.1% gan gontractwyr yn Lloegr
- 0.4% yng Ngogledd Orllewin Wrecsam,
- 0.1% yng Ngogledd Orllewin Sir y Fflint, a
- 0.1% yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Yn ystod naw mis cyntaf 2025/26, dosbarthwyd y rhan fwyaf o'r presgripsiynau gan y fferyllfeydd yn yr ardal. Dosbarthwyd 17.7% y tu allan i'r ardal:

- 16.5% yn Ne Sir y Fflint,
- 1.0% gan gontractwyr yn Lloegr, a
- 0.1% yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Yn ogystal, efallai bod trigolion wedi cael mynediad at un neu fwy o wasanaethau fferyllol a ddarperir gan fferyllfa arall y tu allan i'r ardal leol ac ardal y Bwrdd Iechyd; fodd bynnag, nid yw'n bosibl mesur y gweithgaredd hwn o'r data a gofnodwyd.

17.4 Gwasanaethau GIG eraill

Mae manylion am wasanaethau'r GIG sy'n effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol i'w gweld ym mhennod chwech.

17.5 Dewis o ran cael gwasanaethau fferyllol

Fel y gwelir o adrannau 17.2 a 17.3, mae'r rhai sy'n byw yn yr ardal ac wedi cofrestru gydag un o'r practisau meddygon teulu fel arfer yn dewis mynd i un o'r fferyllfeydd yn yr ardal er mwyn cael eu presgripsiynau wedi'u dosbarthu neu, os ydynt yn gymwys, i gael eu dosbarthu gan eu practis. Mae'r rhai sy'n edrych y tu allan i'r ardal fel arfer yn gwneud hynny naill ai i fynd i fferyllfa gyfagos neu gontractwr dosbarthu cyfarpar y tu allan i ardal y Bwrdd Iechyd.

Yn 2024/25, dosbarthodd dros 113 o gontractwyr eitemau a ysgrifennwyd gan un o feddygfeydd teulu yn yr ardal hon, ac o'r rhain:

- Roedd 12 wedi'u lleoli o fewn yr ardal,
- Roedd 85 wedi'u lleoli mewn mannau eraill o fewn ardal y Bwrdd Iechyd,
- Roedd 16 wedi'u lleoli mewn mannau eraill yng Nghymru, a
- Dosbarthwyd nifer o bresgripsiynau yn Lloegr.


Yn ystod naw mis cyntaf 2025/26, dosbarthodd dros 105 o gontractwyr eitemau a ysgrifennwyd gan un o feddygfeydd teulu, ac o'r rhain:

- Roedd 12 wedi'u lleoli o fewn yr ardal,
- Roedd 73 wedi'u lleoli mewn mannau eraill o fewn ardal y Bwrdd Iechyd,
- Roedd 20 wedi'u lleoli mewn mannau eraill yng Nghymru, a
- Dosbarthwyd nifer o bresgripsiynau yn Lloegr.

17.6 Bylchau yn y ddarpariaeth

Er nad yn ddarparwyr gwasanaethau fferyllol na gwasanaethau GIG eraill fel y'u diffinnir yn y rheoliadau, mae'r Bwrdd Iechyd wedi ystyried y fferyllfeydd dros y ffin yn Lloegr. Mae'r map isod yn dangos lleoliadau fferyllfeydd ychydig dros y ffin.

Map 17.2 – lleoliadau fferyllfeydd yn Lloegr



© Hawlfraint Parallel 2026 | Ordnans Arolwg | Blwch Mapiau | Cyfrannwr OpenStreetMap

Wrth ystyried a oes unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth o wasanaethau fferyllol

mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi bod pum fferyllfa wedi cadarnhau bod ganddynt ddigon o gapasiti yn eu hadeiladau presennol i reoli cynnydd yn y galw am y gwasanaethau a ddarparant, a dywedodd un nad oedd ond y gallai wneud addasiadau. Dywedodd tair fferyllfa fod ganddynt lefelau staffio digonol, a dywedodd dwy y gallent wneud addasiadau. Ni ymatebodd un fferyllfa i'r cwestiwn hwn.

17.6.1 Gwasanaethau hanfodol

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi:

- Fod fferyllfeydd wedi'u gwasgaru ar draws yr ardal ac fel arfer maent wedi'u lleoli mewn ardaloedd â dwysedd poblogaeth uwch ac amddifadedd uwch.
- Mae'r ardal gyfan o fewn 20 munud o daith mewn car i fferyllfa yng Nghymru neu Loegr, a gall llawer o drigolion gyrraedd fferyllfa mewn deg munud
- Mae dau ddatblygiad adeiladu tai arfaethedig o fewn oes y ddogfen hon a fydd yn darparu hyd at 1,625 o dai newydd – safle datblygu cymysg Porth y Gogledd (1,325 o unedau) a safle datblygu cymysg Neuadd Warren (300 o unedau).
- Oriau agor y fferyllfeydd.

Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol ar gyfer y gwasanaethau hyn yn yr ardal.

Pe bai gwasanaethau hanfodol yn cael eu colli oherwydd fod fferyllfa yn cael ei thynnu oddi ar y rhestr fferyllol, mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi y bydd angen yn y dyfodol am naill ai:

- fferyllfa newydd yn yr un dref/pentref sy'n darparu gwasanaethau hanfodol y gwasanaeth fferyllfa gymunedol glinigol, dychwelyd blychau eitemau miniog i gleifion, gwasanaeth gweinyddu dan oruchwyliaeth, Helpa fi i roi'r gorau iddi @ y fferyllfa, a gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu lefel 2 am 40 awr agor graidd yr wythnos, neu
- gwasanaeth dosbarthu meddyginiaethau'r meddyg teulu os yw'r dref/pentref mewn ardal reoledig,

oni bai bod fferyllfa arall yn y dref/pentref hwnnw ac yna ni fydd yr angen hwn yn codi yn y dyfodol.

Pe byddai oriau agor atodol ar ddydd Sadwrn o 1 Hydref 2026 yn arwain at lai na thair awr o ddarparu gwasanaethau fferyllol o fewn tref/pentref, mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi y bydd angen yn y dyfodol i ddarparu gwasanaethau hanfodol am dair awr agor graidd ar ddydd Sadwrn yn y dref/pentref neu'r trefi/pentrefi lle mae'r gostyngiad mewn oriau agor atodol wedi digwydd, rhwng 09.00 a 17.00, oni bai bod fferyllfa arall yn y dref/pentref hwnnw ac yna ni fydd yr angen yn y dyfodol yn codi.

17.6.2 Gwasanaeth fferyllfa gymunedol glinigol

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi bod yr holl fferyllfeydd wedi cael eu comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Felly nid yw wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol nac anghenion yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

17.6.3 Adolygiad o feddyginiaethau rhyddhau

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi bod saith fferyllfa wedi darparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Nid yw wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol nac anghenion yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

17.6.4 Gwasanaeth rhagnodi annibynnol fferyllwyr

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi:

- fod chwe fferyllfa wedi eu comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.
- Y dyhead a nodir yn ‘Fferylliaeth: Cyflawni Cymru Iachach’ yw i bob fferyllfa gael presgripsiynydd annibynnol erbyn 2030 ac mae wedi gosod targedau dros dro o 50% o fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn ym mhob ardal erbyn Ebrill 2027 a 70% erbyn Ebrill 2029.
- O 2026 ymlaen, rhagwelir y bydd pob fferyllydd newydd gymhwyso hefyd yn gymwys fel presgripsiynwyr annibynnol ar ôl cwblhau eu gradd israddedig.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

Os na chyflawnir y targedau dros dro, bydd angen darparu'r gwasanaeth hwn yn y dyfodol gan ddigon o fferyllfeydd yn yr ardal i gyflawni'r ddau darged.

17.6.5 Brechiad ffliw tymhorol

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi:

- Comisiynwyd 11 fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.
- Mae darparwyr eraill y gwasanaeth, er enghraifft y meddygfeydd teulu.

Felly nid yw wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

17.6.6 Addasu offer cyfarpar

Er nad oes unrhyw fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn, mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi bod presgripsiynau ar gyfer cyfarpar yn cael eu dosbarthu gan gontractwyr mewn mannau eraill yng Nghymru a hefyd yn Lloegr.

O’r herwydd, rhagwelir y bydd y contractwyr hyn yn addasu cyfarpar stoma yn ôl yr angen cyn eu hanfon neu eu danfon at gleifion.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

17.6.7 Adolygiadau o ddefnydd cyfarpar

Er nad oes unrhyw fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn, mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi bod presgripsiynau ar gyfer cyfarpar yn cael eu dosbarthu gan gontractwyr

mewn mannau eraill yng Nghymru a hefyd yn Lloegr.

Mae'n debygol y bydd unigolion sydd angen y gwasanaeth adolygu defnydd o gyfarpar yn cael mynediad at y gwasanaeth hwn gan y contractwr sy'n dosbarthu eu presgripsiynau ar gyfer cyfarpar neu gallant ei gael gan ddarparwyr gofal iechyd eraill fel nyrsys stoma.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

17.6.8 Gwasanaeth cyflenwi profion llif unffordd

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi bod 11 fferyllfa wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Mae hefyd wedi nodi mai dim ond i grwpiau penodol o gleifion y mae'r gwasanaeth hwn ar gael. Pe bai un o'r fferyllfeydd nad ydynt yn darparu'r gwasanaeth yn nodi angen amdano, byddai'r Bwrdd Iechyd yn comisiynu'r gwasanaeth gan y fferyllfa honno. O ganlyniad, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

17.6.9 Gwasanaeth profi firysau a gludir yn y gwaed

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi na chomisiynwyd unrhyw fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Fodd bynnag, mae darparwyr eraill o'r gwasanaeth, er enghraifft tîm lleihau niwed y Bwrdd Iechyd.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

17.6.10 Gwasanaeth brechu Covid-19

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi na chomisiynwyd unrhyw fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Mae hefyd wedi nodi bod meddygfeydd teulu a thîm brechu'r Bwrdd Iechyd yn darparu'r gwasanaeth.
Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

17.6.11 Helpa fi i stopio yn y fferyllfa

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi:

- Fod naw fferyllfa wedi eu comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.
- Mae'r galw am y gwasanaeth yn cael ei bennu gan bobl sy'n dymuno rhoi'r gorau i ysmygu.
- Mae eraill yn darparu'r gwasanaeth, er enghraifft Helpa fi i stopio ar gyfer y babi, Helpa fi i stopio yn yr ysbyty, a'r gwasanaeth Helpa fi i stopio cyffredinol.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

17.6.12 Gwasanaeth adolygu anadlyddion

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi:

- Comisiynwyd saith fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.
- Mae meddygfeydd teulu hefyd yn darparu'r gwasanaeth.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

17.6.13 Gwasanaeth cyflenwi Nalocson

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi:

- Comisiynwyd un fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.
- Mae darparwyr eraill o'r gwasanaeth fel tîm lleihau niwed y Bwrdd Iechyd a'r gwasanaeth 'cliciwch a chyflenwi' a ddarperir gan DAN24/7.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

17.6.14 Gwasanaeth cymorth cartrefi gofal cenedlaethol

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi:

- Fod tair fferyllfa wedi eu comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.
- Darperir y gwasanaeth gan fferyllfeydd i'r cartrefi gofal y maent yn darparu gwasanaethau iddynt, neu lle mae cartref gofal wedi gofyn am y gwasanaeth.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

17.6.1 5 Dychwelyd blychau offer miniog cleifion

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi bod 11 fferyllfa wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Nid yw wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

17.6.16 Rhoi'r gorau i ysmygu lefel 2

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi:

- Comisiynwyd deg fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.
- Mae'r galw am y gwasanaeth yn cael ei bennu gan bobl sy'n dymuno rhoi'r gorau i ysmygu.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

17.6.17 Gwasanaeth gweinyddu dan oruchwyliaeth

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi bod 11 fferyllfa wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Nid yw wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

17.6.18 Rhaglenni nodwyddau a chwistrellau

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi:

- Comisiynwyd tair fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.
- Mae darparwyr eraill y gwasanaeth, ac mae gwasanaeth postio'n cael ei sefydlu ar gyfer y rhai na allant ddefnyddio fferyllfa.
- Os gofynnir i fferyllfa ddarparu'r gwasanaeth, gallant gysylltu â'r Bwrdd Iechyd a gofyn iddynt gael eu comisiynu i'w ddarparu.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

17.6.19 Gwasanaeth meddyginiaethau brys

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi nad oedd yr un o'r fferyllfeydd wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Oherwydd natur y gwasanaeth, mae wedi'i gomisiynu i sicrhau lledaeniad daearyddol da o fferyllfeydd sy'n ei ddarparu ar draws daearyddiaeth y Bwrdd Iechyd.

O'r herwydd, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

18 Ardal De Sir y Fflint

18.1 Ffeithiau allweddol[184]

- Awdurdod Unedol Sir y Fflint sydd â'r boblogaeth fwyaf o'r chwe awdurdod unedol sef 155,867.
- Bu cynnydd cyffredinol yn nwysedd y boblogaeth ar draws Gogledd Cymru rhwng 2020 a 2023. Ardal ddwyreiniol y Bwrdd Iechyd sy'n parhau i fod yr un fwyaf poblog, gyda mwy o bobl fesul cilomedr sgwâr o'i gymharu â chyfartaledd Cymru (152.6). Sir y Fflint yw'r ardal awdurdod unedol fwyaf poblog gyda 354.3 o bobl fesul cilomedr sgwâr.
- Disgwylir i boblogaeth y Bwrdd Iechyd sydd yn 65 oed a throsodd gynyddu erbyn 2047. Rhagwelir y bydd trigolion 65 oed a throsodd yn cynyddu bron i 34%, gyda'r cynnydd canrannol mwyaf i'w ddisgwyl yn Sir Ddinbych (36%). Disgwylir y cynnydd mwyaf o ran nifer y trigolion yng Nghonwy a Sir y Fflint.
- Nid oes gan 14.6% o gartrefi yn yr ardal gar na fan (y ganran isaf ar draws Gogledd Cymru).
- Mae 19.9% o boblogaeth yr ardal rhwng 66 a 84 oed, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru o 17.7%, ac yn debyg i gyfartaledd y Bwrdd Iechyd o 19.6%.
- Mae 3.1% o boblogaeth yr ardal leol yn 85 oed ac yn hŷn, sef yr un peth â chyfartaledd y bwrdd iechyd o 3.1% ac yn uwch na chyfartaledd Cymru o 2.7%.
- Mae 16.6% o boblogaeth yr ardal rhwng 0 a 15 oed, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru (17.1%) ac yn uwch na chyfartaledd y Bwrdd Iechyd o 16.7%.
- Mae aelwydydd un person yn yr ardal yn cyfrif am 28.9% o gyfanswm yr aelwydydd; mae 15% o'r aelwydydd yn cael eu meddiannu gan un person dros 66 oed. Mae hyn yn uwch na chyfartaledd Cymru (14.6%) ond yn is na chyfartaledd y Bwrdd Iechyd o 15.8%.
- Mae 2.8% o boblogaeth yr ardal yn byw yn y 20% ardal mwyaf difreintiedig o Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. [185]Dyma'r isaf yn y tri chlwstwr yn Sir y Fflint, a'r trydydd isaf ar draws y clystyrau yng Ngogledd Cymru.
- Disgwyliad oes yn Awdurdod Unedol Sir y Fflint yw 78.6 i ddynion ac 82.1 i fenywod [186].
- Mae disgwyliad oes iach yn Awdurdod Unedol Sir y Fflint yn 61.3 mlynedd i wrywod a 62.0 mlynedd i fenywod a'r bwlch anghydraddoldeb ar gyfer disgwyliad oes iach yn Sir y Fflint yw 8.0 mlynedd i wrywod a 5.5 mlynedd i fenywod.
- Mae 23.1% o blant pedair a phump oed yn ardal leol Sir y Fflint dros eu pwysau neu'n ordew.
- Mae data ffyrdd o fyw ac ymddygiad iach ar gyfer oedolion yn Awdurdod Unedol Sir y Fflint yn dangos:

[184] Proffiliau Iechyd Cyhoeddus - Proffiliau Cydweithredol y Gogledd Orllewin 2025
[185] Iechyd Cyhoeddus Cymru - Dangosfwrdd clystyrau gofal sylfaenol
[186] Data InfoBaseCymru ar gyfer Cymru ddeallus - Disgwyliad oes mewn dynion a menywod (2020 i 2022)

Ardal	Yn gorfforol egnïol am o leiaf 60 munud y dydd	Yn bwyta o leiaf un dogn o ffrwythau neu lysiau bob dydd	Ysmygu tybaco o leiaf unwaith yr wythnos	Wedi rhoi cynnig ar sigaréts electronig o leiaf unwaith yr wythnos	Yn yfed alcohol
Sir y Fflint	17.6%	44.2%	3.6%	9.6%	39.3%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	18.3%	45.7%	3.3%	8.2%	36.8%
Cymru	18.3%	46.5%	2.6%	6.9%	35.6%

- Ar draws ardal y Bwrdd Iechyd, mae canran yr oedolion sy'n nodi eu bod yn yfed mwy na'r canllawiau a argymhellir yn amrywio o 9.9% yn Sir Ddinbych i 20.4% yn Sir y Fflint.
- Mae bron i 37% o blant 11 i 16 oed yn nodi eu bod yn yfed alcohol yng Ngogledd Cymru o'i gymharu â 35.6% ledled Cymru. Y lefelau uchaf o yfed alcohol a gofnodwyd ar draws y rhanbarth yw yn Sir y Fflint (39.3%) a Gwynedd (38.2%).
- Mae'r Arolwg Poblogaeth Blynyddol yng Nghymru yn cofnodi gallu ac amlder y defnydd o'r iaith Gymraeg. Yn 2025, dywedodd bron i 39% o drigolion y Bwrdd Iechyd eu bod yn gallu siarad Cymraeg. Yn Sir y Fflint, dywedodd 15.5% o'r boblogaeth eu bod yn gallu siarad Cymraeg. Dyma'r ganran isaf ledled Gogledd Cymru.
- Dangosir isod nifer y cleifion â chyflyrau cronig fel y'u hadroddwyd ar gofrestrau clefydau Iechyd a Gofal Digidol Cymru, Ebrill 2025.

Cofrestr clefydau	De Sir y Fflint	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	Cymru
Asthma	7.4%	7.6%	7.1%
Ffibriliad atrïaidd	2.8%	2.8%	2.7%
Canser	4.5%	4.3%	3.7%
Clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint	2.1%	2.7%	2.3%
Diabetes	7.5%	8.3%	8.4%
Epilepsi	0.9%	0.9%	1.0%
Methiant y galon	1.3%	1.4%	1.4%
Gorbwysedd	17.1%	17.9%	16.3%
Strôc ymosodiad isgemig dros dro	2.4%	2.3%	2.2%
Ataliad eilaidd clefyd coronaidd y galon	3.5%	3.6%	3.4%

- Yn y Bwrdd Iechyd, ychydig dros hanner y bobl 50 i 64 oed â risg glinigol a gafodd eu brechiad ffliw; mae hyn yn uwch na’r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Ar

draws y rhanbarth, roedd y gyfradd a gafodd y brechiad yn amrywio o 46.5% yn Sir Ddinbych i 53.1% yn Sir y Fflint.
- Mae amcangyfrifon o nifer y bobl â dementia yng Ngogledd Cymru yn dangos cynnydd o 14.1% rhwng 2013 a 2023. Roedd y cynnydd mwyaf yn Sir y Fflint sef 24.5%.

Mae Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint yn nodi dau safle strategol allweddol a fydd yn darparu 1,625 o unedau tai, 23% o gyfanswm y cynllun. Mae'r ddau o fewn Gogledd-ddwyrain Sir y Fflint.

Mae 11 safle cyflogaeth anstrategol o fewn y cynllun datblygu lleol y disgwylir iddynt gyflawni'r canlynol ledled Sir y Fflint:

- 2026/27 – 465
- 2027/28 – 404
- 2028/29 – 205
- 2029/2030 – 173
- 2030 a thu hwnt – 20

Mae hyn yn cyfateb i gyfanswm o 3,168 o bobl ar draws y safleoedd.

18.2 Darpariaeth bresennol o wasanaethau fferyllol o fewn ardal yr ardal leol

Mae wyth fferyllfa yn yr ardal a weithredir gan wyth contractwr gwahanol. O'r chwe phractis meddygon teulu, mae pedwar yn dosbarthu o gyfanswm o bedwar safle. Mae lefel y dosbarthu yn amrywio o 7.0% i 96.0% o boblogaethau cofrestredig y practisau.

Mae'r map isod yn dangos lleoliad y fferyllfeydd a'r practisau dosbarthu. Dylid nodi, lle mae safleoedd yn agos at ei gilydd, y bydd y symbolau'n gorgyffwrdd.

Map 18.1 – Ileoliad fferyllfeydd a meddygfeydd dosbarthu



© OpenStreetMap © CARTO

Safleoedd meddygfeydd fferyllol Fferyllfa

Yn 2024/25, cafodd 74.4% o'r presgripsiynau a roddwyd gan feddygfeydd teulu yn yr ardal eu dosbarthu gan fferyllfa yn yr ardal, a dosbarthodd neu weinyddodd y meddygfeydd dosbarthu 16.4% o'r eitemau a ragnodir yn bersonol. Er nad yw'r data sydd ar gael yn dangos y ganran rhwng eitemau a ddosbarthwyd ac eitemau a weinyddir yn bersonol, yn seiliedig ar lefel y weinyddiaeth bersonol mewn mannau eraill yng Nghymru, gellir tybio bod llai na 2% o eitemau wedi'u gweinyddu'n bersonol.

Yn ystod naw mis cyntaf 2025/26, cafodd 74.6% o'r presgripsiynau a roddwyd gan feddygfeydd teulu yn yr ardal eu dosbarthu gan fferyllfa yn yr ardal, a dosbarthodd neu gweinyddodd y meddygfeydd dosbarthu 16.6% o'r eitemau a ragnodwyd yn bersonol.

Mae'r map yn mhennod 5 yn dangos bod yr ardal leol gyfan o fewn taith 20 munud mewn car i fferyllfa, ac mae llawer o drigolion o fewn taith 10 munud i fferyllfa.

Amseroedd agor y fferyllfeydd:

- Mae un ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener,

- Mae pump ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener, a rhan o ddydd Sadwrn,
- Mae un ar agor o ddydd Llun i ddydd Sadwrn, a
- Mae un ar agor o ddydd Llun i ddydd Sul yn yr Wyddgrug.

O ran yr amseroedd y mae'r fferyllfeydd hyn ar agor rhwng dydd Llun a dydd Gwener:

- mae'r holl fferyllfeydd yn agor am 09.00,
- Mae amseroedd cau yn amrywio o 17.30 i 18.00.

Mae tair fferyllfa yn cau ar gyfer cinio ar wahanol adegau rhwng 13.00 a 13.30. Mae'r fferyllfeydd eraill ar agor drwy'r dydd.

Ddydd Sadwrn, mae'r saith fferyllfa sy'n agor yn gwneud hynny am 09.00. O'r ddwy fferyllfa sy'n agor drwy'r dydd, nid yw'r naill na'r llall yn cau am ginio. Maent yn cau am 17.30. Mae gan bum fferyllfa oriau agor craidd ddydd Sadwrn.

Mae'r fferyllfa sy'n agor ddydd Sul yn gwneud hynny rhwng 10.00 a 16.00. Oriau agor ychwanegol yw'r rhain.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn gofyn i'r fferyllfeydd a fyddant ar agor ar wyliau cyhoeddus a gwyliau banc a Sul y Pasg. Mae'r ymatebion yn cael eu casglu, ac mae'r Bwrdd Iechyd yn sefydlu a oes unrhyw fylchau daearyddol yn y ddarpariaeth ai peidio. Lle mae bwlch yn bodoli, mae fferyllfa naill ai'n cael ei chomisiynu neu ei chyfarwyddo i agor.

Ymatebodd pedair fferyllfa i'r holiadur contractwyr fferyllfa ac mae'r wybodaeth ganlynol wedi'i chymryd o'r ymatebion hynny.

Mae pob fferyllfa yn hygyrch i gadeiriau olwyn ac mae ganddynt ardal ymgynghori sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn. Mae pob ardal ymgynghori:

- yn ystafell gaeedig,
- yn ardal ddynodedig lle gall y claf a'r fferyllydd eistedd i lawr gyda'i gilydd a siarad ar uchder llais arferol heb gael eu clywed, a
- wedi'i dynodi'n glir fel ardal ar gyfer ymgynghoriadau cyfrinachol ar wahân i ardaloedd cyhoeddus cyffredinol y fferyllfa.

Cadarnhaodd dwy fferyllfa fod ganddyn nhw siaradwyr Cymraeg. Ar wahân i Saesneg, ni siaredir unrhyw ieithoedd eraill yn y fferyllfeydd.

Mae pob un o'r pedair fferyllfa yn dosbarthu presgripsiynau ar gyfer pob math o offer.

Mae'r pedair fferyllfa'n casglu presgripsiynau o feddygfeydd teulu. Mewn perthynas â dosbarthu eitemau a ragnodir:

- mae un yn darparu gwasanaeth dosbarthu am ddim ar gais,
- mae un yn darparu gwasanaeth dosbarthu am ddim i gleifion sy'n gaeth i'w cartrefi o fewn radiws o dair milltir,

- mae un yn darparu gwasanaeth dosbarthu am ffi, i ardaloedd penodol, a
- mae un yn darparu gwasanaeth dosbarthu i gleifion oedrannus a chleifion bregus sy'n gaeth i'r tŷ.

Mae gan un fferyllfa bwynt casglu awtomataidd sy'n caniatáu i bobl gasglu eu meddyginiaethau a ddosberthir ar amser sy'n gyfleus iddyn nhw.

Nid oedd unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwasanaeth clinigol ychwanegol presennol nad ydynt yn cael eu darparu yn yr ardal ar hyn o bryd.

O ran y gofyniad am wasanaeth newydd nad yw ar gael ar hyn o bryd, dywedodd dwy fferyllfa y byddai mesurydd pwysedd gwaed yn ddefnyddiol, a dywedodd un hefyd fod cleifion yn gofyn am ystod ehangach o frechiadau nad ydynt ar gael ar hyn o bryd, er enghraifft, yr eryr.

Cadarnhaodd y pedair fferyllfa fod ganddynt ddigon o gapasiti o fewn eu hadeiladau presennol i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau a ddarparant. Dywedodd dwy fferyllfa fod ganddynt ddigon o gapasiti staffio hefyd, a dywedodd un nad oes ganddynt ddigon o gapasiti staffio ond y gallent wneud addasiadau. Ni ymatebodd y bedwaredd fferyllfa i'r pwynt hwn.

Mae gan ddwy fferyllfa gynlluniau i ddatblygu neu ehangu eu hadeiladau neu eu darpariaeth gwasanaeth.

- Mae un yn symud i safle newydd ym mis Awst 2026. Bydd gan yr adeilad newydd wyth ystafell ymgynghori a bydd yn cynyddu'r ddarpariaeth o wasanaethau.
- Mae un yn edrych i gynyddu'r ystod o wasanaethau preifat a gynigir e.e. brechiadau teithio a cholli pwysau, os na fydd cynnydd yn yr ystod o wasanaethau'r GIG a gomisiynir.

Ymatebodd un practis dosbarthu i'r holiadur dosbarthu ac mae'r wybodaeth ganlynol wedi'i chymryd o'r ymateb hwnnw. Mae'n darparu gwasanaethau o un safle.

- Mae'r dosbarthwr ar agor o 08.00 i 18.00 o ddydd Llun i ddydd Gwener.
- Dim ond rhwymynnau sy'n cael eu dosbarthu.
- Caiff eitemau a ddosberthir eu danfon i gleifion sy'n gaeth i'w cartrefi ac sy'n derbyn meddyginiaethau.
- Nid oes gan y practis unrhyw siaradwyr Cymraeg.
- Heblaw am Saesneg, nid yw'r staff yn siarad unrhyw ieithoedd eraill.
- Mae gan y practis y capasiti o fewn ei safle a'i staff i reoli cynnydd yn y galw.

18.2.1 Gwasanaeth fferyllfa gymunedol glinigol

Roedd yr holl fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn ac yn 2025/26 roeddent yn darparu:

- 8,507 o ymgynghoriadau ar gyfer anhwylderau cyffredin
- 400 o ymgynghoriadau ar gyfer atal cenhedlu

- 5,174 o gyflenwadau meddyginiaethau brys

18.2.2 Adolygiad o feddyginiaethau rhyddhau

Yn 2026/26, darparodd chwe fferyllfa'r gwasanaeth hwn a chwblhawyd 466 o adolygiadau.

18.2.3 Gwasanaeth rhagnodi annibynnol fferyllwyr

Comisiynwyd pum fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26 a darparwyd cyfanswm o 3,636 o ymgynghoriadau dros y flwyddyn.

18.2.4 Gwasanaeth brechu ffliw tymhorol

Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26 a darparwyd cyfanswm o 1,625 o frechiadau.

18.2.5 Addasu cyfarpar stoma

Nid yw'r un o'r fferyllfeydd yn yr ardal yn darparu'r gwasanaeth hwn er eu bod yn rhoi presgripsiynau ar gyfer offer.

18.2.6 Adolygiadau defnydd o gyfarpar

Nid yw'r un o'r fferyllfeydd yn yr ardal yn darparu'r gwasanaeth hwn er eu bod yn rhoi presgripsiynau ar gyfer offer.

18.2.7 Gwasanaeth cyflenwi prawf llif unffordd

Comisiynwyd chwe fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

18.2.8 Gwasanaeth profi firysau a gludir yn y gwaed

Ni chomisiynwyd unrhyw fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

18.2.9 Gwasanaeth brechu Covid-19

Ni chomisiynwyd unrhyw fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

18.2.10 Helpa fi i stopio yn y fferyllfa

Comisiynwyd chwe fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

18.2.11 Gwasanaeth adolygu anadlyddion

Comisiynwyd saith fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

18.2.12 Gwasanaeth cyflenwi Nalocson

Comisiynwyd un fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

18.2.13 Gwasanaeth cymorth cartrefi gofal cenedlaethol

Comisiynwyd un fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

18.2.14 Dychwelyd blychau offer miniog cleifion

Comisiynwyd saith fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

18.2.15 Gwasanaeth rhoi'r gorau i ysmygu lefel 2

Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

18.2.16 Gwasanaeth gweinyddu dan oruchwyliaeth

Comisiynwyd chwe fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

18.2.17 Rhaglenni nodwyddau a chwistrellau

Comisiynwyd tair fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

18.2.18 Gwasanaeth meddyginiaethau brys

Comisiynwyd un fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

18.3 Darpariaeth bresennol o wasanaethau fferyllol y tu allan i'r ardal leol

Mae rhai trigolion yn dewis defnyddio contractwyr y tu allan i'r ardal leol ac ardal y Bwrdd Iechyd er mwyn cael mynediad at wasanaethau:

- Wedi'i gynnig gan gontractwyr dosbarthu cyfarpar
- Sydd wedi'u lleoli ger lle maen nhw'n gweithio, yn siopa, neu'n ymweld at ddibenion hamdden neu ddibenion eraill.

Er bod y rhan fwyaf o'r presgripsiynau a ysgrifennwyd gan y meddygfeydd teulu yn 2024/25 wedi'u dosbarthu naill ai gan yr wyth fferyllfa yn yr ardal neu'r pedair meddygfa ddosbarthu, dosbarthwyd 8.5% y tu allan i'r ardal:

- 2.6% gan fferyllfeydd yng Ngogledd Ddwyrain Sir y Fflint,
- 2.6% gan fferyllfeydd yng Nghanolbarth a De Sir Ddinbych,
- 2.0% gan fferyllfeydd yng Ngogledd a Gorllewin Wrecsam,
- 0.9% gan gontractwyr yn Lloegr,
- 0.2% yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, a
- 0.2% gan fferyllfeydd yng Nghanol Wrecsam.

Yn ystod naw mis cyntaf 2025/26, dosbarthwyd y rhan fwyaf o'r presgripsiynau naill ai gan y fferyllfeydd neu'r practisau dosbarthu yn yr ardal. Dosbarthwyd 8.6% y tu allan i'r ardal:

- 2.8% gan fferyllfeydd yng Nghanolbarth a De Sir Ddinbych,
- 2.5% gan fferyllfeydd yng Ngogledd Ddwyrain Sir y Fflint,
- 2.0% gan fferyllfeydd yng Ngogledd a Gorllewin Wrecsam,
- 0.8% gan gontractwyr yn Lloegr,
- 0.2% yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, a
- 0.2% gan fferyllfeydd yng Nghanol Wrecsam.

Yn ogystal, efallai bod trigolion wedi cael mynediad at un neu fwy o wasanaethau fferyllol a ddarperir gan fferyllfa arall y tu allan i'r ardal leol ac ardal y Bwrdd Iechyd; fodd bynnag, nid yw'n bosibl mesur y gweithgaredd hwn o'r data a gofnodwyd.

18.4 Gwasanaethau GIG eraill

Mae manylion am wasanaethau'r GIG sy'n effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol i'w gweld ym mhennod chwech.

18.5 Dewis o ran cael gwasanaethau fferyllol

Fel y gwelir o adrannau 18.2 a 18.3, mae'r rhai sy'n byw yn yr ardal ac wedi cofrestru gydag un o'r practisau meddygon teulu fel arfer yn dewis mynd i un o'r fferyllfeydd yn yr ardal er mwyn cael eu presgripsiynau wedi'u dosbarthu neu, os ydynt yn gymwys, i gael eu dosbarthu gan eu practis. Mae'r rhai sy'n edrych y tu allan i'r ardal fel arfer yn gwneud hynny naill ai i fynd i fferyllfa gyfagos neu gontractwr dosbarthu cyfarpar y tu allan i ardal y Bwrdd Iechyd.

Yn 2024/25, dosbarthodd dros 135 o gontractwyr eitemau a roddwyd gan un o feddygfeydd teulu yn yr ardal hon, ac o'r rhain:

- Roedd wyth wedi'u lleoli o fewn yr ardal,
- Roedd 102 wedi'u lleoli mewn mannau eraill o fewn ardal y Bwrdd Iechyd,
- Roedd 24 wedi'u lleoli mewn mannau eraill yng Nghymru, a
- Dosbarthwyd nifer o bresgripsiynau yn Lloegr.

Yn ystod naw mis cyntaf 2025/26, dosbarthodd dros 113 o gontractwyr eitemau a roddwyd gan un o feddygfeydd teulu, ac o'r rhain:

- Roedd wyth wedi'u lleoli o fewn yr ardal,
- Roedd 84 wedi'u lleoli mewn mannau eraill o fewn ardal y Bwrdd Iechyd,
- Roedd 108 wedi'u lleoli mewn mannau eraill yng Nghymru, a
- Dosbarthwyd nifer o bresgripsiynau yn Lloegr.

18.6 Bylchau yn y ddarpariaeth

Wrth ystyried a oes unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth o wasanaethau fferyllol mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi bod y fferyllfeydd wedi cadarnhau bod ganddynt ddigon o gapasiti o fewn eu hadeiladau presennol i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau a ddarparant. Dywedodd dwy fferyllfa fod ganddynt ddigon o gapasiti staffio hefyd, a dywedodd un nad oes ganddynt ddigon o gapasiti staffio ond y gallent wneud addasiadau. Ni ymatebodd y pedwerydd i'r pwynt hwn.

18.6.1 Gwasanaethau hanfodol

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi:

- Mae'r fferyllfeydd wedi'u lleoli mewn ardaloedd â dwysedd poblogaeth uwch ac amddifadedd uwch yn gyffredinol.
- Mae'r holl ardal leol o fewn 20 munud o daith mewn car i fferyllfa, ac mae llawer o drigolion yn gallu cyrraedd fferyllfa o fewn 10 munud
- Y datblygiadau tai hysbys.
- Oriau agor y fferyllfeydd.

Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol ar gyfer y gwasanaethau hyn yn yr ardal.

Pe bai gwasanaethau hanfodol yn cael eu colli oherwydd tynnu fferyllfa oddi ar y rhestr fferyllol, mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi, y byddai angen yn y dyfodol am naill ai:

- fferyllfa newydd yn yr un dref/pentref sy'n darparu gwasanaethau hanfodol , y gwasanaeth fferyllfa gymunedol glinigol, dychwelyd blychau offer miniog i gleifion, gwasanaeth gweinyddu dan oruchwyliaeth, Helpa fi i stopio yn y fferyllfa, a gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu lefel 2 am 40 awr agor graidd yr wythnos, neu
- gwasanaeth dosbarthu meddyginiaethau'r meddyg teulu os yw'r dref/pentref mewn ardal reoledig,

oni bai bod fferyllfa arall yn y dref/pentref hwnnw ac yna ni fydd yr angen hwn yn codi yn y dyfodol.

Pe byddai colli oriau agor atodol ar ddydd Sadwrn o 1 Hydref 2026 yn arwain at lai na thair awr o ddarparu gwasanaethau fferyllol o fewn tref/pentref, mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi y byddai angen yn y dyfodol i ddarparu gwasanaethau hanfodol am dair awr agor graidd ar ddydd Sadwrn yn y dref/pentref neu'r trefi/pentref lle mae'r gostyngiad mewn oriau agor atodol wedi digwydd, rhwng 09.00 a 17.00, oni bai bod fferyllfa arall yn y dref/pentref hwnnw ac yna ni fydd yr angen yn y dyfodol yn codi.

Pe bai practis meddyg teulu yn rhoi'r gorau i ddosbarthu i ardal y mae ganddo ganiatâd amlinellol ar ei chyfer, mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi, y byddai angen yn y dyfodol am naill ai:

- darparu'r gwasanaeth dosbarthu meddygon teulu i'r ardal honno tra ei bod yn parhau i fod yn lleoliad rheoledig ac yn fwy nag 1.6km mewn llinell syth o fferyllfa, neu
- fferyllfa sydd ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener o leiaf yn darparu:
    - yr holl wasanaethau hanfodol, a
    - y gwasanaeth fferyllfa gymunedol glinigol, dychwelyd blychau offer miniog i gleifion, gwasanaeth gweinyddu dan oruchwyliaeth, Helpa fi i stopio yn y fferyllfa, a gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu lefel 2.

18.6.2 Gwasanaeth fferyllfa gymunedol glinigol

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi bod yr holl fferyllfeydd wedi cael eu comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. O'r herwydd, nid yw wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

18.6.3 Adolygiad o feddyginiaethau rhyddhau

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi bod chwe fferyllfa wedi darparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Nid yw wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

18.6.4 Gwasanaeth rhagnodi annibynnol fferyllwyr

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi fod:

- Pum fferyllfa wedi eu comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.
- Y dyhead a nodir yn 'Fferylliaeth: Cyflawni Cymru Iachach' yw i bob fferyllfa gael presgripsiynydd annibynnol erbyn 2030 ac mae wedi gosod targedau dros dro o 50% o fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn ym mhob ardal erbyn Ebrill 2027 a 70% erbyn Ebrill 2029.
- O 2026 ymlaen, rhagwelir y bydd pob fferyllydd newydd gymhwyso hefyd yn gymwys fel presgripsiynwyr annibynnol ar ôl cwblhau eu gradd israddedig.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

Os na chyflawnir y targedau dros dro, bydd angen darparu'r gwasanaeth hwn yn y dyfodol gan ddigon o fferyllfeydd yn yr ardal i gyflawni'r ddau darged.

18.6.5 Gwasanaeth brechu ffliw tymhorol

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi bod yr holl fferyllfeydd wedi cael eu comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. O'r herwydd, nid yw wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

18.6.6 Addasu offer cyfarpar

Er nad oes unrhyw fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn, mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi bod presgripsiynau ar gyfer cyfarpar yn cael eu dosbarthu gan gontractwyr mewn mannau eraill yng Nghymru a hefyd yn Lloegr. Mae hefyd wedi nodi bod y contractwyr hyn yn darparu'r gwasanaeth hwn.

O'r herwydd, rhagwelir y bydd y contractwyr hyn yn addasu cyfarpar stoma yn ôl yr angen cyn eu hanfon neu eu danfon at gleifion.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

18.6.7 Adolygiadau defnydd o gyfarpar

Er nad oes unrhyw fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn, mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi bod presgripsiynau ar gyfer cyfarpar yn cael eu dosbarthu gan gontractwyr mewn mannau eraill yng Nghymru a hefyd yn Lloegr. Mae hefyd wedi nodi bod y contractwyr hyn yn darparu'r gwasanaeth hwn.

Mae'n debygol y bydd unigolion sydd angen y gwasanaeth adolygu defnydd o gyfarpar yn cael mynediad at y gwasanaeth hwn gan y contractwr sy'n dosbarthu eu presgripsiynau ar gyfer cyfarpar neu gallant ei gael gan ddarparwyr gofal iechyd eraill fel nyrsys stoma.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

18.6.8 Gwasanaeth cyflenwi profion llif unffordd

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi bod chwe fferyllfa wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Mae hefyd wedi nodi mai dim ond i grwpiau penodol o gleifion y mae'r gwasanaeth hwn ar gael. Pe bai un o'r fferyllfeydd nad ydynt yn darparu'r gwasanaeth yn nodi angen amdano, byddai'r Bwrdd Iechyd yn comisiynu'r gwasanaeth gan y fferyllfa honno. O ganlyniad, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

18.6.9 Gwasanaeth profi firysau a gludir yn y gwaed

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi nad oedd yr un o'r fferyllfeydd wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Fodd bynnag, mae darparwyr eraill o'r gwasanaeth, er enghraifft tîm lleihau niwed y Bwrdd Iechyd.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

18.6.10 Gwasanaeth brechu Covid-19

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi nad oedd yr un o'r fferyllfeydd wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Mae hefyd wedi nodi bod meddygfeydd teulu a thîm brechu'r Bwrdd Iechyd yn darparu'r gwasanaeth.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nacyn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

18.6.11 Helpa fi i stopio yn y fferyllfa

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi fod:

- Chwe fferyllfa wedi eu comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.
- Mae'r galw am y gwasanaeth yn cael ei bennu gan bobl sy'n dymuno rhoi'r gorau i ysmygu.

- Mae eraill yn darparu'r gwasanaeth, er enghraifft Helpa fi i stopio ar gyfer y babi, Helpa fi i stopio yn yr ysbyty, a'r gwasanaeth Helpa fi i stopio cyffredinol.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

18.6.12 Gwasanaeth adolygu anadlyddion

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi fod:

- Saith fferyllfa wedi eu comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.
- Mae meddygfeydd teulu hefyd yn darparu'r gwasanaeth.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

18.6.13 Gwasanaeth cyflenwi Nalocson

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi fod:

- un fferyllfa wedi eu comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

18.6.14 Gwasanaeth cymorth cartrefi gofal cenedlaethol

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi bod:

- un fferyllfa wedi ei comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.
- Mae darparwyr eraill o'r gwasanaeth fel tîm lleihau niwed y Bwrdd Iechyd a'r gwasanaeth 'cliciwch a chyflenwi' a ddarperir gan DAN24/7.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

18.6.15 Dychwelyd blychau offer miniog cleifion

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi bod saith fferyllfa wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Nid yw wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

18.6.16 Rhoi'r gorau i ysmygu lefel 2

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi bod yr holl fferyllfeydd wedi cael eu comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. O'r herwydd, nid yw wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

18.6.17 Gwasanaeth gweinyddu dan oruchwyliaeth

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi bod chwe fferyllfa wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Nid yw wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

18.6.18 Rhaglenni nodwyddau a chwistrellau

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi bod:

- Tair fferyllfa wedi eu comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.
- Mae darparwyr eraill ar gyfer y gwasanaeth, ac mae gwasanaeth postio'n cael ei sefydlu ar gyfer y rhai na allant ddefnyddio fferyllfa.
- Os gofynnir i fferyllfa ddarparu'r gwasanaeth, gallant gysylltu â'r Bwrdd Iechyd a gofyn iddynt gael eu comisiynu i'w ddarparu.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

18.6.19 Gwasanaeth meddyginiaethau brys

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi bod un fferyllfa wedi'i chomisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Oherwydd natur y gwasanaeth, mae wedi'i gomisiynu i sicrhau lledaeniad daearyddol da o fferyllfeydd sy'n ei ddarparu ar draws daearyddiaeth y Bwrdd Iechyd.

O' herwydd, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

18.6.20 Gwasanaeth dosbarthu meddygon teulu

Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol mewn perthynas â'r gwasanaeth hwn.

Pe bai practis meddyg teulu yn rhoi'r gorau i ddosbarthu i ardal y mae ganddo ganiatâd amlinellol ar ei chyfer, mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi, y byddai angen yn y dyfodol am naill ai:

- y gwasanaeth dosbarthu meddygon teulu i'w ddarparu i'r ardal honno tra ei bod yn parhau i fod yn lleoliad rheoledig ac yn fwy nag 1.6km mewn llinell syth o fferyllfa, neu
- fferyllfa sydd ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener o leiaf yn darparu:
    - yr holl wasanaethau hanfodol, a
    - y gwasanaeth fferyllfa gymunedol glinigol, offer miniog i gleifion, rhoi'r gorau i ysmygu lefel 2, a gwasanaeth helpa fi i stopio yn y fferyllfa.

19 Ardal Gogledd a Gorllewin Wrecsam

19.1 Ffeithiau allweddol[187]

- Awdurdod Unedol Wrecsam sydd â'r ail boblogaeth fwyaf o'r chwe awdurdod unedol sef 138,245.
- Mae nifer y plant a'r bobl ifanc (0 i 17 oed) yn y Bwrdd Iechyd wedi gostwng tua 6,200 rhwng 2013 a 2023. Y gostyngiad mwyaf fu yn Awdurdod Unedol Wrecsam, gyda gostyngiad o 1,350.
- Awdurdod Unedol Wrecsam sydd â'r gyfran isaf o drigolion 65 oed a throsodd sef 20.8%, sy'n is na chyfartaledd Cymru (21.7%). Mae'r darlun yn debyg ar gyfer trigolion 85 oed a throsodd, ac mae gan Wrecsam 2.6%, sef yr isaf ar draws y chwe ardal awdurdod lleol ac islaw cyfartaledd Cymru (2.7%).
- Disgwylir i boblogaeth gyffredinol y Bwrdd Iechyd gynyddu ychydig dros 50,000 o drigolion (6.8%) rhwng 2022 a 2047. Ar lefel awdurdod unedol, rhagwelir mai yn Wrecsam y bydd y cynnydd lleiaf sef 2.4% o'i gymharu â'r cynnydd mwyaf yng Ngwynedd (10.8%) a Sir Ddinbych (10.4%).
- Disgwylir i nifer y plant a'r bobl ifanc rhwng 0 a 15 oed yn ardal y Bwrdd Iechyd ostwng 13.5% erbyn 2047. Ar lefel awdurdod unedol, disgwylir y gostyngiad mwyaf yn Wrecsam sef 20.8% o'i gymharu â'r gostyngiad lleiaf a ragwelir yng Ngwynedd (4.8%).
- Disgwylir i boblogaeth breswyl 85 oed yn ardal y Bwrdd Iechyd gynyddu bron i 98%. Ar draws y rhanbarth, disgwylir y cynnydd canrannol mwyaf yn Wrecsam (114.6%) ac ar Ynys Môn (109.4%).
- Mae 19.2% o boblogaeth yr ardal rhwng 66 a 84 oed, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru o 17.7%, ond yn is na chyfartaledd y Bwrdd Iechyd o 19.6%.
- Mae 2.6% o boblogaeth yr ardal leol yn 85 oed ac yn hŷn, sy'n is na chyfartaledd y bwrdd iechyd o 3.1% ac yn is na chyfartaledd Cymru o 2.7%.
- Mae 17.7% o boblogaeth yr ardal rhwng 0 a 15 oed, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru (17.1%) a'r Bwrdd Iechyd (16.7%).
- Mae aelwydydd un person yn yr ardal yn cyfrif am 28.2% o gyfanswm yr aelwydydd; mae 13.9% o'r aelwydydd yn cael eu meddiannu gan un person dros 66 oed. Mae hyn yn is na chyfartaledd Cymru (14.6%) ac yn is na chyfartaledd y Bwrdd Iechyd o 15.8%.
- Bu cynnydd cyffredinol yn nwysedd y boblogaeth ar draws Gogledd Cymru rhwng 2020 a 2023. Ardal ddwyreiniol y Bwrdd Iechyd sy'n parhau i fod yr un fwyaf dwys ei phoblogaeth, gyda mwy o bobl fesul cilomedr sgwâr o'i gymharu â chyfartaledd Cymru (152.6). Wrecsam yw'r ail ardal awdurdod lleol fwyaf dwys ei phoblogaeth gyda 270.3 o bobl fesul cilomedr sgwâr.
- Nid oes gan 13.7% o aelwydydd yn yr ardal gar neu fan.
- Mae 8.4% o boblogaeth yr ardal yn byw yn yr 20% mwyaf difreintiedig o wardiau Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru.[188]
- Disgwyliad oes yn Wrecsam yw 77.2 i ddynion ac 81.2 i fenywod [189].

[187] Proffiliau Iechyd Cyhoeddus - Proffiliau Cydweithredol y Gogledd Orllewin 2025
[188] Iechyd Cyhoeddus Cymru - Dangosfwrdd clystyrau gofal sylfaenol
[189] Data InfoBaseCymru ar gyfer Cymru ddeallus - Disgwyliad oes mewn dynion a menywod (2020 i 2022)

- Disgwyliad oes iach yn Wrecsam yw 61.8 mlynedd i ddynion a 61.5 mlynedd i fenywod a'r bwlch anghydraddoldeb ar gyfer disgwyliad oes iach yn Wrecsam yw 7.3 mlynedd i ddynion a 7.5 mlynedd i fenywod.
- Mae 32.4% o blant pedair a phump oed yn ardal leol Gogledd a Gorllewin Wrecsam dros eu pwysau neu'n ordew.
- Mae data ffyrdd iach o fyw ac ymddygiad iach ar gyfer oedolion yn Awdurdod Unedol Wrecsam yn dangos:

Ardal	**Yn gorfforol egnïol am o leiaf 60 munud y dydd**	**Yn bwyta o leiaf un dogn o ffrwythau neu lysiau bob dydd**	**Ysmygu tybaco o leiaf unwaith yr wythnos**	**Wedi rhoi cynnig ar sigaréts electronig o leiaf unwaith yr wythnos**	**Yn yfed alcohol**
Wrecsam	16.1%	40.9%	3.2%	8.7%	34.7%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	18.3%	45.7%	3.3%	8.2%	36.8%
Cymru	18.3%	46.5%	2.6%	6.9%	35.6%

- Mae dros 89,600 o gleifion y Bwrdd Iechyd wedi'u cofrestru gan eu meddyg teulu fel rhai sy'n ordew; mae hyn bron yn 15% o'r boblogaeth. Ar lefel lleol, y cyfrannau uchaf yw yng Ngogledd a Gorllewin Wrecsam (17.4%) a De Wrecsam (16.8%).
- Mae'r Arolwg Poblogaeth Blynyddol yng Nghymru yn cofnodi gallu ac amlder y defnydd o'r iaith Gymraeg. Yn 2025, dywedodd bron i 39% o drigolion y Bwrdd Iechyd eu bod yn gallu siarad Cymraeg. Yn Wrecsam, dywedodd 26.1% o'r boblogaeth eu bod yn gallu siarad Cymraeg. Dyma'r ail ganran isaf ledled Gogledd Cymru.
- Dangosir isod nifer y cleifion â chyflyrau cronig fel y'u hadroddwyd ar gofrestrau clefydau Iechyd a Gofal Digidol Cymru, Ebrill 2025.

Cofrestr clefydau	Gogledd a Gorllewin Wrecsam	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	Cymru
Asthma	8.0%	7.6%	7.1%
Ffibriliad atrïaidd	2.7%	2.8%	2.7%
Canser	4.5%	4.3%	3.7%
Clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint	2.5%	2.7%	2.3%
Diabetes	8.0%	8.3%	8.4%
Epilepsi	0.8%	0.9%	1.0%
Methiant y galon	1.3%	1.4%	1.4%
Gorbwysedd	18.0%	17.9%	16.3%
Strôc ymosodiad isgemig dros dro	2.2%	2.3%	2.2%
Ataliad eilaidd clefyd coronaidd y galon	3.5%	3.6%	3.4%

Nododd Cynllun Datblygu Lleol Wrecsam 2013 i 2028 yr angen am 8,525 o unedau tai, sy'n cyfateb i 568 o dai y flwyddyn neu 2,840 o fewn oes yr asesiad anghenion fferyllol hwn. Fodd bynnag, cafodd ei dynnu'n ôl ar 18 Mawrth 2026 gan Weinidogion Cymru [190]. Mae cynllun datblygu Wrecsam bellach yn cynnwys Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol 2024 a Chynllun Datblygu Unedol Wrecsam 1996-2011 yn nhrefn eu hierarchaeth gyfreithiol.

Yn seiliedig ar y trywydd datblygu yn Adroddiad Monitro Blynyddol y Cyngor ar gyfer 2023/24, bydd 801 o unedau'n cael eu hadeiladu yn 2026/27 a 787 yn 2027/28. O 2028 ymlaen, disgwylir i 3,087 o unedau gael eu hadeiladu. Mae tri chynllun mawr, pob un wedi'u lleoli yn ardal Canol Wrecsam.

19.2 Darpariaeth bresennol o wasanaethau fferyllol o fewn ardal yr ardal leol

Mae saith fferyllfa yn yr ardal a weithredir gan bedwar contractwr gwahanol. Nid yw'r un o'r practisau meddygon teulu yn dosbarthu.

Mae'r map isod yn dangos lleoliad y fferyllfeydd. Dylid nodi, lle mae safleoedd yn agos at ei gilydd, y bydd y symbolau'n gorgyffwrdd.

[190] Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Hysbysiad Tynnu'n Ôl Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam 2013-2028

Map 19.1 – lleoliad fferyllfeydd



© OpenStreetMap © CARTO Fferyllfa

Yn 2024/25, cafodd 81.3% o bresgripsiynau a roddwyd gan feddygfeydd teulu yn yr ardal eu dosbarthu gan fferyllfa yn yr ardal.

Yn ystod naw mis cyntaf 2025/26, cafodd 81.9% o bresgripsiynau a roddwyd gan feddygfeydd teulu yn yr ardal eu dosbarthu gan fferyllfa yn yr ardal.

Mae'r map yn mhennod 5 yn dangos bod pob rhan o'r ardal leol o fewn taith 20 munud mewn car i fferyllfa, ac mae'r rhan fwyaf o drigolion o fewn taith 10 munud i fferyllfa.

O ran pryd mae'r fferyllfeydd ar agor:

- mae un ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener,
- Mae pedair fferyllfa ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener, a rhan o ddydd Sadwrn, a
- Dwy fferyllfa ar agor o ddydd Llun i ddydd Sadwrn.

O ran yr amseroedd y mae'r fferyllfeydd hyn ar agor rhwng dydd Llun a dydd Gwener:

- i gyd ar agor am 09.00,
- Mae amseroedd cau yn amrywio rhwng 17.30 a 18.00.

Mae pedair fferyllfa yn cau am ginio ar wahanol adegau rhwng 13.00 a 14.00. Mae tair yn aros ar agor drwy'r dydd.

Ar ddydd Sadwrn, mae pump o fferyllfeydd yn agor am 09.00, ac un am 09.30. Mae tair ar agor yn y bore, un yn cau am 15.00, un am 16.30 ac un am 17.30. Mae gan chwech oriau agor craidd ar ddydd Sadwrn.

Nid oes unrhyw fferyllfeydd ar agor ar ddydd Sul.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn gofyn i'r fferyllfeydd a fyddant ar agor ar wyliau cyhoeddus a gwyliau banc a Sul y Pasg. Mae'r ymatebion yn cael eu casglu, ac mae'r Bwrdd Iechyd yn sefydlu a oes unrhyw fylchau daearyddol yn y ddarpariaeth ai peidio. Lle mae bwlch yn bodoli, mae fferyllfa naill ai'n cael ei chomisiynu neu ei chyfarwyddo i agor.

Ymatebodd pedair fferyllfa i'r holiadur contractwyr fferyllfa ac mae'r wybodaeth ganlynol wedi'i chymryd o'r ymatebion hynny.

Mae pob un o'r pedair fferyllfa yn hygyrch i gadeiriau olwyn ac mae ganddyn nhw ardal ymgynghori sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn. Mae'r pedair ardal ymgynghori:

- mewn ystafell gaeedig,
- yn ardal ddynodedig lle gall y claf a'r fferyllydd eistedd i lawr gyda'i gilydd a siarad ar gyfaint arferol heb gael eu clywed, a
- wedi'i dynodi'n glir fel ardal ar gyfer ymgynghoriadau cyfrinachol ar wahân i ardaloedd cyhoeddus cyffredinol y fferyllfa.

Mae gan dair fferyllfa siaradwyr Cymraeg. Cadarnhaodd un fferyllfa fod staff hefyd yn gallu siarad Gwjarati, Bengaleg, Punjab a Hindi.

Mae pob un o'r pedair fferyllfa yn dosbarthu presgripsiynau ar gyfer pob math o offer.

Mae'r pedair fferyllfa'n casglu presgripsiynau o feddygfeydd teulu. Mewn perthynas â dosbarthu eitemau a ragnodir:

- mae dwy fferyllfa yn darparu gwasanaeth dosbarthu am ddim ar gais, a
- mae dwy fferyllfa yn cyfyngu'r gwasanaeth i gleifion oedrannus a chleifion bregus sy'n gaeth i'r tŷ.

Nid oedd unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwasanaeth newydd nad ydynt ar gael yn yr ardal ar hyn o bryd.

Roedd un fferyllfa o'r farn bod angen gwasanaeth clinigol ychwanegol nad yw ar gael ar hyn o bryd, sef monitro pwysedd gwaed, gan ei bod yn derbyn ceisiadau am y gwasanaeth gan gleifion ac yn dod o hyd i bobl â phwysedd gwaed uchel yn rheolaidd wrth ddarparu'r gwasanaeth presgripsiynwyr annibynnol ar gyfer fferyllwyr. Dywedodd un fferyllfa ei bod ar gael i wneud unrhyw wasanaethau clinigol a byddai'n barod i agor am oriau hirach pe bai'n cael ei chomisiynu i wneud hynny.

Cadarnhaodd tair fferyllfa fod ganddynt ddigon o gapasiti yn eu hadeiladau presennol i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau a ddarparant, gyda'r bedwaredd yn dweud nad oes ganddi gapasiti ond y gallai wneud addasiadau i

ymdopi ag unrhyw gynnydd yn y galw. Mae gan un fferyllfa gapasiti digonol yn ei lefelau staffio hefyd gyda'r tair sy'n weddill yn dweud nad oes ganddyn nhw, ond y gallent wneud addasiadau.

Mae gan bob un o'r pedair fferyllfa gynlluniau i ddatblygu neu ehangu eu hadeiladau neu eu darpariaeth gwasanaeth:

- Symud i safle newydd a gosod pwynt casglu awtomataidd yn y 12 mis nesaf.
- Ychwanegu trydydd a phedwerydd ystafell ymgynghori i ddiwallu'r galw cynyddol. Disgwylir i ail fferyllydd ddechrau a fydd yn cymhwyso fel presgripsiynydd annibynnol yn 2026. Mae dau dechnegydd fferyllfa yn darparu gwasanaethau o dan gyfarwyddiadau grŵp cleifion a rhai gwasanaethau preifat.
- Ehangu nifer y dyddiau y mae'r presgripsiynwr annibynnol ar gael.
- Dechrau darparu'r gwasanaeth fferyllydd-ragnodi annibynnol ddiwedd 2026.

19.2.1 Gwasanaeth fferyllfa gymunedol glinigol

Roedd yr holl fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn ac yn 2025/26 roeddent yn darparu:

- 7,376 o ymgynghoriadau ar gyfer anhwylderau cyffredin
- 125 o ymgynghoriadau ar gyfer atal cenhedlu
- 2,156 o gyflenwadau meddyginiaethau brys

19.2.2 Adolygiad o feddyginiaethau rhyddhau

Yn 2025/26, darparodd chwe fferyllfa'r gwasanaeth hwn a chwblhawyd 264 o adolygiadau.

19.2.3 Gwasanaeth rhagnodi annibynnol fferyllwyr

Comisiynwyd pedair fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26 a darparwyd cyfanswm o 5,129 o ymgynghoriadau dros y flwyddyn.

19.2.4 Gwasanaeth brechu ffliw tymhorol

Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26 a darparwyd cyfanswm o 2,010 o frechiadau.

19.2.5 Addasu cyfarpar stoma

Nid yw'r un o'r fferyllfeydd yn yr ardal yn darparu'r gwasanaeth hwn er eu bod yn darparu presgripsiynau ar gyfer cyfarpar.

19.2.6 Adolygiadau defnydd o gyfarpar

Nid yw'r un o'r fferyllfeydd yn yr ardal yn darparu'r gwasanaeth hwn er eu bod yn darparu presgripsiynau ar gyfer cyfarpar.

19.2.7 Gwasanaeth cyflenwi prawf llif unffordd

Comisiynwyd pum fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

19.2.8 Gwasanaeth profi firysau a gludir yn y gwaed

Ni chomisiynwyd unrhyw fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

19.2.9 Gwasanaeth brechu Covid-19

Ni chomisiynwyd unrhyw fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

19.2.10 Helpa fi i stopio yn y fferyllfa

Comisiynwyd pum fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

19.2.11 Gwasanaeth adolygu anadlyddion

Comisiynwyd chwe fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

19.2.12 Gwasanaeth cyflenwi Nalocson

Comisiynwyd un fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

19.2.13 Gwasanaeth cymorth cartrefi gofal cenedlaethol

Comisiynwyd dwy fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

19.2.14 Dychwelyd blychau offer miniog cleifion

Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

19.2.15 Gwasanaeth rhoi'r gorau i ysmygu lefel 2

Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

19.2.16 Gwasanaeth gweinyddu dan oruchwyliaeth

Comisiynwyd chwe fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

19.2.17 Rhaglenni nodwyddau a chwistrellau

Comisiynwyd un fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

19.2.18 Gwasanaeth meddyginiaethau brys

Ni chomisiynwyd unrhyw fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

19.3 Darpariaeth bresennol o wasanaethau fferyllol y tu allan i'r ardal leol

Mae rhai trigolion yn dewis defnyddio contractwyr y tu allan i'r ardal leol ac ardal y Bwrdd Iechyd er mwyn cael mynediad at wasanaethau:

- Wedi'i gynnig gan gontractwyr dosbarthu cyfarpar
- Sydd wedi'u lleoli ger lle maen nhw'n gweithio, yn siopa, neu'n ymweld at ddibenion hamdden neu ddibenion eraill.

Er bod y rhan fwyaf o'r presgripsiynau a ysgrifennwyd gan feddygfeydd teulu yn 2024/25 wedi'u dosbarthu gan y fferyllfeydd yn yr ardal, dosbarthwyd 17.1% y tu allan i'r ardal:

- 11.1% gan fferyllfeydd yn Ne Wrecsam,
- 3.2% gan fferyllfeydd yng Nghanol Wrecsam,
- 1.9% gan fferyllfeydd yng Ngogledd Ddwyrain Sir y Fflint,
- 0.6% gan gontractwyr yn Lloegr,
- 0.2% yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, a
- 0.1% gan fferyllfeydd yn Ne Sir y Fflint.

Yn ystod naw mis cyntaf 2025/26, dosbarthwyd y rhan fwyaf o'r presgripsiynau gan y fferyllfeydd yn yr ardal. Dosbarthwyd 17.7% y tu allan i'r ardal:

- 11.3% gan fferyllfeydd yn Ne Wrecsam,
- 3.3% gan fferyllfeydd yng Nghanol Wrecsam,
- 1.5% gan fferyllfeydd yng Ngogledd Ddwyrain Sir y Fflint,
- 1.2% gan gontractwyr yn Lloegr,
- 0.2% yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, a
- 0.1% gan fferyllfeydd yn Ne Sir y Fflint.

Yn ogystal, efallai bod trigolion wedi cael mynediad at un neu fwy o wasanaethau fferyllol a ddarperir gan fferyllfa arall y tu allan i'r ardal leol ac ardal y Bwrdd Iechyd; fodd bynnag, nid yw'n bosibl mesur y gweithgaredd hwn o'r data a gofnodwyd.

19.4 Gwasanaethau GIG eraill

Mae manylion am wasanaethau'r GIG sy'n effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol i'w gweld ym mhennod chwech.

19.5 Dewis o ran cael gwasanaethau fferyllol

Fel y gwelir o adrannau 19.2 a 19.3, mae'r rhai sy'n byw yn yr ardal ac wedi cofrestru gydag un o'r practisau meddygon teulu fel arfer yn dewis mynd i un o'r fferyllfeydd yn yr ardal er mwyn cael eu presgripsiynau wedi'u dosbarthu neu, os ydynt yn gymwys, i gael eu dosbarthu gan eu practis. Mae'r rhai sy'n edrych y tu allan i'r ardal fel arfer yn gwneud hynny naill ai i fynd i fferyllfa gyfagos neu gontractwr offer dosbarthu y tu allan i ardal y Bwrdd Iechyd.

Yn 2024/25, dosbarthodd dros 97 o gontractwyr eitemau a ysgrifennwyd gan un o feddygfeydd teulu yn yr ardal hon, ac o'r rhain:

- Roedd saith wedi'u lleoli o fewn yr ardal,
- Roedd 76 wedi'u lleoli mewn mannau eraill o fewn ardal y Bwrdd Iechyd,
- Roedd 13 wedi'u lleoli mewn mannau eraill yng Nghymru, a
- Dosbarthwyd nifer o bresgripsiynau yn Lloegr.


Yn ystod naw mis cyntaf 2025/26, dosbarthodd dros 90 o gontractwyr eitemau a ysgrifennwyd gan un o feddygfeydd teulu, ac o'r rhain:

- Roedd saith wedi'u lleoli o fewn yr ardal,
- Roedd 72 wedi'u lleoli mewn mannau eraill o fewn ardal y Bwrdd Iechyd,
- Roedd 10 wedi'u lleoli mewn mannau eraill yng Nghymru, a
- Dosbarthwyd nifer o bresgripsiynau yn Lloegr.

19.6 Bylchau yn y ddarpariaeth

Er nad ydynt yn ddarparwyr gwasanaethau fferyllol na gwasanaethau GIG eraill fel y'u diffinnir yn y rheoliadau, mae'r Bwrdd Iechyd wedi ystyried y fferyllfeydd dros y ffin o fewn Lloegr. Mae'r map isod yn dangos lleoliad fferyllfeydd yn Lloegr.

Map 19.2 – lleoliad fferyllfeydd yn Lloegr



© Hawlfraint **Parallel** 2026 | **Ordnans Arolwg** | **Mapbox** | Cyfranwyr **OpenStreetMap**

Wrth ystyried a oes unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth o wasanaethau fferyllol mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi bod tair fferyllfa wedi cadarnhau bod ganddyn nhw ddigon o gapasiti o fewn eu hadeiladau presennol i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maen nhw'n eu darparu, gyda phedwerydd yn dweud nad oes ganddyn nhw gapasiti ond y gallent wneud addasiadau i ymdopi ag unrhyw gynnydd yn y galw. Mae gan un fferyllfa gapasiti digonol yn ei lefelau staffio hefyd gyda'r tair sy'n weddill yn dweud nad oes ganddyn nhw, ond y gallent wneud addasiadau.

19.6.1 Gwasanaethau hanfodol

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi:

- Fod y fferyllfeydd wedi'u gwasgaru ar draws yr ardal ac fel arfer maent wedi'u lleoli mewn ardaloedd â dwysedd poblogaeth uwch ac amddifadedd uwch.
- Mae'r ardal gyfan o fewn 20 munud o daith mewn car i fferyllfa, ac mae'r rhan fwyaf o drigolion o fewn taith deg munud i fferyllfa..
- Lefel y tai y rhagwelir eu hadeiladu.
- Nid oes unrhyw fferyllfeydd ar agor ar ddydd Sul.

Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol mewn perthynas â darparu gwasanaethau hanfodol yn yr ardal hon.

Pe bai colli gwasanaethau hanfodol oherwydd tynnu fferyllfa oddi ar y rhestr fferyllol, mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi, y bydd angen yn y dyfodol am naill ai:

- fferyllfa newydd yn yr un dref/pentref sy'n darparu gwasanaethau hanfodol yn ystod, y gwasanaeth fferyllfa gymunedol glinigol, dychwelyd blychau offer miniog cleifion, gwasanaeth gweinyddu dan oruchwyliaeth, Helpa fi i stopio yn y fferyllfa, a gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu lefel 2 am 40 awr agor graidd yr wythnos, neu
- gwasanaeth dosbarthu meddyginiaethau'r meddyg teulu os yw'r dref/pentref mewn ardal reoledig,

oni bai bod fferyllfa arall yn y dref/pentref hwnnw ac yna ni fydd yr angen hwn yn codi yn y dyfodol.

Pe byddai oriau agor atodol ar ddydd Sadwrn yn gostwng o 1 Hydref 2026 sy'n arwain at lai na thair awr o ddarparu gwasanaethau fferyllol o fewn tref/pentref, mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi, os bydd colli y bydd angen yn y dyfodol i ddarparu gwasanaethau hanfodol am dair awr agor graidd ar ddydd Sadwrn yn y dref/pentref neu'r trefi/pentrefi lle mae'r gostyngiad mewn oriau agor atodol wedi digwydd, rhwng 09.00 a 17.00, oni bai bod fferyllfa arall yn y dref/pentref hwnnw ac yna ni fydd yr angen yn y dyfodol yn codi.

19.6.2 Gwasanaeth fferyllfa gymunedol glinigol

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi bod yr holl fferyllfeydd wedi cael eu comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. O'r herwydd, nid yw wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

19.6.3 Adolygiad o feddyginiaethau rhyddhau

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi bod chwe fferyllfa wedi darparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Nid yw wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol nac anghenion yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

19.6.4 Gwasanaeth rhagnodi annibynnol fferyllwyr

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi:

- Comisiynwyd pedair fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.
- Mae un fferyllfa yn bwriadu dechrau darparu'r gwasanaeth ddiwedd 2026.
- Y dyhead a nodir yn 'Fferylliaeth: Cyflawni Cymru Iachach' yw i bob fferyllfa gael presgripsiynydd annibynnol erbyn 2030 ac mae wedi gosod targedau dros dro o 50% o fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn ym mhob ardal erbyn Ebrill 2027 a 70% erbyn Ebrill 2029.
- O 2026 ymlaen, rhagwelir y bydd pob fferyllydd newydd gymhwyso hefyd yn gymwys fel presgripsiynwyr annibynnol ar ôl cwblhau eu gradd israddedig.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

Os na chyflawnir y targedau dros dro, bydd angen darparu'r gwasanaeth hwn yn y dyfodol gan ddigon o fferyllfeydd yn yr ardal i gyflawni'r ddau darged.

19.6.5 Gwasanaeth brechu ffliw tymhorol

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi bod yr holl fferyllfeydd wedi cael eu comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Nid yw wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

19.6.6 Addasu offer cyfarpar

Er nad oes unrhyw fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn, mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi bod presgripsiynau ar gyfer cyfarpar yn cael eu dosbarthu gan gontractwyr mewn mannau eraill yng Nghymru a hefyd yn Lloegr.

O'r herwydd, rhagwelir y bydd y contractwyr hyn yn addasu cyfarpar stoma yn ôl yr angen cyn eu hanfon neu eu danfon at gleifion.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

19.6.7 Adolygiadau defnydd o gyfarpar

Er nad oes unrhyw fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn, mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi bod presgripsiynau ar gyfer cyfarpar yn cael eu dosbarthu gan gontractwyr mewn mannau eraill yng Nghymru a hefyd yn Lloegr.

Mae'n debygol y bydd unigolion sydd angen y gwasanaeth adolygu defnydd o gyfarpar yn cael mynediad at y gwasanaeth hwn gan y contractwr sy'n dosbarthu eu presgripsiynau ar gyfer cyfarpar neu gallant ei gael gan ddarparwyr gofal iechyd eraill fel nyrsys stoma.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

19.6.8 Gwasanaeth cyflenwi profion llif unffordd

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi bod pump o fferyllfeydd wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Mae hefyd wedi nodi mai dim ond i grwpiau penodol o gleifion y mae'r gwasanaeth hwn ar gael. Pe bai un o'r fferyllfeydd nad ydynt yn darparu'r gwasanaeth yn nodi angen amdano, byddai'r Bwrdd Iechyd yn comisiynu'r gwasanaeth gan y fferyllfa honno. O ganlyniad, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

19.6.9 Gwasanaeth profi firysau a gludir yn y gwaed

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi na chomisiynwyd unrhyw fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Fodd bynnag, mae darparwyr eraill o'r gwasanaeth, er enghraifft tîm lleihau niwed y Bwrdd Iechyd.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

19.6.10 Gwasanaeth brechu Covid-19

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi na chomisiynwyd unrhyw fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Mae hefyd wedi nodi bod meddygfeydd teulu a thîm brechu'r Bwrdd Iechyd yn darparu'r gwasanaeth.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

19.6.11 Helpa fi i stopio yn y fferyllfa

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi bod:

- Pum fferyllfa wedi eu comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.
- Mae'r galw am y gwasanaeth yn cael ei bennu gan bobl sy'n dymuno rhoi'r gorau i ysmygu.

- Mae eraill yn darparu'r gwasanaeth, er enghraifft Helpa fi i stopio ar gyfer y babi, Helpa fi stopio yn yr ysbyty, a'r gwasanaeth Helpa fi i stopio cyffredinol.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

19.6.12 Gwasanaeth adolygu anadlyddion

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi bod:

- Chwe fferyllfa wedi eu comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.
- Mae meddygfeydd teulu hefyd yn darparu'r gwasanaeth.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

19.6.13 Gwasanaeth cyflenwi Nalocson

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi bod:

- Un fferyllfa wedi ei chomisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.
- Mae darparwyr eraill o'r gwasanaeth fel tîm lleihau niwed y Bwrdd Iechyd a'r gwasanaeth 'cliciwch a chyflenwi' a ddarperir gan DAN24/7.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

19.6.14 Gwasanaeth cymorth cartrefi gofal cenedlaethol

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi bod:

- Dwy fferyllfa wedi eu comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.
- Darperir y gwasanaeth gan fferyllfeydd i'r cartrefi gofal y maent yn darparu gwasanaethau iddynt, neu lle mae cartref gofal wedi gofyn am y gwasanaeth.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

19.6.15 Dychwelyd blychau offer miniog cleifion

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi bod yr holl fferyllfeydd wedi cael eu comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Nid yw wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

19.6.16 Gwasanaeth rhoi'r gorau i ysmygu lefel 2

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi bod yr holl fferyllfeydd wedi cael eu comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Nid yw wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

19.6.17 Gwasanaeth gweinyddu dan oruchwyliaeth

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi bod chwe fferyllfa wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Nid yw wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

19.6.18 Rhaglenni nodwyddau a chwistrellau

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi:

- Fod un fferyllfa wedi ei chomisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.
- Mae darparwyr eraill ar gyfer y gwasanaeth, ac mae gwasanaeth postio'n cael ei sefydlu ar gyfer y rhai na allant ddefnyddio fferyllfa.
- Os gofynnir i fferyllfa ddarparu'r gwasanaeth, gallant gysylltu â'r Bwrdd Iechyd a gofyn iddynt gael eu comisiynu i'w ddarparu.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

19.6.19 Gwasanaeth meddyginiaethau brys

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi na chomisiynwyd unrhyw fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Oherwydd natur y gwasanaeth, mae wedi'i gomisiynu i sicrhau lledaeniad daearyddol da o fferyllfeydd sy'n ei ddarparu ar draws daearyddiaeth y Bwrdd Iechyd.

O'r herwydd, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

20 Ardal Leol Canol Wrecsam

20.1 Ffeithiau allweddol[191]

- Awdurdod Unedol Wrecsam, yng ngogledd-ddwyrain y rhanbarth, sydd â'r ail boblogaeth fwyaf o blith y chwe awdurdod unedol, sef 138,245.
- Mae nifer y plant a'r bobl ifanc (rhwng 0 a 17 oed) yn y bwrdd iechyd wedi gostwng tua 6,200 rhwng 2013 a 2023. Gwelwyd y gostyngiad mwyaf yn Awdurdod Unedol Wrecsam, sef gostyngiad o 1,350.
- Awdurdod Unedol Wrecsam sydd â'r gyfran isaf o drigolion 65 oed a throsodd, sef 20.8%, sy'n is na chyfartaledd Cymru (21.7%). Mae'r darlun yn debyg ar gyfer trigolion 85 oed a throsodd, mae gan Wrecsam 2.6%, sef yr isaf ar draws y chwe ardal awdurdod lleol ac yn is na chyfartaledd Cymru (2.7%).
- Mae disgwyl i boblogaeth gyffredinol y bwrdd iechyd gynyddu ychydig yn fwy na 50,000 (6.8%) rhwng 2022 a 2047. Ar lefel awdurdod unedol, rhagwelir mai yn Wrecsam y bydd y cynnydd lleiaf, sef 2.4% o'i gymharu â'r cynnydd mwyaf yng Ngwynedd (10.8%) a Sir Ddinbych (10.4%).
- Disgwylir i nifer y plant a'r bobl ifanc rhwng 0 a 15 oed yn ardal y bwrdd iechyd ostwng 13.5% erbyn 2047. Ar lefel awdurdod unedol, yn Wrecsam y disgwylir y gostyngiad mwyaf, sef 20.8% o'i gymharu â'r gostyngiad lleiaf a ragwelir yng Ngwynedd (4.8%).
- Disgwylir i'r boblogaeth breswyl sy'n 85 oed yn ardal y bwrdd iechyd gynyddu bron 98%. Ar draws y rhanbarth, yn Wrecsam (114.6%) ac ar Ynys Môn (109.4%) y disgwylir y cynnydd canrannol mwyaf.
- Mae 14.9% o boblogaeth yr ardal leol rhwng 66 a 84 oed, sy'n is na chyfartaledd Cymru, sef 17.7%, ac yn is na chyfartaledd y bwrdd iechyd, sef 19.6%.
- Mae 2.4% o boblogaeth yr ardal leol yn 85 oed ac yn hŷn, sy'n is na chyfartaledd y bwrdd iechyd o 3.1% ac yn is na chyfartaledd Cymru o 2.7%.
- Mae 18.1% o boblogaeth yr ardal leol rhwng 0 a 15 oed, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru (17.1%) ac yn uwch na chyfartaledd y bwrdd iechyd, sef 16.7%.
- Mae aelwydydd un person yn yr ardal yn cyfrif am 32.3% o gyfanswm yr aelwydydd; mae 13.3% o'r aelwydydd yn cael eu meddiannu gan un person dros 66 oed. Mae hyn yn is na chyfartaledd Cymru (14.6%) ac yn is na chyfartaledd y bwrdd iechyd, sef 15.8%.
- Bu cynnydd cyffredinol yn nwysedd y boblogaeth ar draws Gogledd Cymru rhwng 2020 a 2023. Ardal ddwyreiniol y bwrdd iechyd sy'n parhau i fod yr ardal fwyaf dwys ei phoblogaeth, gyda mwy o bobl fesul cilomedr sgwâr o gymharu â chyfartaledd Cymru (152.6). Wrecsam yw'r ail ardal awdurdod lleol fwyaf dwys ei phoblogaeth, gyda 270.3 o bobl fesul cilomedr sgwâr.
- Nid oes gan 23.8% o'r aelwydydd yn yr ardal gar na fan.
- Mae 17.1% o boblogaeth y clwstwr yn byw yn yr 20% mwyaf difreintiedig yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. [192]
- Y disgwyliad oes yn Wrecsam yw 77.2 i ddynion ac 81.2 i fenywod.[193].

[191] Proffiliau Iechyd Cyhoeddus - Proffiliau Cydweithredfeydd y Gogledd Orllewin 2025
[192] Iechyd Cyhoeddus Cymru - Dangosfwrdd clystyrau gofal sylfaenol
[193] InfoBaseCymru Data ar gyfer Cymru ddeallus - Disgwyliad oes ymhlith dynion a menywod (2020 i 2022)

- Y disgwyliad oes iach yn Wrecsam yw 61.8 mlynedd i ddynion a 61.5 mlynedd i fenywod a'r bwlch anghydraddoldeb ar gyfer disgwyliad oes iach yn Wrecsam yw 7.3 mlynedd i ddynion a 7.5 mlynedd i fenywod.
- Mae 2.8% o blant pedair a phump oed yn ardal leol Canol Wrecsam dros eu pwysau neu'n ordew.
- Mae data ffyrdd o fyw ac ymddygiad iach ar gyfer oedolion yn Awdurdod Unedol Wrecsam yn dangos:

Ardal	**Yn gorfforol egnïol am o leiaf 60 munud y dydd**	**Yn bwyta o leiaf un dogn o ffrwythau neu lysiau bob dydd**	**Yn smygu tybaco o leiaf yn wythnosol**	**Wedi rhoi cynnig ar e-sigarét o leiaf unwaith yr wythnos**	**Yn dweud eu bod yn yfed alcohol**
Wrecsam	16.1%	40.9%	3.2%	8.7%	34.7%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	18.3%	45.7%	3.3%	8.2%	36.8%
Cymru	18.3%	46.5%	2.6%	6.9%	35.6%

- Mae'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yng Nghymru yn cofnodi gallu yn y Gymraeg a pha mor aml y caiff y Gymraeg ei defnyddio. Yn 2025, dywedodd bron 39% o drigolion y bwrdd iechyd eu bod yn gallu siarad Cymraeg. Yn Wrecsam, dywedodd 26.1% o'r boblogaeth eu bod yn gallu siarad Cymraeg. Dyma'r ail ganran isaf ledled Gogledd Cymru.
- Dangosir isod nifer y cleifion â chyflyrau cronig fel y nodir ar gofrestrau clefydau Iechyd a Gofal Digidol Cymru, Ebrill 2025.

Cofrestr clefydau	**Canol Wrecsam**	**Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**	**Cymru**
Asthma	7.1%	7.6%	7.1%
Ffibriliad atrïaidd	2.4%	2.8%	2.7%
Canser	3.5%	4.3%	3.7%
Clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint	2.4%	2.7%	2.3%
Diabetes	8.0%	8.3%	8.4%
Epilepsi	1.0%	0.9%	1.0%
Methiant y galon	1.5%	1.4%	1.4%
Gorbwysedd	16.8%	17.9%	16.3%
Pwl o isgemia dros dro	2.2%	2.3%	2.2%
Atal eilaidd clefyd coronaidd y galon	3.3%	3.6%	3.4%

Gwnaeth Cynllun Datblygu Lleol Wrecsam 2013 i 2028[194] nodi'r angen am 8,525 o unedau tai, sy'n cyfateb i 568 o dai y flwyddyn neu 2,840 o fewn oes yr asesiad o anghenion fferyllol hwn. Fodd bynnag, cafodd ei dynnu'n ôl ar 18 Mawrth 2026 gan Weinidogion Cymru[195]. Mae cynllun datblygu Wrecsam bellach yn cynnwys Cymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2024 a Chynllun Datblygu Unedol Wrecsam 1996-2011 yn nhrefn hierarchaeth gyfreithiol.

Yn seiliedig ar y llwybr datblygu yn Adroddiad Monitro Blynyddol y cyngor ar gyfer 2023/24, bydd 801 o unedau'n cael eu hadeiladu yn 2026/27 a 787 yn 2027/28. O 2028 ymlaen, disgwylir y bydd 3,087 o unedau'n cael eu hadeiladu. Mae tri chynllun mawr, pob un wedi'i leoli yn ardal Canol Wrecsam.


- 1,450 o unedau (tua 3,480 o bobl) - tir oddi ar Ffordd Lower Berse, Wrecsam. Disgwylir y bydd y rhan fwyaf o'r unedau ar gael o 2028 ymlaen.
- 600 o unedau (tua 1,440 o bobl) – tir oddi ar Ffordd Holt, Wrecsam.
- 900 o unedau (tua 2,160 o bobl) – Parc Esless (a elwir hefyd yn Barc Erlas), tir i'r dwyrain o Ffordd Cefn. Disgwylir y bydd y rhan fwyaf o'r unedau ar gael o 2028 ymlaen.

20.2 Y gwasanaethau fferyllol a ddarperir ar hyn o bryd yn yr ardal leol


Mae 12 fferyllfa yn yr ardal sy'n cael eu rhedeg gan bum contractwr gwahanol. Nid yw'r un o'r chwe phractis meddyg teulu yn dosbarthu.

Mae'r map isod yn dangos lleoliad y fferyllfeydd. Dylid nodi y bydd y symbolau'n gorgyffwrdd lle mae'r safleoedd yn agos at ei gilydd.

Map 20.1 – lleoliad y fferyllfeydd



[194] Cynllun Datblygu Lleol Wrecsam 2013 i 2028
[195] Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Hysbysiad Tynnu'n Ôl Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam 2013-2028



Yn 2025/26, cafodd 78.1% o'r presgripsiynau a ysgrifennwyd gan y practisau meddygon teulu yn yr ardal leol eu dosbarthu gan fferyllfa yn yr ardal leol.

Yn ystod naw mis cyntaf 2025/26, cafodd 79.2% o'r presgripsiynau a ysgrifennwyd gan bractisau meddygon teulu yn yr ardal leol eu dosbarthu gan fferyllfa yn yr ardal leol.

Mae'r map ym mhennod 5 yn dangos bod yr holl ardal leol o fewn taith 20 munud mewn car i fferyllfa, ac mae'r rhan fwyaf o drigolion o fewn taith 10 munud i fferyllfa.

O ran pryd mae'r fferyllfeydd ar agor:

- Mae tair ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener,
- Mae chwech ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener, a rhan o ddydd Sadwrn,
- Mae un ar agor o ddydd Llun i ddydd Sadwrn, ac
- Mae dwy ar agor o ddydd Llun i ddydd Sul.

O ran yr amseroedd y mae'r fferyllfeydd hyn ar agor rhwng dydd Llun a dydd Gwener:

- Mae dwy yn agor am 08.30, un yn agor am 08.45 a'r gweddill yn agor am 09.00,
- Mae'r amseroedd cau yn amrywio rhwng 17.30 a 18.00 ac mae un fferyllfa ar agor tan 20.00.

Mae deg fferyllfa yn cau am ginio ar wahanol adegau rhwng 13.00 a 14.00.

Ar ddydd Sadwrn, mae un fferyllfa yn agor am 08.30 ac wyth yn agor am 09.00. O blith y tair fferyllfa sy'n agor drwy'r dydd, mae un yn cau am ginio rhwng 13.00 a 13.20. Maent yn cau rhwng 17.30 a 18.00. Mae gan naw o fferyllfa oriau agor craidd ar ddydd Sadwrn, ac mae gan ddwy ohonynt oriau craidd yn y bore a'r prynhawn.

Mae'r ddwy fferyllfa sy'n agor ar ddydd Sul rhyngddynt yn darparu gwasanaeth rhwng 10.00 a 16.00.

Mae'r bwrdd iechyd yn gofyn i'r fferyllfeydd a fyddant ar agor ar wyliau cyhoeddus a gwyliau banc a Dydd Sul y Pasg. Caiff yr ymatebion eu coladu, a bydd y bwrdd iechyd yn ystyried a oes unrhyw fylchau daearyddol yn y ddarpariaeth ai peidio. Os oes unrhyw fylchau, caiff fferyllfeydd naill ai eu comisiynu neu eu cyfarwyddo i agor.

Ymatebodd deg fferyllfa i'r holiadur i gontractwyr fferylliaeth ac mae'r wybodaeth ganlynol wedi'i chymryd o'r ymatebion hynny.

Mae pob un o'r deg fferyllfa yn hygyrch i gadeiriau olwyn ac mae ganddynt ardal ymgynghori sy'n hygyrch i bobl sy'n defnyddio cadeiriau olwyn. Mae naw o'r ardaloedd ymgynghori:

- yn ystafelloedd caeedig,
- yn ardal ddynodedig lle gall y claf a'r fferyllydd eistedd i lawr gyda'i gilydd a siarad ar lefel sain arferol heb gael eu clywed, ac
- yn ardal wedi'i dynodi'n glir ar gyfer ymgyngoriadau cyfrinachol ar wahân i ardaloedd cyhoeddus cyffredinol y fferyllfa.

Mae'r degfed yn ystafell gaeedig ond nid yw'n bodloni'r ddau ofyniad arall. Fodd bynnag, mae trefniadau amgen ar waith ar gyfer trafodaethau cyfrinachol.

Cadarnhaodd pedair fferyllfa fod ganddynt siaradwyr Cymraeg. Nododd naw fferyllfa fod ieithoedd eraill yn cael eu siarad gan y staff.

- Pwyleg, Gwjarati, Wrdw, Parsi, Hindi.
- Caiff Pwyleg ei siarad mewn tair fferyllfa.
- Caiff Sbaeneg ei siarad mewn dwy fferyllfa.
- Pwyleg ac Wrdw.
- Maleieg a Mandarin.
- Ffarsi.

Mae pob un o'r deg fferyllfa yn dosbarthu presgripsiynau ar gyfer pob math o gyfarpar.

Mae pob un o'r deg fferyllfa yn casglu presgripsiynau gan bractisau meddygon teulu. O ran cludo eitemau fferyllol:

- mae un yn darparu gwasanaeth cludo am ddim ar gais, ac
- mae wyth yn cludo i gleifion hŷn a chleifion agored i niwed sy'n gaeth i'r tŷ.

Nid oedd yr un o'r fferyllfeydd o'r farn bod angen gwasanaeth clinigol ychwanegol presennol, nac unrhyw wasanaeth newydd, nad yw ar gael ar hyn o bryd. Cadarnhaodd y deg ohonynt fod ganddynt ddigon o gapasiti ar eu safleoedd presennol i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau y maent yn eu darparu. Mae gan ddwy hefyd ddigon o gapasiti o fewn eu lefelau staffio, a dywedodd wyth nad oes ganddynt ddigon o gapasiti ond y gallent wneud addasiadau.

Mae gan chwe fferyllfa gynlluniau i ddatblygu neu ehangu'r gwasanaeth a ddarperir ganddynt.

- Ail ystafell ymgynghori wedi'i hadeiladu ynghyd â chynlluniau i adeiladu ystafelloedd clinigol ychwanegol yng nghefn y fferyllfa.
- Yn archwilio'r posibilrwydd o ddarparu gwasanaeth fferyllydd-bresgripsiynydd annibynnol y tu allan i oriau gwaith arferol, yn ogystal â gwasanaeth penwythnos.
- Dim cynlluniau penodol, ond bob amser yn adolygu'r cyfle ar gyfer gwasanaethau.
- Ehangu'r gwasanaeth presgripsiynydd annibynnol i bum diwrnod yr wythnos.

- Cynyddu nifer yr ymgynghoriadau ar gyfer y gwasanaeth fferyllydd-bresgripsiynydd annibynnol.
- Mae dwy fferyllfa yn bwriadu dechrau darparu'r gwasanaeth fferyllydd-bresgripsiynydd annibynnol.

20.2.1 Gwasanaeth fferyllfa gymunedol glinigol

Roedd pob fferyllfa wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn ac yn 2025/26 gwnaethant ddarparu:

- 10,373 o ymgynghoriadau ar gyfer anhwylderau cyffredin a 771 o ymgynghoriadau ar gyfer dulliau atal cenhedlu
- 2,393 o gyflenwadau o feddyginiaethau brys

20.2.2 Gwasanaeth adolygu meddyginiaethau wrth ryddhau

Yn 2025/26, darparodd naw fferyllfa y gwasanaeth hwn gan gwblhau 208 o adolygiadau.

20.2.3 Gwasanaeth presgripsiynu annibynnol fferyllwyr

Cafodd saith fferyllfa eu comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn ystod 2025/26 a darparwyd cyfanswm o 3,869 o ymgynghoriadau dros y flwyddyn.

20.2.4 Gwasanaeth brechu rhag y ffliw tymhorol

Cafodd pob fferyllfa ei chomisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn ystod 2025/26 a darparwyd cyfanswm o 2,168 o frechiadau.

20.2.5 Addasu cyfarpar stoma

Nid yw'r un fferyllfa yn yr ardal leol yn darparu'r gwasanaeth hwn er eu bod yn dosbarthu presgripsiynau ar gyfer cyfarpar.

20.2.6 Gwasanaeth adolygu'r defnydd o gyfarpar

Nid yw'r un fferyllfa yn yr ardal leol yn darparu'r gwasanaeth hwn er eu bod yn dosbarthu presgripsiynau ar gyfer cyfarpar.

20.2.7 Gwasanaeth cyflenwi profion llif unffordd

Cafodd pob fferyllfa ei chomisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn ystod 2025/26.

20.2.8 Gwasanaeth profi am firysau a gludir yn y gwaed

Cafodd dwy fferyllfa eu comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn ystod 2025/26.

20.2.9 Gwasanaeth brechu Covid-19

Ni chafodd yr un fferyllfa ei chomisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn ystod

2025/26.

20.2.10 Helpa fi i stopio yn y fferyllfa

Cafodd 11 fferyllfa eu comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn ystod 2025/26.

20.2.11 Gwasanaeth adolygu anadlyddion

Cafodd 11 fferyllfa eu comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn ystod 2025/26.

20.2.12 Gwasanaeth cyflenwi Naloxone

Cafodd tair fferyllfa eu comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn ystod 2025/26.

20.2.13 Gwasanaeth cenedlaethol cymorth i gartrefi gofal

Cafodd pedair fferyllfa eu comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn ystod 2025/26.

20.2.14 Dychwelyd blychau offer miniog cleifion

Cafodd 11 fferyllfa eu comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn ystod 2025/26.

20.2.15 Gwasanaeth rhoi'r gorau i smygu lefel 2

Cafodd 11 fferyllfa eu comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn ystod 2025/26.

20.2.16 Gwasanaeth rhoi meddyginiaeth dan oruchwyliaeth

Cafodd 11 fferyllfa eu comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn ystod 2025/26.

20.2.17 Rhaglenni nodwyddau a chwistrellau

Cafodd wyth fferyllfa eu comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn a gwnaethant ei ddarparu yn ystod 2025/26.

20.2.18 Gwasanaeth meddyginiaethau brys

Cafodd un fferyllfa ei chomisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn ystod 2025/26.

20.3 Y gwasanaethau fferyllol a ddarperir ar hyn o bryd y tu allan i'r ardal leol

Mae rhai trigolion yn dewis defnyddio contractwyr y tu allan i'r ardal leol ac ardal y bwrdd iechyd er mwyn manteisio ar wasanaethau:

- A gynigir gan gontractwyr cyfarpar fferyllol
- Sydd wedi'u lleoli'n agos at y mannau lle maent yn gweithio, yn siopa, neu'n ymweld â nhw at ddibenion hamdden neu ddibenion eraill.

Er bod y rhan fwyaf o'r presgripsiynau a ysgrifennwyd gan y practisau meddygon teulu yn 2024/25 wedi'u dosbarthu gan y fferyllfeydd yn yr ardal leol, cafodd 20.5% eu dosbarthu y tu allan i'r ardal leol:

- 12.6% gan fferyllfeydd yng Ngogledd a Gorllewin Wrecsam,
- 3.4% gan fferyllfeydd yng Ngogledd Ddwyrain Sir y Fflint,
- 2.5% gan gontractwyr yn Lloegr,
- 1.7% yn Ne Wrecsam,
- 0.2% yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, a
- 0.1% gan fferyllfeydd yn Ne Sir y Fflint.

Yn ystod naw mis cyntaf 2025/26, cafodd y rhan fwyaf o'r presgripsiynau eu dosbarthu gan y fferyllfeydd yn yr ardal leol. Cafodd 20.4% eu dosbarthu y tu allan i'r ardal leol:

- 12.2% gan fferyllfeydd yng Ngogledd a Gorllewin Wrecsam, 3.2% yng Ngogledd Ddwyrain Sir y Fflint,
- 3.1% yn Lloegr,
- 1.6% yn Ne Wrecsam
- 0.2% yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, a
- 0.1% yn Ne Sir y Fflint

Yn ogystal, mae'n bosibl bod trigolion wedi defnyddio un neu fwy o'r gwasanaethau fferyllol a ddarperir gan fferyllfa arall y tu allan i'r ardal leol ac ardal y bwrdd iechyd; fodd bynnag, nid yw'n bosibl meintioli'r gweithgarwch hwn o'r data a gofnodwyd.

20.4 Gwasanaethau eraill y GIG

Mae manylion am wasanaethau'r GIG sy'n effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol i'w gweld ym mhennod chwech.

20.5 Dewis o ran defnyddio gwasanaethau fferyllol

Fel y gwelir o adrannau 20.2 a 20.3, mae'r rhai sy'n byw yn yr ardal leol ac sydd wedi'u cofrestru gydag un o'r practisau meddygon teulu fel arfer yn dewis defnyddio un o'r fferyllfeydd yn yr ardal leol er mwyn cael eu presgripsiynau wedi'u dosbarthu neu, os ydynt yn gymwys, eu practis meddyg teulu. Mae'r rhai sy'n edrych y tu allan i'r ardal leol fel arfer yn gwneud hynny er mwyn defnyddio fferyllfa gyfagos neu gontractwr cyfarpar fferyllol y tu allan i ardal y bwrdd iechyd.

Yn 2024/25, gwnaeth mwy na 118 o gontractwyr ddosbarthu eitemau a ysgrifennwyd gan un o bractisau meddygon teulu yr ardal leol hon, ac o blith y rhain:

- roedd 12 wedi'u lleoli o fewn yr ardal leol,
- roedd 77 wedi'u lleoli mewn mannau eraill yn ardal y bwrdd iechyd,
- roedd 29 wedi'u lleoli mewn mannau eraill yng Nghymru,
- cafodd nifer o bresgripsiynau eu dosbarthu yn Lloegr.

Gwelwyd ffigurau tebyg yn ystod naw mis cyntaf 2024/25.

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod fferyllfa breifat ym Mharc Manwerthu Plas Coch. Er nad yw'n darparu gwasanaethau fferyllol, bydd yn gallu cynnig cymorth ar gyfer hunanofal a gwerthu meddyginiaethau i'r rhai sy'n ceisio cyngor. Mae gan y fferyllfa ystafell ymgynghori ac mae'n darparu ystod o wasanaethau preifat, gan gynnwys brechiadau (arferol a theithio), dulliau atal cenhedlu brys, a gwasanaeth archebu presgripsiynau'r GIG.

20.6 Bylchau yn y ddarpariaeth

20.6.1 Gwasanaethau hanfodol

Wrth ystyried a oes unrhyw fylchau yn y gwasanaethau fferyllol a ddarperir mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod deg fferyllfa wedi cadarnhau bod ganddynt ddigon o gapasiti ar eu safleoedd presennol i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau y maent yn eu darparu. Mae gan ddwy hefyd ddigon o gapasiti o fewn eu lefelau staffio, a dywedodd wyth nad oes ganddynt ddigon o gapasiti ond y gallent wneud addasiadau.

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi:

- Bod y fferyllfeydd wedi'u lleoli ar ochr orllewinol yr ardal leol, fel arfer mewn ardaloedd mwy dwys eu poblogaeth ac sydd â lefelau amddifadedd uwch.
- Mae'r ardal leol gyfan o fewn taith 20 munud mewn car i fferyllfa ac mae llawer o drigolion o fewn taith deg munud i fferyllfa.
- Y tri datblygiad hysbys yn yr ardal a fydd yn dechrau darparu'r nifer disgwyliedig o dai o 2028 ymlaen.
- Oriau agor y fferyllfeydd.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol am y gwasanaethau hyn yn yr ardal leol.

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi, pe bai gwasanaethau hanfodol yn cael eu colli oherwydd bod fferyllfa yn cael ei thynnu oddi ar y rhestr fferyllol, y bydd angen yn y dyfodol am naill ai:

- fferyllfa newydd yn yr un dref/pentref sy'n darparu gwasanaethau hanfodol, y gwasanaeth fferyllfa gymunedol glinigol, dychwelyd blychau offer miniog cleifion, gwasanaeth rhoi meddyginiaethau dan oruchwyliaeth, gwasanaeth Helpa fi i stopio yn y fferyllfa, a gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu lefel 2 am 40 awr agor graidd yr wythnos, neu
- wasanaeth dosbarthu meddyginiaethau gan feddygon teulu os yw'r dref/pentref mewn ardal a reolir,

oni bai bod fferyllfa arall yn y dref/pentref ac yna ni fydd yr angen hwn yn codi yn y dyfodol.

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi, pe bai oriau agor atodol yn cael eu colli ar ddydd Sadwrn o 1 Hydref 2026, a hynny'n arwain at lai na thair awr o wasanaethau fferyllol yn cael eu darparu mewn tref/pentref, y bydd angen yn y dyfodol i ddarparu

gwasanaethau hanfodol am dair awr agor graidd ar ddydd Sadwrn yn y dref/pentref neu'r trefi/pentrefi lle mae'r gostyngiad mewn oriau agor atodol wedi digwydd, rhwng 09.00 a 17.00, oni bai bod fferyllfa arall yn y dref/pentref, ac yna ni fydd yr angen yn y dyfodol yn codi.

20.6.2 Gwasanaeth fferyllfa gymunedol glinigol

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi y cafodd pob fferyllfa ei chomisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn ystod 2025/26. Felly nid yw wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol nac yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal leol.

20.6.3 Gwasanaeth adolygu meddyginiaethau wrth ryddhau

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod naw fferyllfa wedi darparu'r gwasanaeth yn ystod 2025/26. Nid yw wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol nac yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal leol.

20.6.4 Gwasanaeth presgripsiynu annibynnol fferyllwyr

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi'r canlynol:

- Cafodd saith fferyllfa eu comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn ystod 2025/26.
- Mae dwy fferyllfa yn bwriadu dechrau darparu'r gwasanaeth hwn
- Y dyhead a nodir yn Fferylliaeth: Cyflawni Cymru Iachach' yw y bydd gan bob fferyllfa bresgripsiynydd annibynnol erbyn 2030, ac mae wedi gosod targedau dros dro, sef y bydd 50% o'r fferyllfeydd ym mhob ardal leol yn darparu'r gwasanaeth hwn erbyn mis Ebrill 2027 a 70% erbyn mis Ebrill 2029.
- O 2026 ymlaen, rhagwelir y bydd pob fferyllydd newydd gymhwyso hefyd yn cymhwyso fel presgripsiynydd annibynnol ar ôl cwblhau ei raglen israddedig

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal leol.

Os na fydd y targedau dros dro yn cael eu cyflawni, bydd angen yn y dyfodol i nifer digonol o fferyllfeydd yn yr ardal leol ddarparu'r gwasanaeth hwn er mwyn cyflawni'r ddau darged.

20.6.5 Gwasanaeth brechu rhag y ffliw tymhorol

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi y cafodd pob fferyllfa ei chomisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn ystod 2025/26. Felly nid yw wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol nac yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal leol.

20.6.6 Addasu cyfarpar stoma

Er nad oes yr un fferyllfa yn darparu'r gwasanaeth hwn, mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod presgripsiynau ar gyfer cyfarpar yn cael eu dosbarthu gan gontractwyr mewn mannau eraill yng Nghymru a hefyd yn Lloegr.

Felly, rhagwelir y bydd y contractwyr hyn yn addasu cyfarpar stoma yn ôl yr angen cyn eu dosbarthu neu eu danfon at gleifion.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal leol.

20.6.7 Gwasanaeth adolygu'r defnydd o gyfarpar

Er nad oes yr un fferyllfa yn darparu'r gwasanaeth hwn, mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod presgripsiynau ar gyfer cyfarpar yn cael eu dosbarthu gan gontractwyr mewn mannau eraill yng Nghymru a hefyd yn Lloegr.

Mae'n debygol y bydd unigolion a bydd angen y gwasanaeth adolygu'r defnydd o gyfarpar arnynt yn cael y gwasanaeth hwn drwy'r contractwr sy'n dosbarthu eu presgripsiynau ar gyfer cyfarpar, neu drwy ddarparwyr gofal iechyd eraill, megis nyrsys stoma.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal leol.

20.6.8 Gwasanaeth cyflenwi profion llif unffordd

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi y cafodd pob fferyllfa ei chomisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn ystod 2025/26. Felly nid yw wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal leol.

20.6.9 Gwasanaeth profi am firysau a gludir yn y gwaed

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod dwy fferyllfa wedi cael eu comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn ystod 2025/26. Fodd bynnag, mae eraill yn darparu'r gwasanaeth, er enghraifft tîm lleihau niwed y bwrdd iechyd.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal leol.

20.6.10 Gwasanaeth brechu Covid-19

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi nad oedd yr un fferyllfa wedi'i chomisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn ystod 2025/26. Mae hefyd wedi nodi bod practisau meddygon teulu a thîm brechu'r bwrdd iechyd yn darparu'r gwasanaeth.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal leol.

20.6.11 Helpa fi i stopio yn y fferyllfa

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi'r canlynol:

- Cafodd 11 fferyllfa eu comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn ystod 2025/26.

- Mae'r galw am y gwasanaeth yn deillio o bobl sy'n dymuno rhoi'r gorau i ysmygu.
- Mae eraill yn darparu'r gwasanaeth, er enghraifft Helpa Fi i Stopio i Fy Mabi, Helpa Fi i Stopio yn yr Ysbyty, a'r gwasanaeth Helpa Fi i Stopio yn gyffredinol.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal leol.

20.6.12 Gwasanaeth adolygu anadlyddion

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi'r canlynol:

- Cafodd 11 fferyllfa eu comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn ystod 2025/26.
- Mae practisau meddygon teulu hefyd yn darparu'r gwasanaeth.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal leol.

20.6.13 Gwasanaeth cyflenwi Naloxone

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi'r canlynol:

- Cafodd tair fferyllfa eu comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn ystod 2025/26.
- Mae eraill yn darparu'r gwasanaeth, megis tîm lleihau niwed y bwrdd iechyd a'r gwasanaeth clicio ac anfon a ddarperir gan DAN24/7.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal leol.

20.6.14 Gwasanaeth cenedlaethol cymorth i gartrefi gofal

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi'r canlynol:

- Cafodd 4 fferyllfa eu comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn ystod 2025/26.
- Caiff y gwasanaeth ei ddarparu gan fferyllfeydd i'r cartrefi gofal y maent yn darparu gwasanaethau iddynt, neu pan fo cartref gofal wedi gofyn am y gwasanaeth.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal leol.

20.6.15 Dychwelyd blychau offer miniog cleifion

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi y cafodd 11 fferyllfa eu comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn ystod 2025/26. Nid yw wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol nac yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal leol.

20.6.16 Rhoi'r gorau i smygu lefel 2

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi'r canlynol:

- Cafodd 11 fferyllfa eu comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn ystod 2025/26.
- Mae'r galw am y gwasanaeth yn deillio o bobl sy'n dymuno rhoi'r gorau i ysmygu.

Nid yw wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal leol.

20.6.17 Gwasanaeth rhoi meddyginiaeth dan oruchwyliaeth

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi y cafodd 11 fferyllfa eu comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn ystod 2025/26. Nid yw wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal leol.

20.6.18 Rhaglenni nodwyddau a chwistrellau

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi'r canlynol:

- Cafodd 8 fferyllfa eu comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn ystod 2025/26.
- Mae eraill yn darparu'r gwasanaeth, ac mae gwasanaeth postio'n cael ei sefydlu ar gyfer y rhai na allant ddefnyddio fferyllfa.
- Os gofynnir i fferyllfa ddarparu'r gwasanaeth, gall gysylltu â'r bwrdd iechyd a gofyn am gael ei chomisiynu i'w ddarparu.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal leol.

20.6.19 Gwasanaeth meddyginiaethau brys

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi y cafodd un fferyllfa ei chomisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn ystod 2025/26. Oherwydd natur y gwasanaeth, caiff ei chomisiynu er mwyn sicrhau dosbarthiad daearyddol da o fferyllfeydd sy'n ei ddarparu ar draws ardal y bwrdd iechyd.

Felly nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal leol.

21 Ardal De Wrecsam

21.1 Ffeithiau allweddol[196]

- Awdurdod Unedol Wrecsam, yng ngogledd-ddwyrain y rhanbarth, sydd â'r ail boblogaeth fwyaf o blith y chwe awdurdod unedol, sef 138,245.
- Mae nifer y plant a'r bobl ifanc (rhwng 0 a 17 oed) yn y bwrdd iechyd wedi gostwng tua 6,200 rhwng 2013 a 2023. Gwelwyd y gostyngiad mwyaf yn Awdurdod Unedig Wrecsam, sef gostyngiad o 1,350.
- Wrecsam sydd â'r gyfran isaf o drigolion 65 oed a throsodd, sef 20.8%, sy'n is na chyfartaledd Cymru (21.7%). Mae'r darlun yn debyg ar gyfer trigolion 85 oed a throsodd, mae gan Wrecsam 2.6%, sef yr isaf ar draws y chwe ardal awdurdod unedol ac yn is na chyfartaledd Cymru (2.7%).
- Mae disgwyl i boblogaeth gyffredinol y bwrdd iechyd gynyddu ychydig yn fwy na 50,000 (6.8%) rhwng 2022 a 2047. Ar lefel awdurdod unedol, rhagwelir mai yn Wrecsam y bydd y cynnydd lleiaf, sef 2.4% o'i gymharu â'r cynnydd mwyaf yng Ngwynedd (10.8%) a Sir Ddinbych (10.4%).
- Disgwylir i nifer y plant a'r bobl ifanc rhwng 0 a 15 oed yn ardal y bwrdd iechyd ostwng 13.5% erbyn 2047. Ar lefel awdurdod unedol, yn Wrecsam y disgwylir y gostyngiad mwyaf, sef 20.8% o'i gymharu â'r gostyngiad lleiaf a ragwelir yng Ngwynedd (4.8%).
- Disgwylir i'r boblogaeth breswyl sy'n 85 oed yn ardal y bwrdd iechyd gynyddu bron 98%. Ar draws y rhanbarth, yn Wrecsam (114.6%) ac ar Ynys Môn (109.4%) y disgwylir y cynnydd canrannol mwyaf.
- Mae 18.9% o boblogaeth yr ardal leol rhwng 66 a 84 oed, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru, sef 17.7%, ac yn uwch na chyfartaledd y bwrdd iechyd, sef 19.6%.
- Mae 2.9% o boblogaeth yr ardal leol yn 85 oed ac yn hŷn, sy'n is na chyfartaledd y bwrdd iechyd o 3.1% ac yn debyg i gyfartaledd Cymru o 2.7%.
- Mae 17.2% o boblogaeth yr ardal leol rhwng 0 a 15 oed, sy'n debyg i gyfartaledd Cymru (17.1%) ac yn uwch na chyfartaledd y bwrdd iechyd, sef 16.7%.
- Mae aelwydydd un person yn yr ardal yn cyfrif am 30.4% o gyfanswm yr aelwydydd; mae 15.1% o'r aelwydydd yn cael eu meddiannu gan un person dros 66 oed. Mae hyn yn uwch na chyfartaledd Cymru (14.6%) ond yn is na chyfartaledd y bwrdd iechyd, sef 15.8%.
- Bu cynnydd cyffredinol yn nwysedd y boblogaeth ar draws Gogledd Cymru rhwng 2020 a 2023. Ardal ddwyreiniol y bwrdd iechyd sy'n parhau i fod yr ardal fwyaf dwys ei phoblogaeth, gyda mwy o bobl fesul cilomedr sgwâr o gymharu â chyfartaledd Cymru (152.6). Wrecsam yw'r ail ardal awdurdod lleol fwyaf dwys ei phoblogaeth, gyda 270.3 o bobl fesul cilomedr sgwâr.
- Nid oes gan 16.9% o'r aelwydydd yn yr ardal leol gar na fan.
- Mae 8.48% o boblogaeth y clwstwr yn byw yn yr 20% mwyaf difreintiedig yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru.[197]
- Y disgwyliad oes yn Wrecsam yw 77.2 i ddynion ac 81.2 i fenywod.[198].

[196] Proffiliau Iechyd Cyhoeddus - Proffiliau Cydweithredfeydd y Gogledd Orllewin 2025
[197] Iechyd Cyhoeddus Cymru - Dangosfwrdd clystyrau gofal sylfaenol
[198] InfoBaseCymru Data ar gyfer Cymru ddeallus - Disgwyliad oes ymhlith dynion a menywod (2020 i 2022)

- Y disgwyliad oes iach yn Wrecsam yw 61.8 mlynedd i ddynion a 61.5 mlynedd i fenywod a'r bwlch anghydraddoldeb ar gyfer disgwyliad oes iach yn Wrecsam yw 7.3 mlynedd i ddynion a 7.5 mlynedd i fenywod.
- Mae 33.4% o blant pedair a phump oed yn ardal leol De Wrecsam dros eu pwysau neu'n ordew, sef y ganran uchaf yn y rhanbarth.
- Mae data ffyrdd o fyw ac ymddygiad iach ar gyfer oedolion yn Awdurdod Unedol Wrecsam yn dangos:

Ardal	Yn gorfforol egnïol am o leiaf 60 munud y dydd	Yn bwyta o leiaf un dogn o ffrwythau neu lysiau bob dydd	Yn smygu tybaco o leiaf yn wythnosol	Wedi rhoi cynnig ar e-sigaréts o leiaf unwaith yr wythnos	Yn dweud eu bod yn yfed alcohol
Wrecsam	16.1%	40.9%	3.2%	8.7%	34.7%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	18.3%	45.7%	3.3%	8.2%	36.8%
Cymru	18.3%	46.5%	2.6%	6.9%	35.6%

- Mae dros 89,600 o gleifion y bwrdd iechyd wedi'u cofrestru gan eu meddyg teulu fel rhai sydd â gordewdra; mae hyn bron yn 15% o'r boblogaeth. Ar lefel clwstwr mae'r cyfrannau uchaf yng Ngogledd a Gorllewin Wrecsam (17.4%) a De Wrecsam (16.8%).
- Mae'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yng Nghymru yn cofnodi gallu yn y Gymraeg a pha mor aml y caiff y Gymraeg ei defnyddio. Yn 2025, dywedodd bron 39% o drigolion y bwrdd iechyd eu bod yn gallu siarad Cymraeg. Yn Wrecsam, dywedodd 26.1% o'r boblogaeth eu bod yn gallu siarad Cymraeg. Dyma'r ail ganran isaf ledled Gogledd Cymru.
- Dangosir isod nifer y cleifion â chyflyrau cronig fel y nodir ar gofrestrau clefydau Iechyd a Gofal Digidol Cymru, Ebrill 2025.

Cofrestr clefydau	De Wrecsam	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	Cymru
Asthma	8.1%	7.6%	7.1%
Ffibriliad atrïaidd	2.9%	2.8%	2.7%
Canser	4.1%	4.3%	3.7%
Clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint	2.7%	2.7%	2.3%
Diabetes	8.2%	8.3%	8.4%
Epilepsi	1.0%	0.9%	1.0%
Methiant y galon	1.3%	1.4%	1.4%
Gorbwysedd	18.8%	17.9%	16.3%
Pwl o isgemia dros dro	2.3%	2.3%	2.2%
Atal eilaidd clefyd coronaidd y galon	3.8%	3.6%	3.4%

Gwnaeth Cynllun Datblygu Lleol Wrecsam 2013 i 2028[199] nodi'r angen am 8,525 o unedau tai, sy'n cyfateb i 568 o dai y flwyddyn neu 2,840 o fewn oes yr asesiad o anghenion fferyllol hwn. Fodd bynnag, cafodd ei dynnu'n ôl ar 18 Mawrth 2026 gan Weinidogion Cymru[200]. Mae cynllun datblygu Wrecsam bellach yn cynnwys Cymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2024 a Chynllun Datblygu Unedol Wrecsam 1996-2011 yn nhrefn hierarchaeth gyfreithiol.

Yn seiliedig ar y llwybr datblygu yn Adroddiad Monitro Blynyddol y cyngor ar gyfer 2023/24, bydd 801 o unedau'n cael eu hadeiladu yn 2026/27 a 787 yn 2027/28. O 2028 ymlaen, disgwylir y bydd 3,087 o unedau'n cael eu hadeiladu. Mae tri chynllun mawr, pob un wedi'i leoli yn ardal Canol Wrecsam.

21.2 Y gwasanaethau fferyllol a ddarperir ar hyn o bryd yn yr ardal leol

Mae 10 fferyllfa yn yr ardal leol sy'n cael eu rhedeg gan bedwar contractwr gwahanol. Mae un fferyllfa wedi'i chynnwys yn y cynllun fferyllfeydd bach hanfodol. O blith yr wyth practis meddyg teulu, mae dau yn dosbarthu o gyfanswm o ddau safle. Mae lefel y dosbarthu yn amrywio o 71.8% i 86.4% o boblogaethau cofrestredig y practisau.

Mae'r map isod yn dangos lleoliad y fferyllfeydd a'r practisau cyflenwi. Dylid nodi y bydd y symbolau'n gorgyffwrdd lle mae'r safleoedd yn agos at ei gilydd.

Map 21.1 – lleoliad y fferyllfeydd a'r safleoedd meddygon fferyllol



© OpenStreetMap © CARTO

Safleoedd meddygfeydd fferyllol

Fferyllfa

[199] Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Cynllun Datblygu Lleol Wrecsam 2013 i 2028
[200] Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Hysbysiad Tynnu'n Ôl Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam 2013-2028

Yn 2024/25, cafodd 73.8% o'r presgripsiynau a ysgrifennwyd gan y practisau meddygon teulu yn yr ardal leol eu dosbarthu gan fferyllfa yn yr ardal leol, a gwnaeth y practisau cyflenwi ddosbarthu neu roi'n bersonol 6.5% o'r eitemau a roddwyd ar bresgripsiwn. Er nad yw'r data sydd ar gael yn dangos y rhaniad canrannol rhwng eitemau a ddosbarthwyd ac eitemau a roddwyd yn bersonol, yn seiliedig ar nifer yr eitemau a roddir yn bersonol mewn mannau eraill yng Nghymru, gellir tybio bod llai na 2% o'r eitemau wedi'u rhoi'n bersonol.

Yn ystod naw mis cyntaf 2025/26, cafodd 72.2% o'r presgripsiynau a ysgrifennwyd gan y practisau meddygon teulu yn yr ardal leol eu dosbarthu gan fferyllfa yn yr ardal leol, a gwnaeth y practisau cyflenwi ddosbarthu neu roi'n bersonol 9.5% o'r eitemau a roddwyd ar bresgripsiwn. Cafodd llai na 2% o'r eitemau eu rhoi'n bersonol.

Mae'r map ym mhennod 5 yn dangos nad yw'r holl ardal leol o fewn taith 20 munud mewn car i fferyllfa. Mae'r ardal i'r gorllewin o Bentref yn dirwedd fryniog yn cynnwys ychydig o dai/ffermydd gwasgaredig. Mae'r ardal yn y dwyrain sydd i'r de o Bronington yn cynnwys Gwarchodfa Natur Genedlaethol Fenn's, Whixall & Bettisfield.

O ran pryd mae'r fferyllfeydd ar agor:

- Mae tair ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener, ac
- Mae saith ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener a bore Sadwrn.

O ran yr amseroedd y mae'r fferyllfeydd hyn ar agor rhwng dydd Llun a dydd Gwener:

- Mae pump yn agor am 08.30 a phump yn agor am 09.00,
- Mae'r amseroedd cau yn amrywio rhwng 17.00 a 18.30, er bod un fferyllfa yn cau am 12.30 ar ddydd Mercher.

Mae pob fferyllfa ond un yn cau am ginio ar wahanol adegau rhwng 12.00 a 14.00.

Ar ddydd Sadwrn, mae saith fferyllfa yn agor am 09.00, gydag un yn cau am 12.00 a'r gweddill yn cau am 13.00. Mae gan chwe fferyllfa oriau agor craidd ar fore Sadwrn.

Nid oes yr un fferyllfa yn agor ar ddydd Sul.

Mae'r bwrdd iechyd yn gofyn i'r fferyllfeydd a fyddant ar agor ar wyliau cyhoeddus a gwyliau banc a Dydd Sul y Pasg. Caiff yr ymatebion eu coladu, a bydd y bwrdd iechyd yn ystyried a oes unrhyw fylchau daearyddol yn y ddarpariaeth ai peidio. Os oes unrhyw fylchau, caiff fferyllfeydd naill ai eu comisiynu neu eu cyfarwyddo i agor.

Ymatebodd naw fferyllfa i'r holiadur i gontractwyr fferylliaeth ac mae'r wybodaeth ganlynol wedi'i chymryd o'r ymatebion hynny.

Mae wyth fferyllfa yn hygyrch i gadeiriau olwyn, ac mae gan bob un ohonynt ardal ymgynghori sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn. Mae gan y fferyllfa nad yw'n hygyrch i

gadeiriau olwyn ardal ymgynghori sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn. Mae pob un o'r naw ardal ymgynghori yn:

- ystafelloedd caeedig,
- ardal ddynodedig lle gall y claf a'r fferyllydd eistedd i lawr gyda'i gilydd a siarad ar lefel sain arferol heb gael eu clywed, ac
- ardal wedi'i dynodi'n glir ar gyfer ymgyngoriadau cyfrinachol ar wahân i ardaloedd cyhoeddus cyffredinol y fferyllfa.

Mae gan bum fferyllfa siaradwyr Cymraeg. Dywedodd pum fferyllfa fod eu staff yn siarad ieithoedd eraill.

- Rwmaneg.
- Hindi, Gwjarati, Wrdw a Phwyleg.
- Pwyleg.
- Asante Twi.
- Wrdw.

Mae pob un o'r naw fferyllfa yn dosbarthu presgripsiynau ar gyfer pob math o.

Mae pob un o'r naw fferyllfa yn casglu presgripsiynau gan bractisau meddygon teulu. O ran cludo eitemau fferyllol:

- mae tair yn darparu gwasanaeth cludo am ddim ar gais, ac
- mae chwech yn cyfyngu'r gwasanaeth i gleifion oedrannus a chleifion agored i niwed sy'n gaeth i'r tŷ.

Nid oedd yr un fferyllfa o'r farn bod angen gwasanaeth clinigol ychwanegol presennol, nac unrhyw wasanaeth newydd, yn yr ardal.

Cadarnhaodd wyth fferyllfa fod ganddynt ddigon o gapasiti ar eu safleoedd presennol i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau y maent yn eu darparu, a dywedodd y nawfed y byddai'n gallu gwneud addasiadau. Cadarnhaodd un fferyllfa fod ganddi ddigon o gapasiti o fewn ei lefelau staffio, a dywedodd wyth nad oes ganddynt ddigon o gapasiti ond y gallent wneud addasiadau er mwyn ymdopi â chynnydd yn y galw.

Mae gan wyth fferyllfa gynlluniau i ddatblygu neu ehangu eu safle neu'r gwasanaeth a ddarperir ganddynt.

- Mae dwy yn bwriadu dechrau darparu'r gwasanaeth fferyllydd-bresgripsiynydd annibynnol yn 2026.
- Mae un yn archwilio'r opsiwn o ymestyn ei horiau agor.
- Mae gan un fferyllfa fferyllydd sy'n bwriadu dechrau ei hyfforddiant presgripsiynydd annibynnol yn 2027 os gall ddod o hyd i ymarferydd presgripsiynu dynodedig.
- Mae angen ystafell ymgynghori ychwanegol ar un fferyllfa, ond mae angen iddi sicrhau cyllid ar ei chyfer.

Ni chafwyd unrhyw ymatebion i'r holiadur i feddygon fferyllol.

21.2.1 Gwasanaeth fferyllfa gymunedol glinigol

Roedd pob fferyllfa wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn ac yn 2025/26 gwnaethant ddarparu

- 7,633 o ymgyngoriadau ar gyfer anhwylderau cyffredin a 235 o ymgyngoriadau ar gyfer dulliau atal cenhedlu
- 1,346 o gyflenwadau o feddyginiaethau brys

21.2.2 Gwasanaeth adolygu meddyginiaethau wrth ryddhau

Yn 2025/26, darparodd saith fferyllfa y gwasanaeth hwn gan gwblhau 292 o adolygiadau.

21.2.3 Gwasanaeth presgripsiynu annibynnol fferyllwyr

Cafodd pedair fferyllfa eu comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn ystod 2025/26 a darparwyd cyfanswm o 1,943 o ymgyngoriadau dros y flwyddyn.

21.2.4 Gwasanaeth brechu rhag y ffliw tymhorol

Cafodd naw fferyllfa eu comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn ystod 2025/26 a darparwyd cyfanswm o 910 o frechiadau.

21.2.5 Addasu cyfarpar stoma

Nid yw'r un fferyllfa yn yr ardal leol yn darparu'r gwasanaeth hwn er eu bod yn dosbarthu presgripsiynau ar gyfer cyfarpar.

21.2.6 Gwasanaeth adolygu'r defnydd o gyfarpar

Nid yw'r un fferyllfa yn yr ardal leol yn darparu'r gwasanaeth hwn er eu bod yn dosbarthu presgripsiynau ar gyfer cyfarpar.

21.2.7 Gwasanaeth cyflenwi profion llif unffordd

Cafodd naw fferyllfa eu comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn ystod 2025/26.

21.2.9 Gwasanaeth profi am feirysau a gludir yn y gwaed

Cafodd un fferyllfa ei chomisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn ystod 2025/26.

21.2.10 Gwasanaeth brechu Covid-19

Ni chafodd yr un fferyllfa ei chomisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn ystod 2025/26.

21.2.7 Gwasanaeth Helpa fi i stopio yn y fferyllfa

Cafodd naw fferyllfa eu comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn ystod 2025/26.

21.2.13 Gwasanaeth adolygu anadlyddion

Cafodd naw fferyllfa eu comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn ystod 2025/26.

21.2.16 Gwasanaeth cyflenwi Naloxone

Cafodd un fferyllfa ei chomisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn ystod 2025/26.

21.2.17 Gwasanaeth cenedlaethol cymorth i gartrefi gofal

Cafodd un fferyllfa ei chomisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn ystod 2025/26.

21.2.18 Dychwelyd blychau offer miniog cleifion

Cafodd pob fferyllfa ei chomisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn ystod 2025/26.

21.2.19 Gwasanaeth rhoi'r gorau i smygu lefel 2

Yn 2025/26 cafodd pob fferyllfa ei chomisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

21.2.21 Gwasanaeth rhoi meddyginiaeth dan oruchwyliaeth

Cafodd naw fferyllfa eu comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn ystod 2025/26.

21.2.22 Rhaglenni nodwyddau a chwistrellau

Cafodd 5 fferyllfa eu comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn ystod 2025/26.

21.2.23 Gwasanaeth meddyginiaethau brys

Ni chafodd yr un fferyllfa ei chomisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn ystod 2025/26.

21.3 Y gwasanaethau fferyllol a ddarperir ar hyn o bryd y tu allan i'r ardal leol

Mae rhai trigolion yn dewis defnyddio contractwyr y tu allan i'r ardal leol ac ardal y bwrdd iechyd er mwyn manteisio ar wasanaethau:

- A gynigir gan gontractwyr dosbarthu cyfarpar
- Sydd wedi'u lleoli'n agos at y mannau lle maent yn gweithio, yn siopa, neu'n ymweld â nhw at ddibenion hamdden neu ddibenion eraill.

Er bod y rhan fwyaf o'r presgripsiynau a ysgrifennwyd gan y practisau meddygon teulu yn 2024/25 wedi'u dosbarthu naill ai gan y fferyllfeydd yn yr ardal leol neu'r practisau cyflenwi, cafodd 19.7% eu dosbarthu y tu allan i'r ardal leol:

- 10.2% yng Nghanol Wrecsam,
- 6.7% yn Lloegr,
- Cafodd 1.1% eu rhoi'n bersonol gan bractisau meddygon teulu,
- 1.0% yng Ngogledd a Gorllewin Wrecsam,
- 0.3% yng Ngogledd Ddwyrain Sir y Fflint,
- 0.2% yng Nghanol a De Sir Ddinbych,
- 0.2% yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, a
- 0.1% yn Ne Sir y Fflint.

Yn ystod naw mis cyntaf 2025/26, cafodd y rhan fwyaf o'r presgripsiynau eu dosbarthu naill ai gan y fferyllfeydd neu'r practisau cyflenwi yn yr ardal leol. Cafodd 18.0% eu dosbarthu y tu allan i'r ardal leol:

- 10.2% yng Nghanol Wrecsam,
- 5.9% yn Lloegr,
- 0.9% yng Ngogledd a Gorllewin Wrecsam,
- 0.3% yng Ngogledd Ddwyrain Sir y Fflint,
- 0.2% yng Nghanol a De Sir Ddinbych,
- 0.2% yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro,
- 0.1% yn Nwyrain Conwy,
- 0.1% yng Ngogledd Sir Ddinbych, a
- 0.1% yn Ne Sir y Fflint.

Yn ogystal, mae'n bosibl bod trigolion wedi defnyddio un neu fwy o'r gwasanaethau fferyllol a ddarperir gan fferyllfa arall y tu allan i'r ardal leol ac ardal y bwrdd iechyd; fodd bynnag, nid yw'n bosibl meintioli'r gweithgarwch hwn o'r data a gofnodwyd.

21.4 Gwasanaethau eraill y GIG

Mae manylion am wasanaethau'r GIG sy'n effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol i'w gweld ym mhennod chwech.

21.5 Dewis o ran defnyddio gwasanaethau fferyllol

Fel y gwelir o adrannau 21.2 a 21.3, mae'r rhai sy'n byw yn yr ardal leol ac sydd wedi'u cofrestru gydag un o'r practisau meddygon teulu fel arfer yn dewis defnyddio un o'r fferyllfeydd yn yr ardal leol er mwyn cael eu presgripsiynau wedi'u dosbarthu neu, os ydynt yn gymwys, eu practis meddyg teulu. Mae'r rhai sy'n edrych y tu allan i'r ardal leol fel arfer yn gwneud hynny er mwyn defnyddio fferyllfa gyfagos neu gontractwr cyfarpar fferyllol y tu allan i ardal y bwrdd iechyd.

Yn 2024/25, gwnaeth mwy na 124 o gontractwyr ddosbarthu eitemau a ysgrifennwyd gan un o bractisau meddygon teulu yr ardal leol hon, ac o blith y rhain:

- roedd deg wedi'u lleoli o fewn yr ardal leol,
- roedd 98 wedi'u lleoli mewn mannau eraill yn ardal y bwrdd iechyd
- roedd 26 wedi'u lleoli mewn mannau eraill yng Nghymru,
- cafodd nifer o bresgripsiynau eu dosbarthu yn Lloegr

Yn ystod deg mis cyntaf 2025/26, gwnaeth mwy na 115 o gontractwyr ddosbarthu eitemau a ysgrifennwyd gan un o bractisau meddygon teulu yr ardal leol hon, ac o blith y rhain:

- roedd deg wedi'u lleoli o fewn yr ardal leol,
- roedd 92 wedi'u lleoli mewn mannau eraill yn ardal y bwrdd iechyd,
- roedd 21 wedi'u lleoli mewn mannau eraill yng Nghymru,
- cafodd nifer o bresgripsiynau eu dosbarthu yn Lloegr.

21.6 Bylchau yn y ddarpariaeth

Er nad ydynt yn ddarparwyr gwasanaethau fferyllol na gwasanaethau eraill y GIG fel y'u diffinnir yn y rheoliadau, mae'r bwrdd iechyd wedi ystyried y fferyllfeydd dros y ffin yn Lloegr. Mae'r map isod yn dangos lleoliad y fferyllfeydd hynny.

Map 21.2 – lleoliad fferyllfeydd yn Lloegr



© Hawlfraint cyfranwyr Parallel 2026 | Arolwg Ordnans | Mapbox | OpenStreetMap

Wrth ystyried a oes unrhyw fylchau yn y gwasanaethau fferyllol a ddarperir mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod wyth fferyllfa wedi cadarnhau bod ganddynt ddigon o gapasiti ar eu safleoedd presennol i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau y maent yn eu darparu. Cadarnhaodd un fferyllfa fod ganddi ddigon o gapasiti o fewn ei lefelau staffio, a dywedodd wyth nad oes ganddynt ddigon o gapasiti ond y gallent wneud addasiadau er mwyn ymdopi â chynnydd yn y galw.

21.6.1 Gwasanaethau hanfodol

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi'r canlynol:

- Mae'r fferyllfeydd wedi'u gwasgaru ar draws yr ardal leol ac fel arfer maent wedi'u lleoli mewn ardaloedd â lefelau amddifadedd uwch. Mae'r practisau cyflenwi fel arfer wedi'u lleoli mewn ardaloedd â lefelau amddifadedd is.
- Nid yw rhai rhannau o'r ardal leol o fewn taith 20 munud mewn car i fferyllfa, fodd bynnag, nid oes unrhyw boblogaeth breswyl yn yr ardaloedd hynny neu dim ond ychydig o eiddo gwasgaredig sydd yno. O ystyried y fferyllfa dros y ffin â Lloegr yn Whitchurch, mae'r ardaloedd yn y dwyrain o fewn taith 20 munud mewn car i fferyllfa yn Lloegr.
- Y datblygiadau tai y gwyddys amdanynt.
- Oriau agor y fferyllfeydd.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol am y gwasanaethau hyn.

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi, pe bai gwasanaethau hanfodol yn cael eu colli oherwydd bod fferyllfa yn cael ei thynnu oddi ar y rhestr fferyllol mewn tref/pentref, y bydd angen yn y dyfodol naill ai am:

- fferyllfa newydd yn yr un dref/pentref sy'n darparu gwasanaethau hanfodol, y gwasanaeth fferyllfa gymunedol glinigol, dychwelyd blychau offer miniog cleifion, gwasanaeth rhoi meddyginiaethau dan oruchwyliaeth, gwasanaeth Helpa fi i stopio yn y fferyllfa, a gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu lefel 2 am 40 awr agor graidd yr wythnos, neu
- wasanaeth dosbarthu meddyginiaethau gan feddygon teulu os yw'r dref/pentref mewn ardal a reolir,

oni bai bod fferyllfa arall yn y dref/pentref ac yna ni fydd yr angen hwn yn codi yn y dyfodol.

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi, pe bai oriau agor atodol yn cael eu colli ar ddydd Sadwrn o 1 Hydref 2026, a hynny'n arwain at lai na thair awr o wasanaethau fferyllol yn cael eu darparu mewn tref/pentref, y bydd angen yn y dyfodol i ddarparu gwasanaethau hanfodol am dair awr agor graidd ar ddydd Sadwrn yn y dref/pentref neu'r trefi/pentrefi lle mae'r gostyngiad mewn oriau agor atodol wedi digwydd, rhwng 09.00 a 17.00, oni bai bod fferyllfa arall yn y dref/pentref, ac yna ni fydd yr angen yn y dyfodol yn codi.

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi, pe bai practis meddyg teulu yn rhoi'r gorau i ddosbarthu i ardal y mae ganddo gydsyniad amlinellol ar ei chyfer, y bydd angen yn y dyfodol naill ai am:

- wasanaeth dosbarthu gan feddygon teulu yn yr ardal honno tra ei bod yn parhau i fod yn ardal leol a reolir ac yn fwy nag 1.6km mewn llinell syth o fferyllfa, neu
- fferyllfa sydd ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener o leiaf, ac sy'n darparu:
    - pob un o'r gwasanaethau hanfodol, a'r
    - gwasanaeth fferyllfa gymunedol glinigol, dychwelyd blychau offer miniog cleifion, gwasanaeth rhoi meddyginiaethau dan oruchwyliaeth, gwasanaeth Helpa fi i stopio yn y fferyllfa, a gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu lefel 2.

21.6.2 Gwasanaeth fferyllfa gymunedol glinigol

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi y cafodd pob fferyllfa ei chomisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn ystod 2025/26. Felly nid yw wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol nac yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal leol.

21.6.3 Gwasanaeth adolygu meddyginiaethau wrth ryddhau

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod saith fferyllfa wedi darparu'r gwasanaeth hwn yn ystod 2025/26. Nid yw wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol nac yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal leol.

21.6.4 Gwasanaeth presgripsiynu annibynnol fferyllwyr

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi'r canlynol:

- Cafodd pedair fferyllfa eu comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn ystod 2025/26.
- Mae dwy yn bwriadu dechrau darparu'r gwasanaeth hwn yn 2026.
- Y dyhead a nodir yn Fferylliaeth: Cyflawni Cymru Iachach' yw y bydd gan bob fferyllfa bresgripsiynydd annibynnol erbyn 2030, ac mae wedi gosod targedau dros dro, sef y bydd 50% o'r fferyllfeydd ym mhob ardal leol yn darparu'r gwasanaeth hwn erbyn mis Ebrill 2027 a 70% erbyn mis Ebrill 2029.
- O 2026 ymlaen, rhagwelir y bydd pob fferyllydd newydd gymhwyso hefyd yn cymhwyso fel presgripsiynydd annibynnol ar ôl cwblhau ei raglen israddedig

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal leol.

Os na fydd y targedau dros dro yn cael eu cyflawni, bydd angen yn y dyfodol i nifer digonol o fferyllfeydd yn yr ardal leol ddarparu'r gwasanaeth hwn er mwyn cyflawni'r ddau darged.

21.6.5 Gwasanaeth brechu rhag y ffliw tymhorol

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi'r canlynol:

- Cafodd naw fferyllfa eu comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn ystod 2025/26.
- Mae eraill yn darparu'r gwasanaeth, er enghraifft y practisau meddygon teulu.

Nid yw wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol nac yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal leol.

21.6.6 Addasu cyfarpar stoma

Er nad oes yr un fferyllfa yn darparu'r gwasanaeth hwn, mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod presgripsiynau ar gyfer cyfarpar yn cael eu dosbarthu gan gontractwyr mewn mannau eraill yng Nghymru a hefyd yn Lloegr.

Felly, rhagwelir y bydd y contractwyr hyn yn addasu cyfarpar stoma yn ôl yr angen cyn eu dosbarthu neu eu danfon at gleifion.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal leol.

21.6.7 Gwasanaeth adolygu'r defnydd o gyfarpar

Er nad oes yr un fferyllfa yn darparu'r gwasanaeth hwn, mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod presgripsiynau ar gyfer cyfarpar yn cael eu dosbarthu gan gontractwyr mewn mannau eraill yng Nghymru a hefyd yn Lloegr.

Mae'n debygol y bydd unigolion a bydd angen y gwasanaeth adolygu'r defnydd o gyfarpar arnynt yn cael y gwasanaeth hwn drwy'r contractwr sy'n dosbarthu eu presgripsiynau ar gyfer cyfarpar, neu drwy ddarparwyr gofal iechyd eraill, megis nyrsys stoma.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal leol.

21.6.8 Gwasanaeth cyflenwi profion llif unffordd

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi y cafodd naw fferyllfa eu comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn ystod 2025/26. Mae hefyd wedi nodi mai dim ond i grwpiau cleifion penodol y mae'r gwasanaeth hwn ar gael. Pe bai un o'r fferyllfeydd nad ydynt yn darparu'r gwasanaeth yn nodi bod angen amdano, byddai'r bwrdd iechyd yn comisiynu'r gwasanaeth gan y fferyllfa honno. O ganlyniad, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal leol.

21.6.9 Gwasanaeth profi am feirysau a gludir yn y gwaed

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod un fferyllfa wedi cael ei chomisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn ystod 2025/26. Fodd bynnag, mae eraill yn darparu'r gwasanaeth, er enghraifft tîm lleihau niwed y bwrdd iechyd.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal leol.

21.6.10 Gwasanaeth brechu Covid-19

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi nad oedd yr un fferyllfa wedi'i chomisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn ystod 2025/26. Mae hefyd wedi nodi bod practisau meddygon teulu a thîm brechu'r bwrdd iechyd yn darparu'r gwasanaeth.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal leol.

21.6.11 Gwasanaeth Helpa fi i Stopio yn y fferyllfa

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi'r canlynol:

- Cafodd naw fferyllfa eu comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn ystod 2025/26.
- Mae'r galw am y gwasanaeth yn deillio o bobl sy'n dymuno rhoi'r gorau i ysmygu.
- Mae eraill yn darparu'r gwasanaeth, er enghraifft Helpa Fi i Stopio i Fy Mabi, Helpa Fi i Stopio yn yr Ysbyty, a'r gwasanaeth Helpa Fi i Stopio yn gyffredinol.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal leol.

21.6.12 Gwasanaeth adolygu anadlyddion

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi'r canlynol:

- Cafodd naw fferyllfa eu comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn ystod 2025/26.
- Mae practisau meddygon teulu hefyd yn darparu'r gwasanaeth.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal leol.

21.6.13 Gwasanaeth cyflenwi Naloxone

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi'r canlynol:

- Cafodd un fferyllfa ei chomisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn ystod 2025/26.
- Mae eraill yn darparu'r gwasanaeth, megis tîm lleihau niwed y bwrdd iechyd a'r gwasanaeth clicio ac anfon a ddarperir gan DAN24/7.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal leol.

21.6.14 Gwasanaeth cenedlaethol cymorth i gartrefi gofal

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi'r canlynol:

- Cafodd un fferyllfa ei chomisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn ystod 2025/26.
- Caiff y gwasanaeth ei ddarparu gan fferyllfeydd i'r cartrefi gofal y maent yn darparu gwasanaethau iddynt, neu pan fo cartref gofal wedi gofyn am y gwasanaeth.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal leol.

21.6.15 Dychwelyd blychau offer miniog cleifion

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi y cafodd pob fferyllfa ei chomisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn ystod 2025/26. Felly nid yw wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal leol.

21.6.16 Rhoi'r gorau i smygu lefel 2

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi y cafodd pob fferyllfa ei chomisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn ystod 2025/26. Felly nid yw wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal leol.

21.6.17 Gwasanaeth rhoi meddyginiaeth dan oruchwyliaeth

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi y cafodd naw fferyllfa eu comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn ystod 2025/26. Nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal leol.

21.6.18 Rhaglenni nodwyddau a chwistrellau

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi'r canlynol:

- Cafodd pum fferyllfa eu comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn ystod 2025/26.
- Mae eraill yn darparu'r gwasanaeth, ac mae gwasanaeth postio’n cael ei sefydlu ar gyfer y rhai na allant ddefnyddio fferyllfa.
- Os gofynnir i fferyllfa ddarparu'r gwasanaeth, gall gysylltu â'r bwrdd iechyd a gofyn am gael ei chomisiynu i'w ddarparu.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol nac yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal leol.

21.6.19 Gwasanaeth meddyginiaethau brys

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi nad oedd yr un fferyllfa wedi'i chomisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn ystod 2025/26. Oherwydd natur y gwasanaeth, caiff ei chomisiynu er mwyn sicrhau dosbarthiad daearyddol da o fferyllfeydd sy'n ei ddarparu ar draws ardal y bwrdd iechyd.

Felly nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd nac yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal leol.

21.6.20 Gwasanaeth dosbarthu meddyginiaethau gan feddygon teulu

Nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar hyn o bryd mewn perthynas â'r gwasanaeth hwn.

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi, pe bai practis meddyg teulu yn rhoi'r gorau i ddosbarthu i ardal y mae ganddo gydsyniad amlinellol ar ei chyfer, y bydd angen yn y dyfodol naill ai am:

- wasanaeth dosbarthu gan feddygon teulu yn yr ardal honno tra ei bod yn parhau i fod yn ardal leol a reolir ac yn fwy nag 1.6km mewn llinell syth o fferyllfa, neu
- fferyllfa sydd ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener o leiaf, ac sy'n darparu:
    - pob un o'r gwasanaethau hanfodol, a'r
    - gwasanaeth fferyllfa gymunedol glinigol, offer miniog cleifion, rhoi'r gorau i smygu lefel 2, a gwasanaeth helpa fi i stopio yn y fferyllfa.

22 Casgliadau at ddiben atodlen 1 o Reoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020

Mae'r asesiad o anghenion fferyllol wedi ystyried darpariaeth bresennol gwasanaethau fferyllol ar draws ardal y bwrdd iechyd ochr yn ochr â demograffeg ac anghenion iechyd y boblogaeth. Mae wedi dadansoddi p'un a yw'r ddarpariaeth bresennol yn diwallu anghenion y boblogaeth a pha un a oes unrhyw fylchau o ran darparu gwasanaethau fferyllol naill ai nawr neu o fewn oes y ddogfen hon.

22.1 Y ddarpariaeth bresennol

Mae'r bwrdd iechyd wedi canfod y gwasanaethau canlynol fel rhai sy'n angenrheidiol i ddiwallu'r angen am wasanaethau fferyllol yn ei ardal:

- Gwasanaethau hanfodol a chlinigol ychwanegol sy'n cael eu darparu ar safleoedd sydd wedi'u cynnwys ar y rhestrau fferyllol
- Y gwasanaeth dosbarthu fferyllol a ddarperir gan y practisau meddygon teulu hynny sydd wedi'u cynnwys yn y rhestr o feddygon fferyllol.

Mae adrannau blaenorol o'r ddogfen hon wedi amlinellu darpariaeth o ran y gwasanaethau hyn ym mhob ardal leol.

Mae hefyd wedi nodi darpariaeth o ran y gwasanaethau uchod yn ôl contractwyr y tu allan i'w ardal, boed hynny mewn mannau eraill yng Nghymru neu yn Lloegr, fel rhywbeth sy'n cyfrannu at ddiwallu'r angen am wasanaethau fferyllol yn ei ardal.

22.2 Gwasanaethau GIG Eraill

Wrth ymgymryd â'r asesiad o anghenion fferyllol hwn, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr o'r farn bod ar y gwasanaethau GIG a ganlyn angen am wasanaethau fferyllol ac mae wedi'u hystyried:

- Gwasanaethau ysbyty
- Darparu cyffuriau, meddyginiaethau a chyfarpar ar gyfer triniaeth gychwynnol neu weinyddiaeth bersonol gan feddygon teulu
- Gwasanaeth meddygon teulu y tu allan i oriau
- Unedau mân anafiadau
- Canolfannau gofal sylfaenol brys
- Rhagnodi gan ddeintyddion ac optometryddion
- Gwasanaeth fferylliaeth CEF Berwyn
- Gwasanaethau camddefnyddio sylweddau
- Helpa Fi i Stopio
- Gwasanaethau a ddarperir gan feddygon teulu fel rhan o'u contract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol
- Y cynllun triniaethau amgen
- Hosbisau
- Gwasanaethau iechyd rhywiol, a
- Gwasanaethau eraill a ddarperir mewn lleoliad cymunedol.

Mae rhagor o fanylion am y rhain ar gael ym mhennod 6.

22.3 Y bylchau presennol o ran darpariaeth

22.3.1 Mynediad presennol at wasanaethau hanfodol

Er mwyn asesu darpariaeth gwasanaethau hanfodol o ran anghenion y boblogaeth, gwnaeth y bwrdd iechyd ystyried mynediad (amseroedd teithio ac oriau agor) fel y ffactor pwysicaf o ran pennu i ba raddau y mae darpariaeth bresennol gwasanaethau hanfodol yn diwallu anghenion y boblogaeth.

Cytunwyd ar amser teithio safonol o 20 munud mewn car a chafodd amseroedd teithio i fferyllfa ar gyfer y boblogaeth eu mapio yn unol â'r safon honno. Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod y rhan helaethaf o'i boblogaeth o fewn taith 20 munud mewn car i fferyllfa.

Mae'r bwrdd iechyd wedi canfod un angen presennol mewn perthynas â darparu gwasanaethau hanfodol, yn ardal leol Gorllewin Conwy.

Ar hyn o bryd, mae angen fferyllfa ym Metws-y-coed, sydd ag o leiaf, oriau agor craidd fel a ganlyn:

- O 09.00 hyd at 17.00 o ddydd Llun i ddydd Gwener, a
- Chwe awr ar ddydd Sadwrn.

Mae'n rhaid i'r fferyllfa ddarparu'r holl wasanaethau hanfodol.

22.3.2 Mynediad presennol at wasanaethau clinigol ychwanegol

Mae'r bwrdd iechyd wedi canfod un angen ar hyn o bryd mewn perthynas â darparu gwasanaethau clinigol ychwanegol, yn ardal leol Gorllewin Conwy.

Ar hyn o bryd, mae angen fferyllfa ym Metws-y-coed sy'n darparu'r gwasanaethau clinigol ychwanegol a ganlyn o'r pwynt y caiff ei chynnwys ar y rhestr fferyllol:

- gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol
- darpariaeth i gleifion ddychwelyd offer miniog,
- gwasanaeth rhoi'r gorau i ysmygu lefel 2, a
- gwasanaeth fferyllfa Helpa fi i Stopio

22.3.3 Mynediad presennol at wasanaeth meddygon fferyllol

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi'r gwasanaeth dosbarthu fferyllol a ddarperir gan 34 o'r practisau meddygon teulu i gleifion cymwys ac nid yw wedi canfod unrhyw anghenion ar hyn o bryd mewn perthynas â darparu'r gwasanaeth hwn.

22.4 Bylchau o ran darpariaeth yn y dyfodol

Mae'r bwrdd iechyd wedi ystyried y materion a ganlyn:

- twf rhagolygol y boblogaeth,
- poblogaeth sy'n heneiddio,
- y datblygiadau tai sy'n hysbys, a
- y cyfeiriad gweithredu a amlinellir yn Fferylliaeth: Cyflawni Cymru Iachach.

22.4.1 Mynediad at wasanaethau hanfodol yn y dyfodol

Mae'r bwrdd iechyd wedi canfod yr anghenion canlynol am wasanaethau hanfodol mewn perthynas â phob un o'r ardaloedd lleol yn y dyfodol.

Mae'r bwrdd iechyd wedi canfod pe câi oriau agor ychwanegol eu colli ar ddydd Sadwrn o 1 Hydref 2026 sy'n arwain at lai na thair awr o ddarpariaeth o ran gwasanaethau fferyllol o fewn tref/pentref, y byddai angen darparu gwasanaethau hanfodol ar gyfer tair awr agor craidd yn y dyfodol ar ddydd Sadwrn yn y dref/pentref neu'r trefi/pentrefi lle mae'r lleihad mewn oriau agor ychwanegol wedi codi, rhwng 09.00 a 17.00, oni bai bod fferyllfa arall yn y dref/pentref hwnnw ac yna, ni fyddai'r angen yn codi yn y dyfodol.

Mae'r bwrdd iechyd wedi canfod pe câi gwasanaethau hanfodol eu colli gan fod fferyllfa'n tynnu'n ôl o'r rhestr fferyllol, byddai angen yn y dyfodol naill ai am y canlynol:

- fferyllfa newydd yn yr un tref/pentref yn darparu gwasanaethau hanfodol, y gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol, darpariaeth i gleifion ddychwelyd blychau offer miniog, gwasanaeth gweinyddu o dan oruchwyliaeth, gwasanaeth fferyllfa Helpa Fi i Stopio, a gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu lefel 2 ar gyfer 40 o oriau agor craidd bob wythnos, neu
- gwasanaeth meddygon fferyllol gan feddyg teulu os yw'r dref/pentref mewn ardal leol sydd wedi'i rheoli,

oni bai bod fferyllfa arall yn y dref/pentref hwnnw ac yna, ni fyddai'r angen hwn yn codi yn y dyfodol.

Mae'r bwrdd iechyd wedi canfod pe bai practis meddyg teulu'n rhoi'r gorau i ddosbarthu i ardal y mae ganddo gydsyniad amlinellol ar ei chyfer, byddai angen yn y dyfodol naill ai am:

- y gwasanaeth meddygon fferyllol i gael ei ddarparu ar gyfer yr ardal honno tra bydd yn parhau i fod yn ardal leol sydd wedi'i rheoli ac sy'n fwy na 1.6km mewn llinell unionsyth o fferyllfa, neu
- fferyllfa sydd ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener o leiaf, gan ddarparu:
    - pob un o'r gwasanaethau hanfodol, a'r
    - gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol, darpariaeth i gleifion ddychwelyd blychau offer miniog, gwasanaeth gweinyddu o dan oruchwyliaeth, gwasanaeth fferyllfa Helpa Fi i Stopio, a gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu lefel 2.

Mae'r bwrdd iechyd wedi canfod un angen penodol yn y dyfodol mewn perthynas â darparu gwasanaethau clinigol ychwanegol, yn ardal leol Gogledd Sir Ddinbych.

Pe bai'r fferyllfa ym Modelwyddan yn tynnu'n ôl o'r rhestr fferyllol, byddai angen yn y dyfodol am fferyllfa newydd yn y dref i ddarparu gwasanaethau hanfodol yn ystod yr oriau agor craidd a ganlyn:

- O leiaf ddeg awr agor craidd bob dydd o ddydd Llun i ddydd Gwener,
- Chwe awr agor craidd ar ddydd Sadwrn, a
- Chwe awr agor craidd ar ddydd Sul.

22.4.2 Mynediad at wasanaethau clinigol ychwanegol yn y dyfodol

Mae'r bwrdd iechyd wedi canfod yr angen canlynol yn y dyfodol mewn perthynas â gwasanaeth fferyllydd-ragnodydd annibynnol, mewn perthynas â phob un o'r ardaloedd lleol.

Mae'r bwrdd iechyd wedi mabwysiadu'r dyhead sydd wedi'i amlinellu yn Fferylliaeth: Cyflawni Cymru Iachach i bob fferyllfa fod â rhagnodydd annibynnol erbyn 2030 a'r targedau dros dro i 50% o fferyllfeydd ddarparu'r gwasanaeth hwn ym mhob ardal leol erbyn Ebrill 2027 a 70% erbyn Ebrill 2029.

Pe na châi'r targedau dros dro eu cyrraedd mewn ardal leol, byddai angen yn y dyfodol i fferyllfeydd digonol ddarparu'r gwasanaeth hwn yn yr ardal leol honno er mwyn cyrraedd y ddau darged.

Mae'r bwrdd iechyd wedi canfod un angen yn y dyfodol mewn perthynas â darparu'r gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol, yn ardal leol Gogledd Sir Ddinbych.

Bydd y bwrdd iechyd yn gweithio gyda'r unig fferyllfa nad yw'n darparu'r gwasanaeth hwn. Fodd bynnag, pe na eid i'r afael â'r bwlch hwn, yna o 1 Ebrill 2027, byddai angen yn y dyfodol i'r gwasanaeth hwn gael ei ddarparu ym Modelwyddan, saith niwrnod o'r wythnos am:

- wyth awr y dydd o ddydd Llun i ddydd Gwener,
- chwe awr ar ddydd Sadwrn i gynnwys o 13.00 hyd at 15.00, a
- thair awr ar ddydd Sul ar ôl 12 canol dydd.

22.4.3 Mynediad yn y dyfodol at wasanaeth meddygon fferyllol

Mae'r bwrdd iechyd wedi canfod pe bai practis meddyg teulu'n rhoi'r gorau i ddosbarthu i ardal y mae ganddo gydsyniad amlinellol ar ei chyfer, y byddai angen yn y dyfodol naill ai am:

- y gwasanaeth meddygon fferyllol i gael ei ddarparu ar gyfer yr ardal honno tra bydd yn parhau i fod yn ardal leol sydd wedi'i rheoli ac sy'n fwy na 1.6km mewn llinell unionsyth o fferyllfa, neu
- fferyllfa sydd ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener o leiaf, gan ddarparu:
    - pob un o'r gwasanaethau hanfodol, a
    - y gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol, darpariaeth i gleifion ddychwelyd offer miniog, gwasanaeth rhoi'r gorau i ysmygu lefel 2, a gwasanaeth fferyllfa Helpa Fi i Stopio.

Atodiad A – cyd-destun polisi a phapurau cefndir

Mae Llywodraeth Cymru yn sefydlu'r strwythur cyffredinol y mae fferyllfeydd cymunedol, contractwyr dyroddi cyfarpar a meddygon fferyllol yn gweithredu ynddo drwy ddarparu'r fframwaith deddfwriaethol a pholisi. O fewn y fframwaith, mae'r cyfrifoldeb dros gynllunio a darparu gwasanaethau fferyllol wedi'i roi i fyrddau iechyd ac mae'n rhaid iddynt gynllunio gwasanaethau iechyd i ddiwallu anghenion eu poblogaethau preswyl. Mae hynny'n cynnwys pennu nifer a lleoliad fferyllfeydd a chontractwyr dyroddi cyfarpar yn eu hardaloedd.

Mae'r ddyletswydd gyffredinol i sicrhau y darperir gwasanaethau fferyllol, yn union fel agweddau eraill ar wasanaethau gofal sylfaenol y GIG, wedi'i rhoi'n uniongyrchol i fyrddau iechyd o dan Ddeddf y GIG (Cymru) 2006 (Deddf 2006). Mae byrddau iechyd yn rheoli rhestrau lleol o ddarparwyr cymeradwy, y'u gelwir yn rhestrau fferyllol, ac mae cynnwys safleoedd contractwyr fferyllfeydd a dyroddi cyfarpar ar restrau fferyllol yn rhoi'r hawl i gontractwyr ddarparu gwasanaethau fferyllol y GIG yn y safleoedd hynny.

Mae'r trefniadau hyn yn llywodraethu darparu gwasanaethau fferyllol, nid yr hawl i agor a chynnal busnes fferyllfa yng Nghymru. Ymdrinnir â hynny o dan ddeddfwriaeth ar wahân ledled y DU, sef Deddf Meddyginiaethau 1968.

Mae gan Weinidogion Cymru bwerau a dyletswyddau helaeth i bennu rheoliadau a dyroddi cyfarwyddiadau i fyrddau iechyd, sy'n llywodraethu manylion y system gwasanaethau fferyllol yng Nghymru. Mae hynny'n cynnwys pennu telerau gwasanaethau ar gyfer fferyllfeydd a chontractwyr dyroddi cyfarpar a chymhwyso'r prawf rheoli mynediad, sef y prawf y byddai'n rhaid ei fodloni tan 1 Hydref 2021 cyn y byddai bwrdd iechyd yn caniatáu cais i gael mynediad, neu'n diwygio cofnod, ar y rhestr fferyllol.

O dan Reoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2013 (Rheoliadau 2013), a rheoliadau blaenorol, cyflwynai'r rhai a ddymunai darparu gwasanaethau fferyllol gais i'r bwrdd iechyd yn unol â Rheoliadau 2013. Yna, byddai'r bwrdd iechyd yn penderfynu a oedd y cais yn bodloni'r prawf perthnasol ai peidio. Roedd Rheoliadau 2013 yn caniatáu herio penderfyniad y bwrdd iechyd drwy gyflwyno apêl i Weinidogion Cymru.

Felly, y rhai a oedd yn dymuno darparu gwasanaethau fferyllol oedd yn ysgogi'r system flaenorol o ddarparu gwasanaethau fferyllol. Hwy oedd yn penderfynu pa wasanaethau yr oeddent yn dymuno eu darparu ac o ba leoliad.

Roedd hynny'n golygu bod y system yn ymatebol i geisiadau ac nad oedd byrddau iechyd yn gallu cynllunio ble'r oedd contractwyr gwasanaethau fferylliaeth neu ddyroddi cyfarpar wedi'u lleoli, na chyfarwyddo pa wasanaethau yr oedd yn rhaid eu darparu o'r lleoliadau hynny.

Rhesymeg dros newid

Yn 2010, sefydlodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd Grŵp Gorchwyl a Gorffen i adolygu'r fframwaith rheoleiddio, i ystyried polisi

Llywodraeth Cymru ynghylch rheoli mynediad a darparu gwasanaethau fferyllol gan weithwyr gofal iechyd heblaw fferyllwyr (e.e. meddygon) ac i gynnig argymhellion ar gyfer newidiadau i ddeddfwriaeth, pe bai hynny'n briodol, er mwyn sicrhau system hirdymor, gost-effeithiol a chynaliadwy a fyddai'n cynnig mynediad priodol i gleifion at wasanaethau fferyllol.

Yn 2011, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ynghylch argymhellion y grŵp Gorchwyl a Gorffen. Roedd ymgynghoriad "Cynigion i ddiwygio a moderneiddio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) 1992" yn ceisio barn ynghylch cynigion i gyflwyno dull newydd o benderfynu ar geisiadau i gynnig gwasanaethau fferyllol yng Nghymru yn fwy seiliedig ar asesiad o anghenion lleol gan fyrddau iechyd. Fodd bynnag, cydnabuwyd bod gwneud newid o'r fath yn gofyn am greu a chynnwys pwerau priodol yn Neddf 2006.

Yn dilyn yr ymgynghoriad, daeth Rheoliadau 2013 i rym ar 10 Mai 2013 ond nid oedd yn cynnwys darpariaethau i gyflwyno asesiadau o anghenion fferyllol.

Fe wnaeth Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 (Deddf 2017) fewnosod adran 82A yn Ddeddf 2006 sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer dyletswydd newydd i fyrddau iechyd yng Nghymru i baratoi a chyhoeddi asesiad o'r angen am wasanaethau fferyllol. Rhoddodd Adran 82A bwerau i Weinidogion Cymru lunio rheoliadau sy'n nodi'r gofynion ar gyfer asesiadau o anghenion fferyllol yng Nghymru.

Effaith fwriadedig a chanlyniadau buddiol

Y bwriad wrth gyflwyno asesiadau o anghenion fferyllol yw gwella'r broses o gynllunio a darparu gwasanaethau fferyllol drwy sicrhau bod y byrddau iechyd yn ystyried anghenion fferyllol eu poblogaethau yn drylwyr ac yn sicrhau bod eu gwasanaethau cyd-fynd yn agosach â hwy. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd fabwysiadu dull mwy integredig o nodi anghenion fferyllol poblogaethau, gan gynnwys ystyried cyfraniad pob darparwr gwasanaethau fferyllol (e.e. fferyllfeydd a meddygon sy'n dyroddi meddyginiaethau). Mae byrddau iechyd yn defnyddio'r asesiadau hyn i nodi ble mae angen safleoedd ychwanegol, ble mae darparwyr presennol yn mynd i'r afael ag anghenion fferyllol yn ddigonol, a ble mae angen gwasanaethau ychwanegol o safleoedd presennol.

Mae'r newid yn cynnig mwy o sicrwydd i gontractwyr, gan leihau risgiau busnes a chaniatáu iddynt fuddsoddi mewn darparu gwasanaethau ehangach na'u rhai blaenorol. Yn bwysig, bydd fferyllfeydd yn benodol hefyd yn dod yn fwy ymatebol i anghenion y poblogaethau y maent yn eu gwasanaethu ac yn darparu gwasanaethau'n effeithiol i fynd i'r afael ag anghenion fferyllol a nodir.

Polisi, fframwaith deddfwriaethol a rheoleiddio

Mae Adran 80 Deddf 2006 yn gosod dyletswydd ar fyrddau iechyd i wneud trefniadau ar gyfer darparu'r gwasanaethau fferyllol a nodir yn isadrannau 80(3)(a) i (d). Y gwasanaethau fferyllol craidd hyn yw'r gwasanaethau hanfodol a nodir bellach yn Rhan 2 Rheoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020. Mae dyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio rheoliadau sy'n llywodraethu'r dull byrddau iechyd o wneud y trefniadau hyn.

Mae Adran 81 Deddf 2006 yn nodi'r trefniadau y gall Gweinidogion Cymru eu gwneud ar gyfer darparu gwasanaethau fferyllol ychwanegol. Diffinnir 'gwasanaethau fferyllol ychwanegol' fel gwasanaethau o fath nad ydynt yn dod o dan adran 80, h.y. gwasanaethau cenedlaethol contractwyr fferylliaeth gymunedol a dyroddi cyfarpar (a elwid yn flaenorol yn 'wasanaethau uwch'), a'r gwasanaethau clinigol ychwanegol ym maes fferylliaeth gymunedol (a elwid yn flaenorol yn 'wasanaethau estynedig'). Mae Adran 81 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddiadau i fwrdd iechyd:

(i) ei gwneud yn ofynnol iddo drefnu i wasanaethau fferyllol ychwanegol gael eu darparu, neu
(ii) awdurdodi'r bwrdd iechyd i drefnu darparu gwasanaethau fferyllol pe bai'n dymuno gwneud hynny.

Mae Adran 83 Deddf 2006 yn cynnwys craidd pwerau llunio rheoliadau Gweinidogion Cymru mewn perthynas â darparu gwasanaethau fferyllol, ac ymhlith pethau eraill, mae'n nodi'r gofyniad am reoliadau i orfodi bwrdd iechyd i baratoi a chyhoeddi rhestr fferyllol, ac yn nodi'r profion y mae'n rhaid i'r rhai sy'n dymuno darparu gwasanaethau fferyllol eu bodloni er mwyn gwneud hynny (gelwir hynny yn 'brawf rheoli mynediad').

Mae adran 84 yn nodi gofyniad i Weinidogion Cymru ddarparu ar gyfer hawliau apelio yn erbyn penderfyniadau a wneir gan fyrddau iechyd wrth arfer pwerau a roddir iddynt gan reoliadau a wnaed o dan adran 83.

Gwnaeth Rhan 7 Deddf 2017 ddarpariaeth i ddiwygio Deddf 2006 mewn perthynas â gwasanaethau fferyllol. Fe wnaeth adran 111 Deddf 2017 fewnosod adran 82A newydd yn Neddf 2006 sy'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas ag asesiadau o anghenion fferyllol. Daeth Gorchymyn 2019 Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 (Dechrau Rhif 4) â Rhan 7 Deddf 2017 i rym ar 1 Ebrill 2019. O ganlyniad, lluniodd Gweinidogion Cymru is-ddeddfwriaeth yn nodi gofynion ar gyfer asesiadau o anghenion fferyllol yng Nghymru.

Di-rymwyd Rheoliadau 2013 a chawsant eu disodli gan Reoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020. Mae Rhan 2 Rheoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 yn gosod y gofynion cyfreithiol ar fyrddau iechyd i ymgymryd ag asesiadau o anghenion fferyllol.

Daeth Rheoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 i rym ar 1 Hydref 2020 ac roedd gan fyrddau iechyd tan 1 Hydref 2021 i gyhoeddi eu hasesiad cyntaf o anghenion fferyllol.

Yn gryno, mae Rheoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 yn nodi'r canlynol:

- Gwasanaethau sydd i'w cynnwys yn yr asesiad o anghenion fferyllol,
- Gwybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys yn yr asesiad o anghenion fferyllol (dylid nodi bod gan fyrddau iechyd rwydd hynt i gynnwys unrhyw wybodaeth arall sy'n berthnasol yn eu tyb hwy),

- Dyddiad pryd y bydd yn rhaid i fyrddau iechyd gyhoeddi eu hasesiad cyntaf o anghenion fferyllol,
- Gofyniad ar fyrddau iechyd i gyhoeddi asesiadau pellach o anghenion fferyllol bob pum mlynedd,
- Gofyniad i gyhoeddi asesiad diwygiedig yn gynt nag unwaith bob pum mlynedd dan rai amgylchiadau,
- Gofyniad i gyhoeddi datganiadau atodol dan rai amgylchiadau
- Gofyniad i ymgynghori â phobl a sefydliadau penodol o leiaf unwaith yn ystod llunio'r asesiad o anghenion fferyllol, am o leiaf 60 diwrnod, a
- Materion y bydd yn rhaid i'r bwrdd iechyd eu hystyried wrth lunio ei asesiad o anghenion fferyllol.

Pan fydd bwrdd iechyd wedi cyhoeddi ei asesiad cyntaf o anghenion fferyllol, bydd yn ofynnol iddo lunio asesiad diwygiedig o anghenion fferyllol o fewn pum mlynedd neu'n gynt os bydd yn nodi newidiadau sylweddol i'r angen am wasanaethau fferyllol. Yr unig eithriad i hyn yw lle mae'r bwrdd iechyd yn fodlon y byddai llunio asesiad anghenion diwygiedig o anghenion fferyllol yn ymateb anghymesur i'r newidiadau hynny.

Yn ychwanegol, gall bwrdd iechyd gyhoeddi datganiad atodol i nodi newidiadau i argaeledd gwasanaethau fferyllol sy'n berthnasol i gymeradwyo ceisiadau y cyfeirir atynt yn Adran 83 Deddf 2006, a

- Bydd yn fodlon y byddai gwneud asesiad diwygiedig yn ymateb anghymesur i'r newidiadau hynny, neu
- Bydd wrthi'n gwneud asesiad diwygiedig a bydd yn fodlon bod addasu ei asesiad o anghenion fferyllol yn ddi-oed yn hanfodol er mwyn atal anfantais o ran y gwasanaethau fferyllol a ddarperir yn ei ardal.

Datblygu'r gofynion manwl

Sefydlwyd gweithgor ym mis Tachwedd 2015 i ddatblygu'r gofynion manwl ar gyfer cynnal asesiad o anghenion fferyllol ac i adolygu a diwygio'r profion a'r gweithdrefnau fel y maent yn berthnasol i ddarparu gwasanaethau fferyllol y GIG. Roedd y grŵp, a gyfarfu nifer o weithiau, yn cynnwys arweinwyr fferylliaeth y byrddau iechyd oedd â gwybodaeth am y system rheoli mynediad flaenorol ac arbenigedd ym maes fferylliaeth gymunedol, arweinwyr gofal sylfaenol (fferylliaeth) Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, oedd ag arbenigedd yn y broses o benderfynu ar geisiadau rheoli mynediad, a staff Llywodraeth Cymru. Gwnaeth y grŵp gyfraniad sylweddol at ddatblygu polisi Llywodraeth Cymru ynghylch asesiadau o anghenion fferyllol, gan gynnwys y cynigion canlyniadol a gynhwysir yn Rheoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020.

Adolygiad Rheoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020

O fis Mai i fis Gorffennaf 2024, cynhaliodd Llywodraeth Cymru adolygiad o'r rheoliadau i werthuso cyflwyno asesiadau o anghenion fferyllol er mwyn asesu a fyddai eu cyflwyno'n gweithio yn unol â'r bwriad ac i nodi unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn deillio o'r polisi.

Atodiad B – gwasanaethau hanfodol

1. Dosbarthu presgripsiynau

Disgrifiad o'r gwasanaeth

Cyflenwi meddyginiaethau a chyfarpar a archebir ar bresgripsiynau'r GIG, ynghyd â gwybodaeth a chyngor, i alluogi defnydd diogel ac effeithiol gan gleifion, a chynnal cofnodion priodol.

Nodau a chanlyniadau bwriadedig

Sicrhau bod cleifion yn cael meddyginiaethau a chyfarpar a archebir yn ddiogel ac yn briodol gan y fferyllfa:

- Cynnal gwiriadau cyfreithiol, clinigol a chywirdeb priodol
- Bod â systemau gweithredu diogel, yn unol â gofynion llywodraethu clinigol
- Bod â systemau ar waith i warantu uniondeb y cynhyrchion a gyflenwir
- Cadw cofnod ynghylch yr holl feddyginiaethau a chyfarpar a gyflenwir y gellir eu defnyddio i gynorthwyo i gynnig gofal i gleifion yn y dyfodol
- Cynnal cofnod o'r cyngor a roddir, ac ymyriadau a chyfeiriadau a wneir, lle bydd y fferyllydd yn barnu bod hynny'n briodol yn glinigol.

Sicrhau bod cleifion yn gallu defnyddio eu meddyginiaethau a'u cyfarpar yn effeithiol gan staff y fferyllfa:

- Cynnig gwybodaeth a chyngor i'r claf neu ei gynrychiolydd ynghylch defnyddio ei feddyginiaeth neu ei declyn yn ddiogel
- Cynnig cyngor ehangach i'r claf ynghylch y feddyginiaeth pan fo'n briodol, er enghraifft ei sgil-effeithiau posibl a'i ryngweithiadau arwyddocaol â sylweddau eraill.

2. Dosbarthu presgripsiynau amlroddadwy

Disgrifiad o'r gwasanaeth

Rheoli a dosbarthu presgripsiynau amlroddadwy'r GIG ar gyfer meddyginiaethau a chyfarpar trwy bartneriaeth â'r claf a'r rhagnodydd.

Mae'r gwasanaeth hwn yn cynnwys gofynion ychwanegol at y rhai a ddosberthir, fel bod y fferyllydd yn canfod angen y claf am gyflenwad dro ar ôl tro ac yn cyfleu unrhyw faterion o bwys clinigol wrth y rhagnodydd.

Nodau a chanlyniadau bwriadedig

- Cynyddu dewis a chyfleustra i gleifion, drwy ganiatáu iddynt gael eu meddyginiaethau a'u cyfarpar a ragnodir iddynt yn rheolaidd yn uniongyrchol o fferyllfa gymunedol am gyfnod y cytunwyd arno gan y rhagnodydd

- Lleihau gwastraff drwy leihau nifer y meddyginiaethau a'r cyfarpar a ddosberthir na fydd eu hangen ar y claf
- Lleihau llwyth gwaith meddygfeydd, drwy leihau baich rheoli presgripsiynau amlroddadwy.

3. Gwaredu cyffuriau diangen

Disgrifiad o'r gwasanaeth

Fferyllfeydd cymunedol yn derbyn meddyginiaethau diangen y bydd angen eu gwaredu'n ddiogel gan gartrefi preifat a phobl sy'n byw mewn cartref gofal preswyl. Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd drefnu i gasglu a gwaredu meddyginiaethau gwastraff o fferyllfeydd.

Nodau a chanlyniadau bwriadedig

- Sicrhau bod y cyhoedd yn cael dull hwylus o gael gwared ar feddyginiaethau diangen yn ddiogel
- Lleihau nifer y meddyginiaethau diangen sy'n cael eu storio yng nghartrefi pobl drwy gynnig llwybr gwaredu a thrwy hynny leihau'r risg o wenwyno damweiniol yn y cartref a dargyfeirio meddyginiaethau i bobl eraill nad ydynt wedi'u hawdurdodi i'w cael.
- Lleihau'r risg o amlygu'r cyhoedd i feddyginiaethau diangen a gânt eu gwaredu trwy ddulliau anniogel
- Lleihau'r difrod amgylcheddol a achosir gan ddulliau gwaredu amhriodol ar gyfer meddyginiaethau diangen.

4. Hyrwyddo ffyrdd iach o fyw

Disgrifiad o'r gwasanaeth

Cynnig cyngor ynghylch ffordd o fyw iach ac iechyd y cyhoedd, sy'n gyfleus i gleifion sy'n cael presgripsiynau ac sy'n ymddangos yn dioddef gan, neu mewn perygl o ddatblygu, problem iechyd niweidiol a chyfranogiad rhagweithiol mewn ymgyrchoedd cenedlaethol/lleol, i hyrwyddo negeseuon iechyd y cyhoedd i ymwelwyr fferyllfeydd cyffredinol yn ystod cyfnodau ymgyrchoedd penodol a dargedir.

Nodau a chanlyniadau bwriadedig

- Gwella gwybodaeth a dirnadaeth cleifion a'r cyhoedd ynghylch negeseuon allweddol am ffordd iach o fyw ac iechyd y cyhoedd fel y cânt eu grymuso i gymryd camau a fydd yn gwella eu hiechyd.
- Targedu'r ˈsectorau 'anodd eu cyrraedd' yn y boblogaeth na fyddant yn dod i gysylltiad yn aml â gweithgareddau hybu iechyd mewn rhannau eraill o'r sector iechyd neu ofal cymdeithasol.

5. Cyfeirio

Disgrifiad o'r gwasanaeth

Cynnig gwybodaeth i bobl sy'n ymweld â'r fferyllfa, y bydd arnynt angen cymorth, cyngor neu driniaeth bellach na all y fferyllfa eu cynnig ond sydd ar gael gan ddarparwyr gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol eraill neu sefydliadau cymorth a allai gynorthwyo'r unigolyn. Lle bo'n briodol, gallai hynny olygu cyfeirio pobl at wasanaethau.

Nodau a chanlyniadau bwriadedig

- Hysbysu neu gynghori pobl y bydd arnynt angen cymorth, na all y fferyllfa ei gynnig, am ddarparwyr gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol neu sefydliadau cymorth priodol eraill
- Galluogi pobl i gysylltu â/cael mynediad at ofal a chymorth pellach sy'n briodol i'w hanghenion
- Lleihau defnydd amhriodol o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

6. Cymorth ar gyfer hunanofal

Disgrifiad o'r gwasanaeth

Cynnig cyngor a chymorth gan staff fferyllfeydd i alluogi pobl i elwa'n llawn ar ofalu amdanynt hwy eu hunain neu am eu teuluoedd.

Nodau a chanlyniadau bwriadedig

- Gwella mynediad a dewis i bobl sy'n dymuno gofalu amdanynt hwy eu hunain neu am eu teuluoedd
- Bydd pobl, gan gynnwys gofalwyr, yn cael cyngor priodol i'w helpu i hunanreoli cyflwr hunan-gyfyngol neu hirdymor, gan gynnwys cyngor ynghylch dewis a defnyddio unrhyw feddyginiaethau priodol
- Bydd pobl, gan gynnwys gofalwyr, yn cael cyngor hybu iechyd ar adegau priodol, yn unol â'r cyngor a ddarperir yn y gwasanaeth hanfodol – gwasanaeth hyrwyddo ffyrdd iach o fyw
- Bydd pobl, gan gynnwys gofalwyr, yn gallu gofalu amdanynt hwy eu hunain yn well neu reoli cyflwr ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, drwy wybod mwy am yr opsiynau o ran y triniaethau sydd ar gael iddynt, gan gynnwys rhai nad ydynt yn rhai ffarmacolegol.
- Lleihau defnydd amhriodol o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Atodiad C – gwasanaethau cenedlaethol contractwyr fferylliaeth genedlaethol a chyfarpar

1. Gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol

Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol yn cynnwys tair elfen.

- Gwasanaeth anhwylderau cyffredin
- Gwasanaeth atal cenhedlu brys, a
- Gwasanaeth cyflenwi meddyginiaethau brys.

Er mwyn gallu darparu'r gwasanaeth, rhaid i gontractwyr fferylliaeth ddarparu'r tair elfen.

Nodau a chanlyniadau bwriadedig

- Darparu gofal iechyd darbodus gan ddefnyddio model gofal 'fferyllfa gymunedol yn gyntaf', ar gyfer cleifion y gellir eu rheoli'n briodol mewn lleoliad fferyllfa gymunedol, a thrwy hynny, cynyddu mynediad at ofal prydlon gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol priodol.
- Helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd drwy gynyddu mynediad (o ran prydlondeb ac yn ddaearyddol) at wasanaethau sy'n diwallu anghenion cleifion am ofal heb ei gynllunio, atal cenhedlu, neu gyngor ynghylch heintiau a drosglwyddir yn rhywiol.

Gwasanaeth anhwylderau cyffredin

O dan y gwasanaeth hwn, bydd cleifion yn cofrestru â'r fferyllfa o'u dewis er mwyn cael cyngor a thriniaethau ynghylch rhestr benodol o anhwylderau cyffredin sy'n cynnwys haint yn y llwybr wrinol a dolur gwddf. Gall hynny gynnwys cyflenwi un neu ragor o feddyginiaethau a restrir ar y llyfr fformwla cenedlaethol.

Gwasanaeth atal cenhedlu

Mae'r gwasanaeth hwn ar gyfer cleifion rhwng 13 a 54 oed, a allai gael plant ac sydd naill ai:

- wedi cael cyfathrach rywiol heb amddiffyniad yn ystod y pum diwrnod diwethaf, neu sy’n
- dymuno defnyddio dull atal cenhedlu QuickStart gan ddefnyddio dull atal cenhedlu progestogen yn unig.

Pan fo'r claf yn 13, 14 neu 15 oed, cynigir y gwasanaeth yn unol â chymhwysedd Gillick, canllawiau Fraser ac unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â chynnig cyngor a/neu driniaeth iechyd rhywiol cyfrinachol i gleifion sy’n 13 mlwydd oed neu hŷn.

Os bydd asesiad yn penderfynu ei bod yn briodol cyflenwi dulliau atal cenhedlu brys, bydd y feddyginiaeth berthnasol yn cael ei chyflenwi trwy gyfarwyddyd grŵp cleifion i'w chymryd yn syth ar y safle.

Cyflenwi meddyginiaethau brys

Fel arfer, ni chynigir y gwasanaeth hwn oni bydd contractwr gwasanaethau fferylliaeth yn credu na fyddai'n ymarferol i'r claf gael y meddyginiaethau a ragnodwyd yn flaenorol ac sydd eu hangen arnynt o fewn amserlen briodol yn glinigol drwy'r llwybr arferol.

Er mwyn gallu cyflenwi'r feddyginiaeth, rhaid i'r contractwr gwasanaethau fferylliaeth gyfweld â'r claf a chadarnhau:

- bod angen brys am y feddyginiaeth a gyflenwir, a'i
- bod yn anymarferol cael presgripsiwn heb oedi gormodol; a
- bod y driniaeth â'r feddyginiaeth a ragnodir ar adeg flaenorol gan ragnodydd perthnasol ar gyfer yr unigolyn a fydd yn gofyn amdani; ac
- ynghylch y dos y byddai'n briodol i'r unigolyn hwnnw ei gymryd dan yr amgylchiadau.

2. Gwasanaeth adolygu meddyginiaethau ar adeg rhyddhau

Disgrifiad o'r gwasanaeth

Bydd y gwasanaeth adolygu meddyginiaethau ar adeg rhyddhau yn cynnig cymorth i gleifion a ryddhawyd yn ddiweddar rhwng lleoliadau gofal drwy sicrhau bod newidiadau i feddyginiaethau cleifion a wneir mewn un lleoliad gofal (e.e. yn ystod derbyniad i'r ysbyty) yn cael eu gweithredu yn unol â'r bwriad yn y gymuned, gan helpu i leihau'r perygl o broblemau y gellir eu hatal sy'n gysylltiedig â meddyginiaethau a chynorthwyo i sicrhau bod cleifion yn ymlynu wrth ofynion yn ymwneud â meddyginiaeth a ragnodwyd yn ddiweddar.

Mae'r gwasanaeth yn cynnwys dau gam.

- Yn y cam cyntaf, mae'n ofynnol i'r fferyllydd neu'r technegydd fferylliaeth yn y fferyllfa gadarnhau bod y meddyginiaethau a ragnodwyd mewn un lleoliad gofal yn cyfateb i'r rhai a ragnodwyd gan feddyg teulu'r claf neu'r tîm gofal sylfaenol perthnasol pan fydd y claf yn symud i leoliad gofal arall, er enghraifft, cartref y claf. Os bydd unrhyw anghysondebau, hysbysir y feddygfa, y tîm gofal sylfaenol perthnasol, y claf yn y lleoliad gofal neu'r gofalwr am hynny yn ôl yr angen.
- Yn yr ail gam, cynigir cyfle i'r claf gael trafodaeth â fferyllydd a/neu dechnegydd fferylliaeth i bennu darlun o ddefnydd y claf o'i feddyginiaethau neu ei gyfeirio at leoliad priodol i'w adolygu ymhellach. Bydd yr adolygiad hefyd yn helpu cleifion i ddeall eu meddyginiaethau a bydd yn nodi unrhyw broblemau y byddant yn eu profi ynghyd ag atebion posibl.

Nodau a chanlyniadau bwriadedig

Diben sylfaenol y gwasanaeth hwn, â chytundeb y claf, yw cyfrannu at leihau'r perygl o gamgymeriadau yn ymwneud â meddyginiaethau a digwyddiadau niweidiol â chyffuriau drwy, yn benodol –

- Cynyddu argaeledd gwybodaeth gywir am feddyginiaethau claf,
- Gwella cyfathrebu rhwng gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ac eraill sy'n ymwneud â throsglwyddo gofal cleifion, a chleifion a'u gofalwyr,
- Cynyddu cyfranogiad cleifion yn eu gofal eu hunain drwy eu helpu i ddod i ddeall eu meddyginiaethau yn well, a
- Lleihau'r tebygolrwydd y caiff presgripsiynau diangen neu ddyblyg eu dosbarthu a lleihau gwastraff meddyginiaethau.

3. Gwasanaeth fferyllydd-ragnodydd annibynnol

Disgrifiad o'r gwasanaeth

Rhaid i unrhyw gontractwr gwasanaethau fferylliaeth sy'n dymuno cynnig y gwasanaeth hwn fod yn cynnig gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol hefyd. Mae'n cynnwys tair elfen:

- Rhagnodi dulliau atal cenhedlu arferol,
- Rheoli anhwylderau cyffredin, na fyddant fel arfer yn cael eu rheoli gan y gwasanaeth anhwylderau cyffredin cenedlaethol, a
- Chynnig gwasanaeth rhagnodi y cytunwyd arno gan y bwrdd iechyd lleol perthnasol.

Nodau a chanlyniadau bwriadedig

Dyma amcanion sylfaenol y gwasanaeth hwn:

- cynnig mynediad at feddyginiaethau a roddir ar bresgripsiwn yn unig at ddibenion trin anhwylderau cyffredin sy'n gofyn am driniaeth â meddyginiaethau a roddir ar bresgripsiwn yn unig nad ydynt ar gael o dan wasanaeth clinigol fferyllfeydd cymunedol.
- cynnig mynediad at ddulliau atal cenhedlu brys neu reolaidd os na ellir diwallu'r anghenion hynny o dan y gwasanaeth clinigol fferyllfeydd cymunedol; ac
- ar gyfer darparu unrhyw wasanaeth arall y bydd y contractwr gwasanaethau fferylliaeth yn cytuno â'r bwrdd iechyd lleol perthnasol i'w ddarparu.

4. Gwasanaeth brechu rhag y ffliw tymhorol

Disgrifiad o'r gwasanaeth

Rhaid i unrhyw gontractwr gwasanaethau fferylliaeth sy'n dymuno cynnig y gwasanaeth hwn fod yn cynnig gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol hefyd.

Nodau a chanlyniadau bwriadedig

Diben sylfaenol y gwasanaeth yw galluogi'r fferyllydd neu'r technegydd fferylliaeth cofrestredig i roi brechiad rhag y ffliw i glaf o dan gyfarwyddyd grŵp cleifion neu roi brechiad rhag y ffliw i glaf o dan brotocol a awdurdodwyd gan Weinidogion Cymru yn unol â rheoliad 247A Rheoliadau Meddyginiaethau Dynol 2012 (protocolau sy'n ymwneud â brechiadau ac imiwneiddiadau rhag coronafeirws a ffliw).

5. Addasu cyfarpar stoma

Disgrifiad o'r gwasanaeth

Bydd addasu teclynnau stoma yw golygu addasu mwy nag un teclyn stoma:

- Os bydd y teclyn stoma y dylid ei addasu wedi'i restru yn Rhan IXC o'r Tariff Cyffuriau.
- Os bydd yr addasu yn cynnwys addasu, yn unol â'r un fanyleb, sawl rhan sy'n union yr un fath i'w defnyddio gyda theclyn; a
- Bydd yr addasu yn seiliedig ar fesuriad y claf neu gofnod o'r mesuriadau hynny, ac os bydd hynny'n berthnasol, ar dempled.

Nodau a chanlyniadau bwriadedig

Diben sylfaenol y gwasanaeth yw:

- Sicrhau bod claf yn defnyddio'r teclyn stoma'n gywir a'i bod yn ffitio'n gyfforddus; a
- Gwella hyd defnydd y teclyn, ac yn sgil hynny, lleihau gwastraff mewn perthynas â theclynnau o'r fath.

6. Adolygiad o'r defnydd o declynnau

Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae adolygiad ynghylch defnydd o gyfarpar yn ymwneud â helpu cleifion i ddefnyddio eu teclynnau yn fwy effeithiol. Gall argymhellion a wneir i ragnodwyr hefyd ymwneud ag effeithiolrwydd clinigol neu gost-effeithiolrwydd triniaeth.

Nodau a chanlyniadau bwriadedig

Diben sylfaenol y gwasanaeth, â chytundeb y claf, yw gwella gwybodaeth a defnydd y claf o unrhyw gyfarpar penodol drwy, yn benodol:

- Pennu sut bydd y claf yn defnyddio'r teclyn penodedig a phrofiad y claf o'r defnydd hwnnw
- Nodi, trafod a chynorthwyo i ddatrys defnydd gwael neu aneffeithiol o'r teclyn penodedig gan y claf
- Cynghori'r claf ynghylch storio'r teclyn penodedig yn ddiogel ac yn briodol

- Cynghori'r claf ynghylch gwaredu'r cyfarpar penodedig sydd wedi'u defnyddio neu rai diangen yn ddiogel ac yn briodol.

7. Gwasanaeth cyflenwi profion llif unffordd

Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae'r gwasanaeth hwn ar gyfer cleifion a allai fod yn gymwys i gael triniaethau Covid-19 yn unig. O dan y gwasanaeth, bydd contractwyr gwasanaethau fferylliaeth yn cyflenwi profion llif unffordd i gleifion cymwys neu eu cynrychiolwyr i alluogi cleifion i roi profion iddynt hwy eu hunain pan na fyddant yn y fferyllfa.

Nodau a chanlyniadau bwriadedig

Cynnig mynediad at brofion llif unffordd i gleifion sydd â chyflwr iechyd sydd yn eu gwneud yn gymwys i gael triniaeth Covid-19, er mwyn galluogi profion yn y cartref am Covid-19, yn dilyn symptomau haint. Bydd canlyniad prawf llif unffordd positif yn cael ei ddefnyddio i lywio asesiad clinigol i benderfynu a fydd y claf yn addas i gael triniaethau Covid-19 a argymhellir gan NICE ac a fydd yn elwa o'r triniaethau hynny.

Atodiad D – gwasanaethau clinigol ychwanegol

1. Gwasanaeth monitro gwrthgeulyddion; diben sylfaenol y gwasanaeth hwn yw galluogi'r contractwr gwasanaethau fferylliaeth i brofi amser ceulo gwaed y claf, adolygu'r canlyniadau ac addasu (neu argymell addasu) dos y gwrthgeulyddion yn unol â hynny.

2. Gwasanaeth ar gyfer cartrefi gofal; diben sylfaenol y gwasanaeth hwn yw galluogi'r contractwr gwasanaethau fferylliaeth i gynnig cyngor a chymorth i breswylwyr a staff mewn cartref gofal ynghylch—

- Archebu cyffuriau a chyfarpar yn briodol ac yn effeithiol er budd preswylwyr y cartref gofal
- Defnydd clinigol a chost-effeithiol o gyffuriau
- Gweini cyffuriau a chyfarpar yn briodol ac yn effeithiol yn y cartref gofal
- Storio a thrin cyffuriau a chyfarpar yn ddiogel ac yn briodol, a
- Chofnodi cyffuriau a chyfarpar a gânt eu harchebu, eu trin a'u trafod, eu gweini, eu storio neu eu gwaredu.

3. Gwasanaeth rheoli sy'n benodol i glefydau; diben sylfaenol y gwasanaeth hwn yw galluogi'r contractwr gwasanaethau fferylliaeth i gynnig cyngor ynghylch triniaethau i gleifion â chyflyrau penodol, eu cynorthwyo a'u monitro, a lle bo'n briodol, cyfeirio cleifion at weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall.

4. Gwasanaeth brys i gyflenwi triniaethau a phroffylacsis yn ystod pandemig –

- Diben sylfaenol y gwasanaeth hwn yw galluogi'r contractwr gwasanaethau fferylliaeth i roi brechiad i glaf o dan gyfarwyddyd neu brotocol grŵp cleifion a awdurdodwyd gan Weinidogion Cymru yn unol â rheoliad 247A Rheoliadau Meddyginiaethau Dynol 2012 (protocolau sy'n ymwneud â brechiadau ac imiwneiddiadau rhag coronafeirws a'r ffliw), ac
- Os bydd y contractwr gwasanaethau fferylliaeth yn trefnu i ddarparu'r gwasanaeth hwn, rhaid iddo ei ddarparu am hyd y trefniant y bydd wedi cytuno arno â'r bwrdd iechyd lleol.

5. Gwasanaeth brechu brys yn ystod pandemig

- Diben sylfaenol y gwasanaeth hwn yw galluogi'r contractwr gwasanaethau fferylliaeth i roi brechiad i glaf o dan gyfarwyddyd neu brotocol grŵp cleifion a awdurdodwyd gan Weinidogion Cymru yn unol â rheoliad 247A Rheoliadau Meddyginiaethau Dynol 2012 (protocolau sy'n ymwneud â brechiadau ac imiwneiddiadau coronafeirws a ffliw), ac
- Os bydd contractwr gwasanaethau fferylliaeth yn trefnu i ddarparu'r gwasanaeth hwn, rhaid iddo ei ddarparu am hyd y trefniant y bydd wedi cytuno arno â'r bwrdd iechyd lleol.

6. Gwasanaeth cyflenwi bwyd heb glwten; diben sylfaenol y gwasanaeth hwn yw galluogi'r contractwr gwasanaethau fferylliaeth i gyflenwi bwydydd heb glwten i gleifion.

7. Gwasanaeth danfon eitemau i gartrefi cleifion; diben sylfaenol y gwasanaeth hwn yw galluogi'r contractwr gwasanaethau fferylliaeth i ddanfon eitemau i gartrefi cleifion-

- Cyffuriau, a
- Chyfarpar, ac eithrio teclynnau penodedig o fewn ystyr rheoliad 2(1) Rheoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020.

8. Gwasanaeth mynediad iaith; diben sylfaenol y gwasanaeth hwn yw galluogi'r contractwr gwasanaethau fferylliaeth i ddarparu cyngor a chymorth, naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig, i gleifion mewn iaith y maent yn ei deall ynghylch—

- Cyffuriau y maent yn eu defnyddio
- Eu hiechyd,
- Materion iechyd cyffredinol sy'n berthnasol iddynt, ac
- os bydd hynny'n briodol, eu cyfeirio at weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall.

9. Gwasanaeth adolygu meddyginiaethau; diben sylfaenol y gwasanaeth hwn yw galluogi'r contractwr gwasanaethau fferylliaeth i —

- Gynnal adolygiad o'r cyffuriau a ddefnyddir gan glaf ar sail gwybodaeth a chanlyniadau profion sydd wedi'u cynnwys yng nghofnod gofal y claf, i geisio ystyried priodoldeb ac effeithiolrwydd parhaus y cyffuriau i'r claf,
- Cynghori a chynorthwyo'r claf ynghylch defnyddio eu cyffuriau, gan gynnwys annog cyfranogiad gweithredol y claf mewn prosesau i wneud penderfyniadau sy'n ymwneud â'u defnydd o gyffuriau, ac
- Os bydd hynny'n briodol, eu cyfeirio at weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall.

10. Gwasanaeth cymorth asesu a chydymffurfiaeth â meddyginiaethau; diben sylfaenol y gwasanaeth hwn yw galluogi'r contractwr gwasanaethau fferylliaeth i —

- Asesu gwybodaeth am gyffuriau, cydymffurfiaeth â hwy, a'r defnydd ohonynt gan gleifion agored i niwed a chleifion ag anghenion dysgu ychwanegol, a
- Chynnig cyngor, cefnogaeth a chymorth i gleifion agored i niwed a chleifion ag anghenion dysgu ychwanegol ynghylch defnyddio cyffuriau i geisio gwella eu gwybodaeth am gyffuriau o'r fath, eu cydymffurfiaeth â hwy, a'u defnydd ohonynt.

11. Gwasanaeth cyflenwi nodwyddau a chwistrellau; diben sylfaenol y gwasanaeth hwn yw galluogi'r contractwr gwasanaethau fferylliaeth i —

- Ddarparu nodwyddau, chwistrelli a deunyddiau cysylltiedig di-haint i bobl sy'n camddefnyddio
- Derbyn nodwyddau, chwistrelli a deunyddiau cysylltiedig wedi'u defnyddio gan bobl sy'n camddefnyddio cyffuriau, a
- Chynnig cyngor i bobl sy'n camddefnyddio cyffuriau, ac os bydd hynny'n briodol, cyfeirio'r sawl sy'n camddefnyddio cyffuriau at weithiwr gofal iechyd

proffesiynol arall neu ganolfan arbenigol at ddiben cael triniaeth ynghylch eu defnydd o gyffuriau.

12. Gwasanaeth cyffuriau arbenigol sydd ar gael i ymateb i alw; diben sylfaenol y gwasanaeth hwn yw galluogi'r contractwr gwasanaethau fferylliaeth i sicrhau bod cleifion neu weithwyr gofal iechyd proffesiynol yn cael mynediad prydlon at gyffuriau arbenigol.

13. Gwasanaethau y tu allan i oriau gwaith; eu diben sylfaenol yw galluogi'r contractwr gwasanaethau fferylliaeth i ddyroddi cyffuriau a chyfarpar yn ystod y cyfnod y tu allan i oriau gwaith (pa un ai a fydd hynny ar gyfer y cyfnod cyfan y tu allan i oriau gwaith ai peidio).

14. Gwasanaeth cyfarwyddiadau gan grwpiau cleifion; diben sylfaenol y gwasanaeth hwn yw galluogi'r contractwr gwasanaethau fferylliaeth i gyflenwi neu roi meddyginiaethau sydd ar gael ar bresgripsiwn yn unig i gleifion o dan gyfarwyddiadau grŵp cleifion.

15. Gwasanaeth cymorth i ragnodwyr; diben sylfaenol y gwasanaeth hwn yw galluogi'r contractwr gwasanaethau fferylliaeth i gynorthwyo gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n rhagnodi cyffuriau, ac yn benodol, cynnig cyngor ynghylch —

- Defnydd clinigol a chost-effeithiol o gyffuriau
- Polisïau a chanllawiau rhagnodi, a
- Dyroddi presgripsiynau amlroddadwy.

16. Gwasanaeth ysgolion; diben sylfaenol y gwasanaeth hwn yw galluogi'r contractwr gwasanaethau fferylliaeth i gynnig cyngor a chymorth i blant a staff mewn ysgolion ynghylch—

- Defnydd clinigol a chost-effeithiol o gyffuriau yn yr ysgol
- Gweini a defnyddio cyffuriau a chyfarpar yn briodol ac yn effeithiol yn yr ysgol
- Storio a thrin cyffuriau a theclynnau yn ddiogel ac yn briodol, a
- Chofnodi cyffuriau a theclynnau a archebir, a drafodir, a weinir, a storir neu a waredir.

17. Gwasanaeth sgrinio; diben sylfaenol y gwasanaeth hwn yw galluogi'r contractwr gwasanaethau fferylliaeth i —

- Nodi cleifion sydd mewn perygl o ddatblygu clefyd neu gyflwr penodol
- Cynnig cyngor ynghylch cael prawf i ganfod clefyd neu gyflwr penodol
- Ymgymryd â phrawf o'r fath â chydsyniad y claf, a
- Chynnig cyngor yn dilyn prawf a chyfeirio at weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall yn ôl yr angen.

18. Gwasanaeth rhoi'r gorau i ysmygu; diben sylfaenol y gwasanaeth hwn yw galluogi'r contractwr gwasanaethau fferylliaeth i —

- Gynghori a chynorthwyo cleifion sy'n dymuno rhoi'r gorau i ysmygu, ac

- Os bydd hynny’n briodol, cyflenwi cyffuriau a chymhorthion priodol.

19. Gwasanaeth gweini dan oruchwyliaeth; diben sylfaenol y gwasanaeth hwn yw galluogi’r contractwr gwasanaethau fferylliaeth i oruchwylio gweini meddyginiaethau presgripsiwn yn eu hadeiladau.

20. Gwasanaeth rhagnodi; diben sylfaenol y gwasanaeth hwn yw galluogi’r contractwr gwasanaethau fferylliaeth sy’n rhagnodydd annibynnol, neu sy’n cyflogi neu’n ymgysylltu â rhagnodydd annibynnol, i ragnodi meddyginiaethau dan amgylchiadau a bennir gan y bwrdd iechyd lleol perthnasol.

21. Gwasanaeth casglu cyffuriau gwrthfeirysol; diben sylfaenol y gwasanaeth hwn yw galluogi’r contractwr gwasanaethau fferylliaeth i gyflenwi meddyginiaethau gwrthfeirysol, yn unol â rheoliad 247 Rheoliadau Meddyginiaethau Dynol 2012 (Esemptiad ar gyfer cyflenwi os bydd clefyd pandemig neu wrth ragweld clefyd pandemig), i gleifion at ddibenion triniaeth neu broffylacsis.

22. Gwasanaeth lleihau gwastraff; diben sylfaenol y gwasanaeth hwn nodi meddyginiaethau neu gyfarpar a roddir ar bresgripsiwn na fydd eu hangen ar y claf ar adeg eu cyflenwi.

Atodiad E – telerau gwasanaeth ar gyfer contractwyr dosbarthu cyfarpar

1. Dosbarthu presgripsiynau

Disgrifiad o'r gwasanaeth

Cyflenwi cyfarpar a archebir ar bresgripsiynau'r GIG, ynghyd â gwybodaeth a chyngor a threfniadau atgyfeirio priodol rhag ofn na ellir gwneud cyflenwad, er mwyn galluogi defnydd diogel ac effeithiol gan gleifion, a chynnal cofnodion priodol.

Nodau a chanlyniadau bwriadedig

Sicrhau bod cleifion yn cael cyfarpar a archebir yn ddiogel ac yn briodol gan y contractwr dosbarthu cyfarpar:

- Cynnal gwiriadau cyfreithiol, clinigol a chywirdeb priodol
- Bod â systemau gweithredu diogel, yn unol â gofynion llywodraethu clinigol
- Bod â systemau ar waith i warantu uniondeb y cynhyrchion a gyflenwir
- Cadw cofnod o'r holl gyfarpar a gyflenwir y gellir eu defnyddio i gynorthwyo i gynnig gofal i gleifion yn y dyfodol
- Cynnal cofnod o'r cyngor a roddir, ac ymyriadau a chyfeiriadau a wneir, pan fo'r contractwr dosbarthu cyfarpar yn barnu bod hynny'n briodol o safbwynt clinigol.
- Darparu'r eitemau ychwanegol priodol fel bagiau tafladwy a weips
- Rhoi'r eitemau priodol os oes angen gwneud hynny mewn modd amserol ac mewn pecynnu addas sy'n ddisylw.

Sicrhau bod cleifion yn gallu defnyddio eu cyfarpar yn effeithiol trwy wybodaeth a chyngor gan staff i'r claf neu'r gofalwr ynghylch defnyddio eu teclyn(nau) yn ddiogel

2. Dosbarthu presgripsiynau amlroddadwy

Disgrifiad o'r gwasanaeth

Rheoli a dosbarthu cyfarpar y GIG ar bresgripsiynau amlroddadwy trwy bartneriaeth â'r claf a'r rhagnodydd.

Mae'r gwasanaeth hwn yn cynnwys y gofynion sy'n ychwanegol at y rhai a ddosberthir, fel bydd y contractwr sy'n dosbarthu cyfarpar yn canfod angen y claf am gyflenwad amlroddadwy ac yn cyfleu unrhyw faterion o bwys clinigol wrth y rhagnodydd.

Nodau a chanlyniadau bwriadedig

- Cynyddu dewis a chyfleustra cleifion, drwy ganiatáu iddynt gael eu cyfarpar ar bresgripsiwn rheolaidd yn uniongyrchol gan gontractwr dosbarthu cyfarpar am gyfnod y cytunwyd arno gan y rhagnodydd

- Lleihau gwastraff drwy leihau nifer y teclynnau a ddosberthir na fydd eu hangen ar y claf
- Lleihau llwyth gwaith meddygfeydd, drwy ostwng baich rheoli presgripsiynau amlroddadwy.

3. Gwasanaeth danfon eitemau i gartrefi cleifion

Disgrifiad o'r gwasanaeth

Cynnig gwasanaeth danfon eitemau i gartrefi cleifion mewn perthynas â rhai mathau o gyfarpar.

Nodau a chanlyniadau bwriadedig

Diogelu urddas cleifion drwy sicrhau bod rhai mathau o gyfarpar yn cael eu danfon atynt:

- Yn rhesymol o brydlon, ar adeg a gytunir â'r claf
- Mewn pecyn na fydd yn arddangos unrhyw ysgrifen nag unrhyw farciau eraill a allai nodi ei gynnwys; a
- Yn y fath fodd fel na ellir nodi'r math o declyn sy'n cael ei ddanfon.

4. Cyflenwi eitemau atodol priodol

Disgrifiad o'r gwasanaeth

Darparu eitemau ychwanegol megis weips untro a bagiau gwaredu mewn cysylltiad â rhai mathau o gyfarpar.

Nodau a chanlyniadau bwriadedig

Sicrhau bod gan gleifion gyflenwad digonol o weips i'w defnyddio â'u teclyn a'u bod yn gallu eu gwaredu mewn ffordd ddiogel a hylan.

5. Cynnig cyngor clinigol arbenigol ynghylch y cyfarpar

Disgrifiad o'r gwasanaeth

Cynnig cyngor clinigol arbenigol gan unigolyn sydd wedi'i hyfforddi'n addas ac sydd â phrofiad perthnasol mewn perthynas â rhai mathau o gyfarpar.

Nodau a chanlyniadau bwriadedig

Sicrhau bod cleifion yn gallu ceisio cyngor priodol ynghylch eu teclyn er mwyn cynyddu eu hyder wrth ddewis teclyn sy'n addas i'w hanghenion yn ogystal â magu hyder i addasu yn unol â'r newidiadau yn eu bywyd a dysgu sut i reoli teclyn.

6. Os darperir gwasanaeth gofal trwy linell ffôn, yn ystod y cyfnod pan fydd y contractwr dosbarthu cyfarpar ar gau, dylid rhoi cyngor naill ai drwy'r llinell ofal neu dylid cyfeirio galwyr at Galw Iechyd Cymru.

Disgrifiad o'r gwasanaeth

Cynnig cyngor ynghylch mathau penodol o gyfarpar trwy gynnig gofal trwy gyfrwng gwasanaeth llinell y tu allan i oriau agor cytundebol y contractwr dosbarthu cyfarpar. Nid oes gofyn i gontractwr dosbarthu cyfarpar staffio'r llinell ofal drwy'r dydd, bob dydd, ond pan na fydd staff yn rhedeg y llinell, rhaid rhoi manylion rhif ffôn neu fanylion cyswllt gwefan Galw Iechyd Cymru i alwyr fel y gallant ofyn iddynt am gyngor.

Nodau a chanlyniadau bwriadedig

Gall y sawl sy'n galw'r gwasanaeth gofal trwy linell ffôn ael cyngor 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos ynghylch rhai mathau o gyfarpar er mwyn gallu rheoli eu cyfarpar.

7.Cyfeirio

Disgrifiad o'r gwasanaeth

Pan fydd claf yn cyflwyno presgripsiwn i gael teclyn na fydd contractwr dosbarthu cyfarpar yn ei gyflenwi, bydd y presgripsiwn naill ai:

- Yn cael ei drosglwyddo â chydsyniad y claf i ddarparwr cyfarpar arall, neu
- Os na fydd y claf yn cydsynio, rhoddir manylion cyswllt iddynt ar gyfer o leiaf dau gontractwr arall sy'n gallu dosbarthu cyfarpar.

Nodau a chanlyniadau bwriadedig

Sicrhau bod cleifion yn gallu cael eu presgripsiwn.

Atodiad F – Aelodaeth o grŵp llywio'r asesiad o anghenion fferyllol

Rôl	Sefydliad
Cyfarwyddwr Cyswllt Gofal Sylfaenol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Prif Swyddog Cyllid	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Pennaeth Ymgysylltu	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Pennaeth Strategaeth Iechyd a Chynllunio	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Pennaeth Fferylliaeth Gwasanaethau Gofal Sylfaenol a Chymunedol (Ardal y Canol)	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Pennaeth Contractio Gofal Sylfaenol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Cymorth ar gyfer Prosiectau	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Uwch Gydlynydd Clystyrau	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Uwch Ymarferydd Iechyd Cyhoeddus	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Arweinydd Strategol ar gyfer Fferylliaeth Gymunedol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Cyfarwyddwr Cyswllt Ymgysylltu â Chontractwyr	Fferylliaeth Gymunedol Cymru
Cynrychiolydd Cymru, Cyfarwyddwr	Cymdeithas Meddygon Fferyllol
Pennaeth Ymgysylltu ac Eiriolaeth Cwynion	Llais
Pennaeth Gwasanaeth Meddygon Teulu y Tu Allan i Oriau Gogledd Cymru	Gwasanaeth Meddygon Teulu y Tu Allan i Oriau Gogledd Cymru
Dirprwy Gadeirydd	Pwyllgor Meddygol Lleol Gogledd Cymru

Atodiad G – holiadur ymgysylltu â chleifion a’r cyhoedd

Dyma eich gwahoddiad i ddweud wrthym am y gwasanaethau fferylliaeth yn eich ardal chi.

Mae'r gwasanaethau rydym ni'n awyddus i ddysgu mwy amdanynt yn cynnwys y gwasanaethau lleol rydych chi'n eu derbyn gan fferyllfeydd. Er mwyn sicrhau ein bod ar ein gorau, mae angen i ni adolygu ein gwasanaethau, beth sydd ei angen ar ein pobl leol, a sut y gallai pethau newid yn y dyfodol. Gelwir y broses hon yn ‘asesiad anghenion fferylliaeth’ neu PNA ac rydym yn paratoi ar gyfer ein hail asesiad yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gyda chymorth cwmni o’r enw Primary Care Commissioning Community Interest Company (PCC) sy’n arbenigo yn y math hwn o waith. Bydd yr adborth a roddwch yn cael ei rannu gyda PCC ond dim ond at ddiben yr arolwg hwn a datblygu'r PNA y caiff ei ddefnyddio. Bydd unrhyw ddata personol a ddarparwch yn cael ei gadw yn unol â'n polisi preifatrwydd.

Mae llawer o bobl yn galw fferyllfeydd yn 'cemist' ond yn yr holiadur hwn rydym yn defnyddio'r gair fferyllfa. O ddefnyddio'r gair fferyllfa, rydym yn golygu'r lle byddech chi'n casglu presgripsiynau, prynu meddyginiaethau y gallwch ond eu prynu o fferyllfa, neu siarad â fferyllydd am gyngor am salwch a allai fod gennych chi neu feddyginiaethau rydych chi'n eu cymryd. Nid ydym yn golygu'r fferyllfa mewn ysbyty na'r rhan o fferyllfa lle rydych chi'n prynu cynhyrchion harddwch nac unrhyw siopau lle gallwch chi brynu meddyginiaethau.

Mae rhai pobl yn casglu eu meddyginiaethau o'u meddygfa yn hytrach na chael presgripsiwn i'w gymryd i fferyllfa, neu bydd eu presgripsiwn wedi'i anfon i fferyllfa ac yna byddant yn casglu eu meddyginiaethau o'r fferyllfa. Bydd staff y feddygfa yn dosbarthu'r meddyginiaethau ac yn eu paratoi i'w casglu. Os yw eich meddygfa yn dosbarthu eich meddyginiaethau i chi, hoffem gasglu eich barn ar y gwasanaeth hwnnw. Efallai y byddwch yn defnyddio gwasanaethau eraill yn y fferyllfa ac felly efallai yr hoffech gwblhau'r cwestiynau am ddefnyddio fferyllfa.

Mae eich barn yn bwysig i ni felly cymerwch amser i gwblhau'r holiadur hwn. Rydym yn rhagweld y bydd yn cymryd tua 5 i 15 munud i chi ei gwblhau, yn dibynnu ar faint o wybodaeth ychwanegol yr hoffech ei rhoi i ni.

Byddem yn hoffi ac yn gwerthfawrogi eich barn yn fawr, ond os nad ydych chi eisiau cymryd rhan, anwybyddwch yr holiadur hwn; ni fydd eich penderfyniad yn effeithio ar y gofal a gewch gan y GIG, eich fferyllfa na'ch meddygfa mewn unrhyw ffordd.

Mae'r holiadur yn ddienw; peidiwch â nodi eich enw na'ch cyfeiriad. Ni fydd unrhyw wybodaeth a roddwch yn cael ei chysylltu â chi.

Bydd canlyniadau ein holiadur yn cael eu cyhoeddi yn yr asesiad drafft ar anghenion fferylliaeth a chynhelir ymgynghoriad 60 diwrnod ar y ddogfen honno yn yr haf. Cadwch lygad ar ein gwefan a'n tudalennau cyfryngau cymdeithasol am fwy o fanylion.

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am yr holiadur neu os oes gennych gwestiynau ynghylch sut i'w gwblhau, anfonwch e-bost at PBC.cymrydrhan@wales.nhs.uk gyda “Holiadur PNA” yn y blwch pwnc.

Os hoffech chi gwblhau'r holiadur hwn yn Gymraeg, cliciwch yma.

Amdanoch chi

Nodwch eich cod post.

Drwy roi pedwar digid cyntaf eich cod post i ni, rydych chi'n cydsynio i ni ddefnyddio'r wybodaeth hon i ddeall pa ran o Ogledd Cymru rydych chi'n byw ynddi. Dim ond at ddibenion yr holiadur hwn y bydd yr wybodaeth hon yn cael ei defnyddio, er mwyn i ni allu nodi a ydym wedi derbyn ymatebion o bob cwr o Ogledd Cymru neu o ardaloedd penodol. Peidiwch â rhoi eich cod post llawn i ni.

Er enghraifft, os mai LL17 0JG yw eich cod post, teipiwch LL17 yn y blwch isod.

Mae Safonau'r Gymraeg yn set o ofynion statudol sy'n berthnasol i'r Bwrdd Iechyd. Maent yn nodi'n glir ein cyfrifoldebau i ddarparu gwasanaethau dwyieithog i'n cleifion a'r cyhoedd. Felly, beth yw eich dewis iaith pan fyddwch chi'n defnyddio gwasanaethau mewn fferyllfa neu feddygfa?

- Cymraeg
- Saesneg
- Arall (gan mai holiadur dienw yw hwn, peidiwch â chynnwys unrhyw wybodaeth a fyddai'n galluogi rhywun i’ch adnabod chi neu unrhyw unigolyn arall) [xxxx]

Ydych chi'n casglu eich meddyginiaethau o:

- fferyllfa
- eich meddygfa

Casglu eich meddyginiaethau o'ch meddygfa

Dosbarthfa yw'r enw a roddir ar yr ardal yn eich meddygfa lle mae staff yn dosbarthu eich presgripsiynau.

1. Pryd sydd fwyaf cyfleus i chi ddefnyddio dosbarthfa eich meddygfa?

- 8am i 12pm
- 12pm i 2.30pm
- 2.30pm i 6.30pm
- Does dim gwahaniaeth gen i

2. Pa ddiwrnod sydd fwyaf cyfleus i chi ddefnyddio dosbarthfa eich meddygfa?

- Dydd Llun
- Dydd Mawrth
- Dydd Mercher
- Dydd Iau
- Dydd Gwener
- Dyddiau'r wythnos yn gyffredinol
- Does dim gwahaniaeth gen i

3. A oedd cyfnod yn ddiweddar pan nad oeddech chi'n gallu defnyddio dosbarthfa eich meddygfa?

- Oedd
- Nac oedd
- Amherthnasol

4. Os ateboch 'oedd' i gwestiwn 3, dywedwch wrthym beth wnaethoch chi? Ticiwch y datganiadau perthnasol.

- Es i i fferyllfa
- Arhosais nes bod y ddosbarthfa'n agor
- Es i i Adran Achosion Brys
- Es i i Uned Mân Anafiadau
- Ffoniais GIG 111 Cymru
- Arall [xxxx]

Teithio i'ch meddygfa i gasglu eich meddyginiaethau

5. Sut ydych chi fel arfer yn teithio i'ch meddygfa i gasglu eich meddyginiaethau?

- Ar droed
- Ar y bws
- Mewn car
- Ar feic
- Mewn tacsi
- Ar sgwter symudedd
- Arall [xxxx]
- Amherthnasol

6. Pa mor hir mae'n ei gymryd i gyrraedd eich meddygfa fel arfer?

- Llai na 5 munud
- Rhwng 5 a 15 munud
- Mwy na 15 munud ond llai nag 20 munud
- 20 munud neu fwy

7. A fyddech chi'n dweud eich bod chi'n cael anhawster i gyrraedd dosbarthfa eich meddygfa?

- Byddwn
- Na fyddwn
- Amherthnasol

8. Os ydych chi'n cael anhawster cyrraedd dosbarthfa eich meddygfa, dywedwch wrthym pam. Gan mai holiadur dienw yw hwn, peidiwch â chynnwys unrhyw wybodaeth a fyddai'n galluogi rhywun i'ch adnabod chi neu unrhyw unigolyn arall.

[xxxx]

9. Oes unrhyw beth arall yr hoffech chi ei ddweud wrthym am eich profiad o'r ddosbarthfa yn eich meddygfa? Gan mai holiadur dienw yw hwn, peidiwch â chynnwys unrhyw wybodaeth a fyddai'n galluogi rhywun i'ch adnabod chi neu unrhyw unigolyn arall.

[xxxx]

10. A oes unrhyw rwystrau i chi gael mynediad at wasanaethau yn nosbarthfa eich meddygfa nad ydych wedi sôn amdanynt? Gan mai holiadur dienw yw hwn, peidiwch â chynnwys unrhyw wybodaeth a fyddai'n galluogi rhywun i'ch adnabod chi neu unrhyw unigolyn arall.

[xxxx]

11. Ydych chi'n defnyddio fferyllfa?

- Ydw
- Nac ydw

Sut rydych chi'n defnyddio eich fferyllfa - naill ai'n bersonol neu drwy gael rhywun arall i fynd yno ar eich rhan

12. Pam ydych chi'n ymweld â fferyllfa fel arfer? Ticiwch bob un perthnasol.

- I gael presgripsiwn i mi fy hun
- I brynu meddyginiaethau i mi fy hun
- I gael cyngor i mi fy hun
- I gael presgripsiwn i rywun arall
- I brynu meddyginiaethau i rywun arall
- I gael cyngor i rywun arall
- Dydw i ddim yn ymweld â fferyllfa gan fy mod i'n defnyddio fferyllfa ar-lein/rhyngrwyd
- Dydw i ddim yn mynd i fferyllfa; mae rhywun yn mynd ar fy rhan

- Arall (gan mai holiadur dienw yw hwn, peidiwch â chynnwys unrhyw wybodaeth a fyddai'n galluogi rhywun i'ch adnabod chi neu unrhyw unigolyn arall) [xxxx]

13. Pa mor aml ydych chi'n defnyddio fferyllfa?

- Dyddiol
- Wythnosol
- Bob pythefnos
- Bob mis/pedair wythnos
- Bob chwarter
- Yn ôl yr angen
- Nid wyf yn defnyddio fferyllfa
- Arall (gan mai holiadur dienw yw hwn, peidiwch â chynnwys unrhyw wybodaeth a fyddai'n galluogi rhywun i'ch adnabod chi neu unrhyw unigolyn arall) [xxxx]

14. Faint o'r gloch sydd fwyaf cyfleus i chi ddefnyddio fferyllfa?

- Cyn 7am
- 7am i 9am
- 9am i 12pm
- 12pm i 3pm
- 3pm i 6pm
- 6pm i 9pm
- 9pm i hanner nos
- Does dim gwahaniaeth gen i

15. Pa ddiwrnod sydd fwyaf cyfleus i chi ddefnyddio fferyllfa?

- Dydd Llun
- Dydd Mawrth
- Dydd Mercher
- Dydd Iau
- Dydd Gwener
- Dydd Sadwrn
- Dydd Sul
- Dyddiau'r wythnos yn gyffredinol
- Penwythnosau yn gyffredinol
- Does dim gwahaniaeth gen i

16. A oedd cyfnod yn ddiweddar pan nad oeddech chi'n gallu defnyddio eich fferyllfa arferol?

- Oedd
- Nac oedd
- Amherthnasol

17. Os ateboch chi ‘oedd’ i gwestiwn 16, Dywedwch wrthym beth wnaethoch chi. Ticiwch bob un perthnasol.

- Es i i fferyllfa arall
- Arhosais nes bod y fferyllfa ar agor
- Es i at fy Meddyg Teulu
- Es i i'r ysbyty cyffredinol
- Es i i uned mân anafiadau
- Cysylltais â gwasanaeth Meddygon Teulu y Tu Allan i Oriau (OOH)
- Ffoniais Galw Iechyd Cymru neu GIG 111 Cymru
- Arall (gan mai holiadur dienw yw hwn, peidiwch â chynnwys unrhyw wybodaeth a fyddai'n galluogi rhywun i’ch adnabod chi neu unrhyw unigolyn arall) [xxxxx]

Eich dewis o fferyllfa

18. Dywedwch wrthym a ydych chi'n:

- Defnyddio'r un fferyllfa bob amser
- Defnyddio gwahanol fferyllfeydd ond mae'n well gen i ymweld ag un yn amlach
- Defnyddio gwahanol fferyllfeydd bob amser
- Defnyddio fferyllfa yn anaml
- Byth yn defnyddio fferyllfa

19. Hoffem wybod beth sy'n dylanwadu ar eich dewis o fferyllfa. Dywedwch wrthym pam rydych chi'n defnyddio'r fferyllfa hon? Ticiwch yr holl ddatganiadau sy'n berthnasol i chi.

- Mae'n agos at fy nghartref
- Mae'n agos at ble rwy'n gweithio
- Mae'n agos at fy meddyg
- Mae'n agos at ysgol neu feithrinfa'r plant
- Mae'n agos at siopau eraill
- Mae'r fferyllfa'n danfon fy meddyginiaethau
- Mae lleoliad y fferyllfa yn hawdd ei gyrraedd
- Mae'n hawdd parcio wrth y fferyllfa
- Yn syml, rwy'n hoffi'r fferyllfa
- Gallaf siarad â'r staff yn fy newis iaith
- Rwy'n ymddiried yn y staff sy'n gweithio yno
- Mae'r staff yn fy adnabod ac yn gofalu amdanaf
- Dydy'r staff ddim yn fy adnabod i
- Rwyf wedi defnyddio'r fferyllfa hon erioed
- Mae'r gwasanaeth yn gyflym
- Fel arfer mae ganddyn nhw'r hyn sydd ei angen arnaf mewn stoc
- Mae gan y fferyllfa oriau agor da
- Mae'r fferyllfa'n casglu fy mhresgripsiwn ac yn dosbarthu fy meddyginiaethau
- Argymhellwyd y fferyllfa i mi

- Mae'r fferyllfa'n darparu cyngor a gwybodaeth dda
- Y gwasanaeth cwsmer
- Mae'n hygyrch iawn h.y. yn addas ar gyfer cadeiriau olwyn/bygis babanod
- Mae'n siop gadwyn fawr adnabyddus
- Nid yw'n un o'r siopau cadwyni mawr
- Mae yna ardal breifat os oes angen i mi siarad â'r fferyllydd
- Mae'n fferyllfa ar-lein/rhyngrwyd
- Nid fferyllfa ar-lein/rhyngrwyd mohoni felly gallaf ymweld â hi a siarad â'r staff wyneb yn wyneb.
- Gallaf archebu fy meddyginiaethau rheolaidd gan ddefnyddio'r ap
- Arall (gan mai holiadur dienw yw hwn, peidiwch â chynnwys unrhyw wybodaeth a fyddai'n galluogi rhywun i'ch adnabod chi neu unrhyw unigolyn arall) [xxxx]

20. Oes fferyllfa fwy cyfleus a/neu agosach nad ydych chi'n ei defnyddio?

- Oes
- Nac oes
- Ddim yn gwybod

21. ...ac os ydych chi wedi ateb 'Oes' i gwestiwn 20, dywedwch wrthym pam nad ydych chi'n defnyddio'r fferyllfa honno?

- Nid yw'n hawdd parcio yn y fferyllfa
- Rwyf wedi cael profiad gwael yn y gorffennol
- Mae'r gwasanaeth yn rhy araf
- Mae'r staff yn newid yn gyson
- Dydy'r staff ddim yn fy adnabod i
- Rwy'n adnabod y staff a byddai'n well gen i iddyn nhw beidio â gwybod pa feddyginiaethau rwy'n eu cymryd
- Nid oes ganddyn nhw'r hyn sydd ei angen arnaf mewn stoc
- Nid yw'r fferyllfa'n dosbarthu meddyginiaethau
- Nid oes digon o breifatrwydd
- Dydy hi ddim ar agor pan fydd ei hangen arna i
- Nid yw'n hygyrch i gadeiriau olwyn/bygis babanod
- Arall (gan mai holiadur dienw yw hwn, peidiwch â chynnwys unrhyw wybodaeth a fyddai'n galluogi rhywun i'ch adnabod chi neu unrhyw unigolyn arall) [xxxx]

Teithio i'r fferyllfa

22. Os ydych chi'n mynd i'r fferyllfa ar eich pen eich hun neu gyda rhywun, sut ydych chi fel arfer yn teithio yno?

- Ar droed
- Ar y bws
- Mewn car
- Ar feic

- Mewn tacsi
- Ar sgwter symudedd
- Arall (gan mai holiadur dienw yw hwn, peidiwch â chynnwys unrhyw wybodaeth a fyddai'n galluogi rhywun i'ch adnabod chi neu unrhyw unigolyn arall) [xxxx]

23. ...a pha mor hir mae'n ei gymryd fel arfer i gyrraedd yno?

- Llai na 5 munud
- Rhwng 5 a 15 munud
- Mwy na 15 munud ond llai nag 20 munud
- Mwy na 20 munud

24. A fyddech chi'n dweud eich bod chi'n cael anhawster cyrraedd fferyllfa?

- Byddwn
- Na fyddwn

25. Os ydych chi'n cael anhawster teithio i fferyllfa, dywedwch wrthym pam. Gan mai holiadur dienw yw hwn, peidiwch â chynnwys unrhyw wybodaeth a fyddai'n galluogi rhywun i'ch adnabod chi neu unrhyw unigolyn arall.

[xxxx]

Gwasanaethau fferylliaeth yn gyffredinol

26. Hoffem wybod sut rydych chi'n dod o hyd i wybodaeth am fferyllfa e.e. yr oriau agor neu'r gwasanaethau sy'n cael eu cynnig. Ticiwch bob un perthnasol.

- Byddwn i'n eu ffonio nhw
- Byddwn i'n ffonio GIG 111 Cymru neu'n defnyddio'r wefan
- Byddwn i'n chwilio'r rhyngrwyd
- Byddwn i'n defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol
- Byddwn i'n gofyn i ffrind
- Byddwn i'n galw heibio ac yn gofyn iddyn nhw
- Byddwn i'n edrych yn y ffenestr
- Byddwn i'n darganfod drwy ddarllen y papur newydd neu'r cylchgrawn lleol
- Amherthnasol
- Arall (gan mai holiadur dienw yw hwn, peidiwch â chynnwys unrhyw wybodaeth a fyddai'n galluogi rhywun i'ch adnabod chi neu unrhyw unigolyn arall) [xxxx]

27. Ydych chi'n teimlo eich bod chi'n gallu trafod rhywbeth preifat gyda'ch fferyllydd?

- Ydw
- Nac ydw
- Erioed wedi gorfod gwneud hynny
- Ddim yn gwybod

28. A ydych chi'n ymwybodol y gallech chi gael mynediad at y gwasanaethau canlynol o fferyllfeydd fel rhan o'r GIG? Dewiswch y rhai rydych chi'n ymwybodol ohonyn nhw.

- Brechiadau ffliw (i'r rhai sydd yn un o'r grwpiau mwyaf agored i niwed)
- Gwasanaeth adolygu meddyginiaethau ar gyfer rhyddhau – mae'r gwasanaeth hwn ar gyfer pobl y mae eu meddyginiaethau wedi newid yn ystod arhosiad yn yr ysbyty, i'w helpu i ddeall y newidiadau sydd wedi'u gwneud ac i sicrhau bod y meddyginiaethau cywir yn cael eu presgripsiynu yn y dyfodol.
- Gwasanaeth adolygu defnydd o offer - mae hwn yn gyfle i drafod offer fel y rhai ar gyfer stomas a cholostomïau gyda fferyllydd neu nyrs arbenigol i sicrhau bod eich offer yn gwneud yr hyn sydd ei angen arnoch.
- Dulliau atal cenhedlu hormonaidd brys, a elwir hefyd yn y 'bilsen fore trannoeth'
- Cymorth i roi'r gorau i ysmygu
- Cynllun anhwylderau cyffredin – gall fferyllwyr roi cyngor a thriniaeth am ddim i chi ar gyfer afiechydon a mân anhwylderau cyffredin fel nad oes angen i chi weld meddyg teulu.

29. Oes unrhyw beth arall yr hoffech chi ei ddweud wrthym am eich profiad o'ch fferyllfa leol? Gan mai holiadur dienw yw hwn, peidiwch â chynnwys unrhyw wybodaeth a fyddai'n galluogi rhywun i'ch adnabod chi neu unrhyw unigolyn arall.

[xxxx]

30. A oes unrhyw rwystrau i chi gael mynediad at wasanaethau yn eich fferyllfa nad ydych wedi sôn amdanynt? Gan mai holiadur dienw yw hwn, peidiwch â chynnwys unrhyw wybodaeth a fyddai'n galluogi rhywun i'ch adnabod chi neu unrhyw unigolyn arall.

[xxxx]

Monitro Cydraddoldeb

Bydd y wybodaeth a roddwch wrth ateb y cwestiynau canlynol amdanoch chi eich hun yn ein helpu i ddeall a dadansoddi'r ystod o ymatebion a gawn yn well. Ni fyddant yn cael eu defnyddio at unrhyw ddibenion eraill.

Cesglir y wybodaeth yn ddienw ac ni ellir ei defnyddio i'ch adnabod chi'n bersonol.

Helpwch ni drwy ateb y cwestiynau mor llawn â phosibl. Mae hyn yn hollol wirfoddol; nid oes rhaid i chi ateb unrhyw gwestiynau.

Grŵp ethnig: beth yw eich grŵp ethnig?

Dewiswch un opsiwn sy'n disgrifio orau eich grŵp ethnig neu gefndir.

Gwyn

- Prydeinig

- Seisnig
- Gwyddelig o Ogledd Iwerddon
- Albanaidd
- Cymreig
- Gwyddelig
- Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig
- Mae'n well gen i beidio â dweud
- Arall (Nodwch): [xxxx]

Cymysg/Cymysg Prydeinig
- Gwyn/Du Caribïaidd
- Gwyn/Du Affricanaidd
- Gwyn/Asiaidd
- Unrhyw gefndir Cymysg arall

Du/Du Prydeinig
- Caribïaidd
- Affricanaidd
- Unrhyw gefndir Du arall

Asiaidd/Asiaidd Prydeinig
- Indiaidd
- Bangladesaidd
- Pacistanaidd
- Tsieineaidd
- Asiaidd Arall

Arall/Arall Prydeinig
- Arabaidd
- Mae'n well gen i beidio â dweud
- Arall (nodwch os oes angen) [xxxx]

Oedran: Nodwch eich oedran drwy dicio'r blwch priodol.

- 0 -15 oed
- 16 – 24 oed
- 25 – 34 oed
- 35 – 44 oed
- 45 – 54 oed
- 55 – 64 oed
- 65 – 74 oed
- 75 a hŷn

Beth ydych chi'n ei hystyried yn iaith gyntaf i chi?

- Cymraeg
- Saesneg
- Arall, nodwch: [xxxx]

Sut fyddech chi'n disgrifio'ch statws cyflogaeth orau?

- Mewn cyflogaeth - llawn amser
- Mewn cyflogaeth - rhan amser
- Di-waith
- Wedi ymddeol

Rhywedd:

- Gwryw
- Benyw
- Mae'n well gen i beidio â dweud
- Arall

Cyfeiriadedd Rhywiol: Pa un o'r opsiynau canlynol sy'n disgrifio sut rydych chi'n meddwl amdanoch chi'ch hun orau?

- Heterorywiol/Strêt
- Dyn hoyw
- Dynes Hoyw/Lesbiad
- Deurywiol
- Mae'n well gen i beidio â dweud
- Arall (nodwch):

Crefydd neu gred: Beth yw eich crefydd?

- Cristnogaeth (pob enwad)
- Dim crefydd
- Bwdhaeth
- Islam
- Iddewiaeth
- Hindŵaeth
- Sikhiaeth
- Mae'n well gen i beidio â dweud
- Arall (nodwch):

Statws Priodasol: Ydych chi'n briod neu mewn partneriaeth sifil gyda phartner o'r un rhyw?

- Ydw
- Nac ydw
- Mae'n well gen i beidio â dweud

Anableddau: Mae Adran 6(1) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi bod gan unigolyn anabledd:

a) Os oes gan yr unigolyn amhariad corfforol neu feddyliol, ac
b) Os yw'r amhariad yn cael effaith andwyol sylweddol a hirdymor ar allu'r unigolyn i gyflawni gweithgareddau dyddiol arferol.

Gan ddefnyddio'r diffiniad hwn, a ydych chi'n ystyried eich bod yn anabl?

- Ydw

- Nac ydw
- Mae'n well gen i beidio â dweud

Hunaniaeth o ran rhywedd: a yw eich hunaniaeth o ran rhywedd yn wahanol i'r un a bennwyd i chi ar adeg eich geni?

- Ydy
- Nac ydy
- Mae'n well gen i beidio â dweud

Cyfrifoldebau Gofalu: Ydych chi'n gofalu am aelodau'r teulu, ffrindiau, cymdogion neu eraill neu'n eu cefnogi oherwydd naill ai:

a) Salwch/anableddau corfforol neu feddyliol hirdymor; neu
b) Broblemau sy'n gysylltiedig â henaint

- Ydw
- Nac ydw
- Mae'n well gen i beidio â dweud

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn anelu i hybu cydraddoldeb ym mhopeth a wnawn, rhowch wybod i ni os oes gennych unrhyw sylwadau (cadarnhaol neu negyddol) yn ymwneud â'ch nodweddion gwarchodedig (megis materion yn ymwneud ag oedran, anabledd, hil, beichiogrwydd, crefydd, priodas/partneriaeth sifil, rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol ac ailbennu rhywedd)

[xxxx]

Atodiad H - canlyniadau llawn holiadur cleifion a'r cyhoedd

Sylwch fod yr holl ymatebion yn gyfieithiadau o ymatebion a roddwyd air am air yn Saesneg ac nid ydynt wedi cael eu golygu ar wahân i anonymeiddio fferyllfeydd, practisau meddygon teulu a lleoliadau.

Cod post ymatebwyr	Nifer yr ymatebion
CH5	1
CH6	3
CH7	8
CH73	1
CH8	2
LL11	5
LL12	3
LL12	3
LL13	1
LL14	2
LL16	2
LL16	2
LL18	12
LL19	3
LL21	1
LL22	6
LL26	1
LL27	1
LL28	2
LL29	6
LL30	5
LL31	5
LL32	7
LL33	3
LL36	2
LL40	1
LL41	1
LL45	2
LL46	1
LL52	1
LL53	1
LL53	1
LL54	1
LL55	5
LL57	4
LL58	1
LL59	2
LL60	3

LL63	1
LL64	1
LL65	3
LL65	1
LL67	1
LL77	5
Wedi dewis peidio â darparu	3

Mae Safonau'r Gymraeg yn gyfres o ofynion statudol sy'n berthnasol i'r bwrdd iechyd. Maent yn datgan ein cyfrifoldebau'n glir i ddarparu gwasanaethau dwyieithog ar gyfer cleifion a'r cyhoedd. Felly, a fyddech cystal â rhoi gwybod i ni beth yw'ch dewis iaith pan fyddwch yn cyrchu gwasanaethau mewn fferyllfa neu bractis meddyg teulu?

Opsiynau o ran ateb	Nifer yr ymatebion
Cymraeg	15
Saesneg	109
Arall	1
Wedi dewis peidio ag ateb	1

Ni wnaeth yr unigolyn a ddewisodd "Arall" ymhelaethu ar ei ateb.

Ydych chi'n casglu eich meddyginiaethau o:

Opsiynau o ran ateb	Nifer yr ymatebion
Fferyllfa	116
Fy meddygfa	10

Cafodd y cwestiynau canlynol eu hateb gan y rhai sy'n casglu eu meddyginiaethau o'u meddygfa.

Pa amser sydd fwyaf cyfleus i chi ddefnyddio'r fferyllfa yn eich meddygfa?

Opsiynau o ran ateb	Nifer yr ymatebion
Rhwng 8am a 12pm	0
Rhwng 12pm a 2.30pm	1
Rhwng 2.30am a 6.30pm	2
Dim gwahaniaeth gen i	7

Pa ddiwrnod sydd fwyaf cyfleus i chi ddefnyddio'r fferyllfa yn eich meddygfa?

Opsiynau o ran ateb	Nifer yr ymatebion
Dydd Llun	0
Dydd Mawrth	0
Dydd Mercher	1
Dydd Iau	2

Dydd Gwener	1
Dyddiau'r wythnos yn gyffredinol	2
Dim gwahaniaeth gen i	4

A fu unrhyw achlysuron yn ddiweddar pan nad oeddech yn gallu defnyddio'r fferyllfa yn eich meddygfa?

Opsiynau o ran ateb	Nifer yr ymatebion
Do	2
Naddo	7
Amherthnasol	1

Rhowch wybod i ni beth wnaethoch chi? Ticiwch bob gosodiad sy'n berthnasol.

Opsiynau o ran ateb	Nifer yr ymatebion
Es i i fferyllfa arall	1
Arhosais hyd nes bod y feddygfa yn fy meddygfa ar agor	1

Sut fyddwch chi fel arfer yn teithio i'ch meddygfa i gasglu eich meddyginiaethau?

Opsiynau o ran ateb	Nifer yr ymatebion
Ar droed	0
Ar y bws	0
Mewn car	10
Ar gefn beic	0
Mewn tacsi	0
Ar sgwter symudedd	0

... a faint o amser y mae'n ei gymryd i chi gyrraedd fel arfer?

Opsiynau o ran ateb	Nifer yr ymatebion
Llai na phum munud	2
Rhwng pump a 15 munud	5
Mwy na 15 munud ond llai na 20 munud	1
Mwy na 20 munud	2

Fyddech chi'n dweud eich bod yn cael anhawster i gyrraedd y fferyllfa yn eich meddygfa?

Opsiynau o ran ateb	Nifer yr ymatebion
Byddwn	1
Na fyddwn	9
Amherthnasol	0

Os ydych yn cael anhawster i gyrraedd y fferyllfa yn eich meddygfa, rhowch wybod i ni am y rheswm pam.

- Rwy'n gweithio'n llawn amser felly byddaf bob amser yn gofyn i aelod o'r teulu gasglu fy mhresgripsiwn rheolaidd

A oes unrhyw beth arall yr hoffech roi gwybod i ni yn ei gylch o ran eich profiad o'r fferyllfa yn eich meddygfa?

- Oriau agor cyfyngedig
- Gwasanaeth ardderchog bob amser
- Byddai'n well gen i pe bai gweithwyr fferylliaeth cofrestredig ynghlwm wrth ddosbarthu fy mhresgripsiwn.
- Maen nhw'n mynd yr ail filltir yn [enw'r practis]
- Gwasanaeth ardderchog. Rwy'n derbyn presgripsiynau rheolaidd bob mis ac nid wyf erioed wedi cael unrhyw broblemau.
- Mae'r fferyllfa yn fy meddygfa'n ardderchog
- Maen nhw'n defnyddio nodweddion cyfyngedig yn ap y GIG yn unig
- Archebu ar-lein - yn effeithlon ar gyfer presgripsiynau rheolaidd. Mae fy mhresgripsiwn ar gael bob amser. Mae staff y dderbynfa'n ardderchog ac yn effeithlon. Prydlon
- Mae cyfnodau wedi bod pan na dderbyniwyd unrhyw feddyginiaeth bresgripsiwn mewn misoedd blaenorol

A oes unrhyw rwystrau sy'n eich atal rhag cyrchu gwasanaeth yn fferyllfa eich meddygfa nad ydych wedi sôn amdanynt?

- Ni allaf gasglu presgripsiynau oni byddaf i ffwrdd o'r gwaith oherwydd eu horiau agor.

Ydych chi'n defnyddio fferyllfa hefyd?

Opsiynau o ran ateb	Nifer yr ymatebion
Ydw	6
Nac ydw	4

Pam ydych chi'n ymweld â fferyllfa fel arfer?

Opsiynau o ran ateb	Nifer yr ymatebion
I gasglu fy mhresgripsiwn fy hun	104
I gasglu presgripsiwn i rywun arall	55
I brynu meddyginiaethau i fi fy hun	46
I gael cyngor i fi fy hun	39
I brynu meddyginiaethau i rywun arall	23
I gael cyngor i rywun arall	12
Nid wyf yn mynd i fferyllfa; mae rhywun arall yn mynd ar fy rhan	2
Arall	2

Nid wyf yn ymweld â fferyllfa gan fy mod i'n defnyddio fferyllfa ar-lein/ar y we	0
Wedi dewis peidio ag ateb	4

Lle cafodd "Arall" ei ddewis, rhoddwyd y wybodaeth ychwanegol a ganlyn:

- Rwy'n defnyddio gwasanaeth danfon i'r cartref
- Casglu/dychwelyd blychau offer miniog

Pa mor aml ydych chi'n defnyddio fferyllfa?

Opsiynau o ran ateb	Nifer yr ymatebion
Bob dydd	0
Bob wythnos	7
Bob pythefnos	14
Bob mis/bob pedair wythnos	76
Bob chwarter	4
Yn ôl yr angen	17
Nid wyf yn defnyddio fferyllfa	0
Arall	4
Wedi dewis peidio ag ateb	4

Lle cafodd "Arall" ei ddewis, rhoddwyd y wybodaeth ychwanegol a ganlyn:

- Yn achlysurol i gael cyngor
- 8 wythnos
- 3 mis a hynny'n ddiweddar ond cyn hynny, byddwn yn mynd bob mis
- Pan fydd yn rhaid i mi gasglu meddyginiaeth wedi'i harchebu o'r feddygfa.

Pa amser sydd fwyaf cyfleus i chi ddefnyddio fferyllfa?

Opsiynau o ran ateb	Nifer yr ymatebion
Cyn 7am	0
Rhwng 7am a 9am	3
Rhwng 9am a 12 hanner dydd	31
Rhwng 12 hanner dydd a 3pm	14
Rhwng 3pm a 6pm	19
Rhwng 6pm a 9pm	15
Rhwng 9pm a hanner nos	0
Dim gwahaniaeth gen i	39
Wedi dewis peidio ag ateb	5

Pa ddiwrnod sydd fwyaf cyfleus i chi ddefnyddio fferyllfa?

Opsiynau o ran ateb	Nifer yr ymatebion
Dydd Llun	1
Dydd Mawrth	1

Opsiynau o ran ateb	Nifer yr ymatebion
Dydd Mercher	2
Dydd Iau	4
Dydd Gwener	4
Dydd Sadwrn	4
Dydd Sul	0
Dyddiau'r wythnos yn gyffredinol	35
Penwythnosau yn gyffredinol	16
Dim gwahaniaeth gen i	55
Wedi dewis peidio ag ateb	4

A fu unrhyw achlysuron yn ddiweddar pan nad oeddech yn gallu defnyddio eich fferyllfa arferol?

Opsiynau o ran ateb	Nifer yr ymatebion
Do	31
Naddo	81
Amherthnasol	10
Wedi dewis peidio ag ateb	4

Rhowch wybod i ni beth wnaethoch chi?

Opsiynau o ran ateb	Nifer yr ymatebion
Es i i fferyllfa arall	19
Arhosais hyd nes i'r fferyllfa agor	7
Es i at fy meddyg teulu	1
Es i i'r ysbyty cyffredinol	0
Es i i uned mân anafiadau	0
Cysylltais â'r gwasanaeth meddygon teulu y Tu Allan i Oriau (OOH)	1
Ffoniais Galw Iechyd Cymru neu GIG 111 Cymru	3
Arall	4
Wedi dewis peidio ag ateb	95

Lle cafodd "Arall" ei ddewis, rhoddwyd y wybodaeth ychwanegol a ganlyn:

- Gofynnais i ffrind
- Arhosais tan y diwrnod nesaf
- Fferyllfa arall ar ddydd Sul, pellter o ddwy awr i ffwrdd
- Roeddwn i y tu allan i'm hardal (Yr Alban), bu'n rhaid i mi ffonio'r feddygfa er mwyn i bresgripsiwn brys gael ei anfon i'r Alban.

A fyddech cystal â rhoi gwybod i ni p'un a ydych yn gwneud y canlynol:

Opsiynau o ran ateb	Nifer yr ymatebion
Yn defnyddio'r un fferyllfa bob tro	99

Opsiynau o ran ateb	Nifer yr ymatebion
Yn defnyddio fferyllfeydd gwahanol ond mae'n well gen i ymweld ag un benodol yn fwyaf aml?	20
Yn defnyddio fferyllfeydd gwahanol bob tro	2
Prin yn defnyddio fferyllfa	1
Byth yn defnyddio fferyllfa	0
Wedi dewis peidio ag ateb	4

Hoffem gael gwybod beth sy'n dylanwadu arnoch o ran dewis fferyllfa. A fyddech cystal â rhoi gwybod i ni am y rheswm pam rydych yn defnyddio'r fferyllfa hon? Ticiwch bob un o'r gosodiadau sy'n berthnasol i chi.

Opsiynau o ran ateb	Nifer yr ymatebwyr
Yn agos at fy nghartref	85
Yn agos at fy meddyg	51
Mae lleoliad y fferyllfa'n hwylus	41
Mae man preifat os bydd angen i mi siarad â'r fferyllydd	37
Rwyf wastad wedi defnyddio'r fferyllfa hon	35
Rwy'n ymddiried yn y staff sy'n gweithio yno	34
Mae'n hawdd parcio wrth y fferyllfa	30
Mae'r staff yn fy adnabod i ac maen nhw'n barod eu cymorth	29
Y gwasanaeth cwsmeriaid	27
Mae'r fferyllfa'n darparu cyngor a gwybodaeth da	26
Mae gan y fferyllfa oriau agor da	25
Fel arfer, mae ganddynt gyflenwad o'r hyn sydd ei angen arnaf	24
Yn syml, rwy'n hoffi'r fferyllfa	21
Mae'r gwasanaeth yn gyflym	20
Mae'n agos i ble rwy'n gweithio	17
Mae'n gwmni cadwyn adnabyddus	16
Nid yw'n un o'r cwmnïau cadwyn mawr	15
Nid yw'n fferyllfa ar-lein/ar y we ac felly, rwy'n gallu ymweld â hi a siarad â'r staff wyneb yn wyneb	12
Mae'n agos at siopau eraill	10
Gallaf siarad â'r staff yn fy newis iaith	8
Gallaf archebu fy meddyginiaethau rheolaidd gan ddefnyddio'r ap	7
Arall	6
Mae'r fferyllfa'n casglu fy mhresgripsiwn ac yn danfon fy meddyginiaethau i'r cartref	5
Cafodd y fferyllfa ei hargymell i mi	4
Mae'n hygyrch iawn h.y. yn addas ar gyfer cadeiriau olwyn/coetsis babanod	3

Opsiynau o ran ateb	Nifer yr ymatebwyr
Yn agos at ysgol neu feithrinfa'r plant	2
Mae'r fferyllfa'n danfon fy meddyginiaethau i'r cartref	2
Nid yw'r staff yn fy adnabod i	1
Fferyllfa ar-lein/ar y we yw hi	1
Wedi dewis peidio ag ateb	4

Lle cafodd "Arall" ei ddewis, rhoddwyd y wybodaeth ychwanegol a ganlyn:

- Stopiwch geisio annog fferyllfeydd i fod ar agor am oriau estynedig, maen nhw'n gweithio'n galetach na'r meddygfeydd
- Gwasanaeth casglu meddyginiaethau wedi'i sefydlu
- Nid yw'r un o'r fferyllfeydd yn y dref ar agor dros wyliau'r banc
- [Yn dilyn newid i ddarpariaeth gwasanaethau], gwnaeth y gwasanaeth ddirywio. Roedd ciwiau o 20,30 munud bob tro. Byddai'r staff yn bloeddio cwestiynau o flaen pawb yn yr ystafell, a oedd yn peri embaras ac i bob pwrpas, yn achos o dor diogelwch data weithiau. Roeddwn i mor flin nes i mi ddechrau mynd i fferyllfa yn y pentref cyfagos. Mae'n rhaid gyrru yno yn y car ond mae'r staff yn fwy cwrtais, nid oes unrhyw giwiau, ac mae'r gwasanaeth yn well o lawer. Yn y bôn, mae'n ymddangos bod darpariaeth fferyllfeydd wedi prysur waethygu ers Brexit, pan aeth yn fwyfwy anodd cael gafael ar rai meddyginiaethau, ynghyd â phroblemau mewn meddygfeydd. Ymddengys fod cynifer o staff locwm erbyn hyn, nid ydyn nhw'n poeni dim, nid ydyn nhw'n adnabod y cleifion, maen nhw'n symud ymlaen felly nid ydyn nhw'n atebol. Rwyf am gael gwasanaeth cyflym a phwrpasol yn agos at fy nghartref
- Mae'r staff yn gyfeillgar ac rwy'n adnabod rhai ohonynt.
- Gallaf archebu presgripsiynau rheolaidd dros y ffôn

A oes fferyllfa sy'n fwy cyfleus a/neu sy'n agosach nad ydych yn ei defnyddio?

Opsiynau o ran ateb	Nifer yr ymatebion
Oes	30
Nac oes	90
Dydw i ddim yn gwybod	2
Wedi dewis peidio ag ateb	4

A fyddech cystal â rhoi gwybod i ni am y rheswm pam nad ydych yn defnyddio'r fferyllfa honno?

Opsiynau o ran ateb	Nifer yr ymatebion
Mae'r gwasanaeth yn rhy araf	7
Arall	6
Rwyf wedi cael profiad drwg yn y gorffennol	5
Nid yw'n hawdd parcio wrth y fferyllfa	3
Nid oes digon o breifatrwydd	3
Opsiynau o ran ateb	**Nifer yr ymatebion**

Nid oes ganddynt gyflenwad o'r hyn sydd ei angen arnaf	2
Nid yw'r staff yn fy adnabod i	1
Nid yw ar agor pan fydd arnaf ei hangen	1
Nid yw'n addas ar gyfer cadeiriau olwyn/coetsis babanod	1
Mae'r staff yn newid yn dragwyddol	0
Rwy'n adnabod y staff a byddai'n well gen i pe na baent yn gwybod pa feddyginiaethau yr wyf yn eu cymryd	0
Nid yw'r fferyllfa'n danfon meddyginiaethau i'r cartref	0

Lle cafodd "Arall" ei ddewis, rhoddwyd y wybodaeth ychwanegol a ganlyn:

- Nid yw'r holl gyffuriau ganddynt fyth
- Nid yw fy meddygfa yn defnyddio'r fferyllfa hon
- Gwasanaeth araf iawn, pythefnos am bresgripsiwn rheolaidd, fferyllydd anghwrtais. Mae angen i'r cwestiwn hwn fod yn un aml-ddewis gan fod cymaint o resymau
- Mae'r presgripsiwn yn mynd i rywle arall

Os byddwch chi'n mynd i'r fferyllfa ar eich pen eich hun, neu gyda rhywun arall, sut fyddwch chi'n cyrraedd fel arfer?

Opsiynau o ran ateb	Nifer yr ymatebion
Ar droed	30
Ar y bws	5
Mewn car	82
Ar gefn beic	1
Mewn tacsi	1
Ar sgwter symudedd	1
Arall	2
Wedi dewis peidio ag ateb	4

Lle cafodd "Arall" ei ddewis, rhoddwyd y wybodaeth ychwanegol a ganlyn:

- Ddim yn ymweld
- Mewn car ac ar droed

... a faint o amser y mae'n ei gymryd i chi gyrraedd fel arfer?

Opsiynau o ran ateb	Nifer yr ymatebion
Llai na phum munud	37
Rhwng 5 a 15 munud	71
Mwy na 15 munud ond llai na 20 munud	7
Mwy na 20 munud	6
Wedi dewis peidio ag ateb	5

Fyddech chi'n dweud eich bod yn cael anhawster wrth gyrraedd fferyllfa?

Opsiynau o ran ateb	Nifer yr ymatebion
Byddwn	8
Na fyddwn	113
Wedi dewis peidio ag ateb	5

Os ydych chi'n cael anhawster i gyrraedd fferyllfa, rhowch wybod i ni am y rheswm pam.

- Anableddau corfforol.
- Rwy'n gaeth i'r tŷ
- Parcio
- Rwy'n cael anhawster cyrraedd fferyllfa arall
- Mae ME arna' i. Weithiau, alla' i ddim gyrru ac rwy'n dibynnu ar fy ngŵr
- Dydw i ddim yn gyrru
- Problemau symudedd

Hoffem wybod sut rydych yn dod o hyd i wybodaeth am fferyllfeydd megis amseroedd agor neu'r gwasanaethau sy'n cael eu cynnig. Ticiwch unrhyw un neu bob un sy'n berthnasol.

Opsiynau o ran ateb	Nifer yr ymatebion
Byddwn i'n chwilio ar y we	85
Byddwn i'n eu ffonio	37
Byddwn i'n galw heibio ac yn gofyn iddynt	23
Byddwn i'n defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol	18
Byddwn i'n edrych yn y ffenestr	15
Byddwn i'n ffonio GIG 111 Cymru neu'n defnyddio'r wefan	6
Amherthnasol	5
Byddwn i'n gofyn i ffrind	4
Arall	2
Byddwn i'n cael manylion trwy ddarllen papur newydd neu gylchgrawn lleol	0

Lle cafodd "Arall" ei ddewis, rhoddwyd y wybodaeth ychwanegol a ganlyn:

- Mae gwasanaethau fferyllfeydd yn well na'r meddygfeydd
- Defnyddio gwefan y GIG i chwilio am wasanaethau a gynigir yn fy ardal i (fel profion dolur gwddf)

Ydych chi'n teimlo eich bod yn gallu siarad am rywbeth preifat gyda'ch fferyllydd?

Opsiynau o ran ateb	Nifer yr ymatebion
Ydw	69
Nac ydw	18
Erioed wedi bod angen gwneud hynny	27
Dydw i ddim yn gwybod	8
Wedi dewis peidio ag ateb	4

Ydych chi'n ymwybodol y gallai fod modd i chi fanteisio ar y gwasanaethau canlynol gan fferyllfeydd fel rhan o'r GIG? Dewiswch y rhai yr ydych yn ymwybodol ohonynt.

Opsiynau o ran ateb	Nifer yr ymatebion
Brechiadau rhag y Ffliw (ar gyfer y rhai sydd mewn grwpiau mewn perygl)	101
Gwasanaeth adolygu meddyginiaethau ar adeg rhyddhau - mae'r gwasanaeth hwn wedi'i fwriadu ar gyfer pobl y mae eu meddyginiaethau wedi newid yn ystod arhosiad yn yr ysbyty, er mwyn eu helpu i ddeall y newidiadau sydd wedi cael eu gwneud ac er mwyn sicrhau bod presgripsiynau yn y dyfodol ar gyfer y meddyginiaethau cywir.	32
Gwasanaeth adolygu defnydd o gyfarpar - mae hwn yn gyfle i drafod cyfarpar fel y rhai ar gyfer stoma a cholostomi gyda fferyllydd neu nyrs arbenigol er mwyn sicrhau bod eich cyfarpar yn gwneud yr hyn y mae angen iddo ei wneud.	15
Dulliau atal cenhedlu hormonaidd brys, sydd hefyd yn gyfarwydd fel 'pilsen y bore trannoeth'	44
Cymorth i roi'r gorau i ysmygu	48
Cynllun anhwylderau cyffredin - gall fferyllwyr roi cyngor a thriniaeth i chi yn rhad ac am ddim ar gyfer mân salwch ac anhwylderau cyffredin fel nad oes angen i chi weld meddyg teulu.	95
Wedi dewis peidio ag ymateb	16

A oes unrhyw beth arall yr hoffech roi gwybod i ni yn ei gylch yn ymwneud â'ch profiad o'ch fferyllfa leol?

- Mae'r gwasanaeth yn araf, heb fod yn gyfrinachol. Yn anhrefnus iawn.
- Nid yw rhai fferyllwyr yn gallu archwilio clustiau
- Mae fferyllfa [Enw] [Lleoliad] yn warthus. Nid yw staff yn poeni dim am wasanaeth cwsmeriaid a byddai'n well ganddynt barhau i sgwrsio er eu bod nhw'n gallu gweld yn glir bod ciw yn ffurfio. Y fferyllfa waethaf un [lleoliad]
- Yn cynnig cynllun anhwylderau cyffredin ond mae cael apwyntiad bron â bod yr un mor anodd â chael apwyntiad meddyg teulu.
- Staff gwych, sy'n deall eu pethau. Bob amser yn barod eu cymorth

- Rwy'n teimlo fy mod i wedi cael fy ngorfodi i geisio cyngor gan fferyllfa leol gan fod cael apwyntiad meddyg teulu yn amhosibl ac mae salwch yn gwaethygu
- Mae'r gwasanaeth presgripsiynu'n ddefnyddiol iawn
- Mae'r staff yn fferyllfa [enw] yn [lleoliad] yn rhagorol ac maen nhw'n cynnig gwasanaeth gwych bob amser. Mae [Staff] yn rhai o'r aelodau gorau o staff a allai weithio i [enw] a'r GIG.
- Mae fferyllfa [Enw] bob amser wedi bod yn anhygoel, mae staff bob amser yn barod eu cymorth a gwasanaeth gwych bob amser
- Staff parod iawn eu cymorth
- Mae'n well gen i ymweld â'm fferyllfa leol yn hytrach na cheisio cael apwyntiad gyda'r meddyg.
- Pam nad yw'r fferyllfa wrth ymyl WEMC ar agor dros y penwythnos pan fo'r Gwasanaeth y Tu Allan i Oriau wedi'i leoli yno?
- Gwasanaeth ardderchog
- "Roeddwn i'n arfer gadael fy mhresgripsiwn rheolaidd yn y fferyllfa ar gyfer y mis nesaf. Byddent yn anfon y cais am bresgripsiwn at y meddyg ac yn anfon neges destun ataf i pan oedd yn barod. Yn achlysurol, byddwn i'n gweld ei fod wedi cael ei anfon at y meddyg teulu anghywir. Cyrhaeddodd bwynt lle byddwn i heb fy meddyginiaeth yn gyson, oherwydd hyn, rydw i bellach yn cadw fy mhresgripsiwn rheolaidd fy hun ac yn mynd ag o at y feddygfa fy hun erbyn hyn.
- Mae'r amser y mae'n ei gymryd i fynd â'r presgripsiwn at y siop fferyllydd ac i'r feddyginiaeth fod yn barod bellach yn cymryd mwy na saith niwrnod.
- Rwy'n gweld os nad yw'r feddyginiaeth gan y feddygfa, yr esgus yw rhoi'r bai ar y meddyg teulu. Pan fyddwch chi'n siarad â'r meddyg teulu, mae'n datgan ei fod wedi'i anfon. Yn y diwedd, mae gofyn i chi ddychwelyd at y feddygfa er mwyn ceisio mynd i wraidd y mater.
- Ar un achlysur, roedd y feddyginiaeth yr oedden nhw wedi'i rhoi i mi yn gwbl anghywir. Es i â'r feddyginiaeth yn ôl a siaradais â'r rheolwr ond nid oedd hyn i'w weld yn poeni dim arni. Dywedodd y byddai'n llenwi ffurflen ddigwyddiadau."
- Byddwn i'n awyddus iddynt fod ar agor ar ddydd Sadwrn a gyda'r nos
- Maen nhw'n cynnal adolygiad o dechneg defnyddio anadlyddion, ac rwy'n meddwl bod hyn yn wastraff o gyllid y GIG gan y dylid ymdrin â hyn wrth roi'r presgripsiwn cychwynnol ac yn ystod adolygiadau blynyddol gyda nyrs anadlol yn y feddygfa. Mae mwy o wasanaethau sy'n fwy addas ar gyfer fferyllfa fel gwasanaeth ip, DMR a cas pan na allwch gael apwyntiad gyda meddyg teulu.
- Mae'r parcio'n erchyll
- Mae ein fferyllfa leol ar agor yn gynnar tan yn hwyr saith niwrnod yr wythnos ac mae'n darparu gwasanaeth da ar gyfer ardal eang. Rwy'n poeni bod y fferyllydd o dan straen wedi dweud hynny, gan fy mod i'n cael gwybod weithiau nad yw meddyginiaethau'n barod neu nad yw'r presgripsiwn wedi'i anfon ond gallai aros am y meddyginiaethau hyn arwain at broblemau difrifol
- Mae fferyllfeydd lleol yn gweithio'n galetach na'r meddygfeydd lleol ac nid ydynt yn cael unrhyw gymorth gan y bwrdd iechyd. Stopiwch geisio rhoi mwy o bwysau arnyn nhw

- "Rwyf wedi gorfod newid fy fferyllfa i un arall oherwydd amseroedd aros hir... Y tro diwethaf, bûm i'n aros am 50 munud ac roedd rhaid i mi sefyll ac aros...dim esboniad, dim cyfathrebu, ac erbyn i mi dderbyn fy mhresgripsiwn, roedd saith o bobl eraill hefyd yn aros ac roedd 5 o'r rhain yn oedrannus ac nid oedd ganddynt hyd yn oed gadair i eistedd arni...
- 3 aelod o staff mewn lleoliad prysur iawn.
- A hynny gydag un fferyllydd yn unig.
- Mae hynny'n gwbl annerbyniol.
- Oherwydd y mater yma, rwyf wedi newid fy mhresgripsiynau gan fy meddyg teulu i gael eu danfon i fferyllfa arall."
- Mae'r fferyllydd presennol yn ddiog ac ni fydd yn siarad â chi heb apwyntiad.
- Maen nhw'n wych, yn enwedig wrth archebu llaeth presgripsiwn ar gyfer y bychan, o fewn deuddydd mae'n barod i'w gasglu.
- Nid oes unrhyw fferyllfa leol ar agor ar ddydd Sul
- Gwasanaeth gwirioneddol wych
- Mae'r fferyllfa leol yn fy mhentref [enw] yn ardderchog, felly hefyd mae'r fferyllfa yn [lleoliad]. Fodd bynnag, mae [enw] yn [lleoliad] yn dweud eu bod yn gallu cynnig llawer o wasanaethau ond pan fyddwch chi'n mynd yno, nid ydynt yn gallu gwneud hynny (mae archwilio'r clustiau'n un o'r rheiny).
- Mae fy fferyllfa'n dda iawn
- Cael gwybod bod presgripsiwn yn barod, er bod rhif cyswllt ganddynt, nid ydynt yn rhoi gwybod, nid yw'r presgripsiwn byth yn barod ac yn aml, nid yw ar gael y diwrnod hwnnw
- Mae problem gyda stoc bob amser. Amser aros i'r presgripsiwn gael ei ddosbarthu. Diffyg lle.
- Mae'n rhaid i mi ddweud bod y Fferyllfa rwy'n ei defnyddio'n wych. Mae'r staff yn wych ac mor barod eu cymorth, maen nhw'n fy adnabod i ac mae tipyn o hwyl rhyngon ni. Os byddaf yn cael problem, maen nhw'n dda iawn ac yn esbonio popeth.
- Dylai fod mynediad ehangach at wasanaethau danfon presgripsiynau. Rwy'n rhoi cymorth i lawer o bobl mewn capasiti proffesiynol sy'n cael anhawster i gael mynediad at fferyllfeydd. Mwy o fferyllwyr ar gael fel fy mod i'n gallu siarad â fferyllydd, yn breifat heb fod yn y brif ardal heb deimlo'n euog neu fel pe bawn i'n faich.
- Defnyddiol iawn
- Ddim yn gallu ateb y ffôn. Gall y ciwiau fod yn hir iawn
- Mae'r gwasanaeth presgripsiynau rheolaidd yn anghyson
- Alla' i ddim credu sut mae'n cael ei gynnal. Dim stoc, anhrefnus. Byddwch yn gollwng presgripsiwn, dychwelyd ymhen deuddydd ac ni fydd wedi cael ei brosesu. Yna, byddan nhw'n dweud nad yw'r hyn sydd ei angen mewn stoc. Maen nhw'n eich anwybyddu chi pan fyddwch chi'n galw heibio. Gwasanaeth cwsmeriaid erchyll. Fel arfer, mae'r holl amseroedd agor er hwylustod y staff, nid y cwsmer.
- Mae gen i bresgripsiwn rheolaidd am feddyginiaeth a byddaf arni am weddill fy oes. Byddaf yn cyflwyno fy mhresgripsiwn yn y feddygfa sy'n ei awdurdodi wedyn ac yn ei anfon i'r fferyllfa. Alla' i ddim dweud sawl gwaith nad yw fy mhresgripsiwn i'w weld yn y feddygfa. Bron bob tro, nid yw pob un o'r cyffuriau sydd eu hangen arna' i ar gael sy'n golygu bod angen cerdded i'r fferyllfa unwaith eto. Mae problem bob tro, weithiau bydd y presgripsiwn wedi

diflannu i agendor rhwng y feddygfa a'r fferyllfa. Rwyf wedi bod yn hollol anfodlon ar y gwasanaeth. Pe bai fferyllfa arall yn agosach a fyddai'n ddibynadwy, byddwn i'n newid i feddygfa arall.

- Mae staff yn barod iawn eu cymorth ac yn gwrtais bob amser
- Mae [Enw] yn archebu fy mhresgripsiwn bob mis ac yn anfon neges destun ataf pan fydd yn cyrraedd. Mae'n iawn pan fydd pethau'n gweithio'n dda, ond yn aml, bydd oedi cyn i mi dderbyn fy mhresgripsiwn misol, nid yw'n glir lle mae'r broblem, ond nid yw'r ffaith eu bod yn dibynnu ar yrrwr cludo i gasglu a danfon presgripsiynau o'r feddygfa yn [lleoliad] yn helpu. Yn aml, bydd yn rhaid i mi ddychwelyd yno ddwy neu dair gwaith cyn i mi gael fy mhresgripsiwn ac erbyn hynny, mae'n hwyr a byddaf wedi rhedeg allan o dabledi. Mae angen system well.
- Amseroedd aros hir i gasglu meddyginiaeth sydd yn aml yn gofyn am ymweliadau lluosog. Yn aml, nid yw meddyginiaeth mewn stoc. Alla' i ddim newid i fferyllfa arall gan fod yr oriau agor gorau ar gael yno ac rwy'n gweithio'n llawn amser.
- Yn gorfod aros am yn hir i gael fy nhabledi ac weithiau, nid yw fy mhresgripsiwn yma
- Yn y gorffennol, roedd gennym ni ddwy gangen ac ers hynny, dim ond un sydd gennym ni. Mae bob amser yn brysur, amseroedd aros hir a gall camgymeriadau godi
- Bob amser yn brysur iawn ac yn aml, mae arosiadau hir i gael sylw. Mae oriau agor bellach mor gyfyng fel bod yn rhaid i mi gymryd amser i ffwrdd o'r gwaith bob mis i gyrraedd y fferyllfa er mwyn casglu fy mhresgripsiwn rheolaidd.
- Mae'r gwasanaeth rwy'n ei gael gyda salwch terfynol heb ei ail. Mae'n wych pan fyddaf yn mynd yno.
- Ciwiau hir a mynd nôl a 'mlaen o'r feddygfa gan nad yw presgripsiynau bob amser yn gywir.
- Mae'r fferyllfa ei hun yn dda iawn. Mae'r broblem yn gysylltiedig â meddygfa [enw]. Dyna'r hyn sydd angen i chi roi trefn arno! Ar fwy nag un achlysur, roedd angen i fferyllydd ymyrryd er mwyn sicrhau mynediad at bresgripsiwn rheolaidd ar gyfer meddyginiaeth hollbwysig a fyddai'n darfod ond ni fyddai'r feddygfa'n presgripsiynu heb adolygu'r feddyginiaeth ond ni fyddai'n trefnu apwyntiad am adolygiad o feddyginiaeth ac nid oeddem ni'n lwcus gyda'r loteri 10 munud ddyddiol ar 0830 er mwyn ceisio cael apwyntiad
- Nid oedd y presgripsiwn wedi'i archebu mewn pryd ar gyfer apwyntiad meddyg felly bu'n rhaid i mi aildrefnu, rhwystredig iawn
- Mae fy fferyllfa'n rhan hollbwysig o'n cymuned yn enwedig i bobl ifanc a'r henoed a'r rhai fel minnau nad ydym yn gyrru neu’r rhai nad oes ganddyn nhw unrhyw fodd o deithio.
- Codir tâl i barcio erbyn hyn
- Na, maen nhw wedi bod yn barod eu cymorth
- Mae fy fferyllfa leol yn mynd o ddrwg i waeth. Oedi mawr am feddyginiaeth bob amser ac yn aml yn cael fy ngadael heb feddyginiaeth oherwydd camgymeriadau'r staff.
- Angen fferyllydd presgripsiynu CYMRAEG yn rheolaidd
- Roedd yn rhaid i mi ffonio fferyllfeydd gwahanol er mwyn cael apwyntiad, byddai'n well o lawer cael trefnu ar-lein. Rwyf hefyd wedi profi anghwrteisi wrth geisio casglu meddyginiaeth sydd wedi'i newid ar fyr rybudd

- Mae fferyllfa [Enw] yn anhygoel. Tîm gwych, yn gyflym iawn wrth ddosbarthu. Gwasanaeth enghreifftiol
- Gwasanaeth ardderchog gan y fferyllfa o'm dewis i
- Ar adegau, maen nhw wedi'u gorlethu heb ddigon o staff i geisio gwasanaethu, cynghori a pharatoi presgripsiynau. Ni allai un [fferyllfa] y gwnaethom ei defnyddio ddosbarthu presgripsiynau os oedd nifer yr eitemau a oedd eu hangen yn mynd dros nifer penodol ar y safle...roedd yn rhaid iddynt gael eu rhoi at ei gilydd oddi ar y safle a'u danfon yn ôl i'r fferyllfa ..ai cynnydd yw hynny...roedd yr eitemau a oedd eu hangen yn rhai cyffredin ac nid oeddent yn anarferol. Rwy'n poeni am bobl yn teithio i gasglu presgripsiynau nad ydynt naill ai'n barod yn rhannol neu'n llawn. Yn enwedig os ydyn nhw'n talu am dacsis neu fysys ar gyfer teithiau diangen i bob pwrpas. Mae'n fy synnu gweld silffoedd a droriau'n llawn eitemau...ond eto i gyd, nid yw eitemau ar gael.
- gwasanaeth gwael iawn
- Mae ein fferyllfa'n wych, staff gwych, fferyllwyr hawdd mynd atynt a gwybodus. Gellir archebu presgripsiynau rheolaidd dros y ffôn, a byddwch yn derbyn neges destun unwaith y byddant yn barod i'w casglu
- Prinder stoc
- Mae'r fferyllfa yn derbyn fy mhresgripsiynau o'r feddygfa ond mae hyn fel arfer yn cymryd 4/5 diwrnod i'w brosesu, mae hyn yn rhy hir o lawer. Mae hyn oherwydd nad oes ganddynt unrhyw stoc o'm meddyginiaeth ond wrth reswm, os yw'n cael ei phresgripsiynu bob mis i mi, maen nhw'n gwybod bod angen cyflenwad o'r feddyginiaeth.
- Rwy'n teimlo ei bod yn cymryd gormod o amser i brosesu fy mhresgripsiynau
- Gwasanaeth Rhagnodi Annibynnol (IP) gwych
- Problem wrth gael mynediad at y fferyllfa ar brynhawn dydd Sadwrn a dydd Sul gan ei bod ar gau.
- Yn anhrefnus iawn. Amser aros hir rhwng cael presgripsiwn a'i gasglu. Nid yw'r system wych ar gyfer casglu o locer byth yn gweithio felly mae'n fater o orfod aros am hyd o amser annerbyniol mewn ciw hir gyda phobl sy'n sâl. Dim preifatrwydd. Disgwyliad i adrodd enw a chyfeiriad o fewn clyw cwsmeriaid eraill sydd yn y siop. Dim digon o staff fyth. Ar gyfer poblogaeth a demograffeg oedrannus [lleoliad], mae'r fferyllfa fach hon yn gwbl annigonol
- Staff cyfeillgar. Bob amser yn barod i helpu... Maen nhw’n mynd yr ail filltir i'n helpu ni bob tro

A oes unrhyw rwystrau o ran cyrchu gwasanaethau yn eich fferyllfa nad ydych wedi sôn amdanynt?

- Mae fy fferyllfa arferol ynghyd â'r rhan fwyaf o fferyllfeydd eraill yn yr ardal yn cau am ryw awr amser cinio, ar y penwythnosau, nid ydynt ar agor cyn y gwaith ac yn aml iawn, maen nhw naill ai ar gau neu mae ciwiau'n ymestyn allan o'r drws ar ôl y gwaith - pryd meddech chi ddylai'r boblogaeth sy'n gweithio gasglu ein sgriptiau heb gymryd gwyliau blynyddol?
- Peidio gwybod pa Fferyllfa sydd â rhagnodydd ar gael
- Alla' i ddim credu bod y fferyllfa'n dal i gau am awr amser cinio. Mae hyn mor hen ffasiwn. Pwy sy'n cael awr i ginio?

- Os yw rhywun yn gweithio o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 9am a 6pm, mae'n anodd cyrraedd y fferyllfa...
- Oes. Rwy'n gaeth i'r tŷ ac maen nhw'n gwrthod danfon fy meddyginiaethau i'r cartref
- Rhowch y gorau i hyn. Agorwch y meddygfeydd yn amlach!!!!!
- Mae'r fferyllydd yn y siop yn gorfodi system yn seiliedig ar apwyntiadau ar gyfer cyngor, ar gyfer gwasanaethau, rwy'n tueddu i ddefnyddio fferyllfa wahanol lle mae'n haws mynd at y fferyllydd, maen nhw hefyd yn cau i ginio sy'n ei gwneud hi'n anodd gofyn cwestiynau
- Yr angen i gasglu presgripsiwn o'r feddygfa er mwyn i'm presgripsiwn gael ei brosesu yn y fferyllfa leol. Mae'n rhaid i mi fynd yn gorfforol i gasglu fy mhresgripsiwn o'r feddygfa, ond yn y gorffennol, byddai'n cael ei anfon at y fferyllfa a byddech chi'n derbyn hysbysiad i roi gwybod bod eich presgripsiwn yn barod - nid oes dim felly'n digwydd mwyach, gwaith dyfalu yw'r cyfan.
- Oes. Bydd staff fy fferyllfa i'n gwylltio pan fyddwn ni'n gofyn, ac yn aml, nid ydynt yn rhoi'r opsiwn i bobl gael mynediad i ystafell breifat. Mae'n anghyfforddus.
- Caiff lleoedd parcio i bobl anabl eu defnyddio gan bobl heb anableddau corfforol yn aml a byddant yn ymosodol o gael eu herio.
- Mynediad ar ôl oriau gwaith. Cadarnhad bod presgripsiynau'n barod (nid ydynt yn eu hanfon hanner yr amser)
- Nid yw'n agor dros wyliau'r banc
- Oriau agor, ar gau amser cinio
- Ar gau ar ddydd Sul, gyda'r nos a gwyliau'r banc.
- Nid yw'r fferyllydd Saesneg yn gallu darparu cynllun anhwylderau cyffredin - dim fferyllydd rheolaidd yn y siop
- mae rhai staff yn haerllug
- Rwy'n dioddef gyda gorbryder ac mae defnyddio'r fferyllfa yn gwaethygu fy nghyflwr. Dydw i ddim yn gyrru mwyach ac rwy'n dibynnu ar fy merch i fynd â mi yno. Hoffwn i eu gweld yn cynnig gwasanaeth danfon i'r cartref
- Ar gau amser cinio

Monitro cydraddoldeb

Grŵp ethnig	**Nifer yr ymatebion**
Prydeinig	57
Cymreig	52
Seisnig	10
Albanaidd	2
Gwyddelig	1
Gwell gen i beidio â dweud	1
Arall - Ewropeaidd heb fod yn Brydeinig	1
Gwyn a Du Affricanaidd	1
Wedi dewis peidio ag ateb	1

Oedran	Nifer yr ymatebion
0-15 oed	0
16-24 oed	0
25-34 oed	10
35-44 oed	18
45-54 oed	22
55-64 oed	36
65-74 oed	34
75 ac yn hŷn	5
Wedi dewis peidio ag ateb	1

Beth ydych chi'n ystyried fel eich iaith gyntaf?	Nifer yr ymatebion
Cymraeg	28
Saesneg	96
Arall - Ffrangeg	1
Wedi dewis peidio ag ateb	1

Sut fyddech chi'n disgrifio eich statws cyflogaeth orau?	Nifer yr ymatebion
Cyflogedig - llawn amser	47
Cyflogedig - rhan-amser	22
Di-waith	7
Wedi ymddeol	48
Wedi dewis peidio ag ateb	2

Rhyw	Nifer yr ymatebion
Gwryw	20
Benyw	103
Gwell gen i beidio â dweud	2
Arall	0
Wedi dewis peidio ag ateb	1

Cyfeiriadedd rhywiol: pa rai o'r opsiynau canlynol sy'n disgrifio'r ffordd yr ydych yn meddwl amdanoch chi'ch hun orau?	Nifer yr ymatebion
Heterorywiol/strêt	113
Dyn hoyw	1
Dynes hoyw/lesbiad	1
Deurywiol	3
Gwell gen i beidio â dweud	4
Arall	1
Wedi dewis peidio ag ateb	3

Crefydd neu gred: beth yw'ch crefydd?	Nifer yr ymatebion
Cristion (pob enwad)	60
Dim crefydd	55
Gwell gen i beidio â dweud	8
Arall (nodwch)	2
Wedi dewis peidio ag ateb	1

Lle cafodd "Arall" ei ddewis, rhoddwyd y wybodaeth ychwanegol a ganlyn:

- Pagan
- Tyst Jehofa

Statws priodasol: ydych chi'n briod neu mewn partneriaeth sifil â rhywun o'r un rhyw?	Nifer yr ymatebion
Ydw	76
Nac ydw	40
Gwell gen i beidio â dweud	8
Wedi dewis peidio ag ateb	2

Anabledd: Mae Adran 6(1) y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn datgan bod gan berson anabledd yn achos y canlynol:

a) Bod gan y person hwnnw amhariad corfforol neu feddyliol, ac
b) Mae'r amhariad yn cael effaith niweidiol sylweddol a hirdymor ar allu'r person hwnnw i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd.

Gan ddefnyddio'r diffiniad hwn, ydych chi'n ystyried eich bod yn anabl?	Nifer yr ymatebion
Ydw	24
Nac ydw	91
Gwell gen i beidio â dweud	7
Wedi dewis peidio ag ateb	4

Hunaniaeth o ran rhywedd: A yw eich hunaniaeth o ran rhywedd wedi newid o'r un a bennwyd i chi ar adeg eich geni?	Nifer yr ymatebion
Do	5
Naddo	116
Gwell gen i beidio â dweud	2
Wedi dewis peidio ag ateb	3

Cyfrifoldebau gofalu: Ydych chi'n gofalu am neu'n cynnig cymorth neu gefnogaeth i berthnasau, ffrindiau, cymdogion neu eraill oherwydd naill ai: • **Salwch/anabledd corfforol neu feddyliol hirdymor; neu** • **Broblemau sy'n gysylltiedig â henaint?**	**Nifer yr ymatebion**
Ydw	39
Nac ydw	79
Gwell gen i beidio â dweud	5
Wedi dewis peidio ag ateb	3

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn anelu i hybu cydraddoldeb ym mhopeth rydym yn ei wneud, rhowch wybod i ni a oes gennych unrhyw sylwadau (cadarnhaol neu negyddol) yn ymwneud â'ch nodweddion gwarchodedig (megis materion yn ymwneud ag oedran, anabledd, hil, beichiogrwydd, crefydd, priodas / partneriaeth sifil, rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol ac ailbennu rhywedd).

- Nid wyf bob amser yn cael fy nhrin â pharch
- Gŵr gweddw yn byw ar fy mhen ar hun ac mae'r teulu gerllaw os bydd angen.

Atodiad I – holiadur ar gyfer contractwyr fferyllfeydd

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn paratoi ei asesiad o anghenion fferyllol neu PNA nesaf sydd i'w gyhoeddi erbyn 1 Hydref 2026 ac mae angen eich cymorth arnom i gasglu rhywfaint o wybodaeth i gefnogi ei ddatblygiad.

Wrth ddatblygu'r holiadur, gwnaethom benderfynu gofyn am wybodaeth sydd ei hangen yn unig ond nad yw'n cael ei chadw na'i chasglu'n rheolaidd. Fel y gwelwch, rydym wedi cadw'r holiadur mor fyr â phosibl.

Er ei fod ar gael tan ddydd Llun 6 Ebrill 2026, byddem yn eich annog i gwblhau'r holiadur nawr.

Ar gyfer ymholiadau sy'n ymwneud â'r wybodaeth y gofynnwyd amdani neu'r atebion sydd eu hangen, anfonwch e-bost at BCU.CommunityPharmacy@wales.nhs.uk gyda'r teitl pwnc 'Holiadur ar gyfer Contractwyr PNA BIPBC'.

Manylion y Safleoedd

Cod y Contractwr (Cod ODS)	
Enw'r contractwr (h.y. enw'r unigolyn, partneriaeth neu gwmni sy'n berchen ar y busnes fferyllfa)	
Enw masnachu	
Cyfeiriad y fferyllfa	
Cyfeiriad e-bost y fferyllfa	
Rhif ffôn y fferyllfa	
Ffacs y fferyllfa (os yn berthnasol)	
Cyfeiriad e-bost y fferyllfa (os yn berthnasol)	
A all y bwrdd iechyd storio'r wybodaeth uchod a'i defnyddio i gysylltu â chi?	☐ Gall ☐ Na

Cyfleusterau ar gyfer Ymgynghoriadau

A yw'r safle yn hygyrch i ddefnyddwyr cadair olwyn? ☐ Ydy ☐ Nac ydy

Ydy'r lleoliad ar gyfer ymgynghoriadau:

- Ddim ar gael ☐
- ar gael (yn cynnwys mynediad i gadeiriau olwyn), neu ☐ Ydy
- ar gael (heb fynediad i gadeiriau olwyn), neu ☐ Ydy
- wedi'i gynllunio o fewn y 12 mis nesaf, neu ☐ Ydy
- arall (nodwch)

(Dewiswch un opsiwn)

Lle mae lleoliad ar gyfer ymgynghoriadau:

- ydy hi'n ystafell gaeedig? ☐ Ydy ☐ Nac ydy
- a yw'n lleoliad dynodedig lle gall y claf a'r fferyllydd eistedd gyda'i gilydd? ☐ Ydy ☐ Nac ydy
- a yw'r claf a'r fferyllydd yn gallu siarad ar uchder sain arferol heb i staff y fferyllfa nac ymwelwyr â'r fferyllfa eu clywed? ☐ Ydy ☐ Nac ydy
- a yw wedi'i ddynodi'n glir fel lleoliad ar gyfer ymgynghoriadau cyfrinachol, yn wahanol i fannau cyhoeddus cyffredinol y fferyllfa? ☐ Ydy ☐ Nac ydy

Os nad oes ardal ymgynghori, a oes trefniadau eraill ar gyfer trafodaethau cyfrinachol? ☐ Oes ☐ Nac oes

A oes siaradwyr Cymraeg yn rhan o'ch staff? ☐ Oes

A oes unrhyw ieithoedd eraill yn cael eu siarad gan y staff (yn ogystal â Saesneg)?

Os felly, nodwch pa ieithoedd.

[blwch testun]

Gwasanaethau

A yw'r fferyllfa'n dosbarthu cyfarpar?

- Ydy, pob math ☐ Ydy
- Ydy, ac eithrio offer stoma ☐ Ydy
- Ydy, ac eithrio offer anymataliaeth ☐ Ydy
- Ydy, ac eithrio offer stoma ac anymataliaeth ☐ Ydy
- Ydy, dim ond gorchuddion ☐ Ydy
- Arall [blwch testun]
- Dim ☐ Ydy

Gwasanaethau heb eu comisiynu

A yw'r fferyllfa'n darparu unrhyw un o'r canlynol?

- Casglu presgripsiynau o bractisau Meddygfeydd Teulu ☐ Ydy
- Danfon meddyginiaethau a ddosberthir – am ddim gais ☐ Ydy ar
- Danfon meddyginiaethau a ddosberthir – cleifion penodol grwpiau (rhestrwch y meini prawf) [Blwch Testun] ☐ Ydy
- Danfon meddyginiaethau a ddosberthir – ardaloedd penodol (rhestrwch yr ardaloedd) [Blwch Testun] ☐ Ydy
- Danfon meddyginiaethau a ddosberthir – codir tâl ☐ Ydy

- Man casglu awtomataidd ar y safle ☐ Ydy

Yn eich barn chi, a oes angen gwasanaeth clinigol ychwanegol, sy'n bodoli eisoes, nad yw'n cael ei ddarparu yn eich ardal ar hyn o bryd? Os felly, beth yw'r gofyniad penodol a pham.

Yn eich barn chi, a oes angen gwasanaeth newydd nad yw ar gael ar hyn o bryd? Os felly, beth yw'r gofyniad penodol a pham.

Galluedd

Mae'r galw am wasanaethau fferyllol yn cynyddu yn gyffredinol. Eich fferyllfa:

	Adeiladau	**Lefelau staffio**
Mae gennym ddigon o gapasiti i ymdopi â'r cynnydd yn y galw yn ein hardal.	☐ Oes	☐ Oes
Nid oes gennym ddigon o gapasiti ar hyn o bryd ond gallem wneud addasiadau i ymdopi â'r cynnydd yn y galw yn ein hardal.	☐ Nac oes	☐ Nac oes
Nid oes gennym ddigon o gapasiti a byddem yn ei chael hi'n anodd ymdopi â'r cynnydd yn y galw.	☐ Nac oes	☐ Nac oes

Datblygu Busnes

Oes gennych chi unrhyw gynlluniau i ddatblygu neu ehangu eich safle neu ddarpariaeth gwasanaeth?

☐ Oes ☐ Nac oes

Os felly, nodwch y manylion:

Enw'r sawl sy'n cwblhau'r ffurflen hon:

Enw cyswllt y sawl sy'n cwblhau'r holiadur, rhag ofn y bydd angen i ni drafod eich ymatebion gyda chi.
……..

Cyfeiriad e-bost cyswllt
……..

Atodiad J - holiadur ar gyfer practisau sy'n dosbarthu

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn paratoi ei asesiad o anghenion fferyllol (PNA) nesaf sydd i'w gyhoeddi erbyn 1 Hydref 2026 ac mae angen eich cymorth arnom i gasglu rhywfaint o wybodaeth i gefnogi ei ddatblygiad.

Wrth ddatblygu'r holiadur, gwnaethom benderfynu gofyn am wybodaeth sydd ei hangen yn unig ond nad yw'n cael ei chadw na'i chasglu'n rheolaidd. Fel y gwelwch, rydym wedi cadw'r holiadur mor fyr â phosibl.

Er ei fod ar gael tan ddydd Llun 6 Ebrill 2026, byddem yn eich annog i gwblhau'r holiadur nawr.

Ar gyfer ymholiadau sy'n ymwneud â'r wybodaeth y gofynnwyd amdani neu'r atebion sydd eu hangen, anfonwch e-bost at BCU.CommunityPharmacy@wales.nhs.uk gyda'r teitl pwnc 'Arolwg ar gyfer practisau sy'n dosbarthu - PNA BIPBC'.

Nodwch enw'r practis rydych chi'n cwblhau'r holiadur ar ei ran:

……

Nodwch gyfeiriad(au) y safle(oedd) y mae gan y practis gymeradwyaeth safle i ddosbarthu ohono:

……

Cwblhewch y tabl isod i ddangos yr amseroedd y mae'r ddosbarthfa ar agor gan ddefnyddio'r cloc 24 awr.

	Cyfeiriad -	**Cyfeiriad -**	**Cyfeiriad -**
Dydd Llun			
Dydd Mawrth			
Dydd Mercher			
Dydd Iau			
Dydd Gwener			
Dydd Sadwrn			
Dydd Sul			

A yw cyfarpar yn cael ei ddosbarthu o'r safle?

- Ydy, pob math ☐ Ydy

- Ydy, ac eithrio cyfarpar stoma ☐ Ydy
- Ydy, ac eithrio cyfarpar anymataliaeth ☐ Ydy
- Ydy, ac eithrio cyfarpar stoma ac anymataliaeth ☐ Ydy
- Ydy, dim ond gorchuddion ☐ Ydy
- Arall [blwch testun]
- Dim ☐ Ydy

Danfon eitemau sy'n cael eu dosbarthu

A yw'r fferyllfa'n darparu unrhyw un o'r canlynol?

- Danfon meddyginiaethau a ddosberthir – am ddim
  ☐ Ydy ar gais
- Danfon meddyginiaethau a ddosberthir – cleifion penodol
  ☐ Ydy grwpiau (rhestrwch y meini prawf)

  [blwch testun]
- Danfon meddyginiaethau a ddosberthir – ardaloedd penodol
  ☐ Ydy (rhestrwch yr ardaloedd)

  [blwch testun]
- Danfon meddyginiaethau a ddosberthir – codir tâl ☐ Ydy
- Man casglu awtomataidd ar y safle ☐ Ydy

Ieithoedd a siaredir

A oes siaradwyr Cymraeg yn rhan o'ch staff? ☐ Oes

A oes unrhyw ieithoedd eraill yn cael eu siarad gan y staff (yn ogystal â Saesneg)?

Os felly, nodwch pa ieithoedd.

[blwch testun]

Galluedd

Mae'r galw am wasanaethau iechyd yn cynyddu yn gyffredinol. Gan feddwl am eich gwasanaeth dosbarthu yn unig:

	Adeiladau	Lefelau staffio
Mae gennym ddigon o gapasiti i ymdopi â'r cynnydd yn y galw yn ein hardal.	☐ Oes	☐ Oes
Nid oes gennym ddigon o gapasiti ar hyn o bryd ond gallem wneud addasiadau i ymdopi â'r cynnydd yn y galw yn ein hardal.	☐ Nac oes	☐ Nac oes
Nid oes gennym ddigon o gapasiti a byddem yn ei chael hi'n anodd ymdopi â'r cynnydd yn y galw.	☐ Nac oes	☐ Nac oes

Gwasanaethau eraill sy'n gysylltiedig â dosbarthu

Rhowch fanylion unrhyw weithgareddau eraill a ddarparwch sy'n gysylltiedig â'ch gwasanaeth dosbarthu, e.e., siartiau MARs, 'pecynnau rhag ofn' ac offer miniog i gleifion.

[blwch testun]

Manylion y sawl sy'n llenwi'r ffurflen:

Enw cyswllt y sawl sy'n cwblhau'r holiadur, rhag ofn y bydd angen i ni drafod eich ymatebion gyda chi.

……

Cyfeiriad e-bost cyswllt

……

Atodiad K – adroddiad ymgynghori

1 Cyflwyniad

Fel rhan o'r broses o asesu anghenion fferyllol, mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ymgymryd ag ymgynghoriad sy'n para o leiaf 60 diwrnod gyda sefydliadau penodol. Pwrpas yr ymgynghoriad yw canfod p'un a yw'r darparwyr a'r gwasanaethau fferyllol sy'n rhoi cymorth i ardal y bwrdd iechyd wedi cael eu hadlewyrchu'n fanwl-gywir yn nogfen derfynol yr asesiad o anghenion fferyllol. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r ystyriaethau a'r ymatebion i'r ymgynghoriad ac mae'n disgrifio'r broses gyffredinol a ddefnyddiwyd i ymgymryd â'r ymgynghoriad.

2 Proses Ymgynghori

Er mwyn cwblhau'r broses hon, mae'r bwrdd iechyd wedi ymgynghori â'r partïon a enwyd o dan reoliad 7 Rheoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020, er mwyn pennu a yw fersiwn ddrafft yr asesiad o anghenion fferyllol yn mynd i'r afael â materion yr oeddent yn eu hystyried i fod yn berthnasol i ddarparu gwasanaethau fferyllol:

- Fferylliaeth Gymunedol Cymru
- Pwyllgor Meddygol Lleol Gogledd Cymru
- Contractwyr sydd wedi'u cynnwys yn y rhestr fferyllol
- Meddygon teulu sydd wedi'u cynnwys yn y rhestr o feddygon fferyllol
- Practisau meddygon teulu
- Llais
- Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru
- Cyngor Sir Ynys Môn
- Cyngor Gwynedd
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Cyngor Sir Ddinbych
- Cyngor Sir y Fflint
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
- Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Cafodd e-bost ei anfon at y sefydliadau uchod, yn eu gwahodd i gyflwyno eu sylwadau ar yr asesiad o anghenion fferyllol. Cafodd dolenni gwe i'r asesiad o anghenion fferyllol a holiadur ar-lein eu cynnwys yn yr e-bost.

Cafodd y sawl yr ymgynghorwyd â nhw y cyfle i ymateb trwy gwblhau cyfres o gwestiynau a/neu cyflwyno sylwadau ychwanegol. Roedd yr holl ddogfennau'n ddwyieithog, ond ni dderbyniwyd unrhyw ymatebion yn Gymraeg.

Bwriad y cwestiynau oedd asesu'r ddarpariaeth bresennol o ran gwasanaethau fferyllol, ystyried unrhyw amgylchiadau penodol yn y dyfodol lle y gallai'r ddarpariaeth bresennol newid yn sylweddol, a chanfod unrhyw fylchau ar hyn o bryd ac yn y dyfodol o ran gwasanaethau fferyllol.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad o 10 Mehefin hyd at 9 Awst 2026.

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r ystyriaethau a'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Dylid nodi nad oedd yn ofynnol i'r sawl a oedd yn cymryd rhan gwblhau pob cwestiwn.

Derbyniodd yr ymgynghoriad bum ymateb, gan gynnwys ymateb oddi ar y system gan Fferylliaeth Gymunedol Cymru.

Opsiynau o ran ateb	**Canran ymateb**	**Cyfrif ymateb**
Ar ran fferyllfa/contractwr dosbarthu cyfarpar/practis dosbarthu	20.0%	1
Ar ran sefydliad	40.0%	2
Ymateb personol	40.0%	2
Cwestiwn a atebwyd		**5**

3 Crynodeb o gwestiynau ar-lein, ymatebion, ac ystyriaethau'r bwrdd iechyd

Mae'r holl sylwadau a wnaed fel rhan o'r ymgynghoriad wedi'u cynnwys air am air.

Wrth ofyn "**A yw pwrpas yr asesiad o anghenion fferyllol wedi cael ei esbonio**", mae'r bwrdd iechyd yn falch o nodi bod pedwar o'r sawl a ymatebodd wedi dweud "Do".

Gwnaeth un unigolyn ymhelaethu ar ei ymateb trwy ddweud "bod yr esboniad yn glir".

Gwnaeth Fferylliaeth Gymunedol Cymru y sylw a ganlyn:

"Mae fersiwn ddrafft y PNA yn rhoi esboniad defnyddiol o'r gydberthynas rhwng y PNA, anghenion iechyd y boblogaeth a darpariaeth gwasanaethau fferyllol. Dylid ystyried cydnabod swyddogaeth statudol y PNA yn fwy penodol o fewn y fframwaith mynediad i'r farchnad. Yn benodol, mae'r PNA yn darparu'r sail dystiolaethol ar gyfer asesu ceisiadau i ymuno â rhestr fferyllol neu restr meddygon fferyllol, ac ar gyfer ceisiadau adleoli, yn unol â Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020. Mae cydnabod y rôl hon yn benodol yn bwysig gan y bydd y casgliadau y daethpwyd iddynt o fewn y PNA yn dylanwadu'n uniongyrchol ar benderfyniadau'n ymwneud â mynediad i'r farchnad yn y dyfodol. Felly mae gan unrhyw ddiffygion yn y sail dystiolaeth neu'r fethodoleg asesu y potensial i effeithio ar gadernid y penderfyniadau hynny."

Mae'r bwrdd iechyd wedi ystyried y sylw hwn ac mae'n nodi bod cyfeiriad at y cyswllt rhwng yr asesiad o anghenion fferyllol a mynediad i'r farchnad yn adran 1.1 a bod esboniad ynghylch hyn mewn deddfwriaeth. Mae'n fodlon nad oes angen gwneud unrhyw ddiwygiad i'r asesiad o anghenion fferyllol.

Yn y cwestiwn nesaf, gofynnwyd, "**A yw'r asesiad o anghenion fferyllol yn adlewyrchu'r ddarpariaeth bresennol o ran gwasanaethau fferyllol yn eich ardal chi?**" ac mae'r bwrdd iechyd yn falch o nodi nad oedd neb wedi dweud "Nac ydy".

Gwnaeth Fferylliaeth Gymunedol Cymru y sylw a ganlyn:

"Mae fersiwn ddrafft y PNA ar y cyfan yn adlewyrchu'r ddarpariaeth bresennol o ran fferylliaeth gymunedol ar draws ardal BIPBC. Mae'n defnyddio cymysgedd priodol o ddata'n ymwneud â chontractau, data ynghylch dosbarthu a gweithgarwch gwasanaeth, gwybodaeth am y Bwrdd Iechyd lleol ac atebion hunanddatganedig i holiaduron gan gontractwyr fferyllol, gan roi trosolwg lefel uchel rhesymol o'r ddarpariaeth bresennol.

Mae'r holiadur i gontractwyr fferyllol yn cynnig cipolwg gwerthfawr ar y gwasanaethau presennol ac amodau gweithredu ar draws y rhwydwaith. Serch hynny, asesiad yn ymwneud â chyfnod penodol o amser yw'r capasiti yr adroddir arno. Erys cysylltiad agos rhwng darpariaeth gwasanaethau fferyllol a'r cyllid sydd ar gael, sy'n effeithio'n uniongyrchol ar gapasiti contractwyr, gwytnwch y gweithlu a darpariaeth gwasanaeth. Heb fuddsoddiad ychwanegol sylweddol yn fframwaith contractau fferylliaeth gymunedol, ni fydd lefel y ddarpariaeth a ddisgrifir yn y PNA yn gynaliadwy dros gyfnod ei oes."

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi pryderon Fferylliaeth Gymunedol Cymru ynghylch cyllido gwasanaethau fferyllol. Mae o'r farn bod hyn y tu hwnt i gwmpas yr asesiad o anghenion fferyllol, ac nad yw tâl ar gyfer y rhan fwyaf o'r gwasanaethau fferyllol a ddarperir gan gontractwyr fferyllol o fewn rheolaeth y bwrdd iechyd.

Mae'r bwrdd iechyd yn cydnabod bod yr ymatebion i'r cwestiwn ynghylch capasiti'n seiliedig ar amgylchiadau ar adeg ateb y cwestiwn ac y gallai fferyllfeydd barhau i dynnu'n ôl o'r rhestr fferyllol. Mae'n ymwybodol o'i ddyletswydd i fonitro darpariaeth gwasanaeth ac anghenion ei drigolion fel y gall ystyried p'un a oes angen iddo lunio asesiad newydd o anghenion fferyllol o fewn cylch oes pum mlynedd arferol y ddogfen er mwyn nodi anghenion cyfredol newydd ar gyfer un neu fwy o wasanaethau fferyllol. Mae o'r farn bod y risg barhaus sydd ynghlwm wrth fferyllfeydd sy'n tynnu'n ôl o'r rhestr fferyllol yn atgyfnerthu'r angen i sicrhau bod y ddogfen yn addas ar gyfer y dyfodol fel ei fod yn gallu ymateb pe bai hynny'n digwydd.

Pan ofynnwyd "**A oes unrhyw fylchau o ran darpariaeth gwasanaeth, h.y. pryd, ble a pha wasanaethau sydd ar gael nad ydynt wedi cael eu nodi yn yr asesiad o anghenion fferyllol?**", dywedodd tri o bobl "Nac oes" a dywedodd un unigolyn, "Ddim yn gwybod".

Gwnaeth Fferylliaeth Gymunedol Cymru y sylw a ganlyn:

"Mae'r cwestiwn yn ymwneud â phryd (h.y. oriau agor), ble (lleoliad fferyllfeydd, contractwyr cyfarpar a meddygon fferyllol) a pha wasanaethau maent yn eu darparu wedi cael eu nodi gan BIPBC at ddibenion y PNA gan ddefnyddio data sydd ar gael

o ffynonellau amrywiol. Nid yw Fferylliaeth Gymunedol Cymru yn gallu gwirio'r wybodaeth hon."

Mae'r bwrdd iechyd yn falch o nodi ei fod wedi nodi darpariaeth gwasanaethau fferyllol yn llawn o fewn yr asesiad o anghenion fferyllol.

Pan ofynnwyd "**A yw fersiwn ddrafft yr asesiad o anghenion fferyllol yn adlewyrchu anghenion y boblogaeth?**" Dywedodd un unigolyn "Ydy" a dywedodd tri "Ddim yn gwybod". Nodwyd dau sylw, yn ymhelaethu ar yr ymatebion a roddwyd.

- "Ymateb gan Fwrdd Iechyd cyfagos"
- "Byddem yn cwestiynu'r angen a nodwyd am fferyllfa ym Metws-y-Coed. Nid oes unrhyw fanylion yn ymwneud â pham mae angen fferyllfa yma. Cafodd cais blaenorol gan Boots UK Ltd yn 2013 ei wrthod yn yr ardal hon ac ni wnaed unrhyw newid sylweddol i'r ardal hon ers hynny."

Mewn ymateb i'r sylw hwn, mae'r bwrdd iechyd yn nodi bod penderfyniad wedi cael ei wneud ar gais a dderbyniwyd yn 2013 yn unol â'r prawf yn Rheoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2013, fel y'i diwygiwyd. Mae'r sail ar gyfer ceisiadau i'w cynnwys yn y rhestr fferyllol wedi newid, ac nid yw'r penderfyniadau blaenorol yn effeithio ar unrhyw benderfyniadau a wneir o dan Reoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020, fel y'i diwygiwyd.

Gwnaeth y bwrdd iechyd nodi angen cyfredol am fferyllfa ym Metws-y-Coed yn yr asesiad o anghenion fferyllol yn 2021. Nodwyd bod hyd a lled twristiaeth yng Ngogledd Cymru wedi cynyddu, a gwnaeth nifer yr eitemau a roddwyd ar bresgripsiwn fesul y pen gynyddu o 5.5% rhwng 2015 a 2025. Yn ogystal, caiff ystod ehangach o wasanaethau fferyllol eu darparu gan gontractwyr fferyllol. Ar hyn o bryd, nid oes gan drigolion a thwristiaid ym Mhetws-y-Coed fynediad rhesymol ar hyn o bryd i'r ystod ehangach o wasanaethau fferyllol a ddarperir gan gontractwyr fferyllol. Mae'r bwrdd iechyd yn dal i farn mai bwlch o ran darpariaeth gwasanaethau fferyllol yw hwn.

Gwnaeth Fferylliaeth Gymunedol Cymru y sylw a ganlyn:

"Mae BIPBC wedi nodi anghenion heb eu diwallu mewn perthynas â'r canlynol:

- Darpariaeth bresennol o ran Gwasanaethau Hanfodol ym Metws-y-Coed
- Darpariaeth bresennol o ran Gwasanaethau Clinigol Ychwanegol ym Metws-y-Coed

Mae BIPBC wedi gwneud datganiadau mewn perthynas â cholli tybiannol o ran y canlynol:

- Gwasanaethau Hanfodol ar ddydd Sadwrn oherwydd newidiadau i oriau ychwanegol.
- Gwasanaethau Hanfodol oherwydd cau fferyllfeydd mewn trefi neu bentrefi lle bo un fferyllfa i'w chael yn unig
- Gwasanaethau gan Feddygon Fferyllol
- Gwasanaethau hanfodol oherwydd cau'r fferyllfa ym Modelwyddan

- Mae BIPBC wedi gwneud datganiadau mewn perthynas â darpariaeth yn y dyfodol o ran y canlynol:
    - Gwasanaeth Rhagnodi Annibynnol gan Fferyllwyr
    - Gwasanaethau Fferylliaeth Gymunedol Glinigol ym Modelwyddan

Mae Fferylliaeth Gymunedol Cymru yn ymhelaethu'n fanylach ar yr anghenion a nodwyd ac y soniwyd amdanynt yn flaenorol a'r anghenion tybiannol isod.

a) ADRAN 22.3.1 a 22.3.2 - YR ANGEN I FFERYLLFA DDARPARU GWASANAETHAU HANFODOL A GWASANAETHAU CLINIGOL YCHWANEGOL PENODOL YM METWS-Y-COED

Mae Betws-y-Coed yn ardal wledig iawn. Fel sy'n ofynnol gan Reoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 ac fel y'i cynghorir gan ganllawiau anstatudol:

…. *oni bai bod y Bwrdd Iechyd yn gallu rhoi tystiolaeth trwy fap diffiniedig o ardaloedd sydd o dan eu rheolaeth, ni fydd y Bwrdd Iechyd yn gallu gweithredu ar unrhyw gais y bydd yn ei dderbyn hyd nes y pennir p'un a yw'r cais o fewn ardal dan reolaeth ai peidio*…

Rydym yn croesawu'r honiad y gallai fod angen fferyllfa ym Metws-y-Coed a, hyderwn y rhoddir sylw i'r rheoliadau tanategol, gan gynnwys yr angen i wneud penderfyniad ynghylch yr ardal a reolir ac i fod â thystiolaeth ar fap diffiniedig sy'n cael ei gadw gan y Bwrdd Iechyd cyn penderfynu ynghylch cais i agor fferyllfa newydd. Gweler Q5(b)”

Mae'r bwrdd iechyd yn falch o nodi bod Fferylliaeth Gymunedol Cymru yn gefnogol o ran yr angen cyfredol a nodwyd. Gall gadarnhau, pe bai cais yn dod i law, y byddai'n cael ei bennu yn unol â'r rheoliadau perthnasol. Gallai hyn gynnwys adolygu'r ardal leol bresennol a reolir a fyddai'n cael ei gyflawni yn unol â'r rheoliadau perthnasol.

“b) ADRAN 22.4.1 - COLLI TYBIANNOL O RAN Y CANLYNOL: GWASANAETHAU HANFODOL AR DDYDD SADWRN OHERWYDD NEWIDIADAU I ORIAU YCHWANEGOL; GWASANAETHAU HANFODOL OHERWYDD CAU FFERYLLFEYDD MEWN TREFI NEU BENTREFI LLE BO UN FFERYLLFA YN UNIG A CHAU'R FFERYLLFA YM MODELWYDDAN.

O fewn y PNA, mae BIPBC wedi nodi anghenion fel y'i disgrifir yn y tabl isod

i.	**Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi pe câi oriau agor ychwanegol eu colli ar ddydd Sadwrn** o 1 Hydref 2026 sy'n arwain at lai na thair awr o ddarpariaeth o ran gwasanaethau fferyllol o fewn tref/pentref, byddai angen yn y dyfodol i ddarparu gwasanaethau hanfodol am y tair awr agor craidd ar ddydd Sadwrn yn y dref/pentref neu drefi/pentrefi lle mae'r lleihad mewn oriau agor ychwanegol wedi digwydd, rhwng 09.00 a 17.00, oni bai bod fferyllfa arall yn y dref/pentref ac yna, na fyddai'r angen yn codi yn y dyfodol.
ii.	**Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi pe bai gwasanaethau hanfodol yn cael eu colli gan fod fferyllfa** wedi tynnu'n ôl i'r rhestr fferyllol, byddai angen yn

y dyfodol naill ai am y canlynol:

- fferyllfa newydd yn yr un tref/pentref i ddarparu gwasanaethau hanfodol, y gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol, gwasanaethau i ddychwelyd blychau miniog cleifion, gwasanaeth gweinyddu o dan oruchwyliaeth, gwasanaeth fferyllfa Helpa Fi i Stopio, a gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu lefel 4 am 40 o oriau agor craidd bob wythnos,
  neu

- y gwasanaeth meddygon fferyllol os yw'r dref/pentref mewn ardal a reolir,

  oni bai bod fferyllfa arall yn y dref/pentref yna ac na fyddai'r angen hwn yn codi yn y dyfodol.

iii. **Pe bai'r fferyllfa ym Modelwyddan yn tynnu'n ôl o'r rhestr fferyllol**, byddai angen yn y dyfodol am fferyllfa newydd yn y dref i ddarparu gwasanaethau hanfodol yn ystod yr oriau agor craidd a ganlyn:

• O leiaf ddeg awr agor craidd bob dydd o ddydd Llun i ddydd Gwener
• Chwe awr agor craidd ar ddydd Sadwrn, a
• Chwe awr agor craidd ar ddydd Sul

Mae Fferylliaeth Gymunedol Cymru yn awyddus i wneud nifer o bwyntiau'n ymwneud â chynnwys datganiadau (i) i (iii) yn y PNA.

Mae'n rhaid i Angen yn y Dyfodol fod yn Real ac yn Amlwg

Mae canllawiau anstatudol Rheoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 yn datgan y canlynol:

Dim ond anghenion y mae angen eu diwallu ar unwaith neu a fydd yn codi o fewn cylch oes y PNA a gaiff eu cynnwys yn y PNA.

Mae datganiadau'r Bwrdd Iechyd yn ddibynnol ar ddigwyddiadau a allai godi neu na allent godi yn ystod cylch oes y PNA. Nid ydynt yn cynrychioli anghenion penodol sy'n bodoli ar hyn o bryd neu y gall y Bwrdd Iechyd ddod i'r casgliad y byddant yn codi; yn hytrach, asesiadau tybiannol o'r goblygiadau posibl i newidiadau i'r ddarpariaeth gwasanaeth yn y dyfodol ydynt.

Mae Fferylliaeth Gymunedol Cymru o'r farn bod y datganiadau a amlinellir yn adrannau (i)–(iii) yn ddamcaniaethol a'u bod yn ymestyn y tu allan i bwrpas bwriadedig y PNA. Bwriad y PNA yw asesu a disgrifio'r angen presennol a'r angen amlwg yn y dyfodol, nid rhagweld newidiadau damcaniaethol i'r farchnad a allai ddigwydd pe bai darparwyr yn tynnu gwasanaethau'n ôl neu'n newid oriau agor. Yn unol â hyn, dylai'r datganiadau gael eu dileu.

Fframwaith Rheoleiddio

Mae'r fframwaith rheoleiddio yn cynnig mecanwaith ar gyfer newid yn y dyfodol

• Diwygio'r PNA

Mae'r rheoliadau (Rheoliad 6) a'r canllawiau anstatudol yn cydnabod y gallai newidiadau i argaeledd gwasanaethau fferyllol godi yn ystod bywyd pum mlynedd PNA ac mae'n darparu mecanwaith i Fyrddau Iechyd ymateb i newidiadau o'r fath. Mae canllawiau anstatudol, sy'n seiliedig ar ddarpariaethau perthnasol Rheoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 yn datgan y canlynol:

"*Os bydd newidiadau naill ai i'r anghenion am wasanaethau fferyllol neu i argaeledd gwasanaethau fferyllol o fewn y cylch pum mlynedd, ac os bydd y newidiadau hynny'n berthnasol i geisiadau mynediad i'r farchnad, bydd angen i'r BILl ystyried p'un ai i fwrw ymlaen â'r broses o ddiwygio ei PNA ai peidio*..."

Os bydd unrhyw rai o'r amgylchiadau a ddisgrifir yn adrannau (i)-(iii) yn digwydd mewn gwirionedd, bryd hynny, byddai'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd ystyried p'un a oedd y newid yn ddigon arwyddocaol i warantu naill ai PNA diwygiedig neu, lle bo'n briodol, datganiad ategol. Felly nid oes angen ac nid yw'n briodol cynnwys asesiadau damcaniaethol o senarios o'r fath o fewn y PNA presennol.

• Oriau Ychwanegol

Yn bwysicaf oll, dylai'r Bwrdd Iechyd gydnabod nad yw'r amgylchiadau a ddisgrifir ym mharagraff (i), colli oriau agor ychwanegol ar ddydd Sadwrn, ynddynt eu hunain, yn pennu angen fferyllol nac yn cyfiawnhau creu contract fferylliaeth newydd. Nid yw penderfynu y gallai oriau agor ychwanegol fod yn fuddiol yr un peth â phenderfynu bod darpariaeth gwasanaeth fferyllol ychwanegol yn angenrheidiol yn unol ag ystyr y Rheoliadau a byddai angen i'r angen gael ei ddangos.

Lle caiff bwlch o ran mynediad ar adegau penodol ei nodi, mae mecanweithiau rheoleiddio a chontract presennol eisoes ar gael i fynd i'r afael ag ef, sef comisiynu'r Gwasanaeth Clinigol Ychwanegol y Tu Allan i Oriau ar gyfer Fferylliaeth Gymunedol neu, lle bo'n briodol, cyfarwyddo oriau agor yn unol â Rheoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020. Dylid ystyried y mesurau hyn cyn dod i unrhyw gasgliad bod darpariaeth gwasanaeth fferyllol newydd yn ofynnol er mwyn cynnig oriau ychwanegol ar ddiwrnod penodol neu ar adeg benodol yn unig.

Felly dylai'r Bwrdd Iechyd gynnal asesiad cadarn o alw a mynediad cyn nodi unrhyw angen am oriau agor ychwanegol ar ôl i oriau ychwanegol gael eu tynnu'n ôl. Dylai'r PNA hefyd ei gwneud yn glir, lle bo unrhyw angen heb ei ddiwallu'n ymwneud â mynediad y tu allan i'r oriau agor craidd presennol yn unig, yr ymateb cymesur fel mater o drefn fydd sicrhau mynediad ychwanegol trwy drefniadau comisiynu neu gontract sefydledig, yn hytrach na nodi'r angen am ddarpariaeth gwasanaeth fferyllol newydd.

Heb ragfarnu prif safiad Fferylliaeth Gymunedol Cymru y dylai'r datganiadau damcaniaethol hyn ar sail angen yn y dyfodol gael eu dileu, pe bai'r Bwrdd

lechyd yn eu cadw, mae'n rhaid iddo sicrhau bod unrhyw angen a nodir yn y dyfodol yn cael ei ategu gan asesiad cadarn a chymesur o hygyrchedd ac anghenion cleifion am bob lleoliad unigol.

Asesu Bylchau

Wrth nodi anghenion yn y dyfodol mewn datganiadau (ii) a (iii), ymddengys fod y Bwrdd Iechyd yn tybio y byddai colli fferyllfa neu bractis dosbarthu sy'n bodoli eisoes yn creu'r angen am ddarpariaeth newydd yn yr un tref neu'r un pentref fel mater o drefn. Fodd bynnag, fel rhan o unrhyw asesiad yn y dyfodol, byddai'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd gymhwyso'r meini prawf perthnasol ac i ymgymryd ag asesiad llawn o anghenion fferyllol gan ystyried yr amgylchiadau sy'n berthnasol ar yr adeg.

Nid yw bodolaeth fferyllfa neu bractis dosbarthu heddiw, ynddi ei hun, yn dangos y bydd darpariaeth newydd yn ofynnol yn y dyfodol. Nid yw'r cwestiwn priodol yn ymwneud â pha un a yw darparwr wedi rhoi'r gorau i weithredu, ond yn hytrach, mae'n ymwneud â pha un a yw fferyllfa'n tynnu'n ôl wedi arwain at angen heb ei ddiwallu am wasanaethau fferyllol. Byddai angen i asesiad o'r fath ystyried ffactorau gan gynnwys mynediad cleifion, amseroedd teithio, argaeleddd darparwyr amgen, defnydd o'r gwasanaeth, y boblogaeth a'r rhwydwaith fferyllol ehangach.

Yn unol â hynny, mae risg y bydd paragraffau (ii) a (iii) yn rhagfarnu'r sefyllfa trwy dybio y byddai angen darpariaeth newydd fel mater o drefn. Yn ymarferol, byddai angen i'r Bwrdd Iechyd gynnal asesiad o'r newydd yn erbyn y meini prawf perthnasol ar yr adeg y byddai unrhyw fferyllfa'n tynnu'n ôl cyn pennu p'un a yw angen yn bodoli ac, os felly, y ffordd fwyaf priodol o fynd i'r afael â'r angen hwnnw.

Gorddarparu Gwasanaethau Hanfodol

Dylai BIPBC fod yn arbennig o ymwybodol o'r risgiau sylweddol sy'n gysylltiedig â nodi "anghenion" honedig nad ydynt yn ymwneud â gwasanaethau fferyllol hanfodol, yn enwedig lle mai'r amcan amlwg yw hwyluso darparu gwasanaethau clinigol ychwanegol. Mae agor bwlch mynediad ar y farchnad ar y sail hon yn peryglu creu gorddarpariaeth ddiangen o wasanaethau hanfodol, gan arwain at sefydlu fferyllfeydd ychwanegol lle bo galw annigonol i'w cynnal yn gynaliadwy.

Nid pryder damcaniaethol yw hwn. Yn yr amgylchedd cyllid presennol, lle bo llawer o fferyllfeydd cymunedol eisoes yn gweithredu o dan gryn bwysau ariannol, gallai creu contractau ychwanegol heb angen amlwg am wasanaethau hanfodol arwain at rannu'r gweithgarwch presennol rhwng darparwyr lluosog yn unig. Gallai dwy fferyllfa sy'n annichonadwy ar lefel ariannol gael eu creu o ganlyniad i hyn, gan gynyddu'r risg o fethiant gan gontractwyr a chau gwasanaethau. Mewn amgylchiadau o'r fath, gallai'r canlyniad gynnwys lleihad net o ran mynediad a gwytnwch, yn groes i amcanion y PNA. Felly, dylai'r Bwrdd Iechyd fod yn hynod ofalus cyn nodi anghenion fferyllol sydd wedi'u seilio ar sicrhau gwasanaethau clinigol ychwanegol

Fferylliaeth Gymunedol yn erbyn Gwasanaethau Fferyllol gan Feddygon Fferyllol

Mae Fferylliaeth Gymunedol Cymru yn pryderu yr ymddengys fod paragraffau (ii) a (iii) yn tybio bod fferyllfa a phractis dosbarthu'n ffurfiau cyfnewidiadwy ar ddarpariaeth gwasanaeth fferyllol. Nid felly yw hi. Mae fferyllfeydd cymunedol yn darparu gwasanaethau fferyllol mynediad agored a chânt ddosbarthu i unrhyw glaf sy'n cyflwyno presgripsiwn dilys, neu sydd am fanteisio ar wasanaeth clinigol, waeth â pha bractis meddyg teulu y mae'r claf wedi cofrestru. I wrthgyferbynnu â hyn, dim ond i gleifion cymwys ar restr eu practis eu hunain y caiff practisau dosbarthu ddarparu gwasanaethau fferyllol ac mae'n rhaid iddynt wneud hynny yng nghyd-destun eu rhwymedigaethau o ran Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol a fframwaith yr ardal a reolir.

Yn unol â hynny, nid yw fferyllfa'n tynnu'n ôl o'r rhestr fferyllol yn creu angen a allai gael ei ddiwallu gan bractis dosbarthu fel mater o drefn.

Amser teithio

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi mabwysiadu safon unffurf o ran **amser teithio** o 20 munud ar draws ei arwynebedd cyfan. Mae Fferylliaeth Gymunedol Cymru yn holi a ellir cymhwyso un safon o ran mynediad yn rhesymol i ardal y Bwrdd Iechyd, gan ei bod yn cynnwys cymunedau trefol â phoblogaeth ddwys a rhai o'r ardaloedd mwyaf gwledig yng Nghymru.

Mewn cymunedau gwledig, mae trigolion yn teithio ymhellach o lawer yn aml er mwyn manteisio ar ystod o wasanaethau ac amwynderau, gan gynnwys gofal iechyd. Yn yr un modd, y tu allan i oriau agor arferol yn ystod yr wythnos, gallai fod disgwyl rhesymol i gleifion deithio dros bellterau hirach er mwyn manteisio ar wasanaethau fferyllol nag a fyddai'n dderbyniol yn ystod cyfnodau craidd yn ystod y dydd.

Nid yw'r PNA yn esbonio pam mae safon o 20 munud wedi cael ei mabwysiadu yn yr holl amgylchiadau, ac nid yw'n ymddangos ei fod yn ystyried p'un a allai disgwyliadau gwahanol o ran mynediad fod yn briodol ychwaith:

- mewn lleoliadau gwledig a threfol;
- yn ystod oriau arferol yn ystod yr wythnos a'r tu allan i'r oriau hynny; neu

Yn fyr:

Mae Fferylliaeth Gymunedol Cymru yn argymell y dylai paragraff i) a chyfeiriadau tebyg mewn rhannau eraill o'r ddogfen gael eu dileu. Nid yw lleihad o ran oriau agor ychwanegol, ynddo ei hun, yn creu angen heb ei ddiwallu am wasanaethau fferyllol. Pe bai newid o'r fath yn codi yn ystod cylch oes y PNA, byddai angen i'r Bwrdd Iechyd asesu'r effaith ar yr adeg honno a phenderfynu, yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd ar gael, p'un a oes angen heb ei ddiwallu'n bodoli. Yn ogystal, lle caiff bwlch o ran mynediad y tu allan i oriau agor craidd ei nodi, gellir mynd i'r afael â hyn trwy'r mecanweithiau comisiynu a chontractio presennol, gan gynnwys trefniadau rota neu gyfarwyddo oriau

agor lle bo'n briodol. Ni ddylid tybio y byddai lleihau oriau ychwanegol yn creu angen am ddarpariaeth gwasanaeth fferyllol ychwanegol.

Mae Fferylliaeth Gymunedol Cymru yn argymell y dylid dileu paragraffau (ii) a (iii), a chyfeiriadau tebyg mewn rhannau eraill o'r ddogfen. Mae'r datganiadau hyn yn arwain at berygl o agor bylchau trwy dybio y byddai tynnu fferyllfa'n ôl yn creu angen am ddarpariaeth newydd fel mater o drefn. Nid yw bodolaeth fferyllfa neu bractis dosbarthu heddiw, ynddi ei hun, yn dangos y byddai darpariaeth newydd yn ofynnol yn y dyfodol. Byddai unrhyw newid o'r fath yn ei gwneud yn ofynnol asesu angen o'r newydd ar yr adeg berthnasol gan ddefnyddio'r meini prawf perthnasol a'r dystiolaeth sydd ar gael bryd hynny. Yn ogystal, nid yw fferyllfeydd cymunedol a phractisau dosbarthu'n ffurfiau cyfnewidiadwy ar ddarpariaeth.

Mae Fferylliaeth Gymunedol Cymru yn argymell y dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu a chyfiawnhau'r tybiaethau o ran amser teithio a ddefnyddir yn y PNA ac ystyried p'un a allai safonau mynediad gwahanol fod yn briodol yn seiliedig ar ddaearyddiaeth, dwysedd y boblogaeth, yr adeg o'r dydd a'r diwrnod o'r wythnos.

O fewn adran 22.4.1 sy'n ymwneud â mynediad at wasanaethau hanfodol yn y dyfodol, dylid nodi bod y frawddeg a ganlyn sy'n cyfeirio at wasanaethau ychwanegol wedi'i chynnwys. *Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi un angen penodol yn y dyfodol mewn perthynas â darparu gwasanaethau clinigol ychwanegol, yn ardal Gogledd Sir Ddinbych*.

Yn ogystal, mae adran yn dyblygu 22.4.3 sy'n ymwneud â *Mynediad yn y Dyfodol at wasanaeth dosbarthu gan feddygon teulu"*

Ymateb y bwrdd iechyd

Mae'r bwrdd iechyd o'r farn ei bod yn briodol diogelu'r asesiad o anghenion fferyllol ar gyfer y dyfodol, yn seiliedig ar newidiadau sydd wedi digwydd dros gylch oes fersiwn 2021. Yn ei sylwadau, mae Fferylliaeth Gymunedol Cymru wedi tynnu sylw at eiddilwch o ran darpariaeth gwasanaeth yng ngoleuni pwysau gyda chyllid sy'n cael ei brofi gan gontractwyr a'r risg barhaus sy'n gysylltiedig â fferyllfeydd yn cau. Er bod gan y bwrdd iechyd y gallu i lunio asesiad newydd o anghenion fferyllol lle y bydd yn nodi newidiadau sy'n berthnasol i ganiatáu ceisiadau y cyfeirir atynt yn adran 83 o Ddeddf y GIG (Cymru) 2006, mae angen iddo ystyried hyd yr amser y byddai hynny'n ei gymryd. Yn gyntaf, byddai angen iddo ailymgynnull y grŵp llywio, yna byddai angen iddo ymgysylltu â chontractwyr a'r cyhoedd, ac yna drafftio asesiad newydd o anghenion fferyllol, ymgynghori arno am o leiaf 60 diwrnod, adolygu sylwadau, ystyried p'un a oes unrhyw newidiadau pellach yn ofynnol, eu cymeradwyo, ac yna cyhoeddi'r ddogfen newydd. Mae hyn yn debygol o gymryd o leiaf chwe mis ac yn ystod y cyfnod hwn, ni ellid gwneud unrhyw geisiadau'n llwyddiannus. Yn y cyfamser, mae trigolion mewn ardal neu ardaloedd penodol yn wynebu anhawster o ran manteisio ar wasanaethau fferyllol.

Trwy ddiogelu'r ddogfen ar gyfer y dyfodol, mae'r bwrdd iechyd yn lleihau hyd yr amser rhwng newid yn digwydd a darpariaeth gwasanaeth yn ailddechrau. Mae wedi

dewis peidio â mabwysiadu dull "tebyg am ei debyg" ac mae'n datgan os bydd fferyllfa'n tynnu'n ôl o'r rhestr fferyllol, y bydd angen yn y dyfodol am fferyllfa newydd i ddarparu gwasanaethau penodol, ar adegau penodol, ar ddiwrnodau penodol. Mae wedi mabwysiadu dull cymesur ac mae o'r farn, os oes fferyllfa arall yn y dref neu'r pentref, yna ni fyddai unrhyw fwlch yn cael ei greu, ac mae'r ymatebion i holiadur y contractwyr wedi bod yn sail i hyn.

Er bod gan y bwrdd iechyd y gallu i roi datganiadau ategol, gwnaeth yr adolygiad o'r rheoliadau gan Lywodraeth Cymru (a gyhoeddwyd yn 2026) ddatgan yn glir na all datganiadau ategol ganfod bwlch ac felly angen. Os na chaiff yr asesiad o anghenion fferyllol ei ddiogelu at y dyfodol, yna byddai cryn oedi cyn y gellid cyflwyno unrhyw geisiadau'n llwyddiannus.

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi'r canllawiau anstatudol ond mae'n ymwybodol bod yn rhaid i'w asesiad o anghenion fferyllol gydymffurfio â'r rheoliadau. Mae paragraff 3(b), Atodlen 1 yn ei gwneud yn ofynnol i'r bwrdd iechyd gynnwys datganiad o'r gwasanaethau fferyllol y mae wedi'u nodi fel gwasanaethau nad ydynt yn cael eu darparu yn ei ardal, ond y mae'n fodlon y bydd angen eu darparu mewn amgylchiadau penodol yn y dyfodol, er mwyn diwallu angen yn y dyfodol am un neu fwy o wasanaethau fferyllol. Felly, mae'r bwrdd iechyd yn fodlon bod y rheoliadau'n caniatáu diogelu ei asesiad o anghenion fferyllol at y dyfodol boed hynny mewn perthynas â datblygiadau tai hysbys, newidiadau i ddemograffeg y boblogaeth, neu newidiadau i ddarpariaeth gwasanaeth.

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi pryderon Fferylliaeth Gymunedol Cymru ynghylch gorddarparu gwasanaethau hanfodol gan fod anghenion yn cael eu nodi o ran gwasanaethau ar wahân i wasanaethau hanfodol. Mae'n well gan y bwrdd iechyd i'r contractwyr presennol ddiwallu'r anghenion hynny, ond os na fydd hynny'n digwydd, bydd yn ystyried ceisiadau i'w cynnwys yng nghynnig y rhestr fferyllol er mwyn sicrhau angen penodol yn unol â'r rheoliadau perthnasol. Efallai y caiff ei gyfarwyddo i wrthod cais yn rhinwedd rheoliadau penodol er bod yr angen wedi cael ei nodi yn yr asesiad o anghenion fferyllol.

Nid yw'r bwrdd iechyd o'r farn y gellir cyfnewid yr ystod o wasanaethau y mae modd eu darparu gan fferyllfa am y gwasanaeth dosbarthu y gall practis dosbarthu ei ddarparu. Serch hynny, mae'n ymwybodol bod rhannau helaeth o'i ardal yn wledig iawn ac ni fyddai fferyllfa'n ariannol hyfyw mewn ardaloedd o'r fath, yn enwedig pe câi lleoliad neilltuol ei bennu mewn perthynas â chais i gael ei gynnwys ar y rhestr fferyllol. Gan mai dim ond os byddant yn diwallu angen a nodir yn yr asesiad o anghenion fferyllol y gellir caniatáu ceisiadau i gael eu cynnwys ar restr meddygon fferyllol, mae'r bwrdd iechyd o'r farn ei bod hefyd yn briodol nodi anghenion ar gyfer y gwasanaeth dosbarthu y gall practisau meddygon teulu ei ddarparu er mwyn sicrhau bod trigolion mewn ardaloedd a reolir yn gallu cael gafael ar yr eitemau a ddosbarthwyd.

O ran yr amser teithio o 20 munud a fabwysiadwyd, mae hyn yn gyson â'r asesiad presennol o anghenion fferyllol a'r dull a fabwysiadir ar draws Cymru a Lloegr. Yn ogystal, mae'r amser teithio hwn yn adleisio nod byd-eang o ran yr hinsawdd/cynllunio o greu "cymdogaethau 20 munud", sy'n gysyniad yn ymwneud â

buddion i iechyd y cyhoedd os yw pobl yn byw mewn cymunedau lle y gellir diwallu eu hanghenion o ddydd i ddydd o fewn pellter byr i ble maent yn byw.

Pan gafodd ei drafod yn y grŵp llywio, ni chafodd unrhyw bryderon eu codi gan gynrychiolwyr y contractwyr na'r cyhoedd. Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi yr ymddengys fod rhywfaint o destun ar goll o'r rhan hon o sylwadau Fferylliaeth Gymunedol Cymru, ond yn absenoldeb unrhyw wybodaeth i ddangos pam nad yw amser teithio o 20 munud yn briodol, neu gan nad oes unrhyw awgrym ynghylch amser teithio gwahanol y dylid ei fabwysiadu, mae'n fodlon bod 20 munud yn briodol.

“c) ADRAN 22.4.3 BIPBC COLLED DYBIANNOL O RAN GWASANAETHAU MEDDYGON FFERYLLOL

Fel rhan o'r asesiad, mae BIPBC wedi gwneud y datganiad canlynol:

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi os bydd practis meddyg teulu'n rhoi'r gorau i ddosbarthu i ardal y mae ganddo gydsyniad amlinellol ar ei chyfer, bydd angen yn y dyfodol naill ai am y canlynol:

- *y gwasanaeth meddygon fferyllol i gael ei ddarparu ar gyfer yr ardal honno tra bydd yn parhau i fod yn ardal a reolir ac sy'n fwy na 1.6km mewn llinell unionsyth o fferyllfa, neu*
- *fferyllfa sydd ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener fel y gofyn lleiaf, gan ddarparu'r canlynol:*
    - *yr holl wasanaethau hanfodol, a*
    - *y gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol, gwasanaeth dychwelyd blychau offer miniog ar gyfer cleifion, gwasanaeth gweinyddu o dan oruchwyliaeth, gwasanaeth fferyllfa Helpa Fi i Stopio, a gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu lefel 2.*

Lle bydd practis dosbarthu'n rhoi'r gorau i ddosbarthu, ni ellir rhagdybio y bydd darpariaeth ddosbarthu newydd yn ofynnol. Byddai angen i unrhyw asesiad ystyried y trefniadau sydd mewn grym yn yr ardal a reolir ar yr adeg, gan gynnwys mapiau perthnasol o'r ardal a reolir, ynghyd ag argaeledd gwasanaethau fferyllol amgen a'r gofynion rheoleiddio perthnasol."

Ymateb y Bwrdd Iechyd

Mae'r bwrdd iechyd wedi myfyrio ynghylch y pwynt hwn ac mae wedi diwygio'r angen penodol hwn i ychwanegu "oni bai bod trigolion yn yr ardal honno o fewn taith 20 munud mewn car i fferyllfa ac yna, na fydd yr angen hwn yn codi yn y dyfodol" ar ddiwedd y frawddeg ar bob achlysur.

“d) ADRAN 22.4.2 - ANGEN YN Y DYFODOL MEWN PERTHYNAS Â DARPARU GWASANAETH RHAGNODI ANNIBYNNOL GAN FFERYLLWYR (PIPS)

Fel rhan o'i asesiad o anghenion yn y dyfodol, mae BIPBC wedi gwneud y datganiad canlynol:

Mae'r bwrdd iechyd wedi mabwysiadu'r dyhead a amlinellir yn Fferylliaeth: Cyflawni Cymru Iachach i bob fferyllfa feddu ar ragnodydd annibynnol erbyn 2030 ac wedi pennu targedau interim i gael 50% o fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn ym mhob ardal erbyn Ebrill 2027 a 70% erbyn Ebrill 2029.

Pe na châi'r targedau interim eu cyflawni mewn ardal, byddai angen i fferyllfeydd digonol ddarparu'r gwasanaeth hwnnw yn y dyfodol yn yr ardal honno er mwyn cyrraedd y ddau darged.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi angen yn y dyfodol am PIPS mewn ardaloedd lle nad yw'r targedau interim a amlinellir mewn *Fferylliaeth: Cyflawni Cymru Iachach* wedi cael eu cyflawni. Serch hynny, nid yw *Fferylliaeth: Cyflawni Cymru Iachach* yn ddogfen bolisi a luniwyd gan Lywodraeth Cymru, yn ganllawiau statudol, nac yn ddatganiad ffurfiol o bolisi'r Llywodraeth. Yn hytrach na hynny, mae'n weledigaeth wedi'i harwain gan broffesiynau a ddatblygwyd gan Bwyllgor Fferyllol Cymru i roi cymorth o ran datblygu gwasanaethau fferylliaeth gymunedol yn y tymor hir. Er ei bod yn cyd-fynd ag uchelgeisiau ehangach *Cymru Iachach* ac wedi cael ei chefnogi gan Lywodraeth Cymru, mae'r targedau a geir ynddi'n amcanion datblygu gwasanaeth uchelgeisiol yn hytrach nac asesiadau o angen fferyllol. O ganlyniad, nid yw methiant i gyflawni'r targedau hynny'n dangos angen fferyllol heb ei ddiwallu ac nid yw'n cynnig sail ddigonol dros nodi angen yn y dyfodol o fewn y PNA

Dylai unrhyw asesiad o angen yn y dyfodol gael ei seilio ar y meini prawf statudol perthnasol, gan gynnwys gofynion rhesymol y boblogaeth, hygyrchedd gwasanaethau, defnydd o wasanaethau ac argaeledd darparwyr amgen. Yn achos gwasanaethau rhagnodi, efallai y bydd cleifion yn gallu manteisio ar ofal cyfatebol trwy ystod o ddarparwyr, gan gynnwys practisau meddygon teulu a gwasanaethau eraill y GIG. Ni all y PNA ddangos y byddai gan ardal angen heb ei ddiwallu dim ond oherwydd nad yw cyfran benodol o fferyllfeydd yn darparu PIPS erbyn dyddiad penodol."

Ymateb y Bwrdd Iechyd

Er bod "Fferylliaeth: Cyflawni Cymru Iachach" yn amlinellu dyheadau'r proffesiynau, un o'r mesurau perfformiad yn nod pedwarplyg 2 "Fframwaith Perfformiad GIG Cymru 2026-27" yw canran y fferyllfeydd sy'n darparu'r gwasanaeth rhagnodi annibynnol gan fferyllwyr. Gosodwyd targed i'r bwrdd iechyd gyflawni'r mesur perfformiad hwn ac felly, mae'n fodlon ei bod yn briodol cynnwys yr anghenion hyn yn yr asesiad o anghenion fferyllol. Rhagwelir y bydd mwyfwy o'r fferyllfeydd presennol yn darparu'r gwasanaeth yn ystod oes yr asesiad o anghenion fferyllol ac fel y'i nodir uchod, mae'r bwrdd iechyd yn gobeithio y bydd y contractwyr presennol yn camu i'r adwy er mwyn helpu i gyraedd y targedau hyn ac i ragori arnynt.

“e) ADRAN 22.4.2 - ANGEN YN Y DYFODOL MEWN PERTHYNAS Â DARPARU GWASANAETH FFERYLLIAETH GYMUNEDOL GLINIGOL (CCPS) YNG NGOGLEDD SIR DDINBYCH

Fel rhan o'i asesiad o anghenion yn y dyfodol, mae BIPBC wedi gwneud y datganiad canlynol:

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi un angen yn y dyfodol mewn perthynas â darparu'r gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol, yn ardal Gogledd Sir Ddinbych.

Bydd y bwrdd iechyd yn gweithio gyda'r unig fferyllfa [NAD] yw'n darparu'r gwasanaeth hwn. Serch hynny, pe na châi'r bwlch hwn ei gau, yna o 1 Ebrill 2027, byddai angen yn y dyfodol i'r gwasanaeth hwn gael ei ddarparu ym Modelwyddan, saith niwrnod o'r wythnos am:

- *wyth awr y dydd o ddydd Llun i ddydd Gwener, am chwe awr ar ddydd Sadwrn i gynnwys o 13.00 hyd at 15.00, ac*
- *am dair awr ar ddydd Sul ar ôl 12 hanner dydd*

Yn gyntaf, mae'n debygol bod y gair NAD ar goll o'r datganiad uchod

Mae'r PNA yn nodi nad yw un fferyllfa yng Ngogledd Sir Ddinbych yn darparu'r Gwasanaeth Fferylliaeth Gymunedol Glinigol ar hyn o bryd a daw i'r casgliad, os bydd y sefyllfa hon yn parhau i fod heb ei newid, y bydd angen yn y dyfodol yn codi i'r gwasanaeth gael ei ddarparu ym Modelwyddan am oriau penodol saith niwrnod o'r wythnos. Mae gan Fodelwyddan nifer o fferyllfeydd sy'n cynnig CCPS o fewn amser gyrru o 20 munud, gan gynnwys ar ddydd Sadwrn a dydd Sul felly, mae'r meini prawf o ran amser mynediad wedi'u cyrraedd ac mae'n anodd deall sut y gallai angen gael ei nodi.

Er bod Fferylliaeth Gymunedol Cymru yn cefnogi'r Bwrdd Iechyd yn ei uchelgais i'r holl wasanaethau clinigol allweddol gael eu cynnig gan yr holl fferyllfeydd ac er ei bod yn awyddus i weithio gyda chontractwyr a BIPBC i gyflawni hyn, dylai'r Bwrdd Iechyd gofio mai dogfen swyddogol er mwyn pennu trefniadau Mynediad i'r Farchnad yw'r PNA; ni fwriadwyd iddo fod yn broses i 'annog' contractwyr i wella darpariaeth gwasanaeth ac nid yw'n briodol iddo gael ei ddefnyddio fel hynny.

Fel yr esboniwyd yn yr ateb i C8 b), dylai BIPBC gofio bod nodi anghenion fferyllol er mwyn diogelu gwasanaethau clinigol ychwanegol, megis PIPS a CCPS, yn arwain at berygl o greu gorddarpariaeth ddiangen o ran gwasanaethau hanfodol.

Byddem yn awgrymu y dylid aileirio'r PNA er mwyn adlewyrchu'r angen i ddarparwyr presennol gwasanaethau fferyllol a'r Bwrdd Iechyd gydweithio er mwyn gwella argaeledd a chymeriant PIPS a CCPS ym Modelwyddan, yn hytrach na nodi bwlch o ran darpariaeth gwasanaethau fferyllol."

Ymateb y Bwrdd Iechyd

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi'r gwall argraffyddol ac mae wedi diwygio'r asesiad o anghenion fferyllol yn unol â hynny.

Mae'r bwrdd iechyd yn awyddus i weld contractwyr yn cynnig ystod o wasanaethau fferyllol. Mae hyn yn sicrhau bod defnyddwyr fferyllfeydd yn derbyn cynnig gwasanaeth cyson waeth pa fferyllfa y byddant yn penderfynu ei defnyddio. Lle bo'r bwrdd iechyd wedi nodi'r angen am wasanaethau penodol yn yr asesiad blaenorol o anghenion fferyllol, mae'n falch o nodi bod contractwyr wedi diwallu rhywfaint o'r

anghenion hynny a oedd yn golygu nad oedd angen caniatáu unrhyw geisiadau i gael eu cynnwys ar gynnig y rhestr fferyllol er mwyn diwallu'r angen hwnnw.

Bydd nodi'r angen am wasanaethau penodol mewn lleoliadau penodol hefyd yn ategu'r model gofal sylfaenol i Gymru sy'n canolbwyntio ar ofal sy'n seiliedig ar leoedd, gofal yn nes at y cartref, a gwaith amlbroffesiynol.

Yna, gofynnwyd i'r ymatebwyr am eu safbwyntiau ar **ba un a yw'r asesiad o anghenion fferyllol wedi darparu gwybodaeth er mwyn bod yn sail i benderfyniadau a wnaed gan y bwrdd iechyd mewn perthynas â cheisiadau am fferyllfeydd newydd a safleoedd contractwyr dosbarthu cyfarpar, a cheisiadau gan feddygon fferyllol**. Mae'r bwrdd iechyd yn nodi bod dau o'r ymatebwyr wedi ateb "Do", dywedodd dau nad oeddent yn gwybod, a dywedodd Fferylliaeth Gymunedol Cymru "Na" am y rhesymau canlynol.

“a) Fel yr amlinellwyd yng Nghwestiwn 4, nid oes tystiolaeth gadarn o ran yr anghenion a nodwyd ac fel y cyfryw, erys cwestiwn o ran p'un a yw'r rhain yn nhermau Mynediad i'r Farchnad. Mae nodi methiant i ddarparu gwasanaeth fel angen heb ei ddiwallu yn creu bwlch a gwahoddiad yn ddiweddarach am geisiadau i ddarparu'r gwasanaeth hwnnw. Bwriedir i'r PNA ddarparu'r sail dystiolaethol ar gyfer penderfyniadau ynghylch mynediad i'r farchnad. Lle caiff bylchau o ran darpariaeth gwasanaeth eu nodi heb dystiolaeth ategol ddigonol a chymhwyso'r fframwaith rheoleiddio cywir, mae risg y gallai PNA ddylanwadu ar benderfyniadau ynghylch mynediad i'r farchnad ar sail casgliadau diffygiol neu gasgliadau nad ydynt wedi'u cyfiawnhau'n ddigonol. Felly mae Fferylliaeth Gymunedol Cymru o'r farn bod yn rhaid mynd i'r afael â'r materion a nodir yng Nghwestiwn 4 cyn y gellir dibynnu ar y PNA fel sail gadarn i benderfynu ynghylch ceisiadau mynediad i'r farchnad.

b) Mae Fferylliaeth Gymunedol Cymru yn bryderus nad yw'r PNA yn darparu digon o wybodaeth am ardaloedd a reolir.

Mae'r PNA yn cydnabod bod darpariaeth meddygon fferyllol yn ddibynnol ar gleifion yn byw mewn ardaloedd a reolir ac ar bractisau i feddu ar y cydsyniad a'r cymeradwyaethau priodol ar eu safleoedd. Serch hynny, nid yw'n nodi penderfyniadau ar hyn o bryd ynghylch ardaloedd a reolir, ardaloedd cydsyniad amlinellol meddygon fferyllol, nac yn darparu mapiau ar gyfer ardaloedd a reolir (neu gyfeirio atynt). Mewn ardal o'r Bwrdd Iechyd sy'n wledig i raddau helaeth, lle bo meddygon fferyllol yn rhan bwysig o ddarpariaeth gwasanaeth fferyllol, mae'r wybodaeth hon yn hollbwysig er mwyn creu system mynediad i'r farchnad sy'n dryloyw ac yn gadarn.

Mae Fferylliaeth Gymunedol Cymru yn tynnu sylw'r Bwrdd Iechyd at ganllawiau anstatudol Llywodraeth Cymru sy'n ategu Rheoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020, sy'n datgan y dylai PNAs gynnwys gwybodaeth am ardaloedd cydsyniad amlinellol meddygon fferyllol ac mae'n awgrymu y dylai mapiau ar gyfer ardaloedd a reolir, neu ddolenni i'r mapiau hynny, gael eu darparu. Mae'r canllawiau hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd cynnal ffiniau manwl-gywir o ran ardaloedd a reolir, yn enwedig lle y gallai datblygiadau neu batrymau cyfnewidiol o ran aneddiadau effeithio ar benderfyniadau blaenorol.

Mae canllawiau anstatudol Llywodraeth Cymru yn cydnabod yn gwbl gymwys, oni bai bod y Bwrdd Iechyd yn gallu rhoi tystiolaeth o'r ffiniau yn ymwneud ag ardaloedd a reolir ar ffurf map diffiniol, na fydd yn gallu penderfynu p'un a yw'r darpariaethau o ran ardaloedd a reolir yn Rhan 5 o Reoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 yn berthnasol i gais. Mae hyn yn adlewyrchu'r gofyniad statudol yn Rheoliad 13 ac Atodlen 4 i bennu ardaloedd a reolir yn ffurfiol cyn y gall y Bwrdd Iechyd gymhwyso'r ardal a reolir a'r darpariaethau neilltuedig o ran lleoliad yn gyfreithlon wrth ystyried ceisiadau mynediad i'r farchnad.

Yn dilyn gohebiaeth yn gynharach yn 2026 yn gofyn am wybodaeth a mapiau'n ymwneud â phenderfyniadau ynghylch ardaloedd a reolir, mae Fferylliaeth Gymunedol Cymru yn nodi cadarnhad y Bwrdd Iechyd bod mapiau o ardaloedd a reolir yn bodoli ond na chânt eu cynnwys yn PNA mis Hydref 2026. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi rhoi gwybod ei fod yn bwriadu ymgymryd ag adolygiad cynhwysfawr o ardaloedd a reolir ar ôl cyhoeddi'r PNA ac, o ystyried hyd a lled a chymhlethdod y gwaith sy'n ofynnol, na fyddai'n hyfyw cwblhau'r ymarfer hwn cyn y terfyn amser ym mis Hydref.

Er gwaethaf hyn, mae Fferylliaeth Gymunedol Cymru yn ceisio sicrwydd y caiff unrhyw gais a gyflwynir cyn cwblhau'r adolygiad, gan gynnwys unrhyw gais yn y dyfodol yn ardal Betws-y-Coed, ei asesu yn unol â'r Rheoliadau ac y caiff ei ategu gan fap manwl-gywir a chyfredol am ardaloedd a reolir sy'n cael ei lunio fel rhan o'r broses asesu ceisiadau.

Heb benderfyniad cyfredol ynghylch ardal a reolir, nid oes unrhyw sicrwydd yn ymwneud â pha un a oes gan gleifion hawl i dderbyn gwasanaethau dosbarthu gan feddyg neu p'un a yw'r ardal yn perthyn i leoliad neilltuedig, y mae'r ddau beth yn ystyriaethau sylweddol o ran penderfynu ar geisiadau fferyllol."

Ymateb y Bwrdd Iechyd

Mae'r bwrdd iechyd wedi ymateb uchod i'r pwyntiau a godwyd gan Fferylliaeth Gymunedol Cymru yn ei ymateb i'r cwestiwn blaenorol.

Mewn ymateb i'r pwynt a godwyd mewn perthynas â'r ardaloedd a reolir, mae'r bwrdd iechyd wedi nodi'r gofyniad rheoleiddio i gyhoeddi gwybodaeth yn y ffordd y mae'n ei gweld orau ac i sicrhau bod copïau o fap yn amlinellu ffiniau unrhyw ardaloedd a reolir ar gael i'w harchwilio yn ei swyddfeydd. Nid oes unrhyw ofyniad rheoleiddio i gyhoeddi map o'r fath yn yr asesiad o anghenion fferyllol ac yn wir, byddai risg ynghlwm wrth hynny lle caiff penderfyniadau dilynol eu gwneud a phe bai'r fersiwn sydd wedi'i chynnwys yn yr asesiad o anghenion fferyllol yn dyddio.

Gall y bwrdd iechyd gadarnhau bod ganddo fap o ardaloedd lleol ac mae croeso i Fferylliaeth Gymunedol Cymru ei archwilio yn swyddfeydd y bwrdd iechyd os bydd yn awyddus i wneud hynny.

Lle daw cais i law i gael ei gynnwys ar y rhestr fferyllol neu'r rhestr meddygon fferyllol ac mae'r eiddo mewn ardal a reolir, neu lle yr ymddengys mai felly yw hi, gall y bwrdd iechyd gadarnhau ei fod yn ymwybodol bod ganddo'r gallu i wneud penderfyniad ynghylch ardal a reolir yn unol â'r rheoliadau lle bo hynny'n briodol.

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi cyfeiriad at y canllawiau anstatudol sy'n datgan y "dylai" mapiau o ardaloedd a reolir gael eu cynnwys. Nodwyd nad yw'r canllawiau na'r rheoliadau yn datgan bod yn "rhaid" eu cynnwys.

Mae'r bwrdd iechyd wedi penderfynu na fydd yn cynnwys y map o ardaloedd a reolir yn ei asesiad o anghenion fferyllol.

Yna, gofynnodd yr arolwg p'un a yw'r ddogfen wedi **darparu gwybodaeth er mwyn llywio sut y gallai gwasanaethau fferyllol gael eu comisiynu yn y dyfodol**. Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod pedwar o bobl wedi dweud ei fod wedi gwneud hynny. Gwnaeth Fferylliaeth Gymunedol Cymru y sylw a ganlyn:

"Pwrpas y PNA yw asesu ac amlinellu sut y gall darparu gwasanaethau fferyllol ddiwallu anghenion iechyd y boblogaeth o faint ardal y bwrdd iechyd am gyfnod o hyd at bum mlynedd. Nid oes unrhyw ddarpariaeth o fewn y PNA i edrych y tu hwnt i gyfnod o bum mlynedd.

Fel yr amlinellir yng Nghwestiwn 4, erys pryderon mewn perthynas â'r anghenion a nodwyd ar hyn o bryd ac anghenion yn y dyfodol".

Mae'r bwrdd iechyd wedi ymateb uchod i'r pwyntiau a godwyd gan Fferylliaeth Gymunedol Cymru.

Gan droi at ba un a yw'r asesiad o anghenion fferyllol wedi **darparu digon o wybodaeth ar gyfer contractwyr i gynllunio darpariaeth gwasanaethau fferyllol yn y dyfodol**, mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod dau o'r ymatebwyr wedi dweud "Do", bod un wedi dweud "Ddim yn gwybod" a bod un o'r ymatebwyr wedi dweud "Na". Gwnaethant ymhelaethu ar eu hymatebion fel a ganlyn.

- "Lle bo fferyllfeydd wedi cau a lle bo esboniad wedi'i roi bod fferyllfa bresennol eisoes ar gael, nid oes unrhyw gipolwg ar gapasiti'r fferyllfa bresennol. A oes disgwyl i'r staff presennol weithio o dan straen a phwysau cynyddol heb, efallai, unrhyw gynnydd o ran gofod nac adnoddau o gwbl?"

Gwnaeth Fferylliaeth Gymunedol Cymru y sylw a ganlyn:

"Mae fersiwn ddrafft yr Asesiad o Anghenion Fferyllol yn rhoi lefel resymol o wybodaeth er mwyn bod yn sail i ddarparu a chynllunio gwasanaethau fferyllol yn y dyfodol. Mae wedi ystyried gallu contractwyr fferyllol i wella capasiti mewn ymateb i alw cynyddol, gan ddefnyddio tystiolaeth o'r holiadur i gontractwyr, ac mae hefyd wedi ystyried ffactorau ehangach megis datblygiadau tai arfaethedig a newidiadau disgwyliedig i'r boblogaeth. Mae hyn yn helpu i greu darlun blaengar o anghenion gwasanaeth posibl.

Serch hynny, dylid ystyried y casgliadau ynghylch capasiti yng nghyd-destun y pwysau ariannol presennol y mae'r sector yn ei wynebu ar hyn o bryd. Mae unrhyw awgrym yn ymwneud â'r capasiti sydd ar gael neu i gynyddu capasiti'n ddibynnol i raddau helaeth ar argaeledd cyllid cynaliadwy a gweithlu digonol. Yn ymarferol, mae tystiolaeth glir ar draws y rhwydwaith bod pwysau ariannol yn effeithio ar

ddarpariaeth gwasanaeth. I rai contractwyr, mae cyfyngiadau parhaus o ran cyllid bellach yn effeithio ar hyfywedd, ac mae nifer fach ond cynyddol ohonynt bellach yn cyrraedd y pwynt lle mae cynaliadwyedd eu busnesau yn y fantol. Fel y cyfryw, mae'r PNA yn rhoi sylfaen dystiolaeth ddefnyddiol i gynllunio, a bydd i ba raddau y gellir gwireddu unrhyw gapasiti a nodir yn dibynnu ar fuddsoddi ystyrlon a chyson ochr yn ochr â chymorth contractio. Byddai Fferylliaeth Gymunedol Cymru yn croesawu cymorth y Bwrdd Iechyd i gydnabod bod y rhagdybiaethau sy'n tanategu casgliadau'r PNA yn dibynnu ar gyllid cylchol cynaliadwy a chapasiti digonol o ran y gweithlu."

Ceisiodd y bwrdd iechyd farn contractwyr ynghylch p'un a oes ganddynt gapasiti i reoli cynnydd yn y galw am wasanaethau ac mae wedi ystyried y safbwyntiau hynny wrth ddod i'r casgliadau a amlinellir yn y ddogfen hon. Ar ôl eu hadolygu eto, ni wnaeth yr un o'r contractwyr ddweud bod eu hymateb yn amodol ar gyllid cylchol cynaliadwy. Yn ogystal, dim ond un contractwr fferyllol a ymatebodd i'r ymgynghoriad ond ni wnaeth godi'r un pwyntiau â Fferylliaeth Gymunedol Cymru.

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi'r datganiad, yn achos rhai contractwyr, bod cyfyngiadau cyllid parhaus bellach yn effeithio ar hyfywedd. Fel y nodir uchod, caiff y rhan helaethaf o daliadau a wneir i gontractwyr eu pennu gan Lywodraeth Cymru ac felly, maent y tu hwnt i reolaeth y bwrdd iechyd. Fodd bynnag, mae'r ffaith y gallai rhai fferyllfeydd gau'n cyfiawnhau penderfyniad y bwrdd iechyd ymhellach i ddiogelu'r asesiad o anghenion fferyllol ar gyfer y dyfodol.

Yna, gofynnodd yr ymgynghoriad **p'un a oes unrhyw wasanaethau fferyllol y gallai fferyllfeydd eu darparu yn y dyfodol nad ydynt wedi cael eu hamlygu**. Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi na wnaeth yr un o'r ymatebwyr nodi gwasanaethau o'r fath. Gwnaeth Fferylliaeth Gymunedol Cymru y sylw a ganlyn:

"Oes". Mae Pennod 3 yn nodi nifer o anghenion iechyd sylweddol o fewn poblogaeth BIPBC y gellid mynd i'r afael â nhw, o bosibl, trwy wasanaethau clinigol ychwanegol ym maes fferylliaeth gymunedol. Er enghraifft, mae Adran 3.9 yn tynnu sylw at amlder cynyddol gordewdra ymysg oedolion yng Nghymru, maes lle y gallai gwasanaethau rheoli pwysau o'r fferyllfa wneud cyfraniad ystyrlon.

Fodd bynnag, byddai darparu gwasanaethau megis rheoli pwysau ac ymyriadau eraill sydd â ffocws clinigol **yn gofyn am fuddsoddi ychwanegol sylweddol y tu hwnt i Fframwaith Contractiol Fferylliaeth Gymunedol (CPCF)**. Awgrymir y dylai'r Bwrdd Iechyd ystyried yr anghenion iechyd penodol hyn yn fanylach, datblygu gwasanaethau yn unol ag egwyddorion Fferylliaeth Gymunedol o'r Cychwyn, a diogelu cyllid cylchol priodol i ategu eu darpariaeth gynaliadwy trwy'r rhwydwaith fferylliaeth gymunedol."

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi'r sylw ynghylch yr angen am wasanaeth rheoli pwysau, ond nid oedd hwn yn wasanaeth a gafodd ei nodi gan yr un o'r contractwyr.

Bydd y bwrdd iechyd yn parhau i adolygu anghenion ei drigolion a lle bo angen am un neu fwy o wasanaethau newydd, caiff contractwyr fferyllol eu hystyried ochr yn ochr â darparwyr posibl eraill.

Er mwyn sicrhau bod yr asesiad o anghenion fferyllol wedi nodi unrhyw anghenion a allai godi o fewn ei oes pum mlynedd, gofynnwyd i'r ymatebwyr p'un a oedd **unrhyw ddatblygiadau, er enghraifft datblygiadau tai, prosiectau adnewyddu neu safleoedd newydd ar gyfer darparu gwasanaethau'r GIG, wedi cael eu methu**. Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi nad oedd yr un o'r ymatebwyr wedi dweud "Do". Gwnaeth Fferylliaeth Gymunedol Cymru y sylw a ganlyn:

"Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw ddatblygiadau a allai godi yn ystod oes y PNA nad ydynt wedi cael eu nodi. Fodd bynnag, mae'n ddigon posibl y bydd contractwyr fferyllol, aelodau'r cyhoedd ag eraill sydd â gwybodaeth leol yn tynnu sylw'r bwrdd iechyd at unrhyw ddatblygiadau y gallent fod yn ymwybodol ohonynt."

Mae'n bleser gan y bwrdd iechyd nodi nad oes unrhyw ddatblygiadau wedi'u methu wrth lunio'r asesiad o anghenion fferyllol hwn.

Yna, gofynnodd yr ymgynghoriad p'un a oedd yr ymatebwyr yn cytuno **â chasgliadau'r asesiad o anghenion fferyllol** ac mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod dau wedi dweud "Ydw", bod un wedi dweud "Ddim yn gwybod", a bod un wedi dweud "Nac ydw". Gwnaeth un o'r ymatebwyr a ddywedodd "Ydw" a'r ymatebydd a ddywedodd "Ddim yn gwybod", ymhelaethu ar eu hymateb.

- "Rwy'n credu ei bod yn anghywir pan fydd fferyllfa sy'n bodoli eisoes yn cau ei drysau mae hefyd ar gau i geisydd contractio newydd wneud cais i gymryd ei lle (e.e. Coedpoeth, Llandrillo-yn-Rhos)"
- "Byddem yn cwestiynu'r angen am fferyllfa ym Metws-y-Coed"

Gwnaeth Fferylliaeth Gymunedol Cymru y sylw a ganlyn:

"Ni all Fferylliaeth Gymunedol Cymru gytuno â chasgliadau'r asesiad o anghenion fferyllol gan y teimlir nad yw anghenion heb eu diwallu wedi cael eu dangos yn ddigonol am y rhesymau a amlinellir yng Nghwestiwn 4.

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi'r sylw cyntaf a barn Fferylliaeth Gymunedol Cymru mewn perthynas â diogelu'r ddogfen at y dyfodol. Wrth bwyso a mesur y ddwy farn, mae'n credu nad oes angen gwneud unrhyw newidiadau i'r asesiad o anghenion fferyllol.

Yn olaf, gofynnwyd i'r sawl a oedd yn ymateb i'r ymgynghoriad p'un a oedd ganddynt **unrhyw sylwadau pellach**. Gwnaeth pedwar o bobl ddweud "Na".

Gwnaeth Fferylliaeth Gymunedol Cymru y sylw a ganlyn:

"Nid yw tudalen 131 yn dangos fferyllfa ym Menllech ar Fap 8.1 Ardal Ynys Môn. Argymhellir y dylid gwirio'r PNA am broblemau ansawdd / mapio data cyn cyhoeddi

Mae tudalen 269 yn cyfeirio at adleoli safleoedd fferyllfeydd ym mis Awst 2026. Nid yw Fferylliaeth Gymunedol Cymru yn ymwybodol o unrhyw ymgynghoriad ynghylch cais i adleoli er mwyn diwallu angen busnes, ac nid yw'r PNA yn nodi bwlch mewn gwasanaethau fferyllol y gellid mynd i'r afael ag ef trwy adleoli fferyllfa sy'n bodoli eisoes. Byddai angen i unrhyw adleoli o ran eiddo fferyllfeydd gael ei ystyried a'i

bennu trwy'r prosesau rheoleiddio priodol a amlinellir yn Rheoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020. Fel y drafftiwyd, ymddengys fod y cyfeiriad yn rhagweld canlyniad yn y dyfodol nad yw wedi cael ei asesu o fewn y PNA na'i gymeradwyo trwy'r gweithdrefnau statudol perthnasol ychwaith.

Rhan 1 Casgliad

Mae Fferylliaeth Gymunedol Cymru yn croesawu'r gwaith a wnaed i lunio'r PNA hwn ond mae'n dal i fod yn bryderus bod nifer o "anghenion" a nodwyd naill ai'n dybiannol neu'n ymwneud ag amcanion datblygu gwasanaethau yn hytrach nac angen fferyllol amlwg. O ystyried rôl statudol y PNA o ran bod yn sail i benderfyniadau ynghylch mynediad i'r farchnad, mae'n hanfodol bod casgliadau'n seiliedig ar dystiolaeth, yn gymesur ac yn gyson â Rheoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020.

Felly, mae Fferylliaeth Gymunedol Cymru yn argymell y dylid mynd i'r afael â'r pryderon a nodwyd cyn cymeradwyo'r PNA terfynol.

Mewn ymateb i'r fferyllfa ym Menllech, mae wedi'i chynnwys yn y map (fel y gwelir ym map 5.2). Yn anffodus, oherwydd ei hagosrwydd i feddyg fferyllol, roedd wedi cael ei chuddio ar fapiau 5.1 a 8.1. Mae hyn wedi cael ei unioni.

Mewn perthynas ag adleoli'r fferyllfa yr oedd disgwyl iddo fynd rhagddo ym mis Awst 2026, daeth y wybodaeth hon o ymateb i'r holiadur i gontractwyr. Mae'r bwrdd iechyd wedi gwirio ei gofnodion ac nid yw wedi derbyn unrhyw gais gan y contractwr hwn i adleoli ei fferyllfa. Pe câi cais o'r fath ei dderbyn, câi ei bennu yn unol â'r rheoliadau, yn ôl yr angen. Mae rheoliad 19(2) o Reoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 yn caniatáu adleoli mewn dau senario posibl ac mae'r bwrdd iechyd yn aros i weld o dan ba ddarpariaeth y bydd y contractwr hwn yn gwneud cais.

4 Crynodeb o gasgliadau

Mae'r bwrdd iechyd yn falch o nodi bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â chasgliadau'r anghenion o anghenion fferyllol. Mae wedi adolygu'r ymatebion ac mae wedi amlinellu uchod lle y caiff y ddogfen ei diwygio.

Hoffai ddiolch i'r rhai a gymerodd o'u hamser i ddarllen y ddogfen ac i ymateb i'r ymgynghoriad.

5 Monitro Cydraddoldeb

Roedd dau o'r ymatebion yn rhai personol. O'r rhain:

- Dywedodd un ei fod yn Gymreig, a dywedodd y llall ei fod yn Brydeinig.
- Mae un yn 35-44 mlwydd oed, ac mae'r llall yn 55-64 mlwydd oed.
- Mae'r ddau o'r farn mai Saesneg yw eu hiaith gyntaf.
- Mae'r ddau'n gyflogedig fel amser llawn, yn wrywaidd, ac yn heterorywiol/strêt.
- Nid oes gan un unrhyw grefydd; ac mae'r llall yn Gristion.
- Mae'r ddau yn briod.

- Nid yw'r naill na'r llall yn ystyried bod ganddynt anabledd.
- Nid yw eu hunaniaeth o ran rhywedd wedi newid o'r hyn a bennwyd ar adeg eu geni.
- Nid oes gan y naill na'r llall gyfrifoldebau gofalu.
- Nid oedd gan y naill na'r llall unrhyw sylwadau mewn perthynas â'u nodweddion gwarchodedig.

6 Diwygiadau

Mae'r diwygiadau canlynol wedi cael eu gwneud i'r asesiad o anghenion fferyllol:

- Mae symbol wedi cael ei ychwanegu at fapiau 5.1 a 8.1 er mwyn cynrychioli'r fferyllfa ym Menllech.
- Mae adrannau 8.6.1, 8.6.20, 9.6.1, 9.6.20, 10.6.1, 10.6.20, 11.6.1, 11.6.20, 12.6.1, 12.6.20, 13.6.1, 13.6.20, 15.6.1, 15.6.20, 16.6.1, 16.6.20, 18.6.1, 18.6.20, 21.6.1, 21.6.20, 22.4.1, a 22.4.3 wedi cael eu diwygio er mwyn adlewyrchu'r angen diwygiedig yn y dyfodol pe bai angen i bractis meddyg teulu roi'r gorau i ddosbarthu i ardal y mae ganddo gydsyniad amlinellol ar ei chyfer. Mae cyfeiriad at yr anghenion hyn yn y dyfodol yn adran 19.6.1 wedi cael ei ddileu gan nad oes unrhyw feddygon fferyllol yn yr ardal leol hon.
- Mae adran 22.4.2 wedi cael ei diwygio er mwyn mewnosod y gair "nad" i'r frawddeg "Bydd y bwrdd iechyd yn gweithio gyda'r unig fferyllfa nad yw'n darparu'r gwasanaeth hwn".

Atodiad L – oriau agor



BCUHB 2026 PNA atodiad L v1 oriau a